SUPPL. A
61049/A

+113

# GWAITH

# ARISTOTLE,

YR

## Enwog Philosophydd,

SEF EI GYFLAWN

## BRIF ORCHESTWAITH,

YN AMLYGU DIRGELION NATUR

**MEWN PERTHYNAS I GENHEDLIAD DYN.**

AT YR HYN YR YCHWANEGIR

## *MEDDYGINIAETH DEULUAIDD,*

YN CYNWYS

Meddyginiaethau profedig i'r amrywiol Glefydon sydd yn dueddol i ddigwydd i'r Corph dynol.

HEFYD, EI

## FYDWRAIG BROFEDIG,

SEF HYFFORDDIADAU

HOLLOL ANGENRHEIDIOL I LAW-FEDDYGON, BYDWRAGEDD, MAMAETHOD, A MERCHED YN PLANTA.

Yngbyd a'i

## ORCHEST-LYFR,

Yn cynnwys Amrywiol Ofyniadau ac Attebion

PERTHYNOL I ANSAWDD CORPH DYN.

A'I

## GYMMUNRODD OLAF,

Yn gosod allan

**Ddirgelion Natur yn Nghenhedliad Dyn.**

*Wedi ei Gyfieithu o Argraffiad Newydd Diwygiedig.*

---

*GWYNDOD-WRYF:*

Llanrwst:

ARGRAFFWYD GAN JOHN JONES.

YR

# ARWEINIAD I MEWN.

PE gofynid i un o'r dealltwriaeth gwanaf, Pa beth ydyw rhyfeddod y byd? yr ydwyf yn meddwl mai yr atteb mwyaf priodol a fyddai, DYN; yr hwn yw y byd bychan, i'r hwn y mae pob peth yn îs-raddol yn cyttuno, yn yr ystlên a phethau y mae teimlad ganddynt; oll yn bod yn eneidiawl, ond yn wahanol yn y rhywiau; canys dyn yn unig sydd wedi ei gynysgaeddu â rheswm; a chan hyny Duw, yn nghreadigaeth dyn, (fel y mae yr ysgrifenydd ysbrydoledig yn hyspysu i ni) a ddywedodd, "*Gwnawn ddyn ar ein delw ni, wrth ein llun ein hunain.*" Fel pe dywedasai yr Arglwydd, Gwnawn ddyn ar ein delw Ni, i gael iddo ef, fel creadur, fod ar ein llun: a'r un modd yn ei lun, i gael iddo fod ar ein delw Ni. Mae rhai o'r Tadau yn gwahan-nodi, megis wrth y ddelw, fod yr Arglwydd yn planu galluoedd rhesymol yr Enaid, yr Ewyllys, a'r Côf; ac wrth y llun, cynneddfau y Meddwl, Elusen, Cyfiawnder, Amynedd, &c. Ond y mae Moses wedi dyrysu y gwahan-nodiad hwn, os cymharwch y testynau hyn o'r Ysgrythyr, Gen. 1. 7, a'r 5. 1. Col. 10. Eph. 5 14. A'r Apostol lle y dywed, "*Efe a grewyd yn ol delw Duw mewn gwybodaeth, a'r un moodd mewn cyfiawnder*!

Mae y Groegiaid yn ei osod allan fel yn troi ei olygon tuag i fynu, tuag atto ef, delw ac argraph yr hwn y mae yn ei ddwyn.

Wel gwelwn fel y darfu i Ben-saer mawr y Nef
Wiw lunio dyn fel yma,—sef ar ei ddelw ef;
I sefyll,—myned hefyd, ac edrych â gwedd syth,
A chorphyn, wyneb, llygaid; —prawf o'i ddoethineb byth.

Ac mae Cisero yn dywedyd yr un modd a Moses, Y gwnaethpwyd pob creadur i ymlusgo ar y ddaear oddieithr dyn, i'r hwn y rhoddwyd agwedd unionsyth, i fyfyrio ar ei Wneuthurwr, a syllu ar y drigfan sydd wedi ei pharatoi iddo fry.

Yn awr i'r dyben fel na byddai i'r fath greadur godidog a gogoneddus hollol ddarfod, rhyngodd bodd i'r Creawdwr roddi i'r Benywod y maes cenhedliad, er derbyniad yr hâd dynawl; trwy yr hyn y gall yr enaid naturiol a thyfol hwnw, ag sydd yn gorwedd yn allüus yn yr hâd, trwy y gallu cenhedlyddol, gael ei ad-ddwyn i weithredu; fel ag y gall dyn, yr hwn sydd greadur marwol, trwy adael ei eppil o'i ol, ddyfod yn anfarwol, ac oesi yn hwy yn ei hiliogaeth. Ac o herwydd mai y maes cenhedliad yma, y groth, yw y lle yn yr hwn y mae y creadur ardderchog hwn yn cael ei ffurfio, ac yn y fath fodd rhyfeddol, fel ag y darfu i'r Salmydd Brenhinol, wedi myfyrio ar hyny, lefain megis un mewn per-lewyg, "*Rhyfedd ac ofnadwy y'm gwnaeth!*" Bydd yn angenrheidiol ymdrin a thraethu ar hyny yn helaeth yn y llyfr hwn; pa un, i'r dyben hwnw, a ddosparthir yn ddwy ran.

Y gyntaf o hono sydd yn traethu am ddull a rhanau cenhedliad yn y ddau ryw. Canys oddiwrth y chwant cyd-gyfranawl ag sy ganddynt y naill at y llall, yr hyn y mae natur wedi ei reddfu ynddynt i'r dyben hwnw, yr hyfrydwch hwnw ag y maent yn ei gymeryd yn y weithred o ymgyplu,

y mae y rhyw gyfan o ddynolryw yn deillio; a hanes neillduol o'r pethau ag ydynt flaenorol i'r weithred hono, ac hefyd, pa bethau ydynt ganlyniadol iddi; a pha fodd y mae y naill a'r llall o'r aelodau sydd yn perthyn iddi wedi eu cymhwyso a'u haddasu i'r gwaith hwnw i ba un y mae natur wedi eu bwriadu. Ac er, wrth draethu y pethau hyn, y dichon i rywbeth gael ei ddweyd, yr hyn a all y rhai hyny ag ydynt halogedig wneuthur cam arferiad o hono, a'i ddefnyddio fel cenhedliad i gynhyrfu eu chwantau anifeilaidd; etto gall y cyfryw wybod na fwriadwyd hwn erioed iddynt hwy; ac ni's gwn i am unrhyw reswm paham y dylai y personau cymhedrol hyny, i wasanaeth pa rai yr amcanwyd hwn, fod mewn eisiau o'r cynnorthwy a fwriadir iddynt yma, o achos y bydd rhai personau penrhydd yn barod i'w gamarfer.

Mae yr ail ran o'r Traethawd hwn wedi ei fwriadu yn gwbl i'r rhyw Fenywaidd, ac y mae yn traethu yn helaeth, nid yn unig am anhwylderau y groth, a'r amrywiol achosion, ond hefyd yn rhoddi i chwi feddyginiaethau cyfaddas er eu gwellhâd. Canys y cyfryw yw anwybodaeth y rhan fwyaf o fenywod, fel mai pan, trwy unrhyw afiechyd, mae y rhànau hyny yn cael eu cystuddio, nid ydynt byth yn gwybod o ba le y deillia, na pha fodd i gymhwyso meddyginiaeth: a'r cyfryw yw eu gwylder hefyd, fel y maent yn anewyllysgar i ofyn fel yr hyspyser iddynt. Er cynnorthwy y cyfryw y bwriedir hwn; canys, a chenyf fy modolaeth o fenyw, meddyliais nad oedd gan neb fwy o hawl i'r grawnwin na hi yr hon a blànodd y winwydden. A chan hyny, gan sylwi, nad oes yn mhlith yr holl glefydau ag y mae y corph yn ddarostyngedig iddynt, unrhyw rai

yn fwy mynych a pheryglys na'r rhai hyny ag ydynt yn cyfodi oddiwrth ddrwg ansawdd y groth: canys trwy ddrygnaws hóno y blinir y galon, yr afu, a'r ymenydd â doluriau oddiwrth yr hyn y mae y gweithrediadau bywydawl, naturiawl, ac eneidiawl yn cael eu niweidio; ac mae y rhinweddau, bwyd-treulawl, gwaedogawl, cyfranedigawl, denawl, gwrthiadawl, attaliedigawl, â'r gweddill, oll yn cael eu gwanhau, fel mai o'r groth y mae'n dyfod, dirdyniad y gïau, y llesmair-glwyf, y parlys mûd, y parlys, a chlefydau, y dyfr-glwyf, llynorod adwythedig, &c. Ac nid oes unrhyw glefydau mor ddrwg, ar na allant gynyddu yn waeth oddiwrth ei drwg ansawdd hi.

Pa mor angenrheidiol, gan hyny, yw gwybodaeth o'r pethau hyn, boed i bob darllenydd diragfarn farnu: canys, bod llawer o fenywod yn poeni danynt trwy eu hanwybodaeth a'u gwylder, (fel y dywedais o'r blaen,) y mae prawf alaethus yn ei wneuthur yn amlwg. Yma, gan hyny, fal megis mewn drych, hwy a allant gael eu gwneuthur yn gydnabyddus â'u anhwylderau eu hunain, a chael meddyginiaethau cyfaddas heb ymgynghori â meddygon, i'r hyn y mae ynddynt gymmaint o anewyllysgarwch.

PENGORCHWYL

# ARISTOTLE.

## Y RHAN GYNTAF.

### Pen. 1.

Am Briodas, ac yn mha oedran y mae gwyr ieuaingc a gwyryfon yn addas iddi; a phaham y maent yn ei chwennych gymmaint. Hefyd, pa mor hir y mae Meibion a Merched yn alluog i ddwyn plant.

NID oes ond pur ychydig, oddieithr rhai wttreswyr proffesedig, ar na chydunant yn ewyllysgar, fod "Priodas yn anrhydeddus yn mhawb," gan ei bod wedi ei threfnu gan y Nefoedd yn Mharadwys; ac heb yr hon, ni all unrhyw ddyn neu ddynes fod mewn cymhwysder, yn onest, i roddi ufudd-dod i gyfraith gyntaf y greadigaeth, "Ffrwythwch ac amlhewch." A chan ei bod yn naturiol mewn pobl ieuaingc i chwennych yr ymgofleidiadau cydgyfranawl hyn, cyfaddas i'r gwely priodasol, y mae'n gweddu i rïeni edrych ar ol eu plant, a phan y canfyddant hwy yn dueddol i briodi, i beidio yn dreisiol a ffrwyno eu serchiadau, a gwrthwynebu eu tueddiadau (yr hyn yn lle eu lliniaru, sydd yn eu gwneuthur yn fwy gorwyllt,) ond yn hytrach darparu y fath gymhariaid cymwys iddynt, ag a allant wneuthur eu bywydau yn gysurus; rhag y byddai i groesi eu tueddiadau eu chwyrn-daflu i gyflawni y ffolineb hwnw, a all ddwyn gwarthnod annilëadwy ar eu teuluoedd.

Mae tueddiad gwyryfon i briodi i'w adnabod trwy lawer o arwyddion: canys, pan y maent yn cyraedd i oedran addfedrwydd, yr hyn sydd oddeutu y 14*eg* neu y 15*eg* flwyddyn, yna mae eu carthiadau naturiawl yn dechreu; a'r gwaed, yr hwn nid yw mwy yn cael ei gymeryd i gynnyddu ei chorph, yn or-llawn, sydd yn cyffroi eu meddwl i chwantachrwydd. Dichon achosion allanol hefyd eu cynhyrfu iddo; canys eu hysprydoedd, yn bod yn fywiog, ac wedi eu henyn, pan y cyrhaeddont i'r oed hwnw, os bwytânt bethau celyd, heilltion, a phêr-lysiau, y mae y corph yn dyfod yn fwy-fwy poethwŷniawl, trwy yr hyn y mae chwant i'r ymgofleidiadau ymrëwyddol (*venereal embraces*) yn dyfod yn dra mawr, ac weithiau bron yn anorfod. A nacâd o'r peth hwn a chwenychir gymmaint, i wyryfon, yn fynych a ddilynir â chanlyniadau galarus; megis y *green wisel colonet*, diffyg anadl, calon grynedig, &c. Ond wedi iddynt briodi, ac wedi i'w dymuniad ymrewyddol gael eu boddhau, trwy fwynhâd o'u gwŷr, mae yr anhwylderau hyny yn diflanu, ac y maent yn dyfod yn fwy hoenus a bywiog nag o'r blaen. Hefyd, eu llygad-rythiad awyddus ar feibion, a charu eu cymdeithas, sydd yn dangos fod natur yn eu gwasgu ar ymrëad; (*coition*) a thrwy bod eu rhieni yn esgeuluso darparu gwyr iddynt, maent yn tòri trwy wylder i foddhau eu hunain mewn ymgofleidiadau anghyfreithlon. Yr un modd gyda gweddwon bywiog, y rhai na ellir eu boddhau heb y caredigrwydd hwnw gyda pha un y cawsant eu harferyd pan oedd ganddynt wỳr.

Yn 14 oed, mae y mis-lifiant, mewn gwyryfon, yn dechreu dylifo, pan y maent yn alluog i feichiogi, ac y maent yn parhau yn gyffredinol,

i bedair a deugain, pan y maent yn peidio a dwyn plant, oni fydd eu cyrph yn gryfion ac iachus, yr hyn weithiau sydd yn eu galluogi i eppilio yn 55. Ond lawer gwaith y mae y mis-lifiant yn tarddu oddiwrth ryw drais a wnaeth-pwyd i natur, neu rhyw sylwedd heintus, yr hyn yn fynych sydd yn troi allan yn angeuol. A chan hyny, dylai dynion, y rhai ydynt yn awyddus am eppil, brïodi benyw o fewn yr oedran rhag-ddywededig, neu feio eu hunain os cyfarfyddant â siomedigaeth, er, os gwna hên ddyn, heb gael ei dreulio allan gan glefydau ac anniweirdeb, brïodi llangces heinyf fywiog, y mae yno obaith iddo gael plant i 70 neu 80.

Mae Hippocrates yn dywedyd, fod dyn ieuangc o 15, neu rhwng hyny a 17 a chanddo lawer o gryfder bywydawl, yn alluog i gael plant; ac hefyd, fod y grym o eppilio sylwedd yn cynyddu hyd 45, 50, a 55, ac yna yn dechreu llesgâu; yr hâd, yn raddol, yn dyfod yn anffrwythlon, yr ysprydoedd naturiol wedi eu diffodd, a'r gwlybyrau wedi eu sychu i fynu. Fel hyn yn gyffredin, ond am bethau neillduol, y mae yn fynych yn troi allan i'r gwrthwyneb. Ac nid hyny yn unig, ond coffëeir i ni gan awdwr credadwy, ddarfod i ddyn yn *Swèdland* brïodi, yn gan' mlwydd oed, â geneth 30 mlwydd, a chael llawer o blant o honi; ond yr oedd ei wedd mor fywiog, fel nad oedd y rhai ag oeddynt heb ei adnabod, yn ei dybied o fod yn rhagor na 50. Ac yn *Campania*, yn y lle y mae yr awyr yn glir a thymherus, mae dynion 80 yn priodi gwyryfon ieuaingc, ac yn cael plant o honynt; yr hyn sydd yn dangos nad yw oedran ynddynt hwy yn attal eppiliad, oni byddant wedi eu llwyr dreulio yn eu hieuengtyd, a'u gwïalenau wedi crebachu i fynu.

Pe mynai neb un wybod paham y mae benyw yn anffrwythlon yn gynt na mab, gellir sicrhau iddynt fod y gwres naturiol, yr hwn yw yr achos o genhedliad, yn gryfach yn yr olaf na'r blaenaf; canys gan fod benyw yn wirioneddol yn fwy iraidd na mab, fel mae ei charthiadau misawl yn profi; megis hefyd mae meddalwch ei chorph; mae hefyd yn amlwg, ei fod ef yn ei blaenori hi y'mhell mewn gwres naturiawl, yr hwn yw y prif beth ag sydd yn treulio y gwlybyrau i faeth cyfaddas, yr hyn o herwydd fod aryfenyw ei eisiau, sydd yn ei gwneuthur yn frâs; pan mae dyn, trwy ei wrês cynwynol, yn toddi ei frasder yn raddol, ac mae ei wlybyrau yn cael eu dadleithio; a thrwy y lles o hyny, yn cael eu gweithio i hâd. A gellir ychwanegu hyn hefyd, nad yw merched, yn gyffredin ddim mor gryfion a meibion, nac mor gall a phwyllus; ac heb gymmaint o reswm a chywreindeb mewn trefnu gorchwylion; yr hyn a ddengys, fod eu galluoedd trwy hyny yn cael eu hattal mewn gweithrediadau.

---

## Pen. 2.

Pa fodd i gael plentyn Gwrryw neu Fanyw: ac am y plentyn yn y groth cyn cael llun (Embryo) a Genedigaeth perffaith: a'r amser mwyaf cyfaddas i ymgyplu.

PAN yr ymbrioda pâr ieuaingc, y maent yn naturiol yn chwennych plant, a chan hyny yn arfer y moddion ag y mae natur wedi eu trefnu i'r dyben hwnw. Ond etto er hyn oll, rhaid iddynt wybod, fod llwyddiant y cwbl yn ymddibynu ar fendith Duw: nid yn unig felly, ond mae y rhyw, pa un bynag ai gwrryw a'i benyw,

o'i drefniad Ef hefyd; er, na ellir ei wadu, nad oes gan ail achosion effaith yn hyny, yn enwedig dau. Yn gyntaf, y sudd cenhedlyddawl, yr hwn a ddygir gan y rhydweli parotoawl (*arteria præporantes*) i'r rhan ddyblyg mewn benywod, ag sydd yn gwasanaethu er cenhedliad, (*testes*) ar ddull gwaed, ac yno a weithir yn gywrain i hâd, gan y galluedd hadawl sydd yn aros yno. Yn ail, y chwant i ymread, yr hyn sydd yn tanio y dychymyg â blysiadau anarferol, a thrwy gael golwg ar brydferthwch bywiog serchus, a all yn fuan enyn y chwant. Ond os bydd natur wedi llesgâu, rhaid bwyta y cyfryw bethau ag a gyd-weinyddant i roddi y fath borthiant ac a wna i'r hâd amlhau, ac yn adferu anmhariadau natur, i'r dyben i'r galluoedd gael rhydd weithredu, a symud y rhwystrau sydd yn lluddio cenhedliad plant. Wedi hyny, gan fod lluniaeth yn newid drwg ansawdd y corph am un gwell, rhaid i'r rhai hyny ag ydynt ddarostyngedig i anffrwythlondeb, fwyta y cyfryw luniaeth ag sydd yn llawn nôdd, ac yn maethu yn dda, yn gwneuthur y corph yn fywiog ac yn llawn sudd; o ba gynneddf, y mae pob bwyd poeth llaith. Canys yn ol Galen, mae hâd yn cael ei wneuthur o arddigonedd gwyntog o waed treuliadol pur; lle y gallwn gasglu, fod gallu mewn llawer o bethau i gynyrchu hâd, ac hefyd i'w gynhyddu; a phethau eraill o effaith, i beri adeiladaeth, megis wÿau ieir, coed-ieir, cyffylogod, *gnat-snappers*, adar bronfraith, mwyeilch, colomenod ieuangc, golfanod (neu adar tô,) petris, capwlltiaid, cnau groeg, (*almonds*) cnau'r binwydden, *rhesins*, *currins*, gwinoedd cedyrn, a'u cymeryd yn gynil, yn enwedig y rhai hyny wedi eu gwneuthur o rawnwin yr Eidal. Ond y mae adeiladaeth yn

cael ei achlysuro yn benaf gan *scuranum, cringoes, creves, crysmon,* moron gwynion, *artichokes,* maip *asparagus, candied ginger, galings,* mês wedi eu gwneuthur yn llwch, a'u hyfed mewn *muscadel, scalion,* a chregyn bysgod y môr, &c. Ond mae'n rhaid i'r pethau hyn gael amser i gyflawni eu gweithrediadau, a rhaid eu defnyddio am gryn amser, neu ni chewch ond ychydig fudd oddiwrthynt. Wedi i'r weithred o ymrëad fyned drosodd, boed i'r ferch ymorphwys ar ei hochr ddeau, a'i phen yn isel, a'i chorph ar ogwydd, i'r dyben trwy wyro yn yr ystum yma, i'r *cani,* ar yr ochr ddeau i'r groth, droi allan yn lle y beichiogiad; canys yno y mae y gwres cenhedlyddawl mwyaf, yr hwn yw y prif achos o genhedliad plant gwrryw, ac anfynych y mae yn pallu disgwyliadau y rhai hyny ag ydynt yn ei brofi, yn neillduol os gwnant ond cadw eu hunain yn gynes, heb lawer o ysgogiadau, a gogwydd ar yr ochr ddê, ac yfed ychydig o *spirits of saffron,* a sudd isop mewn gwydraid o *malaga* neu *alicant,* pan y maent yn myned i orwedd a chyfodi, am wythnos.

I gael plentyn benywaidd, boed i ferch orwedd ar ei hochr chwith, gan ddychymygu yn gryf am blentyn benywaidd yn amser eppiliad, ac yfed *female mercury,* am bedwar diwrnod, o ddiwrnod cyntaf y carthiad; mae gan y *male mercury* gyffelyb effaith yn achos y gwrrywaidd; canys mae y berwad treuliadawl hwn yn carthu ochr ddeau ac aswy y groth, yn agor y derbynfeydd, ac yn gwneuthur ffordd i'r hadfa cenhedliad. Yr amser goreu i genhedlu plentyn benywaidd, yw, pan mae y lleuad yn lleihau, yn *Libra* neu *Aquarius.* Dywed Avicene, pan y bydd y mis-lifiant wedi treulio, a'r groth wedi ei glanhau,

yr hyn yn gyffredin sydd mewn pum' neu saith niwrnod fan bellaf, os gorwedd dyn gyda'i wraig o'r diwrnod cyntaf y carthwyd hi i'r pumed, y gwna hi genhedlu gwrryw; ond o'r pumed i'r wythfed, benyw; ac o'r wythfed i'r deuddegfed, gwrryw drachefn; ond ar ol hyny, yr un o honynt hwyrach yn wahanuodol, pob un yn ddeurywiol. Mewn gair rhaid i'r rhai hyny a fynant fod yn happus yn ffrwyth eu llafur, wylio am arfer ymread mewn yspaid o bellder dyledus, nid yn rhy fynych nac yn rhy anfynych, canys mae y naill yr un mor niweidiol a'r llall; ac mae ei arferyd yn annghymedrol, yn gwanychu, ac yn difrodi yr ysprydoedd, ac yn difetha yr hâd. A hyn yma dan y pen cyntaf. Yr ail ydyw, i roddi gwybodaeth i'r darllenydd pa fodd y mae y plentyn yn cael ei lunio yn y groth, pa ddigwyddiadau y mae yn agored iddynt yno, a pha fodd y mae yn cael ei feithrin a'i ddwyn y'mlaen. Mae amrywiol dybiau mewn perthynas i'r testyn hwn, gan hyny, caf ddangos pa beth a ddywed y dysgedig am hyny.

Mae dyn yn gyfansoddedig o ŵy, yr hwn a feichiogir yn offerynau yr hâd yn y fenyw, [*testicles*] trwy y rhan mwyaf treiddiol o hâd y mab; ond y galluoedd lluniol ac effaith yn yr hâd, ydynt roddion dwyfol, gan ei fod wedi ei helaethlawn gynysgaeddu âg yspryd bywyd, yr hyn sydd yn rhoddi nôdd a llun i'r anelwig ddefnydd, *embryo*; fel y mae holl ranau a maint y corph, yr hwn a wneir i fynu mewn ychydig fisoedd, âc a ffurfir yn raddol i ystum hawddgar dyn, yn gynnwysedig yn, ac yn cael ei gynllunio trwy hyny; wedi cael ei ddatgan yn dra dyrchafedig, yn 139 Salm, "Clodforaf di, O ARGLWYDD, canys ofnadwy a rhyfedd y'm gwnaed,"

Mae Meddygon wedi nodi pedwar o amserau gwahanol, yn y rhai y mae dyn yn cael ei gyfansoddi a'i berffeithio yn y groth: y lloer gyntaf ar ol ymread, yn cael ei berffeithio yn yr wythnos gyntaf, os na ddigwydd llifiad; yr hwn weithiau sydd yn syrthio allan trwy lithrigrwydd pen y groth, ag sydd yn ymsymud drosodd fel rhosyn pen-gauad, ac yn agor yn ddisymwyth. Yr ali yspaid o amser a benodir, pan y mae natur yn gwneuthur cyfnewidiad amlwg yn y beichiogiad, fel y mae yr holl sylwedd yn ymddangos yn gig a gwaed cyd-dewychawl, ac y mae yn digwydd ddeuddeg neu bedwar diwrnod ar-ddeg ar ol ymgypliad. Ac er fod y pentwr cigog hwn yn llawn o waed enynawl, etto mae yn aros yn anwahanadwy, heblun, a gellir ei alw yr anelwig ddefnydd; a'i gydmaru â hâd wedi ei hau yn y ddaear, yr hwn trwy wrês a lleithder, sydd yn tyfu yn raddol, i lun perffaith, mewn planhigyn neu yden. Y trydydd yspaid a benodir i wneuthur i fynu y cyfansoddiad hwn yw, pan y mae y prif ranau yn ymddangos yn amlwg; megis y galon, o ba un y deillia y rhedweliau; yr ymenydd, o'r rhai y mae y gewynau, megis edafedd main, yn rhedeg trwy yr holl gorph; a'r afu, ag sydd yn gwahanu y caul oddiwrth y gwaed, wedi ei ddwyn iddo gan y *Vena Porta*, y wythien fawr neu y brif. Y ddau gyntaf yw ffynon bywyd, ag sydd yn maethu pob rhan o'r corph; yn ffurfiad pa rai, mae galluedd y groth yn cael ei gladdu, o amser beichiogiad i'r wythfed dydd o'r mis cyntaf. Y pedwerydd a'r olaf, oddeutu y degfed dydd-ar hugain, mae y rhanau allanol idd eu gweled wedi eu gweithio yn gywrain, yn cael eu dosbarthu gan gymalau. O

ba yspaid nid yw mwyach yn annelwig ddefnydd, ond yn berffaith blentyn.

Mae y rhan fwyaf o wrrywod yn berffaith erbyn y 30*ed*, dydd, ond nid ydyw benywod nod yn anfynych hyd y 42 neu 45 dydd, o herwydd fod gwrês y groth yn fwy wrth ymddwyn y gwrryw na'r benyw. Ac, am yr un rheswm, mae merch a fydd yn feichiog ar blentyn gwrryw, yn bywiogi mewn tri mis; ond yn feichiog ar fenyw, yn anfynych dan bedwar mis: yn yr hwn amser mae ei wallt a'i ewinedd yn tarddu allan; ac y mae y plentyn yn dechreu ymgynhyrfu, troedio, ac ymsymud yn y groth; a'r pryd hyn mae y ferch yn cael ei blino gan ddiflasdod at ei bwyd, a blys awyddus i bethau gwrthwyneb i fagwriaeth, megis glo, ysgarthion, pridd-galch, &c., yr hwn awydd sydd yn fynych yn peri erthyliad ac aflwyddiant. Mae rhai merched wedi bod mor afresymol a blysio hoelion, lledr, cnawd dyn, cnawd ceffyl, ac ymborth annaturiol yn gystal ac afiachus eraill; o eisiau pa bethau, darfu iddynt naill ai aflwyddo, neu darfu i'r plentyn barhau yn farw yn y groth am lawer o ddyddiau, er enbydrwydd bygythiol eu bywydau. Ond yn awr mi a âf y'mlaen i ddangos trwy ba foddion gwirioneddol y mae y plentyn yn cael ei gynnal yn y groth, ac yn mha ystum y mae yn aros y gweddill o'r amser yno.



Llun Gwyryf oll yn flewog, a Baban a anwyd yn ddu trwy ddych'mygion y Rhieni.

AMRYWIOL ydyw y tybiau yn nghylch meithriniaeth yr annelwig ddefnydd yn y groth. Rhai a ddywedant trwy waed yn unig, o linyn y bogail; eraill, trwy gaul yn cael ei gymeryd i mewn trwy'r genau. Ond y mae yn cael ei feithrin mewn ffyrdd gwahanol, yn unol ag amrywiol raddau perffeithiad; ac y mae ŵy yn myned o feichiogiad yn annelwig ddefnydd yn barod i esgoriad. Ond, yn gyntaf, boed i ni egluro ystyr yr *ovum* neu ŵy. Yn nghenedliad yr annelwig ddefnydd y mae dwy egwyddor, y wneuthurol, â'r oddefedigol: y wneuthurol yw hâd y mab; wedi cael ei gywrain weithio yn y rhanau dirgel a elwir y *testicles*, allan o'r gwaed rhydweliawl, a'r ysprydoedd eneidiol; yr oddefedigol sydd ŵy, wedi cael ei feichiogi gan hâd y mab. Natur beichiogiad sydd fel hyn; mae

y gyfran fwyaf ysprydog o hâd y mab, yn y weithred o eppiliad, yn cyraedd i fynu i ranau dirgel y fenyw, a elwir y *testicles*, yr hon, yn cynwys amrywiol ŵyau, sydd yn peri beichiogiad un o honynt; a chan gael ei drosglwyddo gan yr hyn a elwir *oviductus*, i waelod y groth, yn ddioed y mae yn dechreu ymchwydd fwy-fwy, ac y mae yn yfed i mewn y gwlybwr a yrir yno yn ehelaeth, fel y mae hadau yn sugno gwlybwr yn y ddaear i wneuthur iddynt dori allan. Pan y mae rhanau yr annelwig ddefnydd yn dechreu dyfod ychydig yn fwy perffaith, ac ar yr un pryd, pan mae un o'r pilionenau mawr a elwir y *chorin* mor dew, fel na all y gwlybwr fwydo drwyddi, y llestri bogeiliawl (*umbilical vessels*) yn dechreu cael eu llunio, a lledu ochr y bilionen nesaf i mewn (gyda'r hon y mae yr annelwig ddefnydd yn y groth yn fwyaf digyfrwng yn cael ei gysgodi) a elwir yr *amnion*, yr hon y maent yn passio drwyddi, ac oll trwy y *chorin* a'r *aliantreides*, ac ydynt yn cael eu gwreiddio yn yr hemysgar a elwir y *placenta*, yr hyn yn crynhoi ar y *chorin*, sydd yn uno i'r groth. Ac yn awr, mae y rhydweliau ag oeddynt o'r blaen yn anfon allan y maeth i geudod y groth, yn agor o'r safn-dwll i'r hemysgar, y *placenta*, lle y maent yn rhoddi ynghadw y dywededig sudd, yr hwn a yfir i fynu gan linyn y bogail; yn cael ei drosglwyddo ganddo ef i'r annelwig ddefnydd, yna i'r galon, lle y troir ei gyfran deneu ac ysprydog i waed, tra mae y rhan dewaf, gan ddisgyn trwy y rhydweli fawr, (*aorta*) yn myned i mewn i'r rhydweliau bogeiliawl, ac yn cael ei ollwng idd eu ceudod gan y ceingciau hyny ag ydynt yn rhedeg trwy yr *amnion*.

Cyn gynted ag y mae y genau, cylla, sefnig,


&c., wedi eu ffurfio mor berffaith, fel ag y gall yr annelwig ddefnydd lyngcu, y mae yn sugno i mewn beth o'r nôdd magwriaethol tewaf, ag sydd yn nghadw yn yr *amnion*, gan y rhedweliau bogeiliawl, yr hwn gau ddisgyn i'r cylla ac yr ymysgaroedd, a dderbynir gan y gwythienau llaethog, fel mewn rhai mewn oedran.

Yr annelwig ddefnydd wedi cael ei berffeithio, yn yr amser a nodwyd o'r blaen, yn ei holl ranau, y mae yn gorwedd yn gyfartaledig yn nghanol y groth, ar ei ben; ac wedi ei hir droi drosodd fel ag y mae y pen yn gogwyddo ychydig, y mae yn dodi ei ên ar ei fynwes, ei sodlau a'i fferau ar ei gluniau, ei ddwylaw ar ei ruddiau, a'i fodiau at ei lygaid; ond y mae ei goesau a'i forddwydydd yn arwedd ar i fynu, a'i arrau yn plygu, fel ag y maent yn cyffwrdd gwaelod ei fól; y blaenaf, a'r rhan hwnw o'r corph ag sydd gyfarwyneb â ni, megis y talcen, y trwyn, a'r wyneb, ydynt tua chefn y fam, y pen yn gogwyddo i wared tu ag asgwrn y gloren, ag sydd yn uno â'r *Os Sacrum*; yr hwn asgwrn y'nghyd â'r *Os Pubis*, yn amser genedigaeth, a laceir.

Mae y dysgedig Hippocrates yn haeru, fod y plentyn, fel y mae yn cael ei osod yn y groth, a chanddo ei ddwy-law ar ei liniau, a'i ben yn ogwyddedig at ei draed; fel ag y mae yn gorwedd yn grwn y'nghyd, ei ddwylaw ar ei liniau, a'i wyneb rhyngddynt, fel ag y mae y ddau lygad yn cyffwrdd y ddwy fawd, a'i drwyn rhwng ei liniau. Ac o'r un farn yn hyn yr oedd Bartholinus. Mae Columbus o'r farn, fod dull y plentyn yn y groth yn grwn, y fraich ddeau yn blygedig, y bysedd dan y glust, ac uwchlaw y gwddf, y pen yn blygedig, fel ag y mae yr ên yn cyffwrdd y bronau, y fraich aswy yn blygedig

uwchlaw y bronau a'r wyneb, ac yn cael ei dàl i fynu gan blygiad y fraich ddeau; mae y cocsau yn codi ar i fynu, y ddeau cyn gymaint, fel ag y mae y forddwyd yn cyffwrdd y bòl, y gliniau, y bogail, mae y sawdl yn cyffwrdd y glin aswy, ac y mae y troed yn troi yn ol, ac yn gorchuddio y dirgeloedd; y mae y forddwyd aswy yn cyffwrdd y bol, y glîn y bogail, mae y sawdl yn cyffwrdd y glîn aswy, ac y mae y troed yn troi yn ol, ac yn gorchuddio y dirgeloedd; mae y forddwyd aswy yn cyffwrdd y bol, ac y mae y goes yn codi ar i fynu i'r bronau fel isod.

## DULL PLENTYN YN Y GROTH.



## Pen. 3.

Y Rheswm paham y mae Plant yn debyg idd eu Rhieni, a bod dychymygion y Fam yn cyd-gyfranu at hyny; a pha un ai y Mab ai y Ferch ydyw yr achos o gael Plentyn Gwrryw neu Fenyw.

YN yr achos o gyffelybrwydd, nid oes dim yn fwy galluog na dychymyg y fam; canys os gwna hi sefydlu ei llygaid ar unrhyw wrthrych, gwna y fath argraff ar ei meddwl, fel ag y mae yn digwydd yn fynych fod gan y plentyn ddarluniad o hono ar ryw gyfran o'i gorph. Ac os, yn y weithred o ymgypliad, y bydd i'r fenyw edrych yn graff ar y dyn, a sefydlu ei meddwl arno, y plentyn a debyga idd ei dâd. Ac nid hyny yn unig, os gwna merch, hyd yn nod mewn ymgypliad anghyfreithlon, sefydlu ei meddwl ar ei gŵr, y plentyn a debyga iddo ef, er na wnaeth efe ei genhedlu. Yr un effaith sydd gan ddychymyg mewn peri dafadenau, tyrfiadau, mànau-geni, a saethiadu; er yn wir eu bod weithiau yn digwydd trwy ddychrynfeydd neu flysiadau afradus. Llawer o ferched beichiog, ar weled ysgyfarnog yn croesi y ffordd o'u blaenau, trwy rym dychymyg, a esgorant ar blentyn â gwefus flewog. Genir rhai plant gyda thrwynau gwastad, a safnau hyll-gam, gwefusau tewion mawr, a chyrph afluniaidd; yr hyn a raid ei gyfrif i ddychymyg y fam, yr hon sydd wedi sefydlu ei llygaid a'i meddwl ar ryw greadur afluniaidd. Gan hyny gweddai i bob merch feichiog ochelyd y fath ymddangosiadau, os bydd modd, o leiaf i beidio sylwi arnynt. Ond er y gall dychymyg y fam gyfranu llawer at wêdd y plentyn, etto mewn moesau, deall, a thueddfryd y meddwl,

dywed prawf i ni, fod plant yn gyffredin o'r un gyflwr, a'r un tymherau a'u rhieni. Ond y mae egniad neu anallu personau yn y weithred o ymgypliad, yn fynych yn peri iddi fod i'r gwrthwyneb; canys plant wedi eu cenhedlu trwy wrês a chryfder chwant, raid gyfranogi mwy o natur a thueddiadau eu rhieni, na'r rhai hyny wedi eu cenhedlu â chwant mwy egwan; a chan hyny, plant wedi eu cenhedlu gan ddynion yn eu henaint, ydynt yn gyffredin yn fwy egwan na'r rhai hyny a genhedlid ganddynt yn eu hieuengctyd. Am y rhán ag sydd gan y naill a'r llall o'r rhieni yn nghenhedliad y plentyn, cawn roddi barnau yr hynafiaid yn eu cylch.

Er ei bod yn amlwg, meddant hwy, mai hâd y mab yw prif effeithydd dechreuad y weithred, ysgogiad, a chenhedliad; etto fod y ferch yn rhoddi hâd, ac yn cyd-gyfranu yn effeithiol ar y golwg yna i eppiliad y plentyn, sydd yn cael ei brofi trwy resymau cedyrn. Yn y lle cyntaf, buasai y llestri hadfa wedi cael eu rhoddi iddi'n ofer, â'r dirgeloedd eppilgar a elwid y *testicles* eu traws-symud, pe buasai y ferch mewn eisiau hâd tyfol, (*seminal excrescence*) canys nid yw natur yn gwneuthur dim yn ofer; a chan hyny rhaid i ni ganiatau, ddarfod eu gwneuthur er gwasanaeth hâd a chenhedliad, a'u bod wedi eu gosod yn eu rhanau priodol, yr eirin a derbynfeydd yr hâd, natur pa rai yw gweithredu a rhoddi rhinwedd i'r had. Ac i brofi hyn, nid oes angen am gadarnach rheswm, meddant hwy, nag os na wna merch ddefnyddio ymarëad i fwrw allan ei hâd, y mae hi yn fynych yn syrthio i glefydau dieithriol, fel yr ymddengys oddiwrth ferched ieuaingc a gwyryfon. Ail reswm ag y maent yn ei gymell yw, er nad yw cymdeithas gwely cyfreithlon yn

gynnwysedig yn hollol yn hyn, etto y mae yn amlwg nad yw y rhyw fenywaidd un amser yn fwy boddlawn, nac yn ymddangos yn fwy hoenus a llawen, na phan eu boddlonir y ffordd hon: yr hyn sydd annogaeth i gredu fod ganddynt fwy o bleser a mwynhad yn hyny na meibion. Canys yn gymaint a bod natur yn peri i fawr hyfrydwch ddilyn bwriad allan, (*ejection*) trwy dorriad allan yr ysprydoedd chwyddedig, a chyflymdra y gïau; yn mha amgylchiad, y mae gweithrediad o du y fenyw yn ddyblyg, a hi yn cael mwynhâd trwy fwriad allan, (*ejection*) a derbyniad, trwy yr hyn y mae hi yn cael mwy o hyfrydwch yn y weithred.

Oddiyma y mae, meddant hwy, fod y plentyn yn fwy mynych yn tebygu idd ei fam na'i dad, o herwydd mai y fam sydd yn cyfranu fwyaf tu ag atto. A meddyliant hwy y gellir rhoddi engraifft y'mhellach, oddiwrth y serch anwylaidd ag y maent yn ei ddwyn tu ag atynt; o herwydd y maent, heblaw eu cyfraniad o sylwedd hadawl, yn porthi a maethu y plentyn â'r ffynhonell o waed puraf hyd ei enedigaeth. Yr hyn dyb y mae Galen yn ei gadarnhau, trwy ganiatau fod plant yn cyfranogi fwyaf o'r fam; a chyfrif y gwahaniaeth rhywaiu i weithrediad y gwaed misawl; ond y rheswm am y tebygolrwydd a fwria efe ar allu yr hâd: canys, megis ag y mae y planhigion yn derbyn mwy o faeth oddiwrth dir ffrwythlon nag oddiwrth ddiwydrwydd y llafurwr; felly y mae y baban yn derbyn mwy o lawnder oddiwrth y fam na'r tad. Canys y mae hâd y naill a'r llall yn cael ei feithrin yn y groth, ac yno yn tyfu i berffeithrwydd, gan ei fod yn cael ei faethu â gwaed. Ac am hyn, meddant hwy, y mae y plant, am y rhan fwyaf, yn well

ganddynt eu mam, o herwydd eu bod yn derbyn y rhàn fwyaf o'u sylwedd oddiwrth eu mam: am oddeutu naw mis y mae hi yn maethu ei phlentyn yn y groth â'i gwaed puraf, wedi hyny mae ei chariad atto newydd ei eni, a'i lun, yn dangos yn amlwg fod y ferch yn rhoddi hâd, ac yn cyfrànu mwy tuag at wneuthur y plentyn na'r mab.

Ond yn hyn oll yr oedd yr hynafiaid yn drachyfeiliornus: canys nid yw rhánau dirgel, y *iesticles*, a elwir felly mewn benywod, yn rhoddi dim hâd, ond dau ŵy ydynt, fel y rhai hyny o eiddo adar, a chreaduriaid eraill; ychwaith nid oes iddynt unrhyw swydd, fel y rhai hyny o eiddo meibion; ond yn wirioneddol ydynt yr ŵyau-lestri, (*ovaria*) yn y rhai y mae yr ŵyau yn cael eu meithrin gan y llestri gwaedlyd ag ydynt wedi eu gwasgaru trwyddynt; ac oddiyma, y mae un neu ychwaneg, fel y maent yn cael eu ffrwythloni gan hâd y mab, yn cael eu gwahanu a'u trosglwyddo i'r groth gan yr hyn a elwir *oviductus.* Mae gwirionedd hyn yn eglur, canys os berwch hwy, bydd eu gwlybwr o'r un lliw, blas, a thewwch, ac ŵyau adar. Os gwrthddadleuir nad os ganddynt blisg, nid yw hyny o ddim pwys: canys nid oes gan ŵyau adar, tra maent yn y llestri a elwir *ovary*, ïe, ar ol iddynt gael eu sicrhau oddimewn i'r brû, ddim plisg. Ac er, pan eu dodwer, fod ganddynt un, etto nid yw hyny yn ddim yn ychwaneg nag amddiffynfa a ddarparodd natur iddynt rhag unrhyw niwaid allanol, tra y maent wedi eu dëori tu allan i'r corph; gan fod y rhai hyny o eiddo benywod wedi cael eu dëori oddimewn i'r corph, nid rhaid iddynt wrth unrhyw achles arall amgen na'r groth, gan yr hon y maent yn cael eu digonol

ddiogelu. Ac y mae hyn yn ddigon, gobeithiaf, er egluro hyn.

Am y trydydd peth a osodwyd ger bron, megis o ba le y tÿf y rhyw, a pha un ai y dyn ai y ddynes yw yr achos o'r baban gwrryw neu fanyw. Yr achos dechreuol sydd raid i ni ei gyfrif i Dduw, fel y mae yn fwyaf cyflawn yn perthyn iddo, yr hwn yw llywodraethwr a threfnwr pob peth: etto y mae efe yn goddef i lawer o bethau fyned y'mlaen yn ol rhëolau natur, wrth eu hysgogiadau cynnwynol, yn unol â llwybrau arferol a naturiol, heb amrywiad; er mae'n wir trwy ffafr oddiuchod, darfu i Sarah, genhedlu Isaac; Hana, Samuel; ac Elizabeth, Ioan Fedyddiwr: ond pethau tra anghyffredin oedd y rhai hyn oll, wedi eu dwyn i gymeryd lle trwy allu dwyfol, goruwch-naturiol; nac ni bu y fath engraifftiau yn eisiau mewn amser diweddarach: gan hyny gadawaf hwynt heibio, ac âf y'mlaen i draethu am bethau naturiol.

Dywed yr hen Feddygon a'r Philosophyddion gynt, yn gymaint a bod dwy egwyddor allan o ba rai y gwneir corph dyn, a'r hyn sydd yn gwneuthur y plentyn yn debyg idd ei rïeni, a chan y naill neu'r llall o'r rhywiau, sef hâd cyffredin i'r ddau ryw, a gwaed misawl, priodawl i'r fenyw yn unig; rhaid, meddant hwy, i'r tebygolrwydd fod yn gynwysedig y'ngrym a rhinwedd y gwrryw neu'r banyw; fel ag y mae yn troi allan yn debyg i'r naill neu'r llall, yn unol â'r swm ag sydd yn cael ei roddi gan y naill neu'r llall; ond nad yw gwahaniaeth y rhyw yn cael ei fwrw ar yr hâd, ond ar y gwaed misawl, yr hwn sydd briodol i'r fenyw yn unig, sydd amlwg; canys, pe bai y grym hwnw oll yn cael ei ddal yn yr hâd, plant gwrryw a amlhant, ac ycbydig

o'r rhai benywaidd a genhedlid; gan fod yr hâd gwrryw o'r rhyw poethaf; o herwydd paham priodolir y rhyw i dymheredd y cynneddfau gwneuthurol, yr hyn sydd yn gynwysedig mewn gwres ac oerfel, a natur y sylwedd odditanynt; h. y. dylifiad y gwaed misawl; ond yn awr, mae y gwaed, meddant hwy, yn rhoddi i'r naill a'r llall, rym i eppilio a llunio y plentyn, â sylwedd er ei genhedliaid; ac yn y gwaed misawl mae y ddau sylwedd a grym; canys fel mai yr hâd sy'n cynnorthwyo fwyaf ar yr egwyddor sylweddol, fel hefyd mae y gwaed misawl i'r hâd galluogol; yr hyn, medd Galen, sydd waed wedi ei iawn-dreulio yn y llestri ag ydynt yn ei gynnwys. Fel mai y gwaed yw nid yn unig y sylwedd er cenhedliad y plentyn, ond hâd hefyd, yn gymaint a'i bod yn annichonadwy fod y ddwy egwyddor yn y gwaed misawl.

Dywed yr henafiaid hefyd, mai yr hâd yw yr effeithydd cryfaf, y sylwedd o hono yn dra bychan mewn swm, ond mae y gyneddf alluogol yn dra chrêf; o herwydd paham, pe buasai yr egwyddorion hyn o genhedliad, yn ol pa rai y gwneir y rhyw, ond yn unig yn y gwaed misawl, meddant, yna byddai y plant oll agos yn fenywaidd; megis pe byddai y grym effeithiol yn yr hâd, y byddent oll yn wrryw: ond yn gymaint a bod gan y naill a'r llall weithrediad yn y gwaed misawl, y mae sylwedd yn gorfodogi mewn swm, ac yn yr hâd grym a rhinwedd. A chan hyny, mae Galen yn meddwl fod y plentyn yn derbyn ei ryw yn hytrach oddiwrth y fam na'r tad; canys, er fod ei hâd ef yn cyfranu ychydig at yr egwyddor sylweddol, etto y mae yn fwy egwan. Ond am debygolrwydd, fe'i cyfrifir yn hytrach ar y tad na'r fam. Etto y mae hâd y ferch, gan ei fod

yn derbyn nerth oddiwrth y gwaed misawl, am yr yspaid o naw mis, yn gorchfygu eiddo y dyn, mewn perthynas i'r peth neillduol hwnw; canys mae y gwaed misawl yn dylifo mewn llestri, yn meithrin y naill yn hytrach na'r llall; oddiwrth yr hyn y mae yn eglur, fod y fenyw yn rhoddi sylwedd i wneuthur, a grym a rhinwedd i berffeithio y beichiogiad; er fod yr hâd benywaidd yn fagwriaeth cymwys i'r gwrrywaidd, o achos ei deneuwch, gan ei fod yn fwy cymwys i wneud i fyny feichiogiad trwy hyny. Canys megis ag y gall y celfyddwr lunio o gŵyr meddal a chlai llaith, yr hyn ag y mae yn ei amcanu, felly meddant hwy, y mae hâd dyn yn cymysgu gyda eiddo y fenyw, hefyd gyda y gwaed misawl, yn cynorthwyo i wneuthur llun a rhán perffaith dyn.

Ond, gyda'r parch mwyaf i ddoethineb ein tadau, caniatewch i mi ddywedyd, fod eu hanwybodaeth yn nifyniaeth (*anatomy*) corph dyn, wedi eu tywys i lwybrau cyfeiliornad, a'u gyru i amryfuseddau mawrion. Canys yn gymaint a bod eu lled-dyb am ffurfiad yr annelwig ddefnydd, oddiwrth gyd-gymysgfa o waed, a'i feithriniaeth hefyd yn y gwaed misawl, yn hollol anghywir, y mae yn rhaid idd eu barn yn yr achos hwn, o anghenrheidrwydd fod felly yr un modd.

Gan hyny, terfynaf y bènod hon gyda sylwi, er y gall dychymyg cryf o eiddo y fenyw, yn fynych benderfynu y rhyw, etto y prif weithredydd yn yr achos hwn yw yr egwyddor genhedlyddol neu luniol, unol â'r cyfreithiau neu'r rhéolau hyny a roddwyd i ni gan y Creawdwr doeth, yr hwn sydd yn ei wneuthur ac yn ei ffurfio, a thrwy hyny yn pènodi y rhyw yn unol â chyngor ei ewyllys.

## Pen. 4.

Nad yw Enaid Dyn yn cael ei genhedlu gan y Rhïeni, ond yn cael ei roddi gan ei Grëwr: ac na all na marw na llygru. Yn mha amser y mae yn cael ei roddi. Am ei anfarwoldeb, a sicrwydd adgyfodiad.

MAE enaid dyn o'r fath natur ddwyfol a rhagorolrwydd, fel na all dyn ei hunan ei amgyffred, gan mai anadl rhoddedig yr HOLLALLUOG yw, o natur anfarwol, ac nid idd ei amgyffred ond ganddo Ef yr hwn a'i rhoes. Canys Moses; trwy ysprydoliaeth sanctaidd, yn adrodd am ddechreuad dyn, a ddywed i ni, ddarfod i 'Dduw anadlu yn ei ffroenau ef anadl einioes, ac efe a aeth yn enaid byw.' Yn awr, am bob creadur arall, wrth ei air y gwnaethpwyd hwy, ac y cawsant fywyd; ond y creadur ag a osodes Duw dros ei waith, ydoedd ei wneuthuriad neillduol, wedi ei ffurfio ganddo ef o bridd y ddaear, ac efe a ymddarostyngodd i anadlu yn ei ffroenau anadl einioes; yr hyn a ymddengys i ddynodi y naill a'r llall, gofal, ac os gallwn ei alw felly, llafur a arferwyd gyda dyn, yn fwy na phob creadur arall, gan nad oes ond efe yn unig yn cyfranogi o'r natur ddwyfol wynfydedig, yn dwyn delw DUW mewn diniweidrwydd a phurdeb, tra y safodd yn ddïanwadal; a phan trwy ei gwymp, yr anffurfiwyd y ddelw fywiol hono, etto y fath ydoedd cariad y Creawdwr tuag atto, fel ag y cafodd allan ffordd idd ei adferu; unig'anedig Fab y Tad trag'wyddol, yn dyfod i'r byd i ddinystrio gweithredoedd y diafol, ac i gyfodi dyn i fynu o'r cyflwr isel hwnw; i'r hwn yr oedd ei bechod a'i gwymp wedi ei ddwyn ef, i gyflwr goruwch hwnw o eiddo angylion.

Os, gan hyny, y mŷn dyn amgyffred rhagorolrwydd ei enaid, bydded iddo droi ei olwg oddimewn, ac edrych iddo ei hun, a chwilio ei feddwl ei hun yn ddiwyd; ac yno efe a wêl lawer o ddoniau rhyfeddol, ac addurniadau ardderchog, a raid ei lenwi â syndod ac aruthredd; megis rheswm, dëalltwriaeth, rhyddid yr ewyllys, côf, &c., ag ydynt yn dangos yn eglur fod yr enaid yn ddisgynedig o ddechreuad nefolaidd; a'i fod gan hyny, o barhâd annherfynol, ac heb fod yn ddarostyngedig i ddiddymiant. Etto, o herwydd ei aml swyddau a'i weithrediadau tra yn y corph, y mae yn myned dan amrywiol enwau: canys, pan y mae yn adfywio y corph, gelwir ef enaid; pan y mae yn rhoddi gwybodaeth, gallu'r meddwl i farnu; a phan y mae yn ad-alw pethau a aethant heibio, y côf; tra y mae yn ymresymu ac yn dirnad, rheswm; tra mae yn myfyrio, yr yspryd; tra mae y rhanau teimladol, y synwyrau. A'r rhai hyn ydynt y prif swyddau, trwy y rhai y mae yr enaid yn mynegi ei alluoedd, ac yn cwblhau ei weithrediad. O herwydd, ei aneddle yn bod yn y rhánau uchaf o'r oorph, y mae yn taenu ei rym i bob aelod. Nid yw wedi ei genhedlu oddiwrth y rhieni, nac yn gymysgedig â sylwedd tew, ond anadl rhoddedig Duw, yn deillio yn ddigyfrwng oddiwrtho Ef; nid yn myned heibio o un i arall, fel yr ydoedd barn Pythagoras, yr hwn oedd yn dàl traws-eneidiad; ond fod yr enaid yn cael ei roddi i bob baban trwy dywalltiad, yw y farn fwyaf derbyniol ac union-gred. Ac mae y dysgedigion yn yr un modd yn cyduno, fod hyn yn cael ei wneuthur pan y perffeithir y baban yn y groth, yr hyn sy'n digwydd oddeutu y 24 dydd ar ol beichiogiad; yn enwedig i wrrywiaid, pa rai yn gyffredinol a

enir yn niwedd y nawfed mis: ond nid mewn benywod, y rhai nid ydynt yn cael eu llunio a'u perffeithio cyn gynted, trwy ddiffyg gwres, hyd y 50 dydd. Ac er na ellir rhoddi i lawr y diwrnod hwn yn wirioneddol yn mhob amgylchiad, etto y mae Hippocrates wedi rhoddi fel ei farn ef, ei fod felly pan y mae y plentyn wedi ei lunio, ac yn dechreu ymsymud, pan wedi ei ddwyn mewn amser cyfaddas. Yn ei lyfr am natur babanod, efe a ddywed, Os un gwrryw fydd, ac os bydd yn berffaith ar y degfed-dydd-ar-hugain, ac os ymsymud ar y 70 dydd, efe a enir yn y 7 mis; ond os bydd wedi ei berffaith lunio ar y 35 dydd, efe a ymsymud ar y 90 dydd, ac a enir yn yr wythfed mis. Drachefn, os bydd wedi ei berffaith lunio ar y 45 dydd, efe a ymsymud ar y 90 dydd, ac a enir yn y nawfed mis. Yn awr oddiwrth y cerddediad hwn o ddyddiau a misoedd, ymddengys yn amlwg fod diwrnod y lluniad wedi ei ddyblu yn gwneyd i fynu ddiwrnod y symudiad, a'r diwrnod hwn yn gyfrifedig deir-gwaith yn gwneud i fynu ddiwrnod y genedigaeth. Megis fal hyn, pan y mae 35 yn perffeithio y llun, os dyblwch hwy, y maent yn gwneuthur 70 yn ddiwrnod yr ysgogiad; ac mae tair gwaith 70 yn dyfod i 210 o ddyddiau, yr hyn a rhoddi 30 dydd yn y mis, sydd yn gwneuthur 7 mis: ac felly rhaid i chwi ystyried y gweddill. Ond am un benyw, y mae yr amgylchiad yn wahanol, o herwydd y mae yn hwy yn perffeithio yn y groth, y fam bob amser yn myned yn hwy gyda geneth na bachgen, yr hyn sydd yn gwneuthur i'r cyfrif amrywio; canys un benyw wedi ei lunio mewn 30 dydd, nid yw yn ymsymud hyd 70 dydd, ac fe'i genir yn yr wythfed mis; *

* Tebycach mai y seithfed yw i fod.

pan eu llunir ar y 40, nid yw yn ymsymud hyd yr 80 dydd, ac fe'i genir yn yr wythfed mis; ond os bydd wedi ei berffeith lunio ar y 45 dydd, y mae yn ymsymud ar y 90 dydd, ac yn cael ei eni yn y nawfed mis; ond os bydd iddo ef yr hwn a lunir ar y 60 dydd, ymsymud ar y 110 dydd, fe'i genir yn y degfed mis. Yr wyf yn ymdriu yn fwy helaeth ar hyn, i gael i'r darllenydd wybod nad yw yr enaid rhesymol yn cael ei genhedlu gan y rhieni, ond yn cael ei dywallt gan yr Hollalluog, pan mae gan y plentyn ei berffaith ffurf, ac y mae yn gywrain ddosparthedig yn ei luniau.

Yn awr, gan fod bywyd pob creadur arall, fel y dengys Moses, yn y gwaed, felly y mae bywyd dyn yn gynnwysedig yn yr enaïd, yr hwn er ei fod yn ddarostyngedig i nwyd, o achos cyd-gasgliadau tew y corph, yn yr hwn y mae iddo garchar amserol, etto y mae yn anfarwol, ac ni all ynddo ei hun lygru neu oddef cyfnewidiad, yn gymaint a'i fod yn wreichionen o'r Meddwl Dwyfol. A bod gan bob dyn enaid priodol iddo ei hun, sydd yn ymddangos yn amlwg, oddiwrth y dirfawr wahaniaeth rhwng yr ewyllys, gallu y meddwl, tŷb, moesau, a serchiadau mewn dynion. Hyn y mae Dafydd yn sylwi arno, pan y dywed, fod 'Duw yn llunio calonau a meddyliau dynion: a rhoddi i bob un ei fodolaeth, ac enaid o'i natur ei hun.' Oddiyma y llawenychodd Selyf, fod Duw wedi rhoddi iddo enaid, a chorph cyfatebol iddo. Y mae wedi bod mewn dadl y'mhlith y dysgedig, y'mha ran o'r corph y mae yr enaid yn trigo; mae rhai o'r farn fod ei aneddle y'nghanol y galon, a'i fod oddiyno yn hyspysu ei hun i bob rhan: yr hyn y mae Selyf yn ymddangos idd ei gadarnhau pan y dywed, "Cadw dy galon yn

dra diesgelus; canys allan o honi y mae bywyd yn dyfod." Ond y mae llawer o Feddygon cywrain, ar ol chwilio gwaith natur yn nifyniaeth (*anatomy*) corph dyn, yn haeru, fod ei brif aneddle yn yr ymenydd, o ba le y deillia y synhwyrau, y cyneddfau, â'r gweithrediadau, yn taenu ar lêd weithrediad yr enaid trwy holl ranau y corph; trwy yr hyn y mae yn cael ei adfywio gyda gwres a grym i'r galon, gan y rhedweliau, *corcodites*, neu y rhedweliau cysglyd, y rhai sydd yn ymwahanu ar y groth; pa rai, os digwyddant gael eu tori, neu eu briwo, sydd yn peri anffrwythlondeb; ac os attelir hwy, y parlys mud; canys rhaid o angenrheidrwydd fod yno ffyrdd trwy ba rai y gall yr ysprydoedd eneidiol, a bywydawl, gael rhydd-rediad, a throsglwyddo gwres cynwynol o'r enaid. Canys, er fod gan yr enaid ei brif aneddle mewn un lle, y mae yn gweithredu yn mhob rhan, gan ymsymud pob aelod, y rhai ydynt offerynau yr enaid trwy ba rai y mae yn dadguddio ei allu. Ond os damweinia i unrhyw o'r rhanau offerynol fod allan o hwyl, y mae ei holl waith yn ddyrysedig, fal yr ymddengys oddiwrth ddynion hurt, a gwallgofiaid: er mewn rhai o honynt fod yr enaid, trwy ymegniad grymus o'i allu, yn ail gaffael ei gryfder cynhenid, ac y maent yn dyfod i'r iawn ar ol digalondid meddwl hir: ond mewn eraill ni ail-geffir drachefn yn y bywyd hwn. O herwydd, megis nad yw tân o dan ludw, neu yr haul wedi cael ei dywyllu o'n golwg gan gwmwl tew, yn rhoddi eu disgleirder cytreithlawn, felly yr enaid wedi ei orchuddio mewn sylwedd suddlawn neu heintus, sydd wedi ei dywyllu, a rheswm trwy hyny wedi ei gymylu; ac er fod rheswm mewn plentyn yn dysgleirio llai nag mewn rhai mewn

oedran, etto ni raid i undyn ddychymygu, fod enaid baban yn tyfu gyda'r plentyn, canys yna darfyddai drachefn; ond y mae yn cyfatteb ei hun i wendid natur, ac eiddilwch corph, yn yr hwn y mae wedi ei osod, fel y gall yn well weithredu. Ac fel y mae y corph yn dyfod yn fwy-fwy galluog i dderbyn ei ddylanwad, felly mae yr enaid yn ystyn ei gyneddfau fwy-fwy, a chanddo rym a doniau yn yr amser y mae yn myned i mewn i lun plentyn yn y groth; canys ni all ei sylwedd dderbyn dim llai. A hyn yma i brofi nad yw yr enaid yn dyfod oddiwrth y rhieni, ond yn cael ei roddi gan Dduw. Yn nesaf caf brofi ei anfarwoldeb, ac felly arddangos sicrwydd ein hadgyfodiad.

## AM ANFARWOLDEB YR ENAID.

MAI pelydryn dwyfol yw yr enaid, wedi cael ei roddi gan y Creawdwr goruchel, yr wyf wedi ei brofi eisoes, ac yn awr yr wyf yn dyfod i ddangos, y rhaid i ba beth bynnag ag sydd yn deillio o hono ef yn ddigyfrwng, ac yn cyfranogi o'i natur, fod yr un mor anfarwol a'i ddechreuad; canys er fod pob creadur arall wedi eu cynysgaeddu â bywyd ac ysgogiad, etto y maent mewn eisiau o enaid rhesymol, ac oddiwrth hyny y cesglir, fod eu bywyd yn eu gwaed, ac a hwy yn llygradwy, y maent yn trengi, ac nid ydynt mwy; ond dyn, gan ei fod wedi ei gynysgaeddu gydâg enaid rhesymol, ac wedi ei nodi gyda'r ddelw Ddwyfol, sydd o natur wahanol; ac er idd ei gorph fod yn llygredig, etto ei enaid yn bod o natur anfarwol, ni all drengi: ond a raid, ar ymddatodiad y corph, ddychwel at Dduw, yr hwn a'i rhoes ef, i dderbyn naill ai gwobr ai cosp. Yn awr, y gall y corph bechu o hono ei hun

sydd anniehonadwy; o herwydd ag eisiau yr enaid, yr hwn ydyw egwyddor bywyd, ni all weithredu na myned y'mlaen i unrhyw beth, da neu ddrwg; o herwydd pe gallai wneuthur felly, diehonai iddo hyd yn nod beehu yn y bedd; ond y mae'n eglur fod gorphwysiad ar ol marwolaeth, canys fel ag y mae angau yn ein gadael, felly y caiff barn ni.

Yn awr, wedi i reswm eglur brofi anfarwoldeb yr enaid, y mae yr Ysgrythyrau Sanetaidd yn helaeth dystiolaethu am wirionedd yr adgyfodiad; fel y gall y darllenydd weled trwy ddarllen y 14*eg* a'r 15*fed* bènod o Job, a'r 5*ed* o Ioan. Gan hyny gadawaf bellaeh ymresymu ar y testyn hwn i Ddifinyddion, swydd brïodol pa rai ydyw, a dyehwelaf i ymdrin â gweithredoedd natur.

---

## Pen. 5.

**Am Anghenfilod, a genedigaethau Anghenfilaidd: a'r amrywiol resymau am hyny, yn ol tyb yr Hynafiaid Hefyd, pa un ai ydyw Anghenfilod wedi eu cynysgaeddu âg Eneidiau rhesymol: a pha un a all Diafliaid eppilio; a drinir yma ar fyr eiriau.**

GAN yr hynafiaid, Anghenfilod ydynt yn eael eu eyfrif i feiehiogiadau halogedig, ae a fwriedir i fod yn eithriadau o eiddo natur, pa rai ydynt ddrygionus un o'r pedair ffordd hyny; naill ai mewn llun, maintioli, sefyllfa, neu rifedi.

Mewn llun, pan mae dyn yn dwyn y eymeriad o fwystfil, fel y gwnaeth hwnw yn *Saxony*. Ac mewn maintioli, pan nad yw un rhàn yn cyfatteb i'r llall: megis pan mae un rhàn yn rhy fawr

neu rhy fychan i'r rhànau eraill o'r corph. Ond y mae hyn mor gyffredin yn ein mysg, fel nai raid i mi ddwyn tystiolaeth am dano.




Ganwyd Anghenfil yn Ravenna, yn yr Eidal, o'r fath hwn, yn y flwyddyn 1512.

Ar y'mlaen i egluro yr achosion o'u cenhedliad, yr hyn sydd naill ai dwyfol ai naturiol. Mae yr achos dwyfol yn deillio o ewyllys cènadigol Duw, yn goddef i rieni i ymddwyn ffieidd-dra, am eu gwynniau ffiaidd a llygredig, y rhai a ollyngir yn rhydd i ddrygioni, fal anifeiliaid direswm heb ganddynt ddeall. O herwydd pa ham gwnaethpwyd cyfraith yn mysg yr hen Rufeiniaid, na chai y rhai hyny ag oeddynt afluniaidd mewn unrhyw fodd eu gollwng i mewn i dai crefyddol. Ac yr oedd St. Jerome yn cael ei ofidio yn ei amser ef, o weled yr afluniaidd a'r efrydd yn offrymu aberth ysprydol i Dduw mewn tai crefyddol. Ac y mae Keckerman, mewn ffordd o ddilyniad, yn cau allan bawb ag ydynt afluniaidd

o'i weinidogaeth henaduriawl hon, yn yr eglwys, A'r hyn sy o fwy grym na'r cwbl, darfu i Dduw ei hun orchymyn i Moses beidio a derbyn y fath i aberthu yn mhlith ei bobl; ac y mae efe yn rhoddi rheswm am hyny, 'Rhag iddo halogi fy nghyscgroedd.' O herwydd fod afluneiddrwydd allanol y corph yn fynych yn arwydd o halogrwydd y galon, fal melldith wedi ei osod ar y plentyn am anniweirdeb y rhieni. Etto nid yw bob amser felly. Boed i ni gan hyny ddyledus arholi, a chwilio allan yr achos naturiol o'u cenhedliad; yr hyn (yn ol yr henafiaid, y rhai a ddwfn-dreiddiasant i ddirgelion natur) sydd naill ai yn y sylwedd neu yn y gweithredydd; yn yr hâd, neu yn y groth.

Gall y sylwedd fod mewn gwall ddwy ffordd, trwy ddiffyg, neu trwy ormodedd; trwy ddiffyg, pan nad oes gan y plentyn ond un fraich; trwy ormodedd, pan mae ganddo dair llaw neu ddau bén. Cenhedlir rhai anghenfilod trwy orweddiad annaturiol dynes gydag anifeiliaid: megis yn y flwyddyn 1603, cenhedlwyd anghenfil trwy i ddynes eppilio gyda chi; yr hwn anghefil, o'r bogail i fynu, oedd ganddo berffaith ddelw ei fam; ond o'i fogail i lawr, yr oedd yn gyffelyb i gi, fel y gellwch weled wrth y llun canlynol.



Dichon i'r gweithredydd neu y groth, fod mewn anaf dair ffordd; Yn 1af, y gynneddf luniol yr hon a ddichon fod yn rhy gref neu ry wàn, trwy yr hyn y ccir llun llygredig; yn ail, yn yr offeryn, neu le'r beichiogiad; drwy gyfluniau neu dymmer yr hon, a bâr enedigacth anghenfilaidd: Yn 3ydd, yn y gallu dychymygol, yn amser beichiogiad; yr hwn sydd o'r fath rym, fel ag y mae yn argraffu cymeriad y peth a ddychymygir ar y plentyn. Fel ag y gall plant puttein-wraig fod yn debyg idd ei gŵr ei hun, er wedi eu cenhedlu gan ddyn arall; yr hyn a achlysurir trwy rym dychymyg ag sydd yn y ddynes am ei gŵr ei hun yn y weithred o ymgypliad. Ac mi a glywais am ferch, yr hon yn amser beichiogiad, yn gweled darlun dyn du, a genhedlodd ac a esgorodd ar Ethiop. Ni flinaf chwi gyd ag ychwaneg o dystiolaethau dynol, ond terfynaf gyd ag awdurdod cadarnach. Yr ydym yn darllen (Gen. 30.) pa fodd y darfu i Jacob, wedi iddo gyttuno â Laban i gael yr holl ddefaid brithion am gadw ei braidd, i ychwanegu ei gyflog,

gymeryd gwiail eyll, a dirisglo ynddynt ddirisgliadau gwynion, a'u gosod hwynt o flaen y praidd pan ddeuent i yfed, ac wedi eyfebru yno y'nghyd, tra y gwelent y gwiail, hwy a gyfebrasant ae a ddygasant ŵyn.

Anghenfil arall yn darlunio plentyn blewog. Yr oedd oll wedi ei orehuddio â blew fal anifail. Yr hyn oedd yn ei wneuthur yn fwy dyehrynllyd ydoedd, fod ei fogail yn y lle y dylasai y trwyn sefyll, a'i lygaid wedi eu gosod lle y dylasai y safn fod; ac yr oedd ei safn yn ei ên. Yr oedd o'r rhyw wrrywaidd, ae fe'i ganwyd yn Ffrainc, yn y flwyddyn 1597, mewn tref a elwir *Arles* yn *Provence*, ae efe a fu fyw yehydig ddyddiau, gan ddyehrynu pawb a'i gwelai. Edryehid arno fal rhagflaenydd i'r anrheithiadau hyny, pa rai yn fuan wedi hyny a ddigwyddasant yn y deyrnas hono, lle yr oedd dynion, y naill at y llall, yn fwy tebyg i fwystfilod nag i greaduriaid dynol.



Lle genir plant fel hyn â chlôg,
Gâs flewog wisg aflawen,
Arnodi i'r wlad lid nefoedd wiw
E dybiaf yw y dyben.

Ganwyd Anghenfil yn Nazara, yn y flwyddyn 1530. Yr oedd ganddo bedair braich a phedair coes, yn bod o'r un dull a'r llun isod.



Yr un modd, yn nheyrnasiad Harri III. esgorodd dynes ar blentyn, a chanddo ddau bèn a phedair braich, ac yr oedd y cyrph wedi eu huno o'r tu cefn; yr oedd y pènau wedi eu gosod yn y fath ddull, fel yr oeddynt yn edrych yn wrthwyneb idd eu gilydd; yr oedd gan y ddau ddwy fraich a dwy law gwahanol; hwy ill dau a chwarddent, ill dau a siaradent, ac ill dau a wylent, a byddent yn newynog y'nghyd: weithiau siaradai un, a byddai y llall yn ddistaw, ac weithiau siaradai y ddau yn nghyd. Bu fyw amryw flynyddau, ond darfu i un oesi yn hwy na'r llall o dair blynedd, gan gario yr un marw (canys nid oedd modd idd eu gwahanu) hyd oni ddarfu i'r llall lewygu dan y baich, a mwy gyda drewdod yr ysgerbwd marw.



Mae dychymyg hefyd yn gweithredu ar y plentyn, ar ol beichiogiad, am yr hyn y mae genym engraifft eglur.

Boneddiges deilwng yn *Suffolk*, yr hon a hi yn feichiog, yn myned heibio i gigydd yn llâdd, darfu i ddyferyn o waed neidio ar ei hwyneb; ar hyny hi a ddywedodd, y byddai gan ei phlentyn anaf ar ei wyneb; ac ar ei enedigaeth, cafwyd ef wedi ei nodi gydâg ysmotyn côch.

Y mae'n ddilys, fod genedigaethau anghenfilaidd yn digwydd yn fynych trwy ymgypliad anaddas; o herwydd y mae rhai, wedi bod yn hir yn absennol oddiwrth y naill y llall, a chanddynt chwant awyddus i fwynhâd, nad ydynt yn ystyried fal y dylëynt, i wneuthur fel mae eu hamgylchiadau yn gofyn. Ac os digwyddai iddynt ddyfod y'nghyd, pan y mae mis-lifiant y fenyw yn dylifo, ac er hyny yn myned y'mlaen â'r weithred o ymrain, yr hyn sydd aflan ac annaturiol; y mae y canlyniad o'r fath ymrëad yn fynych yn troi allan yn anghenfilaidd, fal cosb gyfiawn am wneuthur yr hyn ag y mae

natur yn ei wahardd, a chan hyny, bydded dynion mor awyddus ag y b'ont am hyny, etto dylai benywod, gan eu bod yn wybodus o'u cyflwr eu hunain, ar y fath amser, wrthod eu cyfeillach. Ac er nad yw y fath ymrëadau bob amser yn dwyn allan enedigaethau anghenfilaidd, etto y mae y plant a genhedlir y pryd hwnw, yn gyffredin yn hwyrdrwm, hurt, a musgrell, ac yn ddiffygiol yn eu dealltwriaeth, ac eisiau y llonder a'r bywiogrwydd, yr hyn ag y mae plant wedi eu cenhedlu mewn amser priodol wedi eu cynysgaeddu â hwy.

Wrth y llun canlynol gellwch weled, er y gellir bod mewn eisiau o rai o'r aelodau, etto eu bod yn cael eu hadgyflenwi gan eraill.



Y mae yn ol yn awr i mi wneuthur peth ymofyniad, pa un ai eneidiau rhesymol yw y rhai hyny a enir yn anghenfilod, ag a ydynt yn gyfaddas i adgyfodiad. Ac yma y mae y

Difinyddion a Meddygon yn gyffredin o'r dyb fod ganddynt hwy, y rhai yn ol trefn cenhedliad, casgledig oddiwrth ein rhieni cyntaf, sydd yn deillio trwy foddion naturiol oddiwrth un o'r ddau ryw, er y gall eu ffurf allanol fod yn aflun-iaidd ac anghenfilaidd, er hyny enaid rhesymol, ac yn ganlynol dichon eu cyrff adgyfodi, megis eiddo meibion a merched eraill; ond yr anghen-filod hyny ar na chenhedlwyd gan ddynion, ond ydynt ffrwyth chwantau annaturiol benyw yn ymgydio gyda chreaduriaid eraill, a gânt drengi fel yr anifeiliaid direswm, gan y rhai y cawsant eu cenhedlu, yn gymaint ag nad oes ganddynt enaid rhesymol, nac unrhyw anadl o eiddo yr Hollalluog wedi ei roddi o'u mewn: a'r fath ni allant fyth fod yn gymwys i adgyfodiad. Ac mae yr unrhyw yn wirionedd hefyd am enedig-aethau anmherffaith ac annhymyg.

Rhai ydynt o'r farn, y gallai anghenfilod gael eu eppilio gan ryw yspryd dieflig. O'r meddwl yma yr oedd Agidus Facius, yn traethu am anghenfil afluniaidd a anwyd yn *Cracovis*: ac ysgrifenodd Hinonamus Gardanus am wyryf ag ydoedd yn feichiog ar blentyn o ddiafol, a hi yn tybied mai gŵr ieuangc prydferth oedd. Coffeir y cyffelyb hefyd gan Vicentius, am y prophwyd Merddin, ddarfod ei genhedlu gan yspryd drwg. Ond pa wrthosodiad a fyddai i grefydd a natur, pe gallai y diafliaid genhedlu dynion; pan ein dysgir i gredu, na chenhedlwyd neb erioed heb hâd dynol, oddieithr Mab Duw? am hyny y diafol, ac ef yn yspryd, ac heb fod ganddo ddim sylwedd corphorol, nid oes ganddo hâd cenhedl-iad; a dywedyd y gall efe ddefnyddio y weithred o genhedlu yn effeithiol, yw haeru, y gall efe wneuthur peth o ddim, ac o ganlyniad haeru fod

y diafol yn Dduw, canys creu a berthyn i Dduw yn unig. Drachefn, pe gallai y diafol ryfygu cymeryd iddo ei hun gorph dynol, a bywiogi ei gyneddfau, a pheri iddo eppilio, fel mae rhai yn haeru y gall, etto rhaid i'r corph hwn ddwyn delw y diafol. Ac y mae meddwl y rhoddai Duw ganiatâd cyn belled i'r diafol, fel ag o ddelw Duw, i gyfodi ei eppil dieflig ei hun, yn terfynu ar gabledd. Yn ysgol natur, dysgir ni i'r gwrthwyneb, sef, fod y cyffelyb yn cenhedlu ei gyffelyb: ("*Mal bo'r dyn y bydd ei lwdn,*") gan hyny, o ddiafol nis gall dyn gael ei eni. Etto nid yw yn cael ei wadu, na all diafliaid gan ddull-neidio eu hunain i lun dynol, anmharchu meibion a merched, a chyda phobl ddrygionus arfer ymgydiad cnawdol; ond y gall unrhyw gyffelyb gydiad annaturiol ddwyn allan greadur dynol, sydd wrthwyneb i natur a chrefydd.

---

## Pen. 6.

Am gyflwr dedwydd Priodas, fel y mae yn cael ei happwyntio gan Dduw; y gwir Ddedwyddwch ag sydd yn dylifo trwyddi i'r ddau Ryw, ac i ba ddyben ei hordeiniwyd.

YN ddiamheuol, uniad calonau mewn glân briodas, yw, o bob cyflwr, y mwyaf dedwydd, canys y pryd y mae gan ddyn ail iddo ei hun; i ba un y gall amlygu ei feddyliau; yn gystal a chydymaith melys yn ei lafur, y mae ganddo un yn mynwes yr hon, fel mewn cisten ddiogel, y gall efe ymddiried ei ddirgelion dyfnaf, yn enwedig yn y lle y mae cariad o'r ddwy ochr, a hyder dihalog wedi ei sefydlu: canys yno ni all

unrhyw bryder, ofn, eiddigedd, drwg-dyb, neu gasineb byth ymwthio i mewn. Canys pa ddyn erioed a gashaodd ei gnawd ei hun? ac yn ddiau y mae gwraig yn, neu hi a ddylai gael, os ystyrir hi yn iawn, fel yr iawn sylwodd ein hen-dad Adda, ei pharchu gan bob dyn gonest fel 'Asgwrn o'i asgwrn, a chnawd o'i gnawd,' &c. Nac nid y gofal lleiaf o eiddo yr Hollalluog, ydoedd ordeinio y fath undeb agos, a hyny i ddau beth, yn 1af, er cynydd hiliogaeth: yn 2il, i ffrwyno serchiadau a chwantau crwydredig dyn: ac fel y byddant etto yn fwy dedwydd, pan unodd Duw hwy y'nghyd, Efe a'u 'bendithiodd hwynt;' megis yn Gen. 2. Columila, yn myfyrio ar y cyflwr dedwydd yma, a ddywed, allan o Reolau Teuluaidd Xenophon, mai y gwely priodasol yw nid yn unig y ffordd fwyaf hyfryd, ond y fwyaf manteisiol o fywyd, a ellir myned iddi er cadwraeth a chynydd hiliogaeth. O herwydd paham, gan mai priodas yw y sefyllfa fwyaf diogel, sicr, a hyfryd, o eiddo dynolryw, nid yw yr hwn sydd yn dra chwannog, trwy gymhelliadau natur, i genhedlu ei gyffelyb, mewn unrhyw fodd yn darbod yn feius ar ei dawelwch ei hun, trwy fyned iddi, yn enwedig pan y daw i oedran addfedrwydd.

Mae llawer o bethau yn amgen nag y gweddent mewn priodas, gwrthwyneb i'r hyn a ordeinwyd, yr hyn bethau, yn y benod ganlynol, a ddygaf i'r golwg. Ond i fyned y'mlaen: gan weled fod ein Iachawdwr bendigedig a'i apostolion Sanctaidd yn ffieiddio chwantau anghyfreithlon, ac wedi cyhoeddi y rhai hyny a halogant eu hunain trwy odineb a phutteindra yn gauedig allan o deyrnas nef, nis gallaf i ddirnad pa wyneb sydd gan ddynion i liwio eu hanraslonrwydd, y rhai

gan gashau priodas, sydd yn ei wneuthur yn fyfyrdod iddynt pa fodd y gallant fyw yn benrhydd; canys, wrth wneuthur felly, y maent yn ceisio iddynt eu hunain boen, pryder, ac aflonyddwch, yn hytrach na difyrwch sefydlog; heblaw peryglu eu henaid anfarwol; a sicr yw, na ddichon i gyflog-serch, fod yn wirioneddol a diffuant, a chan hyny ni all fod yn hyfryd, ond yn hytrach rhwyd wedi ei gosod i fradychu y cyfryw ag ydynt yn ymddiried iddynt i bob drwg, fel y sylwa Selyf am y gŵr ieuangc heb ddeall ganddo, yr hwn a drôdd i dŷ'r buttain, 'fel aderyn yn prysuro i'r fagl, neu fel yr ŷch yn myned i'r lladdfa, hyd oni ddryllia'r saeth ei afu ef.' Nac yn yr amgylchiad hwn nis gallant gael plant, y gwystlon anwylaidd hyny o serch dyweddïawl: neu, os cânt, gwnant yn hytrach droi idd eu cywilydd na'u cysur, gan ddwyn y du-nod atgas o fastarddiaid. Mae putteiniaid hefyd yn gyffelyb i wenoliaid, yn ehedeg yn y tymhor hâf o lwyddiant; ond y tywydd du ystormus o adfyd yn dyfod, y maent yn cymeryd yr aden ac yn ehedeg i barthau eraill; h. y. chwilio am gariadau eraill; ond gwraig rinweddol ddiwair, gan sefydlu ei serch cyfan ar ei gŵr, ac ymostwng iddo fel ei phen a'i brenin, wrth gyfarwyddyd yr hwn y dylai hi gyfeirio yn mhob gyrfa gyfreithlon, a una yn amyneddgar fal cydymaith ffyddlon, i fod yn gyfranog gyd ag ef yn mhob adfyd, rhedeg gyda sirioldeb trwy bob anhawsderau a pheryglon, pa mor enbydus bynnag, idd ei noddi neu ei gynorthwyo mewn tylodi, selni, neu pa anffawd bynag arall a ddichon ddigwydd iddo, gan weithredu yn ol ei dyledswydd y'mhob peth: ond puttain falch orglwyddaidd a wna fwy nag y mae hi yn ei chwenych,

yn amser heulen llwyddiant; ac, fel gele'r march, bob amser yn crefu, a byth heb ei boddloni; yn wastadol yn ymddangos yn anfoddlon, os na ellir atteb ei holl ddychwantau afradus; heb ystyried y distryw a'r trueni ag y mae hi yn eu dwyn arno trwy y moddion hyny, er ei bod yn ymddangos o fod yn dotio arno, gan arfer cadarnhau ei rhagrith gyda dagrau, addunedau a llesmeiriau bradwraidd, pan mae ei hun twylledig i ymadael am dro, neu yr ymddengys ond i nacau ei dymuniadau anghymedrol: etto nid yw hyn yn parhau dim yn hwy na thra gall hi foddlau ei hawydd, ac anrheithio ei gynysgaeth.

Yn awr, i'r gwrthwyneb y mae gwraig gariadus, ddiwair, a thawel-fryd, yn ceisio yr hyn a all i attal y fath beryglon, ac y'mhob sefyllfa y mae hi yn gwneud y cwbl idd ei wneuthur ef yn esmwyth, Ac, mewn gair, megis nad oes dim boddlondeb yn nghofleidiau puttain, felly nid oes dim mwy llawenydd i'w gael nag mewn serch gwraig garuaidd, ufydd a diwair. Nac nid hyny yw y prif ddyben i ba un yr ordeiniwyd priodas, ond fel y byddai i'r dyn ddilyn cyfraith ei greadigaeth; trwy gynhyddu ei rywogaeth, a llenwi y ddaear; canys hyn oedd y gochymyn a roddwyd iddo yn Mharadwys cyn ei gwymp. I ddybenu, gwraig rinweddol sydd goron ac addurn idd ei gŵr, ac y mae ei phris uwchlaw gemau gwerthfawr; ond ffyrdd puttain ydynt siomedig a thwyllodrus.

## Pen. 7.

Am Amryfuseddau mewn Priodas—Paham y maent—
A'r Niwaid o honynt.

WRTH amryfuseddau mewn priodas, meddyliaf annghymwysderau y personau yn priodi i fyned i'r sefyllfa hon, a hyny mewn perthynas i'r naill a'r llall, oedran ac ansawdd eu cyrph; a chan hyny dylai y rhai hyny ag ydynt yn bwriadu myned i'r sefyllfa hono, sylwi ar eu gallu, a pheidio a thaflu eu hunain i anghyfleusterau; canys gellir dywedyd fod y rhai hyny ag ydynt yn priodi yn rhy ieuaingc, yn priodi yn anamserol, heb ystyried eu hanallu, na chwilio grym natur; canys y mae rhai, cyn eu bod yn addfed er cyflawniad y fath achos pwysig, pa rai, naill a'i yn fyrbwyll, o'u cydsyniad eu hunain, neu trwy gymhelliad dirprwywyr, neu fargeinwyr dros eraill, neu ynte yn cael eu dirgymell i hyny gan eu rhieni, y rhai ydynt yn trachwantu cynhysgaeth fawr, sydd yn cymeryd arnynt yr iau hon idd eu niwaid; trwy yr hyn y mae rhai cyn pen blwyddyn wedi cael eu gwanhau i'r fath radd, fel yr oedd eu holl wlybwr bywydawl wedi darfod; yr hyn ni adferwyd mo'no drachefn heb fawr drafferth, a defnyddio cyffuriau. O herwydd pa ham, fy nghyngor yw, nad yw mewn un modd yn gyfaddas i oddef i blant, neu y cyfryw ag nad ydynt mewn oedran cyfaddas, i briodi neu ymddwyn plant.

Dylai efe yr hwn sydd yn amcanu priodi, ac yn ewyllysio mwynhau dedwyddwch yn y sefyllfa hono, ddewis gwraig yn ddisgynedig o rieni gonest, cymhedrol; a hi yn bod yn ddiwair, boneddigaidd, ac o foesau da. Canys os bydd gan

ferch gyneddfau da, y mae ganddi gynhysgaeth digonol. Hono o eiddo Alcmena in Plautus, sydd yn fawr i'r perwyl, yn y lle y mae efe yn dwyn i mewn ferch ieuangc yn llefaru fal hyn:—

Nid wyf yn cym'ryd hyny i fod
Fy ngwaddol yn y byd,
A eilw'r werin (beth di glod)
Yn fri a golud clyd:
Ond fy holl ddymuniadau clau
Terfynu maent yn hyn.—
I'm gŵr yn ffyddlon ufuddhau,
A bod yn ddiwair un;
Ac o fy mewn boed ofn fy Nuw,
Prydferthwch yn fy mryd;
I wnenthur da a thuedd wiw
Rinweddol ynddo o hyd.

A thybiaf ei bod ar yr iawn, canys mae y cyfryw wraig yn fwy gwerthfawr na gemau.

Mae yn sicr mai dyledswydd rhieni yw bod yn ofalus i ddwyn eu plant i fynu yn ffyrdd rhinwedd, a bod ganddynt olwg ar eu parch a'u cymeriad; ac yn enwedig o wyryfon, pan wedi tyfu i oedran priodi. Canys fel y nodwyd o'r blaen, os trwy ormod llymder y rhieni, y gallant gael eu croesi yn eu serch, y mae llawer o honynt yn taflu eu hunain i freichiau anniwair y tymher hudol nesaf a ddaw yn y ffordd, gan eu bod trwy feddalwch ac ystwythder eu natur, a'r dymuniad cryf ag sydd ynddynt ar ol yr hyn ag y mae natur yn eu cadarn annog iddo, yn hawdd yn cael eu tueddu i gredu gau addunedau dynion, o briodas addawedig, i gysgodi eu cywilydd; ac yna yn rhy ddiweddar mae eu rhieni yn edifarhau am eu llymder, yr hyn a ddygodd warth annileadwy ar eu teuluoedd.

Anmryfusedd arall mewn priodas yw anghyfaraledd oedran yn y pleidiau a briodir; megis i

ddyn ieuangc, yr hwn i 'chwanegu ei gynysgaeth, sydd yn priodi dynes ddigon hên i fod yn nain iddo; rhwng pa rai, am y rhan amlaf, cynen, eiddigedd, ac anfoddlonrwydd, ydynt yr holl fendithion ag sydd yn coroni y gwely priodasol, gan ei bod yn annichonadwy i'r cyfryw gael dim plant. Y cyffelyb a ellir ei ddweyd, er gyda pheth esgus, pan y mae hen ŵr gweddw penwàn yn priodi gwyryf yn mlodau ei dyddiau a'i grym, yr hwn, tra y mae yn ofer yn ymgais idd ei boddhau, sydd trwy hyn wedi ei briodi idd ei fedd. Canys megis mewn ieuengctyd anaddfed, y mae yn anghyfaddas ac yn anamserol i feddwl am briodas, felly priodi mewn henaint, sydd yn hollol yr un fath; canys hwy y rhai ydynt yn myned iddi yn rhy fuan, ydynt yn fuan wedi eu llwyr dreulio, ag ydynt yn syrthio i ddarfodedigaeth, ac amrywiol anhwylderau eraill; ac y mae y rhai hyny ag ydynt yn oedi ac yn priodi, yn anweddaidd, yn syrthio i'r cyffelyb anghyfleusterau; o'r tu arall, heb fod ganddynt ond yr anrhydedd hwn yn unig, os hên wŷr y maent yn dyfod yn gwcwalltiaid (*cuckolds*) ieuaingc, yn enwedig os na bydd eu gwragedd wedi eu dwyn i fynu yn llwybrau rhinwedd, ac yn bod yn rhy agored i daerni a hudiad dynion anllad a halogedig. A hyn yma am amryfuseddau priodasau byrbwyll ac anystyriol.

## Pen. 8.

**Tyb y Dysgedigion mewn perthynas i Blant wedi beichiogi arnynt a'u geni o fewn saith Mis: gyda rhesymau ar y testyn, i ragflaenu amheuaeth o Anniweirdeb, ac ymrysonau chwerwon ar y cyfrif hwnw. At yr hyn yr ychwanegir Rheolau i adnabod ansawdd iechyd Corph Dyn wrth y rhanau Cenhedlawl.**

LLAWER o ymrafaelion chwerwon ydynt yn digwydd rhwng dynion â'u gwragedd, oddiar dyb y dyn fod ei blentyn yn dyfod yn rhy fuan, ac o ganlyniad na allaï fod mai efe yw y tad: yn gymmaint ag mai trwy ddiffyg deall dirgelion natur mae y dyn yn cael ei ddwyn i'r amryfusedd hwnw; a'r hyn pe gwybuasai a allasai ei feddyginiaethu o'i amheuaeth a'i eiddigedd.

I symud yr hyn, myfi a ymdrechaf i brofi ei bod yn ddichonadwy, ac wedi bod yn fynych yn wybyddus fod plant wedi cael eu geni mewn saith mis. Darfu i amgylchiadau o'r natur yma a ddigwyddasant, roddi gwaith i'r cyfreithwyr, pa rai a'u gadawsant i'r Meddygon i farnu, trwy edrych y plentyn, pa un ai plentyn mewn saith, wyth, neu ddeng mis yw. Mae gan Paul y Dadleuwr, yn ei 19 Llyfr Dadleuon, ymadroddio fel hyn, sef, "Y mae yn awr yn wirionedd derbyniedig, y dichon i blentyn perffaith gael ei eni yn y seithfed mis, trwy awdurdod y dysgedig Hippocrates; gan hyn, rhaid i ni gredu y dichon i blentyn wedi ei eni yn niwedd y seithfed mis, mewn priodas gyfreithlon, gael ei gyfreithlon genhedlu."

Mae Galen o'r farn nad oes dim amser penodol wedi ei osod er dwyn plant, a hyny oddiwrth awdurdod Pliny, yr hwn a grybwylla am fenyw ag a fu yn dwyn plentyn am dri-mis-ar-ddeg;

ond am yr hyn a berthyn i'r seithfed mis, awdwr dysgedig a ddywed, "Adwaenaf amryw bobl briod yn *Holland,* i'r rhai y ganwyd gefeilliaid yn y seithfed mis, y rhai a fuant fyw i henaint, a chanddynt gyrph grymus, a meddyliau bywiog. O herwydd paham y mae tybiau y rhai hyny ag ydynt yn haeru na ddichon i blentyn mewn saith mis fod yn berffaith a hir-hoedlog, ac na all yn mhob rhan fod yn berffaith hyd y nawfed mis, yn afresymol. Ar hyny, y mae yr awdwr hwn yn myned yn mlaen i adrodd gwers o'i wybodaeth ei hun, sef yw hyny, "Yn ddiweddar digwyddodd terfysg mawr yn ein mysg, yr hwn ni therfynodd heb dywallt gwaed; ac fe'i hachlysurwyd gan wyryf, diweirdeb yr hon ydoedd wedi cael ei dreisio, yn ddisgynedig o deulu boneddigaidd, o eirda difrycheulyd; amryw a fwriasent y weithred yn erbyn y barnwr, yr hwn ydoedd raglaw ar ddinas yn *Flanders;* yr hwn yn gadarn, a'i gwadodd, gan ddywedyd, ei fod ef yn barod i gymeryd ei lŵ na fu ganddo ef erioed unrhyw ymgydiad cnawdol gyda hi, ac na wnai efe dadogi yr hwn nad ydoedd ddim o'i eiddo ef; ac a ymresymodd ymhellach, ei fod ef yn ddiau yn credu mai plentyn wedi ei eni mewn saith mis ydoedd, yn gymaint a'i fod ef ei hun lawer o filldiroedd o bellder oddiwrth ei fam pan ei cenhedlwyd. Ar yr hyn, darfu i'r barnwyr benuodi ar i'r plentyn gael ei edrych gan feddygon galluog, a gwragedd profiadol, ac ar iddynt wneuthur eu hadroddiad. Wedi iddynt wneuthur ymofyniad dyfal, hwy oll o unfryd a benderfynasant, heb olygu pwy oedd y tad, fod y plentyn wedi ei eni o fewn yr yspaid o saith mis, ac na chafodd ei ddwyn yn nghroth ei fam ond 27 wythnos, a rhai dyddiau tros ben; ond

pe buasai wedi ei ddwyn naw mis cyflawn, buasai rhanau ac aelodau y plentyn yn fwy cedyrn a chryfion, a threfniad y corph yn fwy cryno, canys yr oedd y croen yn dra llac, ac asgwrn y ddwyfron ag sydd yn amddiffyn y galon, a'r madruddyn sydd yn osodedig dros y cylla, yn gorwedd yn uwch nac yn naturiol y dylasent fod, heb fod yn wastad, ond yn gam ac yn llymgryniog, neu flaenfain, fal y rhai hyny o eiddo cywion a ddëorwyd yn nechreu y gwanwyn.

Ac yn bod yn un benywaidd, yr oedd mewn eisiau o ewinedd ar gydiadau y bysedd, ar y rhai, oddiwrth sylwedd madruddol gewynawl y croen mae ewinedd, pa rai ydynt dra llyfnion, yn dyfod ac yn raddol yn caledu; yr oedd ganddi hi yn lle ewinedd, groen teneu, neu bilionen. Am fysedd ei thraed nid oedd dim arwydd ewinedd arnynt, yn gymmaint a'u bod mewn eisiau o'r gwres ag oedd yn cael ei ledu i'r bysedd oddiwrth agosrwydd y galon. Wedi ystyried hyn oll, ac uwchlaw y cwbl, boneddiges o gyfrifiad ag oedd yn cynnorthwyo, yn gwirio iddi fod yn fam i bedwar-ar-bymtheg o blant, a bod amryw o honynt wedi cael eu geni, a byw, yn y seithfed mis, gwnaethant eu hadroddiad, heb ffafrio unrhyw blaid, mai baban o saith mis ydoedd y plentyn, cr o fewn y seithfed mis. Canys yn y fath amgylchiadau, dylid sylwi ar gylchdröadau y lleuad, yr hon sydd yn perffeithio ei hun mewn pedair wythnos yn unig, neu rhyw faint llai na 28 dydd; yn mha yspaid o'i chylch-dröad, y gwaed yn cael ei gynhyrfu gan rym y lleuad, y mae mis-lifiant y merched yn dylifo o honynt; yr hwn, wedi cael ei dreulio, a'r groth ei glanâu oddiwrth y gwaed misawl, yr hwn sydd yn digwydd ar y pedwerydd dydd; yna os gorwedd

dyn gyda ei wraig ar y seithfed dydd mae y weithred o ymrëain yn fwyaf naturiol, a'r pryd hyny mae y cenhedliad oreu; a gall plentyn a genhedlwyd fel hyn gael ei eni yn y seithfed mis, a throi allan yn dra iachus; fel ar yr adroddiad hwn y cyhoeddwyd y tad tybiedig yn ddieuog, ar brawf ei fod ef gan' milldir oddiwrthi yr holl fis hwn, ymha un y cenhedlwyd y plentyn; am y fam, hi a wadodd yn gadarn ei bod hi yn adnabod y tad, gan ei fod wedi ei threisio yn y tywyllwch; felly, trwy ofn a braw, hi a adawyd mewn anwybodaeth."

Mewn perthynas i ymrëad, ni ddylid ei arfer oni bydd y pleidiau yn iach, rhag iddo droi yn anfanteisiol i'r plant a genhedlir felly, gan gren ynddynt, trwy y llawnder o ddrwg-wlybyrau, amrywiol glefydau dihoenus. O herwydd pa ham, nid yw iechyd yn cael ei adnabod mewn unrhyw fodd yn well nac wrth y rhanau cenhedlawl o eiddo y dyn; am ba achos arferynt y Byd-wragedd, ac eraill wragedd deallus gynt, edrych arenau plant, trwy hyny i amcan-farnu am ardymer ac ansawdd eu cyrph: a gall gwŷr ieuainc trwy hyny adnabad nodau neu arwyddion marwolaeth; canys os bydd amwisgiadau yr arenau yn llac ac eiddil, a'r ceill-groen yn ymollwng i lawr, mae yn dynodi fod yr ysprydoedd bywydawl, yr hyn yw atteg bywyd, wedi cilio; ond os bydd y rhanau dirgel wedi crychu ac yn codi ar i fynu, arwydd yw fod pob peth yn dda; ond fel y gall y canlyniad ateb yn gymwys i'r rhag-ddywediad, y mae'n angenrheidiol ystyried pa ran o'r corph y mae yr afiechyd yn ei feddiannu; o herwydd, os digwydd mai y rhan uchaf sydd yn cael ei gystuddio, megis y pen, neu y cylla, yna ni ymddengys cystal trwy yr aelodau,

y rhai nid oes berthynas iddynt â'r cyfryw ofidiau: ond y rhan isaf o'r corph yn manwl gydymdeimlo â hwynt, mae y bywiogrwydd i'r gwrthwyneb yn ei wneuthur yn amlwg; canys mae grym natur a'r ysprydoedd ag sydd ganddynt eu cyd-rediad, yn gyntaf yn amlygu eu hunain yn hyny; yr hyn sydd yn peri i fyd-wragedd deimlo rhanau cenhedlawl plant i wybod yn mha ran mae y gofid yn aros, a pha un ai einioes ai marwolaeth a rag-arwyddir trwy hyny, yr arwyddion yn cael eu cadarn gyfranu i'r llestri ag sydd ganddynt eu cyd-gordiad gyda phrif anneddle bywyd.

---

## Pen. 9.

Am y Glas-glwyf (Green-sickness) mewn Gwyryfon, gyda ei achosion, ei arwyddion, a'r feddyginiaeth o hono: yn nghyd a'r prif achos o anffrwythlondeb mewn Merched, a'r moddion i symud yr achos, a'u troi yn ffrwythlon.

MAE y Glas-glwyf yn afiechyd mor gyffredin mewn gwyryfon, yn enwedig y rhai hyny ydynt o edrychiad llysnafeddawg, fel y mae yn hawdd ei ganfod, yn dangos ei hun trwy ddrwg-liwio y wyneb, gan ei wneuthur i edrych yn las-lwyd, ac o liw llychlyd, yn tarddu o wlybyrau anaddfed ac anrheuliedig; ac nid yn unig yn weledig i'r llygaid, ond y mae yn effeithio yn deimladwy ar y person gyda diffyg anadl, poenau yn y pen, curiad y galon, gyda churiadau a mân ddychlamiadau anghyffredin y rhydweliau yn yr arleisian, y gwddf, a'r cefn, yr hyn yn fynych sydd yn eu taflu i dwymynau, pan mae y gwlybwr yn orwydus; diflasdod at fwyd hefyd, ac ehangiad y rhan *hypocondriaidd*, (sef oddeutu yr afu a'r

ddueg) o achos dylifiad gormodol y gwaed misol i'r llestri mwyaf; ac oddiwrth yr helaethrwydd o wlybyrau, yr holl gorph yn fynych a drallodir ag ymchwyddiadau, neu o leiaf y morddwydydd, y coesau, a'r fferau, oll uwchlaw y sodlau; y mae yno hefyd ludded corph mawr heb unrhyw reswm am dano.

Mae y Meddygon Galenaidd yn haeru fod yr afiechyd hwn yn deillio o'r groth; yn cael ei achlysuro gan y gwlybyrau tew, gwydus, ag sydd yn cyfodi oddiwrth amrywiol achosion tufewnol; ond y mae hefyd achosion allanol, y rhai sydd ganddynt gyfran yn ei ddygiad allan, megis cael anwyd yn y traed, yfed dŵr, anghymedroldeb mewn bwydydd, bwyta pethau gwrthwyneb i natur, sef cig heb wneyd digon, neu wedi llosgi, lludw, glo, hen esgidiau, pridd-galch, cŵyr, plisg cnau, morter, calch, blawd ceirch, pibelli, &c., yr hyn sydd yn peri y naill a'r llall, lluddiad y mis-lifiant, a rhwystrau trwy yr holl gorph; gan hyny, y peth cyntaf ag sydd yn angenrheidiol i ddiheuro yr achos, yw cysylltiad priodasol a'r fath ymrëwydd (*copulation*) ag a all droi allan yn foddbäol i'r hon a gystuddir: canys wedi hyny y mis-lifiant a ddechreua ddylifo yn ôl ei lwybr naturiol a dyladwy, a'r gwlybyrau wedi cael eu gwasgaru, yn fuan a ddifäant eu hunain; ac yna heb fod dim ychwaneg o sylwedd yn cael ei ollwng i mewn idd eu cynhyddu, hwy a ddiflanant, a thymheredd corph da a ddychwel; ond os na ellir cael y feddyginiaeth oreu hon yn ddigon buan, yna gwaeder hi yn y fferau; ond os bydd oddeutu un-ar-bymtheg oed, gallwch yr un modd ei wneuthur yn y fraich; ond bydder yn gynil gyda ei gwaed, yn enwedig os bydd yn dda. Os bydd yr afiechyd o unrhyw barhad, yna y mae

idd ei ddiwreiddio trwy garthiad, parotöad y gwlybwr yn gyntaf idd ei ystyried, yr hyn a ellir ei wneuthur trwy i'r wyryf yfed trwyth *guiacum* gyda dittain *creete;* ond y carthiad goreu yn yr achos hwn a ddylai gael ei wneyd o *aloes*, *agrie*, *senna*, a *rhubarb;* ac er cryfhau yr ymysgaroedd, ac agoryd tagfëydd, cyffuriau duriaidd ydynt yn benaf idd eu harfer. Rhaid i'r ymborth fod yn gymhedrol, a rhaid gochelyd pethau sur er dim.

Ac yn awr, gan fod anffrwythlondeb yn feunyddiol yn creu anfoddlonrwydd, a bod anfoddlonrwydd yn magu oerfelgarwch rhwng gŵr a gwraig, neu trwy ofid digyfrwng, yn fynych yn taflu y ferch i'r naill afiechyd neu'r llall, myfi a gâf yn y lle nesaf ymdrin â hyny, sef—

## AM ANFFRWYTHLONDEB.

Gynt, cyn i ferched ddyfod i'r gwely priodasol, hwy yn gyntaf a chwilid gan y fyd-wraig; a hwy, pa rai a ganiateid ganddi hi o fod yn ffrwythlon, yn unig a gaent dderbyniad. Gobeithiaf, gan hyny, na fydd yn feius ynof i ddangos i chwi y modd y gallant brofi eu hunain, a throi llawr diffrwyth yn ddaear ffrwythlon. Anffrwythlondeb yw difuddiad o fywyd a gallu a ddylai fod mewn hâd i eppilio a chenhedlu, i ba ddyben y gwnaethpwyd meibion a merched. Gall gormod oerfel neu wres fod yn achosion o anffrwythlondeb, yn sychu i fynu yr hâd, ac yn ei lygru, yr hyn sy'n diffodd ei fywyd, gan ei wneuthur yn ddyfrllyd, ac yn anghymwys er cenhedliad. Dichon iddo gael ei achlysuro hefyd trwy i'r mis-lifiant beidio a dylifo, neu ddylifo gormod, trwy chwydd, llynorod, ac enynfa y groth, trwy adtwf o gnawd oddeutu geneu y groth, trwy i enau y groth gael ei droi i'r tu ol, neu i'r ochr,

trwy dewder y corph, trwy yr hyn y mae genau y groth yn cael ei gau i fynu, yn cael ei wasgu gan yr *amentum* neu y weren, ac mae sylwedd yr hâd yn cael ei droi yn rhy dew, os bydd o gorph teneu a sych; ac er y gwna hi feichiogi, etto ffrwyth ei chroth a wywa cyn y daw yn berffaith, o eisiau maeth. Un prif achos o anffrwythlondeb a briodolir i ddiffyg cyneddf gymedroledig gyfleus, a ddylai fod gan y fenyw gyda'r dyn; megis, os bydd ef yn wresog, rhaid iddi hi fod yn oer; os sych a fydd ef, rhaid iddi hi fod yn suddlawn; ond os byddant eill dau yn sych, neu eill dau yn suddlawn o ansawdd corph, ni ddychon iddynt eppilio: ac eto, a'u hystyried yn unig ynddynt eu hunain, nid ydynt yn anffrwythlon; canys efe a hi, y rhai oeddynt o'r blaen megis y ffigysbren diffrwyth, wedi eu huno âg ansawdd corph cyfaddas, sydd yn dyfod fel y winwydden ffrwythlon. Ac na ddichon i fab a merch a fyddont ymhob modd o'r un cyffelyb ansawdd corph, genhedlu; dygaf natur ei hun yn dyst, yr hon a wnaeth y mab o well ansawdd corph na'r ferch, fel y byddai i gyneddf y naill gymedroli cyneddf y llall.

*Arwyddion Anffrwythlondeb.*] Os bydd anffrwythlondeb yn deillio o ormod gwres, y mae hi o gorph sych, yn ddarostyngedig i ddigter, a chanddi wallt du, curiad ei gwaed yn fuan, ei charthiadau yn araf, ond yn ychydig, a hyny gyda phoen, ac y mae hi yn hoffi chwareu yn llysoedd Venus. Ond os bydd yn dyfod trwy oerfel, yna mae yr arwyddion yn wrthwyneb i'r rhai crybwylledig uchod. Os trwy ddrwg ansawdd y groth, gwnewch dân-fygiad o *storax* coch, *myrrh*, *cassia-wood*, *nutmeg*, a *cinnamon;* a boed iddi dderbyn ei ager i'r groth, gan ei

gorchuddio yn dra chynwys; ac os bydd yr arogl a dderbynir felly yn pasio trwy y corph i'r safn a'r ffroenau, y mae hi yn ffrwythlon. Ond os na theimla hi yr ager yn ei safn a'i thrwyn, y mae yn profi anffrwythlondeb un o'r ffyrdd hyn, fod yspryd yr hâd naill a'i trwy oerfel wedi ei ddiffodd, neu trwy wres wedi ei wasgaru. Os amheuir unrhyw ferch o fod yn anffrwythlon, bwriwch frwmstan naturiol, y cyfryw ag a gloddir o'r gwaith, idd ei dwr; os mâg pryfed ynddo, nid yw hi yn anffrwythlon.

*Rhagargoelion.*] Mae anffrwythlonrwydd yn gwneud i ferched edrych yn ieuanc, o herwydd eu bod yn rhydd oddi wrth y poenau a'r gofidiau hyny ag y mae merched eraill yn gynefinedig â hwy. Etto nid oes ganddynt iechyd yn ei berffeithrwydd, yr hyn ag y mae merched eraill yn ei fwynhau, o herwydd nad ydynt yn cael eu hiawn garthu oddi wrth y gwaed misawl, a'r gormodedd o hâd, yr hyn yw prif achosion y rhan fwyaf o anhwylderau perthynol i'r groth.

*Meddyginiaeth.*] Yn gyntaf, rhaid i'r achos gael ei symud, y groth ei chryfhau, ac ysprydoedd yr had eu hadfywio.

Os bydd y groth yn rhy wresog, cymmerwch gyflaith *syrub of succory* gyda *rhubarb, syrub of violets, endive, waterlilies, borage flowers*, o bob un ddyrnaid; *rhubarb, myrobylans*, o bob un tri dram; gyda dwfr gwnewch feddyglyn (*decotion*) ac at hidliad y *syrub*, ychwanegwch gyflaith *violets*, un wns; *syrub of cassia*, hanner wns; *manna* tri dram; gwnewch ddiod-feddyginiaeth. Cymerwch o *syrub of mugwort*, un wns; *syrub of maidenhair*, dwy wns; *pulv. elect, triasand*, un dram; gwnewch *Julap*. Cymmerwch *prus, salt elect, ros, mesua*, o bob un tri dram; *rhubarb, un*

*scruple*; a gwnewch beleni, cymwyswch at yr arenau, a'r dirgeloedd dwym-olchiadau o sudd *lettuce*, *violets*, *roses*, *mallows*, dail y winwydden a'r gedorwrach; enneiniwch y rhanau dirgel âg enaint oerol Galen.

Os bydd gallu yr hâd wedi ei ddiffodd gan oerfel, cymerwch bob boreu ddwy lonaid llwy o ddwfr *cinamon*, gydag un *scruple* o *mithridate*: Cymmerwch *syrub of caly*, *mint*, *mugwort*, *betony* o bob un wns; *waters of pennyroyal*, *feverfew*, *hyssop*, *a sage*, o bob un ddwy wns; gwnewch *julap*. Cymerwch *oil of aniseed*,, dau *scruple* a hanner; *diacemeni*, *diaclemathi*, *diamosci*, *diaglœ* o bob un dram; siwgr, pedair wns; gyda dwfr *cinnamon*, a gwnewch *lozenges*; cymerwch o honynt ddram a haner ddwywaith y dydd, dwy awr cyn prydiau bwyd; sicrhewch wydrau craffiniad wrth y cluniau a'r bol, Cymerwch o *styrax* a *calamint*, un wns; *mastich*, *cinamon*, *nutmeg*, *lign*, *aloes*, a *frankincense*, o bob un haner wns; *musk*, deg gronyn, *amber*, haner *scruple*, gyda rhos ddwfr; gwnewch gyffeithiad (*confection*), rhenwch ef yn bedair rhan gyfartal; o un ran gwnewch *pomum oderatum* i arogli arno os bydd hi heb fod yn fammog; o'r ail gwnewch bentwr o beleni, a boed iddi gymmeryd tair bob nos: o'r drydedd gwnewch oreth (*pessary*); trochwch ef mewn olew yspicnard, a rhoddwch ef i fynu; o'r bedwerydd gwnewch dân-fygiad i'r groth,

Os bydd cynheddfau y groth wedi ei gwanhau, a bywyd yr hâd wedi ei fygu, trwy ormodedd o wlybder yn dylifo i'r rhanau hyny, cymerwch *betony*, *marjorum*, *mugwort*, *pennyroyal*, a *balm*, o bob un ddyrnaid; gwraidd *allom*, a *fennel*, o bob un dau ddram; hâd *anis* a *chumin*, dram o bob un; gyda swm digonol o siwgr a dwfr;

gwnewch *syrub*, a chymerwch dair wns bob bore.

Arllwyswch gyda'r pethau canlynol. cymerwch o *diagmidium*. dau ronyn ; *spicierum of castor*, scruple; *pillfoetid*, dau scruple, gyda *syrub of mugwort;* gwnewch chwe' phelen. Cymerwch *spec*, *diagem*, *diamoser*, *diambræ*, o bob un dram; *cinnamon*, dram a haner; *cloves*, *mace*, a *nutmeg*, o bob un haner dram; siwgr, chwe' wns, gyda dwfr *feverfew;* gwnewch *lozenges* i'w cymeryd bob boreu. Cymerwch o feddyglyn *sarsaparilla*, a *virga aurcd*, heb anghofio *sagc*, y rhai y darfu i Agrippa, gan ryfeddu at eu gweithrediad, eu haurhydeddu â'r ënw *Sacra Herba*, (y llysieuyn sanctaidd)ac a goffeir gan Dodonœus, yn hanes planhigion. Ddarfod ar ol marwolder mawr yn mysg yr Aiphtiaid, gorchymyn i'r merched goroesol yfed sudd *sage*, eneinio y rhanau cenedlol gydag olew hâd anis, ac yspicnard. Cymerwch *mace*, *nutmeg*, *cinnamon*, *storax*, ac *amber*, o bob un dram; *cloves*, *laudcnum*, o bob un haner dram; *turpentine*, swm digonol; *torochisks*, i esmwythau y groth. Cymerwch *roots of valerian*, ac *clicampane*, o bob un bwys; *galanga*, dwy wns; *origan*, *lavender*, *marjorum*, *betony*, *mugwort*, *bay-leaves*, *calamint*, o bob un lonaid llaw, gyda dwfr; gwnewch drwyth, yn yr hon boed iddi eistedd, ar ol bod y mis-glwyf arni.

Os bydd anffrwythlondeb yn tarddu o sychder, gan ddifa sylwedd yr hâd, cymerwch bob dydd laeth *almonds*, a llaeth gafr wedi ei dynu allan gyda mèl; ond yn fynych o wraidd *satyon*, wedi ei gyweirio gyda siwgr, ac o gyflaith *diasyren*. Cymerwch dri o benau defaid, berwch hwy hyd oni ddelo yr holl gig oddiam yr esgyrn; yna cymerwch *melilot*, *violets*, *camomile*, *mercury*, *orchia*, ynghyd a'u gwraidd, o bob un ddyrnaid;

*fenugreek*, *lintseed*, a gwraidd *valerian*, o bob un pwys; boed i'r pethau hyn oll gael eu dyferwi yn yr isgell rhag-grybwylledig, a boed i'r fenyw eistedd yn y dyferwad i fynu hyd ei chanol.

Os bydd anffrwythlondeb yn cael ei achlysuro trwy unrhyw effaith briodol o eiddo y groth, y mae y feddyginiaeth wedi ei gosod i lawr yn yr ail ran. Weithiau y mae y groth yn profi yn anffrwythlon lle nad oes rhwystr o un tu, oddieithr yn unig yn y ffordd y gwneir y weithred; megis, pan ar anfoniad allan yr hâd, mae y dyn yn gyflym, a'r ferch yn rhy araf, trwy yr hyn nid yw anfoniad allan yr hâd o'r ddeutu ar yr un munudyn, fel mae rheol beichiogiad yn gofyn. O flaen y weithred o ymgydiad, twym-eneiniwch y rhanau dirgel gyda dyferwad o *betony*, *sage*, *hyssop*, a *calamint*: ac eneiniwch enau a gwddf y groth gyda *musk*, a *civet*,.

Yr achos o anffrwythlondeb wedi ei symud, boed i'r groth gael ei chyfnerthu fel y canlyn: cymerwch o *bayberries*, *mastich*, *nutmeg*, *frankincense* cnau, *lavdenum*, *giapanum*, o bob un dram; *styracis liquid*, dau scruple; *cloves*, haner scruple; *ambergrease*, dau ronyn; yna gydag olew yspicnard gwnewch oreth (*pessary*).

Ymhellach, cymerwch o rosynau cochion, *lapididis*, *haematis*, *frankincense* gwyn, o bob un haner wns; *sanguis*, *draconis*, *bole* mân, *mastich*, o bob un dau ddram; *nutmeg*, *cloves*, o bob un dram; yspicnard, haner scruple; gydag olew wermod gwnewch blaster i'r rhan isaf o'r bol; yna goddefwch iddi fwyta yn fynych o wraidd celyn y môr wedi eu melysu â siwgr; a gwnewch chwistrelliad yn unig o wraidd ceilliau y ci.

Yr amser mwyaf chwannog i feichiogiad yw yn ddiatreg ar ol i'r mis-lifiant beidio; o herwydd

y pryd hyny mae y groth yn sychedig a hesp, yn chwannog i dynu yr hâd a'i ddychwelyd trwy erwinder yr arwynebau tufewnol. Ac heblaw hyny, medd rhai, mae geneu y groth wedi ei throi o'r tu ol, neu i'r ochr, ac nid yw yn cael ei hiawn osod hyd ddydd diweddaf y mis-lifiant.

Anghymedroldeb y'mhob peth sydd i'w ochel. Gadewch o'r neilldu holl wyllt-naws y meddwl, ymateliwch rhag astudio a gofalu, fel pethau ag ydynt elynol i feichiogiad; canys os bydd i ferch feichiogi dan y cyfryw amgylchiadau, pa mor ddoeth bynag yw y rhieni, ni bydd y plant ar y goreu ond annoeth; o herwydd fod cynheddf-au meddyliol y tad, neu y fam, sef y dealltwr-iaeth a'r gweddill, o ba le y mae rheswm y plentyn yn deilliaw, fel pe byddai yn ddyrys-edig, trwy y lliosogrwydd o ofalon a myfyrdodau: mae genym engreifftiau o hyn mewn dynion dysgedig, y rhai ar ol astudiaeth a gofal mawr, yn myned gydâ'u gwragedd, yn dra mynych ydynt yn ymddwyn plant tra ffolion. Awyr boeth a llaith ydyw y fwyaf cymwys; fel yr ymddengys oddiwrth y benywod yn yr Aipht, y rhai yn gyffredin ydynt yn ymddwyn tri neu bedwar o blant ar un tro.

## Pen. 10.

Morwyndod, pa beth ydyw, yn mha beth y mae yn gynnwysedig, a pha fodd y mae yn cael ei lygru; y'nghyd a barn y Dysgedigion y'nghylch newidiad y rhyw yn y groth, yn ystod gweithrediad natur yn llunio y Corph.

Y MAE llawer o bobl anwybodus ag sydd yn ymffrostio yn eu medr yn y wybodaeth am forwyndod, ac y mae rhai gwyryfon wedi goddef llawer sèn galed trwy eu penderfyniadau anwybodus; a chan hyny, tybiais ei bod yn llwyr angenrheidiol amlygu y pwynt hwn, fel y byddai i ddychymygion uwch-hedawl anwybodaeth ac hunan-dybus gael ei ddwyn i'r llawr, a'r rhywogaeth hawddgar (rhinweddau pa rai ydynt mor ardderchog o ddisglair, fel y maent yn cyffroi ein rhyfeddod, ac yn erchi ein efelychiad) gael eu rhyddhau oddiwrth ddrwg enllib anwybodaeth a chynfigen; ac felly, fel y gall eu harddwch barhau mor ddifrycheulyd ag y cadwasant hwy eu personau yn ddilwgr, ac yn rhydd oddiwrth ymhalogiad.

Morwyndod, mewn ystyr manwl, a arwydda y prif, y penaf, y goreu o unrhyw beth; yr hyn sydd yn gwneyd i ddynion fod mor awyddus i briodi gwyryfon, gan ddychymygu fod rhyw hyfrydwch dirgel i'w fwynhau yn eu cofleidiadau yn fwy nac yn y rhai hyny o eiddo gweddwon, neu y cyfryw ag a fuant yn cyd-orwedd gyda dyn; er nad llawer o flynyddoedd yn ol sydd er pan yr oedd un gŵr mawr iawn o feddwl arall; ac i arfer ei eiriau ef ei hun, dywed, "Fod ceisio morwyndod yn fath ddarn o slafwaith mwy priodol i borthor na thywysog." Ond nid oedd hyn ond ei dyb ef yn unig; canys mae'n ddilys

genyf fod gan y rhan fwyaf o ddynion dybiau eraill. Ond i ddychwelyd et ein dyben. Y mae chwilwyr cywrain i ddirgelion natur wedi sylwi, mai mewn gwyryfon ieuainc yn y *Sinus Pudoris,* neu yn y lle hwnw a elwir gwddf y groth, mae y cyfansoddiad rhyfeddol hwnw a elwir *Hymen*, ond yn fwy cywir y *Clastrum Virginale*; ac yn Ffrancaeg *Button de rose*, neu Rhosyn Pengauad; o herwydd ei fod yn debyg i flaendwf rhosyn wedi ymagor, neu flodeuyn *convegilly*. Oddiwrth hyn y deillia y gair *Defloro*, sef diforwyno; ac oddiyma gelwir cymeryd ymaith wyryfdod, diforwyno gwyryf; y rhan fwyaf yn bod o'r dyb fod gwyryfdod wedi ei gwbl golli pan mae y dybliad hwn wedi ei dori, neu ei wasgaru trwy drais; a phan ei ceir yn berffaith, a chyfan, na bydd unrhyw dreiddiad wedi cael ei wneud; a barn rhai Physygwyr dysgedig yw, nad oes yno yr un o'r ddau, na *hymen* na chroen penagored yn cynwys gwaed ynddo, yr hwn, fel y tybia amryw, sydd yn y weithred gyntaf o ymrëad yn dylifo o'r lledaniad toredig.

Yn awr, mae y *clastrum virginale*, neu y blodeyn hwn, yn gynnwysedig o bedwar peth chwyddedig, neu garbwncls, neu flagur bychain fel grawn myrtwydd, y rhai, mewn gwyryfon, ydynt yn llawnion a chwyddiog; ond mewn gwragedd yn llipa, ac yn crogi yn rhyddion; ac mae y rhai hyn wedi eu gosod yn nghilfachau gwddf y groth (*sinus pudoris*) yn gysylltiedig yn nghyd gan bilionenau bychain, a rhwymau fal mân-edafedd, pob un o honynt yn gorwedd yn yr eirin, neu y gwagleoedd rhwng pob carbwncl, gyda y rhai mewn rhyw ddull y maent yn cael eu cyfartal ehangu; pa bilionenau wedi unwaith eu rhwyger neu eu torer, sydd yn dynodi fod mor-

wyndod wedi ei golli; a llaweroedd o bersonau ymofyngar, ac etto anwybodus, yn canfod eu gwragedd yn ddiffygiol yn hyny noswaith gyntaf eu priodas, ydynt oddiar hyny wedi ameu eu diweirdeb, a phenderfynu fod un arall wedi bod o'u blaenau. Yn awr, i oleuo y cyfryw, yr wyf yn haeru fod y fath doriadau yn digwydd trwy amrywiol ffyrdd damweiniol yn gystal a thrwy ymrëad gyda dynion; sef, trwy egni tanbaid, peswch, tisian, attaliad dwfr, ac ysgydwad tanbaid y llestri, gan yru y gwlybyrau i lawr trwy orthrech, y rhai, gan ymwasgu am fynedfa, sydd yn torri y rhwymynau, neu'r bilionen; fel nad yw y toriad, yr hwn yn gyffredin a gymerir am eu morwyndod, yn arwydd perffaith o anonestrwydd; er, dilys yw, ei fod yn cael ei dorri yn fynychach trwy ymrëad nà thrwy unrhyw fodd arall.

Clywais, ddarfod profi gŵr ieuangc mewn brawdlys yn *Rutland* am dreisio gwyryf; pan, ar ol gofyn amrywiol holiadau, a'r wyryf yn tyngu yn bendant i'r matter, gan enwi yr amser, y lle, a dull y weithred; penderfynwyd, wedi ystyriaeth ddyladwy, fod iddi hi gael ei chwilio gan feddyg medrus, a dwy o fyd-wragedd, y rhai oeddynt i wneuthur eu hadroddiad ar eu llw; yr hyn, ar ol chwiliad dyledus, a wnaethant; gan sicrhau fod y pilionenau yn gyfaeon, ac heb eu rhwygo, ac am hyny, mai eu tyb hwy oedd, fod ei chorph heb gael treiddio iddo: yr hyn a weithiodd gymmaint gyda'r rheithwyr, fel y rhyddhawyd y carcharor: a'r wyryf wedi hyny a gyfaddefodd ddarfod iddi dyngu i'w erbyn er ymddial, gan ei fod ef wedi addaw ei phriodi, ac wedi hyny nacâu. A bydded hyn yn ddigon mewn perthynas i forwyndod.

Yn awr âf y'mlaen i rywbeth o eiddo gweithrediad natur, yn neillduol y rhywiau yn y groth. Mae mawr angen am y pwynt hwn, o herwydd fod gwahanol dybiau gan ddynion yn ei gylch; gan hyny, cyn y gellir haeru dim yn bendant, bydd yn gyfaddas mynegi yr hyn a draddodwyd, yn gystal yn nacaol ac yn gadarnhaol. Ac yn gyntaf, Severus Plinus, yr hwn a ymresyma yn nacaol, a ysgrifena fel hyn. Y mae y rhànau cenhedlawl yn y ddau ryw mor anhebyg i'r naill y llall mewn sylwedd, cyfansoddiad, sefyllfa, ffurf, gweithrediad, ae arferiad, fel nad oes dim yn fwy anhebyg, ac wrth gymmaint yn fwy y mae holl rànau y corph (a gadael allan y bronau, y rhai mewn benywod ydynt yn fwy chwyddedig, o herwydd fod natur wedi eu hordeinio er rhoddi sugn i'r baban) a chanddynt debygoliaeth cywir, cymmaint a hyny yn fwy y mae rhànau cenhedlawl un ystlen, a'i chydmaru â'r llall yn amrywio: ac os yw eu ffurf fel hyn yn gwahaniaethu, llawer mwy eu harferiad. Mae y blys chwantachol hefyd yn deillio o wahanol achosion: canys mewn dyn y mae yn deillio o chwant i dafliad allan, ac mewn merch o chwant i dderbyniad: mewn benywod hefyd, y penaf o'r rhànau hyn sydd geuol ac yn chwannog i dderbyn; ond mewn dynion y maent yn amrydyllog. A chymmeryd yr holl bethau hyn dan ystyriaeth, nis gallaf fi ond rhyfeddu, medd efe, pa fodd y gall undyn ddychmygu fod aelodau cenhedlawl genedigaethau benywaidd yn cael eu newid i'r rhai hyny a berthynant i'r gwrrywaidd, yn gymmaint ag na wneir ond gwahaniaethu y rhywiau yn unig trwy y rhànau hyny; nis gallaf fi yn hawdd gyfrif y cyfeiliornad gwerinawl i ddim ond camgymeriad byd-wraigedd anghyfarwydd, y rhai a dwyllwyd

trwy ddrwg-gyfluniad y rhanau, pa rai, mewn rhai genedigaethau gwrrywaidd a allai ddigwydd fod ganddynt wthiadau y'mlaen bychain, (*small protusions*) heb fod yn ganfyddadwy, fel yr ymddengys oddiwrth siampl plentyn a fedyddiwyd yn *Paris* dan yr enw Joan fel geneth, a pha un wedi hyny a drodd allan mai bachgen ydoedd: ac i'r gwrthwyneb, estyniad gorbell y *clytoris* mewn genedigaethau benywaidd a all fod yn achos o'r cyffelyb gamgymeriadau. Cyn belled a hyn yr â Pliny y'mlaen yn nacaol; ac etto er yr hyn a ddywedodd efe, y mae Physygwyr dysgedig, y rhai a haerant yn gadarnhaol, o ba rifedi y mae Galen yn un. Nid yw dyn, medd efe, yn gwahaniaethu oddiwrth fenyw mewn dim arall ond fod ganddo ef ei aelodau cenhedlawl oddiallan i'w gorph, ond gan y fenyw y maent oddimewn. Ac y mae hyn yn sicr, sef os bydd i natur wedi ffurfio gwrryw ei droi yn fanyw, nid oes ganddi unrhyw dasg arall i'w chwblhau ond troi ei aelodau cenhedlawl i mewn; ac felly troi y fenyw yn wrryw trwy y gweithrediad gwrthwynebol. Ond y mae hyn i'w ddeall am y plentyn, pan y mae heb gael ei berffaith lunio yn y groth; canys yn fynych y mae natur wedi gwneyd plentyn banyw, ac y mae wedi aros felly yn nghroth y fam am fis neu ddau; ac ar ol i helaethrwydd o wres ychwanegu yn yr aelodau cenhedlawl, y maent wedi tarddu allan, ac y mae y plentyn wedi dyfod yn un gwrryw, etto yn dàl rhai ystumiau anghyfaddas i'r rhyw gwrrywaidd, megis gweithredoedd benywaidd, llais main, a thymher mwy merchedaidd na chyffredin; i'r gwrthwyneb fodd, natur, wedi gwneyd gwrryw yn fynych, a gwlybyrau oerion yn dylifo iddo, mae y rhanau cenhedlawl wedi cael eu gwrthdroi, er

hyn etto yn dal awel wrrywaidd mewn llais ac ystumiau. Yn awr, er fod y naill a'r llall o'r tybiau hyn yn cael eu cynal gan amryw resymau, etto yr wyf fi yn cyfrif yr olaf yn fwy cyfattebol â gwirionedd; canys nid oes dirfawr wahaniaeth rhwng rhanau cenhedlawl y ddau ryw fel y mynai Pliny i ni gredu fod; o herwydd y mae gan y fenyw mewn dull yr un aelodau â'r dyn, er nad ydynt yn ymddangos yn allanol, ond wedi eu gwrthdroi er cyfleustra eppiliad: y prif wahaniaeth yw fod y naill yn gyfan-gorph a'r llall yn amrydyllog, a'r prif reswm am newidiad y rhywiau, a'r hyn a raid ei gyfrif iddo yw, gwres neu oerni yn cael ei gyfyngu yn ddisymwth, neu yn araf, yr hwn sydd yn gweithredu yn ol ei rym mwy neu lai.

## Pen. II.

Cyfarwyddiadau a gocheliadau i Fydwragedd: ac yn gyntaf pa fodd y dylai Bydwragedd fod wedi eu cyfaddasu.—

BYDWRAIG yr hon a fynai gyfiawnhau ei hun yn ei gorchwyl, ni ddylai er dim fyned i'r swydd yn fyrbwyll neu anghyngoredig, ond gyda phob gocheliad a ellir ei ddychmygu, gan ystyried ei bod hi yn gyfrifol am yr holl niwaid a ddigwydd i'r fenyw trwy ei hanwybodaeth gwirfoddol, neu ei hesgeulustra hi; gan hyny na fydded i neb gymeryd arnynt y swydd o dan ymhoniad noeth o addfedrwydd oedran ac ymddwyn plant, canys yn y cyfryw, am y rhan fwyaf, y mae amryw bethau yn nifftyg a ddylid sylwi arnynt, yr hyn yw yr achos fod cymmaint o wragedd a phlant yn meirw.

Yn awr, am fydwraig, mewn perthynas idd ei pherson, dylid sylwi ar y pethau hyn, sef, Ni ddylai hi fod yn rhy ieuangc, nac yn rhy hen, yn nodedig o dew nac wedi ei gwanhau gan deneuder, ond mewn ansawdd corph da; nac yn ddarostyngedig i anhwylderau, ofnau, neu ddychrynfeydd disymwth; ei chorph o agwedd dda, ac yn ddestlus yn ei gwisg; ei dwylaw yn esmwyth a bychain, ei hewinedd bob amser wedi eu paru yn fyrion, heb oddef i unrhyw fodrwyau fod ar ei bysedd yn ystod yr amser y byddo yn gwneyd ei swydd, nac unrhyw beth ar ei harddyrnau a ddichon attal. Ac at hyn dylid ychwanegu, bywiogrwydd a nerth cyfaddas, heb ei bod yn ddarostyngedig i gysgadrwydd, nac yn chwanog i fod yn ddiamynedd.

Mewn perthynas idd ei moesau, dylai fod yn addfwyn, mwyneiriog, sobr, diwair, ac heb fod yn ddarostyngedig i ddrwg-nwydau, yn haelionus a thosturiol tuag at y tylodion, ac nid yn gybyddlyd pan y byddo yn gweini y cyfoethog.

Dylai ei thymer fod yn siriol a diddan, fel y gallo gysuro y glaf yn well yn ei llafur. Ni ddylai hi un amser wneuthur gormod o frys, (er y gall ei gorchwyl ofyn hyny mewn achos arall,) rhag iddi trwy hyny beryglu y fam neu y plentyn.

O ysbryd dylai fod yn ochelgar, pwyllog, a chall; ond uwchlaw y cwbl, dylai fod gan ofn Duw yr oruchafiaeth yn ei henaid, yr hyn a rydd iddi y naill a'r llall, "gwybodaeth a synwyr," fel y dywed y gwr doeth i ni.

## Pen. 12.

Cyfarwyddiadau y'mhellach i Fydwragedd, yn eu dysgu pa beth a ddylent wneyd, a pha beth idd ei ochelyd.

GAN fod i swydd Bydwraig gymaint o effaith ar iawn neu ddrwg-wneuthuriad benywod a phlant, yn y lle cyntaf, bydded yn ddiwyd i gyrhaedd pa wybodaeth bynag a ddichon fod yn fanteisiol i'w hymarferiad; heb un amser dybied ei hun mor berffaith fel na all ychwanegu at ei gwybodaeth, trwy astudiaeth a phrofiad; eto na wneled unrhyw brawf, un amser, yr hwn a ddichon droi allan yn ofidus i'r glaf, na chymwyso unrhyw feddyginiaeth oni bydd wedi ei phrofi o'r blaen, neu wybyddus na wna niwaid; heb dwyllo na thlawd na chyfoethog, ond dywedyd yn rhydd yr hyn a ŵyr; ac er dim peidio a gorchymyn y cyfryw gyffuriau ag a achlysurant erthyliad, er i hyny gael ei ddymuno; yr hyn sydd radd uchel o ddrygioni, ac a ellir ei alw yn llofruddiaeth. Os gelwir am dani at un nad yw yn ei hadnabod, bydded yn dra gochelgar cyn iddi fyned, rhag, trwy roddi dynes heintus i orwedd, iddi wneyd niwaid i eraill, fel y digwyddodd ar rai troiau. Ychwaith ni ddylai hi wneyd ei thŷ yn dderbynfa i fenywod beichiog i esgor ynddo, rhag, trwy hyny iddo gael enw drwg, a hithau, yn y canlyniad, gael ei cholledu.

Os digwydd i'r genedigaeth fod yn fawr ac anhawdd, ni ddylai hi ymddangos yn drallodus, ond rhaid iddi lòni y fenyw, a gwneuthur yr hyn a all er esmwythau ei llafur. Am yr hyn y gall gael cyfarwyddiadau yn yr ail ran o'r llyfr hwn.

Ni ddylai byth feddwl am ddim ond gwneyd yn iawn, gan beri i bob peth, ag sydd gyfaddas

i'r gwaith fod mewn parodrwydd; er cryfhau y fenyw a derbyn y plentyn; ac uwchlaw pob peth, boed iddi gymeryd gofal i gadw y fenyw rhag bod yn afreolus, pan y mae ei thafliadau yn dyfod arni, rhag iddi, trwy hyny beryglu ei bywyd ei hun, ac eiddo y plentyn.

Rhaid iddi hefyd gymeryd gofal na byddo yn rhy frysgar yn ei gorchwyl, ond aros wrth amser Duw er esgoriad; rhag, trwy ofn, os nad â pethau y'mlaen yn iawn, iddi wneyd ei hun yn analluog i roddi y cynnorthwy hwnw ag y mae y fenyw mewn llafur yn sefyll mewn angen o hono; canys pan y mae y perygl mwyaf yn ymddangos, y mae yr angen mwyaf o bwyll i osod pethau mewn iawn drefn.

Yn awr, gan na all hi, yr hon na ŵyr ddim ond a welodd yn allanol, byth fod yn fydwraig fedrus, meddyliaf nad beius, ond i'r gwrthwyneb, mai tra angenrheidiol fydd desgrifio, gyda gorchwyledd, rannau eppiliawl benywod; fal y difynwyd hwy gan y dysgedigion; a dangos defnydd y cyfryw lestri ag ydynt yn cyfrannu tuag at eppiliad.

## Pen. 13.

**Am ranau cenhedlawl benywod, allanol a thufewnol, hyd at lestri y groth.**

PE na byddai er lles y cyffredin, yn neillduol ymarferwyr a phroffeswyr y gelfyddyd o Fydwreigiaeth, myfi a ymattaliwn ymdrin â dirgelion natur, am y gellir eu troi gan rai i wawd, ond gan eu bod yn hollol angenrheidiol i'w gwybod, ni phasiaf heibio iddynt. Y rhanau hyny a amlygir y'ngwaelod y bòl ydynt y *fissura magna*,

neu yr agen fawr a'r *libia* neu weflau y *mons veneris* a'r gwallt, gelwir y rhai hyn *pudenda*, o herwydd pan yn noeth, mae yn dwyn *pudor* neu gywilydd ar fenyw. Mae yr agen fawr yn cyrhaedd o'r rhan isaf i'r *ospubis* o fewn modfedd i'r *anus* (*bum-hole*); ond y mae yn llai ac yn fwy cauedig mewn gwyryfon nac yn y rhai y ganwyd plant iddynt. Yn nesaf mae y *nympha* a'r *clytoris;* y cyntaf sydd o sylwedd croenynaidd, fflamiog, yspwngaidd, a meddal, ac mewn rhan yn gigog, o liw coch, ar lun edyn, dau mewn rhifedi, er oddiwrth eu codiad, y maent yn cael eu huno yn gonglawchus, gan ddwyn yno sylwedd cigog, yr hwn sydd yn gwisgo y *clytoris;* ac weithiau y maent yn ymdaenu cyn belled, fel y mae yn ofynol ei hacio i wneyd ffordd i offeryn cenhedlu y mab.

Y *clytoris* sydd sylwedd yn y rhan uchaf o'r rhaniad, lle y mae y ddwy aden yn cyduno, a hwn yw eisteddle pleser ymrëwyddol, gan ei fod fel gwialen mewn sefyllfa, sylwedd, cyfansoddiad, a chodiad; gan dyfu weithiau allan o'r corph ddwy fodfedd; ond nid yw hyny byth yn digwydd oddigerth trwy chwant dirfawr, neu ddamweiniau rhyfedd. Y mae y *clytoris* hwn yn gynwysedig o ddau gorph yspyngaidd a chroeniog, yn cynwys gwreiddyn gwahanol oddieithr yr *ospubis*, a chanddo dwll neu fynedfa, yr un fath â'r *penis*, neu wialen dyn, er nad yn hollol trwodd, yn mha beth, a'r maint yn unig y mae yn gwahaniaethu oddiwrthi.

Y pethau nesaf ydynt y cnapiau ehedegog (*flyknobs*); a gwddf mawr y groth. Mae y cnapiau hyn o'r tu ol i'r edyn, pedwar mewn rhifedi, ac yn debyg i rawn myrtwydd, yn osodedig yn bedwar onglog, y naill yn erbyn y llall;

ac yn y lle hwn y mae safn y bledren wedi ei dodi i mewn, yr hon sydd yn ymagor i'r *fissures* i arlloesi y piso; er diogelu pa un rhag anwyd, neu y cyffelyb anghyfleusterau, y mae un o'r cnapiau hyn wedi ei osod o'i blaen ac yn cau i fynu y fynedfa.

Gwefusau y groth, y rhai sydd yn ymddangos nesaf, wedi eu gwahanu ydynt yn amlygu ei gwddf, ac ynddynt hwy dylid sylwi ar ddau beth, pa rai yw y gwddf ei hun a'r *hymen*, ond yn fwy priodol y *clastrum virginale*, am yr hwn y traethais o'r blaen. Wrth wddf y groth y meddylir y cyfyngle ag sydd rhwng y cnapiau rhagddywededig âg asgwrn tufewnol y groth, yr hwn sydd yn derbyn y wialen fel gwain, ac fel y byddo iddo gael ei helaethu yn well oddiwrth y pleser o eppiliad y mae y sylwedd o hono yn gïeulyd ac ychydig yn yspwngaid, ac yn y ceuedd hwn y mae amryw gorlanau, neu ddyblygion ystlysol, wedi eu gwneyd gan bilioneuau crychedig fal rhos-liw taenedig. Mewn gwyryfon y maent yn ymddangos yn eglur, ond mewn benywod a fyddo wedi mynych arfer ymrëad, y mae wedi cael ei ddileu fel y mae tu mewn i wddf y groth yn ymddangos yn llyfn, ond mewn hen fenywod y mae yn ymddangos yn fwy caled a madruddaidd. Ond er fod y cyfyngle hwn weithiau wedi ei nydd-droi ac yn gam, gan ymollwng i lawr, etto, yn amser ymrëad, llafur, neu y carthiad misol, y mae yn cael ei sythu ac ei estyn; yr hyn beth sydd yn achlysuro y poen yn amser esgor.

Yr *hymen*, neu y *clastrum virginale*, yw hwnw sydd yn cau gwddf y groth, yn cael ei dorri yn y weithred gyntaf o ymrëad; ei ddefnydd yn bod yn hytrach i ategu dylifiad anamserol y misglwyf

mewn gwyryfon nag i unrhyw ddyben arall; ac yn gyffredin pan ei torer yn y weithred o ymrëad, neu trwy unrhyw ddamwain arall, y mae ychydig o waed yn rhedeg o hono gan gael ei ddilyn gydag ychydig boen. Oddiwrth yr hyn y sylwa rhai, fod rhwng dyblygrwydd y ddwy groenen, y rhai sydd yn gwneuthur i fynu wddf y groth, lawer o wythienau a rhydweliau yn rhedeg yn ol ac yn mlaen, ac yn cyfodi o'r llestri o bob tu i'r morddwydydd, ac felly yn pasio i wddf y groth, yn bod yn dra mawr: a'r achos o hyny ydyw, fod gwddf y bledren yn gofyn cael ei lenwi â helaethrwydd o ysprydoedd, i gael, trwy hyn, ei ymhelaethu, fel y byddo iddo gymeryd gwell gafael yn y wialen, gan fod gwres mawr yn ofynol yn y cyfryw ysgogiadau, yr hyn sydd yn dyfod yn fwy brydlawn trwy y weithred o rwbiad, ag sydd yn difa gryn swm o sudd, yn nghyflenwad pa un y mae llestri mawrion yn gwbl angenrheidiol..

Achos arall o fawrder y llestri hyn yw, o herwydd fod y dylifiad misol yn gwneuthur ei ffordd trwyddynt, yr hyn yn fynych sydd yn achos o fod carthiadau gwragedd beichiogion yn parâu: canys, er y bydd y groth yn gauedig, etto y mae y gwddf yn mynedfa y groth, trwy ba rai y mae y llestri hyn yn pasio, yn agored. Yn yr achos hwn, dylid sylwi yn mhellach, cyn gynted ag y treiddiwch i'r *pudendum*, fod yno yn ymddangos ddau o dyllau bychain, yn mha rai y cynnwysir sudd, pa un gan gael ei ddileu yn amser ymrëad, sydd yn mawr-foddio y fenyw.

## Pen. 14.

**Desgrifiad o Adeilwaith y Fenyw,—y Llestri paratoawl a'r Eirin mewn Benywod.—Yr un modd hefyd a'r Llestri gwahaniaethol a Saethol.**

YN y rhan isaf o'r hypogastriam, lle y mae y gwefusau yn fwyaf eu hyd a'u lled, gan eu bod yn fwy a lletach o ddeutu y fan hono nac eiddo dynion, am ba achos yr un modd mae ganddynt forddwydydd lletach na dynion; y mae y groth wedi ei huno â'i wddf, ac y mae wedi ei osod rhwng y bledren â'r cul-berfeddyn, yr hyn sydd yn ei gadw rhag ei rhwyso, neu rolio, etto yn rhoddi iddi ryddid i ymestyn ac ymledu, a thrachefn yn ei gyfyngu fel y byddo natur yn ei dueddu. Mae ei ffurf mewn dull yn grwn, ac heb fod yn anhebyg i fresych, yn lleihau ychydig ac yn tyfu yn fwy llym tu ag un pen, wedi ei gysylltu y'nghyd gan ei ewynau priodol; ei wddf yn yr un modd sydd wedi ei uno gan ei sylwedd ei hun, a rhai pilionenau ag sydd yn gafaelyd i fewn yr *os sacrum*, ac asgwrn yr arffed. Mewn perthynas idd ei faint, y mae hyny yn amrywio yn fawr mewn benywod, yn enwedigol y mae yn gwahaniaethu yn fawr yn y rhai hyny ag a fyddo gwedi dwyn plant, a'r rhai a fyddo heb wneuthur hyny; mewn swm, y mae mor braff, fel y mae tu hwnt i dewder gwniadur; yr hyn ar ol ymrëad sydd mor bell oddiwrth leihau, fel y mae yn cynyddu i fesur mwy: ac i ychwanegu ei gryfder, y mae wedi ei gyd-blethu gyda mân-linynau ar draws, y rhai ydynt y naill a'r llall, yn dynn ac yn anunion; a'i lestri priodol ydynt wythienau, rhydweliau, a gewynau; ac yn mhlith y rhai hyn y mae dwy wythïen fechan, y rhai ydynt yn pasio o'r llestri hadawl i waelod y groth, a dwy

fwy o'r gwddf, safn y gwythienau hyn sydd yn treiddio cyn belled â'r ceuedd tufewnol.

Mae i'r groth ddwy rydweli o bob tu i'r llestri hadawl, a hypogastraidd, y rhai y'nt yn cydfyned â'r gwythienau; ac heblaw hyny, y mae yno amryw ewynau bychain, pa rai ydynt wedi eu gwau a'u plethu ar ddull rhwyd, y rhai hyn y'nt yn cael eu hestyn o ben-bwy-gilydd hyd yn nod o waelod y *pudendum* ei hun, gan eu bod wedi cael eu gosod yn benaf er teimlad a difyrwch, yn symud mewn cydymdeimlad rhwng y pen a'r groth.

Yn awr, y mae i'w nodi y'mhellach, fod y groth, o achos y ddau gieuyn sydd yn crogi o'r naill du neu y llall iddi, oddiwrth asgwrn yr arffed, gan dreiddio trwy y weren fol, wedi eu huno â'r asgwrn ei hunan, yn symudol ar amryw achosion, gan fynych syrthio yn isel neu gyfodi yn uchel. Mewn perthynas i wddf y groth, y mae o deimlad tra manol; fel, os bydd unrhyw amser allan o drefn, gan gael ei flino gyda chwareniad, gor-dewder, lleithder, neu lacâad, mae y groth yn ddarostyngedig trwy hyny i anffrwythlondeb. Yn y rhai hyny a fyddo beichiog, y mae yn fynych yn aros sylwedd gludiog yn y fynedfa i rwyddhau yr esgoriad; canys yn amser y tymp, neu y rhyddhâd, mae genau y groth yn cael ei hagor i'r fath ehangder ag a fyddo yn gyfatebol i faint y plentyn, gan oddef ymlediad cyfatebol o'r gwaelod i'r top.

Mewn perthynas i'r llestri paratoawl, neu hadawl, mewn benywod, y maent yn gynwysedig o ddwy wythien, a dwy rydweli, heb fod yn gwahaniaethu oddiwrth y rhai hyny o eiddo dynion, ond yn unig yn eu mawrder a dull eu gosodiad i mewn; canys y mae rhifedi y gwyth-

ienau a'r rhydweliau yr un fath âg mewn meibion, y wythien ddeau yn tarddu o gyff y wythien geuol, gan ddyfod i lawr; ac heblaw hwy y mae dwy rydweli, y rhai ydynt yn deillio o'r *aorta* neu y rhydweli fawr.

Mewn perthynas i hyd a lled y llestri hyn, y maent yn gulach a byrach mewn benywod nac mewn meibion; yn unig, sylwch, y maent yn fwy nydd-droedig a chroes-droellawg nac mewn meibion, ac yn crebachu y'nghyd o herwydd eu byrdra, fel y gallont trwy eu llacrwydd, gael eu hestyn yn well allan pan fyddo achos yn gofyn: ac y mae y llestri hyny mewn benywod yn cael eu cario mewn llwybr anghyfeiriol, trwy y coluddion a'r eirin bychanach; ond yn haner y ffordd rhenir hwy yn ddwy gangen; y mae y fwyaf yn myned i'r eirin, yn gwneuthur i fynu gorph amrywiaethol neu amdroadol, gan impio yn rhyfeddol; y gangen leiaf yn diweddu yn y groth, oddifewn i ba un y mae yn ymchwalu, ac yn enwedig yn y rhan uchaf o waelod y groth, er ei maethu, ac fel y gallo y rhan hono o'r mislifiant ymgarthu trwy y llestri; a chan weled fod eirin y benywod wedi eu gosod yn agos i'r groth, o herwydd hyny nid yw y llestri hyn yn cwympo o'r *peritoneum*, ac ychwaith nid y'nt yn gwneyd llawer o dramwyfa, fel mewn meibion, gan nad ydynt yn ymestyn yn asgwrn yr arffed.

Yr eirin mewn benywod a elwir y *testicles*, nid ydynt yn cyflawni yr un weithred ag mewn meibion, y maent hefyd yn wahanol yn eu gosodiad, maint, tymheredd, sylwedd, llun, a gorchuddiad.

Mewn perthynas i le eu heisteddle, y mae yn nghendod gwaelod y bol; ychwaith nid ydynt yn ddibynaidd, ond yn gorphwys ar ewynau

y lwynau, fel y gallont, trwy grynhoi mwy o wres, fod yn fwy ffrwythlon, gan mai eu swydd ydyw cynwys yr *ova*, neu wyau, un o ba rai, wedi ei naws-lenwi gan hâd y mab, sydd yn cenhedlu dyn; eto y mae yn gwahaniaethu oddiwrth y rhai hyny o eiddo dyn mewn llun, gan eu bod yn llai, neu yn wastadach y'mhob pen, heb fod mor grwn, neu ar ddull ŵy; yr arwynebau allanol yr un modd yn bod yn fwy anghyfartal, gan ymddangos fal cyfansoddiad o lawer iawn o gnapiau, neu gnewyllod wedi eu cymmysgu y'n nghyd. Mae gwahaniaeth hefyd yn eu sylwedd, gan eu bod hwy yn llawer mwy meddal, llac, a phlygadwy, ac heb fod mor gryno. Mae eu maint a'u tymheredd yn yr un modd yn wahanol; canys y maent yn llawer oerach ac yn llai nac eiddo meibion. Am eu gorchudd, neu eu cauadle, y mae yn amrywio yn ddirfawr; canys fel y mae eiddo meibion wedi ei hamwisgo mewn amryw bilionenau, o herwydd eu bod yn dra dibynaidd, ac yn ddarostyngedig i amryw niweidiau, pe na byddent wedi eu hargau felly gan natur; felly, eirin benywod yn bod yn dufewnol, ac yn llai darostyngedig i ddamweiniau, ydynt wedi eu gorchuddio gydag un bilionen neu groen, yr hon er ei bod yn ymlynu yn gyfagos am danynt, etto y maent yn yr un modd yn cael eu haner-orchuddio gyda y *peritoneum*.

Y llestri saethawl ydynt ddwy fynedfa dywell, un ar bob ochr, heb fod yn gwahaniaethu mewn dim oddiwrth y gwythieni hadawl mewn sylwedd. Maent yn cyfodi mewn un rhan o waelod y groth, heb fod yn cyraedd o'r pen eithaf arall, nac i'r eirin nac i un ran arall, ond yn cau i fynu ac yn anhyffordd, gan ymlynu wrth y groth, megis ag y mae y coluddyn mawr wrth y perfeddyn tywyll,

ac yn amddirwyn i haner y ffordd o gwmpas, ac er fod yr eirin y'mhell oddiwrthynt, ac heb fod yn eu cyffwrdd, etto y maent wedi eu cylymu wrthynt gan ryw bilionenau tebyg i asgell ystlym, trwy ba rai, gan fod rhyw wythienau a rhydweliau pennodol yn pasio o ben yr eirin, gellir dyweyd yma fod ganddynt eu mynedfa yn deillio o gongl y groth i'r eirin, a chyfrifir hwy yn rhwymynau priodol, wrth ba rai y mae yr eirin a'r groth yn cael eu huno, a'u cadarn wau y'nghyd; a'r rhwymynau hyn mewn benywod y'nt y *cremaster* mewn meibion, am yr hyn yr adroddaf yn fwy helaeth pan y deuaf i ddisgrifio y rhanau gwrrywaidd sydd yn cydweinyddu er cenhedlu.

## Pen. 15.

Desgrifiad o ddefnydd a gweithrediad amryw Ranau mewn Benywod, penodedig er cenhedliad.

Y RHANAU allanol a elwir yn gyffredin *pudenda*, ydynt wedi eu bwriadu i orchuddio y briwdwll mawr, ac i dderbyn y *penis* neu y wialen, yn y weithred o ymrëad, a rhoddi trosglwyddiad i'r esgoriad a'r pision.

Defnydd yr edyn a'r cnapiau, fal grawn y myrtwydd, yw, er diogelu y rhanau tufewnol, gan gau y briwdwll a gwddf y bledren, a thrwy ei chwyddiad i fynu, i beri gogleisiad a hyfrydwch yn y rhanau hyny, ac hefyd i attal mynedfa anewyllysgar y pision.

Gweithrediad y *clytoris* mewn benywod sydd yr un fath a hwnw o eiddo y wialen mewn dyn, sef yw hyny, y sytlı godiad; a'i ben allanol sydd yr un fath a chwarenau y wialen, a chanddo yr un enw. Ac megis mae chwarenau y dyn yw

eisteddle yr hyfrydwch mwyaf mewn eppiliad, felly y mae hwnw yn y fenyw.

Gweithrediad a defnydd gwddf y groth sydd gyfartal i hwnw o eiddo y wialen, sef yw hyny, syth-godiad, yn cael ei achlysuro amryw ffyrdd. Yn 1. mewn ymrëad y mae yn syth-godi, ac yn cael ei gyfyngu er mynedfa y wialen i'r groth. Yn 2. tra mae y fynedfa wedi ei gorlenwi gydag ysbryd a gwaed bywydawl, y mae yn dyfod yn gyfyngach er cofleidio y wialen; ac mewn perthynas i gyfleustra syth godiad, mae yn ddyblyg; Yn 1. o herwydd pe na buasai i wddf y groth gael ei syth-godi, ni allasai y wialen gael mynedfa gyfleus i'r gròth. Yn 2. y mae yn attal i unrhyw niwaid neu anafod, a allasai ganlyn trwy ysgydwad tanbaid y wialen yn amser ymread.

Mewn perthynas i'r gwythienau ag ydynt yn pasio trwy wddf y groth, eu defnydd ydyw ei ddiwallu ef â gwaed ac âg ysbryd, fel y gallo eto, gan fod y gwlybwr yn treulio trwy y gwres a grynhoir yn y weithred o ymrëad, trwy y llestri hyn gael ei adnewyddu; oud eu prif orchwyl ydyw trosglwyddo maeth i'r groth.

Y mae i'r groth lawer o gyneddfau yn cael ei chyfrif iddi; megis yn gyntaf daliad yr ŵy *ffoecundaidd*, gelwir hwn yn briodol beichiogiad: Yn 2. i'w achlesu a'i feithrin ef, hyd oni byddo natur wedi ffurfio y plentyn, a'i ddwyn i berffeithrwydd, ac yna y mae yn gweithredu yn gryf yn anfoniad allan yr esgoriad, pan y byddo amser ei arosiad yno wedi diweddu, gan ymledu mewn modd rhyfeddol, ac wedi ei symud mor hyfedr oddiwrth y teimladau fel nad all dim niwaid ddeillio oddiwrth hyny, gan gadw iddo ei hun y gallu a'r grym o weithredu, a bwrw allan yr esgoriad, oni wneir yn ddiffygiol trwy ddamwain;

ac yna, i'w cryfhau a'u galluogi, rhaid cymwyso meddyginiaeth trwy ddwylaw medrus; cyfarwyddiadau i'r hyn beth a roddir yn yr Ail Ran.

Defnydd y llestri paratoawl ydyw hyn; y rhydweliau sydd yn trosglwyddo y gwaed i'r eirin; rhan o ba un a roddir yn eu maeth, a dygiad allan y pledrenau bychain hyn (yn mhob peth yn tebygu i wyau) trwy ba rai y mae pethau paratoawl dirfawr yn rhedeg, ac yn cael eu dëoli ynddynt; ac mewn perthynas i'r gwythienau, eu swydd yw dwyn yn ol yr hyn a fyddo yn aros o'r gwaed oddiwrth y defnydd rhaggrybwylledig. Mae y llestri o'r fath hyn yn llawer byrach mewn benywod nac mewn meibion, o blegid eu hagosrwydd at yr eirin; pa ddiffyg, er hyny, a wneir i fynu trwy yr aml amddiryniadau dyrns, i'r rhai y mae y llestri hyny yn ddarostyngedig; canys yn y ffordd ganol y maent yn gwahanu yn ddwy gaingc, er yn amrywio yn eu maint, canys un, gan ei bod yn fwy na'r llall, sydd yn pasio i'r eirin.

Y mae yr eirin mewn benywod yn dra defnyddiol, canys lle y maent yn ddiffygiol, y mae gwaith cenhedliad ar ben. Canys, er nad yw y pledrenau hyny ag ydynt ar eu hwynebau allanol yn cynwys dim hâd, mal y dychymygent ddilynwyr Galen a Hippocrates yn gyfeiliornus, etto cynnwysant amrywiol wyau, ugain yn gyffredin yn mhob eirinen; un o ba rai wedi cael ei naws-lenwi gan y rhan poeth-wlyb o hâd y mab yn y weithred o ymrëad, sydd yn disgyn trwy lestri yr wyau (*ovaducts*) i'r groth, ac oddiyma, mewn yspaid o amser, y mae yn dyfod yn blentyn byw.

## Pen. 16.

### Am Offerynau Cenhedlliad mewn Dyn.

WEDI rhoddi i chwi ddesgrifiad o offerynau cenhedliad mewn benywod, gyda difyniaeth o adeilwaith y groth, yn awr, i wneuthur y rhan gyntaf yn gyflawn, caf ddesgrifio offerynau cenhedliad yn y meibion, a pha fodd y maent wedi eu cymhwyso i'r arferiad ag y mae natur wedi ei bwriadu iddo.

Yr offeryn cenhedliad yn y mab, (a elwir yn gyffredin y wialen) ac yn Lladin *penis*, *pedendo*, peth dibynol, o herwydd ei fod yn crogi i lawr o'r tu allan i'r bol, sydd rau offerynol, yr hwn sydd yn gynwysedig o groen, giau, gwythienau, rhydweliau, gewynau, a gewynau cyswllt mawrion, ac y mae yn hir a chrwn, ac ar y tu uchaf yn lled wastad, ei eisteddle o dan yr *os pubis*, ac wedi ei ordeinio gan natur mewn rhan er arloesiad pision, ac mewn rhan er trosglwyddo hâd i'r bru; i ba ddyben y mae yn llawn o chwys-dyllau bychain, trwy ba rai y mae yr hâd yn pasio iddi, trwy y chwysigen hadawl (*vesicula seminalis*,) a hefyd gwddf y *vesicula urinalis*, yr hon sydd yn tywallt allan y pision pan y maent yn gwneyd dŵr; heblaw y rhanau cyffredin, sef y ddau gorph gewynawg, y *septum*, yr *urethra*, sef y bibell y rhed y dwfr trwyddi o'r chwysigen, y chwarenau, y pedwar gieuyn, a'r llastr. Y cyrph gewynawg (a elwir felly) a amgylchynir gan bilionen wen, dew hydraidd, ond ei sylwedd nesaf i mewn sydd yspyngaidd, yn gynwysedig yn benaf o wythienau, rhydweliau, a mân-linynau gewynawg, wedi eu cydwau fal rhwyd. A phan y mae y gewynau wedi eu llenwi ag ysbrydoedd bywydawl, a'r rhydweliau â gwaed poeth-wlyb,

yna mae y wialen yn cael ei harledu, ac yn dyfod yn syth; ond pan y mae ymlanwad yr ysbrydoedd yn peidio, yna y mae y gwaed a'r ysbrydoedd arcsol yn cael eu sugno i fynu gan y gwythienau, ac felly y mae ysbrydoedd y wialen yn llipa ac ymollyngol. Oddidan y cyrph gewynawg hyn y mae y bibell hono, yr *urethra;* a pha bryd bynag y mae y cyrph gewynawg yn ymchwyddo, y mae hithau hefyd yn ymchwyddo. Gewynau y wialen ydynt bedair; dwy ferach yn cyfodi o'r *coxendix*, ac yn gwasanaethu er syth-godiad, ac am yr achos hwn gelwir hwy syth-godwyr; dwy fwy yn tarddu allan o *spinchter* yr *anus*, y rhai ydynt yn gwasanaethu i ledu y bibell *urethra* er arloesiad hâd, ac a elwir ymhelaethwyr neu amddirynwyr. Y'mhen y wialen y mae chwarenau, wedi eu gorchuddio gyda philionen dra theneu, trwy gyfrwng pa un, a'i sylwedd gewynawg, y mae yn dyfod yn dra chywrain o deimladwy, ac efe yw prif eisteddle pleser yn y weithred o ymrëad.

Gelwir gorchudd nesaf allan y chwarenau *praeputium, percutreudo,* oddiwrth ei fod yn cael ei dori i ffwrdd, ac efe yw yr hwn a dorai yr Inddewon ymaith yn yr enwaediad, a chlymir ef wrth y rhanau isaf o hono wrth chwarenau y milrhith. Mae y wialen hefyd wedi ei hystorio â gwythienau, rhydweliau, a gewynau.

Y *testicula* neu arenau (a elwir felly am eu bod yn tystio un o fod yn fab) sydd yn gweithio y gwaed a ddygir iddynt gan y rhydweliau hadol i hâd, Y mae iddynt amwisgiadau o ddau fath, priodol, a chyffredin; y cyffredin ydynt ddwy, ac y maent yn arwisgo y ddwy aren. Y mae rhan nesaf allan yr amwisgiadau cyffredin yn cynwys y *cuticula*, neu wir-groen, a gelwir ef

ceill-gŵd, yn crogi allan o'r bol fal pwrs; y nesaf i mewn ydyw y bilionen gigog (*membrana carnosa.*) Yr amwisgiadau priodol ydynt ddwy hefyd; y nesaf allan a elwir *eliotrodes,* neu *virginales,* y nesaf i mewn *albugidia;* i mewn i'r nesaf allan y dodir y *eremaster.* Wrth ran uchaf y *testes* y sicrheir yr *epidimydes,* neu *prostratae;* o ba le y cyfyd y *vasa deferentia,* neu *ejaculatoria;* y rhan, pan ddeuant yn agos i wddf y bledren, sydd yn rhoddi yr hâd y'nghadw i'r *vesicula seminales;* y *vesicula seminales* hyn ydynt ddwy, pob un o honynt fal swp o rawnwin, ac ydynt yn anfon allan yr hâd i'r bibell *urethra* yn y weithrsd o ymrëad. Yn gyfagos iddynt y mae y *prostratae,* oddeutu maint cneuan ffrenig, ac yn uno â gwddf y bledren. Nid yw Awdwyr yn cyduno y'nghylch yr arferiad o honynt, ond y mae y rhan fwyaf o'r farn eu bod yn rhoddi gwlybwr olewaidd, golchionllyd, a thew, i iro y bibell *urethra,* trwy yr hyn y mae yn amddiffyn yr unrhyw rhag surni yr hâd a'r pision. Ond y llestri sydd yn trosglwyddo y gwaed i'r *testes,* o ba rai y gwneir yr hâd ydynt y rhydweliau paratoawl, y rhai hefyd ydynt ddwy. Y gwythienau sydd yn cario allan y gwaed arosol ydynt ddwy, a chyfenwir hwynt *venae spermaticae.*

---

## Pen. 17.

Gair o gyngor i'r ddau Ryw, sef amryw Gyfarwyddiadau mewn perthynas i'r weithred o Ymrëad.

YN gymaint a bod natur wedi planu y'mhob creadur ddymuniad cyd-gyfranogol i ymrëad, er cynydd a chenhedliad ei ryw, ac yn fwy enwedigol mewn dyn, arglwydd y greadigaeth, a phen-

gorchwyl natur, fel na byddo i ddernyn mor ardderchog ddarfod, dylid dywedyd rhywbeth mewn perthynas iddo, gan mai efe yw sylfaen yr hyn oll ag y buom hyd yn hyn yn ymdrin âg ef, gan na all fod cenhedliad heb ymrëad. Gan hyny, yn gweled fod cymaint yn ymddibynu ar hyny, tybiais yn angenrheidiol cyn i mi derfynu y rhan gyntaf, roddi y cyfryw gyfarwyddiadau i'r ddau ryw, er cwblhad y weithred hono, ac a all ymddangos yn effeithiol i'r dyben i ba un y darfu i natur ei bwriadu: ond gwneir hyny gyda'r cyfryw ocheliad fel ag i beidio a thramgwyddo y glust fwyaf diwair, nac i beri i'r rhywogaeth hawddgar wrido wrth ei ddarllen. Yn gyntaf, ynte, pan y mae pâr priodasol, oddiar ddymuniad i gael plant, oddeutu arfer y moddion hyny a ordeiniodd natur i'r dyben hwnw, tra chyfaddas a fyddai maethu y corph gyda phethau adgyweiriol a bair genhedliad, fel ag i beri iddo fod yn fywiog ac egniol; a phe caffai eu dychmygion eu boddio gyda thôn felus a pher-seiniol, a gofal, a meddwl am orchwylion eu boddi mewn gwydriad o win rhosaidd, fel y byddo i'w hysbrydoedd gael eu codi i'r gradd uchaf o awyddfryd a llawenydd, ni byddai yn feius, canys mae unrhyw ddim o brudd-der, blinder a thristwch, yn elynion i ddifyrwch Venus. A phe digwyddai beichiogiad ar unrhyw amserau o'r fath ymrëad, byddai iddo gael effaith ddygas ar y plentyn. Ond er y gellir defnyddio pethau adgyweiriol er cryfhau natur, etto dylid gochelyd pob gormodedd yn ofalus, canys lleihâ hyny fywiogrwydd yr ysbrydoedd, ac a'u try yn farwaidd ac egwan, ac hefyd ettyl y trenliaid, ac felly rhaid mai gelyn yw i ymrëad; canys llunaeth wedi ei gymeryd yn gymhedrol a'i iawn-dreulio yn y cylla, sydd yn creu ysbryd-

oedd da, ag sydd yn galluogi y dyn i gwblhau cymhelliadau natur gyda bywiogrwydd ac egni. Y mae hefyd yn dra angenrheidiol fod iddynt gyfarfod y naill y llall yn eu hymgofleidiadau cyd-gyfranogol gydag awyddfryd cyfartal; canys os bydd i'r ysbrydoedd lesgâu ar unrhyw du, hwy a syrthiant yn fyr o'r hyn y mae natur yn ei ofyn, a'r fenyw a wna naill a'i pallu mewn beichiogiad, neu ynte y plant a dröant allan yn weiniaid yn eu cyrph, neu yn ddiffygiol yn eu dealltwriaeth: gan hyny, cynghorwn hwynt, cyn iddynt ddechreu ar eu hymgofleidiau dyweddiol, i gryfhau dymuniad eu gilydd, a gwneuthur idd eu fflam losgi gydag awyddfryd ffyrnig, trwy y ffyrdd anwylaidd hyny ag y gall cariad ei ddysgu yn well iddynt nac y gallaf fi ysgrifenu.

A phan fyddont wedi darfod yr hyn y mae natur yn ei ofyn, rhaid i'r dyn gymeryd gofal na byddo iddo ymadael yn rhy fuan o ymgofleid-iadau ei wraig, rhag i ryw anwyd cyfryngol disymwth darawo i mewn i'r groth, a bod yn achos o erthyliad, a thrwy hyny eu hymddifadu o ffrwyth eu llafur.

Ac ar ol rhyw ychydig amser cyfleus, i'r dyn ymneillduo, boed i'r fenyw yn araf ymroddi i orphwys, gyda phob llonder a thawelwch meddwl a ellir ei ddychymygu, yn rhydd oddiwrth bob meddwl pryderus a therfysglyd, neu unrhyw fath arall o gynwrf meddwl, pa bynag. A bydded iddi ymattal rhag troi ei hun oddiar yr óchr hono ar ba un y gorphwysodd gyntaf gymaint a all. Ac er dim boed iddi ochelyd pesychu a thisian, yr hyn trwy ei ysgydwad tanbaid ar y corph, sydd yn elyn mawr i feichiogiad, os digwydd yn fuan ar ol y weithred o ymread.

# *DRYCH CYFRINACHOL*

I'R

# RHYW FENYWAIDD.

## YR AIL RAN,

*YN tractlın am yr amrywiol Anhwylderau ag sydd yn ddigwyddiadol i'r Groth, yn nghyd a Meddyginiaethau cyfaddas er gwellhad.*

### Pen. 1.

Am y Groth yn gyffredinol.

ER fy mod wedi dywedyd rhywbeth am y groth yn y Rhan Gyntaf, etto, gan fy mod yn yr Ail Ran, i draethu yn fwy neilldnol ar hyny, ac am yr amrywiol glefydau ac anhwylderau y mae yn ddarostyngedig iddynt, ni thybiaf ef yn fyn-ych-adroddiad o roddi i chwi, mewn ffordd o addysg, ddesgrifiad cyffredinol o'r naill a'r llall, sef sefyllfa a maint; ond yn hytrach meddyliaf na ellir ei adael heibio ar un cyfrif, yn enwedig gan fy mod i dracthu ynddo am gyneddf y gwaed misawl.

Yn gyntaf, mewn perthynas i'r groth. Gan y Groegiaid gelwir hi *Metra*, hyny yw, y Fam; *adelphos* meddai Prisciun, o herwydd ei bod yn ein gwneuthur ni oll yn frodyr.

Y mae wedi ei gosod yn yr *hypogastrium* neu y rhan isaf o'r corph, yn y ceudod a elwir *pelvis;* a chanddi y perfeddyn mawr ar un tu, idd ei chadw rhag y tu arall i'r asgwrn cefn, a'r bledren

ar y tu arall i'w hamddiffyn rhag dyrnodiau. Ei ffurf, neu ei llun sydd yr un fath ag aelod gŵraidd, ond yn unig ei desgrifio fal hyn:—y mae y dyndeb o'r tu allan, a'r gwreigdra yn dufewnol.

Y mae yn cael ei rhanu i'r gwddf a'r corph. Y gwddf sydd yn gynwysedig o sylwedd caled cigog, yn dra thebyg i fadruddyn, y'mhen pa un y mae pilionen wedi ei gosod yn groes-ymgroes, a elwir *hymen* neu *engion*. Yn agos i'r gwddf y mae yno binygl yn crogi trosodd, yr hwn a elwir gan Mountinus, drws y groth, o herwydd ei fod yn cadw y bru rhag anwyd a llwch; gan y Groegiaid gelwir ef *clytoris;* gan y Lladinwyr, *pracputium mulicbre,* o herwydd ddarfod i'r benywod Iuddewaidd gamarfer y rhanau hyny i chwantau eu gilydd, fel dywed Paul, Rhuf 1.26.

Corph y groth ydyw hwnw, yn yr hwn yr ymddygir y plentyn; ac nid yw hwn yn hollol grwn, ond y mae yn ymledu i ddwy gongl, y rhan allanol o hono yn gieulyd, a llawn o ewynau, y rhai ydynt yn achos o'i ysgogiad, ond yn dufewnol y mae yn gigog. Y'ngheudod y groth y mae dwy gell, neu dderbynfeydd i hâd dynol, yn cael eu gwahanu gan linynau, yn rhedeg trwy eu canol. Yn yr ochr ddeau i'r ceudod, o herwydd gwres yr afu, yr ymddygir ar wrryw, yn yr ochr aswy trwy oerder y ddueg, y cenhedlir menyw. Y mae y rhan fwyaf o'n hysgrifenwyr diweddar yn dal y peth uchod fel gwir anffaeledig, etto, nid yw Hippocrates yn ei ddal ond yn gyffredin: "Canys yn y rhai, (medd efe) y mae y llestri hadol ar y tu deau yn dyfod o'r eirin, a'r llestri hadol ar y tu aswy o'r wythien wag, ynddynt hwy beichiogir ar wrryw yn yr ochr aswy, a menyw yn y ddeau." Hawdd,

gan hyny, y gallaf fi derfynu yn ngeiriau yr enwog Empedocles, "Y cyfryw weithiau yw grym yr hâd, fel y gall y gwrryw gael beichiogi arno yn yr ochr aswy yn gystal â'r ochr ddeau." Y'ngwaelod y ceudod y mae tyliau bychain a elwir *cotiledones*, y rhai ynt benau gwythienau a rhydwelian, yn gwasanaethu mewn benywod a fyddo'n planta i drosglwyddo sylwedd i'r plentyn, yr hwn a dderbynir gan y gwythienau bogeiliol; ac eraill i gario eu cylchrediadau i'r bru.

Yn awr mewn perthynas i'r mis-lifiadau, eglurir hwy o fod yn ddylifiad misol o waed carthlyd a difudd, yr hyn sydd i'w ddeall am y gormodedd neu yr arddigonedd o hono. Canys carthion yw mewn cyneddf, ei swm yn bod yn bur ac anllygredig, yn gyffelyb i'r gwaed yn y gwythienau.

Ac fod y gwaed misawl yn bur a thenen o hono ei hun, oll o'r un gyneddf a hwnw yn y gwythienau, a brofir ddwy ffordd: yn gyntaf, oddiwrth achos terfynol y gwaed, yr hyn yw taeniad ac ymgystlwn dynolryw, fel y byddai i ddyn gael ei ymddwyn; ac wedi ei ymddwyn ei gysuro a'i noddi, yn, ac allan o'r groth. Ac addef pawb, fel gwir, fod plentyn, pan yn y bru, yn cael ei faethu gyda'r gwaed. Ac y mae yn wirionedd, pan allan o'r groth, ei fod etto yn cael ei faethu â'r un peth; canys nid yw y llaeth ddim ond gwaed misawl wedi ei wneuthur yn wỳn yn y fron. Yn ail, profir mai gwir yw oddiwrth ei genhedliad, gan mai arddigonedd yw o feithriniad y rhanau cigog.

Dybon natnriol bodolaeth mab a merch yw i liosogi; a dodwyd yr arch hon arnynt gan Dduw ar eu creadigaeth cyntaf, a thrachefn ar ol y dilnw. Yn awr, yn y weithred o genhedlu, y mae yn rhaid bod gweithredydd a goddefydd;

canys os byddant eu dau yn mhob modd o'r un ansawdd corph, ni allant eppilio; mae mab, gan hyny, yn dwymn a sych, merch yn oer a suddlyd: efe yw y gweithredydd, y hi y goddofydd, neu y llestr gwanaf, fal y byddai iddi fod yn ddarostyngedig i swydd y mab. Y mae yn angenrheidiol i'r fenyw fod o ansawdd corph oer. o herwydd ynddi hi y mae yn ofynol fod gorddigonedd o natur i'r baban a fyddo yn ymddibynu arni: canys pe na byddai gorddigonedd o faeth i'r plentyn, mwy nac sydd yn gyfleus i'r fam, yna y baban a fychanai ac a wanhäai brif-ranau y fam; ac yn gyffelyb i'r wiber, byddai cenhedliad y baban yn ddistryw i'r fam.

Mae y carthiadau misol yn parhau o'r 15*fed* flwyddyn i'r 46 neu 50*ain*, etto yn fynych y mae attaliad yn digwydd, yr hwn sydd naill ai naturiol ai heintus; atelir hwy yn naturiol mewn benywod a fyddo yn planta, a'r cyfryw ag a fyddo yn rhoddi sugn. Yr attaliad heintus neu glafychus sy'n awr yn syrthio i'n trefn o lefaru am dano.

---

## Pen. 2.

Am attaliad y Mis-lifiant.

LLETHIAD y mis-lifiant sydd rag-ddaliad o'r arloesiad arferol hwnw o waed, yr hyn a ddylai ddyfod o'r groth bob mis, yn deillio o'r offeryn neu'r sylwedd a fyddo wedi ei lygru. Y rhan a effeithir arni yw y groth, a hyny o honi ei hun, neu trwy gydsyniad.

*YR ACHOS.*] Yr achos o'r llethiad hwn sydd naill ai allanol ai tufewnol. Yr achos allanol a all fod brydaniaeth neu sychder yr awyr, gwylio anghymedrol, llafur mawr, chwyfiad tanbaid, &c.

trwy yr hyn y mae y sylwedd yn cael ei ddifa, a'r corph ei dreulio gymaint, fel nad oes gweddill yn aros i gàel ei fwrw allau, fal yr adroddir am yr Amasoniaid, y rhai, gan eu bod yn weithgar, a phob amser mewn ysgogiad, oeddynt a'u dylifiadau yn ychydig iawn, neu heb ddim fodd yn y byd. Neu gall anwyd fod yn achos o hyny, yr hyn sydd fwyaf mynych, gan wneuthur y gwaed yn ŵydus, ac anmhur, yn tewychu a rhwymo i fynu y mynedfeydd, fel na all ddylifo yn mlaen.

Yr achos allanol sydd naill ai offerynol neu famol, yn y groth neu yn y gwaed.

Yn y groth, gall fod mewn amryw ffyrdd, trwy orgasgliadau, gorlifiadau, llynorod, trwy gulni y gwythienau a'r mynedfeydd, neu trwy y weren fol, mewn cyrph tewion, yn gwasgu gwddf y bru; ond yna y mae yn rhaid fod arnynt y dorgest; canys mewn dynolryw nid yw y *kell* yn cyraedd cyn ised; trwy ormodedd o oerni neu wres, y naill yn llygru y weithred, y llall yn difa y sylwedd trwy ddrwg-gyfansoddiad y rhannau un-grothog, trwy fod gwddf y groth yn cael ei droi o'r neilldu, ac weithiau, er yn anfynych, trwy fod pilionen, neu erthwf o'r cnawd yn tyfu oddentu safn neu wddf y groth. Gall y gwaed fod mewn anaf ddwy ffordd, mewn swm neu gyneddf: mewn swm, pan y mae wedi ei ddifa i'r fath radd, fel nad oes gor-ddigonedd wedi ei adael, megis mewn gŵŷr-ferched, neu fenywod gŵraidd, y rhai, trwy eu gwres a chryfder eu natur, ydynt yn treulio ac yn difa y cwbl yn eu maeth olaf; mal yr ysgrifena Hippocrates am Prethusa, yr hon, yn cael ei derchafu gan ei gŵr Pathea, ei mis-glwyf a attaliwyd, ei llais a newidiodd, ac yr oedd ganddi farf, gyda gwynebpryd dyn. Ond y rhai hyn a farnaf fi

yn fenywod-fwytawyr yn hytrach nac yn eppilwyr benywaidd, o herwydd eu bod yn difa un o ddansoddion cenhedliad, yr hyn sydd yn rhoddi bod i'r byd, sef y gwaed misawl. Yn yr un modd y gall y gwaed gael ei ddifa, ac yn ganlynol y mis-lifiant ei arafu, trwy waedlif y ffroenau, trwy ddylifiad yr *hemorrhoids*, trwy glefyd y gwaed, a thrwy eraill o arloesiadau, a thrwy anhwylderau parhaus a henaidd. Yn ail, gall y sylwedd fod yn wydus o gyneddf; a chaniatau ei fod yn waedawl, llysnafeddawg, geriaidd, neu dduegaidd; pob un o'r rhai hyn, os ydynt yn camweithredu mewn amhuredd, a fyddant yn achos o attaliad yn y gwythienau.

*ARWYDDION.*] Arwyddion yn amlygu yr afiechyd ydynt, poenau yn y pen, y gwddf, y cefn, a'r lwynau; lludded yr holl gorph, ond yn enwedig y eluniau a'r coesau, o achos y cyfrwng sydd i'r bru gyda y rhanau hyn; cryndod calon. Arwyddion neillduol yw y rhai hyn: Os yw y llethiad yn deillio oddiwrth anwyd, y mae hi yn athrist, cysglyd, o liw gwelw, a churiad gwaed araf; ymgyrch Venus a esgeulusir, mae y pision yn myned yn llymrig, y gwaed yn dyfod yn ddyfrllyd, ac yn llawer mewn swm, ac y mae carthion y perfedd yn gyffredin yn cael eu dal. Os o wres, y mae yr arwyddion yn wrthwyneb i'r rhai a draethir am danynt yn awr. Os bydd yr attaliad yn naturiol, ac yn dyfod o feichiogiad, gellir gwybod hyn trwy yfed o fedd-lyn, h. y. o fêl a dwfr, ar ol swpper, wrth fyned i'r gwely, trwy effaith yr hyn y mae yn gweithio: canys os, ar ol ei gymeryd, y bydd yn teimlo poen ymosodedig ar y bogail a'r rhan isaf o'r bol, y mae yn arwydd ei bod wedi beichiogi, a bod y llethiad yn naturiol; os na bydd, yna y mae yn

ŵydus neu feius, a dylai gael ei gymeryd ymaith yn feddyginiaethol.

*Rhag-argoelion.*] Gyda drwg gyneddf y groth y mae yr holl gorph yn sefyll dan ruthr, ond yn enwedigol y galon, yr afu, a'r ymenydd; a rhwng y groth a'r tair prifran hyn, y mae cyd-luniad neillduol. Yn gyntaf, mae y groth yn cyfranu i'r galon trwy gyfryngiad y rhydwelïau hyny ag ydynt yn dyfod o'r rhydweli fawr, a elwir *aorta*. Oddiyma, wedi i'r mis-lifiadau gael eu hatal, y canlyna, llewygfeydd, llesmeiriadau, gorphwysiad curiad y gwaed, ymattaliad anadl. Yn ail, y mae yn cyfranu i'r afu trwy y gwythi tarddedig o'r wythien wâg. Oddiyma y canlyna attalfeydd, *cahexies*, y cryd melyn, y dyfrglwyf, caledwch bisweilio. Yn drydydd, y mae yn cyfranu i'r ymenydd trwy giau a philen y cefn: oddiyma y cyfyd y llesmeirglwyf, y gynddaredd, y pruddglwyf, y pothŵyn, poen yn rhanau ol y pen, ofnusrwydd, ac anallu i siarad. Hawdd, gan hyny, y gallaf derfynu gyda Hippocrates, os llethir y mis-lifiant, llawer o anhwylderau peryslus a ddilynant.

*Meddyginiaeth.*] Yn ngwellhâd hwn, a'r holl effeithiau dilynol eraill, caf sylwi ar y drefn. Cymmerir y gwellhad oddiwrth foddion llaw-feddyginiaethol cyfferiaethol, a throeth-beiriol. Y llethiad hwn sydd effaith gorllanawl, ag sydd raid ei ddwyn ymaith trwy arloesiad; a chan hyny, dechreuwn yn gyntaf gyda gollyngiad gwaed. Yn' nghanol ystod y mis-lif agorwch wythien yr afu; ac er cadw yn ol y sudd, ddeuddydd cyn yr arloesiad, agorwch y fam-wythien yn y ddau droed; os bydd y gorllanwad heb fod yn fawr, cymhwyswch wydrau craffiniai wrth y coesau a'r morddwydydd, er na fydd yno ddim

gobaith i symud yr attaliad. Gan fod y *cotiledones* wedi eu cau i fynu i'r fath raddau mewn rhai, fel na wna dim ond ymrëad eu hagor, etto bydd yn fuddiol, gymaint a ellir, i ysgafnhau natur o'i llwyth, trwy agor gwythienau'r ffolenau â gele. Ar ol gollyngiad gwaed, bydded i'r gwlybyrau gael eu paratoi a'u hystwytho gyda *syrup of stychas, calamint, betony*, issop, *mugwort, horehound, fumitary, maidenhair.* Eneiniwch gyda *camomile, pennyroyal, savia, bay-leaves, juniper berries, rue, marjoram, feferfew.* Cymerwch o ddail *nep, maidenhair, succory, a betony*, o bob un llonaid llaw, gwnewch feddyglyn; cymerwch o hono dair wns. *Syrup of maidenhair, mugwort*, a *succory*; cymysgwch o bob un haner wns. Ar ol iddi ddyfod allan o'r bâdd, boed iddi ei yfed i fynu. Carthwch allan *pill de agarice, fleybang, corb, feriae.* Galen, yn yr achos hwn, a gan-mola *pilulae de caberica, coloquintida*; o herwydd eu bod yn addas i garthu y gwlybwr a fyddo yn cam-weithredu, felly hefyd y maent yn agor mynedfa y groth, ac yn cryfhau y meddyginiaeth trwy eu cyneddf beraroglaidd.

Os bydd y cylla wedi ei orlwytho, bydded iddi gymeryd cyfoglyn, eto y fath un ag a all weithio y ddwy ffordd, rhag, wrth weithio ond i fynu yn unig, y try ormod yn ol ar y gwlybwr. Cymerwch *trochisks of agaric*, dwy ddram, trwythwch hwy mewn dwy wns o fêl a gwinegr, yn yr hwn toddwch o *electuary diasarum*, scruple a haner, *bendic, lait*, haner wns. Cymerwch hwn yn ol trefn carth-feddyginiaeth.

Wedi i'r gwlybwr gael ei garthu, ewch y'mlaen gyda meddyginiaeth mwy priodol a mwy grymus, Cymerwch o *trochisk of myrrh*, dram a haner; hâd *persley, costor rinds*, neu *cassia*, o bob un

scruple, ac o wasgiad *mugwort*, scruple a haner; o fwsg deg gronyn, gyda sudd *smallage;* gwnewch ddeuddeg o beleni; cymerwch chwech bob bore, neu ar ol swpper wrth fyned i'r gwely. Cymerwch o *cinnamon* haner wns, *smirutium*, neu *rogos*, *valerian*, *aristolochia*, o bob un dwy ddram; gwreiddiau *astrumorc*, *dram saffron*, o bob un dwy scruple; *spec. diambia*, dwy ddram; *trochisk of myrrh* pedair scruple; *tartari vitriolari*, dwy scruple; gwnewch ei haner yn fânlwch, gyda dwfr *mugwort*, a swm digonol o siwgr; gwnewch *lozenges;* cymerwch un dram o honynt bob bore, neu gymysgwch un dram o'r mânlwch gyda dram o siwgr, a chymerwch hwy mewn gwin gwyn. Cymerwch o ddûr darparedig, *spec. hair*, o bob un dwy ddram; *borax*, *spec*, *of myrrh;* o bob un scruple, gyda sudd *savine;* gwnewch ef i fynu yn wyth-deg ac wyth (88) o *lozenges*, a chymerwch dair bob yn eildydd cyn ciniaw. Cymerwch o *castor* un scruple, hâd moron y maes, haner dram, gyda *syrup of mugwort*, a gwnewch bedair pelen; cymerwch hwy yn y bore, gan ymprydio, ac felly am dridiau y'nghyd, cyn amser arferol carthiad. Cymerwch o *agaric*, *aristolochia*, sudd *horehound*, o bob un bum' dram; *rhubarb*, yspicnard, hâd anis, *gaidanum assafoctida*, gwreiddiau hocys, *gentian of the three peppers*, *lacoace*, o bob un chwe' dram; gyda mêl gwnewch gyffaith, a chymerwch o hono dair dram yn ddogn. Mewn cyrph llysnafeddawg, ni ellir rhoddi dim sydd well na thrwyth coed *guaïcum*, gydag ychydig ymwadiad, wedi ei gymeryd yn y boreu, gan ymprydio, ac felly am ddeuddeg diwrnod yn nghyd, heb gynhyrfu chwys.

Gweinyddwch i'r rhanau isaf trwy dânfygiadau, gorethau meddyginiaethol, (*pessary*) enemiadau,

chwistrelliadau; gwnewch dân-fygiadau gyda *cinnamon*, *nutmeg*, *cloves*, *bay berries*, *mugwort*, *galbanum*, *molanthium*, *umber*, *&c.* Gwnewch orethau meddyginiaethol o *figs*, a dail *mercury*, wedi eu hysigo, a'u hamdroi gyda chrafion lliain. Os byddwch yn chwenych un cryfach, gwnewch un o *myrrh*, *adulium*, *apopanax*, *ammoniacum*, *galbanum*, *sagepanum*, *mithridate*, *agaric*, *coloquintida*, *&c.* Gwnewch eneiniadau o drwyth *origane*, *mugwort*, *mercury*, *betony*, ac wyau; chwistrelliwch ef i'r groth gydag offeryn cymwys i'r dyben hwnw. Cymerwch o *oil of almonds*, *lilies*, *capers*, *camomile*, o bob un háner wns; *laudani*, *oil of myrrh*, o bob un dwy ddram; gyda chŵyr gwnewch enaint, gyda'r hwn bydded i'r màn gael ei eneinio; gwnewch isgelliadau, o *fenugreek*, *camomile*, *melilot*, *dill*, *marjoram*, *pennyroyal*, *feferfew*, *juniper berries*, a *calamint*; ond os bydd y llethiad yn dod o ddiffyg sylwedd, yna, oni ddylai y mis-lif gael ei gynhyrfu hyd oni chaffai yr ysprydoedd eu bywhau, a'r gwaed drachefn ei amlhau; neu, os trwy effeithiau priodol y groth, megis dyfrglwyf, enynfeydd, &c., yna rhaid arfer gofal neillduol; yr hwn na chaf sefyll arno yma, ond llefaraf am danynt fal y gorweddant mewn trefn.

Os bydd yr ataliad yn dyfod o orllawniad neu lawnder, os bydd yr awel yn gynes a sech, defnyddiwch orchwylwaith cymedrol cyn bwyta, a'ch bwyd a'ch diod yn lleihau; gyda eich bwyd arferwch *savory* gerddi, *thyme*, *origane*, ac *cyche peason*; os o wagter neu ddiffyg sylwedd, os bydd yr awyr yn llaith ac yn gymedrol o frwd, ymataliwch rhag orchwylwaith a gwylio; bydded i'ch bwyd fod yn faethlon, ac o dreuliad ysgafn, megis wyau amrwd, cig oen, cywion, *almonds*, llaeth, a'r cyffelyb.

## Pen. 3.

### Am Or-lifiad Mis-lifiant.

DYWED y Dysgedig, mai wrth gydmaru pethau gwrthwynebol, y mae y gwirionedd yn cael ei amlygu; gan ddarfod i mi, gan hyny, draethu am lethiad, neu attaliad y mis-glwyf, y mae trefn yn gofyn yn awr i mi sefyll ar y gor-lifiad o honynt, effaith nad ydyw yn llai peryglus na'r un blaenorol; ac amlygir y llifiant anghymedrol hwn o fod yn garthion gwaedawl, yn tarddu allan o'r groth, yn blaenori mewn swm ac amser. Yn gyntaf, dywedir ei fod yn waedol; sylwedd y dylifiad heb fod yn ddim ond gwaed, yn yr hyn y mae yn gwahaniaethu oddiwrth yr hyn a elwir yn gyffredin, y mis-lifiadau geuog, neu y gwyn-red (*whites*) am yr hyn y traethaf ar ol hyn. Yn ail, dywedir ei fod yn tarddu o'r groth; canys y mae dwy ffordd o ba rai y mae y gwaed yn dylifo y'mlaen, y naill sydd trwy wythienau tufewnol corph y groth; a gelwir hwn yn briodol y dylifiad misawl; y llall sydd trwy y gwythienau hyny a derfynant yn ngwddf y bru; a gelwir hwn, gan Aetuis, lledwigwst y groth. Yn ddiweddaf, dywedir ei fod yn blaenori mewn swm ac amser. Mewn swm, meddai Hippocrates, pan y byddant yn dylifo oddeutu deunaw wns; mewn amser, pan y byddant yn dylifo mwy na thridiau; ond yr ydym yn cymeryd hyn am gymeriad penodol o'u dylifiad gormodol, pan y mae galluoedd y corph yn cael trwy hyny eu gwanhau. Mewn cyrph yn meddu digonedd o wlybyrau anmhur, mae y dylifiad anghymedrol hwn weithiau yn dadfeichio natur o'i llwyth, ac ni ddylai gael ei arafu heb ymgynghori â meddyg.

*Yr Achos.*] Yr achos o'r peth hwn sydd naill ai mewnol neu allanol. Yr achos mewnol sydd driphlyg; yn y sylwcdd, yr offeryn, neu y gyneddf. Gall y sylwedd, yr hyn sydd yn y gwaed, fod yn nwydus neu ddrygeddus ddwy ffordd. Yn gyntaf, trwy boethder yr ardymer, yr ardal, neu dymor, yn poethi y gwaed, trwy yr hyn y mae y mynedfeydd [*passages*] yn cael eu hymledu, a'r gyneddf ei gwanhau, fel na all ddal y gwaed. Yn ail, trwy gwympiadau, dyrnodiau, chwyf (*motion*) tanbaid, toriad y gwythienau, &c. Yr achos allanol a all fod poethder yr awyr, codi a chario beichiau trymion, genedigaeth annaturiol, &c.

*Arwyddion.*] Yn y llifiant gormodol hwn, nychir y chwant at fwyd, llygrir y beichiogiad, a gwanheir yr holl weithrediadau; mae y traed yn chwyddedig, lliw y wyneb wedi newid, ac y mae llesgedd cyffredinol yn meddiannu yr holl gorph. Os bydd y llifiad yn dyfod trwy doriad gwythien, mae y corph weithiau yn oer, mae y gwaed yn dylifo allan yn bentyrau, a hyny yn ddisymwth, gyda phoenau mawrion. Os bydd yn dyfod trwy boethder, briw-dwll y wythien wedi ymledu, yna nid oes ond ychydig neu ddim poen, eto y mae y gwaed yn dylifo yn gynt nag y mae mewn amdreuledd, (*corosion*) ac nid cyn gynted ag y gwna mewn rhwygiad. Os trwy amdreuledd, neu awchlymedd y gwaed, y bydd hi yn teimlo poethder mawr yn lleithlosgi (*scald*) y fynedfa, y mae yn gwahaniaethu oddiwrth y ddau eraill, trwy ei fod heb lifo mor ddisymwth, nac mor helaeth ag y gwnant hwy. Os trwy wendid y groth, y mae hi yn casâu ymarfer neu wasanaeth *Venus*. Yn olaf, os bydd yn deillio oddiwrth ddrwg gyneddf y

gwaed, defnyner peth o hono ar liain, a phan sycho, gallwch farnu o barth y gynneddf wrth y lliw. Os bydd yn eriog, (*choleric*) melyn a fydd; os prudd-glwyfus, du; os llysnafeddawg, dyfrllyd a gwynaidd.

RHAGARGOELION,] Os bydd dirgryniad yn gysylltiedig gyda'r llifiad, y mae yn beryglus, o herwydd yr arwydda fod y rhanau ardderchoccach yn cael eu llygru; ac y mae dirgryniad a achlysurir gan wagter yn farwol. Os parhâ yn hir, ni wellheir ef ond gydag anhawstra mawr, o herwydd un o'r gwyrthiau a wnaeth ein Hiachawdwr Crist ydoedd, meddyginiaethu yr afiechyd hwn wedi parhau o hono ddeuddeng mlynedd.

I derfynu, os bydd y llifiad yn ormodol, llawer o anhwylderau a sicr-ganlynant, ac heb feddyginiaeth, y gwaed ynghyd â'r poethder cynnwynol, wedi cael ei ddifa, naill ai anhwylderau anniwygus, dyfrglwyfus, neu barlysaidd, a ddilynant.

GWELLHAD.] Mae y gwellhad yn gynnwysedig mewn tri pheth. Yn gyntaf, trwy yru yn ol, a chario ymaith y gwaed; yn ail, trwy gywiro a chymeryd ymaith ddylifiad y sylwedd; yn drydydd, trwy gyd-gorphori y gwythienau a'r cynneddfau. I'r cyntaf, i beri i'r gwaed fyned yn ol, agorwch wythien yn y fraich, a gollyngwch gymaint o waed ag a oddefa cryfder y goddefydd; a hyny, nid ar unwaith, ond ar amryw droiau, canys trwy hyny ni wanheir yr ysbrydoedd gymaint, ac y mae y gwrthdroad gymaint yn fwy.

Cymhwyswch wydrau craffuriaid (*Cupping glasses*) at y *brestiau*, ac hefyd yr afu, mal y gallo y gwrthdroad fod yn y ffynhonell. I gywiro dylifiad y sylwedd, gellir defnyddio

moddion carthol, wedi eu cymedroli â phethau rhwymol.

Os bydd yn cael oi achlysuro gan amdreuledd, neu surni y gwaed, ystyrir pa un ai yw yr amdreuledd trwy lysnafedd hallt, neu eri llosgedig (*Adust Choler.*) Os trwy lysnafedd hallt, parotowch gyda sudd gyflath y greullys, *violets*, wermod, *roses*, *cctrow pill*, *succory*, *&c.* Yna gwnewch y carthiad hwn a ganlyn; *mirobalans*, *chebob*, haner wns; *trochisks of agaric* un dram; gyda dwfr y *plantain*, gwnewch feddyglyn; ychwanegwch at hyn ffawydd, *rhost*, *a lces*, dair wns, a gwnewch ddiod.

Os trwy eri llosgedig, paratowch y corph gyda sudd-gyflaith *roses*, *myrtles*, *sorrel*, a *purslain*, wedi eu cymysgu â dwfr *purslain*, *knee grass*, ac *endive*.—Yna carthwch gyda y ddiod hon; cymerwch grawen *mirobalans*, a *rhubarb*, o bob un dram; synamwn, pymtheg gronyn; mwydwch hwy am un noswaith mewn dwfr *endive;* ychwanegwch at yr hidliad, mwydion *tamarinds*, *cassia*, o bob un haner wns, sudd-gyflaith *roses*, un wns, a gwnewch ddiod. Os bydd y gwaed yn ddyfrllyd, neu ddiferwad, mal ag y mae mewn cyrph dyfrglwyfus, ac yn dylifo ymlaen herwydd ei feindra neu deneuder; i dynu ymaith y dwfr, byddai yn llesiol carthu gyda madarch, *elaterium*, *colóquintida ;* y mae chwysu yn dda yn yr achos hwn, canys mae y sylwedd sydd yn feius yn cael ei gymeryd ymaith, ac ysgogiad y gwaed yn cael ei gario i'r rhanau allanol. I beri chwys, defnyddiwch ddwfr *cardus*, gyda *mithrictate*, neu ddyferwad *guaiacum*, a *sarsaparilla.* Y mae gwin *guaiacum* yn mawr gyffroi chwys hefyd; peleni *sarsoparilla* a'u cymeryd bob nos wrth fyned i'r gwely, a

deilwng ganmolir. Os bydd y gwaed yn dylifo ymlaen trwy agoriad, neu doriad gwythien, heb unrhyw ddrwg gyneddf o hono ei hun, yna ni ddylid cymhwyso ond pethau cyfnerthol, neu gadarnhaol, yn unig; yr hyn yw y peth olaf i gael ei wneuthur yn y llifiad gormodawl hwn.

Cymerwch o *bole ammoniac* un *scruple,* triagl Llundain, un dram, hen *roses* cadwriaethol, haner wns, gyda sudd-gyflaith *myrtle,* gwnewch gyflaith gyd-tew gymysg; (*electuary*) neu os bydd y llifiad o hir barhad, cymerwch o *mastic* dwy dram; *olibam, troch de caraba,* o bob un dram; *balastium* un *scruple;* gwnewch bowdr, gyda sudd-gyflaith *quinces,* gwnewch hwy yn beleni; cymerwch un bob amser o flaen prydiau bwyd. Cymerwch *lapidus, haematia, trite,* o bob un dwy *scruple; spederdum, alantalia,* un wns; *trech de carrabede, scorria, ferri, coral, frankincensc,* o bob un *scruplc;* a melwch y rhai hyn yn bowdr, a chyda siwgr a dwfr *plantain* gwnewch *lozenges.* Cymeradwyir tom asynod, pa un bynag ai tufewnol, gyda sudd-gyflaith *quinccs,* ei cymerir, ai allanol, gyda dwfr duredig, (*steeled.*) Darfu i Galen, trwy drosglwyddo y sudd o hono i'r groth, am bedwar diwrnod, wellhau y llifiad anghymedrol hwn, yr hyn ni ellid ei atal un ffordd arall. Wrth fyned i'w gwely, bydded iddi gymeryd *scruple* a haner o *pilon* mewn dwfr; gwnewch dân-fygiad i'r bru o *mastic frankinccnse,* llyffaint llosgedig, heb anghofio carn mul. Cymerwch sndd *knot-grass, quinces,* a *comfrey,* o bob un wns; camphyr, un dram; trochwch sidan neu gottwm yn hyny, a chymhwyswch at y lle. Cymerwch olew *mastic, myrtles, quinces,* o bob un haner wns; *boeleman troch, dccarda,* o bob

un dram; *sanquis dracanis,* swm digonol; a gwnewch eli, a chymhwyswch ef o'r tu blaen a'r tu ol. Cymerwch *plantain,* pwrs y bugail, dail *roses* cochion, o bob un wns a haner; mintys sychion, un wns; blawd ffa, tair wns; berwch y rhai hyn oll mewn dwfr *plantain,* a gwnewch o honynt ddau *blaster,* cymhwyswch un o'r tu blaen, ac un o'r tu ol. Og bydd y gwaed yn dylifo o'r gwythienau hyny a derfynant yngwddf y bru, yna ni elwir ef yn or-lifiad y mis-lif, ond lledewigwst (*hemorhoids*) y groth, eto yr un meddyginiaeth a wasanaetha i'r ddau; ond yn unig gwahaniaethir y gwellhad offerynol ychydig, canys yn y lledewigwst crothog, (*utterine*) y mae penau y gwythienau yn crogi trosodd, mal tethau bychain, neu duswau, y rhai a raid eu cymeryd i ffwrdd trwy doriad, ac yna cau i fynu y gwythienau ag alws, boleman, ac alm llosgedig; *troch de terris fiall, myrrh, mastic,* gyda sudd *comfrey,* a *knot-grass,* wedi ei ddodi yn blastrau croesion wrth y fan.

Rhaid i'r awyr fod yn oer a sech. Pob ysgogiad i'r corph a raid ei wahardd. Bydded i'w bwyd fod yn foddhaol; petris, adar mynydd, cwningod, traed lloiau, &c. A chymysger ei diod gydag afalau gronynog, *quinces, &c.*

## Pen. 4.

### Am Hidl-ddeigriad, neu Wylofain y Groth.

WYLOFAIN y groth sydd lifiad o waed, annaturiol, yn dyfod o honi yn ddefnynau, megis dagrau, gan beri poenau tanbaid yn yr unrhyw, heb gadw nac amser nac yspaid pennodol. Gan rai golygir ei fod yn deillio oddi wrth arloesiad anghymedrol y mislifiadau, eto dynodir ef yn ei swm a'i ddull o or-ddylifo, yn ei fod yn llifo yn ehelaeth a rhydd; y mae hyn yn barhaus er o fesur yr ychydig a'r ychydig, a hyny gyda phoen mawr ac anhawstra; trwy yr hyn y mae yn cael ei wneuthur yn debyg i ddyfer-ddwfr.

Yr achos sydd yn y gyneddf, offeryn, neu sylwedd; yn y gyneddf trwy gael ei gwanhau, fel na all fwrw allan y gwaed; ac y mae y gwaed, trwy aros yno yn gwneuthur i'r rhan hono o'r groth dyfu yn galed, ac yn estyn y llestri; oddiwrth yr hyn y deillia poen y groth. Yn yr offeryn, trwy gulni y mynedfeydd. Yn olaf, gall fod yn sylwedd y gwaed, yr hyn a all fod yn rhwystr mewn swm gormodol, neu mewn drwg ansawdd; yn bod mor fras a thew, fel na ddichon iddo ddylifo ymlaen fel ag y dylai, ond wrth y defnynau. Ymddengys yr arwyddion yn oreu trwy adroddiad y goddefydd; oddiwrth hyn y tardd allan boenau yn y pen, y cylla, a'r cefn, gydag enynfeydd, mygiadau, a dirysgliadau yn y bru. Os caniata cryfder y goddefydd, yn gyntaf agorwch wythien yn y fraich, rhwbiwch y rhanau uchaf, a chylymwch ei braich, fel y byddo i nerth y gwaed gael ei gario yn ol; yna cymhwyswch y cyfryw beth ag a allant rydd-hau ac ystwytho cryfhad y groth, a llinaru

surni y gwaed, megis sugaethau (*Cataplasms, or Poultice*) wedi eu gwneuthur o fràn, hâd llin, y grogwyran, (*fennu greek*) *melilot*, hoccys, *mercury*, ac *artiplex*. Os bydd y gwaed yn ŵydus a thew, ychwanegwch at hyny, llysiau Ieuan, *calamint*, *dictam*, a chribau St. Ffraid: a phoed iddi gymeryd swm *nutmeg* o driagl *Fenis*, a sudd-gyflaith llysiau Ieuan bob boreu; gwnewch chwistrelliad, neu dafliad i mewn o drwyth hoccys, *mercury*, had llin, y ben-felen, llysiau Ieuan, y grog wyran, gydag *oil of sweet almonds*.

Achlysurir ef weithiau trwy wynt, ac yna y mae gwaedu yn afreidiol; ac yn lle hyny cymerwch sudd-gyflaith llysiau'r fam, un wns, mel, rhoses, sudd-gyflaith rhoses, sudd-gyflaith *flachus*, o bob un haner wns; dwfr *calamint*, llysiau Ieuan, llysiau'r fam, ac isop, o bob un wns; gwnewch feddyglyn. Os bydd y boen yn parhau, cymerwch y carthiad hwn—cymerwch *ospee a hierae* un dram, *diacatholicon*, haner wns; sudd-gyflaith *roses*, (o natur rhyddhaol,) un wns; gyda dyferwad llysiau Ieuan, a'r pedwr blodeuyn *cordial*, gwnewch ddiod. Os bydd yn dyfod trwy wendid y galluedd, bydded i hyny gael ei gryfhau. Os trwy dewder a surni y gwaed, bydded i'w gyneddf gael ei newid, mal y dywedais yn y bennod flaenorol. Yn olaf, os bydd carthion coluddion yn cael eu hatal neu eu dal yn ol, cynhyrfwch trwy refr-chwistrelliad (*clyster*) o *camomile*, llysiau'r fam, cribau St. Ffraid, hoccys, had llin, aeron meryw, (*juniper berries*) had cwmin, had anis, *melilot*, gan ychwanegu at hyny o *diacatholicon*, haner wns; *hiera picra*, dwy ddram; mel ac olew, o bob un wns; *salt nitre*, dram a haner. Rhaid

i'r goddefydd ymgadw rhag bwydydd heillt, surion, a gwyntog.

---

## Pen. 5.

Am y Mislifiadau Geuol, neu Gwynred.

DEILLIA o'r groth, nid yn unig y gwaed misawl, ond llawer o garthion yn ddamweiniol, yr hyn, gan yr henafiaid, sydd gynnwysedig dan yr enwad o *Rebus Gynakois*; yr hyn sydd ddystilliad o amrywiaeth o irnaws llygredig trwy y groth, gan ddylifo o'r holl gorph, neu ran o'r cyfryw, heb fod yn cadw cylch na lliw, ond yn amrywio yn y naill a'r llall.

ACHOS.] Yr achos sydd naill ai yn gymmysgedig yn yr holl gorph, trwy *goeocrymia*, (neu druthiad) neu wendid yr unrhyw, neu ynte mewn rhai o'r rhanau, megis yr afu, yr hon trwy anallu y gyneddf arwyddedigol, sydd yn peri cenhedliad gwaed llygredig, ac yna mae y sylwedd yn gochlyd; weithiau yn y bustl, gan fod yn fusgrell yn ei swydd, heb fod yn tynu ymaith y gormodedd geriog a fegir yn yr afu, mae y sylwedd yn felynaidd; weithiau, yn y ddueg, heb fod yn byrhau a phuro gwaed y gwaelodion a'r rhanau carthol, mae y sylwedd a ddylifa ymlaen yn dduawg. Gall hefyd fod o'r naws-lifiad yn y pen, neu o unrhyw aelod llygredig arall; ond os bydd y sylwedd a ddylifa yn wyn, y mae yr achos naill ai yn y cylla neu yr arrenau; yn y cylla, trwy sylwedd llysnafeddawg ac annhreuledig, a grynoir ac a lygrir yno, trwy ofid y prudd-glwyf, ac anhwylderau eraill: o herwydd, oni bae hyny, pe na byddai y

sylwedd ond llysnafeddawg, llysnafedd annhreuliedig ac heb gael ei lygru, wedi ei gymeryd i'r afu, gellai gael ei droi yn waed; canys llysnafedd yn y cylla a elwir maeth wedi ei haner dreulio; ond ag ef yn llygredig, er iddo gael ei anfon i'r afu, eto ni all gael ei droi i faeth; o herwydd nis dichon i'r ail-ddyferwad gywiro yr hyn a lygra y cyntaf; a chan hyny mae yr afu yn ei anfon i'r groth, yr hon ni all na'i dreulio na'i anfon yn ol, ac felly mae yn cael ei arloesi allan gyda'r un lliw ag oedd iddo yn y cylla. Dichon i'r achos hefyd fod yn rhydwymniad yr arenau, trwy yr hyn y mae y sylwedd hadawg, o herwydd ei deneuder yn dylifo ymlaen. Dichon i'r achosion allanol fod yn lleithdra yr awyr, bwyta bwydydd llygredig, digter, gofid, seguryd, cysgu anghymedrol, a rhwymedd y corph.

Yr Arwyddion. Yr arwyddion ydynt lleihad y corph, byrdra a drwg arogl yr anadl, ffieiddiad at fwyd, poen yn y pen, chwyddiad y llygaid a'r traed, a'r prudd-glwyf; gwlybrwydd a ddylifa o'r groth o amryw liwiau, megis coch, du, gwyrdd, melyn, a gwyn. Gwahaniaetha oddiwrth ddylifiad a gor-ddylifiad y mis-lif, trwy nad yw yn cadw unrhyw gyfnod pennodol, a thrwy ei fod o lawer o liwiau, oll o ba rai ydynt yn eppilio oddiwrth waed.

Rhagargoelion. Os bydd y dylifiad yn llysnafeddawg, efe a barha yn hir, a bydd yn anhawdd ei wellhau, eto os digwydd cyfogiad, neu y dolur rhydd, y mae yn tynu o'r neilldu yr irnaws ac yn gwellhau yr afiechyd. Os geriog fydd, nid yw mor barhaus, eto yn fwy peryglus, canys efe a bar i hollt neu agen fod ar wddf y groth, ac weithiau dyrisglia y bru; os

prudd-glwyfus rhaid y bydd yn beryglus ac ystyfnig. Eto mae dylifiad y lledewigwst yn gweini gwellhad.

Os cochlyd a fydd y sylwedd a fyddo yn dylifo ymlaen, agorwch wythien ar y fraich; os amgen, cymhwyswch rwymynau at y breichiau a'r ysgwyddau. Galen a fawryga ei hun, am iddo iachau gwraig Brutus, yr hon a ymboenai dan yr afiechyd hwn, trwy rwbio y rhan uchaf gyda mel annhreuliedig.

Os trwy ddystilliad o'r ymenydd yr achlysurir ef, cymerwch sudd-gyflaith, cribau St. Ffraid, *stochash, a marjoram,* carthwch gyda *pill, coen, fine qubius de agrieo;* gwnewch *nasalia* o sudd seeds, isop, cribau St. Ffraid, *nigelia,* gydag un defnyn o *oil elect, dianth, aromat, rosat, diambrae, diamosei, dulcio,* o bob un dram, *nutmeg,* haner dram; gyda siwgr, a dwfr cribau St. Ffraid, gwnewch *lozenges* i'w cymeryd bob boreu a phrydnawn; *Auri Alexandria,* haner dram y nos wrth fyned i wely. Os na bydd y pethau hyn yn rhoddi help, defnyddiwch y tânfygiad a'r plastr, fel y cyfarwyddir hwy.

Os bydd yn deillio oddiwrth anaddfedrwydd yn y cylla, neu o afu oer afiachus, cymerwch bob boreu o ddyferwad *lignum sanctum;* carthwch gyda *pill de agrico, de hermodact, de hiera, diacolinthis, faetid, agrigatio;* cymerwch *elech aromat roses,* dwy ddram; *pil citron,* wedi ei sychu, *nutmeg,* pupur hirion, o bob un *scruple; diaglanga,* un dram; *fantali, alb, lign, aloes,* o bob un haner *scruple;* siwgr, chwe' wns gyda dwfr mintys; gwnewch *lozenges* o hono; cymerwch o hónynt cyn prydiau bwyd. Os gyda oerni yr afu, y bydd yn unedig orllawnedd y cylla, y mae carthu â

rhyfogiad yn ganmoladwy; i'r hyn cymerwch dri dram o *electuary diasatu.* Mae Galen yn caniatau moddion a bâr ymadael a llawer o ddwfr, megis *absum petrofolman.*

Os bydd sylwedd y dylifiad yn eriog, paratowch yr irnaws gyda sudd-gyflaith *roses,* crinllys, *endive,* ysgall y meirch; carthwch gyda *mirobalans,* manna, *rhubarb, cassia.* Cymerwch o *rhubarb,* ddwy ddram, had anis, dram, synamwn, *scruple* a haner; mwydwch mewn chwe' wns o gawl blaen-doriadau (*prune-broth*) ychwanegwbh o hidliad manna, un wns, a chymerwch yn y boreu yn unol â chelfyddyd. Cymerwch *specierum, axatonlantae, diacorant, prig, abbaris, diarthod, dyacydomes,* o bob un dram, siwgr, pedair wns, gyda dwfr *plantain;* gwnewch *lozenges.* Os bydd rhefr-chwistrelliad y bustl yn fusgrell, ac heb fod yn cynhyrfu i fynu y gyneddf i'r perfeddyn, rhoddwch refr-chwistrelliadau poethion o ddyferwad y pedwar llyseuyn meddalhaol gyda mel *rhoses* ac alws.

Os prudd-glwyfus fydd y dylifiad, paratowch gyda sudd-gyflaith, brigau'r gwener, (*maiden hair*) *epithymium,* march-redyn, tafod yr ŷch, cwd y mwg, (*fumitory*) tafod yr hydd, a *syrypus irsantuis,* yr hyn a raid ei wneuthur heb finegr, os amgen, bywha yr afiechyd yn hytrach na natur; canys y prudd-glwyf a ychwanegir trwy ddefnyddio finegr, a chan *Hippocrates, Sylirus,* ac *Avenroar,* llysir ef fel gelyn i'r groth, a chan hyny ni ddylid ei ddefnyddio yn dufewnol mewn unrhyw anhwylderau crothog. Y pethau a garthant y prudd-glwyf ydynt *pilulae, sumariae, pilulae lud de lapinae, lazili, drosena,* a *confectio hamer.* Cymerwch o flaen-doriadau (*prunes*) wedi eu

dwyo, dwy wns; *sen*, dram; *epithimium* march-redyn, cwd y mwg, o bob un dram hanner; ffrwyth surion y balmwydden, un wns gyda dwfr *endive* gwnewch ddyferwad; cymerwch o hono bedair wns, ychwanegwch ato gyffeithiadau (*confections*) *hamesech*, tri dram manna tri dram. Neu cymerwch *pil. indie, pil foetid, agaric, trochisate*, o bob un *scruple* peleni *rhubarb, scruple*; *lapidus lazuli*, chwe gronyn; gyda sudd-gyflaith *epithumium* gwnewch beleni, a chymerwch unwaith bob wythnos. Cymerwch *elect laetificants, galen*, tri dram *diamargarto, calimlone diamosei, dulcies*, per gyflaith o dafod yr ŷch, crinllys, o bob un dram; *pil citron* wedi ei felysu, un dram siwgr, saith wns; gyda dwfr *rose* gwnewch *lozenges*.

Yn olaf, boed i'r groth gael ei choethi oddi wrth y sylwedd llygredig, ac yna ei chyfnerthu. Er puro pa un gwnewch chwistrelliadau o drwyth cribau St. Ffraid, llysiau'r fam, yspicnard llysiau'r neidr, *mercury*, a saeds, gan chwanegu at hyny siwgr, *oil of St. Almonds*, o bob un ddwy wns; gellid gwneuthur gorethau (*pessaries*) hefyd o sidan neu gotwm, wedi eu meddalhau yn sudd y llysiau rhagrybwylledig.

I gyfnerthu y groth, rhaid i chwi baratoi *trochisks* fel hyn; cymerwch o lysiau Ieuan, llysiau'r fam, *myrr, ambr, mace, nutmeg, storax, lign*, alws, *rhoses* cochion, o bob un wns; gyda ag ysnafedd *tragacanth*, gwnewch *trochisks*; bwriwch rai o honynt i lo, a mygwch y groth â hyny; a gwnewch dwymn-olchiad i'r groth gyda gwin coch, yn yr hwn y trwythesid *mastic, fine bole, malustia*, a gwreiddiau cochion; eneiniwch y bru ag olew *quinces*, a myrhwydd, a chym-

wyswch at y fan *emplastrum pro matrice;* a
hoed iddi gymeryd *diamosdum, dulce, araet,* a
*lematicum,* bob boreu.

Canmolir ymborth sych fel yn oreu, o herydd yn yr achos hwn mae y corff yn fwyaf yffredin yn orllawn o irnaws llysnafeddawg c annhreuliedig. O herwydd hyn cynghora *Hippocrates* y goddefydd i fyned i'w wely heb wyr-bryd. Bydded i'w bwyd fod petris, *heasants,* ac adar y mynydd, wedi eu rhostio n hytrach na'u berwi. Gwaherddir cysgu nghymedrol, a chanmolir ymarferiad cymedrol.

---

## Pen. 6.

### Am Fygiad y Fam.

YR effaith hwn, pa un, os ystyrir yn unigol, id yw ddim ond achos effaith, a elwir yn aesonaeg, "*The suffocation of the mother;*" . y, Mygiad y Fam; nid o herwydd fod y roth yn cael ei thagu, ond o herwydd hyny y ae yn peri i'r groth gael ei mygu. Tyniad yn l o'r groth yw tua llengig y ddwyfron a'r cylla, r hyn sydd yn dwys wasgu ac yn sengi i fynu n y fath fodd i'r unrhyw, fel y mae yr achos fferynol o anadliad, llengig y ddwyfron, yn ael ei fygu, a chan gydsynio â'r ymenydd, y ae yn peri i'r gyneddf eneidiol, yr achos feithiol o anadliad, hefyd i gael ei rwystro, a y mae y corff, gan gael ei addoeri, a'r weithrediadau eu llygru, yn mae hi yn cwympo lawr fel un farw.

Yn y dioddefaint mamogaidd yma, mae rhai n parhau yn hwy a rhai lai. Crybwylla

*Rebbi Moses* am y rhai a orweddant dan gyrch i llewyg am ddeuddydd. Crybwylla *Rufus* am un a barhaodd yn yr un dioddefaint am d diwrnod a theirnos, ac ar ddiwedd yr amse hwnw hi a adfywiodd. Fel y gallom ddysg trwy niweidiaw eraill i fod yn ochelgar, hys pysaf i chwi am esiampl; Ysgrifena *Paroctt* am wraig yn Yspaen, yr hon a syrthiodd fygiad crothog yn ddisymwth, ac ymddangos ymarn dynion fel un farw; ei chyfeillion, ga ryfeddu at ei chyfnewidiad disymwth hwn, cael boddlonrwydd cyflawnach iddynt eu hun ain, a anfonasant am law-feddyg, i'r dyben c difynio. (*dissect*) Pan ddechreuodd y medd ar ei doriadau, y wraig a ddechreuodd ymsymu a chyda dadwrdd mawr, daeth ati ei hun dr chefn, er dychryn a mawr syndod yr edrychw oll.

I'r dyben fel y galler gwahaniaethu y by oddirth y marw, yr henafiaid a bennodent d phrawf: y cyntaf ydyw, gosod pluen ysga wrth y safn, ac wrth ei hysgogiad gellwc farnu pa un ai yw yn fyw neu farw; yr ail y gosod gwydryn o ddwfr ar y *frest*, ac os ca fyddwch y dwfr yn ymsymud, y mae yn argo o fywyd; y trydydd yw, dal gwyd-ddryc clir wrth y safn a'r ffroen, ac os ymddengys gwydr yn dew, gydag ychydig wlith arn arwydd o fywyd yw; y mae y tri phrawf hy yn dda, eto gyda y gocheliad hwn, canys ddylech ymddibynu gormod arnynt; o herwyd er na ymsymud y bluen ar ddwfr; ac er i'r dryc barhau yn bur a chlir, eto nid canlyniad an henrheidiol yw eu bod yn amddifad o fywyd; herwydd gellir cymeryd ymaith ysgogiad yr y gyfaint trwy yr hyn y gwneir yr anadliad, fel na a

hi dynu anadl, eto dichon i ad-anadliad tufewnol y gwres fod yn aros; yr hyn nid yw amlwg wrth ysgogiad y *frest*, neu yr ysgyfaint, ond y mae yn gorwedd yn guddiedig yn y galon a'r rhydwcliau tufewnol. Mae genym esiamplau o hyn yn y gwybedyn a'r wennol, y rhai mewn gauafau oerion, yn ol golygiad llygadawl, a ymddangosant yn feirwon, difywyd, ac heb fod yn anadlu dim; eto y maent yn byw trwy ad-anadliad y gwres hwnw a gedwir yn y galon, a'r rhydweliau mewnol; gan hyny, pan nesao yr haf, mae y gwres tufewnol yn cael ei ad-alw i'r rhanau allanol, yna y maent drachefn yn cael eu hadfywhau o'u pêr-lewyg cysgfyd. Gan hyny, na adawer i'r benywod hyny a ymddangosant i farw yn ddisymwth, ac heb unrhyw achos amlwg, gael eu claddu cyn pen diwedd tri diwrnod, rhag i'r byw gael ei drosglwyddo i'r ddaear yn lle y marw.

Meddyginiaeth. Y rhan a effeithir arni yw y groth, o'r hyn y mae ysgogiad dyblyg—naturiol ac arwyddol. Yr ysgogiad naturiol yw, pan y mae y groth yn tynu yr had dynol, neu yn bwrw allan y baban, neu'r hemysgar. Yr ysgogiad arwyddol, am yr hwn yr ydym i draethu, sydd dyniad i fynu dirgryniadol y groth.

Yr achos yn gyffredin sydd yn ataliad yr had, neu lethiad y mis-lifiadau, gan fod yn achos o or-llawniad o'r irnaws llygredig yn y groth, oddiwrth yr hyn y deillia addoeriad (*refregeration*) gwyntog, gan beri dirgryniadau gieuynau y groth. A chan y gall ddyfod o leithder neu or-llawnedd yn bod yn ddirgryniadol, gall gael ei achlysuro trwy wagter neu sychder. Ac yn olaf, trwy erthyliad neu esgoriad caled.

Arwyddion. Ar ddynesiad y mygiad y mae yno welwedd gwyneb, gwendid yn y coesau, byrdra anadliad, marweidd-dra yr holl gorff, gyda gweithio i'r corn gwddf, ac yna mae hi yn cwympo i lawr mal un yn amddifad o deimlad ac ysgogiad; safn y groth sydd wedi ei chau i fynu, ac wrth ei chyffwrdd â bys, y mae yn teimlo yn galed. Wedi i gyrch y llewyg unwaith fyned heibio, y mae hi yn agor ei llygaid, a chan deimlo ei chylla yn cael ei gorthrymu, y mae yn cynyg cyfogi. A rhag i neb gael ei dwyllo trwy gymeryd un afiechyd yn lle y llall, dangosaf fel y gellir ei wahaniaethu oddiwrth yr anhwylderau hyny ag sydd iddynt y berthynas agosaf ag ef.

Y mae yn gwahaniaethu oddiwrth y parlys mud (*apoplexy*) o herwydd ei fod yn dyfod heb ysgrechian allan; hefyd yn y dioddefaint crothog nid yw y deall o deimlad yn cael ei hollol ddistrywio a'i golli, fel y mae yn yr afiechyd parlysaidd; ac y mae yn gwahaniaethu oddiwrth yr haint ddigwydd (*epilepsy*) yn, nad yw y llygaid yn cael eu dirdroi, ychwaith nid oes dim awyr yspyngaidd yn dyfod o'r safn; ac nid yw yr ysgogiad dirgrynawl hwnw, yr hwn weithiau, a hyny yn fynych, a unir â mygiad, yn gyffredinol, fel y mae yn yr haint ddigwydd, ond yn unig fod y sylwedd hwn neu arall yn ddirgrynawl, a hyny heb unrhyw gynhyrfiad tanbaid. Yn y llesmair, cymerir yr ad-anadliad a'r curiad gwaed ymaith. Y mae y gwedd yn henu yn welw, ac y mae hi yn myned i lewyg yn ddisymwth; ond yn y dioddefaint crothog, yn gyffredin, y mae ad-anadliad a churiad gwaed, er na ellir yn hawdd ei ganfod; y mae ei hwyneb yn edrych yn goch, a rhag-rybuddir

hi am eu llewyg. Etto ni wedir na all llesmair fod yn unedig a'r mygiad hwn.

Yn olaf gwahaniaethir ef oddiwrth yr hunglwyf wrth guriad y gwaed, yr hwn yn y naill sydd fawr, ac yn y llall yn fychan

RHAG-ARGOELION. Os oddiwrth lygriad yr had y bydd yr afiechyd yn cael ei fodolaeth, y mae yn rhagfynegu mwy o berygl na phe buasai yn deillio o attaliad neu lethiad y mis-lifiadau, o herwydd fod yr had yn cael ei ddyferwi, ac o ansawdd purach na'r gwaed misawl; a thrwy fod y mwyaf pur yn cael ei lygru, y mae yn dyfod yn fwy aflan a ffiaidd, mal yr ymddengys oddiwrth wy, y maeth puraf, yr hwn, wedi ei lygru, a rodda yr arogl ffieiddiaf. Os bydd yn cael ei ddilyn gyda llesmair, y mae'n dangos nad yw natur ond gwan, a bod yr ysbrydoedd agos a chael eu llwyr dreulio; ond os bydd tisian yn dilyn, dengys fod y gwres, yr hwn ydoedd braidd a diffodd, yn awr yn dechreu dychwelyd, ac y gwna natur ddarostwng yr afiechyd.

GWELLHAD. Rhaid sylwi ar ddau beth yn ngwellhad yr effaith hwn: yn gyntaf, fod i natur yn ysdod amser y cyrch, gael ei chynhyrfu i fwrw allan y myg-darthiadau drygiog hyny, y rhai ydynt yn dallu y synwyrau; fel y galler ei galw yn ol o'r per lewyg cysglyd hwnw: yn ail, fod i gyffuriau cyfaddas, yn ngorphwysiad y llewyg, gael eu cymhwyso i gymeryd ymaith yr achos.

I gyffroi natur, sicrhewch wydrau craffuriaid wrth y cluniau a'r bogail, cymhwyswch rwymynau at y morddwyd, rhwbiwch yr eithafoedd, (*extreme parts*) gyda halen, finegr a mwstard:

achlysurwch ddadwrdd a sŵn uchel yn y clustiau. Cymhwyswch *assafoetida, castor, a sagapuneux,* wedi eu mwydo mewn finegr at y ffroenau; cynhyrfwch hi i disian trwy chwythu i'w ffroenau *bowdr castor,* pupyr gwyn, pelydr yspaenaidd, a *hellebore*; daliwch blu petris, gwallt, a lledr llosgedig, neu unrhyw beth o arogl drewedig cryf, o dan ei ffroenau: o herwydd, gan fod arogl drwg yn anghytunol â natur, y mae yr ysbrydoedd anifeilaidd yn ymdrechu ac yn ymegnio i'r fath raddau yn ei erbyn, fel y mae y gwres naturiol trwy hyny yn cael ei adferyd. Weithiau y mae yr ymenydd yn cael ei orthrymu i'r fath raddau, fel y bydd yn angenrheidiol llosgi croen allanol y pen gyd âg olew poeth, neu haiarn poeth. Rhefr-chwistrelliadau (*clysters*) llymion sydd yn llesol. Cymerwch o *saeds,* mintys, môr-ddanadl, llysiau y fam, cribau St. Ffraid, isop o bob un dyrnaid; hâd anis, haner wns; *coloquintida hellebore* gwyn, *sal gem,* o bob un dwy ddram: berwch y rhai hyn mewn dau bwys o ddwfr i'r haner; ychwanegwch hidliad *oil of castor,* dwy wns; *hiera picra,* dwy ddram, a gwnewch refr-chwistrelliad o hono; neu cymmerwch fêl berwedig, dwy wns; *cuphorb,* haner *scruple, coloquint,* pedwar gronyn, gyda *hellebore,* dau ronyn, a halen, dram; gwnewch refr-chwistrelliad. Ysgrifena Hippocrates am fenyw fammogaidd, yr hon ni ellid ei rhyddhau o'r cyrch, ond trwy dywallt dwfr oer arni; eto, mae y gwellhad hwn yn hynod, ac ni ddylid ei weinyddu ond yn unig yn mhoethder yr haf, pan y byddo yr haul yn arwydd y Crange.

Os bydd yn cael ei achlysuro trwy attaliad y

a llygriad yr had, boed i'r fydwraig, yn munud y cyrch, gymeryd olew *lilies*, mintys y creigiau, a llawryf, gan doddi yn yr unrhyw ddau ronyn o *civet*, a'r un faint o fwsg; bydded iddi drochi ei bys ynddo, a'i roddi i fynu yngwddf y groth, gan ogleisio a rhwbio yr unrhyw.

Wedi i'r pang fyned trosodd, ewch ymlaen i wellhau yr achos. Os bydd yn cyfodi oddiwrth lethiad y mis-lifiant, edrych am y feddyginiaeth yn y nawfed bennod. Os oddiwrth attaliad yr hâd, gŵr priod da a weinydda y gwellhad; ond rhaid i'r rhai hyny na allant bwrcasu y feddyginiaeth hon yn onest, ddefnyddio y cyfryw bethau a sychant i fynu, ac a leihant yr hâd, megis *diacimini. diacalaminthes, &c.* Y'mhlith diodydd meddygol, iawn berchir hâd *agnus castus.* pa un bynag ai tumewnol ei cymmerir ai alianol ei cymhwysir, ai fal tân-fygiad ei derbynir; cedwid ef mewn parch mawr gan yr Atheniaid, canys trwy hyny a barhasant megis llestri pur a chadwasant eu diweirdeb trwy ei daenu yn unig ar y gwely lle y gorweddant; a thrwy hyny y rhoddwyd yr enw o *agnus castus* iddo, mal yn dynodi ei effeithiau. Gwnewch ffynonell o'r tu fewn i'r ddwy goes, lled llaw islaw y glin. Gwnewch beleni meddygol o fadarch dwy *csruple*, hâd moron y maes, *lign* alws, o bob un haner *scruple; turpentine* golchedig, tri dram; gyda phêr gyffaith *anthos* gwnewch beleni meddygol. Y mae *Castor* o ddefnydd rhagorol ar yr achos hwn, a chymeryd wyth dram o hono mewn gwin gwyn: neu gellwch wneuthur *pills* o hono gyda *mithridate*, a'u cymeryd wrth fyned i'r gwely. Cymerwch o wraidd y winwydden wên, wedi ei sychu a'i

dòri yn ol dull moron, un wns, rhoddwch ef mewn llwngc o win, gan ei ddodi wrth y tân, a phan y byddo yn gynes, yfwch ef. Cymerwch *myrrh*, *castor*, ac *assaffœtida*, o bob un haner *scruple*; saffrwn, a hâd rhuw, o bob un pedwar gronyn; gwnewch wyth o *bills*, a chymerwch ddwy bob nos wrth fyned i'r gwely.

Mae Galen, trwy ei esiampl ei hun, yn arganmol madarch, wedi ei fân-falu, o'r hyn yn fynych y rhoddai efe un *scruple* mewn gwin gwyn. Gosodwch ben garlleg wedi ei bwyo, wrth y bogail wrth fyned i'r gwely, wedi ei sicrhau gyda rhwymyn ffunen. Gwnewch wregys o *galbanum* i'r wasg, ac hefyd plastr i'r bol, gan osod *civet* a mwsg mewn un rhan o hono, yr hwn a raid ei osod ar y bogail. Cymerwch *pulveris*, *benedict*, *troch*, madarch o bob un dau ddram; o *mithridate* swm digonol; ac felly gwnewch ddwy oreth (*pessaries*,) a hwy a garthant y bru o wynt y llysnafedd; twymn-eneiniwch y rhan naturiol gydag olew *salad*, yn yr hwn y berwyd rhuw, llysiau'r fam, a *chamomile*. Cymerwch o ddail *rose*, ddyrnaid; *cloves*, dwy *scruple*; arwniwch hwy mewn lliain bychan, a berwch hwy mewn *malmsey* (sef math o felyswin) yr wythfed ran o awr, a chymhwyswch hwy at wddf y groth, mor boeth ag y galler eu goddef, ond na adewch i'r arogl fyned i'w ffroenau. Rhaid cadw at luniaeth sych o hyd. Arganmolir yr arferiad cymedrol o Fenws. Yn fara cymered deisenau hâd anis, a rhostier ei bwyd cigol yn hytrach na'i ferwi.

## Pen. 7.

### Am Ddisgyniad neu Syrthiad y Fam.

SYRTHIAD i lawr y groth sydd laccâd rhwymynau trwy yr hwn y mae y bru yn cael ei chario yn ol; ac mewn rhai y mae'n crogi allàn gymaint ag ŵy, o hyn y mae dau fath yn cael eu dynodi, trwy ddisgyniad, a thafliad bendramwnwgl. Disgyniad y groth yw, pan y mae yn suddo i lawr i fynedfa y dirgeloedd, ac nid yw yn ymddangos i'r llygaid ond ychydig iawn, neu ddim. Y tafliad yw, pan y mae y groth mal pwrs, yn cael ei throi y tu mewn allan ac yn crogi rhwng y morddwydydd oddeutu maint gwydryn craffiniaid, neu ychydig yn fwy nac ŵy.

YR ACHOS. Yr achos sydd allanol neu dufewnol; yr achos allanol yw esgoriad caled, tyniad ymaith tanbaid yr hemysgar, byrbwylldra ac amhrofiad wrth dynu ymaith y plentyn, pesychu tanbaid, tisian, cwympiadau, dyrnodiau a chario beichiau trymion. Yr achos tufewnol yn gyffredin yw gormodedd o leithder yn dylifo i'r rhanau hyn, gan atal gweithrediadau y groth, trwy yr hyn y mae y gewynau, gan y rhai yr ategir y groth, yn cael eu llacau. Yr achos yn neillduol a olygir o fod yn naliad yn ol yr hâd, neu yn llethiad y llifiad misawl.

ARWYDDION. Mae y perfeddyn tin, a'r bledren yn fynych yn cael eu llethu i'r fath raddau, fel y mae mynedfeydd y ddau ysgarthion yn cael eu rhwystro; os bydd y pision yn dylifo ymlaen yn wyn a thew, ac os bydd llengig y ddwyfron wedi ei llethu, y mae yr

arenau yn cael eu blino, y dirgeloedd eu poeni, ac y mae y groth yn suddo i lawr i'r rhanau dirgel, neu ynte yn dyfod yn lân allan.

RHAG-ARWYDDION. Os bydd y cystudd hwn yn meddianu hen ddynes, ni wellheir ef ond gydag anhawsdra mawr, o herwydd ei fod yn gwanhau galluoedd y groth, a chan hyny, er iddo gael ei adferu i'w le priodol, eto, ar bob selni neu anhwylder bychan, y máe yn ddarostyngedig i ddychwelyd; ac felly y mae hefyd gyda y rhyw ieuengach, os bydd yr anhwylder yn hen neu reddfol. Os bydd yn cael ei achlysuro trwy falldod y gewynau, y mae yn anfeddyginiaethol.

GWELLHAD. Gad fod y groth yn naturiol wedi cael ei gosod rhwng y perfeddyn cul a'r bledren, ac yn awr wedi syrthio i lawr, ni ddylai gael ei ddodi i fynu drachefn hyd oni chynhyrfer galluedd y perfeddyn a'r bledren. Wedi i natur gael ei dadlwytho o'i baich, boed i'r fenyw gael ei dodi i orwedd ar ei chefn, yn y fath fodd fel ag i'w choesau fod yn uwch na'i phen; bydded i'w thraed gael eu tynu i fynu i'w rhanau bonawl, a'i chluniau eu taenu ar led; yna ystwythwch y chwyddiad gydag olew lilies, a *sweet almonds*, neu gyda dyferwad hoccys, betysau, y grog wyran, a had llin; pan chwaler yr enynfa, bydded i'r fyd-wraig eneinio ei llaw gydag olew mastig, ac adferu y groth i'w lle. Wedi rhoddi y bru i fynu, rhaid newid sefyllfa y dioddefydd; boed i'w choesau gael eu hestyn yn eu hyd; a'u gosod ynghyd; rhodder chwech o wydrau craffuriaid wrth ei *brestiau* a'i bogail berwch lysiau Ieuan, llysiau 'r fam, rhoses cochion, a llysiau'r cwlwm, mewn gwin coch;

gwnewch dân-fygiad i'r groth, a chwifiwch aroglau peraidd i'w ffroenau; ac wrth iddi ddyfodd o'r badd, rhoddwch iddi un wns o *syrub* llysiau'r fam, gyda dram o *mithridate.* Cymerwch *laudani, mastig,* o bob un dram, gwnewch blastr o hono i'r fogail; yna gwnewch oreth o *assafoetida*, saffrwm, llysiau'r cwlwm, a *mastig,* gan ychwanegu at hyny ychydig *gastor.*

Arfer *Parius* yn yr achos hwn ydoedd eu gwneuthur o gorcyn yn unig, ar lun ŵy bychan, gan eu gorchuddio â chwyr a *mastig,* a'u rhoddi yn y groth.

Wedi i'r perygl presennol gael ei gymeryd ymaith, a'r bru ei gosod yn ei haneddle naturiol, rhaid symud yr achos pellenig. Os bydd y corph yn orllawn, agorwch wythien; paratowch gyda siryb cribau St. Ffraid, mintys, isop, a llysiau'r fam, carthwch gydá *pil. hierac,* madarch, *pil. de calocin.* Os bydd y cylla yn cael ei orthrymu gyda phethau anaeddfed, dadlwythwch ef trwy gyfogiad; wedi cymeryd dyferiadau chwys-bair o *lignum sanctum*, a *sassafras* am ugain niwrnod y'nghyd sychwch i fynu y lleithder gormodawl, ac yn ganlynol, llethwch achos yr afiechyd.

Bydded i'r awyr fod yn boeth a sych, a'ch lluniaeth yn boeth a theneuol; ymgedwch rhag dawnsio, neidio, gwasgiad, ac oddiwrth bob ysgogiad corph a meddwl; bwyttewch yn gynnil, yfwch ychydig, a chysgwch yn gymhedrol.

## Pen. 8.

### Am enynfa y Groth.

PENDDIGED, neu enynfa y bru, sydd irnaws yn meddianu yr holl groth, yn cael ei ddilyn gyda phoethder annaturiol, trwy dagfa, a chasgliad ynghyd waed llygredig.

YR ACHOS. Yr achos o'r effaith hwn yw llethiad y mis lifiadau, a gorllawniad yr holl gorph, arferiad anghymedrol o *Fenws*, mynych drin y rhanau cenhedlawl, esgoriad caled, cynnhyrfiad caled y corff, cwympiadau, dyrnodiau, at yr hyn yr un modd gellir ychwanegu yr arferiad o orethau surion neu awchus, trwy yr hyn yr enynir y groth nid yn anfynych; y mae gwydrau craffiniaid hefyd wedi ei sicrhau wrth y *pubis* a'r *hypograstrium* yn tynu yr irnaws i'r groth.

ARWYDDION. Yr arwyddion ydynt, ing, tymherau, poen yn y pen a'r cylla; cyfogi, oerni yn y cluniau, dirgryniadau yn y gwddf, dotio, cryniad y galon; yn fynych y mae yno gyfyngedd anadl, o herwydd y gwres sydd yn cael ei gyfranu i lengig y ddwyfron, y frest, gan gydymdeimlo â'r groth, yn boenus a chwyddedig. Y'mhellach os rhan flaen y bru a fydd wedi enyn, y mae y dirgelodd yn cael eu blino, y mae y pision yn cael ei attal, neu nid yw yn dylifo y'mlaen ond gydag anhawstra. Os y rhan ôl, y mae yr arrenau a'r cefn yn dioddef, y mae y carthion yn cael eu dál ar y tu deau, ac y mae y glun ddeau yn dioddef, y mae y goes ddeau yn drom ac araf yn ei hysgogiad, yn gymaint fel y mae yn ymddangos weithiau o fod yn sefyll: ac felly os ochr aswy

y groth a fydd wedi enyn, y mae y glun aswy yn cael ei phoeni, ac y mae y goes aswy yn wanach na'r ddeau. Os bydd gwddf y groth wedi ei hadfywio, y fydwraig, trwy roddi ei bys yno, a deimla ei safn wedi ei dynu yn ol, a'i chau i fynu gyda chaledrwydd o'i ddeutu,

RHAGARGOELION. Mae pob enyniad yn y groth yn beryglus, os nad yn farwol, ac yn enwedig os bydd sylwedd y bru wedi ennyn; ond y mae yn dra pheryglus os yngwddf y groth. Mae gwres yn y bol yn rhag-fynegi iechyd, os naturiol a fydd: canys trwy ddefnyddio ei hofferynau ei hun y mae natur yn gweithio oreu:

GWELLHAD. Yn y gwellhad o hono, yn gyntaf, boed i'r irnaws sydd yn dylifo i'r groth gael ei yru yn ol; er dwyn hyn i ben, bydd gwaediad yn angenrheidiol, ar ol i'r bol gael ei ryddhau trwy refrchwistrelliadau oeraidd; gan hyny agorwch wythien yn y fraich, os na bydd hi yn feichiog; y dydd ar ol hyny tarewch wythien fawr y forddwyd (*saphena*) ar y ddau droed, sicrhewch rwymynau a gwydrau craff-iniaid wrth y fraich, a rhwbiwch y rhan uchaf. Carthwch yn araf gyda *cassia*, *rhubarb*, *senna*, *myrobolans*. Cymerwch *senna* dau ddram, had anis *scruple*, *myrobalans* haner wns, dwfr barlys swm digonol; gwnewch ddyferwad; toddwch ynddo *syrub* ysgall y meirch, gyda rhubarb dwy wns, *pulp of cassia* haner wns, olew had anis dau ddyferyn gwnewch ddiod. Yn nechreuad yr afiechyd, eneiniwch y dirgeloedd a'r lwynau gydag *oil of roses a quinces*; gwnewch blastrau o llwyn hidl, had llin, blawd haidd, *melilot*, y grog wyran, a gwyn wyau, ac os bydd y boen yn ddibaid, ychydig o *opium*; twym-eneiniwch y

rhanau cenhedlawl gyda dyferwad penau papi troed y gywen, a lili 'r dwfr; yna gwnewch chwistrelliadau o laeth gafr, dwfr *rose*, maidd wedi ei buro gyda mel roses. Yn narfodedigaeth yr afiechyd, defnyddiwch drochiadau *saeds*, had llin, brymlys, llysiau Ieuan, môr-ddanadl, a'r grogwyran; eneiniwch ran isaf y ból gydag olew *camomile*, a'r grinllys.

Cymerwch wreiddiau lili, a hoccys, o bob un bedair wns; sawdl y crydd, dyrnaid; llysiau Ieuan, a llysiau'r fam, blodau *camomile a melilot*, o bob un dyrnaid a haner; ysigwch y llysiau a'r gwreiddiau, a berwch hwy mewn swm digonol o laeth; yna ychwanegwch ymenyn gwyrf, olew *camomile*, *a lilies*, o bob un dwy wns: blawd ffa, swm digonol, gwnewch ddau blastr, un o'r tu blaen, a'r llall o'r tu ol.

Oni ellir symud y penddiged, ond y bydd yn tueddu i ori, cymerwch grogwyran, gwraidd hoccys, *figs* trwythedig, hâd llîn, blawd haidd, tom colomenod, *turpentine*, o bob un tri dram; gwêr yr hydd, haner dram; opiwm, haner *scruple*; gyda chŵyr, gwnewch blastr.

Cymerwch o ddail llawryf, *saeds*, isop, llysiau Ieuan, a chyda dwfr, gwnewch drwyth.

Cymerwch wermod, a chribau St. Ffraid, o bob un ddyrnaid; gwin gwyn a llaeth, o bob un haner pwŷs; berwch hwy hyd oni byddo un ran wedi ei wneuthur yn safadwy; yna cymerwch o'r dyferwad hwn bedair wns; mêl *rhoses*, dwy wns, a gwnewch chwistrelliad. Etto gofelwch rhag i'r irnaws gael ei ddwyn i lawr i'r groth. Cymerwch *figs* rhostiedig a *mercuri* wedi ei bwyo, o bob un tri dram; *turpentine*, a

saim hwyad, o bob un tri dram; *opium*, tri gronyn; gyda chŵyr, gwnewch oreth.

Rhaid i'r awyr fod yn oer; a phob ysgogiad i'r corph, yn neillduol y rhan isaf, a waherddir. Arganmolir gwyliadwriaeth, canys trwy gwsg cárir yr irnaws i'r tumewn, trwy yr hyn y mae yr enyniad yn cael ei ychwancgu; bwytewch yn gynil; yn ddiod cymerwch ddwfr barlys, neu faidd wedi ei buro; yn fwyd cymerwch gywion (*chickens*) a chawl yr unrhyw, wedi ei ferwi gydag ysgall y meirch, y suran, tafod yr ŷch a hoccys.

---

## Pen. 9.

### Am y Chwareniad neu Galedrwydd y Groth.

O LYSNAFEDD esgeulusedig, neu heb ei berffaith feddyginiaethu, y cenhedlir chwareniad y bru, yr hyn sydd chwyddiad caled annaturiol, yn attal, yn anweladwy, weithrediadau y groth, ac yn tueddu yr holl gorph i ddiogi, a musgrellni.

YR ACHOS. Gellir cyfrif un achos o'r afiechyd hwn i ddiffyg medr ac iawn ddeall yn y meddygon; megis ag y mae llawer crachfeddyg sydd yn gweinyddu i enyniad y groth, yn addoeri, &c. yr irnaws, fel na all na phasio y'mlaen nac yn ol; oddiwrth hyn, gan fod y sylwedd wedi cael ei dewychu, y mae yn dirywio neu yn llygru i sylwedd caled. Achosion eraill a allant fod, llethiad attaliad misawl y *lochi*, a elwir yn gyffredin, yr ôl-garthiadau; bwyta bwyd llygredig, megis yn y blys afreolaidd a elwir *pica*, i'r hyn y mae benywod a fyddo yn

planta mor fynych yn ddarostyngedig. Gall ddeillio hefyd oddiwrth attalfeydd a llynorodd yn y bru, neu ddrwg effeithiau yr afu a'r ddueg.

ARWYDDION Os gwaelod y groth a fydd yn cael effeithio arno, y mae hi yn teimlo megis pe byddai lwyth trwm yn tebygu i'r hyn a elwir *mole*, etto yn gwahaniaethu yn fod y *brestiau* wedi lleihau, a'r holl gorph ei dreulio yn llai. Os gwddf y groth a fydd yn cael effeithio arno, ni ymddengys dim irnaws allanol: y mae ei safn wedi ei thynu yn ol, ac wrth ei chyffwrdd â'r bys, y mae yn teimlo yn galed; nac nis gall gydio cyfeillach â dyn heb boenau a phigiadau mawrion.

RHAG-ARWYDDION. Y mae caled-chwydd wedi sefydlu a chadarnhau yn anfeddyginiaethol, a thry yn gancr, neu ddyfrglwyf anwelladwy; ac y mae diweddu yn y cancr, yn troi allan yn farwol, oherwydd na ellir braidd adferu y gwres cynhwynol drachefn, o herwydd ei fod agos wedi ei fogi.

GWELLHAD. Yn y lle y mae gorllawnedd, y mae gwaediad yn gymwys; o herwydd paham, agorwch y *medina* ar y ddwy fraich, a gwythien fawr y morddwyd ar y ddau droed, yn fwy enwedigol os bydd y mis lifiadau wedi eu llethu.

Paratowch yr irnaws gyda *syrub* tafod yr ych, ysgall y meirch, *epithyman*, a maidd wedi ei buro: yna cymerwch o'r peleni a ganlyn, yn ol cryfder y dioddefydd:

Cymerwch *hiera picra*, chwe' dram, *hellebore* du, march-redyn, o bob un dram a haner; *agaric, lapis lazuli, abluti sulindiæ, coloquintida*, o bob un dram a haner; cymysgwch hwy, a gwnewch beleni. Wedi i'r corph gael ei garthu

ewch y'mlaen i feddalu y caledrwydd, fel y canlyn: eneiniwch y dirgeloedd a gwddf y groth, gyd ag ennaint, *decalthea* ac *agrippa*; neu cymerwch *opopanax*, *bdelium*, *ammoniac*, a *myrrh*, o bob un dau ddram; *saffron*, haner dram; toddwch y *gum* mewn *oil of lilies*, a *sweet almonds*; gyda chŵyr a *thurpentine*, gwnewch enaint; cymhwyswch *ciacalion*, *ferellia*, islaw y bogail; gwnewch lysieu-wlyb o *figs*, llysiau Ieuan, *hocys*, brymlys, hocys y gors, gwraidd ffenigl, *melilot*, y grôg-wyran, wedi eu berwi mewn dwfr. Gwnewch chwistrelliad o *calamint*, had llin, *melilot*, y grôgwyran, &c., gydag olew *dill*, *camomile*, a *lilies* wedi eu toddi yn yr unrhyw. Tri dram o gwm *bdelium*; bwriwch y gareg gallestr yn farwor, a boed iddi dderbyn yr ager i'w chroth. Twym-olchwch y rhanau dirgel gyda dyferwad gwraidd a dail ysgaw Mair. Cymerwch o gwm *galbanum*, *opopanax* o bob un dram; sudd ysgaw Mair, llyslyn, y grôgwyran, o bob un dram; mêr llo wns; cŵyr swm digonol: gwnewch oreth neu gwnewch oreth o blwm yn unig, gan ei drochi yn y pethau rhagddywededig, ac felly ei roddi i fynu.

Rhaid i'r awyr fod yn dymherus: gwaherddir bwydydd breision, drygiog, a heillt; megis îrgig mochyn, (*pork*) cig tarw, pysgod, hen gaws, &c.

---

## Pen. 10.

### Am Ddyfrglwyf y Groth.

Y Dyfrglwyf crothog sydd chwyddiad annaturiol, wedi ei godi trwy gasgliad ynghyd wynt

neu lysnafedd yn y ceudod, pilionenau, neu sylwedd y groth, o herwydd gwendid y gwres cynnwynol, a'r maeth a dderbynir, ac felly y mae yn troi yn garthion.

Yr achosion ydynt, gormodedd o anwyd, neu laithdra y dadlaith a'r afu, yfed anghymedrol, bwyta bwydydd anrheuliedig: yr oll o ba rai, gan achlysuro gorllawniad, ydynt yn mygu y gwres naturiol. Gall gael ei achlysuro yr un modd trwy or-ddylifiad y mis-lifiadau, neu trwy unrhyw arloesiad anghymedrol arall. At hyny gellir ychwanegu erthyliadau, penddigedau, a chaled chwysiadad y groth.

Arwyddion. Arwyddion yr effaith hwn y'nt y rhai hyn: mae rhan isaf y bol, gyda'r rhanau cenhedlawl wedi ymchwyddo, ac yn boenus; mae y traed yn chwyddo, mae lliw naturiol y wyneb yn gwaethygu, mae y chwant at fwyd wedi llygru, ac y mae trymder yr holl gorph yn cydsynied Os ymdry yn y gwely oddiar un ochr i'r llall, clywir swn fal dylifiad dwfr. Y mae dwfr weithiau yn dyfod o'r bru. Os bydd y chwyddiad yn cael ei achlysuro gan wynt, y bol yn bod yn boeth, y mae yn swnio fel tabwrdd; mae y colnddion yn treigl-drystio ac y mae y gwynt yn troi trwy wddf y groth gyda swn sibrwdaidd; gellir dynodi yr effaith hwn oddiwrth wir feichiogiad lawer o ffyrdd, fel yr ymddengys wrth y bennod, "Am wir feichiogiad." Gwahaniaethir ef oddiwrth y gwir ddyfrglwyf yn fod y rhanau isaf o'r bol yn fwyaf chwyddedig—Drachefn, yn y galluedd gwaedogaidd hwn, nid yw yn ymddangos mor niweidiol, na'r pision mor lwydaidd, nac ni newidir y gwedd cyn gynted, ychwaith nid yw y rhanau

uwch wedi eu lleihau fal yn y dyfrglwyf cyffredin.

Rhag-arwyddion. Y mae yr effaith hwn yn rhagfynegi dinystr athrist y swydd naturiol, trwy y cydsyniad hynod hwnw sydd i'r groth gyda'r afu, a chan hyny, y gwna y dyfrglwyf cyffredin ddilyn.

Gwellhad. Yn ngwellhad yr afiechyd hwn, dilynwch arferiad *Hippocrates*: yn gyntaf, lliniarwch y boen gyda thwym-olchiad *melilot*, sawdl y crydd, hoccys, had llin, *camomile* a hoccys y môr; yna bydded i'r groth gael ei pharatoi gyda siryp *stœbis*, isop, mintys, llysiau Ieuan, gyda dwfr dyhidliad, neu ddyferwad, ysgaw, *marjoram*, *saeds*, *sperage*, mintys, cribau St. Ffraid: carthwch gyda sena, madarch, *rhubarb*, ac *elaterium*. Cymerwch *specierum*, *hier. rhubarb*, a *troch.* madarch, o bob un *scrupl;* gyda sudd isop gwnewch beleni. (*pills*).

Mewn anhwylderau ag sydd a'u tarddiad mewn lleithder, carthwch gyda *phills*. Ac yn yr effeithiau hyn a achosir gan wagter neu sychder, carthwch gyda diodydd. Sicrhewch wydrau craffiniaid wrth y bol, gydag ager mawr, ac hefyd y bogail, yn enwedig os bydd y chwyddiad yn wyntog; gwnewch dorriad o'r tu fewn i bob coes, lled llaw islaw y glin. Cymmerwch *specierum*, *diambrae*, *diamolet*, *diacalaminti*, *diacinamoni*, *diocimini*, a *troch. de myrrha*, o bob un dau ddram, siwgr un pwys; gyda dwfr cribau St. Ffraid gwnewch *lozenges*; cymerwch rai o honynt ddwy awr cyn prydiau bwyd. Cymhwyswch at y bol, cyn boethed ag y gellir ei oddef, gwd bychan o *gamomile*, cwmin, a *melilot*, wedi ei berwi mewn olew

rhuw; eneiniwch y bol â'r rhanau dirgel gydag enaint *agripa* ac *arragons;* cymysgwch gyda hyny olew *iros;* gorchuddiwch ranau isaf y bol gyda phlastrau grawn y lawryf, neu sugaethan wedi ei wneuthur o gwmin, *camomile,* gwraidd y winwydden, gan ychwanegu tom gwartheg a geifr,

Ein hysgrifenwyr diweddaf a gyfrifant fod rhinweddau mawrion yn perthyn i ddwfr ffwgws (*tobacco*) wedi ei ddisdyllio, a'i dywallt i'r groth â *metrenchyta.* Cymerwch *hin, balm,* llysiau'r corph, *erigan,* wermod, mintys, dail llawryf, *marjoram,* o bob un dyrnaid; grawn meryw, pedwar dram; gyda dwfr gwnewch ddyferwad: o hyn gellir gwneud twym-olchiadau a llysieu-wlyb; gwnewch orethau o *storax,* alws, gyda gwreiddiau *dictau, aristolochia, gentian.* Yn lle hyn gellwch ddefnyddio goreth a ddisgrifir yn Pen. 17. Boed iddi gymeryd o wreiddiau celyn y môr, *aromaticum,* a *dissatyron,* wedi eu melysu, bob boreu.

Rhaid i'r awyr fod yn frŵd a sêch; ymarferiad cymedrol a ganiateir; llawer o gysgu a waherddir. Gall fwyta cig petris, ehedyddion, cywion, adar y mynydd, ysgyfarnogod, &c. Yn ddiod cymered wîn teneu.

---

## Pen. 11.

Am Bel y Famog (*Mole*) a gau Feichiogiad.

GELWIR yr afiechyd hwn gan y Groegiaid *Mole;* a'r achos o'r enwad hwn a gymerir oddiwrth ei bwysau trwm, gan mai telpyn mawr o gig caled, yn llwytho y groth yw.

Darlunir ef fel darn o gnawd annhrefnus, heb ffurff, wedi ei genhedlu yn y bru, fel pe buasai wir feichiogiad. Yn yr hwn ddarluniad y mae dau beth i'w nodi: yn gyntaf, yn y dywedir fod y telpyn cigog hwn yn annhrefnus, ac heb ffurf, y mae yn amrywio oddiwrth anghenfilod, y rhai ydynt yn ffurfiedig, a chymalog: yn ail, yn y dywedir ei fod megis pe byddai wir feichiogiad, yr hyn sydd yn gwahaniaethu rhwng gwir feichiogiad a'r telpyn cigog; yr hwn wahaniaeth a ddeil i'w brofi mewn tair ffordd; yn gyntaf, yn y rhyw, gan na ellir dywedyd fod y telpyn cigog yn anifail; yn ail, yn y drych, (*species*) o herwydd nad oes iddo ffurf dynol, ac nid yw yn dwyn nodweddiad dyn; yn drydydd, ynddo ar ei ben ei hun, o herwydd nid oes iddo ddim perthynas â'r tad, yn yr holl gorph, nac un rhan neillduol o'r unrhyw.

Yr Achos. O barth yr achos o'r effaith hwn, yr wyf yn cael amrywiaeth barnau y'mysg awdwyr dysgedig. Rhai ydynt o'r farn, os had y fenyw a â i'r groth, ac nid eiddo y mab, mai trwy hyny y mae y telpyn cigog yn cael ei fagu. Y mae eraill yn dywedyd ei fod yn cael ei genhedlu o'r gwaed mislifawl. Ond pe caniateid y ddau beth hyn, gallai forwynion fod yn ddarostyngedig iddo, trwy eu misglwf neu eu hymlygriad nosawl, yr hyn ni bu erioed eto. Y mae y gwir achos o'r telpyn cnawdol hwn yn tarddu oddiwrth y mab a'r ferch, oddiwrth hâd llygredig ac anffrwythlon yn y mab, ac oddiwrth y gwaed mislifawl yn y ferch, y ddau wedi eu bwrw ynghyd yn ngheuedd y groth, pan y mae natur yn teimlo ei hun yn wanllyd (eto yn chwennych amddiffyn parhâd eu rhyw) yn dwyn

y'mlaen feichiogiad anmherffaith; ac yn lle creadur byw, y mae yn cenhedlu telpyn o gnawd.

ARWYDDION. Arwyddion y beichiogiad hwn ydynt, fel y canlyn; y mae y mis-lifiant yn cael ei lethu, y chwant bwyd yn gwaethygu, y bronau yn chwyddo, y bol yn chwyddo i fynu, ac yn myned yn galed. Cyn belled a hyn y mae arwyddion gwir feichiogiaid ag un a fo'n ymddwyn ar y *mole* yr un fath. Yn awr mi a ddangosaf yn mha fodd y maent yn gwahaniaethu. Yr arwydd cyntaf o wahaniaeth sydd i'w ganfod yn symudiad y *mole*; gellir ei deimlo yn symud yn y groth cyn y trydydd mis, yr hyn ni all baban; eto ni ellir teimlo y chwyfiad hwn o un grym yn y *mole*, ond gallu naturiol y groth a'r bywyd eneidiol yn cael ei wasgaru trwy sylwedd y telpyn cnawd; oblegid nid oes ganddo fywyd eneidiol, ond bywyd tyfol, megis planigyn; yn ail, os *mole* a fydd y mae y bol yn chwyddo i fynu yn sydyn; ond os gwir feichiogiad a fydd, y mae y bol yn cwtogi yn sydyn, ac wedi hyny yn prifio yn raddol; yn drydydd, pan bwyser y bol â llaw y mae y *mole* yn cilio, a phan dyner y llaw ef a ddychwel yn ei ol drachefn, ond y mae plentyn yn y groth, er pwyso arno â llaw, nid yw yn cilio yn ebrwydd; a phan y symudir ef, y mae yn dychwelyd yn ol yn araf, neu yn peidio dychwel oll; yn ddiweddaf, nid yw y plentyn yn aros yn y groth yn hwy nag unarddeg o fisoedd, ond y mae y *mole* yn aros weithiau bedair neu bump o flynyddoedd, mwy neu lai, yn ol y byddo ei ymlyniad yn y bru. Yr wyf yn gwybod am un *mole* a syrthiodd ymaith mewn pedwar neu bum mis. Os erys hyd yr unfed mis ar ddeg, y mae

yr holl gorph yn curio, ond yn unig fod ei bol yn parhau i brifio, yr hyn a wna i rai dybio bod y dyfr-glwyf (*dropsy*) arni, er na bydd nemawr o reswm i'w roddi am hyny; oblegid yn y dyfrglwyf y mae y coesau yn chwyddo, ac yn myned yn fawrion, ond yn y cyflwr hwn y maent yn lleihau ac yn gwywo.

RHAG-ARGOELION. Os bydd gorlifiad y gwaed yn helaeth pan esgorir ar y *mole*, y mae yn dangos y perygl yn fwy, o herwydd y mae y rhanau maethawl wedi cael eu gwaethygu gan y gormodedd o irnaws sy'n rhedeg yn ol, trwy yr hyn y mae y gwres naturiol yn pallu, ac yna trwy golli cymaint o waed y mae y fenyw yn cael ei gwanhau yn ei holl gyneddfau naturiol, fel na all ymgynnal dan y clefyd heb anhawsdra.

MEDDYGINIAETH. Fe'n dysgir yn ol ysgol *Hippocrates*, fod gollwng gwaed yn achosi erthyliad, trwy fod yn cymeryd ymaith yr holl faeth sydd tu ag at gynnal bywyd y plentyn; am hyny, fel y byddo i'r beichiogiad drwg hwn gael ei ymddifadu o'r nôdd tyfadwy yr hwn sydd yn cadw bywyd tyfawl ynddo, agorwch wythien yr afu a'r fam wythien, yn y ddau droed, sicrhewch wydrau craffiniaid (*cupping glasses*) wrth y lwynau ac ystlysan y bol, ac wedi hyny bydded i'r rhanau crothawl gael eu tymeru yn gyntaf, ac yna bydded i ymegniad gael ei wneud i fwrw ymaith y goflaid.

Tu ag at laccau rhwymynau y *mole* cymerwch dri dyrnaid o hoccys, ynghyd a'u gwraidd, camomil, pys y ceirw (*melilot*) llysiau'r pared. dail y grinllys, gwraidd ffanigl, persli, sawdl y crydd. dau ddyrnaid o bob un; had llin, a'r

grogwyrau, pwys o bob un, berwch hwynt mewn dwfr, a bydded iddi eistedd hyd at y bogail ynddo. A phan ddel allan o hono, irwch ei dirgeloedd a'i llwynau â'r eli canlynol; cymerwch oil camomil, lili, almonau per, owns o bob un, ymenyn gwyrf, *laudanum, ammoniac*, haner wns o bob un, ynghyd a *linseed oil*, gwnewch hwy yn eli. Neu yn lle hwn gellir cymeryd *unguentum agrippa*, neu *dialthea*, cymerwch sawdl y crydd a gwraidd hoccys y morfa, haner dyrnaid o bob un; *flos brochoc, ursini*, haner dyrnaid; had llin, a blawd haidd, chwe' wns o bob un; berwch yr holl bethau hyn mewn dwfr a mêl, a gwnewch blastr, gwnewch oreth o *gum galbanum, bdelium antimoniacum*, ffigys, bloneg a mel.

Pan laccao ymlyniad y *mole*, bydded i ymegniad gael ei wneuthur i'w fwrw allan: i effeithio hyny gellir arferyd yr holl feddyginiaethau y rhai ydynt addas er annog y mis-lifiant. Cymmerwch *troch. de myrr* un wns, *castor astrolochia, gentian, dictam*, haner wns o bob un; gwnewch bowdr, a chymerwch un dram mewn pedair wns o ddwfr llysiau Ieuan, Cymerwch *hypericon*, mintys y gath, brymlys, *(pennyroyal)* cribau St. Ffraid, isop, saeds, llwyd y cŵn (*horehound*) y falerian, y wreiddrydd, (*madder*) yr eithinfyw (*savine*); gwnewch drwyth o honynt gyda dwfr, cymerwch dair wns o honynt, ynghyd ag wns a haner o lysiau y fam, Cymmerwch lysiau Ieuan, myrr, llysiau'r crwyn, (*gentian*) *pill. coch.* pedwar *scruple* o bob un; rhuw, brymlys, *sagepanum, apopanax*, dram o bob un; *assafœtida, sinamwn, juniper berries*, tafod yr ych, (*borage*) an dram o bob un, yn

nghyd o sug yr eithinfyw, gwnewch hwy yn belenau (*pills*) i'w cymeryd bob bore; gwnewch drwyth o isop, llawrwydd benyw, *asirum*, mintys y gath, *bau-berries*, camamil llysiau Ieuan, *ervine*, *cloves*, *nutmeg*, o bob un dau *scruple*, a *galbanum* un dram; *hiera picra*, ac olew *hellebore* du, un *scruple* o bob un; ynghyd a *thurpentine*, gwnewch oreth.

Ond os na lwydda hyn, yna bydd raid tynu y *mole* ymaith âg offeryn, trwy ei roddi i fynu yn y groth, yr hyn a elwir *pes griphus*, yr hyn a ellir ei wneuthur heb lawer o berygl, gan lawfeddyg medrus yn y gorchwyl, Ar ol esgoriad ar y *mole*, o herwydd bod y fenyw wedi colli llawer o waed, bydded i ddylifiad y gwaed gael ei attal gan gynted ag y bo modd. Rhoddwch wydrau craffiniaid wrth yr ysgwyddau, ac wrth rwymiad y breichiau. Os na wna hyn y tro, agorwch wythien yr afu yn y fraich ddeheu.

Mae yn rhaid i'r awyr fod yn ganolig o boeth a sych, a'r ymborth yn sych, y cyfryw ag a fo yn meddalu ac yn teneuo dyn: hi a all yfed gwin gwyn.

---

## Pen. 12.

Am Feichiogiad; a'r modd y gall merched wybod pa un ai ar blentyn gwrryw ai benyw y byddont yn feichiog.

MAE y reddf naturiol ag y mae natur wedi ei phlanu mewn meibion a merched i genhedlu eu rhyw eu hunain, yn eu rhoddi ar waith i ddefnyddio y ffyrdd hyny ag y mae natur wedi ei hordeinio i'r dyben hwnw, yr hyn, ar ol iddynt

ei defnyddio, nid yw y fenyw yn fynych, trwy anwybodaeth o'i bod wedi beichiogi, neu ddiffyg o'r gofal dyledus hwnw a ddylai gymeryd, nid yw fawr well na llofrudd ei phlentyn ei hun, er nad yw hi yn bwriadu hyny; o herwydd, ar ol beichiogiad, gan deimlo ei hun heb fod yn iach, a thrwy anwybodaeth o'r hyn sydd yn ei blino, y mae yn myned at feddyg, ac yn ymofyn ag ef; ac yntau heb wybod dim ond yr hyn a ddyweda hi wrtho, ac heb feddwl ei bod hi yn feichiog, yn rhoddi diodydd carthol cryfion iddi, yr hyn sy'n dinystrio y beichiogiad. Ac y mae rhai o herwydd rhyw fursendod ffol, er eu bod yn gwybod eu bod wedi beichiogi, eto ni chyfaddefant, fel y galler eu cyfarwyddo pa fodd i drefnu eu hunain yn ol hyny; gall y rhai ag ydynt mor fursenaidd mewn amser ddysgu bod yn gallach, ac er mwyn y rhai hyny ag ydynt yn anwybodus, rhoddaf i lawr arwyddion beichiogiad, fel y gallo merched, trwy hyny, wybod pa un a ydynt wedi beichiogi ai nad ydynt.

Arwyddion. Os bydd y wythien dan y llygad wedi chwyddo. h. y. dan yr amrant isaf, a'r gwythienau yn y llygad yn ymddangos yn eglur, a'i llygaid weithiau yn ddrwg eu lliw, os na bydd y mis-lifiadau ar y fenyw, nac wedi bod yn colli ei chysgu y noson o'r blaen, gellwch yn ddilys benderfynu ei bod yn feichiog; ac y mae hyn yn ymddangos yn fwyaf eglur ar ddechreu ei beichiogiad; a'r ddau fis cyntaf ni bu i'r arwydd hwn erioed ballu.

Cedwch ddwr y fenyw yn glòs mewn gwydryn am dri diwrnod, yna hidlwch ef trwy liain main; os canfyddwch greaduriaid bychain bywion ynddo, y mae hi yn dra sicr wedi beichiogi ar

blentyn; canys y dwr, yr hwn oedd o'r blaen yn rhan o'i sylwedd ei hun, a genhedlir yn gystal a'i berchenog.

Oerder yn y rhanau allanol ar ol ymrëad, y mae y gwres wedi cilio i wneuthur beichiogiad.

Y mae gwythienau y frest i'w gweled yn fwy eglur nag y byddont arferol o fod.

Mae y corph wedi ei wanhau, a'r wyneb yn ddrwg ei liw.

Mae y bol yn treulio yn dra gwastad, o blegid bod y groth yn ymgau i faethu ac achlesu yr hâd.

Os yfir dwfr oer y mae oerfel yn cael ei adael yn y brestiau.

Colli chwant bwyd, bythciriadau sur, a gwendid dirfawr yn y cylla.

Y brestiau yn dechreu chwyddo, a myned yn galedion, nid heb boen a thoster.

Poenau cnoawl neu ddirwasgawl, tebyg i'r cwlwm gwythi, yn digwydd yn y bol oddeutu y bogail.

Amryw flysiau, &c. yn cael eu magu.

Gwythienau y llygaid i'w gweled yn eglur, a'r llygaid yn ymddangos yn ddrwg eu lliw, fel y dengys gwydr-ddrych, (*looking-glass*). Y mae hwn yn arwydd anffaeledig.

Carthion y coluddion yn cael eu harlloesi yn boenus, o herwydd fod chwyddiad y groth yn gwasgu y perfeddyn deau ynghyd.

Cymerwch ddanadlen werdd deg, a dodwch hi yn nŵr y fenyw; gorchuddiwch hwy yn glòs, a gadewch iddynt aros noswaith gyfan; os bydd y fenyw yn feichiog, bydd yn llawer o yspotiau cochion dranoeth, os na fydd yn feichiog, bydd y ddeilen yn dduaidd.

Y mae amrywiol reolau eraill o'r natur yma, ond y rhai hyn yw y rhai goreu, ac anaml iawn y mae rhai o honyntyn methu.

Yn awr o herwydd bod rhai yn dra awyddus i wybod a fyddant yn feichiog ar blentyn gwrryw ynte benyw, mi a roddaf i lawr yn y lle nesaf reolau, wrth y rhai y gallwch ffurfio barn addas ar yr achos.

### *Arwyddion o Blentyn gwrryw*

Y mae benyw yn ymddwyn bachgen yn esmwythach, a chyda llai o boen na genethod, ac yn cario ei choflaid heb fod mor drom, ond yn sioncach yn ei rhodiad.

Y mae y plentyn i'w deimlo gyntaf yn yr ochr ddehau; o blegid yr oedd yr hynafiaid gynt o'r farn fod y plant gwrrywiaid yn gorwedd ar yr ochr ddeheu i'r groth. Y mae y fenyw yn fwy tueddol hefyd i orphwyso ar yr ochr ddeheu na'r asswy pan gyfodo o'i heistedd.

Y mae y bol yn fwy crwn ac uchel na phan fyddo yn feichiog ar fenyw.

Y mae y fron ddeheu yn fwy chwyddedig, ac yn galetach na'r aswy, a phen y fron hefyd yn gochach.

Y mae lliw y ddynes yn gliriach, ac heb fod mor felynddu a phan fyddo yn feichiog ar eneth.

Y gwrthwyneb i hyn yw arwyddion beichio g-rwydd ar enethod, gan hyny nid oes angen rhaid dywedyd dim yn eu cylch.

Ond mi a chwanegaf yr hyn a ganlyn, a chwiliais drwy fy mhrofiad fy hun, a'r hyn ni fethodd erioed trwy wybodaeth i mi.

Os bydd y lloeren o dan lygad y fenyw, yr

hon sydd o liw gwelw-las, yn amlycach o dan y llygad deheu, a'r gwythienau yn fwy amlwg yn ei llygad deheu, ac yno yn fwyaf drwgliwiog, y mae hi yn feichiog ar fachgen; ond os bydd y nodau hyn yn eglurach yn ei llygad aswy y mae hi yn feichiog ar eneth.

Etto, bydded iddi odro diferyn o'i llaeth i lestr a dwfr gloyw; os sudda y llaeth i'r gwaelod yn ddiferyn crwn fel y disgyno, y mae hi yn feichiog ar eneth; ond os bachgen a fydd, fe ymdaena ac a nofia ar y wyneb. Hyn a brofais yn aml, ac ni fethodd erioed

---

## Pen. 13.

### Am Enedigaeth anamserol.

PAN y byddo ffrwyth y bru yn dyfod cyn y seithfed mis, hyny yw, cyn y delo i addfedrwydd, dywedir ei fod heb fod yn ei amser; ac mewn effaith, y plentyn yn annhymmig, (h. y. ni bydd byw) os genir ef yn yr wythfed mis. A phaham y gall y plant a enir yn y seithfed neu yn y nawfed mis fyw, yn hytrach na'r rhai a enir yn yr wythfed, a all ymddangos yn rhyfedd, er hyny y mae yn wir. Priodola rhai yr achos hwn i'r blaned dan yr hon y genir y plentyn; o herwydd bod pob mis o amser y beichiogiad hyd amser esgor yn cael ei reoli gan ei briodol blaned; ac yn yr wythfed mis y mae Sadwrn yn goruwch-reoli, yr hon sydd oer a sych; ac y mae oerder yn elyn hollawl i fywyd, ac yn distrywio natur y plentyn. Y mae Hippocrates yn rhoddi gwell rheswm na hyny.

sef fod y plentyn yn mhob modd yn berffaith ac yn gyflawn yn y seithfed mis, ac yn chwennych mwy o awyr a maeth nag oedd yn ei gael o'r blaen, a chan na all gael hyny, y mae yn llafurio am fynedfa allan; ac os bydd ei fywyd eneidiol yn myned yn wan ac yn llesg, ac heb fod ganddo nerth digonol i dori y bilionen, ac i ddyfod ymlaen fel y mae natur wedi ei threfnu, bydd raid iddo aros yn y groth hyd y nawfed mis, fel y gallo ei ysprydoedd adgryfhau, ac adnewyddu yn yr amser hwnw; ond os daw efe drachefn i ymdrechu yn yr un modd yn yr 8fed mis, a chael ei eni, ni all efe fyw, oblegid fod ei ddydd genedigaeth naill ai wedi myned heibio neu heb ddyfod.

GWELLHAD. Gall genedigaethau annhymig gael eu hachosi drwy anwyd, canys fel y mae yn gwneud i ffrwythydd coed wywo, syrthio i lawr cyn addfedu, felly y mae'n gwywo ffrwyth y bru cyn dyfod o hono i iawn berffeithrwydd, ac yn ei wneuthur yn annhymmig; weithiau trwy leithder yn gwanhau y galluoedd naturiol, fel na ellir ei attal hyd ben ei amser, neu drwy sychder a gwagder, yn siomi y plentyn am ei faeth a'i gynhaliaeth; trwy orlifiadau, trwy ollwng gwaed, a dyhysbyddiadau eraill; a thrwy enynfa y groth, a chlefydau tanbaid eraill. Y mae weithiau yn cael eu achosi trwy lawenydd, chwerthin, digofaint, ac yn enwedig trwy ofn: o herwydd trwy hyny y mae y gwres yn ymadael o'r groth, ac yn rhedeg i'r galon am gymorth yno, ac felly y mae oerder yn taro yn y bru, trwy yr hyn y mae y rhwymau yn cael eu llacau, ac erthyliad yn ddilynol. O herwydd paham y gorchymynai Plato yn ei amser ef, i rai beichi-

iogion ochelyd pob gorlawnedd, a phleserau anghymedrol; ac yr un modd ochelyd pob achlysuron o ofn a thristwch. Gallai erthyliad gael ei achosi trwy awyr anmhur, afiachus, ac aroglau drwg, ac yn enwedig trwy arogl llosgben canwyll; hefyd drwy godymau, dyrnodiau, llafurwaith caled, neïdio, dawnsio, &c.

ARWYDDION. Yr arwyddiou o flaen erthyliad yw lleihad y bronau, ynghyd a gorlifiad o laeth dyfrllyd, poen yn y groth, pendrymedd, blinder anarferol yn mhenau y cluniau a'r morddwydydd, a gorlifiad y misglwyf. Arwyddion yn rhagddangos y ffrwyth yn farw yn y groth yw y llygaid yn pantio, cur yn y pen, llewygfeydd, arswyd, gwelwedd yn y wyneb a'r gwefusau, cnofa yn y cylla, dim bywyd yn y plentyn, tewder yn y bol, ac arlloesion dyfrllyd a gwaedlyd yn dyfod o'r bru.

---

## Pen. 14.

Hyfforddiadau i Ferched yn planta.

Y MAE rhagflaeniad genedigaethau anamserol yn gynnwysedig mewn symud yr achosion dywededig uchod, yr hyn sydd raid ei wneuthur cyn ac wedi beichiogiad.

O flaen beichiogiad, os bydd y corff yn rhy frwd, sych neu laith, cywirwch ef gyda phethau gwrthwyneb, os yn orweddol, carthwch ef; os *phletorical*, agorwch wythien yr afu; os yn rhy fras neu dew, teneuwch ef ; os yn rhy deneu, cyfnerthwch a maethwch ef. Rhaid symud pob anhwyldeb perthynol i'r groth mal y dangoswyd.

Ar ol beichiogiad bydded yr awyr yn dymherus: na chysgwch ormod, gochelwch wyliadwriaeth, llawer o ymarferiad corff, nwydau y meddwl, trystian uchel, a drwg arogl; dylai y rhai hyny ag ydynt famogaidd wrthod arogl peraidd hefyd. Ymgedwch oddi wrth bob peth ag sydd yn cynhyrfu naill ai y pision neu y misglwyf; hefyd oddiwrth fwydydd heillt, surion, a gwyntog. Dylid cadw at luniaeth cymhedrol.

Os bydd carthion yr ymysgaroedd yn cael eu dal, tynerwch y bol gyda chwistrell-feddyginiaethau, wedi eu gwneuthur o ddyferwad hoccys, crinllys, gyda siwgr ag olew cyffredin, neu gwnewch gawl gyda *borage*, tafod yr ych, *beets*, y feddalai, gan gymeryd yn yr unrhyw ychydig o fanna. I'r gwrthwyneb, os bydd yn cael ei blino â'r dolur rhydd yn y bol, na attalier ef, heb farn meddyg; canys y mae cyneddf niweidiol yn yr holl ddylifiadau crothog, yr hyn a raid ei arloesi cyn yr attalier y dylifiad.

Digwyddiad arall ag sydd yn cyd fyned â benywod yn planta yw y peswch; ac y mae yn eu rhoddi dan y perygl mawr o anffynu, (*miscarry*) trwy fod defnyniad parhaus yn disgyn o'r ymenydd. Er attal yr hyn eilliwch ymaith y gwallt ar y coryal â *satical coissurcs*, a chymhwyswch arno y *plastr* canlynol: cymerwch o *resinae* haner wns, o *laudana*, un dram, *pill citron, lign.* alws *olibani*, o bob un dram; *stiriachis liquidae*, a *sicca*, swm digonol, toddwch y *gwms* mewn finegr a gwnewch blastr. Yn y nos wrth fyned i'w gwely, bydded iddi gymeryd mygiad y peleni hyn wedi eu bwrw ar lo. Hefyd cy-

merwch o *frankinccnse, powdr storax, a rhoses* cochion o bob un dram a haner, *sandrach,* wyth dram, *mastig bejnamin,* ambr, o bob un dram; gyda *thurpentine* gwnewch beleni, cymhwyswch seriad at wegil y gwddf. A phob nos bydded iddi gymeryd y pills canlynol; cymerwch *hypocistides teriae, sigillate, bole* mân, o bob un haner wns; *bastort, alcatia styracis, calamint,* o bob un ddwy ddram, *cloves* un ddram; gyda syrup myrtwydd gwnewch beleni.

Cenhedlir sylwedd llygredig mewn benywod yn planta, yr hwn gan ddylifo i'r cylla sydd yn llwfrhau y chwant at fwyd, ac yn peri cyfogiad, a'r cylla yn wan, ac heb fod yn alluog i dreulio y sylwedd hwn, sydd weithiau yn ei anfon i'r ymysgaroedd, trwy yr hyn yr achlysurir dylifiad yn y bol, yr hyn sydd yn mawr gynhyrfu 'cynneddf y groth. I ragflaenu yr holl beryglon hyn, rhaid cyfnerthu y cylla fel y canlyn: cymerwch *lign. alocs* a *nutmeg,* o bob un dram; *mace clove, mastig a laudanum,* o bob un dwy *scruple*; olew *spike,* wns; mwsg dau ronyn; olew *mastig, quinces,* a wermod, o bob un haner wns; gwnewch enaint i'r cylla i gael ei gymhwyso o flaen prydiau bwyd. Ond yn lle hyny gellwch ddefnyddio *ceronum, stomachile, galeni.* Cymerwch o gyd-gyffaith *borage,* tafod yr ŷch, ac *atthos,* o bob un haner wns; *confect. de hyacinth,* pîl *lemon* wedi ei felysu, *specierum, diamarg, pulv de. gemmis,* o bob un dwy ddram; *nutmeg, a diumbra,* o bob un dwy scruple; gwreiddiau *pioni a diacoratis,* o bob un dwy ddram; gyda syrup *rhoses* gwnewch gyflaith, o'r hwn rhaid iddi gymeryd ddwy waith yn y dydd, ddwy awr o flaen prydiau bwyd. Di-

gwyddiad arall ag sydd yn dwys flino menyw feichiog yw, chwyddiad coesau, yr hyn sydd yn digwydd y tri mis cyntaf, trwy fod gwlybyrau gormodol yn disgyn i lawr o'r cylla i'r afu: er gwellhau yr hyn, cymerwch olew *rhoses* dwy ddram; halen a finegr o bob un dram; ysgydwch hwy ynghyd hyd oni thoddo yr halen, ac eneiniwch y coesau ag ef yn boeth, gan ei rwbio â'r llaw: gellir ei wneuthur yn ddiberygl yn y pedwerydd, y pummed, neu y chweched mis o feichiogiad; canys gellir cydmaru y plentyn yn y groth i afal ar goeden; y tri mis cyntaf y mae yn wan a thyner, yn ddarostyngedig, gyda'r afal i syrthio ymaith, ond ar ol hyny, y pilionenau wedi eu cryfhau, y mae y ffrwyth yn aros wedi ei gadarn sicrhau wrth y groth, heb fod yn chwannog i aflwydd, ac y mae yn parhau felly hyd y seithfed mis, hyd oni bo wedi tyfu yn agos i amser y bydd ei rwymynau drachefn yn cael eu llaccau, fel yr afal a fyddo yn agos yn aeddfed, ac yn dyfod yn rhyddach bob dydd, hyd amser sefydledig rhyddhâd. Os gan hyny y bydd y corph mewn gwir angen o gael ei garthu, gellir ei wneuthur yn ddiberygl yn y pedwerydd, y pumed neu y chweched mis; ond nid cyn nac ar ol hyny, oddieithr mewn rhai anhwylderau llymion, yn y rhai y mae y fam a'r plentyn y naill fel y llall yn debyg o drengu. Cymhwyswch *blastrau* ac enaint at y lwynau, i'r dyben o gryfhau ffrwyth y groth. Cymerwch o *gwm agaric, galangalc, bistort, hypocistic,* a *storax,* o bob un dram; *bolc* mân, *nutmeg, mastig, bollusts, sanguis draconis,* a grawn myrtwydd, dram a haner; cŵyr a thurpentine, swm digonol; gwnewch blastr. Cymhwyswch

ef at y lwynau yn amser gauaf, a symudwch ef bob 24 awr, rhag i'r lwynau gael eu poethi yn ormodol âg ef. Yn y cyfamser eneiniwch y dirgcloedd a'r lwynau gydag enaint a *constitissæ*; ond os amser haf a fydd, a'r lwynau yn frwd, mae y plastr a ganlyn yn fwy priodol: cymerwch o *roses* cochion, pwys, *mastig* a *sanders* coch, o bob un dwy ddram; *bole ammoniac*, *coral* coch, a *bistort*, o bob un dwy ddram; pîl *pomgranate*, paratoawl, a choriander, o bob un dwy ddram a haner; yspinys, dwy scruple; olew *mastig* a *quinces*, o bob un wns; sudd dail lluriad, dwy ddram; gyda phyg gwnewch blastr; eneiniwch y lwynau hefyd gydag *unguentum sandal*. Unwaith bob wythnos golchwch y lwynau gyda dwy ran o *rose water*, ac un ran o win gwyn wedi eu cymmysgu y'nghyd, a'u twymo wrth y tân. Dofa hyn y brydaniaeth, a gwasgara olew y plastr allan o chwys-dyllau y croen a bydd yn achos i'r enaint neu'r plastr, i dreiddio a chryfhau y groth yn gynt. Mae rhai o'r farn fod yr ehedfaen, cyhyd ag ei dodir wrth y bogail yn cadw y fenyw rhag erthyliad. Coffheir y cyffelyb hefyd am y garreg *aetites*, trwy iddi gael ei chrogi o ddeutu y gwddf; y mae i'r garreg *samius* yr un rhinwedd.

## Pen. 15.

Cyfarwyddiadau ag y dylid sylwi arnynt gan fenywod yn amser eu syrthiad i wewyr esgor, er eu rhyddhâd diogel, gyda chyfarwyddiadau i Fyd-wragedd.

WEDI rhoddi cyfarwyddiadau angenrheidiol i ferched yn dwyn plant, pa fodd i lywodraethu eu hunain yn ystod amser eu beichiogiad, caf ychwanegu yr hyn sydd yn angenrheidiol iddynt sylwi arno er eu rhyddhâd.

Pan fyddo amser genedigaeth yn agoshau, boed i'r fenyw ofalu am anfon am fyd-wraig fedrus, a hyny yn hytrach yn rhy fuan nac yn rhy ddiweddar; erbyn yr amser boed iddi baratoi math o wely bychan (neu *ballet*) a'i osod yn agos i'r tân, fel y gallo y fyd-wraig a'i chynnorthwywyr bassio o i gwmpas, a helpio ar bob tu pan byddo achos yn gofyn, a chanddi lieiniau i'w newid yn barod, ac ystôl fechan i roddi ei thraed i orphwys yn ei herbyn, gan y bydd ganddi fwy o rym pan fyddont wedi eu plygu na phan y maent fel arall.

Wedi paratoi fel hyn, pan y teimla'y fenyw ei phoen yn dyfod, a'r hin heb fod yn oer, boed iddi gerdded o ddeutu yr ystafell, gan ymorphwys ar droiau ar y gwely, ac felly disgwyl dyfodiad ei dwfr i lawr, yr hwn sydd wedi ei gyfyngu yn un o'r pilionenau allanol, ac sydd yn dylifo yno pan ei torir trwy ymdrechiad y plentyn; gan nad oes amser uniongyrchol neu gyfeiriedig, wedi ei sefydlu i'r ffrydiad, er yn gyffredin, nid yw yn dylifo uwchlaw dwy awr cyn ys esgoriad. Ysgogiad,

yn yr un modd, a bâr i'r groth agor ac ymledu, pan ar ol hir orwedd yn y gwely y mae yn anesmwyth. Etto, os bydd yn dra gwan, gall gymeryd rhyw feddyglyn (*cordial*) esmwyth i adfywio ei hun, os caniata ei phoen.

Os bydd ei llafur yn faith a blin, gall adfywio ei hysprydoedd trwy gymeryd cawl cywion neu *mutton*, neu gymeryd ŵy lled ferwedig; ond rhaid iddi gymeryd gofal am beidio bwyta gormod.

Mewn perthynas i'r ystumiau y rhyddheir benywod ynddynt, y maent yn llawer: rhai yn gorwedd ar eu gwelyau, rhai yn eistedd mewn cadair, gan gael eu cynnal a'u dal gan eraill, neu orphwys ar y gwely neu'r gadair; rhai drachefn ar eu gliniau; gan gael eu cynnal ar eu breichiau; ond y ffordd fwyaf diogel a chyfleus yw yn y gwely, ac yna dylai y fyd-wraig ystyried y rheolau canlynol: Boed iddi osod y fenyw ar ei chefn, ei phen wedi ei godi ychydig trwy gynnorthwy gobenydd, a chanddi y cyffelyb help i gynnal ei lwynau a'i morddwydydd, ac fel y byddo i'r gloren orwedd yn uchel; o herwydd os bydd yn gorwedd yn isel, ni all gael yn iawn ei rhyddhau Yna byddediddi gadw ei chluniau a'i morddwydydd cyn belled oddiwrth eu gilydd ag y dichon iddi; a'i choesau wedi eu plygu ynghyd at ei morddwydydd, gwadnau ei thraed a'i sodlau wedi eu sefydlu ar foncyff bychan o goed, wedi ei osod i'r dyben hwnw, fel y gallo ymdrechu yn gryfach; ac os bydd ei chefn yn dra gwan, rhaid bwrw rhwymyn o lano, pedwar plyg, ac o ddeutu dwy fodfedd o led; a rhaid i ddau berson ddal hwn, pa rai gyda dwylaw diysgog

ac â chwyfiad cyfartal a raid ei chodi i fynu yr amser y digwydd ei llafur; ond os na byddant yn gywir yn eu hysgogiad, gwell ei adael yn llonydd. Ac ar yr un amser boed i ddwy fenyw ddal ei hysgwyddau, fel y gallo hi felly ddirgymell yr esgoriad allan gyda mwy o fantais; ac yna i'w rhyddhau, boed i fenyw ddylofi neu wasgu y rhan uchaf o'i bol yn araf. Nac ni wiw i'r fenyw ei hun fod yn wan galon, ond o galondid da, gan ymegnio trwy ymorchestu a dal ei gwynt.

Yn yr amgylchiad o ryddhad, rhaid i'r fyd-wraig ddisgwyl gydag amynedd hyd oni byddo pen y plentyn neu aelodau eraill wedi rhwygo y bilionen: o herwydd os trwy anwybodaeth, neu frys i fyned at fenywod eraill, mal y gwnai rhai, y bydd i'r fyd-wraig rwygo y bilionen â'i hewinedd, y mae yn peryglu y fenyw a'r plentyn, canys trwy orwedd yn sych, ac eisiau y llithrigrwydd a ddylai ei wneuthur yn esmwyth, y mae yn dyfod gyda phoenau mawrion.

Pan ymddengys y pen, rhaid i'r fyd-wraig ei ddal yn araf rhwng ei dwylaw, a thynu y plentyn ar y cyfryw amser ag y byddo poenau y fenyw arni, ac nid un amser arall, gan lithro ei bysedd blaen o fesur ychydig o dan bantiau ei fraich, a pheidio arfer llaw arw wrth ei dynu allan, rhag trwy hyny, y bydd i'r maban tyner dderbyn unrhyw afluneiddiwch corph. Cyn gynted ag y cymerir y plentyn allan, yr hyn 'sydd, am y rhan amlaf, a'i wyneb tu ag i lawr, boed iddo gael ei osod ar ei gefn, fel y byddo iddo dderbyn anadliad allanol yn rhwyddach; yna torwch linyn y bogail o ddeutu tair modfedd

oddiwrth y corph, gan rwymo y pen hwnw a f'o wrth y corph gyda llinyn sidan, cyn agosed ag y gellwch; yna gorchuddiwch ben a chylla y plentyn yn dda, gan beidio a goddef i ddim ddyfod ar y gwyneb.

Wedi i'r plentyn fel hyn gael ei ddwyn allan, os yn iach dodwch ef o'r neilldu, a bydded i'r fyd-wraig ofalu am y goddefydd, (*patient*) trwy dynu ymaith yr hemysgar; a hyn a all hi ei wneuthur trwy eu cynhyrfu a'u hysgwyd i lawr ac i fynu, ac wedi hyny, â llaw araf, eu tynu allan; ac os bydd y gwaith yn anhawdd, boed i'r fenyw ddal halen yn ei dwy law, eu cau yn dŷn, ac anadlu yn galed iddynt, a thrwy hyn hi a wybydd pa un ai ydyw y pilionenau wedi eu tori ai peidio. Gellir gwybod hefyd trwy beri iddi ymdrechu neu gyfogi, rhoddi ei bys yn ei gwddf, neu trwy ddirgymell a symud ei rhanau isaf; ond bydded i'r cwbl gael ei wneuthur allan o law. Os metha hyn, bydded iddi gymeryd llwngc o ddwfr amrwd, neu felyn ŵy newydd ddodwy, ac arogli darn o *assafoetida*, yn enwedig os bydd yn cael ei blino gan y colig gwyntog. Os digwydd iddi gael anwyd, y mae yn attalfa mawr i ddyfodiad yr hemysgar i lawr: ac yn y cyfryw amgylchiadau, dylai y fyd-wraig boeth rwbio bol y fenyw yn araf, nid yn unig i dori y gwynt, ond i beri i'r hemysgar ddyfod i lawr. Ond os bydd hyn yn aneffeithiol, rhaid i'r fyd-wraig roddi ei llaw i mewn y man nesaf allan, neu friwdwll y groth, ac yn araf ei dwyn allan.

Wedi traethu o honof yn awr am esgoriadau cyffredin, neu y fath ag ydynt am y rhan fwyaf yn esmwyth, caf yn bresenol roddi cyfarwyddiadau mewn amgylchiadau o enbydrwydd.

## Pen. 16.

Pa beth a ddylid sylwi arno mewn Achosion o Enbydrwydd: yn enwedig i Fenywod, y rhai y mae yn cyd-fyned â hwy Ddylifiad gwaed, Dirdyniadau, a Gloesiony Meddwl, yn eu gwewyr.

OS bydd gwewyr yn galed ac anhawdd, rhaid cymeryd mwy o ofal nac amserau eraill. Ac yn gyntaf oll, rhaid i sefyllfa y groth, a'r ystum o orwedd fod ar draws y gwely, yn cael ei dal gan bersonau cryfion, iddei hattal rhag llithro i lawr, neu symud o dan weithrediad y llaw feddyg; rhaid rhoddi ei morddwydydd ar wahân, cyn belled oddiwrth eu gilydd ag y gallant fod, a chael eu dal felly; tra y rhaid iddei phen orwedd ar glustog, a rhanau ei chefn eu cynnal yn ol yr un dull. Wedi codi ei chlorenau a'i chluniau i fynu, sylwer am orchuddio ei chylla, ei bòl, a'i morddwydydd, â lliain cynes, iddeu cadw rhag yr oerfel.

A'r fenyw yn yr ystym hon, boed i'r gweithredydd roddi ei law (neu ei llaw) i fynu, os bydd gwddf y groth wedi ymledu, a symud y gwaed cyfyngedig sydd yn attal trosglwyddiad yr esgoriad: ac wedi gwneuthur ffordd yn raddol, boed iddo symud y baban yn dyner, wedi iddo yn gyntaf eneinio ei law â ymenyn newydd, neu *bomatum* diniwed. Ac os na bydd y dwfr yn dyfod i lawr, yna heb anhawsdra gellir ei ollwng allan, pan, os bydd i'r baban ymgais i dori allan a'i ben yn flaenaf, neu yn groes, efe a all yn araf ei droi i gael hyd i'r troed; wedi gwneuthur hyn, boed iddo dynu allan y naill, a'i gyfrwymo wrth yr ysnoden, yna ei roddi i fynu drachefn, ac yn raddol chwilio allan am y

llall gan eu dwyn mor gyfagos a chydwastad ag y byddo modd, ac ar amserau gadawed i'r fenyw anadlu, gan ei hannog i ymdrechu yn nghynnorthwyad natur i berffeithio yr esgoriad, mal y galler ei dynu allan; ac fel y galler gwneuthur hyny yn hwylusach, a'r gafael yn sicrach, goblygwch liain o ddeutu morddwyd y plentyn, gan ofalu ei ddwyn i'r byd a'i wyneb i waered.

Yn yr achos o ddylifiad gwaed, os bydd gwddf y groth yn agored, rhaid ystyried pa un ai y maban ynte yr hemysgar fydd yn dyfod gyntaf, yr hyn fydd yr olaf weithiau yn digwydd ei wneuthur; gan gau safn y groth, ac attal yr esgoriad, er perygl y fam a'r plentyn; ond yn yr achos hwn, rhaid symud yr hemysgar trwy dröad cyflym; ac yn wir, y maent trwy ddyfod i lawr felly, wedi twyllo llawer, pa rai gan deimlo eu meddalwch, a dybient nad oedd y groth wedi ymledu, a thrwy hyn bu i'r fam a'r plentyn, neu o leiaf yr olaf, gael ei golli. Wedi symud yr hemysgar, rhaid ceisio am y plentyn, a'i dynu allan, fel y cyfarwyddwyd; ac os yn y cyfryw amgylchiad y bydd farw y fam neu'r plentyn, mae y fyd-wraig neu y llaw-feddyg i'w difeio yn yr achos, o herwydd ddarfod iddynt wneuthur eu hegni didwyll.

Os ymddengys oddiar chwiliad, mai yr hem-ysgar sydd yn dyfod gyntaf, bydded i'r fenyw gael ei rhyddhau gyda phob brys cyfleus, o herwydd y bydd i ddylifiad gwaed mawr ddilyn; canys y mae y gwythienau wedi eu hagor, ac ar y cyfrif hwn y mae dau beth iddeu hystyried.

Yn 1, Dull yr hemysgar yn dyfod y'mlaen

pa un ai mawr ai bach fydd. Os y blaenaf, a phen y plentyn yn ymddangos gyntaf, gellir ei dywys a'i lywio tu ag at wddf y groth, megis yn yr amgylchiad o enedigaeth naturiol; ond os ymddengys unrhyw anhawstra yn y rhyddhâd, y ffordd oreu yw chwilio am y traed, a thrwy hyny ei dynu allan; ond os yr olaf, gellir rhoddi yr hemysgar yn ol â llaw esmwyth ac araf, a chymeryd y plentyn allan yn gyntaf.

Ond os bydd yr hemysgar wedi dyfod yn mhell y'mlaen, fel na aller ei roddi yn ol, a'r plentyn yn ei ddilyn yn *glos*, yna mae yr hemysgar i'w dynu allan, a hyny yn dra gofalus, mor gyflym ag y byddo modd, a'i osod yn esmwyth heb dori y perfedd sydd wedi ei sicrhau wrthynt; canys trwy hyny gellwch gael eich arwain at y baban, yr hwn, pa un bynag ai byw ai marw, sydd raid ei dynu allan gerfydd y traed gyda phob brys; er nad yw hyn i weithredu arno ond mewn achos o fawr angenrheidrwydd, canys mewn amgylchiadau eraill, dylai yr hemysgar ddyfod yn olaf.

Ac wrth dynu allan blentyn marw, sylwed y llaw-feddyg yn ofalus ar y cyfarwyddiadau hyn, sef, Os ceir y plentyn yn farw, ei ben y'mlaenaf, bydd y rhyddhad yn anhawsach; canys y mae yn arwydd amlwg, trwy fod cryfder y fenyw yn dechreu pallu, na all y plentyn, ac ef yn farw, ac yn ddiffygiol o'i rym naturiol, mewn unrhyw fodd fod yn gynnorthwyol idd ei ryddhad; o herwydd pa ham, y ffordd fwyaf sicr a diogel i'r llaw-feddyg, yw rhoddi i fynu ei law chwith, gan ei llithro mor geuol yn y palf ag y dichon iddo, i wddf y groth, ac i'r rhanau isaf o honi tu ar traed, ac yna rhwng pen y baban a gwddf

y bru; a chandddo fach yn y llaw dde, cymwyser ef yn *glos*, a llithrer ef uwchlaw y llaw chwith, rhwng pen y plentyn a chledr ei law, gan ei sicrhau yn attaliadau yr arleisiau tu a'r llygaid. Yn niffyg dyfodiad cyfleus at y rhai hyn, sylwer o hyd am gadw y llaw aswy yn ei lle, gan symud a chynhyrfu y pen yn araf â hi, ac felly gyda y llaw dde a'r bach, tỳner y plentyu y'mlaen, gan gynghori y fenyw i arfer ei holl gryfder, ac o hyd yn tynu pan mae ei phangau arni. Wedi tynu y pen allan, rhaid iddo gyda phob brys lithro y llaw i fynu o dan geseiliau y plentyn, a'i dynu yn hollol allan; gan roddi y pethau hyn i'r fenyw: *Toast* o fara purwyn, mewn chwarter peint o win *Ipocras*.

Os bydd y cymhwysiad blaenorol yn palln, pan y mae y fenyw yn ei gwely, boed iddi dderbyn y meddyglyn canlynol yn dwymn, a gorphwys hyd oni theimla y gweithrediad.

Cymerwch 7 o *figs* cochion, torwch hwy yn ddarnau; ychwanegwch atynt *fenugreek*, llysiau'r fam, o bob un chwe' wns; berwch hwy i'r haner; ac wedi ei hidlo drachefn, ychwanegwch *drochisks* myrr, un dram, a saffrwm, tri gronyn, meluswch y ddiod â siwgr gwyn, a phèr lysieuwch a synamwn.

Wedi gorphwys ar hyn, boed iddi lafurio drachefn gymaint ag y byddo modd; ac os na bydd yn llwyddianus gwnewch fygiad o *castor*, *opopanax*, *sulphur*, ac *assafoetida*, o bob un haner dram, gan eu malu yn fan-lwch, a'u gwlychu â sudd rhuw, fel na all y mwg ddyfod ond i'r bru, a dim y'mhellach.

Os na bydd hyn yn cael yr effaith ddymunol, yna mae y plastr canlynol idd ei gymhwyso:

Cymerwch o *galbanum* wns a hauer; *colocynthia* heb ronynau, dwy ddram; sudd llysiau'r fam a rhuw, o bob un haner wns; ychwanegwch saith wns o gŵyr gwenyn: ysigwch a thoddwch hwy ynghyd, gan eu taenu ar bygliain, i gyraedd o'r bogail i'r *os pubis*, gan daenu y llin hefyd, ar yr un amser gwneler oreth cyfleus o goed, gan ei gau mewn cwdyn sidan, a'i drochi mewn dyferwad llysiau'r galon, *savin*, *colocynthia*, gyda gronynau *stavc-scarc*, *hclleborc* du, o bob un dram; a brigyn bychan o rhuw. Ond os heb gael y llwyddiant dymunol oddiwrth y pethau hyn, a pherygl y fenyw o hyd yn ychwanegu, bydded i'r Llaw-feddyg ddefnyddio ei offerynau i ledu ac ehangu y groth; i ba ddyben rhaid gosod y fenyw mewn cadair, mal y gall droi ei chloren-wisg (*crupper*) gymaint oddi wrth ei gefn ag y fyddo gyfleus, a thynu ei choesau yr un modd i fynu mor *glos* ag y b'o d'chon, gan daenu ei morddwydydd cyn lleted ag y byddo modd; neu os bydd yn wan iawn, gall fod yn fwy cyfleus iddi gael ei gosod ar wely, a'i phen tu ag i wared, a'i ffolenau wedi eu codi, a'i dwy goes wedi eu tynu i fynu cymaint ag y byddo modd; yna gall y Llaw-feddyg gyda 'i * *speculum matricus*, neu ei * *apertory*, ledu y groth, a thynu allan y plentyn â'r hemysgar ynghyd, os bydd modd; wedi gwneuthur yr hyn rhaid golchi y groth yn dda, a'i heneinio, a'r fenyw ei dodi yn y gwely, a'i chysuro â pher-lysiau a *chordials*. Rhaid cymeryd y ffordd hon yn rhyddhad pob plant meirwon, yr un modd gyda phel y famog a

* Enwau rhai offerynau a arferir gan y Llaw-feddygon.

elwir *mole*, yr hemysgaroedd, a gau esgoriadau, y rhai na ddeuant o honynt eu hunain mewn amser. Os na wna yr offeryn rhag-grybwylledig ledu digon ar y groth, yna dylid defnyddio offerynau eraill, megis y *drake's bill*, a'r *long pincers.*

Os digwydd y bydd unrhyw enyniad, chwyddiad, neu waed ceuledig wedi ei gyfyngu yn y bru, o dan bilen y dymchweliadau hyn, naill ai cyn neu ar ol yr esgoriadau, lle yr ymddengys y sylwedd yn deneuach, yna, bydded i'r fydwraig â phin-gyllell, neu offeryn hacio, ei ffleimio, a gwasgu allan y llygriad, gan ei iachau â goreth wedi ei drochi mewn olew *rhoses* cochion.

Os, ar unrhyw amser, y dygwydd i'r plentyn, trwy oerfel neu ryw drais, fod wedi chwyddo mewn unrhyw ran, neu wedi cyfyngu sudd dyfrllyd, os bydd yn parhau yn fyw, rhaid defnyddio y cyfryw foddion ag ydynt fwyaf diniwaid i'r plentyn neu'r fam; ond os bydd yn farw, rhaid gollwng allan y sudd trwy haciad, i ryddhau yr esgoriad.

Os, fel y digwydd yn fynych, y bydd y plentyn yn dyfod a'i draed y'mlaenaf, a'r dwylaw yn ymledu oddiwrth y cluniau, ar y cyfryw achosion, rhaid i'r fydwraig fod wedi ymddarparu âg offerynau angenrheidiol i orllyfnu ac eneinio y baban â hwy, i'w gynnorthwyo i ddyfod allan, rhag iddo droi drachefn i'r groth, gan, ar yr un pryd, ddal breichiau y baban yn *glós* wrth y cluniau, fel y gallo ddyfod allan y dull hwn; ond os try allan yn rhy fawr, rhaid eneinio y groth yn dda. Rhaid i'r fenyw hefyd gymeryd powdr a wna iddi disian, i wneuthur

iddi ymdrechu; gall y rhai a fyddo yn gweini, araf-lochi ei bol, i beri i'r esgoriad ddisgyn, a'i gadw rhag myned yn ol.

Weithiau digwydd fod y plentyn yn dyfod a'i draed y'mlaenaf, a'i freichiau wedi eu hestyn uwchlaw ei ben; ond rhaid i'r fydwraig beidio a'i dderbyn felly, ond ei roddi yn ol yn y groth, oni bydd y mynedfeydd yn ehang anghyffredin, ac yna rhaid iddi eneinio y plentyn a'r groth; ac nid yw yn ddiogel ei dynu allan felly, yr hyn a raid ei wneuthur fel hyn: Rhaid gosod y fenyw ar ei chefn, ei phen wedi ei iselu, a'i ffolenau eu codi, ac yna rhaid i'r fyd-wraig â llaw esmwyth gyd-gynnwys bol y groth, trwy hyny i roddi pen y baban yn ei ôl, gan sylwi am droi wyneb y plentyn tu ag at gefn ei fam, a chodi i fynu ei gluniau a'i ffolenau tu ag at ei bogail, fel trwy hyny, y gall yr esgoriad fod yn fwy naturiol.

Os digwydd i blentyn ddyfod allan ag un troed, y fraich wedi ei hestyn ar hyd yr ochr, a'r troed wedi ei droi yn ôl, yna rhaid cymeryd y fenyw yn ddioed iddei gwely, a'i gosod yn yr ystum a ddisgrifiwyd uchod, ar ba amser, rhaid i'r fyd-wraig yn ofalus roddi y troed a ymddengys felly yn ei ôl, a'r fenyw ymsiglo o'r naill ochr i'r llall, hyd oni chenfydd fod y plentyn wedi ei droi, ond rhaid iddi beidio a newid yr ystum, na throi ar ei hwyneb; ar ôl yr hyn hi all ddisgwyl ei llafur, a rhaid iddi gael cynnorthwy mawr a *chordials*, i adnewyddu a chynnal ei hysprydoedd.

Ar amserau eraill, y mae'n digwydd fod y plentyn yn gorwedd yn groes yn y groth, ac yn syrthio ar ei ochr; yn yr amgylchiad hwn

rhaid peidio a chymmell y fenyw yn ei gwewyr, nac ychwaith ni all neb ddisgwyl yr esgoriad yn y fath ddull; gan hyny, rhaid i'r fyd-wraig, pan ei cenfydd felly, arfer diwydrwydd mawr i'w ddwyn yn ol iddei iawn ffurf, neu o leiaf i'r cyfryw ffurf yn y groth ag a wna y rhyddhad yn bosibl a hawsaf, trwy symud y ffolenau, a thywys y pen i'r fynedfa; ac os bydd yn aflwyddiannus yn hyn bydded i'r fenyw drachefn ymgais trwy ymsiglo yma a thraw, a disgwyl yn amyneddus hyd oni newidia ei ddull o orwedd.

Weithiau mae y plentyn yn prysuro yr esgoriad trwy estyn ei goesau a'i freichiau; yn yr hyn, megis yr amgylchiad blaenorol, rhaid i'r fenyw ymsiglo, (ond nid yn danbaid) hyd oni chenfydd y rhanau hyny yn syrthio i'w sefyllfaoedd priodol; neu gellir ei wneuthur trwy wasgiad araf y groth; ond os na lwydda y naill na'r llall o naddynt, rhaid i'r fyd-wraig *glosio* coesau y baban â'i llaw; ac os gall ddyfod hyd attynt rhaid iddi wneuthur y cyffelyb â'r breichiau, ac felly ei dynu allan; ond os gellir ei ddwyn o hono ei hun i ystum esgoriad naturiol y mae yn well.

Os bydd i'r baban ddyfod ymlaen gyda'i ddeulin ymlaenaf, a'r dwylaw yn crogi i lawr ar y cluniau, yna rhaid i'r fydwraig roddi y ddeulin i fynu hyd oni ymddengys y traed; a chan gymeryd gafael y'mha rai gyda'i llaw chwith, boed iddi gadw ei llaw dde' ar ochr y plentyn, ac yn yr ystum hwnw ymegnio i'w ddwyn allan. Ond oni all wneuthur hyn, yna rhaid i'r fenyw hefyd ymsiglo hyd nes byddo y plentyn mewn ystum mwy cyfleus er ei ryddhau. Weithiau digwydd fod y plentyn yn ymwasgu

y'mlaen gydag un llaw wedi ei hestyn ar ei gluniau, a'r llall wedi ei chodi tros ei ben, a'r traed wedi eu hestyn yn eu hyd yn y groth. Yn y cyfryw amgylchiad rhaid i'r fyd-wraig beidio a chynnyg derbyn y plentyn yn yr ystum hwnw, ond gosod y fenyw yn y gwely yn y dull rhag-grybwylledig, gan wneuthur gwasgiad araf ac esmwyth ar ei bol, i ddirgymell y plentyn i gilio yn ol; yr hyn os na wna, yna rhaid i'r fyd-wraig ei wthio yn ol wrth yr ysgwydd, a dyfod a'r fraich ag oedd wedi ei hestyn uwchlaw y pen i'w iawn sefyllfa; canys yn yr eithafoedd hyn mae mwyaf o berygl; a chau hyny rhaid i'r fyd-wraig eneinio ei dwylaw a chroth y fenyw ag ymenyn croyw, neu *pomatum* priodol, a gwthio ei llaw cyn agosed ag y gall at fraich y baban a dyfod ag ef i'r ochr. Ond os na ellir gwneuthur hyn, boed i'r fenyw gael ei dodi ar ei gwely i orphwys ychydig; ymha amser, hwyrach, y gellir dwyn y plentyn yn ol i well ystum, yr hyn, pan genfydd y fyd-wraig, rhaid iddi yn dyner dynu y breichiau yn *glos* at y cluniau, a'i dderbyn felly. Os bydd i faban ddyfod a'i ffolenau yn mlaenaf, ac agos yn ddyblyg, yna rhaid i'r fenyw eneinio ei llaw, a'i wthio i fynu, ac yn araf, codi i fynu y ffolenau i'r cefn, ymegnio i droi y pen i'r fynedfa, ond nid yn rhy fyrbwyll, rhag i enciliad y baban ei wneuthur yn waeth ei lun; a chan hyny, oni ellir ei droi â'r llaw, rhaid i'r fenyw ymsiglo ar y gwely, gan gymeryd y cyfryw bethau cysurus ag a ddichon gynnal ei hysprydoedd, hyd oni chenfydd y plentyn wedi troi.

Os bydd gwddf y plentyn yn blygedig, ac yntau yn dyfod ymlaen a'i ysgwyddau, fel y

gwna weithiau, a'r dwylaw a'r traed wedi eu hestyn i fynu, rhaid i'r fyd-wraig symud yr ysgwyddau yn araf, fel y gallo gyfeirio y pen i'r fynedfa; ac i'r dyben o effeithio hyny yn well, rhaid i'r fenyw ymsiglo, fel y rhag-ddywedwyd.

Rhaid sylwi ar y ffyrdd hyn a'r cyffelyb yn yr amgylchiad o fod efeilliaid, neu dri phlentyn ar unwaith, yr hyn sydd yn digwydd weithiau, o herwydd megis ag nad oes i enedigaeth unigol ond un ffurf naturiol, a llawer o rai annaturiol, gall fod felly, hyd yn nod mewn genedigaethau dyblyg neu driphlyg.

O herwydd pa ham, ymhob amgylchiad o'r fath, rhaid i'r fyd-wraig gymeryd gofal am dderbyn yr hwn a fo agosaf at y fynedfa yn gyntaf, ond heb ollwng y llall, rhag trwy encilio y gallai newid y ffurf; a phan enir un, rhaid iddi fod yn gyflym yn dyfod a'r llall allan. Ac mae yr esgoriad hwn, os bydd yn y ffordd naturiol, yn hawsach, o herwydd fod y plant yn gyffredin yn llai na'r rhai hyny o eiddo esgoriad unigol, ac felly gofynant fynedfa lai. Ond os bydd yr esgoriad hwn yn dyfod yn annaturiol y mae yn llawer mwy peryglus na'r llall. Yn ngenedigaeth efeilliaid, boed i'r fyd-wraig fod yn dra gofalus am i'r hemysgar gael ei ddwyn allan yn naturiol, rhag i'r groth, wedi cael ei rhyddhau o'i llwyth, syrthio, ac felly i'r hemysgar brahâu yno yn hwy nag y mae yn gyson â diogelwch y fenyw. Ond os digwydd i un o'r gefeilliaid ddyfod gyda'r pen, a'r llall gyda'r traed ymlaenaf, yna boed i'r fyd-wraig ryddhau yr esgoriad naturiol yn gyntaf; ac, os na all droi y llall, ei dynu allan yn yr ystum ag y mae yn

ymwasgu ymlaen; ond os hwnw a'i draed i lawr fydd ymlaenaf, gall rhyddhau hwnw yn gyntaf, gan droi y llall o'r neilldu. Ond yn yr amgylchiad hwn, rhaid i'r fydwraig edrych yn ofalus nad genedigaeth anghenfilaidd a fydd, megys yn lle dau efaill, corph a dau ben, neu ddau gorph unedig, yr hyn a all hi ei wybod yn fuan, os bydd y ddau ben yn dyfod ymlaenaf, trwy roddi ei llaw i fynu rhyngddynt, cyn uched ag y gall, ac yna, os cenfydd mai efeilliaid ydynt, hi a all yn araf roddi un o honynt o'r neilldu i wneud ffordd i'r llall, gan gymeryd yr hwn a fo wedi dyfod bellaf yn gyntaf, gan adael y llall yn y cyfryw fodd ag a wna newid ei sefyllfa. Ac, er diogelwch y plentyn arall, cyn gynted ag y daw allan o'r groth, rhaid i'r fyd-wraig rwymo llinyn y bogail, fel y cyfarwyddwyd o'r blaen, ac hefyd rhwymo gyda rhwymyn mawr a hir, y rhan hono o'r bogail sydd wedi ei sicrhau wrth yr hemysgar, fel y gallo ei gael allan yn hwylusach. Wedi geni yr ail faban, boed i'r fyd-wraig chwilio yn fanwl pa un ai oes yno ddau hemysgar; canys weithiau try allan y bydd, trwy fyrder y rhwymynau, yn encilio yn ol, er niwed i'r fenyw. O herwydd pa ham, rhag i'r groth gau, y ffordd fwyaf addas yw eu prysuro allan gyda phob cyflymder cyfleus, os bydd dau faban wedi eu huno ynghyd wrth y corph; mal weithiau y mae yn anghenfilaidd yn troi allan, yna, er y gall y pen ddyfod ymlaenaf, etto y mae yn addas, os bydd dichon, eu troi, a'u tynu allan gerfydd y traed, gan sylwi, pan ddeuant at y cluniau, i'w tynu allan cyn gynted ag y byddo modd. Ac yma dylid arfer gofal mawr yn eincinio a lledu y fynedfa. Ond gan

nad yw y fath enedigaethau a hyn ond yn anfynych yn digwydd, rhaid yw dywedyd llai am danynt, a chan hyny, dangosaf yn nesaf, pa fodd y dylai benywod ymdrefnu ar ol eu rhyddhad.

---

## Pen. 17.

### Pa fodd y dylid ymddwyn at Ferched yn planta ar ol eu rhyddhad.

OS bydd menyw wedi bod mewn llafur tra chaled, y mae yn angenrheidiol iddi gael ei hamwisgo mewn croen dafad, wedi ei gymeryd ymaith cyn iddi oeri, gan gymhwyso y tu cigog at ei lwynau, neu ei bol, neu, yn niffyg hyn, gellir cymhwyso croen ysgyfarnog neu wningen, wedi ei blingo cyn gynted ag ei lleddir, at yr un rhanau; ac wrth wneuthur felly, wedi i ymlediad gael ei wneud yn yr esgoriad, a'r gwáed clwyfus gael ei fwrw allan yn y rhanau hyn, parhewch gyda hyn am awr neu ddwy.

Wedi hyny boed i'r fenyw gael ei ffunenu â lliain teg, oddeutu chwarter llath o led, gan boethrwbio ei bol, cyn y ffunenir ef gyd ag olew *St. John's wort*; ar ol hyny, codwch i fynu y bru â lliain wedi ei blygu lawer o weithiau, yna, gyda gobenydd lliain neu hilyn, gorchuddiwch ei hystlysau, a gosodwch y ffunen ychydig uwchlaw y morddwydydd, gan ei amdroi yn lled anhyblyg, a chymhwyso hefyd ar yr un pryd, liain cyncs at ei didenau; na ddefnyddiwch yn ddioed y meddyginiaethau i gadw yn ol y llaeth, o herwydd fod y corph, ar y fath amser, allan o ansawdd neu ffurf;

canys nid oes yna na gwythien na rhydweli, nad yw yn curo yn rymus; a chan fod meddyginiaethau i yru yn ol y llaeth o natur toddi, a'mhriodol yw eu cymhwyso at y *brestiau*, yn ystod y fath afiechyd, rhag trwy hyny, y bydd i wlybyrau drygiog gael eu cyfyngu yn y brestiau. O herwydd pa ham, dylid caniatau deuddeng awr o leiaf er rhediad a sefydliad y gwaed, ac i'r hyn a fwriwyd ar yr ysgyfaint, trwy y cyffro tanbaid i encilio idd ei gronfeydd priodol.

Ryw amser ar ol rhyddhâd, gellwch wneuthur rhag-rwymiad (*Restrictive*) o felyn dau ŵy, a chwarter-peint o win gwyn, olew *St. John's wort*, olew *rhoses*, dail llyriaid, a *rose water*, o bob un wns; cymmysgwch hwy y'nghyd, plygwch liain, a chymhwyswch at y *brestiau*, ac esmwytheir poenau y rhanau hyny yn fawr.

Ni ddylai er dim gysgu yn ddïoed ar ol rhyddhad; ond o ddeutu pedair awr wedi hyny, gall gymeryd cawl, sucan, neu gyfryw luniaeth gwlyb ag sydd faethlon; ac os bydd yn dueddol i gysgu, gellir yn dra diogel ei ganiatau. A hyn yw cymaint ag a ddylid yn ddioed gael ei wneud mewn esgoriad naturiol.

Ond mewn cyflwr o enbydrwydd, neu esgoriad annaturiol, dylid sylwi ar y rheolau canlynol:

Yn y lle cyntaf, bydded i'r fenyw gadw at luniaeth tymherus, gan beidio er dim a gorlwytho ei hun ar ol y fath waghâd anghyffredin, a pheidio cael ei rheoli trwy roddi coel i fammaethod anfedrus, y rhai a'i cyngorant i ymborthi yn galonog, i'r dyben o adgyweirio y colliant gwaed yn well. O herwydd nid yw y rhan fwyaf o'r gwaed hwnw yn bur, ond y

cyfryw o hono a ddaliwyd yn y llestri neu'r pilionenau, gwell ei ochelyd, er iechyd y fenyw, na'i gadw, oni ddigwydd dylifiad gwaed annghyffredin. Canys os bydd ei maeth yn ormod gall ei gwneuthur yn ddarostyngedig i dwymyn, ac ychwanegu y llaeth yn ormodol; yr hwn pan geula sydd yn fynych iawn yn troi yn llynorod.

O herwydd pa ham, y mae'n ofynol, am y pum' niwrnod cyntaf yn enwedig, fod iddi yn gymedrol gymeryd cawl bara càn, ẁyau lled-ferwedig, glud-gawl (*gelly*) cywion, neu draed lloi, neu gawl barlys newydd, gan ychwanegu ychydig ar y swm bob dydd.

Ac os bydd yn bwriadu bod yn fammaeth iddei phlentyn, rhaid iddi gymeryd rhywbeth mwy na chyffredin i ychwanegu y llaeth yn raddol, yr hwn a raid beidio bod o ddim parhâd, ond cael ei dynu ymaith naill ai gan y plentyn neu ryw ffordd arall. Yn yr un modd yn y cyflwr hwn, sylwer am roddi iddi hâd *coriander*, neu ffenygl wedi eu berwi mewn cawl barlys; ond er dim ymattalied oddiwrth fwyd am yr amser pennodedig. Oni bydd unrhyw dwymyn yn ei blino, gall yfed swm bychan yn awr ac yn y man o win gwyn neu goch pur, megis hefyd cyflaith gwallt y forwyn, neu unrhyw gyflaith arall o gynneddf ból-rwymol, a'i gymeryd mewn ychydig ddwfr wedi ei ferwi yn dda.

Wedi i ofn twymyn neu gyfyngiad gwlybwr yn y *frest* fyned trosodd, gellir ei maethu yn fwy helaeth â chawl ieir, capwlltiaid, colomenod, cig dafad, lloi, &c. yr hyn a raid ei àttal hyd ar ol wyth niwrnod wedi rhyddhâd, y'mha

amser y bydd y groth, oni luddias rhyw ddamweiniau, wedi ymgarthu. Y pryd hyny, yn yr un modd, bydd yn gyfaddas rhoddi iddi fwydydd oerion, ond bydded hyny yn gynnil, fel y gallo ymgryfhau yn well felly. Ac yn ystod yr amser, bydded iddi orphwys yn rhydd oddiwrth aflonyddwch, a chysgu, yn y dydd os gall ei ochelyd.

Cymerwch hoccys y muriau, a *phelilloy*, dyrnaid, bloden *camomile*, a *melilot*, o bob un dyrnaid; hadau anis a ffenygl, o bob un dwy wns; berwch hwy mewn dyferwad pen dafad, a chymerwch o hwn dri chwart, gan ei doddi mewn mèl cyffredin, siwgr coch, ac ymenyn newydd, dwy wns; hidlwch ef yn dda, a gweinyddwch ef yn chwistrell-feddyginiaethol; ond os na iawnweithreda, cymerwch wns o *catholicon*.

---

## Pen. 18.

Pa fodd i fwrw allan y *Colic* o Fenywod mewn Esgoriad.

MAE y poenau hyn yn fynych yn trallodi cymmaint ar y fenyw â phoenau ei gwewyr, a chymerir y naill am y llall yn fynych gan yr anwybodus; ac weithiau digwydd y naill a'r llall ar yr un munudyn; yr hyn a achlysurir gan sylwedd anaeddfed, llymrig, a dyfrllyd a fo yn y cylla, yn cael ei gyfyngu trwy ddrwg dreuliad bwyd; a thra y mae y fath boenau yn parhau y mae gwewyr y fenyw yn cael ei luddias.

Gan hyny, i fwrw allan bangau y *colic*, cymmerwch ddwy wns o *oil of sweet almonds*, ac

wns o ddwfr synamwn, gyda thri neu bedwar dyferyn o *spirits of ginger*; yna boed i'r fenyw ei yfed i fynu.

Oni leiha hyn y boen, gwnewch chwistrell-feddyginiaeth o gamamil, llysiau'r gwenyn, *oil of olives*, a llefrith, gan ferwi y pethau a enwyd yn y llefrith. Gweinyddwch ef fel y mae yn arferol ar y cyfryw achosion. Ac wedi hyny ni bydd twymeneiniadau i chwalu gwynt yn feius.

Os bydd y boen yn dwyn allan gnöad yn y coluddion ar ol rhyddhad, yna cymerwch o wraidd glesyn y coed un dram, nutmeg, ynghyd a chnewyllyn afal *peatus*, o bob un dwy *scruple*, ysigwch hwy ynghyd, a rhoddwch i'r fenyw, fel y bo yn cael ei dodi i lawr, mewn dwy-neu dair llwyaid o win gwyn; ond os bydd yn grydawl, yna bydded yn yr un faint o gawl cynes.

Y

# PHYSYGWR TEULUAIDD,

SEF

MEDDYGINIAETHAU DEWISOL A CHYMERADWY I AMRYW ANHWYLDERAU DAMWEINIOL I GYRPH DYNOL.

---

### *Rhag y Parlys mud* (Apoplexy.)

CYMERWCH *man's skull prepared*, a mân-lwch gwreiddiau blodau'r brenin, (y rhai gwrryw o honynt) o bob un wns a haner, *contrayerva, bastard dittany*, llysiau yr ysgyfaint, *aedsary*, o bob un dwy ddram; cymysgwch a gwnewch hwy yn bowdr; ychwanegwch at hyny ddwy wns o *cnndied orange*, a philion lemon, pwywch y cwbl ynghyd nes y byddont fân-lwch, o'r hwn y gellwch gymeryd dram neu haner dram.

### *Powdwr rhag y Llesmeirglwyf*, (Epilepsy.)

Cymerwch o *opopanax, antimony* anaddfed, *dragon's blood, castor*, had llysiau'r brenin, o bob un swm cyfartal, gwnewch bowdr manwaidd; y dogn yw haner dram, mewn dwfr sirian duon. Cyn i chwi ei gymeryd rhaid i'r cylla gael ei glanhau yn dda gyda rhyw gyfoglyn cyfaddas, megis *Mynficht's emetic tartar*, o bedwar gronyn i chwech; os i blant, *salt of vitriol*, o *scruple* i haner dram.

*I Gur yn y Pen o hir barhad.*

Cymerwch o sudd *powdr*, neu ddwfr dyhidl-edig *hog-lice*, a pharhewch idd ei ddefnyddio.

*Rhag Poeri Gwaed.*

Cymerwch o gyd-gyflaith glesyn y coed a mwyar, o bob un wns a haner; cyd-gyflaith *rhoses* cochion, tair wns; *dragon's blood*, dram; rhywiau o esgidiau'r gog, dwy *scruple; coral* coch, dram; cymysgwch, a chyda cyflaith pabi coch gwnewch gyd-tewgymysg meddal. Cymerwch faint cneuen ffreinig nos a boreu.

*I'r Dolur Rhydd.* (Looseness.)

Cymerwch driagl *Fenis* a *dias cordium*, o bob un haner dram, mewn cwrw cynes neu ddyfr-gawl, neu yr hyn yr ydych yn hoffi oreu, wrth fyned i'r gwely.

*I Ddylifiad Gwaed.* (Bloody Flux.)

Yn gyntaf cymerwch ddram o *bowdr rhubarb*, mewn swm digonol o gyd-gyflaith *rhoses* cochion yn bur foreu; yna, yn y nos, cymerwch o *rhubarb* rhostiedig, haner dram; *diascordium*, dram a haner; *liquid laudanum cydomated*, *scruple*; cymysgwch a gwnewch belen.

*Enaint i'r Ymgrafu.* (Itch.)

Cymewrch *sulpher vive* yn fân-lwch, haner wns; *oil of tartar per deliquium*, swm digonol;

enaint rhoses, pedair wns; gwnewch eli; at yr hyn ychwanegwch scruple o *rhodium* i berarogli, a rhwbiwch y rhanau a flinir ag ef.

*I Enyniad yr Ysgyfaint.* (Inflamation of the Lungs.)

Cymerwch o ddwfr *charious*, deng wns; dwfr pabi coch, tair wns; cyffaith pabi, wns; *pearl prepared*, dram; gwnewch *julep;* a chymerwch chwe llonaid llwy bob pedair awr.

*Enaint i'r Eisglwyf.* (Pleurisy.)

Cymerwch olew crinlys à *sweet almonds*, o bob un wns, gyda chwyr ac ychydig saffrwm, gwnewch enaint, cyneswch ac eneiniwch y rhan a flinir ag ef.

*Rhag y Clafr rhedegog.* (Running Scab.)

Cymerwch ddau bwys o *dar*; corphorwch ef yn delpyn tew â lludw wedi ei ogrynu yn dda; berwch y talp mewn dwfr ffynon, gan ychwanegu dail eiddew, *horehound* gwyn, gwreiddiau *fumitory*, a thafod pigfain, o bob un pedwar dyrnaid; gwnewch enaint i'w ddefnyddio gyda gofal rhag cael anwyd.

*Rhag y Llyngyr mewn Plant.*

Cymerwch hâd llyngyr, haner dram; *flour of sulphur*, dram; *salt-prunel*, haner dram; cymysgwch a gwnewch *bowdr*. Rhoddwch gymaint ag a safai ar dair ceiniog ariau, nos a

boreu mewn triagl cyffredin, neu fêl; neu i bobl mewn oed, gellwch ychwanegu swm digonol o *aloe rosatum*, ac felly eu gwneuthur i fynu yn belen; gellir cymeryd tair neu bedair bob boreu.

### *Rhag Crydiau* (Fevers) *mewn Plant.*

Cymerwch *crab's eyes*, dram; *cream of tartar*, haner dram; siwgr *candy* gwyn wedi ei falu yn fân pwysau y ddau; cymysgwch y cwbl ynghyd yn dda, a rhoddwch gymaint ag a safai ar 3 ceiniog arian mewn llwyaid o ddwfr barlys.

### *Llwngc er cael noswaith esmwyth, pan fyddo'r Peswch yn danbaid.*

Cymerwch ddwfr gwenith îr-las, chwe wns, cyflaith *diascordium*, tair wns; cymerwch ddwy neu dair llwyaid wrth fyned i'r gwely bob nos, neu bob yn eilnos.

### *Cyflaith i'r Dyfr-glwyf* (Dropsy.)

Cymerwch o *rhubarb* goreu un dram, *gum lac prepared* dwy ddram, *zyloalocs*, synamwn, llysiau *longbrith*, haner wns o bob un; saffrwn goreu, haner *scruple*; gyda chyflaith *chychory rhubarb* gwnewch gydtew-gymysg. Cymerwch swm *nutmeg* neu gneuen ffreinig fechan, bob boreu, gan ymprydio.

### *Rhag y Dyfrglwyf Gwyntog.* (Tympany Dropsy.)

Cymerwch wreiddiau *chervil* a chelyn môr, haner wns o bob un; gwreiddiau celyn mair,

dwy wns; gwreiddiau glaswellt, tair wns; pil ifori, a charn yr hydd, dwy ddram a haner o bob un, had cacamwci, tri dram; berwchh wy mewn dau neu dri phwys o ddwfr ffynon. Tra byddo y gwlyb dyhidledig yn boeth, tywalltwch arno ddyrnaid o ddail berw'r dwfr wedi eu hysigo, gan ychwanegu peint o win *Rhenish*. Gwnewch lysieuwlyb *clòs* am ddwy awr, yna dyhidlwch y gwlyb allan drachefn, ac ychwanegwch ato dair wns o ddwfr *magistral*, a llyngyr y ddaear, ac wns a haner o gyflaith y *five opening root*. Gwnewch drwyth, a chymerwch o honi bedair wns ddwy waith yn y dydd.

*Rhag gwaedlif tufewnol.* (Inward bleeding.)

Cymerwch o ddail llyriaid, a danadl poethion, o bob un dri dyrnaid, ysigwch hwy yn dda, a thywelltwch arnynt chwe wns o ddwfr llyriad, wedi hyny gwnewch wasgiad allan cryf, ac yfwch y cwbl i fynu.

# Nodiadau Cyffredinol,

## TEILWNG O SYLW.

## PAN Y CAFFOCH

Ddyn coch yn ffyddlon,—dyn tál yn ddoeth,—dyn tew yn gyflym ar ei droed,—dyn teneu yn ffwl,—dyn prydweddol heb fod yn falch,—dyn tlawd heb fod yn gynfigenus,—dihiryn heb fod yn gelwyddwr,—dyn gonest heb fod yn rhy ëon a chalonnog, i'w golled ei hun,—yr hwn sydd yn llusgo geiriau wrth siarad heb fod yn gyfrwys a thwyllodrus,—yr hwn sydd yn amneidio â'i lygaid ar arall, heb fod yn ffals a hocedus,—morwr a dienyddwr yn dosturiol,—dyn tlawd yn adeiladu eglwysi,—crach-feddyg a chanddo gydwybod dda,—ceisbwl (*bailiff*) heb fod yn ddrygddyn anrhugarog,—tafarnwraig a beidia a rhoddi gormod yn eich cyfrif,—ac ocrwr yn elusengar,—

## YNA Y DYWEDWCH,

### EICH BOD WEDI CAEL RHYFEDDOD.

Dynion yn gwneuthur yn groes i rediad cyffredin natur.

# Y Fydwraig Brofiadol.

## YR ARWEINIAD I MEWN.

RHODDAIS yr enw o Fydwraig Brofiadol i'r llyfr hwn, o herwydd ei fod yn cael ei fwriadu yn benaf i'r rhai ag ydynt yn proffesu Byd-wreigiaeth, ac yn cynnwys pa beth bynag sydd yn angenrheidiol iddynt ei wybod er ymarfer hyny; ac hefyd o herwydd mai ffrwyth llawer o flyneddau o brofiad yw, a hyny yn yr amgylchiad mwyaf dyrys, ac y mae, gan hyny, yn fwy i ymddibynu arno.

Bydwreigiaeth sydd swydd o'r fwyaf rheidiol ac anrhydeddus, gan yn wir mai cynorthwywr natur yw; yr hyn gan hyny sydd yn gwneuthur yn angenrheidiol iddi fod yn iawn adnabod holl weithrediadau natur yn ngwaith cenhedliad, a'r offerynau gydá pha rai y mae hi yn gweithio; o herwydd y hi, yr hon nad yw yn gydnabyddus â gweithrediadau natur, na chyda pha offerynau y mae hi yn gweithio, a raid fod mewn diffyg gwybodaeth pa fodd i gynorthwyo yn hyny. A chan weled mai offerynau gweithrediad, mewn meibion a merched, ydynt y pethau hyn trwy ba rai y dygir allan ddynolryw, y mae yn dra angenrheidiol fod i bob Byd-wraig fod yn eithaf cydnabyddus â hwy, fel y gallont yn well ddeall eu gorchwyl, a chynorthwyo natur, fel y byddo achos yn gofyn.

Am hyny y peth cyntaf sydd yn angenrheidiol fel arweiniad i mewn i'r traethawd hwn, yw, desgrifiad difyniadol o amryw ranau cenhedliad mewn meibion a merched; ond gan i mi ymdrin yn helaeth â'r testynau hyn yn y rhan flaenarol o'r gwaith hwn, a chan fy mod yn dymuno gochelyd mynych adroddiad, ni ail-adroddaf yma unrhyw beth a draethwyd y pryd hyny, ond cyfeiriaf y darllenydd i'r fan hono, mal arweiuiad i mewn angenrheidiol i'r hyn a ddilyn. Ac er y byddaf dan angenrheidrwydd o lefaru yn eglur, fel y'm dealler, etto gwnaf gyda'r gwylder hyny, fel na bydd raid i neb wrido, oni bydd oddiwrth rywbeth ynddynt eu hunain, yn hytrach nag oddiwrth yr hyn a gant yma: a chennyf yr arwyddair breninol er fy amddiffyniad, "*Honi soit qui mal y pense.*" "Drwg i'r hwn a feddwl ddrwg."

# ARWEINYDD

I

# Fenywod yn Planta.

## YR AIL RAN.

### Pen. 3.

DOSP. 1. Am y groth.

YN y Bennod hon yr wyf i draethu am y Groth, yr hon a eilw y Lladingwyr *matrix*, (sef bru.) Ei rhanau ydynt ddwy; geneu y groth a'i gwaelod. Y safn friwdwll ar y mynediad i mewn iddi, yr hwn a ellir ei ledu a'i gau yngbyd fel pwrs; o herwydd, er ei fod yn y weithred o ymrëad yn ddigon mawr i dderbyn chwareniad y wialen, etto ar ol beichiogiad y mae mor gauedig fel na ollwng i mewn flaen puntr (*bodkin*) a trachefn yn amser rhyddhad y fenyw, y mae wedi agor i'r fath raddau annghyffredin, fel y mae y baban yn pasio trwyddo i'r byd; yn mha amser y mae y briwdwll (*orifice*) hwn yn diflanu yn hollol, ac ymddengys y groth heb fod ganddi ond un ceudod mawr o'i gwaelod i fynedfa y gwddf. Pan nad yw menyw yn feichiog y mae yn lled hirgul, ac o sylwedd yn dra thew a *chlòs*: ond pan y byddo yn feichiog, y mae wedi byrhau, ac y mae ei thewder yn lleihau yn gyfartal i'w harllediad: a chan hyny camgymeriad rhai

difynwyr yw, y rhai a haerant fod ei sylwedd yn tewychu ychydig cyn gwewyr y fenyw, o blegid y mae rheswm pob dyn yn hyspysu iddo mai po mwyaf yr arleda, y rhaid iddi fod yn deneuach; a pho agosaf y bo menyw i amser ei rhyddhad, lleiaf yn y byd raid i'w chroth fod wedi ei lledu. Mewn perthynas i'r weithred trwy yr hon y mae y briwdwll mewnol hwn o eiddo y groth yn cael ei agor a'i gau, naturiol hollol yw; o herwydd pe amgen, ni byddai cymmaint o fastardiaid yn cael eu cenhedlu ag sydd; ac ni fyddai gan lawer o wragedd priod gymaint o blant. Pe byddai yn eu gallu eu hunain hwy a rwystrent feichiogiad, er y byddent yn ddigon ewyllysgar i arfer ymread; canys y mae natur wedi rhoddi rhywbeth mor foddhaol i gydfyned â'r weithred hòno, fel y maent yn ewyllysgar i foddhau eu hunain â'r arferiad o honi, er yr holl boenau y maent wedi hyny yn ei dioddef, a'r perygl bywyd sydd yn fynych yn eu dilyn. Ac y mae hyn yn dyfod o gwmpas, nid yn gymaint oddiwrth chwant afreolus yn y menywod, ag yw o fod Awdwr mawr Natur, er amlhâd a lliosogiad dynolryw, ac hyd yn nod pob rhyw arall yn y byd elfenol, wedi gosod y fath rinwedd tyniadol yn y groth, fel y mae yn tynu yr hâd iddi, fel y gwna yr ehedfaen â'r haiarn.

Mae awdwr natur wedi gosod y groth yn y bol, fel y gall y gwres bob amser gael ei gadw, trwy gynhesrwydd y rhanau a'i cylchynant; felly y mae yn anneddu yn nghanol yr *hypogastrium*, neu y rhan isaf o'r bol, rhwng y bledren a'r coluddyn de, (*rectum*) gan y rhai hefyd y mae yn cael ei hamddiffyn rhag unrhyw niwaid trwy galedrwydd yr esgyrn; ac y mae wedi ei gosod

yn y rhan isaf o'i bol, er cyfleustra ymrëad, ac er mwyn i esgoriad gael ei wthio allan yn ei gyflawn dymp.

Ei ffurf sydd agos yn grwn, gan dueddu rhyw faint at hirgul, mewn rhai yn debyg i erllygen, o herwydd gan eu bod yn llydan yn y gwaelod, y mae yn raddol yn terfynu ymlaen y briwdwll, yr hwn sydd gul.

Y mae hyd, lled, a thewdwr y groth yn gwahaniaethu, yn ol oedran a threfniad y corph. Canys mewn gwyryfon heb fod mewn addfedrwydd oedran, y mae yn dra bechan yn ei holl faintioli; ond mewn benywod a'u mistrych yn llifo yn helaeth, a'r cyfryw ag sydd yn mynych arfer ymrëad, y mae yn llawer mwy; ac os bydd plant wedi bod ganddynt, y mae yn fwy ynddynt hwy nag yn y sawl na bu iddynt blant; ond mewn benywod o faintioli â ffurf go dda, y mae, fel y dywedais o'r blaen, o fynedfa i mewn y dirgeloedd i waelod y groth, yn gyffredin o ddeutu wyth modfedd, ond nid yw hyd y groth yn unig uwchlaw tair; y lled sydd yn agos yr un faint, ac o ddeutu tewdwr bys bach pan nad yw y fenyw yn feichïog; ond pan y byddo yn feichiog y mae yn dyfod i faintioli aruthrol, a pho agosaf y byddo i'w rhyddhad, mwyaf yn y byd y mae y groth yn amledu.

Nid heb achos y mae Natur, neu, yn hytrach Awdwr Natur, wedi gwneuthur y groth o sylwedd pilenog; canys trwy hyny y mae yn agor yn haws i feichiogi, y mae yn raddol yn cael ei hamledu drwy dyfiant yr anelwig ddefnydd, neu yr un ieuangc, ac y mae wedi hyny yn ymgyfyngu ac yn cau drachefn, i'w wthio ef a'r hemysgar allan, ac yna i ddychwelyd i'w hystad

gyntefig. Trwy hyn hefyd y galluogir hi i fwrw allan unrhyw wlybyrau afiach, y rhai weithiau a allant ddigwydd gael eu cynnwys o'i mewn.

Cyn y darfyddwyf â'r groth, yr hon yw maes cenhedliad, ac a ddylai gan hyny gael cymeryd gofal mwy neillduol yn ei chylch; (o herwydd, megis nas gall hâd planhigion ddwyn allan unrhyw blanhigion na tharddiad, oni heuir hwynt mewn tir cyfaddas i ddeffroi a chynhyrfu eu rhinwedd tyfol, felly yr un modd hâd dyn, er y bydd yn alluogawl yn cynwys ynddo holl ranau plentyn, ni ddygai allan effaith mor ryfeddol byth, oni bai iddo gael ei fwrw i faes ffrwythlon y groth;) âf ymlaen i roddi disgryfiad mwy neillduol o'i rhanau, a'r defnydd i'r hwn y mae natur wedi eu bwriadu.

Y mae y groth yn gyfansoddedig o amrywiol ranau un-sut, hyny yw, o bilionenau, gwythi, rhydweliau, a gewynau. Ei philionenau ydynt ddwy, a chyfansoddant brif ranau ei chorph; yr un fwyaf allanol sydd yn cyfodi o'r weren fol, ac y mae yn dra theneu, oddiallan yn llefn, ond oddifewn yn gyfartal, fel y gallo ymlynu yn well wrth y groth, gan ei fod yn fwy cigog, ac yn dewach nag un peth arall a gyfarfyddwn ag ef o fewn y groth, pan na bo y fenyw yn feichiog, ac y mae wedi ei chyd wau gydâ pob math o fân ewynau, fel y gallo yn well oddef ymlediad y plentyn, a'r dyfroedd a achlysurir yn ystad y beichiogiad, ac hefyd fel y gallo gau drachefn yn haws ar ol yr esgoriad.

Y gwythienau a'r rhedweliau a ddeilliant o'i llestr hypogastraidd a hadawl, am yr hyn ar fyr y caf draethu; y mae yr holl rai hyn wedi eu dodi i mewn, ac yn terfynu yn mhilionen briodol

y groth. Y mae y rhedwelian yn eu diwallu â lluniaeth er maeth, yr hyn gan gael ei ddwyn yn nghyd mewn swm gormodol, sydd yn chwysu trwy ei sylwedd, ac fel pe byddai yn distillio gwlith i waelod y ceudod; oddiwrth yr hyn y deillia y mislifiadau mewn gwyryfon aeddfed, a'r gwaed sydd yn maethu yr anelwig ddefnydd mewn benywod yn planta. Y mae y ceingciau sydd yn tarddu o'i llestri hadol wedi eu trefnu yn mhob tu i waelod y groth, ac yn llawer llai na'r rhai hyny sydd yn deilliaw o'r *hypogastrics*, y rhai hyny ydynt yn fwy, ac yn gwlitho ei holl sylwedd. Y mae yno eto rai llestri mân, pa rai, gan gyfodi y naill o'r llall, ydynt yn cael eu harwain i'r briwdwll tufewnol, a thrwyddynt hwy y mae y rhai a fyddo yn feichiog yn carthu ymaith y gormodedd o'u mislifiant, os dygwydd fod ganddynt fwy nag a fyddo yn angenrheidiol er maethu y baban; trwy ba foddion y mae natur wedi gofalu am y groth, fel, yn ystod y beichiogiad, na fydd gorfod arni ymagor i ymarllwys ymaith y gwlybyrau ysgarthlyd hyny, yr hyn pe treisid hi i'w wneuthur, a allai yn fynych fod dan berygl o erthyliad.

Am y gewynau, y maent yn deilliaw o'r ymmenydd, y rhai sydd yn diwallu holl ranau tufewnol y bol isaf â hwy, yr hyn yw y gwir achos fod ganddi gymaint o gyd-ymdeimlad â'r cylla, yr hwn sydd yn yr un modd yn cael ei ddiwallu i raddau mawr o'r un man; fel na all y groth fod yn cael eu blino âg unrhyw boen nad yw y cylla yn ddioed yn deimladwy o hyny, yr hyn yw'r achos o'r 'lariadau, neu gyfogiadau mynych sydd yn digwydd iddo.

Ond, heblaw yr holl ranau hyn sydd yn

cyfansoddi y groth, y mae iddi etto bedwar o rwymynau, swydd pa rai yw ei chadw yn ddiysgog yn ei lle, ac atal ei chyffro gwastadol, trwy ysgogiad parhaus y coluddion sydd yn ei hamgylchynu; dwy o ba rai ydynt uwchlaw, a dwy islaw. Y rhai hyny uwchlaw a elwir y rhwymynau llydain, o herwydd eu llun llydan a philionirog, ac nid y'nt ddim arall ond cynnyrchiad y weren fol, yr hon gan dyfu allan o ochr y lwynau, tu a'r arrenau, sydd yn dyfod idd ei dodi i mewn yn ochr gwaelod y groth, i attal i'r corph ymgynnal gormod ar y gwddf, ac felly rhag dyoddef tafliad pendramwnwgl, fel y digwydd weithiau, pan fyddo y rhwymynau wedi llaccau gormod; ac y mae hefyd yn cynnwys y caill, (*testicle*) â'r un modd hefyd y mae yn arwain y gwahanol lestri yn ddiogel, megis y rhai saethawl i'r groth. Y rhai isaf a elwir rhwymynau crynion, gan gymeryd eu gwreiddyn o ochr y groth yn agos i'r corn, o ba le y maent yn passio y weryd, ynghyd a chynnyrchiad y weren fol, yr hon sydd yn cyd-fyned a hwy trwy fodrwyau a thyllau gewynau gwyrog a chroesion y bol, trwy yr hyn y maent yn ymranu i lawer o geingciau bychain, tebyg i droed gŵydd, o'r hyn y mae rhai wedi eu dodi i mewn yn yr *os pubis*, ac y mae y gweddill yngholl a chymysgedig a'r pilionenau sydd yn gorchuddio rhanau uchaf a thufewnol y morddwydydd. Mae y ddau rwymyn hyn yn hir, yn grwn, a gewynol, ac yn lled fawr yn ei decrheuad yn agos i'r bru, yn genol yn eu cyfodiad, ac oll ymlaen i'r *os pubis*, lle y maent yn ychydig yn llai ac yn dyfod yn wastad i'r dyben o fyned yn well i mewn yn y dull rhag-grybwylledig.

Trwyddynt hwy y mae y groth yn cael ei hattal rhag codi yn rhy uchel. Yn awr, er fod y groth yn cael ei dal yn ei sefyllfa naturiol trwy offeryniaeth y pedwar rhwymyn hyn, etto y mae ganddi ddigon o ryddid i ymehangu pan yn feichiog, o herwydd eu bod yn dra rhydd, ac felly y maent yn rhwydd yn ildio idd ei harlediad. Ond, heblaw y rhwymynau hyn, y rhai ydynt yn cadw y groth fel pe byddai mewn cyd-bwys, etto y mae wedi ei sicrhau er mwy o ddiogelwch, wrth ei gwddf, yn y bledren a'r coludd de, rhwng pa rai y mae ei sefyllfa. Oddi yma 'y mae'n dyfod, os bydd y groth ar unrhyw amser wedi enyn, y bydd yn cyfrannu yr enyniad i'r rhanau cym'dogol.

Ei defnydd, neu weithred briodol, y'ngwaith cenhedliad, yw derbyn a chadw yr hâd, a thynu o hono allu a gweithrediad trwy ei wres er cenhedliad y baban; ac y mae gan hyny yn angenrheidiol anhepgorol er cadwraeth y rhyw. Ymddengys hefyd trwy ddamwain i dderbyn a bwrw allan amhuredd yr holl gorph, megis pan y mae mewn menyw helaethrwydd o wynred (*whites*;) ac i garthu ymaith o amser i amser, y gormodedd o'r gwaed, megis pan y mae benyw heb fod yn feichiog.

## Dosp. II.

Am y Gwahaniaeth rhwng yr hen feddygon â'r rhai diweddar, mewn perthynas i'r Fenyw yn cyfranu had er ffurfiad y plentyn.

MAE ein Difynwyr a'n Meddygon diweddar o wahanol farnau i'r hen, mewn perthynas i'r fenyw yn cyfranu hâd er ffurfiad y plentyn, yn gystal a'r dyn; haera yr hen Feddygon hyny yn gadarn, ond y mae ein Hawdwyr diweddar yn gyffredin o dyb arall. Ni wnaf fi fy hun yn blaid yn y ddadl hon, ond rhoddaf i lawr yn anmhleidgar, eto, ar fyr eiriau, y rhesymau o'r ddau du, gan adael y darllenydd cyfarwydd i farnu drosto ei hun.

Er ei bod yn amlwg medd yr henafiaid, mai had y dyn yw y prif effeithydd a dechreuad gweithrediad, ysgogiad, a chenhedliad, eto, fod y fenyw yn rhoddi had, ac yn cyfranu er eppiliad y plentyn, sydd yn eglur oddiwrth hyn, sef fod gan y fenyw lestri hadawl, y rhai a fuasent wedi eu rhoddi iddi yn ofer, pe buasai yn niffyg o arloesiad hadol; ond gan nad yw natur yn llunio dim yn ofer, rhaid caniatau eu bod wedi eu gwneud er gwneuthur defnydd o'r hâd a chenhedliad; a'u sefydlu yn eu lleoedd priodol i weithredu a chyfranu rhinwedd ac effaïth i'r hâd; a phrofir hyn y'mhellach, meddant, oddiwrth hyn, sef os na bydd i fenywod mewn oedran aeddfedrwydd arfer ymrëad i fwrw allan eu had, y maent yn fynych yn syrthio i glefydau dieithr, fel yr ymddengys oddiwrth ferched ieuaingc a gwyryfon; ac hefyd y mae'n ymddangos, nad yw benywod un amser yn cael eu boddio yn

well na phan eu mynych foddheir y ffordd hon, yr hyn sydd yn dadleu, fod y pleser a'r hyfrydwch meddant, yn ddyblig mewn merched wrth yr hyn yw mewn meibion; o herwydd, gan fod hyfrydwch dynion mewn ymrëad yn gynnwysedig yn benaf yn anfoniad allan yr hâd, felly y mae merched yn ymhyfrydu yn anfoniad allan eu heiddo eu hunain a derbyniad eiddo y mab.

Ond yn erbyn hyn oll, haera ein Hawdwyr diweddar, fod yr henafiaid yn dra chyfeiliornus, yn gymmaint nad yw y caill mewn benywod yn rhoddi had, ond dau ŵy ydynt, cyffelyb i eiddo ehediaid a chreaduriaid eraill; nac ychwaith nid oes iddynt y cyfryw swyddau ag mewn dynion, ond mewn gwirionedd, llestri ŵyau, neu fath o dderbynle i ŵyau ydynt, y'mha le y maethir yr wyau hyn gan y llestri gwaedlyd wedi eu gwasgaru trwyddynt; ac oddi yno y mae un neu ychwaneg, fel eu ffrwythlonir hwy gan hâd y mab, yn cael ei drosglwyddo i'r groth gan yr *ovaducts*. Ac y mae y gwirionedd o hyn, meddant, mor eglur, fel os bydd i chwi eu berwi, bydd yr un blâs, lliw, a thew iddynt, a blâs wyau adar. Ac os gwrthddadleuir nad oes ganddynt blisgyn, y mae yr ateb yn hawdd: o herwydd nad oes gan wyau ehediaid, tra y maent yn llestr yr wyau, ddim plisg, nac, ychwaith wedi iddynt syrthio i'r bru; ac er bod ganddynt un wedi ei dodwer, etto nid yw ddim mwy na diogelfa o baratoad natur iddynt yn erbyn niweidiau allanol, gan eu bod yn cael eu dëori tu allan i'r corph; ond y rhai hyny o eiddo benyw yn cael eu dëori tu fewn i'r cerph, nid oes angen arnynt am unrhyw ddiogelfa arall heblaw y groth i'w diogelu.

Dywedant y'mhellach, fod y'nghenedliad yr anelwig ddefnydd, neu y rhai ieuaingc, ddwy egwyddor, *gweithredol* a *goddefol*; y *weithredol* yw hâd y mab wedi ei gywreinio yn y caill, allan o'r gwaed rhedweliawl a'r ysprydoedd anifeilaidd; yr egwyddor *oddefol* yw yr *ovium*, neu ŵy, wedi ei lawn-dymheru gan hâd y mab: o herwydd, dywedyd fod gan y fenyw wir had sydd gyfeiliornus. Ond dull beichiogiad sydd fel hyn: mae y rhan fwyaf poeth o had y mab, yn y weithred o ymread, gan gyraedd i fynu i gaill y fenyw, (y rhai sydd yn cynnwys amryw wyau, weithiau mwy, weithiau llai,) yn beichiogi un o honynt, yr hwn, wedi ei drosglwyddo gan *oxaducts* i waelod y groth, yn ddioed sydd yn dechreu ymchwyddo fwy fwy, ac yn yfed yn y gwlybwr a yrir yno yn ehelaeth, yn ol yr un dull ac y gwna hadau yn y ddaear sugno i mewn y gwlybwr ffrwythlawn o honi i beri iddynt egino.

Ond, er hyn oll a ddywedir yma gan ein difynwyr diweddar, y mae rhai o ysgrifenwyr yr oes bresenol o'r un farn a'r hynafiaid, sef, fod gan y fenyw, ac y bydd yn bwrw allan hâd yn y weithred o ymrëad; ac hyd yn nod mae benywod eu hunain yn ei farnu yn beth salw o dybied mai goddefol yn unig ydynt yn y weithred hono, ymha un y gwnant y fath ymegniad grymus, a haerant yn bendant eu bod yn deimladwy o fwriad allan yr had yn y weithred hono, a bod rhan fawr o'r hyfrydwch a gymerant ynddi, yn gynwysedig yn hyny. Gan hyny, nid âf fi oddeutu cymeryd ymaith ddim o'u happusrwydd oddiwrthynt, ond gadawaf hwynt yn y meddiant o'u dedwyddwch dych'mygol.

Wedi gosod o honwyf fel hyn, sylfaen i'r gwaith hwn, âf ymlaen yn awr i draethu am feichiogiad, ac am y pethau hyny ag ydynt angenrheidiol i sylwi arnynt gan fenywod, o amser eu beichiogiad hyd amser eu rhyddhad.

---

## Pen. 2.

*Am Feichiogiad; pa beth yw; pa fodd y mae Benywod i drefnu eu hunain ar ol Beichiogiad.*

### Dosp. I

Pa beth yw Beichiogiad, a'r Cymhwysder gofynol i hyny.

NID yw beichiogiad ddim arall ond gweithred o eiddo y groth, gan yr hon y derbynir ac y cedwir yr had eppilgar, fel y galler cenhedlu a llunio maban o hono. Mae dau fath o feichiogiad: y naill yn ol natur, yr hon a ddilynir gan genedliad y plentyn yn y groth; y llall yn ffugiol, ac yn hollol yn erbyn natur, yn yr hwn y mae'r had yn cyfnewid i ddwfr, ac nid yw yn dwyn allan ond yn unig feichiogiadau ffugiol, yr hyn a elwir y *moles*, neu sylweddau dieithr eraill. Yn awr, y mae tri pheth, yn bennaf, yn angenrheidiol er gwir feichiogiad, fel ag y b'o i genedliad ddilyn, sef amrywiaeth ystlen, cyd-gyfarfod a bwriad allan had. Heb amrywiaeth ystlen, nis gall fod beichiogiad; o herwydd er y myn rhai mai anifail yw benyw a all epilio o honi ei hun, camgymeriad mawr yw; ni all fod beichiogiad heb ddyn i ymarllwys ei had idd ei chroth. Nid yw yr hyn a haerant am iar yn dodwy heb i geiliog ei sathru, ddim yn y byd

i'r pwrpas; canys ni wna yr wyau hyny, pe'u dodid dan iar, byth ddyfod yn gywion, o herwydd ni dderbyniasant erioed unrhyw rinwedd eppiliog oddiwrth y gwrryw, yr hyn sydd hollol angenrheidiol i'r dyben hwn, ag sydd ddigonol i'n hargyhoeddi fod amrywiaeth ystlen yn angenrheidiol i'r anifeiliaid hyny, yn gystal ac er cenhedliad dyn. Ond ni wna amrywiaeth ystlen yn unig, er ei fod yn angenrheidiol i feichiogiad; rhaid cyd-gyfarfod o'r rhywiau gwahanol hyny; canys ni wnai amrywiaeth ystlen ond ychydig les, pe na byddai i ymrëad ddilyn. Addefaf ddarfod i mi glywed am rai benywod ystrywgar, y rhai, i guddio eu pechod a'u cywilydd, a ymdrechent i ddarbwyllo rhai pobl wledig, na chyffyrddwyd â hwy erioed gan ddyn i beri iddynt feichiogi; a darfod i un yn neillduol, gymeryd arni feichiogi trwy fyned i ymolchfa (*bath*) lle yr ymolchasai dyn ychydig cyn hyny, a threulio ei had ynddo, yr hwn a dynwyd ac a sugnwyd idd ei chroth, fel yr ymhonai. Ond nid yw y fath chwedlau a'r rhai hyn ond yn unig i'r rhai hyny na wyddant well pethau. Yn awr fel y byddo gorfod ar y rhywiau gwahanol hyn ddyfod i ymgyffyrddiad, yr hyn a alwn ni ymread, neu ymgydiad, heblaw y chwant naturiol o genhedlu eu cyffelyb, yr hyn sydd yn cymhell meibion a merched iddo, mae y rhanau a bennodwyd er cenhedliad wedi eu cynysgaeddu gan natur ag ysfa hyfryd o'r ddeutu, yr hyn sydd yn magu ynddynt chwant i'r weithred; heb yr hyn, nid hawdd iawn a fyddai gan ddyn, wedi ei eni er myfyrio ar ddirgeledigaethau dwyfol, ymuno, mewn ffordd o ymgydiad â menyw, wrth olygu aflendid y rhan a'r weithred.

Ac, o'r tu arall, pe na byddai i fenywad ond meddwl am y poenau a'r anghyfleusterau hyny, i'r rhai y maent yn ddarostyngedig oddiwrth eu boliau mawrion, a'r peryglon hyny o'u heinioes eu hun, heblaw y poenau anocheladwy sydd yn dilyn eu hesgoriad, rhesymol yw credu y dychrynid hwy rhagddi. Ond nid yw yr un o'r rhywiau yn myfyrio ar y pethau hyn hyd oni byddo y weithred trosodd, heb ystyried dim y'mlaen llaw ond y pleser o fwynhad; fel ag mai oddiwrth yr ysfa gnawdol-foddus hon y mae natur yn gyru y ddau ryw i'r cyd-gyfarfod hwn. Ar yr hyn y mae y trydydd peth yn dilyn o ganlyniad, sef bwriad allan yr had i'r groth yn y weithred o ymread, o herwydd wedi i'r fenyw dderbyn yr had eppilgar hwn i'w chroth, a'i ddal yno, y mae y groth ar hyny yn iselu, ac yn cofleidio yr had mor *glos*, fel wedi ei chau, ni all blaen nodwydd fyned i mewn iddi heb drais. Ac yn awr gellir dywedyd fod y fenyw wedi beichiogi, gan ei bod wedi dwyn yn ol trwy ei gwres oddiwrth allu i weithrediad yr amrywiol swydd-gyneddfau, a gynwysir yn yr had, gan wneuthur defnydd o'r ysprydoedd, o'r hwn y mae yr had yn meddu helaethrwydd, a'r rhai ydynt yr offerynau sydd yn dechreu olrhain yr holl ranau, a'r rhai wedi hyny, trwy wneuthur defnydd o'r gwaed misawl sydd ynddynt, sydd yn rhoddi iddo mewn amser dyfiant a pherffeithiad terfynol. A chaiff fod yn ddigonol i egluro pa beth yw beichiogiad. Yn awr âf ymlaen i ddangos.

## Dosp. II.

### Pa fodd y dylai Benyw drefnu ei hun ar ol Beichogiad.

GAN mai byrdra yw fy mwriad yn y traethawd hwn, rhoddaf ger bron ychydig o'r hyn a ddywed y dysgedig am yr achosion o efeilliaid, a pha un a oes y fath a'r hyn a elwir *superfoetations*, neu ail-feichiogiad mewn menyw, (yr hyn sydd eto yn ddigon cyffredin) pan ddeuaf i ddangos i chwi pa fodd y dylai y fyd-wraig fyned y'mlaen yn rhyddhad y benywod hyny ag ydynt yn feichiog o honynt. Ond, gan fy mod eisioes wedi traethu am feichiogiad, tybiaf mai angenrheidiol yn awr yw dangos pa fodd y dylai y cyfryw ag ydynt wedi beichiogi drefnu eu hunain yn ystod eu beichiogiad; fel y gallont ochelyd yr anghyfleusterau hyny, ag ydynt yn peryglu bywyd y plentyn, ac yn fynych yr eiddo eu hunain.

Dylid edrych ar y fenyw yn ystod yr amser y bydd yn feichiog, fel yn anhwylus neu glaf, er yn meddu iechyd da; canys planta sydd fath o un-mis o glefyd, gan eu bod yr holl amser hyny mewn disgwyliad o lawer o anghyfleusterau, y rhai y mae y fath gyflwr yn arfer eu bachlysuro i'r rhai hyny ag nad ydynt yn cael eu hiawn lywodraethu yn ystod yr amser hwnw; a chan hyny dylid ymdebygu i long-lywydd (*Pilot*) da, yr hwn pan yn hwylio ar for garw, a llawn o greigiau, sydd yn gochel y perygl, os bydd yn llywio gyda challineb; ond os na bydd, mil i un na bydd iddo ddioddef llong-ddrylliad Yn y cyffelyb fodd, y mae benyw feichiog yn fynych mewn perygl o erthylu a cholli ei bywyd

oni bydd yn dra gofalus i ragflaenu y damweiniau hyny, i ba rai y mae yn ddarostyngedig holl amser ei beichiogiad; trwy y cyfan o ba amser, rhaid idd ei gofal fod yn ddyblyg, yn gyntaf, o honi ei hun, ac yn ail, o'r plentyn y mae yn eiddwyn; o herwydd os amgen, gall amryfusedd *unigol* ddwyn allan ddrwg *dyblyg*; canys, os derbyn hi unrhyw niwaid, mae'r plentyn hefyd yn dioddef gyda hi. Gan hyny, boed i fenyw ar ol beichiogiad ofalu am gymeryd lluniaeth da, cyfaddas idd ei thymheredd, arferiad, sefyllfa, ac ansawdd: ac os gall, boed i'r awyr lle y trig yn gyffredin fod yn glir ac o ardymer da, yn rhydd oddiwrth eithafoedd gwres ac oerni; o herwydd, os bydd yn rhy frwd, y mae yn gwasgaru yr ysprydoedd yn ormodol, ac yn achos o lawer o wendidau; os bydd yn rhy oer a niwliog, gall ddwyn y dyferwst (*Rheum*,) a dystilliadau i lawr ar yr ysgyfaint, ac felly peri iddi besychu, yr hwn trwy, ei ysgogiad egniol, gan dreisio tu ag i lawr, a all wneuthur iddi erthylu. Dylai hefyd ochelyd pob drygsawr, a' ffieidd-beth; o herwydd weithiau gall arogl canwyll heb ei hiawn ddiffodd, beri iddi ddyfod cyn ei hamser; ac y mae yn wybyddus i mi ddarfod i arogl glo golosgedig fod yn achos o'r un peth. Gocheled hefyd rhag arogli rhuw, mintys, brymlys, brwmstan, &c.

Ond, o barth eu lluniaeth, y mae ar fenywod beichiog, yn gyffredin gymmaint o alariadau, a chymmaint o flysiadau, fel y mae yn dra anhawdd pennodi ymborth cywir iddynt. Hyn yn unig wyf yn ei dybied yn gynghorol: gallant arfer y bwydydd a'r diodydd hyny ag ydynt iddynt yn fwyaf dymunol, er fe allai heb

fod ynddynt eu hunain mor iachus a rhai eraill, ac efallai, heb fod mor foddhaol; ond rhaid defnyddio y rhyddid hwn gyda gocheliad na fyddo y peth a flysia hi felly ynddo ei hun yn afiachus ; ac hefyd fod iddi y'mhob peth ofalu am beidio a chymeryd gormod. Ond os bydd menyw feichiog yn canfod ei hun yn cael ei blino gan y fath flysiadau ag y crybwyllasom am danynt, boed iddi gymeryd lluniaeth syml neu gyffredin, ac yn y cyfryw swm ag a ddichon fod yn ddigonol iddi hi a'r plentyn, yr hyn y gall ei hawydd i raddau mawr el iawn-drefnu; canys y mae yr un mor niweidiol iddi ymprydio a bwyta gormod; a chan hyny, bydded iddi yn hytrach fwyta ychydig a hyny yn fynych: yn enwedig gocheled fwyta gormod y nos; o herwydd fod y cylla wedi ei lenwi yn ormodol yn gwasgu y *diaphgrams*, a thrwy hyny yn peri anhawstra i anadlu. Bydded idd ei bwyd fod yn hawdd ei dreulio, megis y rhanau tyneraf o *beef*, *mutton*, *veal*, ieir, capwlltiaid, colomenod, a phetris, naill ai wedi eu berwi neu eu rhostio, fel yr hoffo hi hwy oreu; wyau newydd eu dodwy hefyd ydynt yn dda iawn iddi; a rhodded yn ei chawl y llysiau ag a f'o yn ei buro, megis suran, galaeth, ysgall y meirch, &c.; canys hwy a garthant ac a burant y gwaed. Gocheled pa beth bynnag a boeth-dymherwyd. yn enwedig pasteiod, a bwydydd crasedig, pa rai, gan eu bod o dreuliad brwd, ydynt yn gorlwytho y cylla. Os chwennycha bysgod, boed iddynt fod yn groyw, ac y cyfryw ag a gymerir o afonydd a ffrydiau rhedegog. Bydded iddi fwyta y fynyglog, neu gyflaith aerog (*marmalade*) i gryfhau y plentyn; i ba ddyben y mae

*sweet almonds*, mêl, afalau melys, a grawnwin aeddfed hefyd yn dda. Ymgadwed oddiwrth bob peth sur, chwerw, a hallt; a phob peth sydd a thueddiad ynddo i gyffroi y misglwyf;—megis garlleg, mwstard, ffenygl, puppyr, a phob pêr-lysiau, oddieithr synamwn, pa rai yn y tri mis olaf ydynt dda iddi. Os ar y cyntaf y bydd ei hymborth yn gynnil, fel y byddo ei maint yn ychwanegu, ychwaneger ei lluniaeth hefyd; canys dylai ystyried fod ganddi blentyn yn gystal a hi ei hun i'w faethu. Bydded yn gymmedrol yn ei hyfed; ac os bydd yn yfed gwin, bydded win coch yn hytrach na gwyn, (yr hwn a fâg waed da, a gynnorthwya y treuliad, ac a gysura y cylla, yr hwn sydd bob amser yn wanaidd yn ystod ei beichiogiad;) ond gan fod gwin gwyn yn beth a bâr i lawer o ddwfr ymadael, dylid ei ochelyd. Gofaled am beidio a chymeryd gormod o ymarferiad; a gocheled ddawnsio, marchogaeth mewn cerbyd, neu ba beth bynnag arall sydd yn rhoddi y corph mewn ysgogiad tanbaid, yn enwedig yn ei mis cyntaf. Ond i fod yn fanylach, caf yma osod rheolau priodol i lawr am bob mis i fenyw feichiog drefnu ei hun, o'r amser y beichiogiad cyntaf i'w rhyddhad.

## *Rheolau i'r Ddeufis Cyntaf.*

Mor gynted ag y gwybydd menyw (neu y bydd ganddi achos i gredu) ei bod wedi beichiogi, dylai ymgadw oddiwrth bob ysgogiadau ac ymarferiadau tanbaid; pa un bynag ai cerdded ai marchogaeth ar farch neu mewn cerbyd y bydd, dylai fod yn dra esmwyth.

Ymgadwed hefyd oddiwrth bob cyd-gnawd (*venery*) (i'r hyn ar ol beichiogiad, nid yw 'n arferiad fod tueddiad mawr ynddi) rhag y bydd *mole* neu ail-feichiogiad; yr hyn yw ychwanegu y naill anelwig ddefnydd at y llall. Gofaled na b'oiddigodi ei breichiau yn rhy uchel, na chario beichiau trymion, neu ymorphwys ar eisteddle-oedd caledion ac anesmwyth. Arfered yn gy-medrol fwyd da, suddlyd, a hawdd ei dreulio; ac na fydded ei gwin yn gryf nac yn rhy lym, ond yn gymysgedig ag ychydig ddwfr; neu os bydd yn dra ymattalgar, gall arfer dwfr ymha un y berwyd synamwn. Gocheled ymprydiau, syched, gwylio, galar, tristwch, digter, a phob terfysgiadau eraill o eiddo y meddwl. Na fydded i neb ei hanrhegu â pheth dieithr neu afiachus, na chymaint a'i enwi, rhag iddi ei flysio ac heb fod yn alluog idd ei gael, ac felly bod yn achos iddi erthylu, neu i'r plentyn gael rhyw afluneiddwch o'r achos. Cadwer ei bol yn rhydd gyda *prunes*, *raisins*, neu fanna, yn ei chawl; a defnyddied y cyffaith canlynol, i gryfhau y groth a'r plentyn;—

"Cymerwch gyd-gyflaith *barrage*, tafod yr ŷch, a rhoses cochion, o bob un dwy wns; o lysiau'r gwenyn, wns; pilion a darnau *citron*, *mirobalans*, o bob un wns; pigion o *wood aloes*, *scruple*; *pearl prepared*, haner dram; *coral* coch, ifori, o bob un dram; *precious stones*, *scruple*; *candied nutmegs*, dwy ddram; a chyda sudd afalau a'r fynyglog gwnewch gyflaith gyd-tew-gymysg.

## *Sylwed ar y Rheolau Canlynol.*

"Cymerwch *pearls prepared* dram; *coral* coch paratoawl âg ifori, o bob un hanner dram; *precious stones, scruple*; pil *yellow citron, mace,* synamwn, *cloves*, o bob un haner dram; saffrwn, *scruple*; *wood aloes*, haner *scruple*, ambyr, chwe' dram; a chyda chwe' wns o siwgr wedi ei doddi mewn dwfr *rhoses*, gwnewch roliau." (*rolls.*) Cymhwysed hefyd bethau cryfhaol at y bogail, o *nutmegs, mace*, mastig, wedi eu gwneuthur i fynu mewn codau, neu gras fara wedi ei drochi mewn *malmsey*, (sef math o wîn melus) a'i ysgeintio â *phowdr mint.* Os digwydd iddi flysio *sialc*, clai, neu lo, (fel y gwna llawer o fenywod beichiogion,) rhodder ffa iddi wedi eu berwi gyda siwgr; ac os digwydd iddi flysio unrhyw beth na all ei gael, yn ddioedi yfed lwnge mawr o ddwfr oer.

## *Rheolau i'r Trydydd Mis.*

Yn y mis hwn a'r nesaf byddwch sicr o ymgadw rhag gwaedu; er y gall fod yn ddiogel ac addas ar amserau eraill, ni bydd felly i ddiwedd y pedwarydd mis; ac eto, os bydd yn meddu gormod o waed, neu unrhyw afiechyd damweiniol yn cymeryd lle, yr hyn a ofyna arloesiad, gellwch ddefnyddio gwydryn craffiniad, a gellir tynu ychydig waed o'r ysgwyddau a'r breichiau, yn enwedig os bydd wedi ymarfer a chael ei gwaedu. Gofaled hefyd am beidio a rhwymo ei hun yn rhy dŷn â chareiau, ond rhoddi mwy o ryddid iddi ei hun nac yr arferai ei roddi; o herwydd trwy ymgau ei bol mewn

mold rhý gyfyng, y mae yn attal y babau rhag cymeryd ei dyfiant yn rhydd, ac yn fynych yn peri ei eni cyn ei amser.

## *Rheolau i'r Pedwerydd Mis.*

Yn y mis hwn hefyd dylech gadw y fenyw feichiog rhag gwaedu, oddieithr mewn achosion anghyffredin; ond wedi yr el y mis hwn heibio, gellir caniatau gollyngiad gwaed a phisygwriaeth, os bydd yn dyner ac esmwyth; ac fe allai y gall fod yn angenrheidiol er attal erthyliad. Yn y mis hwn hi áll garthu mewn afiechyd llym; ond ni ellir arfer carthu ond yn unig o ddechreuad y mis hwn i ddiwedd y chweched: ond gofaled wrth garthu na bydd iddi ddefnyddio unrhyw gyffeiriad tanbaid, na chwerw, megis *aloes*, yr hwn sy'n anghytunol â'r, ac yn niweidiol i'r plentyn, ac yn agor safnau y llestri; ychwaith na ddefnyddied *coloquintida*, *scamony*, na *turbith*; gall ddefnyddio *cassia*, *manna*, *rhubarb*, *agaric*, a senna: ond *dyacudodium pùrgans* yw y goreu, gydag ychydig o gyflaith sudd *rhoses*

## *Rheolau i'r Pummed, y Chweched, a'r Seithfed Mis.*

Yn y misoedd hyn blinir benywod beichiogion gan beswch, curiad y galon, llewygfeydd, gwyliadwriaethau, poenau yn y lwynau a'r cluniau, a gwaediad. Y peswch sydd oddiwrth agerdd sur sydd yn dyfod i'r fochgern a'r rhydweli arw, o'r mis-lifiadau, neu y rhan deneu o'r gwaed wedi meddiannu gwythienau y frest;

mae hyn yn peryglu erthyliad, ac y mae y cryfder yn pallu oddiwrth wylio; gan hyny carthwch y gwlybyrau ag ydynt yn syrthio i'r frest gyda *rhubarb* ac *agaric*, a chryfhewch y pen megis mewn naws-lifiad, (*cattarrh*,) a rhoddwch bethau lliniarol pêr, megis mewn peswch. Curiad y galon a llewygfeydd ydynt yn cyfodi oddiwrth agerddiadau sydd yn myned iddi trwy y rhedweliau, neu oddiwrth helaethrwydd o waed, na all fyned allan yn y groth, ond sydd yn esgyn, ac yn trwm-wasgu ar y galon; ac yn yr achos hwn dylid defnyddio *cordial* yn dufewnol ac allanol. Gwylio sydd oddiwrth agerddiadau awchus sychion, ag ydynt yn blino yr ysprydoedd anifeilaidd, ac yn yr achos hwn defnyddiwch rathiadau (*frictions*) a phoed i'r fenyw olchi ei thraed wrth fyned i'w gwely, a chymeryd o sudd pabi, *rhoses* wedi eu sychu, meddyg-faeth *St. Almonds*, a had pabi gwyn. Os bydd poenau yn ei lwynau ac yn ei chluniau, fel y mae yn ddarostyngedig i gael yn y misoedd hyn, oddiwrth bwysau ei phlentyn, yr hwn sydd yn awr wedi tyfu yn fawr a thrwm, ac felly yn estyn rhwymynau y groth a'r rhanau cyfagos, boed iddi ei ddal i fynu â rhwymynau ffunenau oddeutu ei gwddf. Oddeutu yr amser hwn hefyd yn fynych digwydd fod ar y fenyw lifiad gwaed; naill ai yn y ffroenau, y groth, neu yr *hemorrhoids*, oddiwrth helaethrwydd o waed, neu oddiwrth wendid y plentyn, yr hwn nid yw yn ei gymeryd i mewn; neu ynte oddi wrth ddryg-naws yn y gwaed, sydd yn cyffroi natur i'w anfon allan. Ac weithiau mae'n digwydd y gall llestri y groth gael eu tori, naill ai trwy ryw ysgogiad tanbaid, cwymp, peswch,

neu flinder meddwl; canys bydd un o'r rhai hyn yn achos o hyny; ac y mae hyn mor beryglus, fel na ddichon i'r plentyn yn y fath amgylchiad fod yn iach; ond os oddiwrth waed yn unig y bydd mae, y y perygl yn llai, os bydd yn dylifo trwy wythienau gwddf y groth, canys yna, mae yn attal gorllawnedd o waed, ac nid yw yn cymeryd ymaith faeth y plentyn; ond os bydd yn deillïo oddiwrth wendid y plentyn, yr hwn nid yw yn ei dynu i mewn, erthyliad y plentyn sydd yn fynych yn dilyn, neu lafur caled, neu ynte mae hi yn myned tu hwnt i'w hamser. Ond os bydd yn dylifo trwy wythienau tufewnol y groth, y mae mwy o berygl trwy anghauadrwydd y groth, os bydd yn dyfod oddiwrth waed drwg; y mae y perygl yn gyffelyb oddi wrth ddrwg ansawdd y gwaed, yr hwn sydd yn debyg o syrthio ar y ddau. Os bydd yn cyfodi oddiwrth orllawnedd gwaed, agorwch wythien, ond gyda gocheliad mawr iawn, a defnyddiwch bethau bolrwymol, *(astringents)* o'r hyn y gwna y canlynol yn dda:—Cymerwch *pearls prepared, scruple; coral* coch, dau *scruple; mace, nutmegs,* o bob un dram; synamwn, haner dram; gwnewch bowdr, neu, gyda siwgr, gwnewch roliau (*rolls.*) Neu rhoddwch y powdr hwn mewn cawl: cymerwch *coral* coch, dram; haner dram o *precious stones; red sander,* haner dram; *bole*, dram; *sealed earth,* gwreiddyn tresgl y march, o bob un dwy *scruple,* gyda *sugar of roses,* a *manuns christi,* gyda *pearl,* pum dram; gwnewch *bowdr*. Gellwch hefyd gryfhau y plentyn wrth y bogail; ac os bydd yno ddrwg ansawdd gwaed, newidiwch y gwlybyrau; ac os gellwch ei wneuthur yn ddiogel, arloeswch; gellwch yn yr un modd

arfer *amulets* yn ei dwylaw ac oddeutu ei gwddf. Mewn dylifiad *hemorrhoids*, treuliwch ymaith y boen; ac yfed win poeth gyda *nutmeg* crasedig. Yn y misoedd hyn mae y bol yn ddarostyngedig i fod yn rhwym, ond os bydd heb unrhyw afiechyd amlwg, ni bydd eawl cywion, neu fêl wedi ei ferwi âg olew, neu gyda dyferwad hoeeys, *mercury*, a had llin, a'i roddi i fynu yn chwistrell-feddyginiaeth, yn feius, ond mewn llai swm nag a roddir mewn achosion eraill: sef, o'r dyferwad, pum wns; o olew cyffredin, tair wns; o siwgr, dwy wns; o *cassia festula*, un wns. Ond os na chymer hi chwistrell-feddyginiaeth, un neu ddau o felyn wyau newydd ddodwy, neu ychydig o gawl pŷs yn gynes, gydag ychydig halen a siwgr, a'i lymeidio yehydig amser cyn bwyd, a fydd yn dra llesol. Ond os bydd ei bol wedi arledu ae estyn allan gan wynt, yehydig o hadau ffenygl, ae anis wedi eu gwneud yn fân-lwch, a'u eymysgu â mel a siwgr wedi eu gwneud yr un modd a chyflaith, a wnant yn bur dda. Hefyd, os bydd y cluniau a'r traed yn chwyddo, eneinier hwy ag *exphrodinum*: (yr hwn sydd physygwriaeth gwlyb wedi ei wneud gyda finegr a dwfr rhoses wedi eu cymysgu â halen.)

## *Rheolau i'r Wythfed Mis.*

Yr wythfed mis yn gyffredin yw y mwyaf peryglus, gan hyny dylid arfer mwy o ofal a goeheliad; y lluniaeth yn well ei ansawdd, ond nid yn fwy, nae yn wir gymmaint mewn swm ag o'r blaen; ond gan y rhaid iddi gwttogi ei lluniaeth, felly rhaid iddi yehwanegu ei hymar-

feriad; ac o herwydd fod benywod beichiogion y pryd hyny, o achos fod gwlybyrau surion yn newid y bol, yn arferol a deffroi eu hysprydoedd a'u cryfder, gallant yn hawdd gymeryd o flaen bwyd gyffaith *dearrhoden*, neu *aromaticum rosatum*, neu *diamagarton*; ac weithiau gallant leibio ychydig fêl: gan yr 'larant ar, ac y ffieiddiant eu bwyd, gallant gymeryd *green ginger candied* gyda siwgr, neu bîl *citron* ac *oranges candied*; a boed iddi yn fynych arfer mel er cryfhau y baban. Pan nad yw ymhell oddiwrth ei llafur, bwytaed bob dydd saith o *figs* rhostiedig cyn bwyta, a bydded iddi weithiau leibio ychydig fêl. Ond gocheled fwydydd hallt, canys nid yw dda iddi hi na'r plentyn.

### *Rheolou i'r Nawfed Mis.*

Yn y nawfed mis gofaled am beidio a chodi unrhyw bwysau mawr; ond symuded ychydig. fwy, i ledu y rhanau a chyffroi chwys naturiol-Cymered ofal rhag ymostwng nac eistedd gormod, na gorwedd ar ei hochrau; ychwaith ni ddylai ymblygu gormod, rhag i'r plentyn gael ei ddadblygu (*unfold*) yn y rhwymyn bogeiliawl trwy yr hyn y mae yn fynych yn trengu. Bydded, iddi gerdded ac ymsymud yn fynych, a bydded idd ei hymarferiad fod yn hytrach i fyned ar i fynu nag ar i lawr. Bydded ei lluniaeth, yn awr yn enwedig, yn ysgafn a hawdd ei dreulio; a *damask prunes* gyda siwgr, neu *figs* gyda *resins*, cyn bwyd; megis hefyd melyn wyau, cig a chawl cywion, adar, petris, a *phesants*; y mae bwydydd bol-rwymol a rhostiedig, gyda *rice*, wyau celyd, miled, a'r cyffelyb bethau,

hefyd yn briodol. Dylai arfer ymolchiadau â dwfr pêr, gyda llysiau tynerol, y mis hwn gyda pheth seibiant; ac ar ol yr ymolchiadau, eneinier ei bol gydag olew *rhoses* a chrinlys; ond am ei rhanau dirgel, gwell yw eu heneinio â brasder ieir, gwyddau, hwyaid, neu olew *lilics*, a dyferwad hâd llîn a *fenugreek*, wedi eu berwi gydag olew had llîn a môr hoccys, gyda'r enaint canlynol:

"Cymerwch o'r feddalai a hoccys y môr, wedi eu tori a'u darnio, o bob un wns; a hâd llîn wns; berwer hwynt o ugain wns o ddwfr i ddeg; yna cymered dair wns o'r cawl berwedig; o *oil of almonds* ac *oil of flower-de-luce*, o bob un wns; o wêr hydd, tair wns." Ymolched â hwn, ac eneinied ei hun âg ef yn gynnes.

Os bydd iddi ymolchi ac ireiddio ei ból cyn yr esgoriad bob boreu gyda *muscadel* a dwfr *lavender*, cryfheir y plentyn yn fawr trwy hyny. Ac os bydd iddi bob dydd fwyta bara crasedig, efe a ettyl i unrhyw beth dyfu i'r plentyn. Gellir dylofi i lawr ei rhannau dirgel gyda'r twymn-eneiniad canlynol:—

"Cymerwch dair wns o hâd llin, y feddalai a hoccys y môr, wedi eu tori yn ddarnau, dyrnaid o bob un, a rhodder hwy mewn cŵd, a berwer hwy yn ddïoed." Bydded i'r fenyw feichiog gymeryd agerdd y dyferwad hwn mewn ystol geuol, bob boreu a phrydnawn, gan gymeryd mawr ofal na byddo dim gwynt neu awyr ddyfod i'w rhanau mewnol, ac yna syched y rhanau a eneiniwyd felly gyda lliain, a gall eneinio y bòl a'r weryd fel ar y cyntaf.

Pan y byddo wedi dyfod hyd o fewn deg neu bedwar diwrnod ar ddeg idd ei hamser, o

bydd yn dechreu teimlo unrhyw boen mwy na chyffredin, bob dydd arfered y canlynol;—

"Cymmerwch o'r feddalai a hoccys y môr, o bob un dyrnaid; *camomile, mercury* caled, gwallt y forwyn, o bob un dyrnaid; o had llîn, pedair wns; berwer hwy yn y fath swm digonol o ddwfr fel ag i wneuthur enaint â hwy." Ond na eistedded yn rhy boeth ar yr eisteddle, nac yn uwch nag ychydig uwchlaw ei bogail; nac ychwaith na eistedded arni yn hwy nag oddeutu haner awr, rhag i'w chryfder lesgau a dihoeni; canys gwell ydyw ei harfer yn fynych, nag aros yn rhy hir ynddi.

Ac fel hyn yr wyf wedi dangos pa fodd y dylai menyw feichiog lywodraethu ei hun bob mis yn ystod ei beichiogiad. Pa fodd iddi drefnu ei hun yn amser ei rhyddhâd a ddangosir mewn pennod arall, wedi i mi yn gyntaf ddangos i'r fyd-wraig fwriadol pa fodd y llunir y plentyn yn y groth gyntaf, a dull ei orweddiad yno.

---

## Pen. 3.

Am y Rhanau priodol i Blentyn yn y groth. Pa fodd y ffurfir ef yno, a Dull ei sefyllfa ynddi.

YN y bennod olaf ymdriniais â beichiogiad, gan ddangos pa beth oedd, pa fodd ei cyflawnir, ei arwyddion, a pha fodd y dylai hi yr hon a feichioga drefnu ei hun yn ystod beichiogiad. Yn awr cyn y delwyf i draethu am ei rhyddhâd, y mae yn angenrheidiol fod i'r fyd-wraig yn gyntaf gael eu gwneuthur yn gydnabyddus â'r rhanau priodol i blentyn yn y groth; ac hefyd,

fod iddi gael gwybod pa fodd y ffurfir ef: a dull ei sefyllfa a'i orweddiad yno ; y rhai ydynt mo angenrheidiol iddi hi, fel heb y wybodaeth o hyny, na all neb ddywedyd pa fodd i ryddha benyw fel y dylai. Hyn, gan hyny, a fydd gwaith y bennod hon. Dechreuaf gyda'r cynta o'r rhai hyn.

---

## Dosp. 1.

### Am y rhanau priodol i Blentyn yn y Groth.

Yn y dosparth hwn rhaid i mi yn gynta hyspysu i chwi pa beth wyf yn ei feddwl wrth y rhanau priodol i blentyn yn y groth; ac nid yn ddim ond y rhai hyny sydd naill ai yn ei helpi neu ei faethu, tra y byddo yn lletya yn y gronfa dywell hono o eiddo natur, ac sydd yn helpu idd ei wisgo a'i amddiffyn yno, ac a fwrir ymaith fel pethau o ddim gwerth yn hwy, a ol ei eni; a'r rhai hyn ydynt ddwy: sef y *umbilicurs*, neu y llestri bogeiliawl, a'r *secundenum*, neu'r hemysgar. Gan y cyntaf fe' maethir, a chan yr ail y mae yn cael ei wisgo a' amddiffyn rhag niwaid. Am bob un o'r ddwy hyn caf draethu ar eu penau eu hunain; ac yn gyntaf,

### *Am y Llestri Bogeiliawl.*

Y rhai hyn ydynt bedair mewn rhifedi: sef un wythien, dwy rydweli, a'r llestr a elwi *urachos*.

1. Y wythien yw yr hon gan ba un y maethi y plentyn, o amser beichiogiad hyd amser e

rhyddhad; hyd oni, (wedi iddo gael ei ddwyn i'r byd,) y bydd ganddo yr un ffordd i dreulio ei fwyd ag sydd genym ninau. Mae y wythien hon yn codi o afu y plentyn, a gwahenir hi yn ddwy ran wedi passio y bogail; ac y mae y ddwy hyn drachefn yn cael eu gwahanu a'u hadwahanu, y ceingciau yn cael eu dal i fynu gan y croen a elwir *chorion* (am yr hwn y caf draethu ar fyr,) ac unir hwy a gwythïenau croth y fam, o ba le y maent yn cael y gwaed er maeth y plentyn.

2. Y rhydweliau ydynt ddwy ar bob ochr, y rhai ydynt yn deillio o geinciau ol rhydweli fawr y fam, a chan y rhai hyn cèrir y gwaed bywydol i'r plentyn, wedi ei dreulio yn barod gan y fam.

3. O waelod pledren y plentyn arweinir cynyrchiad gïeulyd neu ewynol i'r bogail, a gelwir hwn *urachos*; a'i ddefnydd yw i drosglwyddo pision y baban o'r bledren i'r *alantois.* Mae difynwyr yn gwahaniaethu yn fawr yn eu barnau mewn perthynas i hwn; rhai a wadant fod y fath beth yn rhyddhau y benywod; ac eraill i'r gwrthwyneb, yn ei gadarnhau: ond mae profiad wedi tystiolaethu fod y fath beth; o herwydd coffâ *Bartholonomew Carbrolius,* dysgawdwr cyffredin mewn difyniaeth i Gymdeithas o Feddygon yn Ffraingc, hanes am wyryf, dwfr pa un, wedi cael ei hir attal, o'r diwedd a ffrydiodd allan trwy ei bogail. A thraetha *Johanaes Fernelas* am yr un peth a ddigwyddodd i ddyn deg-ar-hugain oed, yr hwn, ac arno attaliad yngwddf y bledren, ei bision a ffrydiodd allan o'i fogail am lawer o fisoedd ynghyd, a hyny heb niwaid yn y byd idd ei iechyd; yr hyn a briodola efe i gam

orweddiad ei fogail, trwy yr hyn nid oedd yr *urachos* heb ei sychu yn dda. Ac mae *Volchier Coitas* yn dyfyn-nodi y cyffelyb engraifft arall mewn gwyryf 34 mlwydd oed, yn *Nuremberg*, Almaen. Mae yr engreifftiau hyn, er nad ydynt yn digwydd ond anfynych, yn ddigonol i brofi fod y fath beth ac *urachos* mewn dynion.

Mae y pedwar llestr rhag-grybwylledig hyn, sef un wythien, dwy redweli, a'r *urachos*, yn uno yn agos i'r bogail, a chydir hwy gan y croen, yr hwn a ga'nt o'r *chorion*, ac felly maent yn dyfod fel coludd neu raff, ac y maent yn hollol amddifad o deimlad, a hwn yw yr hyn a eilw y benywod llinyn y bogail. Mae y llestri fel hyn wedi cael eu huno y'nghyd, fel na aller na'u tori, eu gwahanu, na'u drysu; a phan enir y baban, nid ydynt o ddim defnydd, oddieithr i wneuthur i fynu y rhwymyn sydd yn cau twll y bogail; a rhai arferion meddygol eraill, &c.

### *Am yr Hemysgar.*

Gan osod o'r neilldu yr enw a roddir i hwn gan y Groegiaid a'r Lladinwyr, gelwir ef yn Saes'neg, "*Secundine,*" sef Hemysgar; y rhai a gyfrifir o bedwar mewn rhifedi.

1. Gelwir y *cyntaf*, *Placentia*, o herwydd ei fod yn debyg i lun teisen, ac y mae wedi ei gylymu wrth y bogail, a'r *Chorion*. ac yn gwneuthur i fynu y rhan fwyaf o'r Hemysgar, Mae ei gnawd yn debyg i hwnw o eiddo y ddueg, yn feddal, coch, ac yn tueddu ychydig at ddu, ac ynddo lawer o wythïenau a rhydweliau bychain ; ac yn sicr ei ddefnydd penaf yw, i gynnwys y plentyn yn groth.

2. Yr *ail* yw y *Chorion*. Mae y croen hwn, a'r hwn a elwir *amnois*, yn amdoi y plentyn o gwmpas, uwchlaw ac odditanodd, yr hyn nid yw yr *alantois* yn ei wneuthur. Y croen hwn ydyw hwnw a elwir yn fwyaf cyffredin hemysgar, gan ei fod yn dew a gwyn, wedi ei addurno â llawer o wythïenau a rhydwelïau bychain, gan ddiweddu yn y *placentia* rhaggrybwylledig, yn bod yn dra ysgafn a llithrig. Nid yn unig ei ddefnydd yw gorchuddio y plentyn o'i gwmpas, ond hefyd i dderbyn a rhwymo i fynu yn ddiogel wreiddiau y gwythienau a'r rhydweliau, neu lestri y bogail a ddesgrifiwyd o'r blaen.

3. Y *trydydd* peth sydd yn gwneuthur i fynu yr hemysgar yw yr *alantois*, am yr hwn y mae dadl mawr y'mysg difynwyr. Rhai a ddywedant fod y fath beth, ac eraill nad oes. Y rhai hyny a fynant mai pilionen yw, a ddywedant ei fod yn wyn, yn feddal, ac yn dra theneu, ac o dan y *placentia*, lle y clymir ef wrth yr *urachos*, o ba le y mae yn derbyn y pision; a'i swydd yw ei gadw yn wahanol oddiwrth y chwys, fel na byddo idd ei hallter sarhau croen tyner y plentyn.

4, Y *pedwerydd*, a gorchudd olaf y plentyn, a elwir *amnios*; ac y mae yn wyn, yn feddal, a thryloyw, yn cael ei faethu gan wythienau a rhydweliau tra bychain. Ei ddefnydd yw, nid yn unig i ymwisgo y plentyn, ond hefyd i gadw ei chwys.

Wedi i mi fel hyn ddesgrifio y rhanau priodol i blentyn yn y groth, âf y'mlaen yn nesaf i draethu am luniad y plentyn ynddi, cyn gynted ag yr egluraf enwau celyd y dosparth hwn, fel

y gallo y rhai hyny i ba rai y mae ei gynnorthwy yn cael ei fwriadu, ddeall yr hyn a ddarllenont. *Gwythien* yw yr hon sydd yn derbyn y gwaed o'r afu, ac yn ei gyfranu mewn gwahanol geingciau i bob rhan o'r corph. Rhydweliau ydynt yn deillio o'r galon, ac ydynt mewn ysgogiad parhaus, a thrwy hyny maent yn bywiogi y corph. *Gewyn* yw hono, trwy ba un y mae yr ymenydd yn ychwanegu teimlad ac ysgogiad i'r corph.

*Placentia* yn briodol a arwydda *teisen siwgr*; ond yn y dosbarth hon a arferir i arwyddo dernyn yspwngaidd o gnawd, yn tebygu i deisen lawn o wythienau a rhydweliau, ac a wneir i dderbyn gwaed y fam a bennodwyd er maethu y baban yn y groth. Yr *amnois* yw y croen nesaf i mewn sydd yn amgylchynu y plentyn yn y groth. Yr *alantois* y croen sydd yn dál pision y plentyn yn ystod yr amser y triga yn y groth. Yr *urachos* yw y llestr sydd yn trosglwyddo y pision o'r plentyn yn y groth i'r *alantois*. Af y'mlaen yn awr i

---

## DOSBARTH II.

### Am ffurfiad y Plentyn yn y Groth.

I DRAETHU am ffurfiad y plentyn yn y groth, rhaid i ni ddechreu lle y dechreua natur; a hyny sydd yn y weithred o ymgydiad, yn yr hyn wedi i'r groth dderbyn yr hâd eppilgar, (heb ba un ni ddichon fod beichiogiad) y mae hi yn ddioed yn ymgau i fynu mor *glòs* fel na all blaen nodwydd fyned i mewn i'r briw-dwll tufewnol; a hyn y

mae yn ei wneuthur mewn rhan i attal i'r hâd ddyfod allan drachefn, ac mewn rhan idd ei faethu trwy wres cynnwynol, i'r diben o'i gynhyrfu i weithrediad yn well; yr hyn yw un o'r achosion pa ham y mae boliau benywod mor libyn (*lank*) ar eu beichiogiad cyntaf. Wedi i'r fenyw fel hyn feichiogi, y peth cyntaf sydd weithredol yn y beichiogiad yw yr yspryd (*spirit,*) o'r hwn y mae yr hâd yn llawn, yr hyn, a natur yn ei fywiogi trwy y gwres, sydd yn cyffroi i weithrediad. Mae yr hâd hwn yn gynnwysedig o ranau tra gwahanol, o'r hyn y mae rhai yn fwy, a'r lleill yn llai pur. Yr ysprydoedd tufewnol, gan hyny, ydynt yn gwahanu y rhanau sydd yn llai pur, y rhai ydynt dew, oer, a gludiawg, oddiwrth y rhai hyny ag ydynt fwy pur ac ardderchog. Yr amhuraf a fwrir i'r tu allan, a chyda y rhai hyn y cylchynir yr had o gwmpas, ac y gwneir y pilionenau, yn y rhai yr amwisgir yr hâd hwnw ag sydd buraf, ac y cedwir ef yn *glòs* y'nghyd, fel y gallo gael ei amddiffyn rhag anwydau a damweiniau eraill, a gweithredu yn well.

Y peth cyntaf a ffurfir yw yr *amnios*; y nesaf y *chorion;* ac y maent yn amwisgo yr hâd o gwmpas mal cauadlen. Yn fuan wedi hyn, (canys nid yw yr hâd a gauwyd i fynu fel hyn yn y fenyw yn gorwedd yn segur) y megir gwythien y bogail, yr hon sydd yn tyllu y crwyn hyny, gan eu bod etto yn dra thyner, ac yn cario ddyferyn o waed o wythienau croth y fam i'r hâd, o'r hwn ddyferyn y mae y *vena carva,* neu y brif wythien, yn deillio, o'r hon y mae yr holl weddill o wythienau sydd yn maethu y corph, yn torri allan: ac yn awr y mae gan yr

hâd rywbeth idd ei faethu, tra y mae yn cyflawni y gweddill o waith natur, ac hefyd gwaed yn cael ei gyfranu i bob rhan o hono, i ffurfio cnawd.

Wedi i'r wythien hon gael ei llunio, ffurfir rhydweliau y bogail yn fuan wedi hyny; yna y rhedweli fawr, o'r hon nid ydyw y rhai eraill i gyd ond ceingciau; ac yna y galon; canys y mae yr afu yn cynnysgaeddu y rhedweliau â gwaed i ffurfio y galon, gan fod y rhedweliau wedi eu gwneuthur o hâd, ond y galon a'r cnawd o waed. Wedi hyn llunir yr ymenydd, ac yna y gewynau i roddi teimlad ac ysgogiad i'r baban. Wedi hyny ffurfir yr esgyrn a'r cnawd; ac o'r esgyrn, yn gyntaf esgyrn glain y cefn, neu yr ên, ac yna y penglog, &c.

Mewn perthynas i'r amser yn yr hwn y ffurfir y rhan gywrain hon o waith natur, gan fy mod eisioes yn yr ail Bennod o'r rhan flaenorol o'r gwaith hwn, wedi ymdrin yn helaeth â'r pen hwn, ac hefyd am faeth y plentyn yn y groth, ni chaf yma ond yn unig cyfeirio y darllenydd i'r fan hono, ac âf y'mlaen i ddangos y dull y gorwedd y plentyn ynddo yn y groth.

---

## Dosp. III.

### Am y dull y gorwedd Plentyn ynddo yn y groth.

Y Mae hwn yn beth mor hanfodol i fydwraig idd ei wybod, fel na all hi, yr hon sydd yn anwybodus o hono, fod yn fydwraig; ac etto hyd yn nod oddeutu hyn y mae Awdwyr yn gwahaniaethu yn ddirfawr; canys nid oes dau

o ddeg ag ydynt yn cyduno pa beth yw y ffurf ag y mae y plentyn yn gorwedd ynddo yn y groth, neu y'mha ddull y gorwedd yno; ac etto gall hyn gyfodi i raddau mawr oddiwrth y gwahanol luniau y ceir y plentyn ynddynt, yn ol amserau gwahanol beichiogiad y fenyw; o herwydd yn agos i amser ei rhyddhâd allan o'r ystafelloedd amdoawl hyn o eiddo natur, y mae yn fynych yn newid y ffurf yn yr hwn y gorweddai yn flaenorol am un arall.

Yn awr, dangosaf amrywiol sefyllfeydd y plentyn ynghroth y fam, yn unol â gwahanol amserau beichiogiad, trwy yr hyn y caiff y fyd-wraig ddeallus well amgyffred am y rhai hyny ag ydynt wrthwyneb i natur, ac ydynt hefyd y prif achos o bob esgoriadau niweidiol. Gan hyny, yn y lle cyntaf, dylai sylwi, fod sefyllfa y maban, gwrryw a benyw, y naill fel y llall, yn gyffredin yn nghanol y groth; o herwydd, er i'r golwg weithiau, fod bol benyw yn ymddangos yn uwch ar un ochr na'r llall, etto y mae felly yn golygu ei bol yn unig, ac nid ei chroth, ynghanol yr hon y mae wedi ei osod bob amser.

Ond, yn yr ail le, y mae bol mawr y fenyw yn gwneuthur gwahanol ffurfiau, yn ol gwahanol amserau beichiogiad; o herwydd yn nechreuad ei beichiogiad, ceir yr anelwig ddefnydd bob amser o ffurf crwn, ychydig yn hir-gul, a chanddi asgwrn y cefn wedi ei droi tua'r cefn yn gymedrol, y cluniau wedi eu plygu, a'u codi ychydig, at y rhai y mae y coesau wedi eu codi cymaint fel y mae y sodlau yn cyffwrdd y morddwydydd; mae y breichiau yn blygedig, a'r dwylaw wedi eu gosod ar y gliniau, tua pha

rai mae y pen yn gogwyddo ymlaen, fel ag y mae y gên yn cyffwrdd y frest; ymha ystum y mae yn debyg i un yn eistedd i esmwythau natur, ac yn ymblygu i edrych beth sydd yn dyfod oddiwrtho. Mae asgwrn ei gefn yr amser hwnw wedi ei osod tu ag at eiddo y fam, y pen yn uchaf, y wyneb ymlaen, a'r traed i waered; ac, yn gyfartal idd ei dyfiant, y mae yn ymestyn ei aelodau o fesur ychydig, y rhai oeddynt wedi eu plygu yn gymwys y mis cyntaf. Yn yr ystum hon y mae yn gyffredin yn aros hyd y seithfed neu 'r wythfed mis; ac yna, trwy dueddfryd a gogwyddiad naturiol rhan uchaf y corph, troir y pen i waered tu a'r briwdwll tufewnol y groth, gan lam-dreiglo fel pe ba'i dros ei ben, fel y pryd hwnw y mae y traed yn uchaf, a'r wyneb tu a choludd y fam; ac mae y tröad hwn o eiddo y baban yn y dull yma, gyda'i ben i waered, wedi ei drefnu felly gan natur, fel y gall trwy hyny fod wedi ei gyfleu'n well er ei fynediad i'r byd yn amser gwewyr ei fam, yr hyn nid yw y pryd hyn ymhell o gymeryd lle (ac yn wir nid yw rhai plant yn troi fodd yn y byd hyd ben amser yr esgoriad ;) canys yn yr ystum hon y lledir ei holl gymalau hawsaf wrth ddyfod yn mlaen; o herwydd trwy hyn ni all ei freichiau na'i goesau attal ei enedigaeth; o herwydd na allant gael eu plygu yn erbyn briw-dwll tufewnol y groth; a'r gweddill o'r corph yn bod yn dra anystwyth, y mae yn passio heb unrhyw anhawstra ar ol y pen, yr hwn sydd galed a mawr, gan ei fod wedi passio yr esgoriad.

Mae yn wir fod amryw blant ag sydd yn gorwedd yn y groth mewn ystum arall, ac yn

dyfod i'r esgoriad a'u traed i waered, yn enwedig os bydd efeilliaid; canys yna trwy yr ysgogiadau gwahanol y maent yn aflonyddu y naill y llall i'r fath raddau, fel nad y'nt ond yn anfynych yn dyfod yn yr un ystum yn amser gwewyr, ond un a ddaw gyda'r pen, a'r llall gyda'r traed, neu hwyrach yn gorwedd ar draws; ac weithiau ni ddaw y naill na'r llall o honynt yn iawn. Ond, pa fodd bynag y gall y plentyn fod yn gorwedd yn y groth, neu ymha ystum bynag yr ymddengys yn amser yr esgoriad, os na bydd a'i ben yn mlaen, fel y disgrifiais o'r blaen, y mae bob amser yn erbyn natur, a bydd i'r rhyddhad fod yn achos o fwy o boen a pherygl, a bydd yn gofyn mwy o ofal a medr oddiwrth y fyd-wraig, na phan y bydd y gwewyr yn fwy naturiol.

---

## Pen. 4.

Tywysydd i Fenywod mewn Gwewyr Esgor, yn dangos pa beth sydd idd ei wneuthur, pan y syrthiant mewn Gwewyr, mewn trefn idd eu rhyddhad.

DYBEN yr hyn oll ag y buom yn ymdrin ag ef, yw dyfod a phlentyn i'r byd mewn diogelwch i'w fam ac yntau, gan y gellir yn hawdd alw holl amser beichiogiad benyw yn fath o wewyr; o herwydd o amser ei beichiogiad hyd amser ei rhyddhad, y mae yn llafurio dan lawer o anhawsderau, yn ddarostyngedig i lawer o glefydau, ac mewn perygl parhaus oddiwrth ryw achos neu gilydd, hyd oni ddelo amser esgoriad, a phan ddelo hwnw, mae y boen a'r gwewyr mwyaf yn dyfod gydag ef yn

gymaint ag yr anghofir y pryd hyny ei holl boenau eraill, a hwnw yn unig a elwir amser ei gwewyr; a'i rhyddhau yn ddiogel yw prif orchwyl y fyd-wraig; a chynorthwy yn hyny a fydd prif fwriad y bennod hon. Yr amser ag y bydd y plentyn yn barod idd ei esgoriad, pan mae natur yn ymegnio idd ei fwrw allan, yn briodol yw amser gwewyr benyw; gan fod natur y pryd hyny yn llafurio i gael gwared o'i baich. Ac yn gymaint a bod llawer o fenywod beichiog (yn enwedig gyda'r plentyn cyntaf,) yn fynych yn camgymeryd yn eu cyfrif, ac felly, pan y byddont yn tynu at eu hamser, yn cymeryd pob trafferth a gyfarfyddant â hi er peri eu gwewyr, yr hyn sydd yn fynych yn troi allan yn niweidiol a blinderus iddynt pan nad yw felly; caf osod i lawr, yn nosparth cyntaf y bennod hon, rai arwyddion, wrth ba rai y gall benyw wybod pan y bydd gwir amser eu gwewyr wedi dyfod.

---

## Dosp. I.

### Arwyddion gwir amser Gwewyr Benyw.

PAN genfydd benywod beichiog (yn enwedig ar eu plentyn cyntaf,) unrhyw boenau anghyffredin yn eu bol, yn ddioed, anfonant am eu bydwraig, gan eu cymeryd am eu gwewyr; ac yna, oni bydd y fydwraig yn fedrus a phrofiadol i wybod amser gwewyr, ond yn ei gymeryd yn ganiataol heb ymholiad pellach, (canys mae rhai o'r fath,) ac felly yn myned oddeutu ei rhoddi mewn llafur cyn i natur ymbaratoi iddo,

gall beryglu bywydau y fam a'r plentyn, trwy dorri yr *amnois* a'r *chorion.* Symuder y poenau hyn, y rhai yn fynych a gam-gymerir am wewyr, trwy osod llieiniau cynes wrth y bol, a chymhwysiad *clyster* neu ddau, trwy yr hyn y mae y poenau hyny ag ydynt yn rhagflaenu gwir wewyr yn cael eu mwyhau yn hytrach na'u hatal. Y mae hefyd boenau eraill yn digwydd i fenywod yn y sefyllfa hono oddiwrth ddylifiadau y bol, y rhai a adnabyddir yn hawdd wrth yr ymgarthiadau sydd yn eu dilyn.

Gan hyny, arwyddion gwewyr, ychydig ddyddiau cyn hyny, ydynt, fod bol y fenyw, yr hwn o'r blaen oedd yn gorwedd yn uchel, yn llaesu i lawr, ac yn ei hattal rhag cerdded mor hawdd ac yr arferai wneuthur; hefyd y mae yn dylifo o'r groth rhyw wlybyrau llithrig, y rhai y mae natur wedi eu pennodi i ireiddio a llathru y fynedfa, fel y gall ei briw-dwll tufewnol ymledu yn haws pan fyddo achos; yr hwn, gan ddechreu agor oddeutu yr amser hwnw, sydd yn goddef i'r llaid hwnw i ddylifo ymaith, yr hwn sydd yn deillio o'r chwarenau, a elwir *prostata.* Y rhai hyn ydynt arwyddion yn blaenori y gwewyr; ond pan fyddo yn ddioed yn cwympo i wewyr, yr arwyddion ydynt, boenau mawrion oddeutu parthau yr arrenau a'r lwynau, y rhai gan ddyfod drachefn, sydd yn encilio ar gyfwng a attelir yn ngwaelod y bòl gan dafliadau cyd-gordiawl, ac weithiau bydd y wyneb yn goch, ac yn ennynaidd, gan fod y gwaed wedi ei fawr boethi trwy'r ymdrechiadau a wna benyw i ddyfod a'i phlentyn y'mlaen; a'r un modd o herwydd, yn ystod y tafliadau cryfion hyn, fod ei hanadliad yn cael ei rwystro,

yr hyn sydd yn achos i'r gwaed redeg idd ei hwyneb; hefyd y mae ei rhanau dirgel yn chwyddedig gan ben y baban yn gorwedd yn yr esgoriad, yr hwn, trwy fynych wthio, sydd yn peri i'r rhanau hyny ddisgyn tuag allan. Y mae yn dra darostyngedig i gyfogiad, yr hyn sydd yn arwydd o wewyr da, a rhyddhâd buan, er ei fod yn cael ei gymeryd ffordd arall gan fenywod anwybodus; canys trwy hyny mae poenau da yn cael eu cynhyrfu.a'u hadnewyddu; yr hwn gyfogiad a gynhyrfir gan y cydymdeimlad sydd rhwng y groth a'r cylla. Hefyd, pan mae yr esgoriad yn agos, blinir benywod â chryndod yn y cluniau a'r coesau, nid gydâg anwyd, yr un fath ac yn nechreuad pang o'r cryd, ond gyda phoethder yr holl gorph; er, rhaid addef, nad yw hyn yn digwydd bob amser. Hefyd, os bydd y gwlybrau ag ydynt y pryd hyny yn dylifo o'r groth, yn ddrygliw gan y gwaed, yr hyn a eilw y byd-wragedd y *shows*, sef dangosiadau, arwydd anffaeledig yw fod yr esgoriad yn agos. Ac os bydd i'r fyd-wraig y pryd hyny roddi i fynu ei bysedd yngwddf y groth, hi a genfydd y briw-dwll nesaf i mewn wedi ymledu; ar agoriad pa un mae pilionenau y baban, yn cynnwys y dwfr, yn ymddangos, a chryf gymhellir hwy i lawr gan bob poen y mae hi yn ei gael; ymha amser gallai dyn eu canfod weithiau yn gwrthwynebu, ac yna drachefn yn gwasgu y bys ymlaen, gan gael eu hestyn mwy neu lai, yn ol cryfder neu wendid y poenau. Mae y pilionenau hyn, gyda'r dyfroedd ynddynt, pan y mae o flaen pen y plentyn, yr hyn a eilw y byd-wragedd *casgliad y dyfroedd*, i deimlad y bys yn debyg i'r wyau hyny ag a fo heb blisg,

ond a orchuddir â philionen sengyl yn unig. Wedi hyn, y poenau o hyd yn adnewyddu, torir y pilionenau trwy gynhyrfiad cryf o eiddo y dyfroedd, yna yn ddioed teimlir pen y baban yn noeth, ac ymddengys yn mriw-dwll tufewnol y groth. Pan fyddo y dyfroedd hyn yn dyfod ymaith yn y modd hwn, yna y gall y fyd-wraig fod yn sicr fod yr esgoriad yn dra agos, o herwydd mai yr arwydd fwyaf dilys a all fod yw hyn; canys wedi tori yr *amnois alantois*, y rhai a gynwysent y dyfroedd hyny, trwy wasgiad ymlaen yr esgoriad, nid yw y plentyn yn fwy galluog i hanfodi yn hir yn y groth, na dyn noeth mewn carnedd o eira. Yn awr, mae y dyfroedd hyn, os bydd y plentyn yn dyfod yn ddioed ar eu hol, yn rhyddhau y gwewyr, trwy wneuthur y fynedfa yn llithrig; a chan hyny, na fydded i unrhyw fyd-wraig (fel y gwnaeth rhai yn ynfyd) ymdrechu i ddirgymmell ymaith y dwfr, o herwydd natur a ŵyr oreu pa pryd y bydd gwir amser esgoriad, a chan hyny y mae yn dal y dwfr hyd yr amser hwnw. Ond os trwy ddamwain, y bydd i'r dwfr dori i ffwrdd ormod o amser cyn yr esgoriad, yna gellir gweinyddu yn ddiogel y cyfryw bethau ag a'i prysuro; a chaf ddangos pa beth yw y rhai hyn mewn dosparth arall.

## Dosp. III.

Pa fodd y dylid llywodraethu Menyw pan fo amser ei Gwewyr wedi dyfod.

Pan wybyddir fod gwir amser ei llafur wedi dyfod, wrth yr arwyddion a osodwyd i lawr yn y ddosparth flaenorol, o'r hyn y rhai hyny ag ydynt i ymddibynu arnynt fwyaf, yw, poenau a thafliadau nerthol yn y bol, gan wthio i wared tua'r groth, ac ymlediad y briw-dwll tufewnol, yr hyn a ellir ei ganfod trwy ei gyffwrdd â'r bys, a chasgliad y dyfroedd o flaen pen y plentyn, a gwthiad i lawr y pilionenau sydd yn eu cynwys, trwy ba rai, rhwng y poenau, gall dyn mewn rhyw ddull gyda'r bys gael allan y rhan a fyddo yn ymddangos (fel y dywedwyd o'r blaen,) yn enwedig os pen y plentyn fydd, trwy ei grynder a'i galedrwydd; os bydd y pethau hyn yn cydsynied ac yn amlwg, meddaf, gall y fyd-wraig fod yn sicr mai amser llafur y fenyw yw; a rhaid gofalu am geisio pob peth ag sydd angenrheidiol idd ei chysuro yn yr amser hwnw. Ac i'r dyben o'i chynnorthwy yn well, byddwch sicr o edrych na bydd wedi ei charreio yn dèn; (*stract-laced*) gellwch hefyd roddi iddi un chwis-trell-feddyginiaeth cryf neu ychwaneg, os bydd achos; os gwneir hyny yn y dechreu, a chyn i'r plentyn fod yn rhy bell ymlaen; canys bydd yn anhawdd iddi eu derbyn wedi hyny. Y lles ag a ddeillia oddiwrth hyn a fydd, y bydd iddynt gynhyrfu y coludd i ymarllwys ei charthion, fel wedi i'r *rectum* gael eu gwaghau, y bydd yno fwy o gyfwng er ymlediad y fynedfa; yr un modd i beri i'r poenau orwedd mwy tuag i waered, trwy yr ymdrechiadau y mae hi yn eu gwneuthur

pan y mae yn ymgarthu; ac yn y cyfamser, dylid rhoddi pob peth arall anghenrheidiol idd ei llafur mewn trefn, i'r fenyw a'r plentyn. I'r dyben hwn, ceisia rhai ystol byd-wraig; ond y mae gwely bychan, wedi ei amwregysu, yn llawer gwell ffordd, wedi ei osod yn agos i'r tân, os bydd y tymher yn gofyn hyny, yr hwn wely bychan a ddylai gael ei osod yn y fath ddull, fel ag y bydd dyfodfa hawdd ato ar bob tu, fel y galler yn hwylusach gynortnwyo y fenyw fel y bydd achos.

Os bydd y fenyw yn meddu helaethrwydd o waed, gallai nad anaddas a fyddai gwaedu ychydig arni, canys trwy hyny hi a anadla yn well, a bydd mwy o ryddid idd ei *brestiau,* ac hefyd mwy o gryfder i arwedd i lawr ei phoenau; a gellir gwneuthur hyn heb berygl, o herwydd na bydd y plentyn sydd o ddeutu cael ei eni, yn sefyll yn hwy mewn angen o waed y fam er ei faethu; heblaw hyny, y mae yr arloesiad hwn yn fynych yn ei hattal i gael twymyn ar ol ei rhyddhad. Hefyd, o flaen ei rhyddhad, bydded iddi gerdded yn ol ac y'mlaen yn ei hystafell wely, os caniatâ ei nerth; ac fel y byddo ganddi nerth i wneuthur felly, bydd yn angenrheidiol rhoddi iddi rai pethau cryfhaol da, megis glud-gawl, wyau newydd ddodwy, &c,, ac er dim boed iddi ddal allan ei phoenau, gan eu harwedd i lawr gymaint ag a all, yr amser pan y deuant arni; a phoed i'r fyd-wraig, o amser i amser, gyffwrdd â'r briw-dwll tumewnol, i gael gwybod pa un ai yw y dyfroedd yn barod i dorri, a pha un ai wna yr esgoriad ddilyn yn fuan wedi. Eneinied ranau dirgel y fenyw hefyd ag olew medd-alhäol, bloneg mochyn, ac ymenyn croyw, os

cenfydd ei bod yn anhawdd idd ei hymledu. Bydded i'r fyd-wraig yr un modd trwy yr holl amser fod yn agos i'r fenyw mewn gwewyr, gan sylwi yn ddiwyd ar ei hystumiau, ei chwynion, a'i phoenau; o herwydd trwy hyny hi a all ddyfalu yn lled dda pa fodd y mae ei llafur yn myned y'mlaen, canys pan y mae yn newid ei griddfanau cyffredin i lefau uchel, y mae yn arwydd fod y plentyn yn dra agos i'r esgoriad; canys yr amser hwnw y mae ei phoenau yn fwy a mynychach. Boed i'r fenyw, yr un modd, ar amserau, ymorphwys ar y gwely, i'r dyben o ail-gaffael ei nerth, ond nid yn rhy hir, yn enwedig os bydd yn fechan, yn fèr, a thew; canys y mae llafur y cyfryw fenywod yn waeth bob amser os gorweddant yn hir ar eu gwelyau yn eu gwewyr. Gan hyny, y mae yn well fod iddi gerddded oddeutu yr ystafell gymmaint ag a all, ac i'r fenyw ei chynnal dan ei braich, os bydd yn angenrheidiol; o herwydd trwy hyn, mae pwysau y plentyn yn peri i friw-dwll tumewnol y groth ymledu yn gynt nac yn y gwely; ac os bydd ei phoenau yn gryfach ac amlach, ni fydd ei llafur yn agos cyhyd.

Na fydded i'r fenyw mewn trafael ymofidio o achos y llewygfeydd a'r cyfogiadau hyny, y rhai, hwyrach, a genfydd yn dyfod arni, canys byddant er mawr lesâd iddi yn y diwedd, pa mor anesmwyth bynag y gall hi fod am yr amser, gan eu bod yn hyrwyddo ei thafliadau a'i phoenau trwy gyffroi i waered.

Pan y mae dyfroedd y plentyn yn barod ac yn gasgledig [y rhai a ellir eu gweled trwy y pilionenau yn ymgyfeirio tu a'r briw-dwll tumewnol] i faint yr holl ymlediad, dylai y fyd-

wraig adael iddynt dorri o honynt eu hunain, a pheidio, (fel rhai bydwragedd byrbwyll, pa rai, gan fod yn anamyneddgar wrth hir lafur y fenyw) a'u tori, gan fwriadu prysuro ei gorchwyl trwy hyny, pan yn lle hyny y maent yn ei luddias; o herwydd trwy doriad rhy fuan y dyfroedd hyn (y rhai a drefnodd natur i beri i'r baban lithro allan yn hawsach,) y mae y fynedfa yn parhau yn sêch, trwy ba foddion y mae poenau a thafliadau y fenyw mewn trafael yn llai effeithiol i ddwyn allan y babau nac y buasent pe amgen.

Gan hyny, ffordd llawer gwell yw gadael i'r dyfroedd dori o honynt eu hunain; ar ol yr hyn gall y fyd-wraig yn rhwydd deimlo y plentyn wrth y rhan hono a ymgyflwyna gyntaf, a thrwy hyny gall ddirnad pa un a yw yn dyfod yn iawn, hyny yw gyda y pen yn mlaenaf, canys hono yw y ffordd fwyaf priodol a naturiol o'i eni. Os bydd y pen yn dyfod yn iawn, hi a'i cenfydd yn grwn, yn fawr, yn galed, a chyfartal; ond os unrhyw ran arall a fydd, hi a'i teimla yn anghyfartal, yn afrywiog, ac yn feddal neu galed, yn ol natur y rhan y byddo o hono. A hwn yw y gwir amser pan y dylid rhyddhau menyw, os na bydd natur yn niffyg i gyflawni ei swydd; gan hyny, pan y cenfydd y fyd-wraig yr esgoriad yn dyfod yn mlaen fel hyn, bydded iddi brysuro idd ei gynnorthwyo a'i ryddhau, canys yn gffredin y mae yn dygwydd yn fuan wedi hyny, os naturiol a fydd.

Ond os digwydd, fel y gall weithiau, i'r dyfroedd dorri ymaith yn rhy hir cyn yr esgoriad, gellir gweinyddu y pethau hyny ag a ffrystiant natur, yn ddiogel yn y fath amgylchiad. I ba ddyben, defnyddiwch frymlys, *dittany*, grawn

meryw, *coral* coch, *betony* a *feverfew*, wedi eu berwi mewn gwin gwyn, a rhoddwch lwngc o hono; neu byddai yn llawer gwell cymeryd eu sudd pan yn eu blodau, yr hyn a fydd yn Mai, ac wedi ei buro, ei wneuthur yn gyflaith, gyda dwbl ei bwysau o siwgr, a'i gadw trwy'r flwyddyn, idd ei ddefnyddio pan fyddo achos yn galw am dano; y mae llysiau Ieuan, a'u defnyddio yn yr un dull, yn dda hefyd yn yr achos hwn; hefyd, y mae dram o bowdr synamwn, a'i roddi yn dufewnol, yn dra llesol yn yr amgylchiad hwn; ac felly y mae *tansey*, wedi ei olosgi, a'i gymhwyso at y dirgeloedd; neu olew o hono, wedi ei wneuthur a'i ddefnyddio fel y dysgwyd chwi o'r blaen. Y mae y garreg *ætites*, a'i dàl wrth y dirgeloedd, o rïnwedd hynod, ac yn ddioed tỳn ymaith y plentyn a'r hemysgar; ond rhaid cymeryd mawr ofal idd ei symud yn ddioed, onite, hi a dyn ymaith y groth a'r cwbl; canys y cyfryw yw rhinwedd tynol y gareg hon, fel y dilyn y plentyn a'r groth hi mor barod ag y gwna haiarn yr ehedfaen, neu yr Ehedfaen y seren Ogledd.

Y mae llawer o bethau eraill ag yr haera y Meddygon eu bod yn dda yn yr achos hwn; y'mysg pa rai, y mae carn asyn neu geffyl wedi ei grogi yn agos i'r dirgeloedd; dernyn o *goral* coch wedi ei grogi yn agos i'r un lle. Y mae yr ehedfaen, gan gael ei ddal yn llaw aswy y fenyw, yn cynorthwyo llawer iawn; nen groen oddiam neidr, wedi ei amwregysu oddeutu'r canol, yn nesaf i'r croen. Crybwyllir y pethau hyn gan *Mizaldus*; ond gan osod y pethau hyny o'r neilldu, er fod *Mizaldus* yn eu dyfyn-nodi,

y mae y cyfarwyddiadau canlynol yn dda iawn i roddi rhyddhad buan i fenywod mewn trafael.

1. Dyferwad gwin gwyn wedi ei wneuthur mewn *savory*, a'i yfed.

2. Cymerwch *dansey* gwyllt, neu *silver weed*, ysigwch ef, a chymhwyswch at ffroenau y fenyw.

3. Cymerwch gerrig *date*, a malwch hwy yn fân, a chymered haner dram o honynt ar unwaith mewn gwin gwyn.

4. Cymerwch bersli, ac ysigwch hwy, a gwesgwch allan y sudd, a throchwch liaian ynddo, a rhoddwch ef wedi ei drochi felly i fynu yn safn y groth; yn ddioed efe a bâr i'r plentyn ddyfod ymaith, er pe byddai yn farw, ac a ddwg ymaith yr hemysgar. Hefyd, y mae sudd persli yn beth o'r fath rinwedd mawr, fel, os yfir ef gan fenyw feichiog; y bydd iddo lanhau, nid yn unig y groth, ond hefyd y plentyn ynddi, oddiwrth bob gwlybyrau anmhur.

5 *Scruple o Castorum* yn bowdr, mewn unrhyw wlyb cyfleus, sydd dda iawn idd ei gymeryd yn y fath amgylchiad; ac felly hefyd mae dau nen dri dyferyn o *spirit o castorum* mewn unrhyw wlyb cyfleus; hefyd, wyth neu naw dyferyn of *spirit of myrr*, a'i roddi mewn unrhyw wlyb cyfleus, sydd yn rhoddi rhyddhad buan.

6. Rhoddwch i fenyw yn y fath amgylchiad laeth benyw arall idd ei yfed: efe a achlysura ryddhâd buan, ac heb braidd ddim poen.

7. Mae sudd cenin, a'i yfed gyda dwfr cynes, yn gweithredu yn fawr i beri rhyddhâd buan.

8. Cymerwch had blodeu'r brenin, a melwch hwy yn fân, a chymysgwch y powdr gydag

olew, gyda pha olew eneiniwch lwynau a dirgeloedd y fenyw a'r plentyn; rhydd ryddhâd iddi yn dra buan, a chyda llai o boen nac a ellir ei ddychmygu.

9. Cymerwch nyth gwennol, a thoddwch ef mewn dwfr, dyhidlwch, ac yfwch ef yn gynes; rhydd ryddhad yn dra buan, a chyda rhwyddineb mawr.

Sylwch ar hyn hefyd yn gyffredin, fod pob peth ag sydd yn symud y mis-glwyf yn dda er gwneuthur rhyddhàd yn esmwyth: megys myrr, ambr gwyn mewn gwin gwyn, nen ddwfr lili, dwy *scruple* neu ddram; neu *cassia lignea, dittany*, o bob un dram: synamwn haner dram; saffrwn, *scruple*; rhoddwch ddram: neu cymmerwch *borax mineral*, dram; *cassia lignea, scruple*; saffrwm chwe gronyn; a rhoddwch ef mewn gwin *sack*; neu cymerwch *cassia lignea*, dram; *dittany* ambr, o bob un dram; synamwn, *borax*, o bob un dram a haner; saffrwm, *scruple*; a rhoddwch haner dram iddi: neu rhoddwch iddi rai defnynau olew collen mewn gwlyb cyfleus; neu ddau neu dri dyferyn o olew synamwn, mewn dwfr cas gan gythraul (*vervain.*) Rhai a baratoant yr hemysgar fel hyn; Cymerwch llinyn y bogail a sychwch ef mewn ffwrn, cymerwch ddau ddram o'r powdr; synamwn, dram; saffrwm, haner scruple; gyda sudd *savin* gwnewch *drochisks*; rhoddwch ddau ddram; neu olchwch yr hemysgar mewn gwin, a chraswch mewn crochan; yna golchwch ef mewn dwfr *endive* a gwin; cymerwch haner dram o hono: pupyr hirion, *galangal*, o bob un haner dram; hâd *endive*, a dail llyriaid, o bob un dram a haner; hâd lafant, pedwar gronyn;

gwnewch bowdr: neu gymerwch *laudanum*, dau ddram; *storax*, *calamite*, *benzoin*,, o bob un haner dram; mwsg, ambyr, o bob un chwe' gronyn; gwnewch bowdr, neu *drochisks* i fygiad. Neu defnyddiwch orethau i gyffroi yr esgoriad; cymerwch *galbanum* wedi ei doddi mewn finegr, wns; myrr, dau ddram; saffrwm, dram; gydag olew ceirch, gwnewch oreth.

### *Enaint i'r Bogail.*

Cymerwch olew *heir*, dwy wns; sudd *savine* wns; o genin a *mercury*, haner wns o bob un; berwch hwy hyd dreuliad y sudd; ychwanegwch *galbanum* wedi ei doddi mewn finegr, haner wns; myrr, dau ddram, gwlyb *storax*, dram; llysiau'r galon crwn, *sowbread*, synamwn, saffrwm, dram: gyda chŵyr, gwnewch enaint, a chymhwyswch ef.

Os bydd yr esgoriad yn cael ei attal trwy wendid y fam, adfywiwch hi trwy gymhwyso gwin a sebon at y trwyn, *confect. alkermas diamarg*.

Gellir defnyddio y pethau hyn er cynnorthwyo natur yn y rhyddhâd pan y bydd y plentyn yn dyfod i'r esgoriad yn yr iawn ffordd, ac etto yr esgoriad yn cael ei attal; ond os canfyddir y plentyn yn dyfod heb fod ar iawn ffordd, ac heb fod yn allnog i ryddhau y fenyw fel y dylai fod, trwy gynnorthwy natur ac achub y fam a'r plentyn (canys nid digon yw rhoddi menyw i orwedd, os gellir ei wneuthur unrhyw ffordd arall gyda mwy o ddiogelwch a rhwyddineb. a llai o berygl i'r feuyw a'r plentyn,) yna anfoned ar frys am well a gallnoccach cynnorthwy, a pheidio a gwneuthur, fel y mae yn wybyddus i

mi ddarfod i fenyw un waith wneuthur, yr hon pau ydoedd menyw ag oedd hi idd ei rhyddhau mewn llafur caled, yn hytrach na gyru am ddyn, a gymerodd arni ei rhyddhau ei hunan, (er dywedyd wrthi mai gorchwyl dyn ydoedd) ac wrth iddi geisio gwneuthur hyny, a dynodd ymaith y plentyn, ond gadawodd ei ben yn nghroth y fam; a phe na buasïd wedi anfon am ddyn yn ddioed, buasai y fam yn gystal a'r plentyn wedi colli ei bywyd: dylai y fath bersonau gael eu galw yn gigyddion yn hytrach na byd-wragedd. Ond, a chymeryd yn ganiataol fod trafael y fenyw yn naturiol, dangosaf yn nesaf pa beth a ddylai y fyd-wraig ei wneuthur, i'r dyben o'i rhyddhau.

---

## Pen. 5.

*Am Drafael Naturiol; pa beth yw, a pha beth sydd i'r Fyd-wraig ei wneuthur yn y cyfryw Drafael,*

### Dosp. I.

Pa beth yw Trafael Naturiol.

Y Mae pedwar peth ag sydd yn dangos trafael neu lafur naturiol menyw, y cyntaf yw, ar iddo fod yn ei lawn amser; o herwydd os bydd yn dyfod ar fenyw cyn ei hamser, ni ellir yn briodol ei alw trafael naturiol; ychwaith ni fydd mor esmwyth a phe buasai wedi cwbl orphen ei naw mis. Yr ail beth yw, ar iddo fod yn fuan, ac heb unrhyw ddamwain: o herwydd, pan fyddo amser yr esgoriad wedi dyfod, nid yw natur yn hwyrfrydig i ddyfod ag

ef allan, heb i ryw ddrwg ddamwain ddigwydd, yr hyn sydd yn ei droi yn annaturiol. Y trydydd yw, fod y plentyn yn fyw; canys addef pawb, fod rhyddhâd o blentyn marw yn dra annaturiol. Y pedwerydd peth er esgoriad naturiol yw, fod y plentyn yn dyfod yn iawn: o herwydd os bydd gosodiad y plentyn yn y groth yn wrthwyneb i'r hyn sydd naturiol, y canlyniad a'i profa felly, trwy wneuthur yr hyn a ddylai fod yn amser bywyd yn farwolaeth y fam a'r plentyn.

Wedi i mi hysbysu i chwi fel hyn beth a feddyliaf wrth drafael naturiol, yn nesaf dangosaf pa fodd y dylai y fyd-wraig fyned y'mlaen yn hyny, mewn trefn i ryddhâd y fenyw. Pan fyddo yr holl anhepgorau (*requisites*) blaenorol yn cyd-daro, ac ar ol i'r dyfroedd ymdori o honynt eu hunain, arweinir y fenyw i wely bychan, (*pallet bed)* wedi ei baratoi yn agos i'r tân i'r dyben hwnw, fel y dywedwyd eisioes, a gosoder huling ar y *palet* yn hytrach na gwely plu, a chenych ar hyny lieiniau, yn llawer o blygiadau, ynghyd â'r cyfryw bethau eraill ag ydynt yn angenrheidiol, ac fel y galler eu newid, yn ol fel y byddo angenrheidrwydd yn gofyn, fel na byddo yn peri anghyfleustra i'r fenyw trwy y gwaed, y dyfroedd, a charthion eraill, y rhai a arloesir mewn trafael. Dylai y gwely fod wedi ei drefnu yn y fath ddull, fel y dylai y fenyw, a fyddo yn barod i gael ei rhyddhau, orwedd ar ei chefn arno, a chanddi ei chorph mewn ystum gyfleus; hyny yw, ei phen a'i brest wedi codi ychydig, fel ag y byddo rhwng gorwedd ac eistedd; canys wedi ei gosod felly y mae yn ablaf i anadlu, a'r un modd, bydd ganddi fwy

o nerth i oddef ei phoenau na phe gorweddai yn amgen, neu wedi soddi yn ei gwely. Wedi ei gosod felly, rhaid iddi daenu ei chluniau ar lêd, gan blygu ei choesau ychydig tuag at ei ffolenau, a'u codi ychydig gan obenydd bychan odditan-odd, fel y gallo ei chloren gael mwy o ryddid i gilio yn ol; a bydded idd ei thraed gael eu hattegu yn erbyn rhywbeth diysgog: heblaw hyn, cymered afael yn rhai o'r benywod da a fyddo yn gweini iddi â'i dwylaw, fel y gallo ymgynnal yn well yn ystod ei phoenau. Wedi ei gosod fel hyn yn agos i ochr ei gwely, a chanddi ei byd-wraig wrth law, i'r dyben o gynnorthwyo yn well fel y byddo natur yn gofyn, bydded iddi gymeryd calon, a chyn-northwyo ei phoenau goreu ag y gall, gan eu harwedd i lawr pan y cymerant hi, yr hyn a raid iddi wneuthur trwy ddal ei gwynt, a'u dir-gymmell cymmaint ag a fyddo modd, yn y cyffelyb fodd a phan fyddo yn myned i ymgarthu; o herwydd trwy y fath ymegniad, mae y *dia-pragma*, neu y llengig, gan gael ei gryf wthio tuag at i waered, o angenrheidrwydd yn dir-gymmell y groth a'r plentyn ynddi i lawr. Yn y cyfamser, ymdreched y fyd-wraig idd ei chysuro cymmaint ag a all, gan ei hannog i ddwyn ei thrafael yn galonog a dewr, gan ddywedyd wrthi y bydd yn fuan trosodd, ac nad oes ofn na chaiff hi ryddhâd buan. Bydded i'r fyd-wraig hefyd, heb fod ganddi fodrwyau am ei bysedd, ei heneinio âg olew neu fenyn croyw, a chyda hwy araf ledu briw-dwll tufewnol y groth, gan roddi blaenau ei bysedd yn y myned-iad i mewn o honi, ac yn eu hestyn y naill oddiwrth y llall, pan y bydd ei phoenau arni; gan

ymdrechu trwy y moddion hyn i gynnorthwyo y plentyn y'mlaen, a gwthio o fesur ychydig ac ychydig, ochrau y briw-dwll tu ag at ran ol pen y plentyn, gan ei eneinio ag ymenyn croyw, os bydd yn angenrheidiol.

Pan fyddo pen y baban wedi dyfod ychydig ymlaen i'r briwdwll tufewnol, dywediad y byd-wragedd yw, "Y mae wedi ei goroni;" o herwydd ei fod yn ei amwregysu a'i gylchynu yr un modd a choron; ond pan y byddo cyn belled fel ag y bydd yr eithafoedd yn dechreu ymddangos tu allan i'r rhanau dirgel, yna y dywedant, "Mae y plentyn yn y fynedfa; a'r pryd hwn mae y fenyw yn teimlo ei hunan fel pe byddai yn cael ei chripio, neu ei phigo â phinau, ac y mae yn barod i ddychymygu fod y fyd-wraig yn ei niweidio, pan y mae yn cael ei achlysuro gan arlediad tanbaid y rhanau hyny, a'r rhwygiad a achlysura faintioli pen y plentyn weithiau yno. Pan y mae pethau yn yr agwedd hon, boed i'r fyd-wraig eistedd yn gyfleus i dderbyn y plentyn, yr hwn yn awr a ddaw yn fuan, a chyda blaen-au ei bysedd, (y rhai a raid iddi fod yn sicr o'u blaen-dorri yn glos) ymdreched i wthio coron y groth (am yr hyn y traethais o'r blaen) yn ol dros ben y plentyn; a chyn gynted ag y byddo wedi dyfod y'mlaen cyn belled a'r clust-iau, neu oddeutu yno, cymered afael yn y ddwy ochr â'i dwylaw, fel pan y delo poen dda y gallo dynu y plentyn allan yn gyflym, gan gymeryd gofal na byddo llinyn y bogail wedi dyrysu oddeutu y gwddf, neu unrhyw ran arall, fel y mae weithiau, rhag trwy hyny i'r hemysgar gael ei dynu gyda thrais, ac hwyrach y groth hefyd, wrth ba un y mae wedi ei sicrhau, ac

felly peri iddi naill ai llifo, neu ynte torri y llinynau, pob un o ba rai ydynt o ganlyniad drwg i'r fenyw, rhyddhâd yr hon trwy hyny a ellir ei wneuthur yn fwy anhawdd. Rhaid sylwi yn ofalus hefyd, na byddo i'r pen gael ei dynu allan rhagblaen, ond gan gael ei ysgwyd ychydig o'r naill du i'r llall, fel y byddo i'r ysgwyddau gymmeryd eu lleoedd yn gynt a hawsach yn ddioed ar ol iddo bassio, heb golli dim amser, rhag, a'r pen wedi passio, y bydd i'r plentyn gael ei rwystro yno trwy helaethder yr ysgwyddau, ac felly dyfod i berygl o gael ei fogi a'i dagu yn y fynedfa, fel y digwydd weithiau, o ddiffyg gofal yn hyny. Ond cyn gynted ag y genir y pen, os bydd achos, hi a all lithro ei bysedd o dan bantiau y breichiau, a'r gweddill o'r corph a ddilyn heb unrhyw anhawstra.

Cyn gynted ag y byddo y fydwraig wedi tynu y plentyn allan yn y dull hwn, boed iddi ei osod ar un ochr, rhag i'r gwaed a'r dwfr, a ddilyn yn ddioed, wneuthur niwaid iddo, trwy redeg idd ei safn a'i drwyn, megis ag y gwnelent pe byddai yn gorwedd ar ei gefn, ac felly peryglu ei dagu. Wedi geni y plentyn fel hyn, y peth nesaf sydd yn ofynol yw, dwyn ymaith yr hemysgar: ond cyn hyny, bydded y fyd-wraig yn dra gofalus i chwilio pa un a oes yna ychwaneg o blant yn y groth; o herwydd weithiau gall fod efeilliaid gan fenyw nad oedd yn disgwyl hyny; yr hyn a all y fyd-wraig ei wybod yn hawdd, trwy barhâd y poenau ar ol geni y plentyn, a maintioli bol y fam. Ond gall fod yn fwy sicr o hyny os rhydd ei llaw i fynu yn mynediad i mewn y groth, a chanfod dwfr arall

yn ymgasglu, a phlentyn ynddo yn cyfeirio i'r fynedfa; ac os caiff allan felly, rhaid iddi ofalu am beidio ceisio yr hemysgar, hyd oni byddo y fenyw wedi ei rhyddhau o'r holl blant y byddo hi yn feichiog arnynt. O herwydd paham rhaid tori y llinyn cyntaf, wedi yn gyntaf ei rwymo âg edef tri neu bedwar dwbl, a sicrhau y pen arall â llinyn wrth gluniau y fenyw, i attal yr anghyfleustra a all beri trwy grogi rhwng ei chluniau; ac yna, gan symud y plentyn a anwyd eisioes, rhaid iddi gymeryd gofal idd ei rhyddhau o'r gweddill, gan gadw at yr holl amgylchiadau a gymerodd ie gyda'r cyntaf; wedi hyny bydd yn anghenreidiol cymeryd ymaith yr hemysgar neu'r hemysgaroedd. Ond ymdriniaf â hyny mewn dosparth arall; a chaf ddangos yn gyntaf pa beth sydd idd ei wneuthur â phlentyn newydd eni.

---

## Dosbarth II.

### Am Dori Llinyn Bogail y Plentyn.

ER na chyfrifir hyn gan lawer ond peth bychan, etto rhaid cymeryd mawr ofal yn ei gylch; ac nid y medr a'r cywreinrwydd lleiaf o eiddo byd-wraig yr hon a'i gwna yn iawn y mae yn ei ddangos; ac fel y galler ei wneuthur felly, dylai y fyd-wraig sylwi ar, 1 Yr amser. 2 Y lle. 3 Y dull. 4 Y canlyniad.

1. Yr amser yw, cyn gynted byth ag y delo y baban allan o'r groth, pa un bynag ai fydd yn dwyn rhan o'r hemysgar gydag ef ai peidio; canys weithiau dwg y plentyn i'r byd ddarn o'r *amnios*

ar ei ben, yr hyn a eilw y byd-wragedd pen-wisg (*caul*) ac yn anwybodus priodolant ryw rinwedd hynod i'r plentyn a enir felly; ond nid yw y dyb hon ddim ond effaith eu hanwybodaeth; canys pan enir y plentyn gyda'r goron (fel y geilw rhai ef) ar ei aeliau, yn gyffredin y mae yn rhag-ddangos gwendid, ac yn arwyddo einioes fer. Ond i fyned ymlaen gyda'r matter mewn llaw. Cyn gynted ag y delo y plentyn i'r byd, dylid ystyried pa un ai cryf ai gwan yw; aç os gwan a fydd, bydded i'r fyd-wraig yn araf roddi rhan o'r gwaed bywydol a naturiol yn ol yn nghorph y plentyn trwy ei fogail; o herwydd mae hyny yn adgryfhau plentyn gwan (gan fod yr ysbrydoedd bywydol a naturiol yn cael eu cyfranu gan y fam i'r plentyn trwy linyn y bogail;) ond os bydd y plentyn yn gryf mae y gweithrediad yn ddiangenrhaid. Yn unig gadewch i mi eich annog trwy hyspysu, y gall llawer o blant a enir mewn ymddangosiad yn feirw, yn fuan gael eu bywhau drachefn, os bydd i chwi wasgu chwech neu saith dyferyn o waed allan o'r rhan hono o linyn y bogail a dorwyd ymaith, a'i roddi i'r plentyn yn dufewnol.

2. Mewn perthynas i'r lle neu'r man y dylai gael ei dori, hyny yw, pa un a ddylai gael ei dori yn hir neu yn fyr, dyna yw'r hyn na all awdwyr ond yn anfynych gyduno ynddo, a'r hyn y mae llawer o fyd-wragedd yn ymddèru fyn ei gylch; rhai yn cyfarwyddo idd ei dori o led pedwar bys, yr hon nid yw, ar y goreu, ond rheol ansicr, oni bai fod pob bys o'r un faint. Y mae yn dyb dderbyniedig, fod y rhannau sydd wedi eu haddasu er cenhedliad, yn cael eu cyfyngu neu eu ehangu yn ol fel y torrer llinyn y

bogail; a hyn yw yr achos pa ham y mae byd-wragedd yn gyffredin mor garedig at eu hystlen eu hunain, fel y maent yn gadael rhan hirach o linyn bogail gwrryw na benyw, o herwydd y mynant gael gwrrywod wedi eu hiawn ddarparu gogyfer âg ymdrechiadau *Fenws*; a'r rheswm a roddant pa ham y maent yn torri eiddo y benywod yn fyrach, yw, o herwydd eu bod yn credu ei fod yn eu gwneuthur yn wylaidd, a'u dirgeloedd yn gulach, yr hyn sydd yn eu gwneuthur yn fwy derbyniol gan eu gwŷr. Nid oedd *Mizaldus* yn hollol o'r un farn a'r byd-wragedd hyn, a chan hyny gorchymynai efe i linyn y bogail gael ei dori yn hir mewn plant gwrrywaidd a benywaidd; am yr hyn y rhoddai y rheswm hwn, fod offeryn cenhedlu yn dilyn ei gyfartalwch; a chan hyny os torrir ef yn rhy fyr mewn benyw bydd yn rhwystr iddi gael plant. Nid af o ddeutu gwrth-ddywedyd tybiau *Mizaldus*, hyn y mae profiad wedi eu gwneuthur yn dda:—Un yw, os goddefir i linyn bogail plentyn gyffwrdd â'r llawr, ar ol ei dori, ni wna y plentyn byth ddal ei ddwfr, ond bydd yn ddarostyngedig i wneuthur dwfr o'i anfodd holl ddyddiau ei fywyd. Y llall yw, fod cario dernyn o linyn y bogail oddeutu un, fel ag i gyffwrdd ei groen, yn amddiffyn yr hwn sydd yn ei wisgo rhag yr haint ddigwydd (*epilepsy*) a dir-gryniadau.

4. Mewn perthynas i'r dull y rhaid ei dori: bydded i'r fyd-wraig gymeryd edef wineu, yn ddyblyg bedwar neu bum' waith, oddeutu tair troedfedd o hyd, wedi ei chlymu â chwlwm sengl yn mhob pen i rywstro iddynt ddyrysu; a chyda'r edef hon wedi ei chyfaddasu felly (pa un

a raid fod yn barod gan y fyd-wraig cyn trafael y fenyw, a'r un modd pâr o welleifiau da, fel na choller dim amser,) bydded iddi rwymo y llinyn o fewn modfedd i'r ból, â chwlwm dyblyg, a chan droi pen yr edef o gwmpas, rhwymed ddau ychwaneg ar du arall y llinyn, gan ei adwneuthur drachefn os bydd yn angenrheidiol; a thored ymaith y bogail fodfedd arall islaw y rhwymynau, tu a'r hemysgar, fel na byddo yn aros ond dwy fodfedd o'r llinyn, ynghanol pa un y bydd y cwlwm yr ydym yn siarad am dano, yr hwn a raid fod wedi ei gylymu mor dỳn fel ag i beidio goddef i ddyferyn o waed i ymwasgu allan o'r llestri; ond rhaid cymeryd gofal am beidio a'i gylymu mor dýn fel ag idd ei dorri yn ddau, a chan hyny, rhaid i'r edef fod yn lled drwch, a'i thori yn lled dỳn, gan mai gwell yw ei bod yn rhy dèn nag yn rhy làc; o herwydd fod rhai plant wedi colli eu bywyd yn druenus, gyd a'u holl waed, cyn y darganfyddwyd hyny, am fod llinyn y bogail heb ei iawn gylymu; gan hyny rhaid cymeryd gofal na byddo i ddim gwaed wasgu trwodd; canys os gwna, rhaid gwneuthur cwlwm newydd â'r gweddill o'r llinyn. Ni raid i chwi ofni rhwymo llinyn y bogail yn dra chaled, o herwydd ei fod yn amddifad o deimlad, a syrth y rhan hòno ydych yn ei adael o hono ymaith o honi ei hun mewn ychydig ddyddiau, weithiau mewn chwech neu saith, neu yn gynt, ond nid yw un amser yn aros yn hwy nag wyth neu naw. Pan fyddoch fel hyn wedi tòri llinyn y bogail, yna cymerwch ofal na byddo i'r dernyn a syrth ymaith gyffwrdd â'r llawr, o herwydd y rheswm a hyspysais i

chwi a roddes *Mizaldus*, yr hyn y mae profiad wedi ei gadarnhau.

4. Y peth olaf a grybwyllais ydoedd, y canlyniad, neu yr hyn sydd yn dilyn toriad llinyn y bogail. Cyn gynted ag ei torer ymaith, cymhwyswch ychydig *cotton* neu *lint* at y lle idd ei gadw yn gynnes, rhag i'r oerfel fyned i mewn i gorph y plentyn, yr hyn a wna yn dra sicr oni byddwch wedi ei rwymo yn ddigon caled. Os bydd y *lint* neu y *cotton* a gymhwysẃch wedi ei drochi mewn olew *rhoses*, bydd yn well; ac yna rhoddwch gerpyn bychan arall yn dri neu bedwar dwbl ar y bol: ar dop y cwbl, rhoddwch atteg bychan arall; ac yna rhwymwch ef â rhwymyn lliain, lled pedwar bys, idd ei gadw yn ddiysgog, rhag trwy symud gormod, neu trwy gael ei gynhyrfu yn barhaus o du i du, y daw i syrthio ymaith cyn i linyn y bogail a adawsoch yn aros gwympo. Arferiad cyffredin byd-wragedd yw rhoddi dernyn o gerpyn llosgedig wrtho; ond cynghorwn i hwy yn hytrach i roddi ychydig *ammoniac* wrtho o herwydd ei gynneddf sychol.

---

## Dosp. III.

NI ellir dywedyd fod benyw wedi ei rhyddhau yn dêg, er y bydd y plentyn wedi ei eni, hyd nes bydd yr hemysgar hefyd wedi ei gymeryd oddiwrthi: yn hyn y mae yn gwahaniaethu oddiwrth y rhan fwyaf o anifeiliaid, pa rai, wedi iddynt ymddwyn eu rhai ieuaingc, nid ydynt yn bwrw

allan ddim ond rhyw ddyfroedd, a'r pilionenau a'u cynnwysant. Ond y mae i fenywod ôl-drafael (*after-labour*) yr hwn weithiau sydd yn tori allan yn fwy peryglus na'r cyntaf; a pha fodd idd ei gyrchu ymaith yn ddiogel, heb niwaid iddi, a gaiff fod fy ngorchwyl idd ei ddangos yn y ddosparth hon.

Cyn gynted ag y genir y plentyn, cyn i'r fyd-wraig rwymo na thori llinyn y bogail, rhag i'r groth gau, cymered y llinyn, a dirwyned ef unwaith neu ddwy oddeutu un neu ddau o fysedd y llaw chwith, wedi eu huno y'nghyd, i'r dyben o'i ddal yn well, gyda'r hon y gall ei dynu yn gymedrol, a chyda'r llaw dde hi a all gymeryd gafael sengl ynddo yn unig, uwchlaw yr aswy, yn agos i'r dirgeloedd, gan dynu yr un modd gyda hono yn dra araf, gan orphwys am yr amser, y bys blaen o'r un llaw wedi ei ledu a'i ehangu y'mlaen ar hyd y llinyn tu a mynediad i mewn y *vagina*, gan sylwi bob amser, er mwy hwylusdod, am ei dynu o'r ochr lle yr ymlyna yr hemysgar leiaf; o herwydd, trwy wneuthur felly, ymwahana y gweddill yn well; a rhaid cymeryd gofal arbenig na byddo iddo gael ei dynu allan yn rhy ffyrnig, rhag trwy dori y llinyn yn agos i'r hemysgar, y bydd gorfod ar y fyd-wraig roddi ei holl law yn y groth i ryddhau y fenyw; ac y mae yn angenrheidiol iddi hi, yr hon a gymer arni hyny, fod yn berson tra medrus, rhag i'r groth, wrth yr hon y mae yr hemysgar hwn weithiau wedi ei sicrhau yn dra chadarn, gael ei thynu ymaith gydag ef, fel y mae wedi digwydd rai troiau. Gan hyny y mae yn well defnyddio y cyfryw feddyginiaethau ag a allant gynnorthwyo natur. Ac yna sylwer, fod yr

hyn a ddwg ymaith yr esgoriad, hefyd yn dwyn ymaith yr hemysgar. A chan hyny, er dwyn i ben y gwaith hwn, gosodaf i lawr y rheolau canlynol:

1. Defnyddiwch yr un moddion yn nygiad ymaith yr hemysgar, ag y gwnaethoch ddefnydd o honynt i ddwyn ymaith yr esgoriad; canys y mae yr un gofal ac ystyriaeth mor angenrheidiol yn awr ag oedd y pryd hyny.

2. Ystyrier na all y fenyw mewn trafael lai na bod wedi ei gwanhau yn fawr trwy yr hyn y mae wedi ei ddioddef eisoes yn nygiad allan y baban; gan hyny, byddwch sicr o roddi rhywbeth iddi idd eï chysuro. Ac yn yr amgylchiad hwn glud-gawl da, hefyd ychydig win a *thost* ynddo, a phethau dyddanus eraill, a fyddant dra angenrheidiol.

3. Ychydig *hellebore* gwyn yn fân, i wneuthur iddi disian, sydd dra phriodol yn yr achos hwn.

4. Mae *tansey*, a'r garreg *ætites*, a'u cymhwyso fel y cyfarwyddwyd o'r blaen, o ddefnydd da yn yr achos hwn.

5. Os bydd i chwi gymeryd llysieuyn câs gan gythraul, (*vervain*) ac naill ai ei ferwi mewn gwin, neu wneuthur cyflaith â'i sudd, yr hyn a ellwch ei wneuthur trwy ychwanegu atto ddwbl ei bwysau o siwgr, (wedi i chwi buro y sudd cyn ei ferwi,) rhoddi llonaid llwy i'r fenyw sydd dra effeithiol i ddwyn ymaith yr hemysgar; a gweithreda llysiau Ieuan a *featherfew* yr un peth, a'i gymeryd yr un modd a'r blaenorol.

6. *Alexander* wedi ei ferwi mewn gwin, ac yfed y gwin; hefyd *sweet cervil, sweet cicily*, gwreiddiau llysiau yr ysgyfaint, a *musterwort*. ydynt feddyginiaethau rhagorol yn yr achos hwn.

7. Neu, os na wna hyn y tro, y mae yn wybyddus ddarfod i fŵg gold Mair wedi ei dderbyn i fynu i ddirgelocdd menyw trwy ffynell (*funnel*) ddwyn ymaith yr hemysgar, hyd yn nôd wedi i'r fydwraig ollwng ei gafael.

8. Berwch lysiau Ieuan mewn dwfr hyd oni bydd yn dra meddal; yna cymerwch ef allan a chymhwyswch ef yn ol dull *pwltis* at fogail y fenyw mewn trafael, ac yn ddioed tyn ymaith yr esgoriad a'r hemysgar. Ond rhaid cymeryd gofal arbenig am ei symud cyn gynted ag y deuant ymaith, rhag trwy ei arosiad hir y bydd iddo dynu y groth hefyd.

---

## Dosp. IV.

**Am Drafel poenfawr ac anhawdd, a pha fodd y mae i'r Fyd-wraig fyned y'mlaen yn hyny.**

Y Mae tri math o drafael drwg, oll yn boenus ac anhawdd, ond heb fod oll yn briodol yn annaturiol. Bydd yn angenrheidiol gan hyny i wahaniaethu y rhai hyn.

Y *cyntaf* o'r rhai hyn yw hwnw ymha un y mae y fam a'r plentyn yn dyoddef yn fawr iawn trwy boen ac anhawstra dirfawr, hyd yn nod er i'r plentyn ddyfod yn iawn; ac y mae hwn yn wahaniaethol yn cael ei alw y llafur poenfawr.

*Yr ail*, yw yr hwn sydd yn anhawdd, ac nid yw yn gwahaniaethu llawer oddiwrth y cyntaf, oddieithr ei fod, heblaw y poenau anghyffredin hyny, yn gyffredin yn cael ei ddilyn gyda rhyw ddigwyddiadau annedwydd, yr hyn, trwy attal yr esgoriad, sydd yn achos o'r anhawstra; ond

wedi symud yr anhawsderau hyn, y mae yn prysuro yr esgoriad, ac yn cyflymu y rhyddhâd.

Mae rhai wedi gofyn pa beth yw yr achos fod benywod yn ymddwyn eu plant gyda chymaint o boen? Yr wyf yn atteb, Mae y synwyr o deimlad yn cael ei ddosparthu i'r holl gorph trwy y gewynau; a chan fod safn y groth mor gaeth, fel y rhaid iddi o angenrheidrwydd gael ei lledu yn amser rhyddhâd y fenyw, y mae ymlediad yr unrhyw yn estyn y gewynau, ac oddi wrth hyny y mae y poen yn dyfod. A chan hyny yr achos fod mwy o boenau ar rai benywod yn eu trafael nag eraill sydd yn deilliaw oddi wrth fod safn y groth yn fwy llawn o ewynau nag eraill.

Y ffordd oreu i symud yr anhawsderau hyny ag ydynt yn achos o boenau celyd a llafur, yw, dangos yn gyntaf o ba le y deilliant, Yn awr, y mae anhawstra llafur yn deillio naill ai oddi wrth y fam, y plentyn, neu ynte y ddau.

Oddi wrth y fam, o achos anhwylder y corph, neu oddi wrth ryw ran neillduol yn unig, ac yn benaf y groth, megis pan mae y fenyw yn wàn, a'r fam heb fod yn fywiog i fwrw allan ei baich, neu oddiwrth wendid neu afiechyd, neu ddiffyg ysbrydoedd; neu gall fod oddiwrth ryw nwydau cryfion o eiddo y meddwl gyda'r hwn y meddiennid hi o'r blaen; gall fod hefyd yn rhy ieuangc, ac felly y fynedfa ynddi yn rhy gaeth; neu yn rhy hen, ac yna, os ei phlentyn cyntaf a fydd, o herwydd ei phoenau yn rhy sychion a chelyd, ac na ellir yn hawdd eu lledu, fel y digwydd hefyd i'r rhai hyny ag ydynt yn rhy deneuon; yr un modd hefyd y rhai hyny ag ydynt fychain, byrion, neu afluniaidd; megis,

benywod ceimion, y rhai nad oes ganddynt anadl digon cryf i gynnorthwyo eu poenau, a'u harwedd i lawr, ac weithiau mae y personau hyny ag ydynt geimion, ac esgyrn y fynedfa heb fod mewn iawn ffurf. Mae y *colig* hefyd yn attal trafael, trwy rwystro gwir boenau, a phob poenau mawrion ac awchus, megis pan gymerir y fenyw gan dwymyn tanbaid, dylifiad mawr, dirgryniadau mynych, dylifiad gwaed, neu unrhyw afiechyd mawr arall. Hefyd, y mae daliad yn ol y carthion yn achos o anhawstra mawr, ac felly carreg yn y bledren; neu pan y mae y bledren ynllawn o bision, heb fod yn alluog idd ei arloesi; neu pan fyddo y fenyw yn cael ei blino gan eriau (*biles*) mawrion a phoenus. Hefyd gall fod oddiwrth y mynedfeydd, pan fyddo y pilionenau yn dewion, y briw-dwll yn rhy gaeth, a gwddf y groth heb fod yn ddigon agored, y mynedfeydd yn cael eu gwasgu a'u dirdroi gan ddymchwyddiadau yn y rhanau cyfagos, neu, pan fyddo yr esgyrn yn rhy gedyrn, ac na wnant agor, yr hyn sydd yn peryglu y fam a'r plentyn yn fawr; neu pan nad yw y mynedfeydd yn llithrig, o achos fod y dyfroedd wedi ymdori yn rhy fuan, neu fod y pilionenau yn rhy deneuon.

Gall y groth hefyd fod yn annhrefnus o barth ei drwg gyflëad, neu gyflunaid, a chanddi ei gwddf yn rhy gaeth, caled, a dideimlad, yr hon a all fod felly yn naturiol hawdd, neu fyned trwy ddamwain, gan ei fod yn cael ei achlysuro lawer gwaith gan ddymchwydd llynorod, gorfa, (*ulcer*) neu gnawd gormodol.

Mewn perthynas i drafael caled yn cael ei achlysuro gan y plentyn, yr hwn a fydd pan ddi-

gwydd i'r plentyn lynu wrth bêl y famog, neu pan y mae mor wan fel na all dori y pilionenau; neu os bydd yn rhy fawr yn mhob rhan, neu yn y pen yn unig, neu os bydd y llestri bogeiliawl wedi eu nydd-droi oddeutu ei wddf; pan y mae y bòl yn ddyfr-glwyfus; neu pan y mae yn anghenfilaidd; a chanddo ddau ben, neu yn unedig â phlentyn arall; hefyd pan y mae y plentn yn farw, neu mor wán fel na all gyfranu dim tuag at ei enedigaeth; yr un modd pan y mae yn dyfod o'i ffordd, neu pan y mae dau neu ychwaneg. Ac at yr holl amrywiol anhawsderau hyn y mae yn fynych un yn ychwaneg, a hwnw yw, anwybodaeth y fyd-wraig, yr hon o eisiau deall ei gorchwyl, sydd yn attal natur yn ei gwaith, yn lle ei chynnorthwyo.

Wedi i mi fel hyn edrych i mewn i achosion trafael caled, dangosaf yn awr i'r fyd-wraig lafurus pa fodd y gall weini peth cynnorthwy i'r fenyw mewn trafael o dan yr amgylchiadau dyrys hyn. Ond y mae yn gofyn bod deall ac iawn farn yn y fydwraig, pan y cenfydd fenyw mewn trafael dyrus, i adnabod yr attalfa bennodol, neu yr achos o hyny, fel y galler cymhwyso meddyginiaeth gymmwys; megis, er engrafft, pan y digwydd trwy fod y fam yn rhy ieuangc, a rhy gaeth, rhaid ei thrin yn esmwyth, ac eneinio y mynedfeydd gydag olew, bloneg mochyn, neu fenyn croyw, idd eu llaccau a'u lledu yn haws, rhag i rwygiad ddigwydd yn unrhyw ran pan enir y plentyn; canys weithiau y mae y weren fòl yn torri, gyda'r croen o ddirgeloedd yr eisteddfod.

Ond os bydd y fenyw yn oedranus gyda'r plentyn cyntaf, eneinier ei rhanau isaf, i feddalu

ac ystwytho y briw-dwll tufewnol yr hwn yn y cyfryw amgylchiad, trwy fod yn galetach a mwy didcimlad, nid yw yn hawdd yn ildio i ymlediad y trafael, yr hyn yw y gwir achos pa ham y mae y cyfryw fenywod yn hwy mewn trafael, ac hefyd pa ham y mae eu plant, gan gael eu dir-gymell yn erbyn briw-dwll tufewnol y groth, (pa un, fel y dywedais, sydd yn o galed) yn cael eu geni gyda chwyddiadau mawrion a chleisiau ar eu penau.

Y benywod hyny ag ydynt yn dra bychain ac afluniaidd, ni ddylent gael eu rhoddi yn eu gwelyau, o leiaf, hyd oni byddo eu dyfroedd wedi ymdori, ond yn hytrach eu cadw yn syth, a'u cynnorthwyo i gerdded oddeutu yr ystafell, trwy gael eu cynnal dan eu breichiau; canys, trwy hyny, hwy a anadlant yn rhwyddach, ac a gyweiriant eu poenau yn well nag ar y gwely, o herwydd eu bod yno yn gorwedd yn gwbl yn un twmpath. Mewn perthynas i'r rhai hyny ag ydynt yn dra theneu, ac arnynt lafur caled o achos hyny, bydded iddynt ireiddio y rhanau gydag olew ac enaint, i'w gwneuthur yn llyfnach a llithricach, fel na byddo i ben y baban a'r groth gael eu gwasgu a'u cleisio felly trwy galedrwydd èsgyrn y fam, y rhai ydynt yn ffurfio y fynedfa. Os gwendid a fydd yr achos, dylai gael ei chryfhau, i'r dyben o allu cynnal ei phoenau yn well: i ba ddiben y rhoddwch iddi lud-gawl da, ac ychydig win a *thost* ynddo. Os bydd yn ofni ei phoenau, cysurer hi, gan sicrhau iddi na fydd raid iddi oddef llawer yn ychwaneg, ond y rhyddheir hi mewn ychydig amser. Ond os araf a bychain fydd ei phoenau, neu heb ddim fodd yn y byd, rhaid eu cyffroi

rwy chwistrell-feddyginiaethau mynych a lled
ryfion; bydded iddi gerdded o ddeutu yr ystafell
el y gall pwysau y plentyn eu cynnorthwyo
'mlaen. Os bydd yn dyfrio, (*flood*) neu os
ydd dirgryniadau cryfion arni, yna rhaid ei
elpio trwy ryddhâd cyflym; traethaf am y
weithrediad yn y dosparth am drafaeliadau
nnaturiol. Os rhwym a fydd, bydded iddi
ldefnyddio chwistrell-feddyginiaethau, y rhai a
llant hefyd gynnorthwyo i chwalu y *colig*, yr
yn sydd yr amserau hyny yn dra niweidiol, o
erwydd y dilynir ef gan boenau difudd, ac o
erwydd nad yw y cyfryw yn arwedd tuag i
vaered, ac felly heb fod yn cynnorthwyo i yru
r esgoriad y'mlaen. Ond os bydd yn canfod
nrhyw rwystr neu attaliad ar y pision, o
erwydd fod y groth yn ymgynnal gormod ar y
ledren, coded ei ból i fynu ychydig â'i llaw, a
wneuthur cais trwy hyny, i edrych a dderbyn
i unrhyw les: os cenfydd na bydd, angenrheid-
ol fydd arwain i mewn *catheter* idd ei phledren,
c â'r offeryn hwnw dynu allan ei phison. Os
ydd yr anhawstra oddiwrth ddrwg ystum y
enyw, gosoder hi yn amgen, mewn ystum mwy
ymmwys a chyfleus iddi; hefyd os bydd yn
leillio oddiwrth anhwylderau y groth, megis
ddiwrth ei sefyllfa ŵyrog, &c. rhaid ei feddyg-
niaethu, cystal ag y gellir, trwy osod ei chorph
yn gyfatebol; neu, os cyfluniad drwg a fydd,
a chanddi y gwddf yn rhy galed, rhy ddideimlad,
ac yn rhy gaeth, rhaid ei eneinio gydag olew ac
enaint, fel y cyfarwyddwyd o'r blaen. Os bydd
 pilionenau mor gryfion fel ag na thyr y dyfr-
edd mewn amser dyledus, gellir eu torri â'r
bysedd, os bydd y fyd-wraig yn dra sicr yn

gyntaf fod y plentyn wedi dyfod y'mlaen i'r fynedfa, ac yn barod i ddilyn yn ddioed wedi, os amgen, gall y plentyn, trwy dorriad y dyfroedd yn rhy fuan, fod mewn perygl o aros yn sych am hir o amser; i wneuthur i fynu y diffyg hwn, gellwch ireiddio y rhanau â thwym-enein-iadau, dyferwadau, ac olew meddalhaol; yn hyn etto nid yw haner cystal a phan y mae natur yn gwneuthur ei gwaith yn ei hamser ei hun, gyda'r llys a'r dyfroedd cyffredin. Mae y pillionenau hyn weithiau yn gwasgu y'mlaen gyda'r dyfroedd led tri neu bedwar bys allan o'r corph o flaen y plentyn, yn debyg i bledren llawn o ddwfr; ond y pryd hyny nid oes perygl mawr o'u torri, os na byddant wedi torri eisioes; o herwydd pan y mae yr amgylchiad felly mae y plentyn bob amser yn barod i ddilyn, gan ei fod yn y fynedfa; ond bydded i'r fyd-wraig fod yn dra gofalus i beidio a'i dynu â'i llaw, rhag i'r hemysgar trwy hyny gael ei ryddhau cyn ei amser, canys y mae yn ymlynu wrthynt yn dra chadarn. Os digwydd i linyn y bogail ddyfod yn gyntaf, rhaid ei roddi i fynu drachefn yn ddioed, a'i gadw felly os bydd modd, os amgen, rhaid rhyddhau y fenyw yn ddioed. Os daw yr hemysgar yn gyntaf, ni ddylid ei roddi i fynu drachefn er dim; o herwydd, gan nad oes mwy o achos am dano i'r baban, ni byddai ond rhwystr pe rhoddid ef i fynu; yn yr achos hwn rhaid ei dorri ymaith, wedi y rhwymer llinyn y bogail, ac wedi hyny tyner allan y plentyn, gyda chymmaint o frys ag a fyddo modd, rhag iddo gael ei fogi.

## Dosp. V.

### Am Fenywod mewn trafael gyda phlentyn marw.

PAN fyddo anhawstra neu ddyryswch trafael yn cyfodi oddiwrth blentyn marw, y mae yn achos o berygl mawr i'r fam, a dylid cymeryd mawr ofal yn hyny; ond cyn y gwneler unrhyw beth, dylai y fyd-wraig fod yn sicr fod y plentyn mewn gwirionedd yn farw, yr hyn a ellir ei wybod wrth yr arwyddion hyn:

1. Mae y brestiau yn ddisymwyth yn llaesu, neu yn cwympo yn wastad, neu yn ymgrynhoi i lawr. 2. Mae anwyd mawr yn meddianu bol y fam, yn enwedig oddeutu y bogail. 3. Mae ei phision yn dew, ac y mae drygsawr ffiaidd yn sefydlu yn y gwaelod. 4. Ni ellir canfod dim ysgogiad o eiddo y plentyn; er prawf o hyn rhodded y fyd-wraig ei llaw mewn dwfr cynes, a'i gosod ar ei bol; canys gwna hyny iddo, os bydd yn fyw, ymsymud, 5. Y mae hi yn dra darostyngedig i freuddwydio am ddynion meirw, ac i gael ei dychrynu trwy hyny. 6. Y mae arni flysiadau anghyffredin i fwyta y cyfryw bethau ag ydynt wrthwyneb i natur. 7. Mae ei hanadl yn drewi, er na arferai fod felly. 8. Pan y mae yn ymdroi yn ei gwely, neu yn cyfodi i fynu, mae y plentyn yn ymsymud y ffordd hono yr un fath a thelpyn o blwm.

Wedi sylwi yn fanwl ar y pethau hyn, gall y fyd-wraig iawn farnu pa un ai byw ai marw ydyw y plentyn, yn enwedig os cymera y fenyw y cyfarwyddiad canlynol: "Cymerwch haner peint o win gwyn a llosgwch ef, ac ychwanegwch at hyny haner wns o synamwn, ond heb

ddim per-lysiau eraill, pa bynag; ac wedi iddi ei yfed, os bydd poenau ei thrafael yn dyfod arni, mae y plentyn yn sicr yn farw; ond os na fyddant, fe allai fod y plentyn naill ai yn wan neu glaf, ond nid yn farw; dwg hyn ei phoenau arni os bydd yn farw, ac a adfywia y plentyn, ac a rydd esmwythyd iddi hithau, os bydd yn fyw; canys mae synamwn yn adfywio ac yn cryfhau y plentyn.

Yn awr, os canfyddir ar brawf, fod y plentyn yn farw, bydded i'r fam wneuthur cymaint ag a all i hwylio yn mlaen y rhyddhad, o herwydd na all plentyn marw fod mewn unrhyw fodd yn gynnorthwyol i hyny. Bydd yn rheidiol iddi, gan hyny, gymeryd rhyw bethau cysurus, idd ei hattal i ddiffygio, o achos yr agerdd ddrewllyd fydd yn esgyn oddiwrth y plentyn marw. Ac fel y galler ei rhyddhau, cymered y llysiau canlynol, wedi eu berwi mewn gwin gwyn, (neu o leiaf cymaint o honynt ag a allwch eu cael,) *dittany*, *betony*, brymlys, saeds, *featherfew*, bustl y ddaear, dail eiddew, a mân-aeron. Hefyd cymered *sweet bazil*, yn fân, haner dram ar unwaith, mewn gwin gwyn; eneinied y dirgeloedd â sudd *tansey* gerddi. Neu cymerwch y *tansey* yn yr haf, pan ellir cael helaethrwydd o hono, a chyn iddo flodeuo, wedi ei ysigo yn dda, berwch ef mewn olew, hyd oni byddo ei sudd wedi treulio. Os gosodwch ef yn yr haul ar ol i chwi ei gymysgu ag olew, bydd yn fwy effeithiol. Dylai hwn hefyd fod yn ymyl byd-wraig ddiwyd, yr hon a fynai fod wedi ymbaratoi erbyn pob digwyddiadau. Mewn perthynas i ddull ei rhyddhad, rhaid defnyddio yr un ffordd ag a grybwyllir yn nosbarth trafael

naturiol. Ac yma ni allaf lai na chanmol y garreg *ætites* etto, a'i dal yn agos i'r dirgeloedd, rhinwedd tŷnol pa un sydd yn ei gwneuthur yn dra angenrheidiol ar yr achos hwn, canys hi a dŷna y plentyn unrhyw ffordd, gyd a'r un rhwyddineb ag y gwna yr ehedfaen â'r haiarn.

Bydded i'r fyd-wraig hefyd wneuthur dyferwad cryf o issop gyda dwfr, a bydded i'r fenyw ei yfed yn dra phoeth, ac mewn ychydig amser dwg ymaith y plentyn marw.

Os, cyn gynted ag y rhyddheir hi o blentyn marw, y byddwch mewn amheuaeth fod rhan o'r hemysgar wedi ei adael yn ol yn y corph (canys yn fynych, yn y fath amgylchiad a'r rhai hyn, y mae yn pydru, ac yn dyfod ymaith bob yn ddarn,) parhaed i yfed yr un dyferwad nes byddo ei chorph wedi ei lanhau.

Dyferwad wedi ei wneuthur o'r llysieuyn *muster wort*, a'i arfer yr un modd a dyferwad issop, a weithia yr un peth. Bydded i'r fyd-wraig hefyd gymeryd gwreiddiau *pollodum*, a'u pwyo yn dda; cynheswch ychydig arnynt, a rhwymwch hwy ar ochrau ei thraed, ac yn fuan dygant ymaith y plentyn naill ai yn farw neu yn fyw.

Y meddyginiaethau canlynol yr un modd ydynt y cyfryw ag sydd yn cyffroi ac yn annog y gynneddf i fwrw allan; ond yn yr achos hwn rhaid eu gwneuthur yn gryfach.

Cymerwch *savine*, llysiau'r galon, *trochisks of myrrh*, gwreiddiau *afaram*, synamwn, saffrwm, o bob un haner dram; gwnewch bowdr, a rhoddwch iddi ddram.

Neu gall ymgarthu yn gyntaf, ac yna cymhwyso pethau meddalhäol, gan ei heneinio o

ddeutu y groth gydag olew lili, *sweet almonds, camomile,* saim gwydd ac ieir. Hefyd twym-eneiniwch, i gael allan y plentyn, gyda dyferwad *mercury,orris,cucumbers* gwylltion,*saccus,* blodeu banadl. Yna eneiniwch y dirgeloedd a'r lwynau gydag enaint *sowbread.* Neu,

Cymerwch *coloquintida,agaric,* llysiau'r galon, o bob un dram; gwnewch bowdr; ychwanegwch *ammoniacum* wedi ei doddi mewn gwin, bustl ych, o bob un ddwy ddram; gydag olew *keir* gwnewch enaint. Neu yr hyn a ganlyn:—

Cymerwch lysiau'r galon, *orris, hellebore* du, *coloquintida,* myrr, o bob un dram; *ammoniacum* yn llwch wedi ei doddi mewn gwin, bustl ych, o bob un ddwy ddram. Neu gwnewch fygiad â charn asyn wedi ei losgi, *gallianum,* neu *gastor,* a doder ef i mewn gyda ffynell. *(funnel)*

I gymeryd ymaith boenau, a chryfhau y rhanau, twym-eneiniwch gyda dyferwad llysiau Ieuan, hoccys, *rosemary,* gyda myrtwydd coed, *St. John's wort,* o bob un haner wns; *spermaceti,* dwy ddram; gyda chŵyr gwnewch enaint. Neu,

Cymerwch gŵyr chwe' wns, *spermaceti* wns; toddwch hwy, trochwch lin yn hyny, a gosodwch ef tros yr holl fòl.

Os na wna yr un o'r pethau hyn, y feddyginiaeth olaf ydyw defnyddio llaw-feddygaeth, ac yna yn ddioedi dylai y fyd-wraig anfon am golwynwr (*Man-midwife*) cyfarwydd a galluog, idd ei rhyddhau trwy weithrediad dwylaw; am yr hyn y traethaf ychwaneg yn y bennod nesaf.

## Pen. 6.

### Am Drafael Annaturiol.

WRTH ddangos dyledswydd byd-wraig, pan y mae llafur benyw feichiog yn annaturiol, bydd yn ofynol dangos, yn y lle cyntaf, pa beth a feddyliaf wrth lafur annaturiol; o herwydd, i fenywod ddwyn plant mewn poen a gofid, sydd naturiol a chyffredin i bawb. Gan hyny, yr hwn a alwaf fi yn llafur annaturiol yw, pan fyddo plentyn yn dyfod i'r esgoriad mewn agwedd neu ystum wrthwyneb i'r hon ag y mae natur wedi ei threfnu, ac yn yr hon y mae y rhan fwyaf o blant yn dyfod i'r byd.

Yr esgoriad iawn a naturiol yw, pan fyddo y plentyn yn dyfod â'i ben y'mlaenaf; o herwydd os bydd unrhyw ran o'r pen heblaw y coryn yn dyfod yn mlaenaf, fel nad yw y corph yn dilyn yn union-syth, esgoriad beius ac anhawdd ydyw, hyd yn nôd er fod y pen yn gyntaf. Gan hyny, os bydd y plentyn yn dyfod â'i draed yn gyntaf, neu gyda'r ochr ar draws, y mae yn hollol groes i natur, neu, i ddweud yn eglurach, yr hwn a alwaf fi yn annaturiol.

Yn awr, y mae pedair o ffyrdd cyffredin yn y rhai y gall plentyn ddyfod yn feius. 1. Pan y byddo unrhyw o ranau blaen y corph yn ymddangos gyntaf. 2. Pan, trwy unrhyw draws-ddodiad annedwydd, y mae unrhyw o ranau ôl y corph yn ymddangos yn gyntaf. 3. Pan y mae un o'r ochrau, neu, 4. y traed yn ymddangos yn gyntaf. I hyn y gellir edfryd y gwahanol ystumiau beius ag y gall plentyn ymddangos ynddynt.

## Dosp. I.

**Pa fodd i ryddhau Menyw o Blentyn marw trwy weithrediad dwylaw.**

PAN y mae gweithrediad dwylaw yn angenrheidiol, bydded i'r gweithredydd hyspysu i'r fenyw am yr angenrheidrwydd anhebgorol sydd am y cyfryw weithrediad ; a chan fod y plentyn eisoes wedi colli ei fywyd, nad oes un ffordd arall i achub yr eiddo hithau. Hyspysed iddi hefyd, er ei chalonogi, nad oes amheuaeth ynddo, (trwy fendith dwyfol) na all ei rhyddhau yn ddiogel; ac na fydd y boen a gyfoda trwy hyny yn gymaint ag y mae hi yn ei ofni. Yna bydded iddo ymdrechu i gyffroi poenau y fenyw trwy roddi iddi ryw chwistrell feddyginiaeth llym, i gynhyrfu ei thafliadau i arwedd i lawr, a dwyn allan y plentyn. Ac os na lwydda hyn, eled y'mlaen gyda'r gweithrediad llaw. (*manual operation.*)

Yn gyntaf, gan hyny, gosoder hi ar draws y gwely fel y gallo weithredu gyda mwy o rwyddineb, a gorwedd ar ei chefn, gyda'i chluniau ychydig yn uwch na'i phen, neu o leiaf y corph wedi ei osod yn gyfartal, pan y bydd yn angenrheidiol rhoddi y baban yn ol neu ei droi yn ol i roddi gwell ystum iddo. Yn y sefyllfa hon, rhaid iddi blygu ei choesau fel ag y byddo ei sodlau tua'i morddwydydd, a'i chluniau ar led, a rhaid eu dal felly gan gwpl o bersonau cryfion; rhaid bod yno eraill hefyd idd ei chynnal dan ei breichiau, fel na byddo i'r corph lithro i lawr pan dyner y plentyn allan; i'r hyn, weithiau, y mae yn gofyn cryfder mawr. Bydded i'r cyn-

fasau a'r gwrthbanau orchuddio ei chluniau er mwyn gweddeidd-dra, ac mewn ystyriaeth o'r rhai ydynt yn cynnorthwyo, ac hefyd i rwystro iddi gael anwyd; a'r gweithredydd yn hyn yn llywodraethu ei hun yn gystal mewn perthynas idd ei gyfleustra, a rhwyddineb a diogelwch ei gweithrediad, a phethau eraill. Yna eneinied fynedfa y groth gydag olew neu ymenyn croyw; os bydd yn angenrheidiol, fel y gallo roddi ei law i mewn yn rhwyddach, yr hon hefyd a raid fod wedi ei heneinio; ac wedi derbyn o hono foddlonrwydd, trwy yr arwyddion rhaggrybwylledig, mai plentyn marw yw, rhaid iddo wneuthur ei oreu i'w dynu ymaith cyn gynted ag y byddo modd. Os pen y plentyn fydd yn ymgynyg gyntaf, rhaid iddo ei roddi yn ol yn araf, hyd oni bo ganddo ryddid i arwain ei law yn hollol i'r groth; yna, gan eu llithro ymlaen, o dan y bol, i gaffael y traed, tyned ef allan wrthynt hwy, gan fod yn dra gofalus am gadw y pen rhag cael ei gloi yn y fynedfa, ac na byddo iddo gael ei wahanu oddiwrth y corph; yr hyn a ellir ei ddwyn i ben yn haws, o herwydd fod y plentyn, yn bod yn dra phwdr a braenus, ni raid i'r gweithredydd fod mor ofalus am gadw y frest a'r wyneb i wared ag mewn genedigaethau byw. Ond er hyn oll, os bydd i'r pen, o herwydd braender y plentyn, gael ei wahanu a'i adael ar ol yn y groth, rhaid ei dynu allan yn ol y cyfarwyddiadau a roddir yn y trydydd dosparth o'r bennod hon. Ond pan y byddo y pen, gan ddyfod yn gyntaf, wedi dyfod cyn belled ymlaen fel na ellir yn hawdd ei roddi yn ei ol, gwell yw ei dynu allan felly, na phoeni gormod ar y fenyw trwy ei roddi yn ol idd ei

droi a'i dynu gerfydd y traed: ond a'r pen yn rhan crwn a llithrig, gall ddigwydd na bydd y gweithredydd yn gallu cymeryd gafael ynddo â'i fysedd, o herwydd ei ireidd-der na'u rhoddi i fynu idd ei ochr, o herwydd fod y fynedfa wedi ei llenwi â'i faintioli; gan hyny rhaid iddo gymeryd rhyw offeryn priodol, a'i roddi i fynu cyn belled ag y gall, heb drais, rhwng y groth a phen y plentyn, gan sylwi am gadw ei flaen tuag at y pen, (o herwydd gan fod y plentyn yn farw o'r blaen, ni all fod dim perygl yn y gweithrediad,) a bydded iddo ei sicrhau yno, gan roddi iddo afael dda ar un o esgyrn y pen-glog, fel na byddai iddo lithro, ac wedi iddo gael ei sefydlu yn dda yn y pen, gall gydag ef ei dynu allan, gan gadw blaenau bysedd ei law chwith yn *fflat* ar yr ochr wrthwynebol, i'r dyben o gynorthwyo idd ei rhyddhau yn well, a thrwy ysgwyd ychydig arno, ei arwain yn union-gyrchol allan o'r fynedfa, hyd oni byddo y pen wedi ei hollol eni; ac yna, gan gymeryd gafael ynddo â'r dwylaw yn unig, gellir tynu yr ys-gwyddau i'r fynedfa, ac felly, a llithro bysedd y ddwylaw dan bantiau y breichiau, gellir ei hollol ryddhau; ac yna, i orphen y gweithrediad, rhaid ceisio yr hemysgar, gan fod yn ofalus am beidio tynu gormod ar linyn y bogail, rhag iddo dori, fel y digwydd yn fynych, pan y mae yn llygredig.

Os bydd y plentyn marw yn dyfod a'r fraich i fynu hyd yr ysgwydd, wedi chwyddo i'r fath raddau dirfawr, fel y rhaid i'r fenyw oddef gormod o drais trwy ei roddi yn ol, gwell y pryd hyny yw (wedi cael sicrwydd da yn gyntaf ei fod yn farw,) ei gymeryd ymaith gerfydd

cymalau yr ysgwyddau, trwy ei nydd-droi (*twist*) o gwmpas dair neu bedair gwaith, yr hyn a wneir yn dra hawdd o herwydd meddalwch a thynerwch y corph. Wedi gwanhau y fraich felly, ac heb ei bod yn meddianu y fynedfa ddim hwy, bydd gan y gweithredydd fwy o le i roddi ei law i fynu yn y groth, i gyrchu y plentyn wrth y traed, a'i ddwyn ymaith.

Ond er fod y gweithredydd yn sicr fod y plentyn yn farw yn y groth, eto ni ddylai yn ddioed ddefnyddio offerynau at hyny, o herwydd nid ydynt un amser idd eu harfer ond pan nad yw dwylaw yn ddigonol, a phan na bo un feddyginiaeth arall i attal perygl y fenyw, neu i ddwyn allan y plentyn unrhyw ffordd arall; a'r gweithredydd synwyrol a ddewisa y ffordd hono sydd ddiogela a lleiaf o berygl ynddi.

---

## Dosp. II.

**Pa fodd y mae yn rhaid rhyddhau Benyw, pan y mae traed y Plentyn yn dyfod gyntaf.**

NID oes dim yn fwy amlwg i'r rhai hyny, gorchwyl pa rai yw cynnorthwyo benywod mewn llafur, nag mai'r amrywiol ystumiau annaturiol, yn y rhai yr ymgyflwyna ar eu hesgoriad, ydynt yr achosion o'r rhan fwyaf o ddrwg drafaeliadau a damweiniau niweidiol ag ydynt yn digwydd iddynt yn y cyflwr hwnw.

Ac yn gymaint a bod gorfod ar fyd-wragedd yn fynych, o herwydd y cyflëadau annaturiol, dynu plant allan gerfydd y traed, tebycaf mai y ffordd fwyaf addas yw dangos yn gyntaf, pa fodd y dylid tynu ymaith blentyn a ymgyf-

lwyna yn yr ystum hóno, o herwydd y bydd yn arweinydd i amryw o'r gweddill.

Gwn yn wir mai cyngor amryw awdwyr yn yr achos hwn, yw newid y ffurf, a gosod y pen fel y gallo ymgyflwyno i'r esgoriad; a'r cyngor hwn a fyddwn yn dra thueddol idd ei ddilyn, pe gallent hwy ond dangos i mi pa fodd y gellir ei wneuthur. Ond ymddengys yn dra anhawdd, os nad yn annichonadwy, ei gyflawni, os mynwn ochelyd y perygl ag y rhaid rhoddi y fam a'r plentyn ynddo trwy y fath gyffroadau a thriniad tanbaid; a chan hyny, fy marn i yw, mai gwell yw tynu allan gerfydd y traed, pan yr ymgyflwyna yn yr ystum hóno, nac anturio damwain waeth wrth ei droi.

Cyn gynted, gan hyny, ag y byddo y dyfroedd wedi ymdori, ac y gwybyddir fod y plentyn yn dyfod fel hyn, a bod y groth yn ddigon agored i ollwng llaw y fyd-wraig neu y gweithredydd i mewn iddi, (os amgen, trwy eneinio y fynedfa gydag olew neu saim mochyn, i ymdrechu idd ei lledu yn raddol, gan ddefnyddio ei bysedd i'r dyben, trwy eu lledu y naill oddiwrth y llall, ar ol eu rhoddi i mewn y'nghyd, a pharhau i wneuthur felly hyd oni byddant wedi ymledu digon) yna, gan ofalu am fod ei hewinedd wedi eu naddu yn dda, ac heb fodrwyau ar ei bysedd, a'i dwylaw wedi eu heneinio yn dda, gydag olew neu ymenyn croyw, a'r fenyw wedi ei gosod yn y dull y cyfarwyddwyd yn y ddosparth flaenorol, bydded iddi yn arfa roddi ei llaw i mewn yn mynedfa i mewn y groth, yn mha fan, gan gael allan draed y plentyn, bydded iddi ei dynu allan yn y dull a gaf yn bresenol ei chyfarwyddo ynddo; yn unig edryched pa un ai a fydd yn

cyflwyno un troed neu y ddau; os dim ond un troed, dylai ystyried pa un ai y troed de' ai yr un aswy a fydd, ac hefyd y'mha ddull y mae yn dyfod: canys, trwy hyny, daw yn fuan i wybod pa fodd i gael y llall, yr hwn, cyn gynted ag y gwybydd, ac y daw o hyd iddo, bydded iddi ei dynu allan yn araf gyda'r llall; ond rhaid iddi gymeryd gofal neillduol o hyn, sef, nad traed plentyn arall fydd yr ail; o herwydd, os felly, gall fod o'r canlyniad mwyaf angeuol, canys gall hollti y fam a'r plentyn yn gynt nag y galler eu tynu allan; ond gellir rhagflaenu hyn yn hawdd, os bydd iddi ond llithro y llaw i fynu ar hyd y goes gyntaf a'r glun i fynu, ac yno cael y ddwy glun yn unedig, ac yn disgyn o'r un corph. A hon hefyd yw y ffordd oreu i gael allan y troed arall pan y bydd yn dyfod gyda dim ond un.

Cyn gynted ag y byddo y fyd-wraig wedi caffael dau droed y plentyn, gall eu tynu allan, a chan eu dal y'nghyd, gall eu cyrchu o fesur ychydig ac ychydig yn y dull hwn; a chymeryd gafael wedi hyny yn y breichiau a'r cluniau cyn gynted ag y gall ddyfod hyd attynt, gan eu tynu felly hyd oni bydd y cluniau wedi dyfod allan. Tra byddo hyn yn cael ei wneuthur, sylwed am blygu y rhanau mewn lliain sengl, fel na byddo i'w dwylaw, yn bod bob amser yn seimlyd, lithro ar gorph y baban, yr hwn sydd yn dra llithrig, o herwydd gwlybyrau gwydus ag ydynt drosto i gyd, ac yn attal i ddyn gymeryd gafael da ynddo; wedi gwneuthur hyn, hi a all gymeryd gafael dan fôn y cluniau, fel ag idd ei dynu allan hyd ddechreuad y *frest*; a bydded iddi, a'i llaw ar y ddwy ochr, ddyfod a llaw y plentyn

i lawr ar hyd ei gorph, y rhai a all hi yn hawdd eu cael; ac yna gofaled am fod bol a gwyneb y plentyn i waered: o herwydd, pe byddent ar i fynu, byddai peth perygl iddo gael ei attal wrth yr ên; a chyn hyny, os na bydd felly, rhaid iddi ei droi i'r ystum hwnw: yr hyn a ellir ei wneuthur yn hawdd os bydd iddi gymeryd gafael cyfaddas yn y corph pan fyddo y frest a'r breichiau allan, yn yr un dull ag y dywedasom, a'i dynu, gan ei droi yn gyfartal ar yr ochr hono y mae yn tueddu fwyaf iddi, hyd oni byddo wedi ei droi a'i wyneb i lawr; ac felly wedi ei ddwyn hyd at yr ysgwyddau, na cholled ddim amser, gan ddymuno ar y fenyw ar yr un pryd i arwedd i lawr, fel wrth dynu felly, y gall y pen y munudyn hwn gymeryd ei le, a pheidio cael ei attal yn y fynedfa. Mae rhai plant a'u penau mor fawr, fel wedi geni yr holl gorph, etto bydd hwnw yn attal y fynedfa, er i'r fyd-wraig gymeryd pob gofal ag oedd ddichonadwy i luddias hyny. A phan ddigwydd hyn, rhaid iddi ymdrechu i dynu allan y plentyn gerfydd yr ysgwyddau, gan ofalu na bydd iddi wahanu y corph oddiwrth y pen, (mal y mae yn wybyddus i mi ddarfod i fyd-wraig wneuthur,) gan ei ryddhau o fesur ychydig ac ychydig oddiwrth yr esgyrn y fynedfa gyda bysedd y ddwy law, gan eu llithro o bob tu gyferbyn â'u gilydd, weithiau uwchlaw, ac weithiau îslaw, hyd oni orphener y gwaith; gan ymdrechu idd ei orphen cyn gynted ag y byddo modd; rhag i'r plentyn gael ei fogi, fel y caiff yn anocheladwy os parhâ yn hir yn yr ystum hono; ac wedi dwyn hyn i ben yn iawn a gofalus, gall

yn fuan wedi, gyrchu ymaith yr hemysgar, fel y cyfarwyddais o'r blaen.

---

## Dosp. III,

Pa fodd i gyrchu ymaith Ben y Plentyn pan wedi ei wahanu oddi wrth y Corph, a'i adael ar ei ol yn y groth.

ER cymeryd y gofal mwyaf yn nygiad allan blentyn gerfydd y traed, eto os digwydd ei fod wedi marw, y mae weithiau mor fraenus a llygredig, fel wrth y tyniad lleiaf y bydd y pen yn ymwahanu ohdiwrth y corph, ac yn aros yn unig yn y groth, ac ni ellir ei ddwyn allan ond trwy weithredïad llaw (*manual operation*) ag anhawstra mawr, gan ei fod yn dra llithrig, o herwydd y lle yn yr hwn y mae, ac oddiwrth grynder ei ffurf, ymha un ni ellir gafaelyd yn iawn, a chymaint yw yr anhawstra mawr yn yr achos hwn, fel rai troion, bu gorfod i ddau neu dri o ymarferwyr galluog mewn byd-wreigiaeth, y naill ar ol y llall, adael y gweithrediad heb ei orphen, heb fod yn alluog idd ei ddwyn i ben, ar ol ymdrechiadau mwyaf eu diwydrwydd, medr, a gallu ; fel ag y darfu i'r fenyw, heb fod yn abl ei rhyddhau, drengu. I ragflaenu y fath ddamwain angeuol, sylwer ar y gweithrediad canlynol.

Pan ymwahana pen y maban oddiwrth y corph, ac y gadewir ef yn unig yn ol, pa un bynag a'i trwy fraender neu yn amgen, bydded i'r gweithredydd yn ddioed, heb aros, tra y mae y groth etto yn agored, gyfeirio ei law dde'

fynu i safu y pen (canys ni ellir cael unrhyw dwll arall yno,) ac wedi ei chael allan, rhodded un neu ddau o'i fysedd ynddi, a'r fawd dan ei ên, yna tyned ef o fesur ychydig ac ychydig, gan ei ddal gerfydd y cernau; ond os syrth y rhai hyny, fel y gwna weithiau, pan wedi braenu, yna tyned allan y llaw ddê', a llithred ei aswy i fynu, gyda'r hon rhaid iddo gynnal y pen, a chyda'r dde cymered offeryn cul, elwir cromfach, (*crotchet*) ond bydded yn un cryf, a chydâ chaingc unigol iddo, yr hwn a raid iddo ei wthio ar hyd tufewn ei law, gyda'i flaen tuag atti, rhag ofn niweidio y groth; ac wedi iddo fel hyn ei arwain i mewn, bydded iddo ei droi tuag at y pen, i daro naill ai mewn twll llygad, neu dwll clust, neu o'r tu ol i'r pen, neu ynte rhwng cyswllt yr iâd fel y cenfydd hi yn fwyaf cyfleus a rhwydd; ac yna tynu allan y pen wedi ei sicrhau felly, gyda'r offeryn crybwylledig, ac o hyd yn cynorthwyo idd ei arwain â'i law aswy; ond wedi iddo ei ddwyn yn agos i'r fynedfa, wedi ei sicrhau yn gadarn wrth yr offeryn, cofied am dynu allan ei law, fel y byddo i'r fynedfa, gan beidio cael ei llenwi ganddi, fod yn fwy a rhwyddach, gan gadw o hyd fys neu ddau ar ochr y pen, i'r dyben o'i rhyddhau yn well.

Mae ffordd arall hefyd, gyda mwy o rwydd-ineb a llai caledi na'r un flaenorol: cymered y gweithredydd rwymyn meddal neu lain o liain, oddeutu lled pedwar bys, ac o ddwy i dair troedfedd o hyd; neu oddeutu hyny: gan gymeryd y ddau ben yn y llaw aswy, a'r canol yn y dde', a rhodded ef felly i fynu gyda'i dde' fel y byddo tu hwnt i'r pen, idd ei gofleidio fel gwna ffon dafl â charreg, ac wedi hyny tyned

y rhwymyn allan gerfydd y ddau ben ynghyd, a'r rhwymyn nid yw yn attal y fynedfa leiaf, o herwydd nid yw yn cymeryd ond ychydig neu ddim cyfwng.

Wedi cyrchu y pen o'r groth, rhaid gofalu na byddo i'r rhan leiaf o hono gael ei adael yn ol, ac hefyd i lanhau y fenyw yn dda oddiwrth ei hemysgar, os bydd etto yn aros. Os bydd yr hemysgar wedi ei hollol wahanu oddiwrth ochrau y groth, hwnw a ddylid yn gyntaf ei dynu allan, o herwydd y gall yntau hefyd fod yn attaliad i gael gafael yn y pen. Ond os bydd o hyd yn ymlynu wrth y groth, ni ddylid ymhela âg ef hyd oni thyner y pen ymaith; o herwydd pe ymdrechai un idd ei wahanu oddiwrth y groth, yna gellai fod yn achos o ddyfriad neu lifiad, yr hyn a gynyddid trwy danbeidrwydd y gweithrediad; y llestri wrth ba rai y mae wedi ei uno yn aros am y rhan fwyaf yn agored cyhyd ag y byddo y groth wedi ei harledu, yr hyn mae y pen yn ei achlysuro tra y delir ef ynddi, ac ni all gau hyd oni ymadewir â'r un anghynefin hwn, a hyn y mae yn ei wneuthur trwy ymgyfyngu ac ymwasgu ynghyd, megis ag yr amlygwyd yn helaethach o'r blaen, Heblaw hyny, mae yr hemysgar trwy aros fel hyn, gan ymlynu wrth ry groth yn ystod y gweithrediad, yn ei hattal hag derbyn yn hawdd na chlais na niwaid.

## Dosp. IV.

**Pa fodd i ryddhau Benyw pan fyddo Pen y Plentyn yn ymgyflwyno i'r Esgoriad.**

ER y gall rhai dybied mai trafael naturiol yw, pan fyddo pen y plentyn yn dyfod ymlaenaf; etto, os na ymgyflwyna pen y plentyn yn yr iawn ffordd, llafur annaturiol yw hyd yn nod hwnw; a chan hyny, er y bydd y pen yn dyfod yn gyntaf, eto, os ei ochr a fydd yn lle ei goryn, y mae yn dra pheryglus i'r fam a'r plentyn, canys torrid gwddf y plentyn pe genid ef yn y dull hwnw, a pha mwyaf y bydd poenau y fam yn arwedd *(bear)* y plentyn, yr hyn sydd amhosibl, oni osodir y pen yn iawn, mwyafoll y mae y mynedfeydd yn cael eu hattal. Gan hyny, cyn gynted ag y daw cyflëad y plentyn yn adnabyddus, rhaid dod[1] y fenyw i orwedd gyda phob brys, rhag i'r plentyn ddyfod y'mlaen ymhellach i'r agwedd ddrygiog hon, a thrwy hyny ei wneuthur yn anhawsach idd ei wthio yn ol, yr hyn a raid ei wneuthur i'r dyben o osod y pen yn iawn yn y fynedfa, fel y dylai fod.

I'r dyben hwn, gan hyny, gosodwch y fenyw fel ag y byddo ei ffolenau ychydig yn uwch na'i phen a'i hysgwyddau, gan beri iddi ogwyddo ychydig ar yr ochr hono sydd yn wrthwyneb i ddrwg ystum y plentyn; yna bydded i'r gweithredydd lithro ei law i fynu, wedi ei heneinio yn dda âg olew, gydag ochr pen y plentyn i ddyfod ag ef yn araf yn iawn gyda'i fysedd, rhwng y pen a'r groth; ond os bydd y pen wedi dyrysu cymaint na ellir ei wneuthur y ffordd hono, rhaid iddo roddi i fynu ei law at yr ys-

gwyddau, fel trwy ei gwthio yn ol ychydig i'r groth, weithiau ar un ochr ac weithiau ar y llall, y gall o radd i radde roddi mewn cyflëad naturiol. Cyfaddefaf y byddai yn well, pe gallai y gweithredydd roddi y plentyn yn ei ôl wrth yr ysgwyddau gyda'i ddwy law: ond y mae y pen yn cymeryd cymmaint o le, fel mai o'r braidd y gall roddi un i fynu, gyda pha un y rhaid iddo gyflawni y gweithrediad hwn, a chyda chynnorthwy blaenau bysedd y llaw arall gyru yn mlaen esgoriad y plentyn, megis pan fyddo y trafael yn naturiol.

Rhai plant a gyflwynant eu hwynebau yn flaenaf, a chanddynt eu penau wedi eu troi yn ol, y'mha ystum y mae yn dra anhawdd i blentyn gael ei eni; ac os parhâ yn hir felly, y wyneb a chwydda, ac a ddaw yn ddu a glâs, fel ar y cyntaf yr ymddengys yn anghenfilaidd, yr hyn a achlysurir, yn gystal oddiwrth ei wasgiad yn y lle hwnw, ac oddiwrth fod bysedd y fyd-wraig yn ei drin, i'r dyben o'i osod mewn gwell ystum. Ond treulia y düwch hwn ymaith mewn tri neu bedwar diwrnod o amser trwy ei eneinio yn fynych âg *oil of sweet almonds.* I ryddhau yr esgoriad, rhaid defnyddio yr un gweithrediad ag yn yr un blaenorol, pan y daw y plentyn gydag ochr y pen yn gyntaf; yn unig bydded i'r fyd-wraig neu weithredydd weithio yn dra araf ac esmwyth, i ochelyd cymmaint ag a fyddo modd rhag cleisio y wyneb.

## Dosp. V.

**Pa fodd i ryddhau Benyw pan yr ymgyflwyna y Plentyn Law, neu y ddwy Law y'nghyd â'r Pen.**

WEITHIAU bydd i'r baban ymgyflwyno rhyw ranau eraill y'nghyd â'i ben; yr hyn os gwna, ei law neu ei ddwy law yn gyffredin a fydd; ac y mae hyn yn attal yr esgoriad, o herwydd fod y dwylaw yn cymeryd i fynu ran o'r fynedfa hono ag sydd yn ddigon bechan i'r pen yn unig: heblaw eu bod pan ddigwydd hyn, yn gyffredin yn achos i'r pen ogwyddo i un ochr; a chan hyny hawdd y gellir galw yr ystum hon yn annaturiol. Pan yr ymgyflwyna y plentyn fel hyn, y peth sydd idd ei wneuthur, ar ol ei ganfod yw, ei attal i ddyfod i lawr y'mhellach i'r fynedfa; a chan hyny rhaid i'r gweithredydd, wedi gosod y fenyw ar y gwely gyda'i phen ychydig yn îs na'i ffolenau, dywys llaw y baban, neu ei ddwy, os bydd y ddwy yn dyfod i lawr, a'u rhoddi yn ol i wneuthur lle idd ei ben, ac wedi gwneuthur hyn, os ar un ochr y bydd y pen, rhaid ei ddwyn idd ei ystum naturiol, i ganol y fynedfa, fel y gallo ddyfod yn wastad, ac yna ewch y'mlaen fel y cyfarwyddwyd yn y ddosparth flaenorol.

---

## Dosp. VI.

**Pa fodd i ryddhau Benyw, pan fyddo Dwylaw a Thraed y Baban yn dyfod yngbyd.**

NID oes neb ar na chaniatant yn rhwydd, nad annaturiol a raid fod llafur benyw, pan yr

ymgyflwyna y baban ei ddwylaw a'i draed ynghyd: o herwydd fod yn annichonadwy i blentyn gael ei eni yn y dull hwnw. Yn yr achos hwn, gan hyny, pan rydd y fyd-wraig ei llaw yn mriw-dwll y groth, ni chenfydd ond yn unig lawer o fysedd yn *glos* ynghyd; ac os na bydd wedi ei lledu yn ddigonol, bydd yn gryn amser cyn y gellir gwahaniaethu y traed a'r dwylaw; canys y maent weithiau wedi eu cau a'u gwasgu ynghyd i'r fath raddau, fel yr ymddangosant o fod oll yn un ac o'r un ffurf; ond, lle y byddo y groth yn ddigon agored i roddi y llaw i mewn ynddi, hi a wybydd yn hawdd pa rai fydd y dwylaw a pha rai fydd y traed; ac wedi sylwi yn bennodol ar hyny, bydded iddi lithro ei llaw i fynu, ac yn ddioed ei harwain at frest y baban, yr hon a gaiff hi yn bur agos, ac yna bydded iddi yn dra araf wthio y corph yn ei ol tua gwaelod y groth, gan adael y traed yn yr un lle ac y cafodd hwynt: ac yna, wedi iddi osod y fenyw mewn ystum gyfleus, hyny yw, ei ffolenau wedi eu codi ychydig yn uwch na'i brest a'i phen (yr hon sefyllfa y dylid gofalu am ei bod ynddi pan fyddo y plentyn i gael ei roddi yn ol yn y groth) bydded i'r fyd-wraig wedi hyny gymeryd gafael yn y plentyn gerfydd ei draed, a'i dynu allan, fel y cyfarwyddir yn yr ail ddosbarth.

Mae y trafael hwn, er yn lled flinderus, etto yn llawer gwell na phan y bydd y plentyn yn dyfod a'i ddwylaw yn unig; canys y pryd hyny rhaid troi y plentyn yn hollol o gwmpas cyn y gellir ei dynu allan: ond yn y dull hwn y maent yn barod, ac nid oes ond ychydig idd ei wneuthur heblaw codi a gwthio yn ol y rhan uchaf o'r

corph, yr hyn a wna braidd o hono ei hun, trwy ei dynu gerfydd ei draed yn unig.

Addefaf fod llawer o awdwyr a ysgrifenasant am drafael y rhai a fynent droi pob camesgoriadau i ffurf naturiol; yr hyn yw, eu troi fel y gallo ddyfod gyda'r pen ymlaenaf. Ond y rhai a ysgrifenasant fel hyn ydynt y cyfryw ag na ddeallasant y rhan ymarferol erioed; o herwydd pe byddent yn meddu y profiad lleiaf yn hyny, hwy a wyddent fod hyn yn dra mynych yn annichonadwy; o leiaf, pe y'i gwnelid, y rhaid o angenrheidrwydd, arfer trais yn ei wneuthuriad ag a fyddai yn dra thebygol yn achos o farwolaeth y fam a'r plentyn yn y weithred. Gan hyny gosodwn hi i lawr fel rheol gyffredin, pa bryd bynag y bydd i blentyn ymgyflwyno i'r esgoriad ar gam, y'mha ystum bynag, o'r ysgwyddau i'r traed, mai y ffordd oreu, a'r gyntaf, yw ei dynu allan gerfydd ei draed; ac mai gwell chwilio am danynt, oni fyddant yn dyfod eu hunain, nag ymdrechu idd ei roddi yn yr ystum naturiol, a gosod y pen y'mlaenaf; canys y mae yr ymdrechiadau mawrion ag sydd yn angenrheidiol idd eu harfer yn nhröad y baban yn y groth yn gwanhau cymaint arno ef a'i fam, fel na bydd digon o gryfder wedi ei adael yn ol i gyflawni y gweithrediad i waith natur; o herwydd, yn gyffredin, nid oes gan y fenyw ddim mwy o dafliadau neu boenau cymmwys i drafael ar ol iddi gael y fath driniaeth; o herwydd pa ham ni byddai ond tra anhawdd, a phoenus ar y goreu; a byddai y plentyn, gan y byddai trwy y fath weithrediad wedi ei wneuthur yn dra gwan, mewn perygl dirfawr o drengu cyn y gellid ei eni. Gan hyny, mae yn llawer gwell

yn yr amgylchiadau hyn ei ddwyn allan yn ddioed gerfydd y traed; gan chwilio am danynt, mal y cyfarwyddais eisoes, pan na fyddant yn dyfod eu hunain; trwy yr hyn yr attelir y ddynes rhag llafur poenus, ac y dygir y plentyn yn fynych yn fyw i'r byd, yr hwn, pe amgen, o'r braidd y diangai rhag marwolaeth.

---

## Dosp. VII.

### Pa fodd i Ryddhau Benyw a fyddo ganddi Efeilliad, y rhai a fyddant yn dyfod mewn gwahanol ystumiau.

Yr ydym eisoes wedi traethu rhywbeth am enedigaeth gefeilliaid yn y bennod am drafael naturiol; canys nid trafael annaturiol noeth yw cael gefeilliaid, a chymeryd yn ganiataol eu bod yn dyfod i'r esgoriad mewn iawn ystum. Ond pan y deuant mewn gwahanol ystumiau, y maent yn briodol yn dyfod dan y cyfenwad trafael annaturiol; ac, os pan fyddo un plentyn yn dyfod yn feius, y bydd yn gwneuthur y llafur yn beryglus ac annaturiol, rhaid y bydd yn ei wneuthur yn llawer mwy felly pan fyddo amryw, ac yn ei wneuthur nid yn unig yn fwy poenus i'r fam a'r plant, ond i'r gweithredydd, sef y meddyg, hefyd, canys byddant yn fynych yn blino y naill y llall, ac yn attal genedigaethau eu gilydd; heblaw hyny, y mae y groth wedi ei llenwi i'r fath raddau â hwy, fel na all y gweithredydd o'r braidd roddi i mewn ei law heb drais mawr, yr hyn a raid iddo ei wneuthur, os ydynt, i gael eu troi neu eu gwthio yn ôl, i roddi iddynt well ystum.

Pan y mae benyw yn feichiog ar ddau blentyn, anfynych y maent yn dyfod i'r esgoriad ynghyd, bydd un yn gyffredin yn fwy y'mlaen na'r llall; a hyny yw yr achos na theimlir ond un, ac nad yw y fyd-wraig yn fynych yn gwybod fod yno efeilliaid, hyd oni enir y cyntaf, a'i bod yn myned i dynu ymaith yr hemysgar. Yn y bummed bennod, lle y traethais am drafael naturiol, dangosais pa fodd y dylai benyw gael ei rhyddhau o efeilliaid, yn dyfod eu dau ar yr iawn, a chan hyny, cyn y terfynwyf y bennod am drafael annaturiol, nid oes dim yn ol ond i mi ddangos pa beth idd ei wneuthur pan fyddo y naill ai y ddau yn dyfod yn feius, neu un o honynt yn unig, fel y digwydd y rhan amlaf; y cyntaf yn gyffredin yn dyfod yn iawn, a'r ail a'r traed y'mlaen, neu mewn rhyw waeth ystum. Yn y cyfryw amgylchiad dylid prysuro genedigaeth y cyntaf cymmaint ag a fyddo modd, i wneuthur lle i'r ail, yr hwn a ddygir ymaith gerfydd y traed yn well na thrwy ymdrechu ei osod yn iawn, o herwydd y bydd, yn gystal a'i fam, yn flinedig eisoes, ac wedi ei wanhau trwy enedigaeth y cyntaf, a byddai mwy o berygl o'i farwolaeth na thebygolrwydd y deuai o'r groth y ffordd hòno.

Ond os wedi i'r cyntaf gael ei eni yn naturiol, y byddai i'r ail yr un modd, gynnyg ei ben i'r genedigaeth, yna byddai yn well gadael natur i orphen yr hyn a ddechreuodd cystal; ond os bydd yn rhy araf yn ei gwaith, gellir yn ddigon addas gymhwyso rhai o'r pethau a grybwyllir yn y bedwaredd bennod er prysuo y'mlaen yr esgoriad: ac os, ar ol hyny, y bydd yr ail esgoriad etto yn cael ei oedi, na ohirier gweith-

rediad dwylaw yn hwy; ond wedi gosod y fenyw yn addas, fel y cyfarwyddwyd o'r blaen, bydded i'r gweithredydd arwain ei law yn araf i'r groth i gael allan y traed, ac felly tynu allan yr ail blentyn, yr hyn a wneir yn rhwyddach, o herwydd fod digon o le wedi ei wneuthur trwy enedigaeth y cyntaf; ac os na bydd dyfroedd yr ail blentyn hwn wedi ymdori, fel y digwydd yn fynych, etto gan fwriadu ei dynu gerfydd ei draed, ni raid iddo betruso tori y pilionenau â'i fysedd; o herwydd er, pan adewir genedigaeth plentyn i weithrediad natur, y mae yn rheidiol i'r dyfroedd ymdori o honynt eu hunain, etto pan dynir y plentyn o'r groth trwy gelfyddyd, nid oes dim perygl o'u tori, ïe yn hytrach i'r gwrthwyneb, y mae yn dyfod yn angenrheidiol, o herwydd heb i'r dyfroedd gael eu tori, byddai braidd yn annichonadwy troi y plentyn.

Ond yn hyn yn benaf y gorwedd gofal y gweithredydd, na byddo iddo gael ei dwyllo pan y gwna dwylaw neu draed y ddau blentyn ymgynyg ynghyd i'r esgoriad; yn yr achos hwn dylai ystyried y gweithrediad yn ofalus, megis, pa un ai fyddont wedi eu huno ynghyd, neu mewn unrhyw ffordd arall yn anghenfilaidd, a pha ran sydd yn perthyn i'r naill blentyn, a pha un i'r llall, fel y galler eu ceisio y naill ar ol y llall, ac nid ynghyd, fell y gallai fod, os na ystyrir hwy yn ddyledus, gan gymeryd troed de y naill ac aswy y llall, ac felly eu tynu ynghyd, megis pe byddai y ddau yn perthynu i un corph, o herwydd y bydd yno aswy a de', trwy yr hyn y byddai yn annichonadwy eu rhyddau byth. Ond bydd i'r gweithredydd medrus ragflaenu hyn yn hawdd, os wedi iddo gael allan ddau

neu dri o draed amryw blant yn dyfod ynghyd yn y fynedfa, y bydd iddo gymeryd o'r neilldu ddau o'r rhai blaenaf, sef de ac aswy, a llithro ei law ar hyd y coesau a'r cluniau i fynu at y ffwrch, os ymlaen, neu y ffolenau, os yn ol, ac y cenfydd eu bod yn perthyn i'r un corph; wedi ei sicrhau o'r hyn yn y modd hwn, gall ddechreu tynu allan yr agosaf atto, heb olygu pa un yw y cryfaf neu'r gwanaf, y mwyaf neu'r lleiaf, y byw neu'r marw, wedi iddo yn gyntaf roddi ychydig o'r neilldu y rhan hono o'r plentyn arall a fo yn ymgynyg i gael mwy o le, ac felly dwyn ymaith y cyntaf cyn gynted ag y byddo modd, gan sylwi ar yr un rheolau a phe na buasai yno ond un, hyny yw, cadw y *frest* a'r wyneb tuag i lawr, ynghyd a phob amgylchiad a gyfarwyddwyd yn y ddosparth hono lle y mae y plentyn yn dyfod a'i draed ymlaenaf, a pheidio a cheisio yr hemysgar hyd oni enir yr ail blentyn. A chan hyny, wedi i'r gweithredydd dynu allan y plentyn, rhaid iddo ei wahanu oddiwrth yr hemysgar, wedi iddo rwymo a thori llinyn y bogail, ac yna ceisio y llall gerfydd y traed yn yr un dull, ac wedi hyny dwyn ymaith yr hemysgar gyda'r ddau linyn, fel y dangoswyd o'r blaen. Os bydd i'r plant ddyfod gydag unrhyw ran heblaw y traed, gall y gweithredydd ddilyn yr un dull ag a gyfarwyddwyd yn y ddosparth flaenorol, lle yr ymdrinir yn helaeth â'r amrywiol ystumiau annaturiol.

## Pen. 7.

Cyfarwyddiad i Fenywod yn Planta yn eu gorweddiad i mewn.

### Dosp. I.

Pa fodd y dylai Benyw newydd ei rhyddhau gael ei threfnu.

CYN gynted ag y dodir hi yn ei gwely, gosoder hi ynddo yn gyfleus er esmwythâd a gorphwystra, yr hyn y mae yn sefyll mewn mawr angen o hono, i ymadfywio ar ol y lludded mawr y bu o tano yn ystod ei thrafael; ac fel y gallo orwedd yn esmwythach, eoder ei dwylaw a'i chorph ychydig, fel y gallo anadlu yn rhwyddach, a'i glanhau yn well, yn enwedig oddiwrth y gwaed hwnw sydd yn dyfod ymaith y pryd hyny, fel na byddo iddo dolchi, (*clot*) yr hwn wedi ei ddal yn ol sydd yn achos o boen fawr.

Wedi iddi gael ei gosod fel hyn, cymered lwngc o win gwyn llosgedig, a dram o *sperma-ceti* wedi ei doddi ynddo. Mae y llysieuyn cas gan gythraul hefyd yn dda neillduol i fenyw yn y cyflwr hwn, a'i ferwi ymha beth bynag y mae yn ei fwyta neu ei yfed, ac yn cadarnhau y groth mor ragorol, fel y gwna fwy o ddaioni iddi mewn deuddydd nac a wna un peth arall mewn cymaint ddwy waith o amser, ac heb fod blas drwg arno. Ac nid yw hyn ddim mwy nac y mae'n sefyll mewn angen am dano, o herwydd gan fod y rhanau isaf wedi cael eu ehangu yn fawr hyd enedigaeth y baban, da yw ymdrechu attal enynniad yno. Cymhwyser hefyd yn allanol, dros

holl waelod y bol a'r dirgeloedd y meddyginiaeth esmwythäol (*anodyne*) a'r plastr canlynol; cymerer dwy wns o *oil of sweet almonds*, a dau neu dri o wyau newydd ddodwy, melyn a gwyn, gan eu cynhyrfu y'nghyd mewn crochenyn pridd uwch ben marwor poethion, hyd oni byddant wedi dyfod i dewedd *pwltis*; yr hyn, wedi ei daenu ar liain, a raid ei gymhwyso at y rhanau hyny yn lledweddol o gynes, wedi yn gyntaf gymeryd ymaith y cauydd (*closure*) yr hwn a ddodwyd wrthi yn ddioed ar ol rhyddhad, a'r un modd y cyfryw dolcheni o waed ac a adawyd y pryd hyny. Gadewch hwn ar y lle am bump neu chwe' awr, ac yna adnewyddwch ef drachefn pan weloch achos.

Dylid gofalu yn fawr ar y cyntaf, os bydd ei chorph yn wan, na byddo iddi gael ei chadw yn rhy boeth, canys mae gwres rhy fawr yn gwanhau natur ac yn toddi cryfder; a pha un bynag ai gwan ai cref a fydd, byddwch sicr o beidio a gadael i awyr oer ddyfod yn agos atti ar y cyntaf; canys y mae anwyd yn elyn i'r rhanau hadol, ac os â i'r groth, y mae yn ychwanegu yr ol-boenau, yn peri chwyddiad yn y groth, ac yn niweidio y gewynau. Mewn perthynas idd ei lluniaeth, bydded gynes, a bwytaed ychydig ar unwaith. Gocheled y goleuni am y tri diwrnod cyntaf, ac yn hwy os bydd yn wan, canys mae ei llafur yn gwanhau ei llygaid yn ddirfawr, trwy y cysondeb sydd rhwng y groth a hwy. Hefyd gocheled swn mawr, tristwch, a blinder meddwl.

Os bydd y groth yn aflan, yr hyn a ellir ei ganfod yn hawdd trwy amhuredd y gwaed [yr hwn y pryd hyny a ddaw ymaith yn hawdd yn

dolcheni neu yn drewi, neu os byddwch yn amen fod peth o'r hemysgar wedi ei adael ar ol, yr hyn a all ddigwydd weithiau,] gwnewch ddiod iddi o *featherfew*, brymlys, teim, &c., wedi eu berwi mewn gwin gwyn a'u melysu â siwgr.

Uwd bara càn ac wyau ydynt y bwyd goren iddi ar y cyntaf; o'r hyn y gall fwyta yn fynych, ond nid gormod ar unwaith. A bydded idd ei maethwraig arfer synamwn yn ei holl fwydydd a diodydd, canys yn gyffredin y mae yn cryfhau y groth.

Na fydded iddi ymsymud ond cyn lleied ag y byddo modd, hyd ar ol y pumed, y chweched, neu seithfed dydd ar ol ei rhyddhâd, os bydd yn wan; a siaraded cyn lleied ag a fyddo bosibl, canys y mae hyny yn tueddu idd ei gwanhau yn fawr iawn.

Oni bydd yn ymgarthu yn dda rhoddwch chwistrell-feddyginiaeth wedi ei wneuthur o ddyferwad y feddalai a siwgr coch yn unig.

Pan fyddo wedi gorwedd i mewn wythnos neu ychwaneg, arferent y cyfryw bethau ag a gauant y groth, o ba rai y mae glesyn y coed a *knot-grass* yn dda iawn; ac attynt gellwch ychwanegu ychydig *bolipodium*, (o herwydd gwna ddaioni iddi] y dail a'r gwreiddiau wedi eu hysigo.

---

## Dosp. II.

Pa fodd i Feddyginiaethu y Damweiniau hyny ag y mae Benyw yn gorwedd i mewn yn ddarostyngedig iddynt.

I. Y Digwyddiad arferol a chyffredin cyntaf ag sydd yn blino benywod yn eu gorweddiad i

mewn ydyw, ol-boenau, (*after-pains*) Y maent yn deillio oddiwrth anwyd a gwynt yn yr ymysgaroedd, gyda'r hyn y llenwir hwy yn hawdd ar ol llafur, o herwydd fod ganddynt y pryd hyny fwy o le i ymledu na phan ydoedd y plentyn yn y groth, gan yr hwn yr oeddynt yn cael eu gwasgu; ac hefyd o herwydd fod maeth a sylweddd, a gynnwysent hwy yn gystal a'r cylla, wedi cael eu cynhyrfu mor ddidrefn o'r naill ochr i'r llall yn ystod amser trafael, fel na ellid eu treulio yn iawn; oddiyma y mae fod y gwynt yn cael wedi hyny ei genhedlu, ac o ganlyniad y cnoadau a deimla y fenyw yn rhedeg idd ei bol o du i du, yn ol fel y byddo y gwynt yn symud mwy neu lai, ac weithiau yr un modd o'r groth, o herwydd y gwasgiad a'r cynwrf ag y mae'r ymysgaroedd yn eu gwneuthur. Gan mai hyn yn gyffredin yw yr achos, bydded i ni yn awr gymhwyso meddyginiaeth addas.

1. Berwch ŵy yn feddal, a thywelltwch y melyn o hono: gyda pha un cymysgwch lonaid llwy o ddwfr synamwn, ac yfed ef; ac os cymmysgwch ynddo ddau ronyn o ambyr, bydd yn well; ac etto bydd cymeryd y llysieuyn câs gan gythraul mewn unrhyw beth ag a fydd yn ei yfed, mor effeithiol a'r llall.

2. Rhoddwch i'r fenyw a fyddo yn gorwedd i mewn, yn ddioed ar ol rhyddhâd, *oil of sweet almonds*, a chyflaith gwallt y forwyn yn gymmysgedig. Rhai a roddant y flaenoriaeth i olew cnau ffreinig, ond iddo gael ei wneuthur o gnau pur dda: ond y mae yn waeth ei flâs na'r llall pan fyddo oreu. Hyn a liniara du mewn i'r ymysgaroedd trwy ireidd-dra, a thrwy hyny dwg ymaith yr hyn a gynnwysant yn hawsach

3. Cymerwch a berwch wynwyn yn bur dda mewn dwfr, yna cnociwch hwy gydag olew synamwn, taenwch hwy ar liain, achymysgwch hwy at barth y groth.

4. Bydded ofalus i gadw ei bol yn gynes, a pheidio yfed yn rhy oer; ac os bydd y boen yn troi allan yn awchlym, rhaid gosod dillad poethion o dro i dro wrth ei ból, neu gellir cymhwyso crempog wedi ei chras-bobi mewn olew cnau ffreinig, etto heb rwymo ei ból yn rhy dỳn. Ac er arlloesi y gwynt o'r ymysgaroedd yn well, rhoddwch chwistrell-feddyginiaeth iddi, yr hyn a ellir ei ail wneuthur cyn amled ag y byddo achos yn gofyn.

5. Cymerwch rawn y lawryf, curwch hwn yn fân, a rhoddwch hwy ar badellau (*shaffing-dish*) a derbynied y mwg i fynu idd ei dirgeloedd.

6. Cymerwch *dár, a bear's grease* (sef saim neu floneg arth,) swm cyfartal o bob un, berwch hwy y'nghyd, a thra byddo yn berwi, ychwanegwch ychydig o dom colomenod atto. Taenwch beth o hwn ar liain, a chymhwyswch ef at lwynau ei chefn hi, yr hon a flinir â phoenau, a rhydd esmwythâd buan iddi.

Yn olaf, Cymered haner dram o rawn y lawryf wedi eu malu yn fân mewn llwngc o win *muscadel* neu oreth.

II. Damwain arall ag y mae benywod yn gorwedd i mewn yn ddarostyngedig iddi, yw, clwyf y marchogion, (*hemerrhoids*) neu'r lledewigwst, a achlysurir trwy yr ymorchestu mawr yn nygiad y plentyn i'r byd. I wellhau hyn,

1. Gwaeder hi yn y wythien *saphœna.*

3. Arfered *polypodium* yn ei bwyd a'i diod, wedi ei ysigo a'i ferwi.

3. Cymerwch wynwyn, ac wedi gwneuthur twll yn ei gauol, llenwch ef âg olew, a rhostiwch ef, ac wedi ei ysigo oll y'nghyd, cymhwyswch ef at yr eisteddle.

4, Cymerwch ddeuddeg o falwod, heb gregyn os gellwch eu cael, os amgen, cymmaint a hyny o falwod cregyn, a thynwch hwy allan, ac wedi eu malu gydag ychydig olew, cymhwyswch hwy yn gynes fel o'r blaen.

5. Oni bydd yn ymgarthu yn dda, cymered wns o *eassia fistula* wrth fyned i wely; nid rhaid iddi wrth newidiad lluniaeth wedi.

III. Attaliad y mis-glwyf sydd ddamwain arall a fydd yn digwydd i fenywod yn gorwedd i mewn; ac sydd o ganlyniad mor beryglus, fel, oni feddyginiaethir mewn pryd, y mae yn troi allan yn angeuol. Pan ddigwydd hyn,

1. Cymered y fenyw y cyfryw gyffuriau ag a gryf-gynhyrfant y mis-lifiant, y cyfrw ydyw *dittany*, y frymlys, *featherfew*, *ecntaury*, grawn meryw, gwraidd blodeu'r brenin, &c.

2. Cymered dair neu bedair llwyaid o ddwfr y winwydden bob boreu.

3. Gwreiddiau crwnllys wedi eu malu yn fân, a chymeryd dram o hono bob boreu mewn gwin, sydd feddyginiaeth ragorol.

4. Gwreiddiau llysiau'r galon, hir neu grwn, a'i gymeryd a'i ddefnyddio fel yr un blaenaf sydd yn bur dda.

5. Cymerwch ddwsin o hadau blodau'r brenin, a phwywch hwy nes y byddont yn dra mân, a bydded iddi eu hyfed mewn llwngc o feiddlyn yr ysgallen fendigaid, yn boeth, a chwysed wedi hyny. Ac oni ddwg y cyffyr olaf crybwylledig hwn hwy i lawr y tro cyntaf y cymer hi ef,

cymered yr un faint yn ychwaneg dair awr wedi hyny, ac anfynych y metha.

IV. Gorllifiad y mis-glwyf sydd ddamwain arall ddigwyddiadawl i fenywod yn gorwedd i mewn. Rhag yr hwn,

1. Cymerwch bwrs y bugail, naill ai wedi ei ferwi mewn unrhyw wlyb cyfleus, neu ei sychu a'i falu yn fân, a bydd yn feddyginiaeth ryfeddol idd ei hattal, gan fod hyn yn addas neillduol i'r dirgeloedd.

2. Blodeu a dail mïeri, neu un o honynt, gan gael eu sychu a'u malu yn fân, a chymeryd dram o honynt bob boreu mewn llwyaid o win côch, neu mewn dyferwad dail yr unrhyw (yr hyn hwyrach sydd yn llawer gwell,) sydd feddyginiaeth ryfeddol rhag dylifiad anghymedrol y mislif mewn benywod.

V. Piliadau neu ddirisgliadau, briwiau, a rhwygiadau y rhanau isaf o'r groth a achlysura yn fynych trwy arlediad tanbaid ac ymwahaniad y pedwar cigyn (*carancles*) yn nhrafael benyw. Er iachau hyn,

Cyn gynted ag y byddo y fenyw wedi ei gosod yn ei gwely, os na bydd ond yn unig biliadau a bwriadau sengl, yna cymhwyser y plastr esmwythäol (*anodyne cataplasm*) a gyfarwyddwyd o'r blaen, at y rhanau isaf, i esmwythau y boen, wedi ei wneuthur o felyn a gwyn wyau newydd ddodwy, ac olew *rhoses*, a'u bewri ychydig uwch ben marwor poeth, gan ei gynhyrfu yn barhaus hyd oni byddo wedi cymysgu, ac yna taenwch ef ar liain teg; rhaid ei gymhwyso yn dra chynes at le'r beichiogiad (*bearing-place*) am bump neu chwe' awr, a phan gymerir ef ymaith, gosodwch garpiau esmwyth neu

feinion wedi eu trochi mewn olew llysiau St. Ioan wrth bob ochr i le'r beichiogiad; neu eneinier y rhan f'o wedi pilio gydag olew St. Ioan ddwy neu dair gwaith yn y dydd; hefyd twymn-olchwch y rhanau gyda dwfr barlys a mel *rhoses*, idd eu glanhau oddiwrth y carthion ag ydynt yn passio. Pan fyddo y fenyw yn gwneud dwfr, amddiffyner hwy â bratiau teg, a thrwy hyny attal y pision rhag bod yn achos o wŷn a phoen.

VI. Ceuliad a tholcheniad y llaeth sydd ddamwain arall a fydd yn digwydd i fenyw yn gorwedd i mewn; o herwydd, yn nechreuad gorweddiad i mewn, nid yw gwaed y fenyw wedi ei buro, o achos y cynhyrfiadau mawrion a oddefodd ei chorph yn ystod ei llafur, yr hyn a effeithiodd ar yr holl ranau, ac y mae y pryd hyny yn cael ei gyffroi gyda llawer o wlybyrau. Yn awr, y mae y ceuliad llaeth hwn yn deillio, am y rhan amlaf, oddiwrth nad yw y *frest* yn cael ei llawn ollwng, ac am y naill ai bod ganddi ormodedd o laeth, a bod y baban yn rhy fychan a gwàn i sugno y cwbl, neu nad yw hi yn dymuno bod yn fammaeth; canys y mae'r llaeth, yn yr amgylchiadau hyn, gan aros yn y *frest* ar ôl treuliad heb gael ei dynu, yn colli ei bereidd-dra a'i gynneddf iachäol ag oedd ganddo, ac o herwydd y gwres y mae yn ei gaffael; a'r arosiad rhy hir y mae yn ei wneuthur yno, y mae yn suro, yn ceulo, ac yn tolchenu, yn yr un modd ag y gwelwn gaul yn cael ei roddi mewn llaeth cyffredin, ac yn ei droi yn geul-fraen (*curd.*) Gellir peri i'r llaeth geulo hefyd trwy gael anwyd mawr, a gadael y *frest* deb ei hiawn orchuddio.

Ond o ba achosion bynag y mae ceuliad y llaeth hwn yn deillio, y feddyginiaeth fwyaf sicr yw gollwng y *frest* ar frys, hyd oni byddo wedi ei anfon allan a'i sychu. Ond a golygu na all y baban, o herwydd gwendid, dynu yn ddigon cryf, gan fod y fenyw yn anhawdd idd ei gwahannodi pan fyddo ei llaeth wedi ceulo, y ffordd fwyaf addas a fydd ceisio benyw arall i sugno ei *brestiau* hyd nes daw y llaeth yn rhwydd, yna gall roddi sugn idd ei phlentyn. Ac fel na byddo iddi gael ei blino â gormodedd o laeth wedi hyny, rhaid iddi fwyta y cyfryw luniaeth ag a rydd ond ychydig o faeth, a chadw ei chorph yn agored.

Ond os bydd yr amgylchiad y cyfryw, fel na all y fenyw ac na fyn fod yn fammaeth, bydd yn angenrheidiol cymhwyso meddiginiaethau eraill er gwellhau yr afiechyd hwn: canys y pryd hyny, gwell fydd peidio sugno ei *brestiau*; canys hòno fydd y ffordd i ddyfod a mwy o laeth iddynt. I ba ddyben, bydd yn angenrheidiol gwaghau y corph, trwy waedu y fraich: heblaw hyny, bydded i'r gwlybyrau gael eu tynu i lawr trwy chwistrell-feddyginaethau cryfion, a gwaedu yn y troed; ac nid beius a fydd carthu yn araf; ac i beri treuliad, toddwch, a gwasgarwch y llaeth ceuledig, cymmwyswch blastr o fêl pur, neu hwnw o eiddo y *four brains* wedi ei doddi mewn dyferwad saeds, llaeth, *smallage*, a ffenigl, gan gymmysgu olew *camomile* gyda hwy, gyda pha olew eneinier y *brestiau* yn dda. Mae yr enaint canlynol hefyd yn dda i chwalu a gwasgaru y llaeth.

*Enaint i chwalu a gwasgaru y Llaeth.*

Fel y gallo y llaeth a fyddo yn dylifo yn ol i'r *frest* gael ei wasgaru heb rwystrau, rhaid i chwi ddefnyddio yr enaint hwn: "Cymerwch gŵyr pur ddwy wns, olew hâd llin haner pwys; pan fyddo'r cŵyr wedi ei doddi, bydded i'r enaint gael ei wneuthur, yn yr hwn y rhaid trochi llieiniau, a'u dodi ar y *brestiau* yn ol fel y byddo eu maint; a phan y byddo wedi ei chwalu ac heb fwy o boenau, trocher y llieiniau eraill mewn dwfr dysdiledig mês, a rhoddwch hwy arnynt."

Dalier sylw, y rhaid arfer y llieiniau a fyddant wedi eu trochi mewn dwfr dysdilledig mês gan y rhai hyny ag na allant faethu eu plant eu hunain yn unig; ond os bydd chwydd yn mrest yr hon sydd yn rhoddi sugn gyfodi, oddiwrth lleclaeth-rwydd o laeth, ac yn bygwth enyniad, defnydd-ied yr enaint blaenaf, ond ymgadwed rhag arfer y dwfr mês.

---

## Pen. 8.

### Cyfarwyddiadau i Fammaethod, yn nhriniad plant newydd eni.

PAN fyddo llinyn bogail y plentyn wedi ei dori, yn ôl y rheolau a ddodwyd i lawr o'r blaen, bydded i'r fyd-wraig yn ddioed ei lanhau oddi wrth y carthion a'r amhuredd ag y mae yn eu dwyn gydag ef i'r byd; o'r hyn y mae rhai tu fewn i'r corph, megis y pision yn y bledren, a'r carthion a geir yn y coluddion; a rhai tu allan,

y rhai ydynt dew, gwynaidd, a gludiawg, yn deillio oddiwrth leidiogrwydd y dyfroedd. Mae plant ag a fyddant wedi eu gorchuddio trostynt oll â'r rhai hyn, fel y tybiai un eu bod wedi eu rhwbio trostynt â chaws meddal; ac y mae rhai benywod mor hawdd ganddynt gredu peth, fel y maent yn wirioneddol yn meddwl mai felly y mae, o herwydd eu bod hwy wedi bwyta peth tra yr oeddynt yn feichiog. Glanhaer y plentyn oddiwrth y carthion hyn gyda gwin a dwfr yn lled dwymu, gan olchi pob rhan gydag ef, ond yn benaf y pen, o achos y gwallt, hefyd plygiadau y morddwydydd, tan y ceseiliau, a'r caill-grwyn neu'r dirgeloedd; pa ranau a raid eu glanhau yn araf gyda cherpyn lliain, neu yspwng meddal wedi ei drochi mewn gwin lled gynes, Os bydd y gwlyb toeslyd hwn yn glynu mor *glos* fel na bydd yn hawdd ei olchi ymaith o'r lleoedd hyny, gellir ei dynu ymaith gydag *oil of sweet almonds* neu ychydig o ymenyn croyw wedi ei doddi â gwin, ac wedi hyny ei sychu ymaith yn dda; hefyd gwnewch orethau o garpiau meinion, a chan eu gwlychu yn y gwlyb hwn, cliriwch y clustiau a'r ffroenau; ond am y llygaid, na wnewch ond eu sychu gyda cherpyn sych meddal, gan beidio a'i drochi mewn gwin rhag iddo wneuthur iddo wŷnio *(smart.)*

Wedi golchi a glanhau y plentyn fel hyn oddiwrth y gwaed genedigol, a'r aumhuredd, sydd yn ei ganlyn i'r byd, rhaid, yn y lle nesaf ei chwilio i edrych a yw pob peth yn iawn o'r ddeutu, ac nad oes dim bai neu ddadgymaliad; pa un ai fydd ei drwyn yn wastad neu union, neu ei dafod yn glymedig; neu pa un ai fydd yno unrhyw friw neu ddymchwydd ar y pen;

neu pa un a fydd y cell-gwd [os gwrryw a fydd] wedi ei chwythu ac ymchwyddo; ac, mewn gair, pa un ai fydd wedi goddef unrhyw drais trwy ei enedigaeth, mewn unrhyw ran o'i gorph; a pha un ai fydd yr holl ranau o ffurf da a dyledus; fel y galler cymhwyso meddyginiaethau addas, os ceir unpeth heb fod yn iawn. Nac ychwaith nid digon yw edrych a fydd pob peth yn iawn oddiallan, ac i du allan i'r corph gael ei lanhau, ond yn benaf rhaid iddi sylwi pa un ai yw yn ymarllwys y carthion a gynnwysir o'i fewn, a pha un ai yw y fynedfa yn agored; canys y mae rhai wedi eu geni heb eu tyllu: gan hyny chwilied a yw pibellau y pision a'r carthu yn glir, o ddiffyg yr hyn bu rhai feirw, heb fod yn alluog i arllwys eu carthion, o herwydd na chymerwyd gofal prydlon ar y cyntaf. Mewn perthynas i'r pision, mae pob plant, yn gystal gwrryw a benyw, yn gwneud dwr cyn gynted ag y genir hwy, os gallant, yn enwedig os byddant yn teimlo gwres y tân, ac weithiau hefyd yn arllwys y carthion, ond nid cyn gynted a'r pision. Os na wna y baban dom y dydd cyntaf, yna rhoddwch refr-sang (*supposistory*) bychan yn ei eisteddfod, idd ei gynhyrfu i gael ei arllwys, fel na byddo yn achos o gnofeydd poenus trwy aros cyhyd yn ei fól. Gallai *almond* siwgr fod yn briodol i hyn, wedi ei eneinio drosto âg ychydig fêl berwedig: neu ynte dernyn bach o sebon *Castile* wedi ei rwbio trosto âg ymenyn gwyrf; hefyd i'r dyben hwn rhoddwch i'r plentyn ychydig o gyflaith *rhoses* neu grinlys trwy y safn, wedi ei gymysgu âg ychydig *oil of sweet almonds*, wedi ei dynu heb dàn, gan eneinio y ból hefyd gyda'r un olew, neu ymenyn gwyrf.

Wedi i'r fyd-wraig olchi a glanhau y plentyn el hyn, yn ol y cyfarwyddiadau rhag-grybwyll-edig, dechreued ei rwymo mewn dillad ffunenu, a phan fyddo yn gwisgo y pen, rhodded garpiau bychain o'r tu ol i'r clustiau i sychu i fynu yr amhuredd a fydd yn gyffredin yn magu yno, a gwneled felly hefyd yn mhlygiadau y breichiau a'r morddwydydd, ac felly ei ffunenu; yna lapiwch ef i fynu yn gynes mewn gwely gyda gwrthbanau, yr hyn nad oes braidd un fenyw mor anwybodus na ŵyr pa fodd i'w wneuthur yn ddigon da: yn unig goddefant i mi roddi y gocheliad hwn iddynt, sef, na byddo iddynt rwymo y plentyn yn rhy dŷn yn ei wrthbanau, yn enwedig o ddeutu y frest a'r cylla, fel y gallo anadlu yn rhyddach, a chael ei ddirgymell i gyfogi y llaeth y mae yn ei sugno, o herwydd na all y cylla fod wedi ei ehangu yn ddigonol i'w gynnwys, gan hyny, plyger ei freichiau a'i goesau yn ei wely, yn estynedig ac yn wastad, ac wedi ei ffunenu idd eu cadw felly, sef y breichiau ar hyd ei ochrau, a'i goesau yn gyfartal ynghyd, gyd âg ychydig o'r dillad rhyngddynt, fel na bo iddynt gael eu dolurio drwy rwbio yn eu gilydd: yna bydded i'r pen gael ei gadw yn ddiysgog ac union, gydag atteg wedi ei sicrhau ar bob tu i'r gwrthban; ac yna lapiwch y plentyn i fynu mewn arwisgoedd a gwrthbanau idd ei gadw yn gynes. Na feddylied neb mai afreidiol yw rhoddi hyn i lawr mewn perthynas i ffunenu neu rwymo plentyn, canys y mae yn angenrheidiol iddo gael ei ffunenu fel hyn, i roddi ffurf gwastad idd ei gorph bychan, yr hwn a fyddo hardd a phriodol i ddyn, ac idd ei arfer i sefyll ar ei draed, yr hwn heb hyny a elai ar bedwar, sef

ei draed a'i ddwylaw, fel y gwna y rhan fwyaf o anifeiliaid eraill.

---

## Pen. 9.

### DOSPARTH I.

Am gnofeydd a phoenau yn Moliau Plant bychain.

CRYBWYLLAIS hyn yn gyntaf, gan mai ef yn fynych yw yr afiechyd cyntaf a mwyaf cyffredin sydd yn digwydd i fabanod ar ol eu genedigaeth, gan fod llawer o blant yn cael eu blino a'u poeni ganddynt i'r fath radd fel y mae yn achos iddynt lefain ddydd a nos, ac o'r diwedd marw o hono. Yr achos o hono am y rhan amlaf sydd yn dyfod oddiwrth newidiad disymwth eu maeth, canys, gan eu bod bob amser wedi ei dderbyn o'r llestri bogeiliawl tra ynghroth y fam, y maent yn dyfod yn ddisymwth i newid nid yn unig y dull o'i dderbyn, ond natur a chynneddf yr hyn a dderbynient cyn gynted ag y genir hwy; o herwydd yn lle gwaed puredig yn unig, yr hwn a drosglwyddid iddynt trwy offeryniaeth y wythien fogeiliawl yn unig, y maent yn awr yn gorfod cael eu maethu gyda llaeth eu mamau, yr hwn a sugnant â'u safnau, ac oddiwrth yr hwn y cenhedlir llawer o garthion, yn peri cnofeydd a phoenau, a hyny nid yn unig am nad ydyw mor bur a'r gwaed â'r hwn y maethid hwy yn y groth, ond o herwydd na all y cylla a'r ymysgaroedd etto dreulio yn dda, gan eu bod heb ymarfer â hyny. Achlysurir ef weithiau hefyd gan lysnafeydd bras, ac weithiau

gan lyngyr: canys y mae meddygon yn honi fod llyngyr wedi cael eu magu mewn plant hyd yn nod yn mol eu maman.

*Meddyginiaeth.* Os bydd yn deillio oddi wrth newidiad maeth rhy ddisymwth, y feddyginiaeth fydd, peidio a rhoddi sugn i'r plentyn am rai dyddiau, rhag cymysgu llaeth â llysnafedd, yr hwn sydd y pryd hyny yn y cylla yn llygredig: ac ar y cyntaf ni wiw gadael iddo sugno ond ychydig hyd oni bydd wedi ymarfer a'i dreulio. Os y carthion yn yr ymysgaroedd a fydd, yr hyn trwy eu hir arosiad ydynt yn chwanegu y poenau, rhoddwch iddynt trwy eu safn ychydig o *oil of sweet almonds*, a chyflaith *roses*; os y llyngyr fydd, gosodwch liain wedi ei drochi mewn olew wermod, wedi ei gymysgu â bustl ŷch, ar y bol, neu blastr bychan wedi ei gymysgu gyda phowdr rhuw, wermod, *coloquintida*, alws, a had afal euraid (*citron*) wedi eu cyd-gorphori gyda bustl ych a phowdr *lubines*. Neu rhoddwch *oil of sweet almonds*, gyda siwgr *candi*, a *scruple* o had anis; y mae yn carthu babanod newydd eni oddiwrth lysnafedd drewllyd a'r geri gwyrdd; ac os rhoddir gydag uwd-siwgr, y mae yn esmwythau poenau cnöawl y bol. Hefyd eneiniwch y bol gydag olew lili, neu *pelitory stamp*, gydag olew *camomile*.

---

## Dosp. II,

### Am wendid mewn Babanod newydd eni.

GWENDID sydd ddamwain ag y mae llawer o blant yn dyfod ag ef i'r byd i'w canlyn, ac a achlysurir yn fynych trwy drafael y fenyw;

trwy danbeidrwydd a meithder yr hyn y maent yn goddef cymmaint, fel y maent yn cael eu geni gyda gwendid mawr, ac yn fynych bydd yn anhawdd gwybod pa un ai byw ai marw a fyddant, gan y bydd eu cyrph yn ymddangos mor ddideimlad a'u hwynebau mor lâs a dulas, fel yr ymddangosant o fod wedi hollol fygu; ac hyd yn nod wedi rhai oriau, mae eu dangosiad o unrhyw arwyddion bywyd yn cael ei ddilyn gan gymmaint o wendid, fel y mae yn ymddangos fel dychweliad o farwolaeth, a'u bod o hyd mewn sefyllfa farwol.

*Gwellhad.* Gosodwch y baban ar frys mewn gwrthban cynes, a chariwch ef at y tán, ac yna bydded i'r fyd-wraig gymeryd ychydig win yn ei safn a'i bistyllio idd ei safn ef, gan ei ail-wneuthur yn fynych os bydd achos. Cymhwysed liain at y *frest* a'r ból wedi ei drochi mewn gwin, a gadawer y wyneb yn noeth, fel y gallo anadlu yn rhyddach; hefyd bydded i'r fyd-wraig gadw ei safn ef yn lled agored, glanhau y ffroenau gyda gorethau lliain bychain wedi eu trochi mewn gwin gwyn, fel y gallo dderbyn yr arogl o hono, a bydded iddi boeth-rwbio pob rhan o'i gorph yn dda gyda llieiniau cynnes, i ddyfod a'r gwaed a'r ysprydoedd yn ol, y rhai, gan eu bod wedi encilio i'r tu mewn, trwy wendid ydynt yn fynych yn ei ddwyn i berygl o gael ei fogi. Trwy gymhwysiad y pethau hyn, y baban yn raddol a enill yn ol ei gryfder, ac a ddechreu symud ei aelodau o fesur ychydig, ac o'r diwedd i lefain; ac er na fydd ond gwanaidd ar y cyntaf, etto wedi hyny, fel yr anadlo yn rhydd-ach, ei lefain a ddaw yn gryfach.

## Dosbarth III.

Am gauad i fynu yr eisteddfod (*fundament*) mewn Baban newydd eni.

DIFFYG arall ag y mae babanod newydd eni yn agored iddo, yw bod eu heisteddfod wedi cau i fynu; trwy yr hyn ni allant nae arloesi y carthion a fyddant wedi eu cenhedlu gan y llaeth a sugnant, na'r hyn a bentyrwyd yn eu hymysgaroedd cyn eu geni, yr hyn sydd yn sicr yn angeuol, heb feddyginiaeth fuan. Bu rhai plant banywaidd a'u heisteddfod wedi eu cau yn hollol, ac etto hwy a ymadawsant â charthion trwy friw-dwll, yr hwn ag oedd natur, i adgyflenwi y diffyg hwnw, wedi ei wneuthur o fewn i wddf y groth.

*GWELLHAD.*) Yma y rhaid sylwi, y cauir yr eisteddfod ddwy ffordd; naill ai gan groen sengl, trwy yr hyn y gall un ddarganfod manau duon a gleision, yn deillio oddiwrth y carthion sydd wedi eu dal yn ol, yr hwn os cyffyrddir ag ef â bys, y mae yno feddalwch wedi ei adael oddi fewn, ac oddeutu y fan hono y dylai gael ei dyllu; neu ynte y mae wedi ei hollol gau gan sylwedd cigog tew, yn y fath ddull fel na ymddengys dim tu allan trwy yr hyn y gellir adnabod ei wir sefyllfa. Pan nad oes yno ddim ond y croen sengl yn gwneuthur y terfyn, mae y gweithrediad yn dra hawdd, a gall y plant ddyfod ymlaen yn eithaf; canys y pryd hwnw gellir gwneuthur y blwch neu ymagoriad gyda chyllell haccer fechan yn groes, fel y gall dderbyn ffurf crwn yn well, ac fel na byddo i'r lle wedi hyny dyfu ynghyd, gan gymeryd mawr ofal am beidio niweidio gewyn y *rectum*. Wedi

gwneuthur yr hacciad fel hyn, bydd y carthion yn sicr o ddyfodiad allan. Ond os, o herwydd eu hir arhosiad yn y bôl, y byddant wedi dyfod mor sych fel na all y baban eu harllwys, yna rhodder chwistrell feddyginiaeth idd eu meddalu a'u tynu ymaith; wedi hyny rhoddwch oreth liain yn yr eisteddfod newydd, yr hon yn gyntaf a fyddai yn well ei heneinio gyda mêl *rhoses*, a thu a'r diwedd gydag enaint a grachena ac a sycha, megis *unguentum album* neu *pomphilix*, gan sylwi am lanhau y baban oddiwrth ei garthion, a'i sychu drachefn cyn gynted a chyn amled ag yr arlloesa hwy, fel y gellir felly attal yr ymagoriad droi yn llynoryn drwg. Os cauir yr eisteddfod i fynu yn y fath ddull, fel na ellir gweled na theimlo un nod nag ymddangosiad o hono, yna mae y gweithrediad yn llawer anhawsach, ac hyd yn nod wedi ei wneuthur, mae y perygl yn llawer mwy na wna y baban fyw ar ei ol. Am hyny, os benyw fydd, ac yn anfon allan trwy y ffordd a grybwyllais o'r blaen, gwell yw peidio ymhela, na, thrwy ymdrechu meddyginiaethu anghyfleustra, rhedeg i'r perygl dirfawr o angau y plentyn. Ond pan nad oes agorfa i'r carthion, heb yr hyn y mae marwolaeth yn anocheladwy, yna y mae y gweithrediad idd ei gyfiawnhau

*Y Gweithrediad neu Feddyg-waith.*] Bydded i'r gweithredydd, gyda chyllell haccio fechan a chanddi ddim ond un min, fyned i mewn i le'r arloesiad, a chan droi ei chefn ar i fynu o fewn haner lled bys oddiwrth gloren y plentyn, yr hwn yw y man lle bydd yn sicr o gael yr ymysgar, bydded iddo ei gweithio ymlaen, fel y byddo yn ddigon agored i roddi agorfa rydd i'r

sylwedd a gynwysir yno, gan fod yn ofalus neillduol o'r *spincer* (neu gienyn y *rectum*); yn ddilynol i'r hwn trwsier y briw yn ol y dull a gyfarwyddwyd.

---

## Dosp. IV.

### Am y Gân, (*thrush*) neu Lynorod mewn Safn Maban.

Y Gân sydd anhwylder ag y mae plant yn fynych iawn yn ddarostyngedig iddo, ac y mae yn cyfodi oddiwrth laeth drwg, neu wlybyrau aflan yn y cylla; canys weithiau, er na bydd drwg gyneddf yn y llaeth ei hun, etto gall lygru ynghylla y plentyn o herwydd ei wendid, neu ryw afiechyd arall; yn yr hyn, gan gaffael surni yn lle treulio yn dda, y mae yn cyfodi oddiwrth hyny ageriadau cnöawl, y rhai gan ffurfio peth gludiog tew, ydynt trwy hyny yn dwyn allan yr afiechyd hwn.

*Gwellhad.*] Y mae yn fynych yn anhawdd, fel y dywed y meddygon i ni, o herwydd ei fod yn aneddu mewn lleoedd poeth a gwlyb, lle y mae y llygriad yn hawdd ei gynhyddu, ac o herwydd na all y meddyginiaethau a gymhwysir aros yno, gan eu bod yn fuan yn cael eu golchi ymaith â phoer, Ond os bydd yn cyfodi oddiwrth gyneddf rhy boeth yn llaeth y fammaeth, rhaid gofalu am dymheru ac oeri, gan orchymyn lluniaeth oer iddi, ei gwaedu a'i charthu hefyd os bydd achos.

Cymerwch bys llygod wedi eu mesglynio, (*husked*) malwch hwy yn fân, a rhoddwch ychydig o honynt ar gig dannedd y plentyn. Neu cymerwch flodau *bdelium* haner wns, a

chydag olew *rhoses* gwnewch enaint. Hefyd golchwch safn y plentyn gyda dwfr barlys a dail llyriad, a mêl *rhoses*, neu gyflaith *rhoses* sychion, gan gymysgu gyda hwy ychydig o surlyn *lemons*, yn gystal i ollwng ac i lanhau y gwlybyrau drygiog, y rhai ydynt yn glynu wrth du fewn i safn y plentyn, ac i oeri y rhanau hyny ag ydynt eisoes yn rhy boeth. Gellir gwneuthur hyn trwy offeryniaeth cerpyn bychan main, wedi ei sicrhau wrth ben pren bychan, a'i drochi ynddynt, trwy yr hyn y gellir rhwbio y llynorod yn araf, gan fod yn ofalus i beidio rhoddi y plentyn mewn gormod o boen, rhag i enyniad wneuthur yr afiechyd yn waeth. Rhaid cadw corph y plentyn hefyd yn agored, fel trwy fod y gwlybyrau yn cael eu cario i'r rhan isaf, na fyddo i'r ageriadau esgyn, fel y mae yn arferol iddynt wneuthur pan y mae y corph yn rhwym, a'r carthion wedi eu dàl yn rhy hir.

Os bydd y llynorod yn ymddangos yn adwythig neu ddrygiog, defnyddier y cyfryw feddyginiaethau ag a wnant eu gwaith yn fuan, fel, trwy fod i'r drwg-gynneddfau sydd yn achos o honynt trwy hyny gael eu diwygio yn ddioed, y byddo i'w drygedd gael ei attal; ac yn yr achos hwn, cyffyrddwch â'r llynorod gyda dwfr dail llyriad, wedi ei suro neu ei awchu â *spirit of vitriol*; canys rhaid gwneuthur y feddyginiaeth yn un awchus, yn ol drygedd yr afiechyd. Bydd yn rheidiol carthu y gwlybyran hyn allan o holl ansawdd y plentyn, trwy roddi hauer wns o ysgall y meirch gyda rhubarb.

## Dosp. V.

### Am Boenau yn y Clustiau, Enyniad, Lleithder. &c.

MAE yr ymenydd mewn babanod yn dra llaith, ac y mae ynddo lawer o garthion, y rhai na all natur eu hanfon allan trwy eu mynedfeydd priodol; yn fynych y maent yn myned i'r clustiau, ac yn achos yno o boenau, dylifiad gwaed, gydag enyniad, a chrawn, gyda phoen; mae hyn mewn babanod yn anhawdd idd ei adnabod, gan nad oes ganddynt un ffordd arall idd ei wneuthur yn hyspys ond trwy grio parhaus; canfyddwch hwy yn barod i deimlo eu clustiau eu hunain, ond ni adawant i eraill eu cyffwrdd os gallant rwystro hyny; ac weithiau gellwch ganfod yr hanau oddeutu y clustiau yn dra choch.

Mae y pethau hyn, os gadewir hwy yn llonydd, o ganlyniadau peryglus; o herwydd y gallant ddwyn allan yr haint-ddigwydd, &c. o herwydd y mae y lleithder yn magu pryfed yno, ac yn diwyno yr esgyrn yspyngaidd, ac yn raddol yn achos o fyddarwch anfeddyginiaethol.

*Gwellhad.* Lliniarwch y boen gyda phob brys cyfleus, ond gofelwch am beidio defnyddio meddyginiaethau cryfion. Gan hyny na ddefnyddiwch ond yn unig laeth cynes oddeutu y clustiau, gyda dyferwad brigau pabi, neu, olew crinlys: i dynu ymaith y lleithder, arferwch fêl rhoses, a defnyner *aquamollis* i'r clustiau; neu cymerwch fêl gwyryf, haner wns; gwin côch, dwy wns; alm, saffrwm, *salt petre*, o bob un dram; cymysgwch hwy wrth y tân; neu ddyferwch i mewn olew hâd cywarch gydag ychydig win.

## Dosp. VI.

### Am Gochni ac Enyniad yn y Ffolenau, Ceseiliau y Morddwydydd, a Chluniau Plentyn bychan.

ONI chymerir gofal mawr i newid a golchi gwely y plentyn cyn gynted ag y diwynir ef gyda'r carthion, ac i gadw y plentyn yn dra glân, bydd y surni yn sicr o fod yn achos o gochni, a chenhedlu gwỳn yn ffolenau, cesail morddwyd, a chluniau y plentyn, y rhai, o herwydd y boen, a fyddant wedi hyn ddarostyngedig i ennyniadau, yr hyn sydd yn dilyn yn gynt, trwy dynerwch eu crwyn, oddiwrth ba rai mae croen allanol y corph yn fuan yn cael ei wahanu a'i wisgo ymaith.

*Gwellhad.* Yn gyntaf, cedwch y plentyn yn lân; ac yn ail, cymerwch ymaith surni y pision. Mewn perthynas idd ei gadw yn lân, rhaid mai mamaeth salw yw yr hon ag y mae yn rheidiol idd ei dysgu pa fodd idd ei wneuthur; canys os bydd iddi ond rhoddi gwelyau, a chlytiau sychion, glân, a chynes mor fynych, a chyn gynted ag y bydd wedi eu diwyno a'u gwlychu, naill ai trwy ei bision neu garthion, bydd yn ddigonol. Ac mewn perthynas i gymeryd ymaith surni pision y plentyn, rhaid gwneuthur hyny trwy i'r fanmaeth gymeryd lluniaeth o natur oeri, fel y byddo yr un gyneddf gan eu llaeth: a chan hyny dylai ymgadw oddiwrth bob peth ag a all dueddu idd ei boethi.

Ond heblaw hyn, mae meddyginiaethau a oerant ac a sychant yn anhebgorol idd eu cymhwyso at y rhanau enynol; gan hyny, bydded i'r rhanau gael eu golchi â dwfr dail llyriaid,

ynghyd a'r pedwerydd o ddwfr calch wedi ei ychwanegu atto, bob tro y sychir ymaith garthion y plentyn; ac os bydd y boen yn fawr iawn, na wnelir ond yn unig ei dwymn-olchi gyda llaeth claiar. Ychydig bowdr pren, neu lwch melin, a'i daenu ar y rhanau a flinir, a all fod yn ddigon addas, ac arferir ef gan lawer o fenywod. Hefyd nid beius a fydd *unguentum album*, neu *diapampholigos*, wedi ei daenu ar ddernyn bychan o ledr, mewn ffordd o *blastr*.

Ond y prif beth a raid fod gofal y fammaeth i lapio y rhanau enynol gyda charpiau meinion pan ddatodo y plentyn, fel na byddo i'r rhanau hyny ymgasglu a chael eu poeni trwy rwbio ynghyd.

---

## Dosp. VII.

### Am Gyfogiad mewn Plant ieuaingc.

WEITHIAU bydd cyfogiad mewn plant yn deillo oddiwrth ormod llaeth, ac weithiau oddiwrth laeth drwg, ac mor fynych a hyny oddiwrth gylla llaith a rhydd; o herwydd megis ag y mae *sychder* yn dal yn ol, felly mae *rhydd-der* yn gollwng ymaith. Mae hwn, am y rhan amlaf, heb berygl mewn plant; a'r rhai hyny ag ydynt yn cyfogi o'u genedigaeth yn't y rhai mwyaf grymus: o herwydd a'r cylla heb gael ei arfer gyda bwyd, a llaeth yn cael ei gymeryd yn ormodol, y mae pethau anneddfed yn hawdd yn cael eu magu, neu mae y llaeth yn cael ei lygru; ac y mae yn well cyfogi y rhai hyn na'u cadw i mewn: ond os bydd cyfog yn parhau yn hir, bydd yn achos o *atrophy* neu ddarfodedigaeth, o ddiffyg maeth.

*Gwellhad.* Os bydd hyn oddiwrth ormodedd o laeth, melyn a gwyrdd fydd yr hyn a fwrir allan, neu, bydd ryw ffordd arall yn ddryg-liw ac yn drewi; yn yr achos hwn, gwellhewch y llaeth, fel y dangoswyd o'r blaen; glanhewch y plentyn gyda mêl *rhoses*, a chryfhewch ei gylla gyda chyflaeth llaeth a'r fynyglog wedi ei gwneuthur yn gydtew-gymysg. Os bydd y gwlybyrau yn boeth a sur, rhoddwch gyflaith pomgranadau, *currants*, a *choral*; a chymhwyswch at y ból blastr bara, y cylla sug-liain, neu fara wedi ei drochi mewn gwin poeth; neu gymerwch olew *mastig*, y fynyglog, *mint*, wermod, o bob un haner wns; o *nutmegs*, trwy wasgiad, haner dram; olew *mint* fferyllaidd, tri dyferyn. Y mae mewn *coral* gynneddf ddirgel i attal cyfogi, a chan hyny y mae yn cael ei defnyddio trwy ei grogi oddeutu y gwddf.

---

## Dosp. VIII.

### Am Fagiad Dannedd Plant bach.

DRWG mawr iawn ac etto angenrheidiol yn mhob plentyn yw hwn, a chanddo amrywiol arwyddion yn unedig âg ef. Y maent yn dechreu dyfod allan, nid i gyd ar unwaith, ond y naill ar ol y llall, oddeutu y chweched neu y seithfed mis; y dannedd blaen yn dyfod yn gyntaf, yna dannedd y llygaid, ac yn olaf oll, y cil ddannedd. Mae y dannedd llygaid yn achos o fwy o boen i'r plentyn nac un o'r gweddill, o herwydd fod iddynt wraidd dwfn, a gewyn bychan yr hwn sydd iddo gyfraniad neu fath o gysylltiaid gyda

yr hwn sydd yn gwneuthur i'r llygaid ymsymud.

Yn magiad y dannedd, yn gyntaf y maent yn teimlo ysfa yn nghig y dannedd, yna gwânir hwy megis â nodwyddau, a phlygir hwy gan yr esgyrn llymion, oddiwrth yr hyn y deillia poenau mawrion, enyniad cig y dannedd, twymyn, y dolur rhydd, dirgryniadau,&c. yn enwedig pan fyddont yn magu y dannedd llygaid.

Yr arwyddion pan fyddo plant yn magu dannedd yw y rhai hyn;—

1. Adnabyddir ef wrth yr amser, yr hyn sydd yn arferol a bod oddeutu y seithfed mis.

2. Mae cig eu dannedd wedi ymchwyddo, ac y maent yn teimlo poethder mawr yno, gydag ysfa, yr hyn sydd yn gwneuthur iddynt roddi eu bysedd yn eu safnau idd eu rhwbio; mae gwlybwr hefyd yn dystillio o gig y dannedd i'r safn, o herwydd y poen y maent yn ei deimlo yno.

3. Maent yn gafaelyd yn y ddiden yn sicrach nag o'r blaen.

4. Mae cig y dannedd yn wýn lle y dechreua y dannedd ddyfod: ac y mae y fammaeth, wrth roddi sugn iddynt, yn cael y safn yn boethach, a'u bod wedi cyfnewid llawer, gan lefain bob munudyn, ac ni allant gysgu ond pur ychydig ar unwaith.

Mae y clefyd sydd yn dilyn magiad dannedd yn dyfod oddiwrth wlybyrau geriog, gan gael eu henynu trwy boen, gwres, &c. A pha hwyaf y bydd dannedd yn magu, mwyaf oll yw y perygl, fel ag y mae llawer yn eu magiad, yn marw, o dwymynau a dirgryuiadau.

*Gwellhad.* Mae dau beth idd eu hystyried:—Un yw, cadw y plentyn rhag y drwg ddi-

gwyddiadau a allant ddigwydd iddo o achos y poen mawr; y llall, i gynnorthwyo cymmaint ag a ellir doriad y dannedd, pan na allant braidd dori y cig eu hunain.

Rhag y cyntaf o'r rhai hyn, sef rhagflaenu y damweiniau hyn i'r plentyn, dylai y fammaeth ofalu am gadw lluniaeth da, ac arferyd pob peth ag a allant oeri a thymheru eu llaeth, fel felly na byddo i dwymyn ddilyn poenau y dannedd. Ac i attal y gwlybyrau rhag syrthio gormod ar y cig enynol, bydded i fól y plentyn bob amser gael ei gadw yn rhydd trwy chwistrell-feddyginiaethau araf, os bydd yn rhwym; er yn fynych nad oes angenrhaid am danynt o herwydd eu bod ar yr amserau hyny, yn fynych yn cael eu blino â'r dolur rhydd; ac etto, er hyny oll, nad anaddas a fyddai chwistrell-feddyginiaethau.

Mewn perthynas i'r llall, yr hyn yw cynnorthwyo toriad y dannedd, hyny a raid i'r fammaeth ei wneuthur o dro i dro trwy eu meddalu a'u llaccâu, a'u rhwbio â'i bys wedi ei drochi mewn ymenyn neu fêl; neu caffed y plentyn ganwyll *virgin wax* idd ei chnoi; neu eneiniwch gig y dannedd gydâ sudd mynyglog wedi ei wneuthur â dwfr hoccys, neu ymenydd ysgyfarnog; hefyd twymn-eneiniwch y bochau gyda dyferwad *althæa* a blodau *camomile*, a math o ffenygl â elwir *dill*, neu gyda sudd y feddalai ymenyn croyw. Os bydd cig y dannedd yn enynol, ychwanegwch sudd *nightshade* a *lettuce*. Yr ydwyf eisoes wedi dywedyd y dylai y fammaeth gymeryd lluniaeth dymherus: ni chaf yn awr ond ychwanegu fod cawl barlys, dwfr-gawl, wyau amrwd, *prunes*, *lettuce*, ac *endive* yn dda iddi; ond

gocheled win, a bwydydd hallt, sur, cnoawl, ac wedi eu pup'ro.

---

## Dosp. IX.

### Am Ddylifiad y Bol, neu ddolur rhydd mewn Babanod.

PETH cyffredin iawn yw fod dylifiad y bol, neu y dolur rhydd, ar fabanod, yn enwedig ar yr afiechyd lleiaf; ac nid yw yn rhyfedd, pan y canfyddir fod eu lleithder naturiol yn cyfranu cymmaint at hyny: ac hyd yn nod os bydd yn anarferol o danbaid, y mae y rhai hyny mewn gwell iechyd na'r rhai a fyddont yn rhwym. Y mae y dylifiad, os bydd yn danbaid, yn deilliaw o amrywiol achosion: megis 1, Oddiwrth fagiad y dannedd, a'r pryd hyny dilynir ef yn gyffredin â thwymyn, yn yr hon y rhwystrir y cyd-dreuliad, ac y llygrir y maeth. 2, Oddiwrth golli cysgu. 3. Oddiwrth boen. 4. Oddiwrth gynhyrfiad y gwlybyrau gan dwymynau. 5 Pan sugnant neu yr yfant ormodedd mewn twymyn. Weithiau mae dylifiad arnynt heb fagiad danedd, oddiwrth anwyd tufewnol yn y coluddion neu y cylla, ag sydd yn attal cyd-dreuliad. Os bydd oddiwrth y dannedd, hawdd yw ei adnabod; canys yr arwyddion yn magiad dannedd a ddeuant ag ef i'r amlwg. Os bydd oddiwrth anwyd allanol, y mae arwyddion o achosion craill. Os oddiwrth wlybwr yn dylifo o'r pen, y mae arwyddion o naws-lifiad (*catarrh*) ac y mae y carthion yn ewynog. Os bydd gwlybyrau llymrig ac anaeddfed yn cael eu harllwys, ac os bydd gwynt, bytheiriadau, a charthion llysna-

feddawg; neu os byddant yn felyn, yn wyrdd ac yn drewi, mae y dylifiad oddiwrth wlybwr poeth a sur. Gwell yw i'r bol fod yn rhydd mewn magiad dannedd, fel y dywedais o'r blaen ond os bydd yn danbaid, fel y byddwch yn ofni iddo ddiweddu mewn darfodedigaeth, rhaid ei attal; ac os bydd y carthion a arllwysir yn ddu ac yn cael ei ddilyn gan dwymyn y mae yn dra drwg.

GWELLHAD. Y feddyginiaeth yn yr achos hwn sydd yn benaf mewn golwg ar y fammaeth, a rhaid sylwi yn benaf ar gyflwr ei llaeth: rhaid rhoddi rhybudd iddi beidio a bwyta ffrwythydd anaeddfed, neu bethau o dreuliad caled. Oni bydd y plentyn yn sugno dim, symudwch y dylifiad gyda'r cyfryw garthfeddyginiaethau ag a adawant gynneddf oeraidd ar eu hol, megis cyflaith mêl neu *roses*, neu chwistrell-feddyginiaeth. Ar ol glanhau, os bydd yn deillio o achos poeth, rhoddwch gyflaith *rhoses* sychion, y fynyglog, myrtwydd, gydag ychydig o *sanguis draconis*. Hefyd eneiniwch gydag olew *rhoses*, myrtwydd, mastig, o bob un dau ddram; gydag olew myrtwydd a chŵyr, gwnewch enaint. Neu gymerwch *roses* cochion a *moulin*, o bob un dyrnaid; gwreiddiau cypreswydden, dwy ddram; gwnewch gwdyn; berwch ef mewn gwin coch, a chymhwyswch ef at y bol. Neu defnyddiwch blastr bara, neu enaint y cylla. Os anwyd fydd yr achos, a'r carthion a ddelo oddiwrtho yn wyn, rhoddwch gyflaith mastig a'r fynyglog, gyda dwfr *mint*. Yn allanol arferwch *fint*, mastig, cwmmin: neu gymerwch had *rose* wns, cwmmin, had anis, o bob un dau ddram; gydag olew mastig, wermod, a chwŷr, gwnewch enaint.

## Dosp. X.

Am y Llesmeir-glwyf, a Dirdyniadau mewn plant.

AFIECHYD yw hwn ag sydd yn fynych yn angeuol i blant ieuaingc, ac yn aml yn deillio o'r ymenydd, megis pan y mae y gwlybyrau ag ydynt yn achos o hono wedi cael eu magu yn yr ymenydd, yn tarddu naill ai o'r rhieni, neu o agcriadau neu ddrwg wlybyrau ag ydynt yn brath-gnoi pilioncnau yr ymenydd; achlysurir ef hefyd weithiau gan anhwylderau eraill, a thrwy luniaeth drwg; hefyd y mae y ddannodd, pan fyddo yr ymenydd yn cydsynied, yn achos o hono, ac felly y mae dychryn disymwth. Mewn perthynas i'r afiechyd ci hun y mae yn amlwg, ac adnabyddir ef yn burion lle y mae; ac am yr achos o ba le y mae'n dyfod, gellwch wybod wrth arwyddion yr afiechyd, pa un ai a fydd yn dyfod oddiwrth laeth drwg, llyngyr, neu ddannedd: os yw y rhai hyn yn absenol, mae yn ddilys mai yr ymenydd a effeithir arno gyntaf; os bydd yn dyfod gyda'r frech wen neu'r frech goch, mae yn peidio pan ddeuant allan, os bydd natur yn ddigon cref.

Gwellhad. Er meddyginiaethu yr afiechyd gorthrwm a mynych angeuol hwn, rhoddwch y powdr canlynol, idd ei attal, i blentyn cyn gynted ag y genir ef: cymcrwch wreiddiau blodau'r brenin, (banyw) wedi eu casglu pan fyddo'r lleuad ar leihâd, *scruple*; gyda *leaf gold* gwnewch bowdr: neu gymerwch wraidd blodau'r brenin, dram; had yr unrhyw, *mistletoe* y dderwen, carn yr elc,* penglog dyn, ambr,

* Math o hydd.

o bob un *scruple*, mwsg, dau ronyn; gwnewch bowdr. Y rhan oreu o'r gwellhâd yw cymeryd gofal gyda lluniaeth y fammaeth, yr hwn a raid fod yn rheolaidd er dim. Os bydd oddiwrth beth llygredig, cyffrowch gyfogiad; ei gwneuthur yr hyn, daliwch i lawr y tafod, a rhoddwch *gwilsin* wedi ei drochi mewn *oil of sweet almonds* i lawr i'r corn gwddf. Os bydd yn dyfod oddiwrth lyngyr, rhoddwch y cyfryw bethau ag a'u lladdant. Os bydd twymyn, mewn golwg ar hyny hefyd rhoddwch *gora smaraged* a charn yr elc. Yn y llewyg, rhoddwch ddwfr *epileptic*, megis dwfr *lavender*, a rhwbiwch gydag olew ambr, neu grogwch wraidd llysiau'r brenin, a charn yr elc *smaraged* oddetu gwddf y plentyn.

Mewn perthynas i ddirdyniad, pan fyddo'r ymenydd yn llafurio i fwrw allan yr hyn sydd yn ei flino y mae: afiechyd ystyfnig yw, ac y mae yn fynych yn lladd.

Golchwch y corph, pan yn y llewyg, yn enwedig asgwrn y cefn, gyda dyferwad *althæa*, gwraidd lili, blaen-dardd blodau'r brenin, a camomile, ac eneiniwch ef gyda saim gŵydd a dyn, olewoedd pryfed, sider, *lilies*, cadnöaid, *turpentine*, mastig, *storax*, a *chalamint*. Mae yr haul-flodeuyn hefyd yn dda iawn, wedi ei ferwi mewn dwfr, i olchi y plentyn.

# MEDDYGINIAETHAU ADDAS A DIOGEL

ER IACHAU

# YR HOLL ANHWYLDERAU

PERTHYNOL I'R

# RHYW FENYWAIDD.

*AC YN NEILLDUOL Y RHAI HYNY AG YDYNT*

**RWYSTRAU I YMDDWYN PLANT.**

## YR AIL RAN.

WEDI diweddu o honwyf y rhan gyntaf o'r llyfr hwn, a darfod i mi ynddo, fel y gobeithiaf, gyflawni fy addewid yn helaeth i'r darllenydd, yr wyf yn awr wedi dyfod i ymdrin â'r anhwylderau priodol i'r rhyw fenywaidd; fy mwriad yn yr hyn yw traethu yn unig am y rhai hyny ag y maent yn fwyaf darostyngedig iddynt pan fyddont mewn cyflwr planta, a'r rhai hyny ag ydynt yn eu cadw rhag bod felly; ynghyd a'r cyfryw feddyginiaethau cyfaddas a diogel ag a fyddo yn ddigonol idd eu gyru yn ol. Ac yn gymaint ag nad oes, ymhlith yr holl glefydau ag y mae y natur ddynol yn ddarostygedig iddynt, yr un ag sydd yn gwrthwynebu gwir ddyben ein creadigaeth mor gyferbynlol, a bwriad natur yn ffurfiad y gwahanol rywiau, a'r gallu a roddir i ni trwy hyny y'ngwaith cenhedliad, na hwnw o

eiddo anffrwythlondeb, yr hwn lle mae'n ffynu sydd yn troi y fyd-wraig fwyaf perffaith yn un o'r personau mwyaf difudd, ac yn dystrywio bwriad a chynllun ein llyfr; tybiaf, gan hyny, fod anffrwythlondeb yn effaith neu achos sydd yn teilyngu ein hystyriaeth gyntaf a phenaf.

---

## Pen. I.

*Am Anffrwythlondeb; ei amrywiol Rywiogaethau; ynghyd a'r Meddyginiaethau priodol rhagddo; a'r Arwyddion o annigonolrwydd mewn Meibion a Merched.*

### Dosp. I.

Am Anffrwythlondeb yn gyffredinol.

Anffrwythlondeb sydd naill ai naturiol ai celfyddydol.

Anffrwythlondeb naturiol yw, pan fyddo menyw yn anffrwythlon er fod offerynau cenhedliad yn berffaith ynddi hi a'i gwr, ac heb unrhyw foddion chwithig neu ddieflig (*diabolical*) wedi ei ddefnyddio idd ei achlysuro, nac ychwaith oedran nac afiechyd, nac unrhyw ddiffyg naturiol yn ei attal, ac etto mae y fenyw yn aros o hyd yn naturiol anffrwythlon.

Yn awr, gall hyn ddeillio o achos naturiol; o herwydd os bydd y mab a'r ferch o'r un ardymer, anfynych y bydd ganddynt blant: ac y mae y rheswm yn eglur, o herwydd gan fod hynt gyffredinol natur wedi ei ffurfio o gyfansoddiad o bethau gwrthwynebol (*contraries*) ni all gael ei hychwanegu trwy gyfansoddiad o

ethau cyffelyb; (*likes*) a chan hyny, os bydd ardymer corph y fenyw yn frwd a sych, yn gystal a'r dyn, ni all fod beichiogiad: ac os, i'r gwrthwyneb, pe byddai y dyn o ardymer laith ac oer, yn gystal a'r fenyw, byddai yr effaith yr un; a'r anffrwythlondeb hwn sydd dra naturiol. Yr unig ffordd i helpio hyn yw i bobl, cyn y prïoder hwy, sylwi ar ardymer y naill y llall, os byddant yn bwriadu cael plant. Os bydd eu hardymerau yn gyffelyb, nid ydynt gymwys i ddyfod ynghyd, canys naturiaethau anghytun neu anghydsain yn unig a wnant gysondeb yn ngwaith cenhedliad.

Achos naturiol arall o anffrwythlondeb yw diffyg o gariad rhwng gwr a gwraig. Cariad yw yr egwyddor fywydol o hòno ac a ddylai ysprydoli pob un o'r offerynau yn y weithred o genhedliad, os amgen, di yspryd a marwaidd a fydd; canys os na bydd eu calonau wedi eu huno mewn cariad, pa fodd y gall eu had ymuno i beri beichiogiad? Ac amlygir hyn yn ddigonol, yn, nad oes bechiogiad un amser yn dilyn treisio. Gan hyny os yw meibion a merched yn bwriadu cael plant, byddent fyw felly, fel y byddo i'w calonau a'u cyrph gael eu huno, os amgen, siomir hwy yn eu disgwyliadau.

Trydydd achos o anffrwythlondeb naturiol, yw gwaedu gwyryfon yn y fraich cyn idd eu mis-lif naturiol ddyfod i lawr, yr hyn yn gyffredin sydd yn y bedwaredd ar ddeg a'r bymthegfed flwyddyn o'u hoed; weithiau hwyrach cyn y drydedd ar ddeg, ond nid cyn y ddeuddegfed un amser. Ac o herwydd eu bod yn gyffredin yn anhwylus ac yn lled glaf, cyn y daw eu mislifiant i lawr, rheda eu rhieni at y meddyg i

gael gwybod beth yw y matter; ac yntau, oni bydd yn fedrus, yn naturiol a orchymyna waedu yn y fraich, gan dybied mai cyflawnder o waed yw yr achos; ac fel hyn ymddengys o fod wedi gwellhau am yr amser presenol: a phan ddigwydd i'r wyryf ieuangc fod drachefn yn yr un afiechyd, y mae y fam etto yn myned at y meddyg, yr hwn a arfera yr un feddyginiaeth; a thrwy y moddion hyn y mae y gwaed yn cael ei droi o'i le priodol i'r fath radd, fel nad yw yn dyfod i lawr i'r groth fel arferol; ac felly y mae y groth yn sychu i fynu, ac y mae hi am byth yn anffrwythlon. I ragflaenu hyn, na fydded i un wyryf waedu yn y fraich cyn i'w mis-lifiadau ddyfod i lawr yn dda; ond, os bydd angenrhaid am hyny, gwaeded yn y troed, canys dwg hyny y gwaed tu ag i wared, a thrwy hyny cyffry y mis-lif i ddyfod i lawr.

Achos arall o anffrwythlondeb yw gwendid mewn ymrëad. Oni chyflawna personau y weithred hòno gyda'r holl ymroddiad a'r awyddfryd ag sydd yn ofynol gan natur, cystal a fyddai iddynt ei gadael yn llonydd, a disgwyl plant hebddi; canys nid yw marweidd-dra ac oerfelgarwch byth yn dwyn allan feichiogiad. Am feddyginiaethu hwn, traethwn ar fyr, ar ol ymdrin o honwyf ynghylch anffrwythlondeb damweiniol, yr hwn a achlysir gan ryw sylwedd heintus neu lesgedd ar y corph, naill ai ar y mab neu'r ferch, yr hyn wedi y symuder ef, y maent yn dyfod yn ffrwythlon. Ac yn gymaint, fel y nodais o'r blaen, ag mai cyfraith fawr a chyntaf y crëadigaeth ydyoedd *ffrwytho ac amlhau*, ac fod anffrwythlondeb yn uniongyrchol wrthwyneb i'r gyfraith hóno, ac yn diddymu

dyben ein crëedigaeth; a chan mai trallod mawr yw i lawer fod heb blant, ac yn fynych yn achos i ŵr a gwraig gario meddyliau caledion am y naill y llall: caf yma, er boddlonrwydd i bobl iawn-ddeallus, i osod i lawr yr arwyddion a'r achosion o annigonolrwydd mewn meibion a merched, gan rag-grybwyll yn gyntaf, na ddylai pobl pan fyddont heb blant, yn fuan feio y naillt y llall, canys gellai nad oes yr un o honynt yn feius.

---

## Dosp. II.

### Arwyddion ac Achosion Annigonolrwydd mewn Dynion.

UN achos a allai fod mewn rhyw ddrygan-iaeth o eiddo y wïalen, megis pe byddai yr unrhyw yn gam, neu unrhyw gieuyn o honi wedi ei gam-ystumio a'i dori, trwy yr hyn y mae y ffyrdd a'r mynedfeydd trwy ba rai y dylai yr hâd redeg yn dyfod i gael eu hattal neu eu llygru.

Achos arall a allai fod, gormod gwendid a thynerwch yn y wialen, fel nad yw yn ddigon cref-syth i daflu hâd i mewn i'r groth; canys y mae cryfder a sythdra y wialen yn cyd-weinyddu yn fawr iawn er beichiogiad, o herwydd gyriad allan nerthol yr hâd.

Hefyd, os bydd yr arrenau wedi derbyn unrhyw niwaid, fel na allant wneuthur a ddylent yn nygiad allan hâd; neu os byddant yn cael eu gorthrymu gan enyniad, chwydd, archoll, neu lynoryn, neu wedi eu tynu i fynu y tu fewn i'r bol, ac heb fod yn ymddangos yn allanol.

Hefyd, gall dyn fod yn anffrwythlon o her-

wydd diffyg hâd: megis, yn gyntaf, os na wna fwrw allan ddim hâd, neu lai mewn sylwedd nag sydd angenrheidiol. Neu, yn ail, os bydd yr hâd yn ddrygiog, neu yn anghymwys er cenhedliad; megis, o un tu, y digwydd mewn cyrph ag ydynt frâs a thew, y sylwedd o hono yn bod yn ddiffygiol; ac, ar y tu arall, gormod o deneuder, neu dreuliad, neu ddarfodiad parhaus y corph, y mae yn distrywio yr hâd, gan fod natur yn troi yr holl sylwedd a'r defnydd o hono er maeth y corph.

Ymrëad rhy fynych hefyd sydd un achos mawr o anffrwythlondeb mewn dynion; oherwydd y mae yn tynu y lleithder hadol o'r arenau, cyn ei fod wedi ei dreulio a'i baratoi yn ddigonol. Felly os gwna unrhyw un trwy ymrëad beunyddiol, dreulio a thynu allan holl leithder yr hâd, yna mae yr arrenau yn tynu y gwlybyrau suddlyd o'r gwythienau goreu i mewn iddynt eu hunain; ac felly, a chanddynt ond ychydig o waed ynddynt, dirgymellir hwy o angenrheidrwydd idd ei fwrw allan yn anaeddfed ac heb ei dreulio, ac fel hyn ymddifadir yr arrenau trwy drais o leithder eu gwythienau, a'r gwythienau goreu a'r holl ranau eraill o'r corph o'u hysbrydoedd bywydol; gan hyny nid rhyfedd yw fod y rhai hyny ag ydynt yn arfer ymread anghymedrol yn dra gwan yn eu cyrph, gan y gweler fod eu holl gorph trwy hyny yn cael ei ymddifadu o'r gwaed goreu a phuraf, ac o'r ysbrydoedd, yn gymaint a bod llawer, y rhai a fuant yn rhy chwannog i'r pleser hwnw, wedi lladd eu hunain yn y weithred.

Mae glythineb, meddwdod, ac anghymedrolderau, eraill, yn attal cymaint ar ddynion oddi

wrth ffrwythlondeb, fel y mae yn eu gwneuthur yn anghymwys er cenhedlu.

Ond ymysg achosion eraill o anffrwythlondeb ymhlith dynion, y mae hwn hefyd yn un, ac yn eu gwneuthur braidd o natur y dyspeiddiaid, (*eunuchs,*) a hyny yw yr hacciad, neu doriad eu gwythienau o'r tu ol idd eu clustiau, yr hyn mewn anhwylderau a wneir yn fynych; o herwydd, yn ol barn y rhan fwyaf o feddygon a difynwyr, mae yr hâd yn dylifo o'r ymenydd trwy y gwythienau hyny o'r tu ol i'r clustiau yn fwy nag o unrhyw ran arall o'r corph. Oddi wrth yr hyn y mae'n debygol, fod trosglwyddiad yr hâd yn cael ei attal trwy dorriad y gwythienau o'r tu ol i'r clustiau, fel na all ddisgyn fodd yn y byd i'r caill, (*testicles*) neu ddyfod yno yn dra llymrig ac anaeddfed.

---

## Dosp. III.

### Arwyddion ac Achosion Annigonolrwydd; neu Anffrwythlondeb mewn Benywod.

ER fod llawer o achosion o anffrwythlondeb mewn benywod, etto y prif a'r penaf ydynt dufewnol, mewn golwg naill ar y rhanau dirgel, y groth, neu y gwaed misawl.

Gan hyny dywed Hippocrates, (gan lefaru yn gystal am feichiogiad hawdd ac un anhawdd,) mai yr ystyriaeth gyntaf a ddylai fod ynghylch y rhywiau; o herwydd y mae benywod bychain yn fwy tueddol i feichiogi na rhai mawr,—rhai teneuon na rhai tewion,—rhai gwynion a theg na rhai gwynion a dyfnliw,—rhai duon na rhai

gwelwon,—y rhai sydd a'u gwythienau yn eglur na'r rhai nad ydynt felly; ond bod yn dra chigog sydd ddrwg, a bod a *brestiau* chwyddedig a mawr sydd dda.

Y peth nesaf i'w ystyried ydyw y dylifiadau misol, pa un ai eu bod wedi bod yn iawn bob mis, pa un ai eu bod yn dylifo yn helaeth, ac a fuant hwy hefyd yn gyfartal bob mis.

Yn nesaf y mae y groth, neu le y beichiogiad i'w ystyried. Dylai fod yn lân a dianaf, sych a meddal; heb fod wedi ei llacau nac wedi ei thynu i fynu; heb fod yn ogwyddol nac yn disgyn tuag i waered; na'i safn wedi ei throi ymaith, nag wedi ei chau i fynu yn rhy gaeth. Ond i lefaru yn fwy neillduol.

Y rhanau cyntaf sydd i draethu am danynt yw y *pudenda*, neu y dirgeloedd, a'r groth, y rhai ydynt gauedig ac amgauedig naill ai trwy natur neu yn groes i natur: ac oddiwrth hyn, y cyfryw mewn benywod a elwir *impervatus*, gan fod safn y groth mewn rhai benywod, yn parhau i gael ei gwasgu, neu wedi ei chau i fynu, o amser eu genedigaeth hyd ddyfodiad eu mis-lifiant, ac yna yn ddisymwyth, pan wasga eu mislifiant ymlaen i ymgarthu, y maent yn cael eu blino gan boenau mawrion ac anarferol. Weithiau tỳr y rhai hyn o honynt eu hunain; eraill a agorir ac a ddifynir gan feddygon; eraill nid ydynt yn tori o gwbl, yr hyn a ddwg ymlaen anhwylderau a derfynant yn angeu.

Y mae Atins yn trin yr holl bethau hyn yn neillduol, gan ddangos fod y groth yn gauedig mewn tair ffordd, ag sydd yn attal beichiogiad. Yn gyntaf, pan fyddo gwefusau y dirgeloedd yn tyfu neu yn ymlynu ynghyd. Yn ail, pan fyddo

yno bilionenau yn tyfu yn rhan ganol y bru oddi mewn. Yn drydydd, pan fyddo safn y groth, (er y gall gwefusau a mynwes y *pudenda* fod yn ymddangos yn deg ac agored) wedi ei hollawl gau i fynu. Y cwbl o ba rai ydynt yn achosion o anffrwythlondeb, gan eu bod yn attal y cyd-gyfeillach â dŷn, y mislifiadau, a beichiogiad.

Ond yn mysg yr holl achosion o anffrwythlondeb mewn merched, y mwyaf yw y groth, yr hon yw maes cenhedliad: ac os bydd y maes hwn yn llygredig, ofer yw disgwyl unrhyw ffrwyth, pa mor dda bynag yr hauer ef. Gellai fod yn annghymwys er cenhedliad, o herwydd yr aml anhwylderau i'r rhai y mae yn ddarostyngedig: megis, er engraifft, brydaniaeth neu anwyd gormodol; o herwydd, ni all benywod, crothau pa rai ydynt ry dew ac oer, feichiogi, o herwydd fod oerfel yn diffodd brydaniaeth yr had dynol. Y mae lleithder anghymedrol y groth hefyd yn distrywio had dyn, ac yn ei wneud yn aneffeithiol, megis ŷd a hauer mewn llynau a chorsdir; ac felly y gwna sychder gormodol y groth, fel y mae yr had yn darfod o eisiau maeth. Y mae gwres anghymedrol y groth hefyd yn achos o anffrwythlondeb, o herwydd y mae yn deifio yr had, fel ŷd a hauer yn ngwres yr haf; canys y mae gwres anghymedrol yn llosgi pob rhan o'r corph, fel na all beichiogiad fyw yn y groth.

Pan genhedlir gwlybyrau anaturiol, megys dyfrglwyf gwyntog, gwynt, dyfroedd, llyngyr, neu unrhyw ddrwg-wlybyrau o'r fath, yn ormodawl yn groes i natur, y mae yn achos anffrwythlondeb, megis y mae pob mislifiadau nad ydynt yn dyfod i lawr yn rheolaidd.

Gall fod achos arall damweiniol o anffrwyth-

londeb i fenyw (yr hyn a ddichon o leief, attal ei beichiogiad) megis dychryniadau disymwyth, digter, tristwch, a therfysg meddwl; ymarferiad corphorol rhy danbaid, megis neidio, dawnsio, rhedeg ar ol ymrëad a'r cyffelyb. Ond yn awr ychwanegaf rai arwyddion, trwy ba rai y gellir adnabod y pethau hyn.

Os bydd yr achos o anffrwythlondeb yn y mab, trwy ormod o wres yn ei had, gall y ferch deimlo hyny yn hawdd wrth ei dderbyn.

Os bydd natur y ferch yn rhy boeth, a thrwy hynyyn anghymwys er beichiogiad, ymddengys hyny drwy fod ei mislif yn dra bychan, a'i liw yn tueddu at felyndra; y mae hi hefyd yn dra byrbwyll, llidiog a chyfrwys; y mae ei gwaed yn curo yn dra buan, ac y mae hi hefyd yn dra chwannog i ymrëad.

I wybod pa un ai yn y mab ai ynte yn y ferch y mae y bai, ysgeintiwch ddwr y mab ar ddeilen *lettuce*, a dŵr y fenyw ar un arall, a'r hwn a sycha ymaith gyntaf sydd anffrwythlawn. Hefyd cymerwch bump o rawn gwenith, a saith o ffa, dodwch hwy mewn llestr pridd, a bydded i'r mab a'r ferch wneud dŵr arnynt; gadawer i hwn sefyll saith niwrnod, os dechreua egino yn yspaid yr amser hwnw, yna y mae y personau yn ffrwythlon; ond os na eginant y maent yn anffrwythlon, pa un bynag ai mab a'i merch a fydd y mae hyn yn arwydd sicr.

Rhai a wnant y prawf hwn o ffrwythlondeb merch; cymerwch myrrh, *storax* coch, a rhai pethau peraroglaidd, a gwnewch berarogl o hono; a bydded i'r fenyw ei dderbyn i wddf y groth trwy ffunnell; os teimla y fenyw y mŵg yn esgyn trwy ei chorph i'r ffroenau, yna y mae hi

yn ffrwythlon, os amgen anffrwythlon yw hi, Rhai hefyd a gymerant arlleg a chwrw, ac a barant i'r ferch orwedd ar ei chefn arno, ac os teimla yr arogl o hono yn ei thrwyn y mae yn arwydd ei bod yn ffrwythlon.

Culpepper ac eraill a roddant goel fawr i'r prawf canlynol:—cymerwch ddyrnaid o haidd, a mwydwch ei haner yn mhision y mab, a'r haner arall yn mhision y ferch, am yspaid pedair-awr-ar-hugain; yna cymerwch ef allan, a rhoddwch eiddo y mab ar ei ben ei hun, ac eiddo y ferch yr un modd; gosodwch ef mewn blodeu-lestr (*flower-pot*) neu ryw beth arall, a gadewch iddo sychu; dyfrhewch eiddo y mab bob bore â'i ddŵr ei hun, ac eiddo y fenyw hithau â'i dŵr ei hun, a'r hwn a dyf gyntaf yw y ffrwythlonaf; ond os na thyfant ddim y maent yn naturiol yn anffrwythlon ill dau.

GWELLHAD. Os bydd anffrwythlondeb yn deilliaw oddiwrth attaliad y misglwyf, bydded i'r fenyw chwysu, o herwydd y mae hyny yn agor y rhanau; a'r ffordd oreu i chwysu ydyw mewn twym'dy. Yna cryfhaer y fenyw trwy gymeryd llymaid o win gwyn, wedi berwi ynddo ddyrnaid o *arrack* drewllyd wedi eu hyssigo; canys trwy rinwedd tyniadol dirgel y mae yn cryfhau y groth, a thrwy gynneddf gydoddefol, y mae yn symud unrhyw afiechyd o honi. At yr hyn hefyd ychwanegwch ddyrnaid o'r llysiau cas gan gythraul, yr hyn sydd yn dda iawn i gryfhau y groth a'r pen, pa rai yn gyffredin a gyd-gystuddir trwy gydymdeimlad. Wedi arfer y pethau hyn am ddeuddydd neu dri, oni fyddant yn dyfod i lawr, cymmerwch *calamint*, teim, brymlys, cribau St. Ffraid, *dittany*, llysiau'r

cryman, llysiau'r fam, llysiau Ieuan, gwreiddiau blodau'r brenin; saeds, grawn meryw, haner dyrnaid o bob un, neu gymaint ag a ellir eu cael, berwer y rhai hyn mewn cwrw, a chymered hwy yn ddiod.

Cymerwch un ran o wraidd crwynllwys, dwy ran o fustl y ddaear, dystilliwch hwy gyda chwrw mewn dystill-bair, ar ol i chwi ysigo y gwreiddiau a'u trwytho yn dda. Meddyginiaeth ragorol yw y dwfr hwn i gyffroi y mislif. Ond oni bydd y dwfr hwn yn barod genych, cymerwch ddram o fustl y ddaear, a haner dram o wreiddiau crwynllys wedi eu hysigo, a'u berwi mewn diod meiddlyn, ac yfwch lwngc o hono y nos wrth fyned i'r gwely. Y mae had erfinen wyllt, a chymeryd dram o hono yn y boreu mewn gwin gwyn, yn bur dda hefyd; ond os na ettyb, rhaid ei gwaedu yn ei choesau. A byddwch yn sicr o weinyddu eich cyffuriau ychydig cyn bod y lleuad yn llawn, neu rhwng y newdd a'r llawn, ac nid yn lleihad y lleuad er dim; os gwnewch y pryd hyny, chwi a'u cewch yn dra effeithiol.

Os bydd anffrwythlondeb yn deillio o orlifiant y mislif, yna cryfhewch y groth fel y dysgwyd chwi o'r blaen; wedi hyny eneiniwch lefnau (*reins*) y cefn gydag olew *rhoses*, olew myrtwydd, ac olew y fynyglog, bob nos, ac yna plygwch ddernyn o *baize* gwyn oddeutu eich llefnau, y cottwm yn nesaf i'r croen, a chedwch yr unrhyw bob amser wrtho. Ond uwchlaw y cwbl yr wyf yn adganmol y phisygwriaeth ganlynol i chwi: Cymerwch ddail neu wreiddiau glesyn y coed, a llysiau'r archoll, o bob un dyrnaid; ysigwch hwy yn dda a berwch hwy mewn cwrw, ac yfwch lwngc da o hono yn awr

ac yn y man. Neu cymerwch synamwn, *cassia lignea*, opiwm, o bob un dwy ddram, myrrh, puppyr gwyn, *galbanum*, o bob un dram; todd-wch y gwm a'r *opiwm* mewn gwin gwyn; melwch y gweddill yn fân, a gwnewch ef yn beleni, gan eu cymysgu ynghyd yn fanwl, a bydded i'r goddefydd gymeryd dwy bob nos wrth fyned i'r gwely; ond na fydded i'r peleni fod yn fwy nag un-gronyn-ar-bymtheg bob un.

Os bydd anffrwythlondeb yn deillio oddiwrth ddylifiad yn y groth, rhaid i'r gwellhad fod yn ol yr achos f'o yn ei ddwyn allan, neu yr hyn y mae y dylifiad yn deillio o hono, yr hyn a ellir ei adnabod wrth arwyddion; o herwydd dylifiad o eiddo y groth, gan mai dystilliad parhaus o honi yw am hir amser, mae lliw yr hyn a arllwysir yn dangos pa wlybyrau sydd yn niweidiol; mewn rhai y mae'n goch; ac y mae hwnw yn deillio o waed pwdr; mewn rhai y mae'n felyn, ac mae hyny yn dynodi geri; mewn craill yn wyn a gwelw, ac mae hyny yn dynodi llysnafedd. Os bydd gwaed pur yn dyfod allan, fel pe agorid gwythïen, mae rhyw ysiad neu gnöad y groth idd ei ofni. Adnabyddir y rhai hyn oll wrth yr arwyddion canlynol:

Mae lle y beichiogiad yn llaith yn barhaus gan y gwlybyrau, y wyneb yn ddrygliw, mae y person yn ffieiddio bwyd, ac yn anadlu gydag anhawstra, mae y llygaid yn dra chwyddedig, yr hyn a fydd weithiau heb boen. Os gwaed pur fydd y gwlybwr niweidiol, yna rhaid gwaedu yn y fraich, a'r wythïen *cephalic* yw y gymwysaf i dynu yn ol y gwaed; yna chwistreller sudd dail llyriaid a glesyn y coed i mewn i'r groth. Os llysnafedd a fydd yr achos, bydded iddi ddefn-

yddio synamwn yn ei holl fwydydd a diodydd; a chymered ychydig o driagl *Venice* neu *mithridate* bob bore. Berwed lysiau'r cryman, llysiau Ieuan, llysiau'r fam, a chas gan gythraul, yn ei holl gawl. Hefyd, haner dram o myrrh, a'i gymeryd bob bore, sydd feddyginiaeth ragorol rhag yr afiechyd hwn. Os geri a fydd yr achos, cymered lysiau'r cryman, tafod yr ŷch, rhoses cochion, *endive*, a gwreiddiau ysgall y meirch, had pabi gwyn a *lettuce*, dyrnaid o bob un; berwch y rhai hyn mewn gwin gwyn, hyd oni byddo yr haner wedi treulio; yfed haner peint bob bore; at yr hyn hefyd ychwanegwch gyflaith blodau pëatus a chyflaith *chicony*, o bob un wns, gydag ychydig *rubarb*, a chartha hyn hi yn araf. Os bydd yn deillio oddiwrth waed pwdr, gwaeder hi yn y troed, ac yna cryfhewch y groth fel y cyfarwyddais yn attaliad y mislif.

Os bydd anffrwythlondeb yn cael ei achlysuro trwy syrthiad allan y groth, fel y digwydd weithiau, cymhwysed bêr aroglau at y ffroenau, megis, mwsg, *galbanum*, *storax*, *calamitis*, *wood aloes*, a'r cyfryw bethau eraill ag ydynt o'r natur hono; a doded bethau drewedig wrth y groth, megis *assafœtida*, olew ambyr, neu fwg ei gwallt ei hun wedi ei losgi; canys gwirionedd pendant ydyw y gwna y groth ffoi oddiwrth bob peth drewedig, ac y tyn at bob peth pêr. Ond y feddyginiaeth fwyaf anffaeledig yn yr achos hwn yw hyn: cymerwch ddeilen cacamwcci cyffredin, yr hon a ellwch ei chadw yn sêch os dewiswch drwy y flwyddyn, cymhwyswch hon at ei phen, a hi a dŷn y groth i fynu. Yn llewygfeydd y fam, cymhwyswch hi at wadnau y traed, a thyn y groth tuag i wared. Ond hâd wedi ei

fân-falu, a dŷn y groth ffordd y mynoch, yn ol fel ei cymhwyser.

Os bydd anffrwythlondeb mewn benyw yn deillio o achos brwd, cymered faidd, a gloywed ef; berwch wreiddiau a dail llyriaid ynddo, ac yfed ef fel ei diod gyffredin. Bydded iddi hefyd chwistrellu sudd llyriaid idd ei chroth gyda chwistrell. Os y gauaf a fydd, pan na ellwch gael y sudd, gwnewch ddyferwad cryf o'r dail a'r gwreiddiau mewn dwfr, a chwistrellwch hwnw i fynu gyda chwistrell; ond bydded ei gynhesrwydd yngwres y gwaed, a chwi a gewch y phisigwriaeth hwn yn dra effeithiol. Ac yn mhellach, i gymeryd ymaith anffrwythlondeb yn deillio oddiwrth achosion poeth: cymerwch o gyd-gyflaith *roses, lozenges* oerion, wedi eu gwneuthur o *tragacanth*, cyffeithiau (*confections*) *tricantelia*; ac idd eu harogli, arferwch-*camphire rose-water* a *saunders*. Da hefyd yw gwaedu y *basilica*, neu wythïen yr afu, a thynu pedair neu bump wns o waed, ac yna cymerwch y carthiad a ganlyn: cymerwch *electuarium de epythymo, de succo rosarum*, o bob un ddwy ddram a haner; maidd gloywedig pedair wns; cymysgwch hwy yn dda ynghyd, a chymerwch ef yn y boreu gan ymprydio; cysgwch ar ei ol oddeutu awr a haner, ac ymprydiwch bedair awr wedi hyny; ac o ddeutu awr cyn i chwi fwytta dim, yfwch lwngc da o faidd. Hefyd cymerwch ddwfr lili, bedair wns; dwfr *mandregar*, wns; saffrwm, haner *scruple*; melwch y saffrwm yn fân, a chymysgwch ef gyda'r dyfroedd, yfwch hwy yn gynes yn y boreu; arferwch y pethau hyn am wyth niwrnod ynghyd.

### *Rhai Meddyginiaethau cymmeradwy rhag Anffrwythlondeb, ac i beri Ffrwythlondeb.*

Cymerwch flodau banadl, hâd persli, cwmin, llysiau Ieuan, llysiau'r fam, persli'r gors, haner *scruple* o bob un; alws, haner wns; halen *Indian*, saffrwm, o bob un haner *scruple*; pwywch a chymysgwch hwy ynghyd, a rhoddwch bum' wns o ddwfr llysiau'r fam ynddo yn gynes, cauwch arno yn *glos*, a gwnewch iddo sefyll a sychu mewn lle cynes, a gwnewch hyn ddwy neu dair o weithiau, y naill ar ol y llall; yna gwnewch bob dram yn chwech o beleni, a chymerwch un o honynt bob yn ail nos cyn swper.

Yn feddyginiaeth garthol yn erbyn anffrwythlondeb, cymerwch gyd-gyflaith *benedicta lax*, chwarter wns; *depsillo*, tri dram; cyflaith *de succo rosarum*, un dram; cymysgwch hwy ynghyd gyda dwfr llysiau'r fam, ac yfwch ef yn y boreu yn brydlawn. Oddeutu tri diwrnod wedi i'r goddefydd gymeryd y carthion, gwaeder hi gan gymeryd tair neu bedair wns o'r *median*, neu y wythien ddu gyffredin yn y troed de; yna am bum diwrnod olynol rhoddwch iddi ifori rhygnedig, (*filed*) dram a haner, mewn dwfr llysiau'r fam; ac yn ystod yr amser eisteddcd yn y badd canlynol am awr ynghyd, foreu a hwyr: cymerwch *sapcs* melynion tyner, *daucus*, pren a ffrwyth *balsam*, alweddau mair, o bob un dau ddyrnaid; *behen* gwyn a choch, blodau banadl, o bob un ddyrnaid; mwsg, tri gronyn; ambr, saffrwm, o bob un *scruple*; berwch y cwbl mewn dwfr yn ddigonol; ond rhaid rhoddi y mwsg, yr ambr, y saffrwm, a'r blodau banadl yn y dyferwad, ar ol ei ferwi a'i hidlo.

*Cyffeithiad* (confection) *da iawn rhag anffrwythlondeb.*

Cymerwch *pistachia*, celyn y môr, haner wns o bob un; saffrwm, dram; *lignum aloes, galingal, mace, coriophille*, blodau *balm, behen* gwyn a choch o bob un pedwar scruple; rhasglion ifori, *cassia barh*, o bob un dwy *scruple*; cyflaith sinsir cyffeithiedig, deuddeg wns; siwgr gwyn, chwe' wns; berwch y rhai hyn oll mewn chwe' wns o ddwfr *balm*, ac ysgydwch hwy ynghyd yn dda; yna rhoddwch ynddo fwsg ac ambr, *scruple* o bob un; cymerwch o hono swm *nutmeg* dair gwaith yn y dydd; yn y bore, awr cyn canol dydd, ac awr ar ol swpper.

Ond os bydd yr achos o anffrwythlondeb, mewn mab neu ferch, yn deillio o brinder neu leihâd yr hâd naturiol, yna rhaid cymeryd y cyfryw bethau ag a ychwanegont yr hâd, ac a gynhyrfant ac a gymhellant i chwantachrwydd ac ymread pellach; y rhai a gaf eu dodi i lawr yma, ac yna terfynaf y bennod hon mewn perthynas i anffrwythlondeb.

Rhag hyn y mae hâd erfin melyn wedi eu crasu mewn bara yn bur dda; hefyd cig bras ieuangc, heb ei halltu yn ormodol; hefyd saffrwm, cynffonau *stincus*, a phupyr hirion wedi eu parotoi mewn gwin. Ond bydded i'r fath bersonau ochelyd pob bwydydd sur, toeslyd, a lleidlyd, hir gysgu ar ol bwyd, alariad, a meddwdod; a chadw eu hunain cymmaint ag a fyddo modd oddiwrth dristwch, blinder, a gofal pryderus.

Mae y pethau a ganlyn yn ychwanegu yr hâd naturiol, yn cyffroi i chwantachrwydd, ac

yn ad-gryfhau yr hâd drachefn pan y byddo wedi colli; sef wyau, llaeth, *rice* wedi eu berwi mewn llaeth, ymenydd adar y to, y cnawd, yr esgyrn a'r cwbl; arrenau a gwialenau teirw, bychod, myheryn, ac eirth; hefyd arrenau ceiliogod, arrenau ŵyn, petris, soflieir, ac wyau *pheasants.* Ac ymadrodd anwadadwy yw hwn, sef fod pa beth bynnag y mae unrhyw greadur yn chwannog iddo, yn symud neu gynhyrfu y dyn neu y fenyw a'u bwytty i'r cyffelyb; am hyny, gan fod petrisod, soflieir, adar y to, &c. yn dra chwannog i gyd-gnawd, y maent yn gweithio yr un effaith ar y meibion a'r merched hyny a'u bwyttant. Hefyd deliwch sylw, pa ran bynag o'r corph ag y mae y gynneddf ag sydd eisiau ei chryfhau yn gorwedd, cymerwch yr un rhan hono o gorph creadur arall, yn yr hwn y mae y gynneddf yn gref, fel physygwriaeth a ddylech ei gymeryd. Megis er engraifft: mae y gynneddf genhedledigol yn gorwedd yn y caill; gan hyny, y mae ceilliau ceiliogod, ŵyn, &c. yn briodol i gynhyrfu chwantachrwydd. Rhoddaf reol gyffredinol arall; mae pob creadur ffrwythlon ag a fwytteir yn gwneuthur y rhai sydd yn eu bwyta felly, megis crangcod, cimmychiaid, colomenod, &c. Mae ceilliau llwynog wedi eu sŷchu a'u malu yn fân, a chymeryd dram yn y bore mewn llaeth defaid, a cheilliau baedd, a'u cymeryd yn yr un dull, yn bur dda. Mae calon sofliar gwrryw, a'i chario oddeutu y mab, a chalon sofliar fenyw, a'i chario oddeutu y ferch, yn peri cariad naturiol a ffrwythlondeb. Bydded i'r rhai a fynant ychwanegu eu hâd hefyd fwytta ac yfed o'r pethau goreu gymaint ag a allant: o herwydd *sine cerere et libero friget*

*Venus* sydd hen ddiareb; yr hyn yw, "Heb fwyd a diod da, *Venus* a rewir i farwolaeth."

Mae cawl yn dda i ychwanegu yr hâd; y cyfryw ag a wneir o ffa, pys, ac yd-bys, yn gymysgedig â siwgr, ffa Ffrengig, gwenith wedi ei ferwi mewn cawl, hâd annis, hefyd wynwyns wedi eu haraf-ferwi, garlleg, cenin, erfin gwylltion melynion, gwreiddiau llysiau Ieuan *fresh*, gwreiddiau celyn y môr cyffeithiedig, sinsir cyffeithiedig, &c. O ffrwythau, cnau collen, cnau cypreswydden, *pistachia, almonds,* a bara llysieuawg o hyny. Llysiau ag sydd dda i ychwanegu hâd ydynt, synamwn, *galengal*, pypyr hirion, *cloves*, sinsir, saffrwm, *assafœtida*, dram a haner, a'i gymeryd mewn gwin da, sydd dda iawn i'r dyben.

Gan fod gwendid a nychdod gwialen y dyn yn rhwystr mawr i genhedliad, arfered yr enaint canlynol idd ei chryfhau: cymerwch gŵyr, olew *beaver, cod, marjoram* dôf, ac olew *coflus*, o bob un cyffelyb swm, cymysgwch hwy yn enaint, a rhoddwch ynddo ychydig fwsg, a chydag ef eneiniwch y wialen, y caill-groen, &c. Cymerwch o fywion tai, tri dram, olew *safannum* gwyn, olew lilies, wns o bob un; mân-bwywch ac ysigwch y morgurg, a rhoddwch hwy yn yr olew, a gadewch iddynt sefyll yn yr haul chwe' diwrnod; yna hidlwch yr olew allan, a chwanegwch atto *euphorbium scruple*, puppyr a rhuw, dram o bob un; hâd mwstard, haner dram; gosodwch hyn yn nghyd yn yr haul am ddau ddydd neu dri, yna eneiniwch yr offeryn cenhedliad âg ef.

## Pen. 2.

### Anhwylderau y Groth.

DYWEDAIS eisoes mai y groth yw maes cenhedliad; ac os llygrir y maes hwn mai ofer ydyw disgwyl unrhyw ffrwyth, pa mor dda bynag ei hauer. Nid heb achos, gan hyny, yr wyf yn bwriadu gosod i lawr yn y bennod hon, yr amrywiol anhwylderau i ba rai y mae y groth yn ddarostyngedig, ynghyd a meddyginiaethau priodol a diogel rhagddynt.

---

### Dosparth I.

#### Am anhwylderau Brwd y Groth.

MAE yr anhwylder hwn yn gynnwysedig mewn gormodedd o frydaniaeth; o herwydd megis ag y mae gwres y groth yn angenrheidiol er beichiogiad, felly os bydd yn rhy boeth, nid yw yn maethu yr hâd, ond y mae yn gwasgaru ei wres ac yn attal y beichiogiad. Mae y gwres gwrthanianol hwn weithiau oddiwrth yr esgoriad, ac yn achos o anffrwythlondeb,; ond os damweiniol a fydd, oddiwrth achosion poeth y mae, ag ydynt yn dyfod a'r gwres a'r gwaed i'r groth; y mae yn cyfodi hefyd oddiwrth gyffuriau tufewnol ac allanol, ac oddiwrth ormod o fwyd poeth, diod, neu ymarferiad. Nid oes gan y rhai a flinir â'r anhwylder hwn ond mislifiadau anaml, a'r rhai hyny yn felynion, duon, neu wedi llosgi; mae ganddynt wallt yn gynar ar eu

dirgeloedd; maent yn dra thueddol i chwant, yn ddarostyngedig i gur pen, ac yn helaethlawn o anynadrwydd; a phan byddo yr afiechyd yn gryf arnynt nid oes arnynt ond mis-lifiadau anaml, y rhai ydynt annhrefnus, gan eu bod yn ddrwg ac yn dylifo yn anhawdd, ac mewn amser y maent yn dyfod yn feddianol ar glefyd y ddueg *(hypocondriacs,)* ac am y rhan fwyaf yn anffrwythlon, a chanddynt weithiau gynddaredd y groth.

Gwellhad. Y gwellhad yw defnyddio pethau a oerant, fel ag i beidio a niweidio y llestri raid fod yn agored i ddylifiad y mis-lif. Gan hyny cymerwch y pethau a ganlyn yn dufewnol: ysgall y meirch, *endive,* crinllys, lili'r dwfr, tafod yr ŷch, *lettuce, saunders* a chyflaith a chyffeithiau o honynt. Hefyd cymerwch gyflaith ysgall y meirch, crinllys, lilir dwfr, *burrage,* o bob un wns; cyd-gyflaith *roses,* haner wns; *diamargation frigid, diatriascantal,* o bob un haner dram; a chyda chyflaith crinlys neu sudd afal eurad, *(citron)* gwnewch gydtew-gymysg meddygol. Yn gymhwysiadau allanol, defnyddiwch enaint *rhoses,* crinlys, lili'r dwfr, bresych, *venus nervel,* a'u cymhwyso at y cefn a'r lwynau.

Bydded yr awyr yn oer, ei gwisg yn deneu, yn lluniaeth cymered ysgall y meirch, *endive, lettuce,* a barlys. Na roddwch ddim bwydydd poethion, na gwin cryf iddi, oni bydd wedi ei gymysgu â dwfr. Gorphwys sydd dda iddi; ond rhaid iddi ymgadw oddiwrth ymrëad, er y gall gysgu cyhyd ag y myn.

## Dosp. II.

### Am Anhwyldeb Oer y Groth.

YR anhwylder hwn sydd wrthwyneb i'r un blaenorol, ac yn gyfartal elyn i genhedliad, gan gael ei achlysuro gan gynneddf oeraidd yn helaeth anghymedrol, ac yn deillio oddiwrth awyr rhy oer, gorphwystra, diogi, a chyffuriau oerol. Gellir ei adnabod trwy wrthwynebiad i gydgnawd, a pheidio a chymeryd dim pleser yn y weithred o ymread pan fyddo 'r had wedi ei dreulio; mae y mis-lif yn llysnafeddawg, tew, a lleidlyd, ac nid y'nt yn dylifo mal y dylent: mae y groth yn wyntog, a'r hâd yn anaeddfed a dyfrllyd. Y mae yn achos o attaliadau ac anffrwythlondeb ac anhawdd ei wellhau.

Gwellhad. Cymerwch *galengal*, synamwn, *nutmeg*, *mace*, *cloves*, o bob un dwy ddram; sinsir, *cubebs*, *nedory*, *cardamum*, o bob un wns; grawn paradwys, puppyr hirion, o bob un haner dram; pwywch hwy, a rhoddwch hwy mewn chwe' chwart o win am wyth niwrnod; yna ychwanegwch *saeds*, mint, balm, llysiau'r fam, tri dyrnaid o bob un; gadewch iddynt sefyll dri diwrnod ychwaneg, yna tywelltwch ymaith y gwin, a phwywch y llysiau a'r *spice*, ac yna tywelltwch y gwin arnynt drachefn, a dyhidlwch hwy. Neu gellwch ddefnyddio hyn; cymerwch synamwn, *nutmeg*, *cloves*, *mace*, sinsir, *cubebs*, *cardamum*, grawn paradwys, o bob un wns a haner; *galengal*, chwe' dram; puppyr hirion, haner wns; *zedoary*, pum dram; ysigwch hwy, ac ychwanegwch chwe' chwart o win; rhoddwch hwy mewn sele

am naw niwrnod, gan eu cynhyrfu bob dydd; yna ychwanegwch ddau ddyrnaid o fintys, a gadewch iddynt sefyll bedwar-diwrnod-ar-ddeg; tywelltwch y gwin, ac ysigwch hwy, ac yna tywelltwch y gwin arnynt drachefn, a dyhidlwch hwy. Hefyd eneiniwch gydag olew lili, rhuw, llysiau'r ysgyfaint, llawryf, synamwn, *cloves*, *mace*, a nutmeg. Bydded ei luniaeth a'i hawyr yn gynes, ei bwyd yn hawdd ei dreulio, wedi ei dymheru gyda hâd anis, ffenygl, a theim; a gocheled ffrwythydd anaeddfed, a lluniaeth wedi ei wneuthur o laeth.

---

## Dosp. III.

### Am Enyniad y Groth.

ENYNIAD y groth yw yr estyniad o honi gan wynt, a elwir gan rai y *mole* (neu bêl y fammog) gwyntog; mae y gwynt yn deillio oddiwrth sylwedd oer, pa un bynag ai tew ai teneu, a gynnwysir yn ngwythienau oer y groth, trwy yr hyn y mae y gwres gwan o hono yn cael ei orchfygu, a'r hwn sydd naill ai yn dylifo yno o ranau eraill, neu yn cael ei gasglu yno oddiwrth fwydydd a diodydd oerion. Gall awyr oer fod yn achos cynnyrchiol o hono hefyd, gan fod benywod yn gorwedd i mewn yn agored iddo. Mae y gwynt yn gymysgedig naill ai yngheudod llestri y groth, neu rhwng y pilenau, a gellir ei adnabod trwy chwyddiad yn mharth y groth, yr hwn weithiau a fydd yn cyrraedd at y bogail, y lwynau, a'r *diaphragm*, a bydd yn cyfodi ac yn lleihau fel y byddo y

gwynt yn ychwanegu neu yn lleihau. Y mae yn gwahaniaethu oddiwrth y dyfr-glwyf gan nad yw un amser yn chwyddo cyn uched. Fel na byddo i'r meddyg na'r fyd-wraig ei gymeryd am feichiogiad, bydded iddynt sylwi ar arwyddion y fenyw a fyddo yn feichiog, a osodwyd i lawr mewn rhan flaenorol o'r gwaith hwn; ac os bydd unrhyw arwydd yn eisiau, gallant ei ddrwg-dybio ei fod yn ymchwyddiad; o ba beth y mae hyn yn arwydd pellach, sef fod y chwyddiad mewn beichiogiad yn gyfnewidiol; hefyd, os tarewch ar y bol mewn ymchwyddiad, bydd yno sŵn, ond nid felly mewn cyflwr o feichiogiad. Y mae yn gwahaniaethu hefyd oddiwrth bêl y fammog (*mole*) o herwydd yn hyny bydd yno bwysau a chaledrwydd ar y ból, a phan y byddo y goddefydd yn symud o'r naill ochr i'r llall, y maeyn teimlo pwysau mawr, yr hwn fydd yn ymsymud; ond nid felly yn hwn. Os bydd yr ymchwyddiad yn parhau o'r tu allan i geudod y groth, mae y boen yn fwy ac yn helaethach, ac nid oes yno unrhyw sŵn, o o herwydd fod y gwynt yn fwy cauedig.

Gwellhad. Nid yw yr anhwylder hwn o hir barhâd, nac yn beryglus, os edrychir ar ei ol mewn pryd; ac os bydd yn ngheudod y groth, y mae yn haws ei fwrw allan. I ba ddyben rhoddwch *diaphnicon* iddi gydag ychydig *gastor*, a chwistrell-feddyginiaethau awchus ag a ymlidiant ymaith wynt. Os digwydd yr afiechyd hwn i fenyw mewn trafael, na charthed ar ol rhyddhâd, na gwaedu, o herwydd ei fod oddiwrth sylwedd oer; ond os daw ar ol ymddwyn plant, a'i mis-lif yn dyfod i lawr yn ddigonol, a chanddi lawnder o waed, agorer y wythien

*saphæna*; ar ol yr hyn cymered, y gydtew-gymysg canlynol: cymerwch gyd-gyflaith cribau St. Ffraid, *rosemary*, o bob un wns a haner; celyn y môr cyffeithiedig a siwgr, pil afal euraid cyffeithiedig, haner wns o bob un; *diacimium*, *diagalengal*, o bob un dram; olew hâd annis, chwe' dyferyn; a chyda chyflaith afalau euraid gwnewch gydtew-gymysg. Idd eu cymhwyso yn allanol gwnewch blastr o rhuw, llysiau Ieuan, *camomile*, *dill*, *calamint*, brymlys newyddion, teim, gydag olew rhuw, *keir*, a *camomile*. A rhodder y chwistrell-feddyginiaeth ganlynol, er bwrw allan wynt, yn y groth: cymerwch *agnus castus*, synamwn, o bob un ddau ddram, berwch hwy mewn gwin i haner peint. Yr un modd gall arfer brwmstan, dyfroedd *Bath* a *Spa*, yn fufewnol ac yn allanol, o herwydd eu bod yn chwalu gwynt.

---

## Dosp. IV.

### Am Uniondeb neu Gyfyngdra y Groth, a'i Llestri.

EFFAITH arall o eiddo y groth yw hwn, yr hyn sydd attaliad mawr i ymddwyn plant, gan luddias dylifiad y mis-glwyf a beichiogiad, fe y mae yn aneddu yn llestri y groth, a rwddf yr unrhyw. Yr achosion o'r cyfyngdra hwn yw y gwlybyrau tewion a geirwon, ag ydynt yn cau safnau y gwythienau a'r rhydweliau. Megis y gwlybyrau hyn gan luniaeth a'mhur neu ormodedd o hono, pan y mae gwres y groth mor wan fel na all deneuo y gwlybyrau, pa rai, o herwydd hyny, ydynt naill ai yn dylifo o'r

holl gorph, neu yn cael eu casglu i'r groth. Yn awr y mae y llestri yn cael eu gwneuthur yn gyfyngach neu yn fwy cauedig amrywiol ffyrdd, weithiau trwy enyniad, caled-chwydd chwarenog, neu ddymchwyddiadau eraill; weithiau trwy gyd-wasgiad, creithiau, neu trwy gnawd neu bilionenau a fyddant yn tyfu ar ol clwyf. Yr arwyddion trwy ba rai yr adnabyddir hyn ydynt, attaliad y mis-lifiadau, peidio a beichiogi, a phethau llymrig ac anaeddfed yn helaethlawn yn y corph, yr hyn a ddangosir oll trwy arwyddion neillduol: o herwydd os bydd yno archoll neu os tynir allan yr hemysgar trwy drais, daw llysnafedd o'r archoll; os oddiwrth hen dagiad gan wylybyrau y bydd attaliad y mis-lif, anhawdd yw ei wellhau; os na bydd ond yn unig oddiwrth arferiad didrefn o bethau ból-rwymol, y mae yn fwy gwelladwy; os bydd oddiwrth galed-chwydd chwarenog, neu ddymchwyddiadau eraill, ag a fydd yn gwasgu neu gau y llestri, mae yr afiechyd yn anfeddyginiaethol.

Gwellhad. Er meddyginiaethu yr hwn sydd welladwy, rhaid i rwystrau gael eu symud ymaith, i lysnafedd gael ei garthu, a hithau ei gwaedu, mal y cyfarwyddir yn ol hyn yn attaliad y mis-lifiadau. Yna defnyddiwch y cyffuriau canlynol: cymerwch o hadau anis a ffenigl, dram o bob un; *rose mary*, brymlys, *calamint*, blodau cribau St. Ffraid, o bob un wns; *castus*, synamwn, *galengal*, haner wns o bob un; saffrwm haner dram, gyda gwin. Neu gymerwch wreiddiau *asparagus*, gwreiddiau persli, wns o bob un; brymlys, *calamint*, dyrnaid o bob un; blodau gorphenaf, blodau y dewbanog.

dau ddyrnaid o bob un; berwch, a hidlwch hwy, ac ychwanegwch gyflaith llysiau Ieuan, wns a haner. Yn dwym'-enyniad, cymerwch frymlys, *mercury*, *calamint*, y benrudd, llysiau Ieuan, dau ddyrnaid o bob un; *saeds*, *rosemary*, llawrwydd, blodau *camomile*, dyrnaid o bob un; berwch hwy mewn dwfr, a thwym'-eneiniwch o gylch yr arffed a gwaelod y bol; neu eistedded hyd at ei bogail mewn badd, ac yna eneiniwch oddeutu cylch yr arffed gydag olew rhuw, lili, *dill*, &c.

---

## Dosp. V

### Am Gwympiad y Groth.

EFFAITH ddrwg arall o eiddo y groth yw hwn, pa un sydd yn dra blinderus, ac hefyd yn rhwystr i feichiogiad. Weithiau bydd y groth yn cwympo i ganol y cluniau, ac nid hyny yn unig, oud at y gliniau, a gellir gwybod y pryd hyny trwy ei bod yn crogi allan. Yn awr, yr hyn sydd yn achos i'r groth newid ei lle yw, fod y gieuynau, gan y rhai y rhwymir hi wrth y rhanau eraill, heb fod mewn trefn; o herwydd y mae pedwar gieuyn neu rwymyn, dau uwchlaw, yn llydain a philionenog, ag ydynt yn dyfod o'r weren fol, a dau islaw, ag ydynt ewynog, yn grwn a cheuol: rhwymir ef hefyd wrth y llestri mawrion gan wythienau a rhydweliau, ac wrth y cefn gan gieuynau; ond newidir y lle pan y tynir hi ffordd arall, pan fyddo y gewynau yn rhydd, ac mae yn cwympo i lawr gan ei phwysau ei hun. Tynir hi i un ochr pan attelir y mislif rhag dylifo, ac mae y

gwythienau a'r rhydweliau yn llawn, sef y rhai hyny ag ydynt yn myned i'r groth. Os pêl y famog ar un ochr a fydd, yr afu a'r ddueg yw yr achos o hono; gwythienau yr afu ar yr ochr ddeau, a'r ddueg ar yr aswy, yn ol fel y llenwir hwy mwy neu lai. Eraill ydynt o'r farn, ei fod yn dyfod o ddatodiad cysylltiad y gwddf mân-wreidiog, a'r rhanau cyfagos; ac mai oddiwrth bwysau y groth yn disgyn y mae: hyn nid ydym yn ei wadu; ond rhaid y bydd y rhwymynau yn rhydd neu wedi tori. Ond ni ellir dywedyd fod crothau benywod mewn dyfrglwyf wedi cwympo i lawr, pe buasai heb fod yn dyfod ond yn unig oddiwrth ryddhad; ond ynddynt hwy y mae yn cael ei achlysuro gan hallter y dwfr, yr hwn sydd yn sychu mwy nac y mae yn ei ireiddio. Yn awr os bydd yno ddymchwydd bychan, tu fewn neu tu allan i'r dirgeloedd, fel croen estynedig, neu bwysau yn deimledig ar y dirgeloedd, nid yw ddim arall ond disgyniad y groth; ond os bydd yno ddymchwydd fel ŵy gŵydd, a thwll yn y gwaelod, a phoen mawr ar y cyntaf yn y rhanau wrth ba rai mae y groth wedi ei sicrhau, megis y lwynau, gwaelod y bol, a'r *os sacrum*, mae yn deillio oddiwrth doriad neu estyniad y gewynau rhwymynol; ac y'mhen ychydig ar ol hyny, mae y boen yn lleihau, ac y mae yn rhwystr i gerdded, ac weithiau bydd gwaed yn dyfod oddiwrth doriad y llestri, ac attelir y carthion a'r pision, ac yna mae twymyn a dirdyniadau yn ar-ganlyn, ac yn fynych yn tro yn farwol, yn enwedig os digwydd i fenyw feichiog.

GWELLHAD. Er meddyginiaethu yr afiechyd hwn, yn gyntaf rhoddwch y groth i fynu cy

i'r awyr ei newid, neu iddi chwyddo ac enynu; ac i'r dyben hwn, rhoddwch chwistrell-feddyginiaeth i symud y carthion, ac yna gosodwch hi ar ei chefn, gyda'i choesau ar led, a'i morddwydydd wedi eu codi i fynu, a'i phen i lawr; yna cymerwch y dymchwydd yn eich llaw, a gwthiwch ef i mewn heb drais; os bydd wedi chwyddo trwy newidiad ac oerni, twym'-eneiniwch ef gyda dyferwad y feddalai, hoccys y gors, calch, y grogwyran, blodau *camomile*, grawn y llawryf, ac eneiniwch gydag olew lilies, a saim iar. Os bydd yno enyniad, na roddwch hi i fynu, ond brawychwch hi i mewn, trwy roddi haiarn poeth o'i blaen, a gwneuthur ymddangosiad fel pe byddech am eich llosgi; ond yn gyntaf ygeintiwch (*sprinkle*) hi gyda phowdr mastig, *frankincense*, a'r cyffelyb; fel hyn; cymerwch *frankincense*, mastig, dau ddram o bob un; *sarcocol*, wedi ei fwydo mewn llaeth, dram; *mummy*, blodau pomgranad, *sanguis draconis*, haner dram o bob un. Wedi ei rhoddi i fynu, gorwedded gyda'i choesau wedi eu hestyn, a'r naill ar y llall, am wyth neu ddeg diwrnod, a gwnewch oreth ar ddull gellygen, gyda chorcyn neu yspwng, a rhoddwch ef yn y groth, wedi ei drochi mewn gwin chwibl, neu sudd *acasia*, gyda phowdr *sanguis*, gyda *galbanum* a *bdelium*. Hefyd cymhwyswch wydryn craffiniad, gyda fflam fawr, o dan y bogail neu ddidenau, neu wrth y ddwy elwlen, a gosodwch y plastr hwn wrth y cefn: cymerwch *opopanax*, dwy wns; gwlybwr *storax*, haner wns; mastig, *frankincense*, pyg, *bole*, dau ddram o bob un; yna, gyda chwyr gwnewch blastr: neu gymerwch *laudanum*, dram a haner; mastig, a *frankincense*,

haner dram o bob un; *wood aloes, cloves, spike,* dram o bob un; ambyr llwydwyn, pedwar gronyn; mwsg, haner *scruple*; gwnewch ddau blastr crwn idd eu gosod ar bob tu i'r bogail; gwnewch fygiad o grwyn malwod wedi eu halltu, neu o arlleg, a rhodder ef i mewn trwy ffunell. Hefyd arferwch dwym'-eneiniadau bol-rwymol o ddail mieri, llyriaid, cynffonau ceffylau, myrtwydd, dau ddyrnaid o bob un; had llyngyr, dau ddyrnaid; blodau pomgranad, haner wns; berwch hwy mewn gwin a dwfr. Yn chwistrelliad cymerwch wreiddiau glesyn y coed, wns; llysiau'r gors, dau ddram; milddail, llysiau Ieuan, haner wns o bob un; berwch hwy mewn gwin coch, a theflwch ef i mewn gyda chwistrell. I gryfhau y groth cymerwch *hartshorn*, llawrwydd, dram o bob un; myrr, haner dram; gwnewch bowdr yn ddau ddogn, a rhoddwch ef gyda gwin chwibl. Neu gellwch gymeryd *zedoary*, hâd moron gwynion, llygaid craugcod parottoawl, dram o bob un; nutmeg, haner dram; a rhoddwch ddram yn bowdr; ond rhaid defnyddio pethau bol-rwymol gyda gochelïad mawr, rhag, trwy attal y mis-lifiadau, y bydd i waeth niwaid ddilyn. Idd ei chadw yn ei lle gwnewch roliau a rhwymynau megis ag i doriad llengig; a rhoddwch orethau yngwaelod y groth, ag a allant ei chymell i aros. Bydded y lluniaeth y cyfryw ag y byddo ynddo ansawdd sychol, bol-rwymol a brwd, megis *rice, storack,* y fynyglog, gellyg, a chaws anaeddfed, ond gocheler ffrwythau haf; a bydded ei gwin yn fol-rwymol a choch.

# Pen 3

## *Am Glefydau perthynol i Ddylifiadau Misol Benywod.*

### Dosparth I.

Am ddylifiadau Misol (*Misglwyf*) Benywod yn Gyffredin.

MAE y Rhagluniaeth ddwyfol hono, pa un gyda doethineb priodol iddi ei hun, a bennododd fenywod feichiogi trwy ymread gyda dyn, ac i ymddwyn ac esgor ar blant, wedi darbod gogyfer a macth plant yn ystod eu hymguddfa yn nghroth y fam, trwy yr arddigonedd hwnw o'r gwaed ag sydd yn naturiol i bob benyw, a'r hwn gan ddylifo allan ar amserau pennodol [pan na byddant yn feichiog], oddiwrth hyny a elwir *mis-lif*, oddiwrth eu dylifiadau misol o waed garthlyd a difudd. Yn awr nid yw y sylwedd sydd yn dylifo allan idd ei ddeall fel yn garthlyd ond yn unig a golygu y gormodedd a'r rhelyw o hono, yn bod yn garthion yn unig mewn golygiad ar ei swm; o herwydd o barth ei gynneddf, mae mor bur ac anllygredig a dim gwaed yn y gwythienau; ac ymddengys hyn oddiwrth yr achos terfynol o hono, yr hyn yw cenhedliad a thadwraeth dynolryw; ac hefyd oddiwrth y cenhedliad o hono, gan mai arddigonedd y magwriaeth olaf o'r rhanau cigog yw. Os gofynwch, os nad yw y mis-lifiadau o gyneddf niweidiol pa fodd y gallant fod yn achos o'r fath effeithiau gwenwynllyd; os syrthiant ar goed a llysiau, gwnant y naill yn anffrwythlawn a mallant y llall? Yr wyf yn atteb, ceir y ddryganian hon

yn y groth; o herwydd a'r fenyw mewn diffyg o'r gwres cynhwynol i dreulio (*digest*) y gorddigonedd, y mae yn ei anfon i'r bru, ymha le, gan aneddu hyd oni bydd safn y groth wedi ymledu, y mae yn dyfod yn llygredig a mall; yr hyn a all fod yn hawdd, os ystyriwn wres a lleithder y lle; ac felly mae y gwaed hwn, trwy fod allan o'i lestri priodol, a'i gadw i mewn yn rhy hir, yn myned yn ffiaidd yn ei gynneddf.

---

## Dosp. II.

### Am Fislifiadau yn dyfod yn ddidrefn, naill ai cyn, neu wedi yr amser arferedig.

GAN draethu o honwyf yn y rhan flaenorol o'r gwaith hwn, am leihad a gorlifiad y dylifiadau misol, ymfoddlonaf ar gyfeirio y darllenydd i'r fan hono, ac âf yn mlaen i lefaru am eu dyfodiad yn ddidrefn, naill a'i cyn neu ar ol yr amser arferedig.

Mae y naill a'r llall o'r rhai hyn yn deillio o ddrwg ansawdd corph. Mae pob peth yn brydferth yn ei iawn drefn, mewn natur yn gystal ag mewn moesoldeb; ac os torir trefn natur, mae yn dangos fod y corph yn annhrefnus. Llefaraf am bob un o'r effeithiau hyn yn fyr.

Pan ddelo y dylifiau misol cyn eu hamser, gan ddangos ymarlloesiad llygredig, a dylifo weithiau ddwy waith yn y mis, mae yr achos yn y gwaed, yr hwn sydd yn cynhyrfu y gyneddf a fo yn tueddu i fwrw allan yn y groth, neu ynte yr holl gorph, ac achlysurir ef yn fynych gan luniaeth y person, yr hyn sydd yn 'chwanegu y

gwaed yn ormodol, gan ei wneuthur yn rhy sur neu ry frwd. Os bydd cyneddf attaliedigol y groth yn wan, a'r gyneddf gyru allan yn gref, ac o deimlad bywiog, y mae yn dyfod a hwy allan yn gynt. Weithiau maent yn dylifo yn gynt o achos cwymp, dyrnod, neu ryw nwydau tanbaid yr hyn a all y personau eu hunain eu hadrodd oreu. Os oddiwrth frydaniaeth, gwlybyrau teneuon a sur y bydd, adnabyddir hyny trwy anhwyldeb yr holl gorph. Adnabyddir rhydd-der y llestri, a gwendid y gyneddf attaliedigol, wrth ansawdd llaith a rhydd y corph. Mae yn fwy blinderus na pheryglus, ond y mae yn attal beichiogiad, a chan hyny mae gwellhad yn angenrheidiol i bawb, ond yn enwedig y rhai ag ydynt yn chwenych plant. Os bydd yn deillio oddiwrth waed sur neu chwibl, tymhered ef gyda lluniaeth da a chyffuriau. I ba ddyben arfered faddiadau o ddwfr haiarn, ac a gywira yr anhwylder neu yr ymysgaroedd, ac yna ymarlloesed. Os bydd yn deillio oddiwrth y gyneddf attaliedigol, a rhydd-der y llestri, y mae idd ei gyweirio trwy bethau bol-rwymol araf.

Mewn perthynas i'r mis-lifiadau yn dylifo ar ol yr amser arferol, yr achosion ydynt, tewder y gwaed, a bychanedd ei swm, ynghyd a chyfyngdra y fynedfa, a gwendid y cynneddfau bwrw allan. Gall y naill neu'r llall o'r pethau hyn yn unigol attal y mis-lifiant, ond os byddant oll yn cyduno, y maent yn gwneuthur yr afiechyd yn waeth. Oni bydd y gwaed yn swm mor helaeth fel ag i beri cyffroi natur idd ei fwrw allan, rhaid oedi ei garthiad o angenrheidrwydd hyd oni byddo digon. Ac os bydd y gwaed yn dew, y fynedfa wedi ei chau i fynu,

a'r gynneddf i fwrw allan yn wan, mae yn rhaid i'r mis-lifiadau fod yn anhrefnus, a'r carthion o honynt ei attal.

Er gwellhau hyn, os bydd swm y gwaed yn fychan, arfered fwyd mwy maethlawn, ac ychydig iawn o ymarferiad corphorol. Os bydd y gwaed yn dew a ffiaidd, teneuer ef, ac arlloeser y gwlybyrau sydd yn gymmysgedig âg ef. Da yw carthu ar ol i'r mis-lif ddarfod dylifo, a defnyddio *calamint*; ac yn wir po amlaf yr ymgartha goreu i gyd. Gall hefyd ddefnyddio mygiadau (*fumes*) a gorethau (*pessaries*,) cymhwyso gwydrau craffiniaid heb graffiniad at du fewn i'r cluniau, a rhwbio y coesau, a chraffinio y fferau, a dàl y traed mewn dwfr cynnes bedwar neu bum' diwrnod cyn y delo y mis-lif i lawr. Hefyd eneinied waelod ei bòl gydâ phethau priodol i gyffroi y mis-lifiad.

### *Meddyginiaethau rhag Anhwylderau yn Nidenau Benywod.*

GWNEWCH blastr o flawd ffa ac olew *sallad*, a gosodwch ef wrth y lle a flinir. Neu cneiniwch gyda sudd *dapilaris.* Rhaid gwneuthur hyn pan fyddo'r didenau yn dra chlwyfus.

Os byddant yn galed ac wedi chwyddo, cymerwch ddyrnaid o rhuw, gwreiddiau bresych, môr-ddanadl, a *mint*; oni allwch gael y rhai hyn oll yn gyfleus, gwna unrhyw ddau o honynt; mân-bwywch ddyrnaid mewn mèl, a chymhwyswch ef unwaith bob dydd hyd oni iachaer.

Os bydd y didenau yn syth a chlwyfus, eneiniwch ddwy waith yn y dydd gydâg olew *Florence* hyd oni iachaer.

Os bydd y didenau yn llipa ac yn grogedig, ysigwch ychydig o gegid, a chymhwyser ef at y *brestiau* am dridiau; ond na adawed iddo sefyll uwchlaw saith awr. Neu yr hyn sydd ddiogelach, sudd *rusæ* wedi ei ferwi yn dda, gydag ychydig *smapois* wedi ei ychwanegu at hyny, ac eneiniwch.

Os bydd y didenau yn gelyd a marwaidd, gwnewch ddysglan o blwm yn lled deneu, i atteb i'r *brestiau*; gadewch i hwn sefyll naw awr bob dydd, am dridiau. Neu, *sassafras* wedi ei ysigo, a'i ddefnyddio yr un modd.

## *Cyfarwyddyd i gaffael Llaeth.*

Yfwch *arpleni*, a'i ollwng fel *te*, am un-niwrnod-ar-hugain. Neu fwytewch hâd annis yn fynych. Hefyd y mae sudd *arbor vitæ*, gwydraid unwaith yn y dydd am un-niwrnod-ar-ddeg, yn dda iawn, o herwydd y mae yn bywiogi y côf, yn cryfhau y corph, ac yn peri i laeth lifo yn helaethlawn.

## *Cyfarwyddiadau i Ollwng Gwaed.*

Dyfeisiwyd gwaedu ar y cyntaf i ddybenion da ac iachus, er ei fod yn cael ei fynych gam-arfer a'i gam-gymhwyso.

Gwaedu yn y fraich aswy sydd yn symud poen hir-barhaol a chur yn y pen. Y mae yn dda hefyd i'r rhai a gawsant gwympiadau a chleisiau.

Mae gwaedu yn dda rhag llawer o anhwylderau, ac yn gyffredin y mae yn troi allan yn feddyginiaeth, oddeithr mewn rhai amgylchiad-

au tra hynod; ac yn yr amgylchiad hyny mae gwaedu yn niweidiol.

Os bydd benyw yn feichiog, gollwng ychydig waed a rydd iddi esmwythyd, iechyd da, a phlentyn heinyf.

Mae gwaedu yn feddyginiaeth fwyaf sicr i ddimllai nag un-ar-hugain o anhwylderau, heb unrhyw gymwysiadau allanol na thufewnol; ac i lawer yn ychwaneg, gyda chymwysiadau o gyffuriau, llysiau, a blodau.

Pan fyddo y lleuad ar y mwyhad, gellir gwaedu unrhyw amser, ddydd neu nos; ond pan y byddo yn lleihau, rhaid i chwi beidio a gwaedu ond yn unig yn y boreu.

Gellir gwaedu o fis Mawrth hyd Dachwedd. Peido a gwaedu yn Rhagfyr, Ionawr, na Chwefror, oni bydd achos yn gofyn. Y misoedd Mawrth, Ebrill, a Thachwedd, yw y tri mis penaf yn y flwyddyn i waedu ynddynt; ond gellir ei wneuthur yn ddiogel o'r nawfed o Fawrth hyd y pedwerydd-ar-bymtheg o Dachwedd.

I ragflaenu y peryglon a allant gyfodi oddi wrth waedu anfedrus, na fydded i neb agor gwythien ond dyn o brofiad ac ymarferiad. Mae tri math o bobl y rhaid i chwi beidio a gadael iddynt ollwng gwaed; yn gyntaf, ymhonwyr anwybodus ac ammhrofiadol. Yn ail, y rhai hyny a fyddo a'u golwg yn ddrwg, a dwylaw crynedig, pa un bynag ai medrus ai anfedrus. O herwydd pan fyddo'r llaw yn crynu, mae y fflaim yn chwannog i neidio o'r wythien, a'r cnawd trwy hyny gael niweid, yr hyn all friwio, ysu, a phoeni y goddefydd yn fawr iawn. Yn drydydd, na adewch i un fenyw eich gwaedu,

ond y cyfryw a fyddant wedi myned trwy ystod o fyd-wreigiaeth yn y coleg; o herwydd gall y rhai ag ydynt anfedrus dori rhydweli, er mawr niwaid i'r goddefydd. Heblaw hyny, yr hyn sydd waeth fyth, mae y gwaedwyr ymhonedawl hyny y rhai a'i cymerant i fynu eu hunain, yn gyffredin yn cadw ffleimiau difin rhydlyd, y rhai a brofant yn niweidiol, hyd yn nod mewn dwylaw medrus. Yn ganlynol, dylech fod yn ochelgar yn eich dewisiad o feddyg; gŵyr dyn o addysg pa wythien idd ei hagor ymhob afiechyd; gŵyr efe pa faint o waed idd ei dynu cyn gynted ag y gwel y goddefydd; a gall efe roddi cyngor cymwys mewn perthynas i'ch afiechyd.

# LLYFR GORCHESTION

# ARISTOTLE,

YNGHYD A

GWAITH SYWEDYDDION, SER-DDEWINIAID, MEDDYGON, A PHILOSOPHYDDION ERAILL.

MEWN PERTHYNAS I

# ANSAWDD CORPH DYN.

## Y DRYDEDD RAN.

Gofyniad. Y MYSG pob creadur byw, pa ham y mae dyn yn unig a'i drem ar godiad tu a'r nef?

Atteb. 1. Oddiwrth ewyllys y Creawdwr. Ond er fod yr atteb hwn yn wir, eto ni ymddengys ei fod mewn grym, fel trwy hyny y gellid penderfynu pob gofyniad yn hawdd. Gan hyny, 2. Yr wyf yn atteb fod, am y rhan amlaf, bob gweithiwr yn gwneuthur ei waith cyntaf yn waeth, ac yna ei ail yn well; felly Duw gan greu pob anifail arall o flaen dyn rhoddodd iddynt eu hwynebau yn edrych i lawr ar y ddaear; ac yna, yn ail, crëodd ddyn, i'r hwn y rhoddodd ffurf uniawn-syth, yn dderchafedig tua'r nefoedd, o herwydd ei fod wedi ei dynu o ddwyfoldeb, ac wedi deillio o ddaioni Duw, yr hwn sydd yn gwneuthur ei holl waith yn berffaith a da. 3. Dyn yn unig y'mysg pob creadur byw, sydd wedi ei ordeinio i deyrnas

nef, a chan hyny, y mae ganddo ei wyneb wedi ei ddcrchafu a'i godi tu a'r nef, o herwydd, gan gasâu pethau daearol a bydol, dylai yn fynych fyfyrio ar y pethau nefol. 4. Fod y dyn rhesymol yn gyffelyb i'r angylion, ac yn derfynol wedi ei ordeinio tu ag at Dduw; a chan hyny y mae ganddo ffurf yn edrych i fynu. 5. *Microcosm* yw dyn, hyny yw, y byd bychan, a chan hyny, y mae efe yn awdurdodi ar bob creadur byw arall, ac y maent yn ufuddhau iddo. 6. Naturiol yw y ffurf a'r llun hwnw ag sydd yn gymmwys a phriodol idd ei ysgogiad wedi ei roddi i bob peth a phob gwaith; megis i'r nefoedd crynder, i'r tân ffurf *piramidaidd*, neu fon-braff a brig-fain, yr hwn ffurf sydd fwyaf tueddol i esgyn; ac felly y mae gan ddyn ei wyneb tu a'r nef, i edrych ar ryfeddodau Duw.

G. Pa ham y mae penau dynion yn walltog? —A. Y gwallt ydyw addurn y pen, ac y mae yr ymenydd yn cael ei garthu oddiwrth wlybyrau anmhur trwy dyfiad y gwallt, o'r uwchaf i'r isaf, yr hwn sydd yn passio trwy chwysdyllau y cnawd nesaf allan, yn dyfod yn sych, ac yn cael ei droi yn wallt. Ymddengys mai hyn yw yr achos oddiwrth yr amgylchiad nad oes yn holl gorph dyn ddim sydd sychach na'r gwallt, o herwydd y mae yn sychach na'r esgyrn; ac y mae yn ddigon adnabyddus fod rhai anifeiliaid yn cael eu maethu âg esgyrn, megis cŵn, ond ni allant dreulio plu neu wallt, ond arllwysant hwy heb eu treulio, gan eu bod yn rhy boeth yn faeth. 2. Attebir, fod yr ymenydd yn cael ei garthu dair o wahanol ffyrdd; o orddigonedd o wlybyrau dyfrllyd trwy y llygaid,

o geri trwy y trwyn, ac o lysnafedd trwy y gwallt; yr hyn yw barn y meddygon goreu.

G. Pa ham y mae gan ddynion wallt hwy ar eu penau na phob creadur byw arall?—A. Dywed *Arist. de Genereat. Anim.* mai gan ddynion y mae yr ymenyddiau mwyaf llaith o bob creadur byw, o ba rai y mae yr had yn deillio, yr hwn sydd yn cael ei droi i wallt hir y pen. 2. Mae gwlybyrau dynion yn dew, ac nid ydynt yn dyfod yn hawdd yn sych; a chan hyny y mae y gwallt yn tyfu yn hir arnynt. Mewn anifeiliaid mae y gwlybyrau yn sychu yn hawdd, a chan hyny nid yw y gwallt yn tyfu cyn hired.

G. Pa ham y mae gwallt yn gwreiddio yn ddyfnach ynghroen dyn, nag yn hwnw o eiddo un creadur arall?—A. O herwydd fod ganddo ystôr fwy o faeth mewn dyn, a chan hyny y mae yn tyfu yn fwy yn rhanau tufewnol dyn. A hyn yw yr achos pa ham y mae y gwallt, mewn creaduriaid eraill, yn cyfnewid gyda'r croen, ac heb wneuthur mewn dyn, oddieithr trwy graith neu archoll.

G. Pa ham y mae gan fenywod wallt hirach na dynion?—A. O herwydd fod merched yn fwy llaith a llysnafeddawg na meibion; a chan hyny mae mwy o sylwedd i wallt ynddynt, ac o ganlyniad, i hyd eu gwallt hefyd. Ac, heblaw hyn, ychwanegir y sylwedd hwn yn fwy mewn merched nag mewn meibion, oddiwrth eu rhanau tufewnol, ac yn enwedig yn amser eu dylifiadau misol, o herwydd fod y sylwedd y pryd hyny yn esgyn, trwy yr hyn y mae y gwlybur ag sydd yn magu y gwallt yn ychwanegu. 2. O herwydd fod benywod mewn diffyg o farfau;

felly mae sylwedd y farf yn myned i hwnw o eiddo y gwallt.

G. Pa ham y mae gan rai dynion wallt caled ac eraill wallt meddal?—A. Mae cyfartalwch rhwng y gwallt a'r croen, o'r hwn y mae peth yn galed, peth yn dew, peth yn faswaidd a meddal, a pheth yn fras amhur; gan hyny mae y gwallt a fyddo yn tyfu o groen tew bras yn dew a bras; mae hwnw ag sydd yn tyfu o groen teg a meddal, yn deg, mân a meddal; pan fo'r chwysdyllau yn agored, yna mae yn dyfod allan lawer o wlybur, a chan hyny mae gwallt caled yn cael ei fagu; a phan y mae y chwysdyllau yn gauedig, yna y mae gwallt meddal a main yn tyfu. Mae hyn yn ymddangos yn amlwg mewn dynion, o herwydd fod gan fenywod wallt meddalach na hwy; canys mewn benywod mae y chwys-dyllau yn gauedig a chaeth, o herwydd eu hoerder. 2. O herwydd am y rhan amlaf, mae gan ddynion gerïog wallt caletach a thewach nag eraill, o achos eu gwres, ac o herwydd fod eu chwysdyllau bob amser yn agored, a chan hyny y mae ganddynt farfau yn gynt nag eraill. Am yr un rheswm, y bwystfilod hyny ag sydd ganddynt flew caled ydynt y rhai mwyaf ëon, o herwydd fod y cyfryw wallt yn deillio o wres a geri, engraifft o ba beth sydd genym yn yr arth a'r baedd; ac i'r gwrthwyneb, mae y bwystfilod hyny ag sydd ganddynt flew meddal yn ofnus, o herwydd eu bod yn oer, megis yr ysgyfarnog a'r carw. 3. Oddiwrth y *climate* lle y genir dyn; o herwydd mewn parthau poethion megir gwalltiau celyd a bras, fel yr ymddengys wrth yr Ethiopiaid, ac i'r gwrthwyneb y mae yn bod mewn gwledydd oerion tu a'r Gogledd.

G. Paham y mae gan rai dynion wallt cryehedig ae eraill llyfn?—A. Oddiwrth radd uwch o wres mewn rhai dynion, yr hyn sydd yn gwneuthur i'r gwallt grychu a thyfu ar i fynu; profir hyn trwy fod gan ddyn wallt llyfn pan fyddo yn myned i ymolchfa boeth, ac ei fod wedi hyn yn dyfod yn gryehedig. Gan hyny, y mae gan geidwaid ymolchfeydd wallt erychedig yn fynych, megis hefyd Ethiopiaid a dynion geriog. Ond yr achos o lyfndra ydyw helaethrwydd o wlybyrau llaith.

G. Paham y mae benywod yn dangos aeddfedrwydd trwy y gwallt yn eu rhanau dirgel, ac nid yn un lle arall, ond dynion yn eu brestiau?—A. O herwydd mewn meibion a merched y mae helaethrwydd o leithder yn y lle hwnw, ond y rhan fwyaf mewn merched, gan fod safn y bledren gan ddynion yn y fan hono, lle y cynnwysir y pision, o'r hwn y megir y gwallt ar y frest, ac yn enwedig hwnw o ddeutu y bogail. Ond am ferched, yn gyffredin, dywedir, fod lleithder y bledren a'r bru, neu groth, yn uno, ac yn eyfarfod yn y lle isel dirgel hwnw, a chan hyny y mae yn cael ei ddadleithio a'i wahanu i agerdd a mygiadau, yr hyn yw yr achos o'r gwallt.

G. Paham y mae merched héb farfau?—A. O herwydd eu bod mewn diffyg o wres? yr hyn yw eyflwr rhai dynion merchedaidd, y rhai ydynt ddifarfoddiwrth yr un achos, a ehanddynt wedd neu ardymer fel benywod.

G. Paham y mae gwallt yn tyfu ar y rhai a sibedir?—A. O herwydd fod eu cyrph yn agored i'r haul, yr hwn trwy ei wres sydd yn dadmer

yr holl leithder i fygiad neu ager o'r hwn y mae y gwallt yn tyfu.

G. Paham y mae gwallt neu flew y farf yn dewach a brasach nag mewn manau eraill; a pha fwyaf y caiff dyn ei eillio, mwy caled a thew y tyfa?—A. O herwydd wrth gymmaint ag a gaiff sudd neu ager unrhyw wlybwr ei ddadmer a'i gymeryd ymaith, cymmaint a hyny yn fwy y mae y sudd arhosol yn ei dynu i'r unrhyw; a chan po amlaf yr eillir y gwallt, tewaf i gyd y mae y gwlybyrau yn ymgasglu, y rhai ydynt yn magu y gwallt, ac yn achos iddo galedu.

G. Paham y mae benywod yn llyfnach a thecach na meibion?—A. O herwydd fod, mewn benywod, lawer o'r gwlybwr a'r arddigonedd, yr hyn yw y sylwedd a'r achos o wallt y corph yn cael ei fwrw allan gyda'u dylifiadau misol; yr hwn orddigonedd, gan aros mewn dynion, trwy ageriadau sydd yn myned yn wallt.

G. Paham y mae dyn mwy nag un creadur arall yn treulio yn llwyd a blawr (*grey*)?—A. O herwydd mai gan ddyn y mae y galon boethaf o bob creadur byw arall, a chan hyny darfu i natur, yn y modd doethaf, rhag i ddyn gael ei fogi trwy wres ei galon, osod y galon, yr hon yw y boethaf, o dan yr ymenydd, yr hwn yw yr oeraf; i'r dyben fel y gellid tymheru gwres y galon trwy oerder yr ymenydd; ac yn y gwrthwyneb, fel y gallai oerder yr ymenydd gael ei gyfaddasu gan wres y galon; ac fel, trwy hyny, y gallai tymheredd fod yn y naill a'r llall. Prawf o hyn yw, mai gan ddyn, o bob creadur byw arall, y mae yr anadl waethaf pan ddelo i lawn oedran. Heblaw hyny, y mae yn treulio yn

agos i haner ei amser mewn cysgu, yr hyn sydd yn deillio o'r gormodedd mawr o oerder a lleithder yn yr ymenydd, ac oddiwrth ei ddiffyg o wres naturiol i dreulio y lleithder hwnw, pa wres sydd ganddo yn ddigonol yn ei ieuengctyd, a chan hyny, yn yr oedran hwnw nid yw yn llwyd, ond mewn henaint pan ballo gwres y mae; o herwydd, y pryd hyny y mae yr ageriadau sydd yn esgyn o'r cylla yn aros heb eu treulio o ddiffyg gwres natnriol, ac y mae hwn yn braenu, o ba fraender o wlybyrau y mae y gwynder yn dilyn, yr hyn a elwir pen-llwydni, Trwy yr hyn y mae yn ymddangos nad yw pen-llwydni ddim amgen na gwynder y gwallt, a achlysurir gan fraender glwybyrau oddeutu gwreiddiau y gwallt, trwy ddiffyg o wres naturiol mewn henaint. Weithiau achlysurir yr holl benllwydni trwy ddrygedd yr ardymer, yr hyn a all ddigwydd mewn ieuengctyd; weithiau o achos fod y lleithder heb ei dreulio; ac weithiau trwy ofn a gofal rhy fawr, mal yr ymddengys oddiwrth farsiandwyr, morwyr, a lladron.

Pa ham y mae gwallt coch yn tyfu yn wyn yn gynt na gwallt o unrhyw liw arall?—A. O herwydd mai gwendid o eiddo y gwallt yw cochni; canys megir ef o sylwedd gwan a llesg, hyny yw, o sylwedd wedi ei lygru gan fis-glwyf y fenyw; a chan hyny y mae yn treulio yn wyn yn gynt nag unrhyw liw arall.

G. Pa ham y mae bleiddiaid yn tyfu yn frith? —A. Er deall y gofyniad hwn, nodwch y gwahaniaeth rhwng llwydni a brithder; llwydni a achlysurir trwy ddiffyg o wres naturiol, ond brithder trwy wancusrwydd a gwres. Gan mai

anifail gwancus yw y blaidd, bydd yn bwyta yn lythig heb gnoi, a digon ar unwaith am dri diwrnod; mewn canlyniad i'r hyn mae ageriadau gwydus yn cael eu magu yn nghorph y blaidd, yr hyn sydd yn peri brithder; nid yw y llwydni ond yn y pen yn unig, ond brithder dros yr holl gorph.

G. Paham y mae ceffylau yn tyfu yn frith a llwyd?—O herwydd eu bod am y rhan amlaf yn yr haul, ac y mae gwres yn naturiol yn peri braender: gan hyny y mae sylwedd y gwallt yn braenu, ac o ganlyniad pilir hwy yn fuan.

G. Paham y mae dynion yn dyfod yn foel, a choed yn gadael idd eu dail gwympo yn y gauaf?—Diffyg o leithder yw yr achos yn y naill a'r llall, yr hyn a brofir trwy fod dyn yn dyfod yn foel trwy chwantachrwydd, o herwydd ei fod, trwy hyny yn gollwng allan ei leithder a'i wres naturiol; a thrwy y gormodedd hwnw o bleser cnawdol, mae y lleithder yn cael ei dreulio, yr hwn yw magwriaeth y gwallt. Fel hyn, nid yw eunuchiaid a benywod yn dyfod yn foel, o herwydd nid ydynt yn ymadael a'r lleithder hwn; a chan hyny y mae eunuchiaid o wedd menywod.

G. Paham nad yw benywod yn foel?—A. O herwydd eu boed yn oer a llaith, y rhai ydynt yr achosion o fod y gwallt yn aros; canys mae lleithder yn rhoddi magwriaeth i'r gwallt, ac mae oerni yn rhwymo y tyllau chwys.

G. Pa ham nad yw deillion yn naturiol yn foel?—A. O herwydd mai yn y llygad y mae mwyaf o leithder, ac y mae y lleithder hwnw a ddylai bassio trwodd, trwy sylwedd y llygaid yn dyfod yn fagwriaeth digonol i'r gwallt, a chan hyny anfynych y maent yn foelion.

G. Paham y mae gwallt yn sefyll yn syth pan y mae ofn ar ddynion?—A. O herwydd fod y gwres, mewn amser o ddyehryn, yn myned o ran allanol y corph i'r rhan dufcwnol i gynorthwyo y galon, ac felly y mae y tyllau yn y rhai y mae y gwallt wedi ei sierhau wedi eu cau i fynu; ae ar ol cauad y chwys-dyllau, mae sefyll i fynu y gwallt yn dilyn.

*Am y Pen.*

G. Pa ham y mae pen dyn yn grwn?—A. O herwydd fod y rhan fwyaf llaith o'r ereadur byw yn gynwysedig ynddo; ac hefyd fel y gallai yr ymenydd gael ei amddiffyn trwy hyny megis â tharian.

G. Pa ham nad yw y pen yn hollol hir, ond yn rhyw-beth yn grwn?—I'r dyben fel y gellid gwahaniaethu y tair eilfaeh, a ehell yr ymenydd yn well; hyny yw, y dyehymyg yn y taleen, rhan yr ymddyddan neu resymol yn y eanol, a'r cof yn y rhan ol.

G. Pa ham y mae dyn yn eyfodi ei ben tu a'r nef pan fyddo'n dych'mygu?—A. O herwydd fod y dyehymyg neu amgyffred yn y rhan flaen o'r pen neu ymenydd, a chan hyny y mae yn ymgyfodi, fel y gallo eilfachau neu gelloedd y dyehymyg gael eu hagor, ae fel y gallo yr ysbrydoedd y rhai ydynt yn helpio y dychymyg, ac ydynt gymwys i'r dyben hwnw, gan mai yno y mae eu cyd-gasgliad, gynorthwyo y dyehymyg.

G. Pa ham y mae dyn pan y byddo yn myfyrio ar, neu yn meddwl am bethau a basiodd, yn edryeh tu a'r ddaear?—A. O heawydd mai y gell neu gilfach ag sydd o'r tu ol yw cilfach neu

ystafell y cof; a chan hyny mae hóno yn edrych tu a'r nef pan byddo y pen yn blygedig tu a'r ddaear, ac felly y mae y gell hono yn agored, i'r dyben fel y byddo i'r ysprydoedd ag ydynt yn perffeithio y cof fyned i mewn iddi.

G. Paham nad yw y pen yn gigog, fel rhanau eraill o eiddo y corph?—A. O herwydd y byddai y pen yn rhy drwm, ac na safai yn ddiysgog. Hefyd, y mae y pen wedi ei lwytho â chnawd yn arwydd o ardymer ddrwg.

G. Pa ham y mae y pen yn ddarostyngedig i guriadau a gofidiau?—A. O herwydd fod drwg wlybyrau, y rhai ydynt yn deillio o'r cylla, yn esgyn i fynu i'r pen ac yn aflonyddu yr ymenydd, ac felly yn peri poen yn y pen; weithiau bydd yn deillio oddiwrth lenwad gormodol y cylla, o herwydd fod dau-gieuyn mawr yn passio o'r ymenydd i safn y cylla, a chan hyny mae y ddwy ran hyn bob amser yn goddef gofid a phoen ynghyd.

G. Paham y mae cur pen ar fenywod yn fynychach na meibion?—A. O achos eu dylifiadau misol, y rhai nad yw meibion yn cael eu blino â hwy; a thrwy ba rai y dygir allan ager llaith, aflan, a gwenwynig, ag sydd yn ceisio am fynedfa tuag i fynu, ac felly y mae yn achos o gur mewn pen.

G. Pa ham y mae yr ymenydd yn wỳn?—A. 1. O herwydd ei fod yn oer, ac oerni ydyw mam gwyn. 2. O herwydd y gall dderbyn cyffelybrwydd pob lliw, yr hyn a all lliw gwyn ei wneuthur oreu, gan mai efe yw y lliw mwyaf syml.

G. Pa ham y mae yr holl synhwyrau yn y pen?—A. O herwydd fod yr ymenydd yno, ar

ba un y mae yr holl synwyrau yn ymddibynu, a chyfarwyddir hwy ganddo; ac, o ganlyniad, y mae yn gwneuthur i'r holl ysprydoedd deimlo, ac yn llywodraethu yr holl bilionenau.

G. Pa ham na all dyn ddiangc rhag marwolaeth os bydd i'r ymenydd neu y galon gael eu niweidio? A. O herwydd mai yr ymenydd a'r galon yw y ddwy brif ran sydd a pherthynas rhyngddynt â bywyd; a chan hyny, os niweidir hwy, nid oes meddyginiaeth wedi ei gadael.

G. Pa ham y mae yr ymenydd yn llaith?—A. O herwydd y gall yn hawdd dderbyn argraff, yr hyn a all lleithder ei wneuthur oreu, fel yr ymddengys oddiwath gŵyr, yr hwn a dderbyn argraff y *sel* yn hawdd pan fyddo yn feddal.

G. Pa ham y mae yr ymenydd yn oer?—A. 1. Oblegid fel y gallo trwy yr oerni hwn glirio deall dyn, a'i wneuthur yn dreiddiol. 2 Fel, trwy oerder yr ymenydd y gallo gwres y galon gael ei dymheru,

## *Am y Llygaid,*

G. Pa ham y mae genych un trwyn a dau lygad?—A, O herwydd fod goleuni yn fwy angenrdeidiol i ni nag arogli; a chan hyny y mae yn deillio oddiwrth ddaioni Natur, fel os bydd i ni dderbyn unrhyw niwaid i, neu golli un llygad, bydd y llall yn aros.

G. Paham y mae gan blant lygaid mawrion yn eu hieuengctyd y rhai ydynt yn dyfod yn fychain fel y tyfont i fynu?—A. Y mae yn deillio o ddiffyg tân, ac ymgynhulliad a chydgyfarfod goleuni a gwlybwr; y llygaid, gan

gael eu goleuo gan yr haul, yr hwn sydd yn goleuo y gwlybwr meddal o honynt ac yn eu carthu; ac yn absenoldeb yr haul, y mae y gwlybyrau hyny yn dyfod yn dywyll, ac nid yw y golwg gystal.

G. Paham y mae llygaid llwyd-las yn gweled yn ddrwg yn y dydd, ac yn dda yn y nos?—A. O herwydd fod llwyd-las yn oleu a dysglair o hono ei hun, ac y mae yr ysprydoedd gyda pha rai yr ydym yn gweled yn cael eu gwanhau yn y dydd, a'u cryfhau yn y nos

G. Paham y mae llygaid dynion o wahanol liwiau?—A. O achos amrywiaeth o wlybyrau. Y mae i'r llygaid bedwar o orchuddiadau, a thri math o wlybwr. Y gorchudd cyntaf a elwir cysylltiol (*consolidative,)* yr hwn yw y nesaf allan, ac y mae yn gryf a thew. Yr ail a elwir croen neu orchudd cornaidd, cyffelyb i gorn, yr hwn sydd orchudd clir. Y trydydd, *uvea*, cyffelyb i *grape* du. Y pedwerydd a elwir gwe'r pryf coppyn. Y gwlybwr cyntaf a elwir *abungines*, oddiwrth ei gyffelybrwydd i wyn ŵy. Yr ail, *glarial*; hyny yw, clir, tebyg i risial. Y trydydd, *vitreous*; hyny yw, clir fel gwydr. A'r amrywiaeth gwlybyrau sydd yn achos o amrywiaeth llygaid.

G. Paham y mae y dynion hyny a chanddynt ond un llygad yn saethyddion da? A phaham y mae saethyddion da yn gyffredin yn cau un llygad?—A phaham y mae y rhai hyny a f'ont yn edrych ar y ser yn edrych trwy bib gydâg un llygad?—A. Trinir y matter hwn yn y celfyddydau trem-ddrychol, a'r achos yw fel yr ymddengys yn *Llyfr yr Achosion*, o herwydd fod pob rhinwedd a chryfder wedi eu huno â'n

gwau ynghyd, yn gryfach na phan wedi eu gwasgaru a'u chwalu. Gan hyny y mae yr holl rym o weled sydd wedi ei roddi i chwi yn y ddau lygad, os cauir un, yn cael ei gasglu i'r llall; ac felly y mae y goleuni wedi ei amgaeru ynddo; ac o ganlyniad, y mae yn gweled yn well, a sicrach, pan fyddo un llygad ynghauad, na phan fyddo'r ddau yn agored.

C. Pa ham y mae y rhai ydynt yn yfed ac yn chwerthin fwyaf yn colli mwyaf o ddagrau?—A. O herwydd tra y maent yn yfed ac yn chwerthin yn ddifesur, nid yw'r awyr a dynir i mewn yn passio heibio y corn chwyth, ac felly gyda thrais, cyfarwyddir a gyrir ef i'r llygaid, a chan bassio allan trwy eu tyllau, y mae yn bwrw allan wlybyrau y llygaid; yr hwn wlybwr wedi ei fwrw allan felly, sydd yn dyfod a dagrau.

G. Paham nad yw y rhai sydd yn wylo llawer yn piso ond ychydig?—A. O herwydd fod gwlybwr gwreiddiol deigryn a phision o'r un natur â'u gilydd; a chan hyny lle y mae wylo yn ychwanegu, y mae pision yn lleihau. A'u bod o'r un natur sydd eglur i'r blas, o herwydd fod y ddau yn hallt.

G. Paham y mae rhai ag sydd ganddynt lygaid clir heb weled dim?—A. O achos rhwystr a drygedd y gewynau gydâ pha rai yr ydym yn gweled; o herwydd wedi dystrywio yr arleisiau ni all cryfder y goleuni gael ei gario o'r ymenydd i'r llygaid.

G. Paham y mae y llygaid yn glir a llyfn mal gwydr?—A. 1 O herwydd fod y pethau a ellir eu gweled yn cael eu curo yn ol yn well oddiwrth beth llyfn na phe buasai yn amgen,

fel trwy hyny y byddai i'r golwg gryfhau. 2. O herwydd fod y llygaid yn lleithach na phob rhan arall o'r corph, ac o natur ddyfrllyd; ac megis ag y mae y dwfr yn glir a llyfn, felly yr un modd y mae y llygaid.

G. Pa ham y mae dynion ac anifeiliaid y rhai sydd ganddynt eu llygaid yn taflu allan o'u penau heb fod yn gweled ymhell oddiwrthynt?—A. O herwydd fod pelydr y golwg y rhai ydynt yn passio o'r llygaid yn cael eu gwasgaru ar bob tu, ac heb fyned yn union-gyrchol i'r peth a welir, ac felly y mae y golwg yn cael ei wanhau.

G. Paham y mae llawer o anifeiliaid yn cael eu geni yn ddeillion, megis cenawon llewod a chŵn?—A. O herwydd nad yw y cyfryw anifeiliaid o berffaith aeddfedrwydd a llawn oed eto, ac nid yw cylch magwraeth yn gweithio ynddynt. Fel hyn, y wennol, llygaid pa un, pe y'i cymmerer allan pan fyddont yn ienangc yn y nyth, hwy a dyfent drachefn. A hyn yw yr achos gyda llawer o anifeiliaid, y rhai a ymddygir arnynt cyn eu hamser, fel pe buasai yn farw megis cenawon eirth.

G, Pa ham y gwna llygaid menyw a'r mis-lif arni ystaenio gwydr newydd? A pha ham y mae y wiber *(basilisk)* yn lladd dyn wrth ei golwg?—A. 1. Pan fyddo y mis-lif yn rhedeg o fenyw, yna dystillir awyr o'r mwyaf gweuwynllyd o honynt, yr hwn sydd yn esgyn i ben y fenyw; a chan fod poen yn ei phèn, y mae hi yn ei blygu neu ei amwisgo â lliain neu gadach; ac, o herwydd fod y llygaid yn llawn o dyllau annheimladwy, y rhai a elwir chwys-dyllau, (*pores*,) yno y mae yr awyr yn ymofyn mynedfa, ac yn llygru y llygaid, y rhai ydynt yn llawn o

waed. Ymddengys y llygaid hefyd o fod yn dyferu ac yn llawn o ddagrau, o achos yr ageriadau drwg ag sydd ynddynt; ac mae yr ageriadau hyn yn cael eu cyd-gorphori a'u lluosogi hyd oni ddeuant i'r gwydr o'u blaenau ; ac o achos fod y cyfryw wydr yn ddianaf, yn glir, a llyfn, y mae yn rhwydd yn derbyn yr hyn sydd afian. 2. Anifail tra gwenwynllyd a heintus yw y *basilisk*, ac y mae ageriadau gwenwynllyd yn passio trwy ei lygaid, y rhai a luosogir ar y peth a welir ganddo, ac hyd yn nod i lygaid dyn; pa ageriadau neu wlybyrau gwenwynllyd, gan fyned i mewn i'r corph, sydd yn ei wenwyno, fel yn y diwedd, y mae y dyn yn marw, A hyn yw yr achos pa ham y mae y *basilisk*, os edrych ar darian wedi ei gwneuthur yn hollol berffaith gyda phŷg gludiawg a sicr, neu unrhyw beth caled a llyfn, yn lladd ei hun, o herwydd fod y gwlybyrau yn cael eu curo yn ol oddiwrth y peth caled llyfn i'r *basilisk*, trwy ba guriad yn ol y lleddir ef.

G. Paham y gwelir llygaid cathod a bleiddiaid yn gwreichioni yn y tywyllwch, ac nid yn y goleu?—A. O herwydd fod y goleuni mwyaf yn tywyllu y lleiaf; a chan hyny mewn goleuni mwy, ni ellir gweled y gwreichion; ond po mwyaf y tywyllwch, hawsaf ei gwelir, a gwneir ef yn gryfach a disgleiriach,

G. Paham y mae y golwg yn cael ei adloni a'i adfywio gan liw gwyrdd?—A. O herwydd yn unig fod gwyrdd yn symud y golwg, a chan hyny yn ei gysuro; ond nid yw lliwiau duon na gwynion yn gwneuthur hyn, o herwydd fod y lliwiau hyn yn cyffroi yn danbaid, ac yn cyfnewid offeryn a pheiriant y golwg, a chan

hyny yn gwneuthur y trais mwyaf: ac wrth po gymaint yn fwy tanbaid y bydd y peth a deimlir neu a welir, cymaint a hyny yn fwy y mae yn distrywio neu wanhau y teimlad.

### *Am y Trwyn.*

G. Paham y mae y trwyn yn sefyll allan yn fwy nag unrhyw ran arall o'r corph?—A. 1. O herwydd mai y trwyn, fel pe bai, yw ysgarth-ffos (*sink*) yr ymenydd, trwy ba un y mae llysnafedd yr ymenydd yn cael ei garthu; a chan hyny, y mae yn sefyll allan, rhag i'r rhanau eraill gael eu diwyno. 2. O herwydd mai y trwyn yw prydferthwch y wyneb, a'i fod yn arogli.

G. Paham y mae gan ddyn yr arogl gwaethaf o bob creadur?—A. O herwydd mai gan ddyn y mae mwyaf o ymenydd o bob creadur; a chan hyny, trwy oerder a lleithder dirfawr, y mae yr ymenydd mewn diffyg o dymmer dda, ac o ganlyniad nid yw yr offeryn arogli yn dda; ie, y mae rhai dynion heb ddim arogl.

G, Paham y mae gan fwlturiaid a'r milfrain arogl craff?—A. O herwydd mai ymenydd tra sych sydd ganddynt; a chan hyny nid yw yr awyr sydd yn cario yr anadl yn cael ei attal gan wlybwr yr ymenydd, ond yn ddioed yn cyffwrdd ei offeryn; a chan hyny, y mae yn wybyddus ddarfod i'r fwlturiaid, dywalgwn, ac anifeiliaid gwangcus eraill, ddyfod bum' cant o filldiroedd at gyrph meirwon.

G. Paham y gwnaeth natur ffroenau?—A. 1. O herwydd, am fod y safn ynghauad, ein bod yn tynu anadl i mewn trwy y ffroenau i

adfywio y galon, 2. O herwydd fod yr awyr sydd yn deillio o'r safn yn arogli yn ddrwg, o achos yr ageriadau ydynt yn cyfodi o'r cylla, ond yr hwn yr ydym yn ei anadlu o'r trwyn nid yw yn ffiaidd. 3. O herwydd fod y llysnafedd ag sydd yn deillio o'r ymenydd yn cael ei garthu ganddynt.

G. Paham y mae dynion yn tisian?—A. Fel y byddo i rinwedd bwrw allan a gallu y golwg trwy hyny gael eu carthu, a'r ymenydd hefyd oddiwrth orddigonedd: o herwydd, gan fod yr ysgyfaint yn cael eu carthu trwy besychu, felly y mae y golwg a'r ymenydd trwy disian; a dywedir fod gan y rhai hyny ag ydynt yn tisian yn fynych ymenydd cryf; ac y mae y cyfryw bersonau claf ag na allant disian yn marw yn fuan, o herwydd ei fod yn arwydd fod eu hymenydd wedi ei hollol lenwi â drwg wlybyrau, y rhai na ellir eu carthu,

G. Paham nad yw y cyfryw ag ydynt o natur y parlys mud; hyny yw, y cyfryw ag ydynt ddarostyngedig i waedu yn hawdd, yn tisian?—A. O herwydd fod mynedfeydd neu gropa yr ymenydd wedi eu cau; a phe gallent disian, rhyddheid hwy oddiwrth y parlys mud.

G. Paham y mae gwres yr haul yn cyffroi tisian, ac nad yw gwres y tân?—A. O herwydd fod gwres yr haul yn dadmer, ond yn difa, a chan hyny y mae yr ager a ddadleithir yn cael ei fwrw allan trwy disian; ond y mae gwres y tân yn dadmer ac yn difa, a chan hyny y mae yn attal tisian yn hytrach na'i gynhyrfu.

### *Am y Clustiau.*

G. Paham y mae anifeiliaid yn symud eu clustiau, a dynion heb wneuthur hyny?—A. O herwydd fod yno ryw gïeuyn yn agos i'r ên isaf, yr hon sydd yn achos o ysgogiad y glust, gan hyny, a'r gïeuyn hwnw wedi ei ymledu a'i estyn, nid yw dynion yn symud eu clustiau, fel y gwelwyd mewn amryw ddynion; ond y mae pob anifail yn defnyddio y gïeuyn cigog hwnw, a chan hyny y maent yn symud eu clustiau.

G. Paham y mae gwlaw yn cael ei ragddangos trwy godiad clustiau asynod?—A. O herwydd fod yr asyn o ardymer bruddaïdd, ac y mae dynesiad gwlaw yn dwyn allan yr effaith hwnw ar y fath ardymer. Pan fyddo yn bwrw gwlaw y mae pob anifail yn codi i fynu ei glustiau, ond gwna yr asyn hyny cyn iddo ddyfod.

G. Paham y mae rhai anifeiliaid heb glustiau?—A. Mae natur yn rhoddi i bob peth yr hyn sydd gymwys iddo; ond pe buasai wedi rhoddi clustiau i adar, buasai yn attal iddynt ehedeg. Yr un modd y mae pysgod heb glustiau ganddynt, o herwydd y buasai yn attal iddynt nofio, ac nid oes iddynt ond rhyw dyllau bychain trwy ba rai y maent yn clywed.

G. Paham y mae gan yr ystlum glustiau, er o rywiogaeth adar?—A. O herwydd eu bod mewn rhan yn adar yn eu natur, gan eu bod yn ehedeg, o achos yr hyn y mae ganddynt edyn; ac mewn rhan y maent yn flewog, ac yn ymddangos o fod o natur llygod, gan hyny mae natur wedi rhoddi clustiau iddynt.

G. Paham mai gan ddyn yn unig y mae clustiau crynion?—A. O herwydd y dylai ffurf y cyfan a'r rhanau fod yn gymesur, ac yn enwedig ymhob peth o un natur; o herwydd megis ag y mae dyferyn o ddwfr yn grwn, felly yr holl ddwfr; ac felly, o herwydd fod pen dyn yn grwn, mae y clustiau yn tueddu at yr un ffurf; ond y mae penau anifeiliaid yn lled hir, ac felly mae clustiau yn cael eu tynu yn hirion yr un modd.

G. Paham y mae natur wedi rhoddi clustiau i bob creadur byw?—A. 1. Fel gyda hwynt y byddo iddynt glywed. 2. O herwydd fod gorddigonedd gerïog yn cael ei garthu trwy y clustiau; canys megis ag y certhir y pen o arddigonedd llysnafeddawg trwy y trwyn, felly y geriog trwy y clustiau.

## *Am y Safn.*

G. Paham y mae gan y safn wefusau o'i chwmpas?—A. O herwydd fod y gwefusau yn gorchuddio ac yn amddiffyn y dannedd: o herwydd byddai yn anweddaidd pe bai y dannedd idd eu gweled bob amser. Hefyd, gan fod y dannedd o natur oer, niweidid hwy yn fuan pe buasent heb eu gorchuddio â gwefusau.

G. Paham y mae gan ddyn ddau lygad, dwy glust, a dim ond un safn?—A. O herwydd na ddylai dyn siarad ond ychydig, a chlywed a gweled llawer. A thrwy glywed a goleuni yr ydym yn gweled gwahaniaeth pethau.

G. Paham y mae gan ddyn safn?—A. 1. O herwydd mai y safn yw y porth a drws y cylla. 2. O herwydd fod y bwyd yn cael ei gnoi yn y

safn, ac yn cael ei baratoi i'r treuliad cyntaf
3. O herwydd fod yr awyr wedi cael ei thynu i geudod y safn, er adfywio y galon, yn cael ei wneuthur yn burach ac yn fwy treiddiol.

G. Paham y mae y gwefusau yn symudadwy?—A. I'r dyben o ffurfio y llais a geiriau, yr hyn na ellir ei wneuthur yn berffaith hebddynt. O herwydd megis ag nad oes ysgrifenu heb *a*, *b*, *c*, felly heb y gwefusau ni ellir yn iawn ffurfio un llais.

G. Pa beth sydd yn achos i ddynion ddylyfu gên?—Y mae yn deillio oddiwrth y myg-darth a'r ageriadau tewion ag ydynt yn llenwi y cernau; trwy fwriad allan pa rai yr achlysurir estyniad ac ehangiad y cernau, ac agoriad y safn.

G. Paham y mae dyn yn dylyfu gên pan welo arall yn gwneuthur yr un peth?—A. Y mae yn deillio o'r dychymyg. A phrofir hyn trwy gyffelybrwydd yr asyn, yr hwn o herwydd ei brudd-der, sydd yn dal ei orddigonedd am hir amser, ac ni wnai na bwyta na phiso pe na chlywai arall yn gwneuthur y cyffelyb.

## *Am y Dannedd.*

G. Paham nad oes ond y dannedd yn unig, y'mhlith pob asgwrn arall, yn brofiadol o'r synwyr o deimlad?—A, Fel y byddo iddynt wahaniaethu rhwng gwres ac oerni, ag sydd yn eu niweidio, yr hyn na raid i esgyrn eraill wrtho.

G. Paham y mae gan ddynion fwy o ddannedd na benywod?—A. O achos yr helaethrwydd o wres a gwaed, yr hyn sydd fwy mewn meibion na merched,

G. Pa ham y mae y dannedd yn tyfu hyd ein

marwolaeth, a'r esgyrn eraill heb wneuthur?—A. O herwydd, pe amgen, treulid hwynt trwy gnoi a malu.

G. Paham nad oes ond y dannedd yn unig, o bob esgyrn arall yn dyfod drachefn, pan y syrthiant ymaith neu y tyner hwynt?—O herwydd fod pob asgwrn arall wedi ei fagu o'r lleithder a elwir gwreiddiol, ac felly y maent yn eppilio ynghroth y fam; ond megir y dannedd o wlybwr maethol, yr hwn a adnewyddir ac a ychwanegir o ddydd i ddydd.

G. Paham y mae y dannedd blaen yn syrthio mewn ieuengctyd, ac yn tyfu drachefn, a'r cil-ddannedd heb wneuthur hyny?—A. Oddiwrth y diffyg o sylwedd, ac oddiwrth y ffurf; o herwydd fod y dannedd blaen yn llymion, a'r lleill yn llydain. Hefyd, swydd y dannedd blaen yw tori y bwyd, a chan hyny y maent yn llymion; a swydd y lleill yw cnoi y bwyd, a chan hyny y maent o ffurf llydan, yr hyn sydd gymhwysaf i'r dyben hwnw.

G. Paham y mae y dannedd blaen yn tyfu gyntaf?—A. O herwydd fod arnom eu heisiau yn gynt i dori na'r lleill i gnoi.

G. Paham y mae y dannedd yn myned yn dduon mewn creaduriaid dynol yn eu henaint? A. Achlysurir ef gan lygriad y bwyd, a llygriad llysnafedd, ynghyd a gwlybwr geriog drygiog.

G. Paham y mae dannedd ebolion yn felynion, ac o liw saffrwm, pan y maent yn ieuangc, ac yn dyfod yn wynion pan dyfont i fynu? A. O herwydd fod mewn ceffylau helaethrwydd o wlybyrau dyfrllyd, y rhai yn eu hieuengctyd ydynt yn cael eu treulio a'u troi i dewder; ond mewn henaint mae gwres yn lleihau, ac y mae y

gwlybyrau dyfrllyd yn aros, lliw priodol pa rai yw gwyn.

G. Paham y rhoddodd natur ddannedd i greaduriaid byw?—I rai i ymladd â hwy ac er amddiffyn eu bywyd, megis ag i fleiddiaid ac ystlumod; i rai i fwyta â hwynt, megis ag i geffylau; i rai er ffurfio llais, megis ag i ddynion.

G. Pa ham y mae anifeiliaid corniog mewn diffyg o'u dannedd uchaf?—A. Yr un sylwedd sydd yn achos o gyrn y dannedd, hyny yw, y gwlybwr magwriaethol, a chan hyny, nid yw y sylwedd sydd yn myned i gyrn yn troi yn ddannedd, o ganlyniad y maent mewn diffyg o'r dannedd uchaf. Ac ni all y cyfryw anifeiliaid gnoi yn iawn; gan hyny i adgyflawni y diffyg o ddannedd, y mae ganddynt ddau gylla, ac y maent yn cnoi eu bwyd ddwy waith; yn y cnöad cyntaf, y maent yn trosglwyddo eu lluniaeth nn o'r cylla hyn, o'r hwn y mae yn dychwelyd, ac y maent yn ei gnoi drachefn; yna y mae yn myned i'r cylla arall i gael ei dreulio.

G. Pa ham yr ymddygir at rai creaduriaid dannedd ganddynt, megis mỳn ac ŵyn; a rhai hebddynt, megis dynion?—A. Nid yw natur yn sefyll mewn diffyg o beth afreidiol, nac yn helaeth mewn gorddigonedd; a chan hyny, o herwydd fod yn rhaid i'r anifeiliaid hyn, cyn ir ar ol eu dyfod i'r byd, wrth ddannedd, enir hwy a dannedd ganddynt; ond dynion, gan eu bod yn cael eu maethu gan eu mamau am hir amser, nid ydynt yn sefyll mewn angen ddannedd cyn gynted.

G. Pa ham y mae adar heb ddannedd?—A. O herwydd fod sylwedd dannedd yn myned i'w gau, a chan hyny yno y mae eu treuliad hwy;

ac, er nad ydynt yn cnoi â dannedd, y mae eu pen mewn treuliad, yn adgyfleuwi y diffyg o ddannedd.

*Am y Tafod.*

G. Paham y mae y tafod yn llawn o chwysdyllau?—O herwydd mai y tafod yw y cyfrwng trwyba un yr ydym yn chwaethu: a thrwy y safn, yn ymagorau y tafod, y deillia y synwyr o archwaethu. Drachefn, sylwir, fod poer ewynog yn cael ei anfon i'r safn trwy y tafod o'r ysgyfaint, gan wlychu y bwyd, a'i wneuthur yn barod idd ei dreulio.

G. Paham y mae tafodau y cyfryw ag ydynt glaf o'r cryd yn barnu pob peth yn chwerw?—A. O herwydd fod cylla y cyfryw bersonau wedi eu llenwi â gwlybyrau geriog; ac y mae geri yn dra chwerw, fel yr ymddengys wrth y bustl; gan hyny y mae yr ager chwerw hwn yn effeithio ar eu tafodau; ac felly y mae y tafod, gan ei fod yn llawn o'r blasiadau hyn, yn barnu pob peth yn chwerw.

G. Paham y mae y tafod yn dyfrio pan y clywom lefaru am bethau sur a chwibl?—A. O herwydd fod y rhinwedd neu y gallu dych'mygol o fwy o rym, na'r gallu a'r gynneddf o archwaethu; a phan ddych'mygwn am flâs, yr ydym yn dirnad y gallu o archwaethu fel cyfrwng; nid oes dim yn cael ei deimlo gan yr archwaeth, ond trwy gyfrwng y poer ag y mae y tafod yn ei ddyfrio.

G, Paham y mae rhai personau a bloesgni ac attal dywedyd arnynt?—A. Weithiau trwy leithder y tafod a'r ymenydd, megis mewn plant

y rhai na allant siarad yn eglur na seinio llawer o lythyrenau. Weithiau digwydd achos crebychiad gewynau pennodol y rhai sydd yn myned i'r tafod, ag ydynt wedi eu llygru â llysnafedd.

G. Pa ham y mae tafodau seirph a chŵn cynddeiriog yn wenwynig?—A. O herwydd drwg-ansawdd a brydaniaeth y gwlybwr gwenwynig ag sydd yn goruch-reoli ynddynt.

G. Pa ham y mae tafod ci yn dda yn feddyginiaeth, a thafod ceffyl yn heint-ddwyn (*pestiferous*)?—A. O achos rhyw gynneddf ddirgel, neu fod tafod ci yn llawn o ymagoriadau (*pores*,) ac felly yn tynu ac yn dwyn ymaith wydnder, neu ddrygedd yr archoll. Sylwir fod gan y ci ryw wlybwr yn ei dafod, gydâ'r hwn, trwy lyfu, y mae yn iachau; ond yr effaith wrthwynebol sydd yn llyfiad tafod ceffyl.

G. Pa ham y mae poer yn wyn?—A. O achos symudiad parhaus y tafod, trwy yr hyn y mae gwres yn cael ei fagu, pa un sydd yn gwneuthur y gor-ddigonedd hwn yn wyn; gwelir hyn mewn ewyn dwfr.

G. Pa ham y mae poer yn ddi flâs?--A. Pe buasai ynddo flàs pennodol a phendant, yna ni archwaethai y tafod fodd yn y byd, ond yn unig byddai ynddi flâs poer, ac ni ellai wahanaethu eraill.

G. Pa ham y mae poer un a fyddo yn ymprydio yn iachau llynorod?—A. O herwydd ei fod wedi ei dreulio yn dda, a'i wneuthur yn dreiddiol.

G. Pa ham y mae poer yn helaethach gan rai nag eraill?—A. Mae hyn yn deillio o ardymer llysnafeddawg ag sydd yn goruwchreoli

ynddynt hwy; ac y mae y cyfryw yn ddarostyngedig i'r cryd beunyddiol, yr hyn sydd yn cyfodi oddiwrth ormodedd llysnafedd: y gwrthwyneb yn y rhai nad ydynt ond yn poeri ychydig, o herwydd fod gwres yn helaethlawn ynddynt hwy, yr hyn sydd yn treulio gwlybur y poer; ac felly y mae diffyg o boer yn arwydd o dwymyn.

G. Pa ham y mae poer dyn a fyddo yn ymprydio yn fwy treiddiol na dyn a fyddo yn llawn?—A. O herwydd fod y poer heb wydnder bwyd, yr hyn sydd yn arfer gwneuthur poer un a fyddo'n llawn yn anmhur a thew.

G. O ba le y deillia poer dyn?—A. O ewyn yr ysgyfaint, yr hyn, yn ol y meddygon, yw anneddle y llysnafedd.

G. Pa ham y mae anifeiliaid pan yn myned ynghyd er cenhedliad yn llawn o lafoerion ac ewyn?—A. O herwydd fod yr ysgyfaint a'r galon y pryd hyny mewn cyffroad mawr o chwant; gan hyny, cenhedlir ynddynt lawer o sylwedd ewynog.

G. Pa ham y mae adar heb boer?—A. O herwydd mai ysgyfaint tra sych sydd ganddynt.

G. Pa ham y bydd y tafod weithiau yn colli yr arfer o siarad?—A. Achlysurir ef gan barlys neu barlys mud, yr hyn sydd dywalltiad disymwth o waed, a thrwy wlybyrau anmhur; ac weithiau trwy haint o *spiritus animalis* yn nghell ganol yr ymenydd, yr hyn sydd yn attal i'r ysbrydoedd gael eu cario i'r tafod.

## *Am Daflod y Safn.*

G. Pa ham y mae ffrwythydd, cyn eu bod yn aeddfed, o archwaeth chwerw neu sur, ac wedi

hyny yn felus?—A. Y mae archwaeth neu flas chwerw yn deillio o oerder a diffyg gwres mewn gwlybur anmhur a thew; ond y mae blas melus yn cael ei gynyrchu gan wres digonol; gan hyny, yn y ffrwyth aeddfed y mae y gwlybur yn deneuach trwy wres yr haul, ac mae'r cyfryw ffrwyth yn gyffredin yn felus; ond cyn iddo aeddfedu, gan fod y gwlybur yn anmhur neu deneu-lym o diffyg gwres, mae y ffrwyth yn chwerw neu sur.

G. Pa ham yr ydym yn ymhyfrydu mwy mewn pethau o archwaeth melus, nac mewn chwerw neu arall?—A. O herwydd fod peth melus yn boeth a llaith, a thrwy ei wres y mae yn dadmer ac yn treulio y gwlybyrau gormodol, a thrwy y gwlybur hwn y mae *immundicity* yn cael ei olchi ymaith; ond y mae blas sur, awchlym, o achos yr oerni sydd yn gorfodi ynddo, yn rhwymo gormod, ac y mae yn pigo ac yn niweidio rhanau y corph mewn carthu, a chan hyny nid ydym yn ymhyfrydu yn y blas hwnw.

G. Pa ham y mae blas chwibl, megis hwnw o eiddo y finegr, yn cyffroi chwant bwyd yn hytrach na rhyw flas arall?—A. O hewrydd ei fod yn oer, ac yn oeri. O herwydd natur oerni yw chwennych a thynu, a chan hyny y mae yn achos o chwant bwyd.

G. Pa ham yr ydym yn tynu i mewn fwy o awyr nag ydym yn ei anadlu allan?—A. O herwydd fod llawer o awyr yn cael ei dynu i mewn sydd yn cael ei droi i faeth, a chyda'r ysprydoedd bywydol cynnwysir ef yn yr ysgyfaint. Gan hyny, ni fygir anifail cyhyd ag y derbyn awyr gyda'i ysgyfaint, yn yr hyn y mae rhyw ran o'r awyr yn aros hefyd.

G. Pa ham yr ymddengys yr awyr o fod yn cael ei bwrw a'i gyru allan, gan ei fod yn anweledig, o achos ei amrywiaeth a'i deneuder? —A. O herwydd fod yr awyr a dderbynir ynom, yn gymysgedig âg ageriadau a mygdarth o'r galon, o achos pa beth y gwneir ef yn dew, ac felly y mae idd ei weled. A phrofir hyn trwy brofiad, o herwydd ein bod yn y gauaf yn gweled ein hanadl; canys y mae oerder yr awyr yn rhwymo yr anadl ag sydd wedi ei gymysgu âg agerdd, ac felly y tewychir ef, ac o ganlyniad y mae idd ei weled.

G. Pa ham y mae anadl rhai yn drewi?—A. Oblegid y drwg ageriadau ag ydynt yn cyfodi o'r cylla. Ac weithiau y mae yn deillio oddiwrth lygriad rhanau awelog y corph, megis yr ysgyfaint. Y mae anadl y gwanhanglwyfus mor wenwynllyd a heintus fel y gwenwynai adar pe deuent yn agos iddo, o herwydd fod y rhanau tufewnol yn dra llygredig.

G. Pa ham y mae y gwahangleifion yn gryglyd?—A. O herwydd fod yr offerynau lleisiol wedi eu llygru, hyny yw, yr ysgyfaint.

G. Pa ham y bydd personau yn dyfod yn gryglyd?—A. O herwydd fod y dyferwst (*rheum*,) gan ddisgyn o'r ymenydd, yn llenwi dyfrlle yr ysgyfaint: ac weithiau trwy lynorod ynghorn y gwddf, neu ddyferwch yn casglu yn y gwddf.

G. Pa ham mai gan y benywod y mae y llais meinaf o bob creadur byw, oddieithr y fran yn unig, a chan fenyw lais meinach ac eiddilach na dyn!—A. O achos y cyfansoddiad ag y mae y gwythienau a'r rhydwcliau lleisiol wedi eu ffurfio ynddo, fel yr ymddengys oddiwrth y

gyffelybiaeth hon, sef fod pib fechan yn swnio yn feinach nag un fawr. Hefyd mewn benywod, o herwydd fod y mynedfeydd lle y ffurfir y llais wedi eu gwneuthur yn gul a chyfyng, o achos oerder, gan mai natur oerder yw cyfyngu; ond mewn dynion y mae y mynedfeydd yn agored ac yn lletach trwy wres, o herwydd mai cynneddf gwres yw agor a dadmer. Mae yn deillio mewn benywod trwy oerder yr ysgyfaint, a gwendid y gwres. Y mae gan ddynion ieuaingc ac afiach leisiau llymion a meinion oddi wrth yr un achos.

G. Pa ham y mae y llais yn newid mewn meibion pan yn bedair-ar-ddeg, ac mewn merched pan yn ddeuddeg; mewn meibion pan f'ont yn dechreu rhoddi hâd; mewn merched pan fyddo eu *brestiau* yn dechreu chwyddo?—A. O herwydd y pryd hyny fod dechreuad y llais yn llaesu ac yn llaccau; a phrofir hyn trwy gyffelybiaeth fod llinyn offeryn yn cael ei ollwng neu ei ryddhau, yr hwn sydd yn rhoddi sŵn mawr; ac hefyd o herwydd fod gan greaduriaid a ddyspeiddir, megis dyspeiddiaid, capwlltiaid, &c. leisiau meddalach a meinach nag eraill, trwy ddiffyg o'u harenau.

G. Pa ham y mae adar bychain yn canu mwy ac yn uwch na rhai mawrion, fel yr ymddengys wrth yr hedydd a'r ëos?—O herwydd fod ysbrydoedd adar mân yn dreiddiol a meddal, ac offeryn y dwfr-bibell yn gyfyng, fel yr ymddengys mewn pib; gan hyny, y mae eu nodau (*notes*) yn dilyn yn dra esmwyth fel y dymunant, y maent yn canu yn dra thyner.

G. Pa ham y mae gwenyn, cacwn, gwybed, lindys, a llawer eraill o drych-bryfaid cyffelyb yn

gwneuthur sŵn, yn gymaint ag nad oes ganddynt ysgyfaint, nac offeryn llais?—A. O herwydd fod ynddynt ryw groenyn bychan, yr hwn, pan darawer ef â'r awyr, sydd yn peri swn.

G. Pa ham nad yw pysgod yn gwnenthur sŵn?—A. O herwydd eu bod heb ysgyfaint, ond tagellau yn unig, nac ychwaith galon; a chan hyny nid oes raid iddynt wrth dyniad i mewn yr awyr, ac o ganlyniad nid ydynt yn gwneuthur sŵn, o herwydd mai gwrthdarawiad yw llais o'r awyr a dynir i mewn.

### *Am y Gwddf.*

G. Pa ham y mae gan greadur byw wddf?—A. O herwydd mai y gwddf yw cynnalydd y pen, a chan hyny mae y gwddf yn y canol, rhwng y pen a'r corph, i'r dyben fel trwyddo, a thrwy ei ewynau, y gall ysgogiad a theimlad y corph gael eu trosglwyddo trwy yr holl gorph i gyd; ac fel y gallai y galon, yr hon sydd dra phoeth, trwy offeryniaeth y gwddf, gael ei gwahanu oddi wrth yr ymenydd.

G. Pa ham y mae rhai creaduriaid mewn diffyg o yddfau, megis seirph a physgod?—A. O herwydd eu bod mewn diffyg o galonau, a chan hyny mewn diffyg o'r pellder y soniasom am dano; neu ynte, y mae iddynt wddf mewn rhyw ran tufewnol o honynt, yr hwn nid yw yn cael ei wahaniaethu yn allanol.

G. Pa ham y mae y gwddf yn llawn o esgyrn a chymalau?—A. Fel y gallo ddwyn a chynnal y pen yn well. Hefyd, o herwydd fod asgwrn y cefn wedi ei uno â'r ymenydd yn y gwddf, ac

oddiyno y mae yn derbyn mêr, yr hwn sydd o sylwedd yr ymenydd.

G. Paham y mae gan rai creaduriaid yddfau hirion, megis y cregyrod, ciconia a'r cyffelyb? —A. O herwydd fod y fath adar yn chwilio am eu lluniaeth yngwaelod y dyfroedd. Ac y mae gan rai creaduriaid yddfau byrion, megis adar to, y cudyll coch, &c. o herwydd fod y cyfryw yn ysglyfaethgar, a chan hyny, er cryfder, y mae ganddynt yddfau byrion; fel yr ymddengys yn yr ŷch, yr hwn sydd ganddo wddf byr a chryf.

G. Pa ham y mae y gwddf yn geuol, ac yn enwedig o'r tu blaen, o ddeutu y tafod?—A. O herwydd fod yno ddwy fynedfa, un o ba rai sydd yn cario y bwyd i offeryn y maethu, neu y cylla a'r afu, yr hyn a elwir gan y Groegiaid *œsophagus*; a'r llall yw y corn chwyth.

G. Pa ham y mae y corn gwynt wedi ei wneuthur gyda modrwyau a chylch?—A. I'r dyben o blygu yn well, a rhoddi sain dda.

### *Am yr Ysgwyddau a'r Breichiau.*

G. Pa ham y mae gan ddyn ysgwyddau a breichiau?—A. I godi a chario beichiau

G. Pa ham y mae ei freichiau yn grynion?— A. Er gwneuthur gwaith yn gynt a chyflymach.

G. Pa ham y mae ei freichiau yn ffyrfion?— A. Fel y gallont fod yn gryfion i godi a chario beichiau, a gwthio a rhoddi dyrnod cryf; felly y mae eu hesgyrn yn ffyrfion, o herwydd eu bod yn cynnwys llawer o fêr, onite llygrid neu niweidid hwy yn hawdd.

G. Pa ham y mae y breichiau yn dyfod yn

fychain a meinion mewn rhai anhwylderau, megis mewn gwallgofrwydd, a'r cyfryw ag ydynt glaf o'r dwfrglwyf?—A. O herwydd fod holl ranau'r corph yn dioddef y naill gyda'r llall; a chan hyny ag un aelod mewn gofid, y mae yr holl wlybyrau yn cyd-synied ac yn rhedeg yno i roddi ymgeledd a chynorthwy i'r gofid rhag-ddywededig.

G. Pa ham y mae anifeiliaid direswm heb freichiau?—A. Y mae eu traed blaen yn eu lle, ac yn yr un man.

### *Am y Dwylaw.*

G. I ba ddyben y mae gan ddyn ddwylaw, a'r âb hefyd gyffelyb i eiddo dyn?—A. Y llaw sydd offeryn ag y gwna dyn yn enwedig ddefnydd o honi, o herwydd gwneir llawer o bethau â'r dwylaw, ac heb fod yn cael ei wneuthur gan unrhyw ran arall.

G. Pa ham y mae rhai dynion yn *ambodexter,* hyny yw, arferant y llaw chwith fel y dde'?—A. O herwydd gwres mawr y galon, a phlygiad brwd yr unrhyw; o herwydd hyny sydd yn gwneuthur dyn mor wisgi â'i law chwith ag â'i law dde'.

G. Pa ham y mae y bysedd yn llawn o gymalau?—A. I'r dyben o fod yn fwy parod i dderbyn a chadw yr hyn a roddir ynddynt.

G. Pa ham y mae tri chymal i bob bys, ac i'r fawd ond dau?—A. Y mae tri i'r fawd, ond y mae y trydydd yn unedig a'r fraich, gan hyny y mae yn gryfach na'r bysedd eraill; a gelwir ef *pollox,* a *polleo,* hyny yw, rhagori mewn cryfder.

G. Pa ham y mae bysedd y llaw ddeau yn

fwy gwisgi na bysedd y llaw aswy?—A. Y mae yn deillio oddiwrth y gwres sydd yn gorfodogi yn y rhanau hyny, ac yn achos o fywiogrwydd mawr.

### *Am yr Ewinedd.*

G. O ba le y mae ewinedd yn deillio?—A. O'r gwlybyrau, y rhai ydynt yn attodi ac yn myned i ben pellaf y bysedd; a sychir hwy trwy allu yr awyr allanol, a dygir hwy i galedrwydd corn.

G. Pa ham y mae ewinedd hen bobl yn myned yn dduon a gwelw?—A. O herwydd fod dihoeniad gwres y galon yn achos i'w prydferthwch hwythau adfeilio hefyd.

G. Pa ham y bernir dynion o ardymer dda neu ddrwg wrth liw eu hewinedd?—A. O herwydd eu bod yn tystiolaethu am ddaioni neu ddrygioni y galon, a chan hyny am yr ardymer; canys os byddant yn lled goch, y maent yn arwyddo geri wedi ei dymhern yn dda;—ond os melynaidd neu ddu a fyddant, arwyddant brudd-der.

G. Pa ham y mae brychau gwynion yn ymddangos yn yr ewinedd?—A. Trwy gymysgiad o lysnafedd gyda'r magwraeth.

### *Am y Didenau a'r Tethau.*

G. Pa ham y mae y didenau wedi eu gosod ar y *brestiau*?—A. O herwydd mai y *frest* yw anneddle y galon, yr hon sydd boethaf; a chan hyny mae y didenau yn tyfu yno, i'r dyben fel y byddo i'r mis-lifiadau, gan gael eu tros-

glwyddo yno, fel yn bod yn agos i anneddle y galon, i gael eu treulio, eu perffeithio, a'u troi i sylwedd llaeth.

G. Pa ham y mae y didenau islaw y *frest* mewn anifeiliaid, ac uwchlaw y *brestiau* mewn benywod?—A. O herwydd fod benyw yn cerdded yn syth, a chanddi ond dwy goes yn unig; a chan hyny, pe byddai ei didenau islaw ei *brest*, rhwystrent iddynt gerdded; ond gan fod i anifeiliaid bedwar troed, y maent yn attal yr anghyfleustra hwnw.

G. Pa ham nad oes gan feibion *frestiau* a didenau cymaint a merched?—A. O herwydd nad yw y dylifiadau misol ar feibion, a chan hyny nid oes ganddynt unrhyw lestr wedi ei drefnu iddynt.

G. Pa un ai didenau mawrion, bychain, neu faint canolig yw y rhai goreu i blant i sugno?—A. Mewn rhai mawrion y mae gwres wedi ei wasgaru, ac nid yw y llaeth wedi treulio yn dda; ond mewn rhai bychain y mae y gallu a'r grym yn gryf, o herwydd mai rhinwedd unedig yw y cryfaf, ac o ganlyniad y mae y llaeth wedi ei weithio a'i dreulio yn dda.

G. Pa ham y mae didenau merched ieuaingc yn dechreu chwyddo oddeutu tair-ar-ddeg neu bymtheg mlwydd oed?—A. O herwydd y pryd nad oes gan y mis-lifiadau y pryd hyny ddim llwybr i'r bronau, trwy yr hyn y mae yr un bychan yn cael ei faethu, ond y maent yn dilyn eu hynt gyffredin, a chan hyny yn myned yn feddal.

G. Pa ham y mae diden dde' benyw a fyddo yn feichiog ar fachgen yn galetach na'r aswy?—A. O herwydd fod y plentyn gwrryw yn cael

beichiogi arno ar yr ochr ddëau i'r fam; a chan hyny y mae y mislifiadau yn rhedeg i'r ddiden ddëau ac yn ei gwneuthur yn galed.

G. Paham y mae yn dangos gwendid yn y plentyn, pan fyddo'r llaeth yn dyferu o'r didenau cyn rhyddhau y fenyw?—A. O herwydd mai y llaeth yw magwriaeth priodol y plentyn ynghroth y fam; gan hyny, os bydd y llaeth yn rhedeg allan, arwydd yw nad yw y plentyn yn cael ei faethu, ac o ganlyniad y mae yn wan.

G. Paham y mae caledrwydd y didenau yn arwyddo iechyd y plentyn yn y groth?—A. O herwydd fod y mislifiadau yn cael eu troi i laeth, ac y mae y llaeth hwnw yn maethu y plentyn yn ddigonol, a chan hyny cryfder a arwydda.

G. Paham y mae didenau merched yn galed pan fyddont yn feichiog, ac yn feddal ar amserau eraill?—A, O herwydd eu bod yn chwyddo, ac wedi eu chwythu y pryd hyny; ac y mae y lleithder mawr ag sydd yn deillio oddiwrth y mis-lifiadau, yn rhedeg i'r didenau, yr hwn ar amserau eraill sydd yn aros yn y bru neu y groth, ac y mae yn cael ei fwrw allan gan y lle a drefnwyd i'r dyben hwnw.

G. Trwy ba foddion y mae llaeth y didenau yn dyfod i'r bru neu groth?—A. Y mae rhyw gysylltiad a chyd-ieuad o eiddo y didenau a'r groth, ac y mae yno ryw wythienau y rhai y byddy byd-wragedd yn eu tori yn amser esgoriad y plentyn, a thrwy y gwythienau hyny mae y llaeth yn dylifo i fewn wrth fogail y plentyn, ac felly y mae yn derbyn maeth trwy y bogail,

G. Pa ham, pan y mae y llaeth ag a fyddo'n rhedeg o *frest* merch yn dew, ac heb fod yn llawer, y mae yn arwyddo plentyn gwrryw, ac

o un banyw pan y bydd yn deneu?—A. O herwydd fod benyw ag sydd yn feichiog ar fachgen a gwres ynddi, yr hyn sydd yn perffeithio y llaeth ac yn ei wneuthur yn dew; ond nid oes ynddi hi, yr hon sydd yn feichiog ar un banyw, gymaint o wres, a chan hyny y mae y llaeth yn annhreuliedig, yn anmherffaith, yn ddyfrllyd, ac yn deneu, ac efe a nofia uwchlaw y dwfr os rhoddir ef ynddo.

G. Pa ham y mae y llaeth yn wyn, gan fod y mis-lifiant yn goch, o'r hwn y megir ef?—A. O herwydd fod gwaed ag a fyddo wedi ei garthu a'i dreulio yn dda yn dyfod yn wyn, fel yr ymddengys mewn cig, lliw priodol pa un yw coch, ond wedi ei ferwi y mae yn dyfod yn wyn. Hefyd o herwydd fod pob gwlybwr a genhedlir o'r corph yn cael ei wneuthur yn gyffelyb mewn lliw i'r rhan hono lle y cenhedlir ef, mor agos ag y byddo modd; ond o herwydd fod cnawd y didenau yn wyn, gan hyny y mae lliw y llaeth yn wyn.

G. Pa ham y mae buwch yn rhoddi llaeth yn helaethach nag anifeiliaid eraill?—A. O herwydd mai anifail tra bywiog yw, a lle y cenhedlir llawer o orddigonedd misol, y mae yno lawer o laeth; o herwydd nad yw ddim amgen na gwaed wedi ei garthu a'i brofi.

G. Pa ham nad yw llaeth yn iachus?—A 1. O herwydd ei fod yn ceulo yn y cylla, o'r hyn y mae anadl drwg yn cael ei fagu. 2. O herwydd fod llaeth yn myned yn sur yn y cylla, lle y megir gwlybyrau drwg, ac y maent yn gwenwyno yr anadl.

G. Pa ham y mae llaeth yn ddrwg i'r cyfryw ag y mae cur pen arnynt?—A. O herwydd ei

fod yn cael ei droi yn hawdd i fyg-darthiadau mawrion, a chanddo lawer o sylwedd daearol ynddo, yr hwn gan esgyn, sydd yn achos o gur pen,

G. Pa ham y mae llaeth yn fagwriaeth cymwys i blant? A. O herwydd mai lluniaeth naturiol ac arferedig yw, a maethid hwy gan yr un yn y groth.

G. Pa ham y mae maidd tór a wneir o fuwch yn cael ei godro o newydd yn dda?—A. O herwydd fod llaeth y pryd hyny yn dra yspyngaidd, yn bwrw allan lawer o fyg-darthiadau, ac, fel pe bai, y mae yn carthu y pryd hyny,

G. Pa ham y mae y llaeth yn ddrwg i'r plentyn, os bydd y fenyw a fyddo'n rhoddi sugn yn arfer ymread cnawdol?—A. O herwydd fod y rhan oreu o'r llaeth, yn amser ymrëad cnawdol yn myned i lestri yr hâd, ac i'r groth, ac y mae y gwaethaf yn aros yn y didenau, yr hyn sydd yn niweidio y plentyn.

G. Pa ham y mae meddygon yn gwahardd bwyta pysgod a llaeth ar yr un amser?—O herwydd eu bod yn dwyn allan y gwahanglwyf, ac o herwydd fod y naill a'r llall yn llysnafeddawg.

G Pa ham y mae adar a physgod heb laeth a didenau?—A. O herwydd y gwnelai didenau attal ehediad adar. Ac er nad oes gan bysgod na didenau na llaeth, mae y rhai benywaidd yn bwrw llawer o sil (*spawn*), yr hon y mae y gwrryw yn ei chyffwrdd â choluddyn, ac yn achos i'w rhyw barhau yn olynol.

*Am y Cefn.*

G. Pa ham y mae gan anifeiliaid gefnau?—A. 1. O herwydd mai y cefn yw y llwybr ac

agwedd y corph, o'r hwn y mae holl gïeuynau asgwrn y cefn yn cael eu hestyn a'u lledu trwyddo oll. 2, O herwydd y dylai fod yn gadwriaeth ac amddiffyn i ranau meddalion y corph, megis y cylla, yr afu, yr ysgyfaint, a'r cyffelyb. 3. O herwydd mai efe yw sylfaen yr holl esgyrn, megis yr asenau ag ydynt wedi eu sicrhau wrth asgwrn y cefn.

G. Pa ham y mae gan asgwrn y cefn gymaint o gymalau neu gylymau, a elwir *spondelia*?—A. O herwydd, heb y cyfryw gymalau, ni ellid ei symud na'i blygu; a chan hyny mae y rhai a ddywedant nad oes gan y cawrfil y fath gymalau, yn gyfeiliornus, canys hebddynt ni allai symud.

G. Pa ham y mae pysgod yn meirw ar ol torri asgwrn eu cefnau?—A. O herwydd mewn pysgod y mae asgwrn eu cefnau yn lle y galon; yn awr, y galon yw y peth cyntaf ag sydd yn byw, a'r peth olaf sydd yn marw; a chan hyny, pan dorir yr asgwrn hwnw, ni all pysgod fyw yn hwy.

G. Pa ham y mae dyn yn marw yn fuan ar ol i'r mêr gael ei niweidio neu ddarfod?—A. O herwydd fod y mêr yn deillio o'r ymenydd, yr hyn sydd brif ran o ddyn.

G. Pa ham y mae clwy'r marchogion ar rai dynion?—A. Y dynion hyny ydynt oer a phruddaidd, yr hwn brudd-der sydd yn myned yn gyntaf i'r ddüeg, ei aneddle briodol, ond yr hwn na ellir ei ddal yno, o herwydd yr helaethrwydd o waed; am ba achos trosglwyddir ef i asgwrn y cefn, lle y mae gwythienau pennodol ag ydynt yn terfynu yn y cefn, ac yn derbyn gwaed. Pan mae y gwythienau hyny yn llawn o waed prudd-glwyfus, yna y mae pibellau natur

yn cael eu hagor, ac y mae gwaed yn ffrydio allan unwaith yn y mis, fel mis-lifiadau benywod. Mae y dynion hyny ag y mae y cyrsiau hyn o waed arnynt yn cael eu cadw rhag llawer o wendidau, megis y dyfrglwyf, pla, &c.

G. Pa ham y mae yr Iuddewon mor ddarostyngedig i'r afiechyd hwn?—A, O herwydd eu bod yn bwytta llawer o fwydydd llysnafeddawg ac oerion, yr hyn sydd yn magu gwaed prudd-glwyfus, yr hwn a garthir gan y dylifiad hwn. Achos arall yw, fod ysgogiad yn peri gwres, a gwres dreuliad; ond nid yw Iuddewon manwl yn symud, yn llafurio, nac yn ymddiddan llawer, yr hyn sydd yn magu oerni ynddynt, ac yn attal treuliad, gan fod yn achos o waed prudd-glwyfus, pa un trwy y moddion hyn a garthir allan.

## *Am y Galon.*

G. Pa ham y mae ysgyfaint yn ysgafn, yspyngaidd, a llawn o dyllau?—A. Fel y byddo i'r awyr gael ei derbyn iddynt er oeri y galon, a bwrw allan wlybyrau, o herwydd yr ysgyfaint yw gwyntyll y galon; ac megis ag y cyfodir pâr o feginau i fynu trwy gymeryd i mewn yr awyr, ac yr ymgrynhoir hwy trwy ei chwythu allan, felly yr un modd y mae yr ysgyfaint yn tynu yr awyr i oeri y galon, ac yn ei fwrw allan, rhag, trwy ormod gwres yr awyr a dynir i mewn i'r galon gael ei mogi.

G, Pa ham y mae cnawd yr ysgyfaint yn wyn?—A. O herwydd eu bod mewn ysgogiad parhaus.

G. Pa ham nad oes ond gan yr anifeiliaid

hyny ag sydd ganddynt galon, yn unig, ysgyfaint?—A. O herwydd nad yw ysgyfaint yn rhan iddynt eu hunain, ond i'r galon; a chan hyny byddai dros ben digon i fod gan y creaduriaid hyny ysgyfaint y rhai nad oes iddynt galon.

G. Pa ham y mae y creaduriaid hyny ag ydynt heb ysgyfaint mewn diffyg o bledren?—A. O herwydd nad ydyw y cyfryw yn yfed dim dwfr i wneuthur i'w bwyd dreulio, ac nid oes rhaid iddynt wrth bledren i'r pision; fel yr ymddengys yn y cyfryw adar nad y'nt yn yfed dim, sef yr hebog a'r cudull coch.

G. Pa ham y mae y galon yn nghanol y corph?—A. Fel y gallo gyfranu bywyd i bob rhan o'r corph; a chan hyny cydmerir hi i'r haul, yr hwn sydd wedi ei osod yn nghanol y planedau, i roddi goleuni iddynt oll.

G. Pa ham mai mewn dyn yn unig y mae y galon ar yr ochr aswy?—A. I'r dyben fel y byddai i wres y galon liniaru oerder y ddüeg; o herwydd y ddüeg yw aneddle y prudd-glwyf, yr hon sydd hefyd ar yr ochr aswy.

G. Pa ham y mae y galon yn cael ei chenhedlu gyntaf; canys y galon sydd yn byw gyntaf, ac yn marw olaf?—A. O herwydd mai y galon yw dechreuad a ffynon neu wreiddyn bywyd, ac hebddi ni all unrhyw ran fyw. O herwydd o'r hâd a gedwir yn y bru, cenhedlir yn gyntaf groen bychan, yr hwn sydd yn cylchynu yr hâd; o'r hwn y gwneir y galon yn gyntaf o'r gwaed puraf; yna, o waed nad yw mor bur, yr afu; ac o waed tew ac oer, yr ymenydd a'r mêr.

G. Pa ham y mae anifeiliaid ag sydd iddynt

galon fechan yn ëon?—A. O herwydd fod y gwres mewn calon fechan wedi ei uno yn dda, ac yn danbaid, a phan gyffyrddo'r gwaed ag ef, y mae yn ei wresogi yn ebrwydd, a chérir ef yn gyflym i ranau eraill y corph, yr hyn sydd yn rhoddi dewrder ac ëonder.

G. Pa ham y mae creaduriaid a chalonau mawrion yn ofnus, megis yr ysgyfarnog?—A. Y mae y galon wedi ei thaenu yn y cyfryw un, fel nad yw yn alluog i wresogi y gwaed sydd yn dyfod iddi; trwy ba foddion y mae ofn yn cael ei fagu.

G. Pa fodd y mae fod y galon yn symud yn barhaus?—A. O herwydd fod ynddi ryw ysbryd pennodol, ac sydd fwy treiddiol nag awyr, ac o achos ei dewder a'i deneuhad, y mae yn ceisio mwy o ofod (*space*,) gan lenwi lle ceuol y galon; oddiyma y mae llediad ac agoriad y galon yn deillio; a chan mai daearol yw y galon, a'r gwthiadau a'r symudiadau yn peidio, y mae ei rhanau yn gorphwys, gan dueddu tuag i waered. Fel prawf o hyn cymerwch fesen, yr hon, os rhoddir hi yn y tân, y mae y gwres yn dadmer ei lleithder, a chan hyny y mae yn cymeryd i fynu fwy o gyfwng, fel na all y pilionyn ei chynwys, ond y mae yn chwythu i fynu ac yn ei thaflu i'r tân. Y mae yn gyffelyb gyda'r galon. Gan hyny, y mae calon creadur byw yn dair-ongl, a chanddi ei rhan leiaf tuag at eï ochr chwith, a'r fwyaf tuag at y ddeau; ac y mae hefyd yn agor a chau yn y rhan leiaf, trwy ba foddion y mae mewn ysgogiad parhaus; yr ysgogiad cyntaf a elwir *diastole*, hyny yw, estyn y *frest* neu y galon; y llall *systole*, hyny yw, cau y galon; ac oddiwrth y rhai hyn y mae holl ysgog-

iadau y corph yn deillio, a hwnw o eiddo y *pwls,* y bydd meddygon yn ei deimlo.

G. Pa fodd y mae fod cig y galon mor daclus, ac wedi ei wau ynghyd?—A. O herwydd fod y gwres mewn sylweddau tewion crynhöawl, ac yn cael ei dderbyn a'i gyfuno yn gadarn. Ac o herwydd y dylai y galon a'i gwres gymedroli oerder yr ymenydd, y mae wedi ei gwnenthur o'r cnawd tew hwn sydd yn chwannog i gadw gwres cryf.

G. Pa beth yw yr achos mai y galon yw y rhan boethaf o bob creadur byw?—A. Y mae mor grynhöawl fel mai hi sydd yn derbyn gwres oreu, ac o herwydd y dylai liniaru oerder yr ymenydd.

G. Pa ham y mae y galon yn ddechreuad bywyd?—A. Y mae yn amlwg mai ynddi y mae yr ysbryd bywydol yn cael ei fagu, yr hyn yw gwres bywyd; gan hyny, a chan y galon ddwy gronfa, sef y dde' a'r aswy, y mae i'r dde' fwy o waed nag o ysbrydoedd; yr hwn ysbryd sydd yn cael ei genhedlu i roddi bywyd a bywioccau y corph.

G. Pa ham y mae y galon yn hir a phigfain, fal *peiramid*?—A. Nid oes i beth o ffurf crwn yr un ongl, gan hyny nid yw y galon yn gron, rhag ofn i ryw wenwyn neu sylwedd niweidiol gael ei ddal ynddi; ac o herwydd mai y ffurf hwnw yw y cymhwysaf er ysgogiad.

G. Pa beth yw yr achos fod y gwaed yn benaf yn y galon?—A. Mae y gwaed yn y galon fel yn ei le priodol neu effeithiawl, yr hyn a briodola rhai i'r afu; a chan hyny nid yw y galon yn derbyn gwaed unrhyw ranau eraill, ond pob rhan arall o honi hi.

G. Pa fodd y mae'n digwydd fod rhai creaduriaid mewn diffyg o galon?—A. Er nad oes iddynt galon, etto y mae ganddynt rywbeth sydd yn gwneuthur yn ei lle, fel yr ymddengys mewn llysywod a physgod, y rhai sydd ganddynt asgwrn y cefn yn lle y galon.

G. Pa ham y mae y galon yn curo mewn rhai creaduriaid pan wedi tori eu penau, fel yr ymddengys mewn adar ac ieir?—A. O herwydd mai y galon sydd gyntaf yn fyw ac yn olaf yn marw, a chan hyny y mae yn curo yn hwy nag unrhyw ran arall.

G. Pa ham y mae gwres y galon weithiau yn ddisymwth yn pallu, megis yn y rhai hyny ag y mae yr haint ddigwydd arnynt?—A. Mae hyn yn digwydd oddiwrth ddiffyg y galon ei hun, a rhyw groenau byehain gyda pha rai mae wedi ei gorchuddio; pa rai, gan gael eu gwenwyno a'u llygru, y mae y galon yn pallu yn ddisymwth; weithiau hefyd o achos y rhanau cyfagos; a chan hyny pan f'o unrhyw wlybwr gwenwynig yn myned allan o'r cylla ag sydd yn niweidio y galon a'r rhanau cyfagos, mae hyny yn achos o'r llewyg hwn.

## *Y Cylla.*

G. Pa beth yw yr aehos fod y cylla yn fawr a llydan?—A. O herwydd mai ynddo y mae y lluniaeth yn cael ei dreulio fel pe byddai mewn llestryn, i'r dyben fel y byddo i'r hyn sydd bur gael ei wahanu oddiwrth yr hyn nad yw; a ehan hyny, yn ol swm y lluniaeth y mae y cylla yn cael ei ehangu.

G. Pa beth yw yr achos fod y cylla yn grwn?

—A. O herwydd pe buasai iddo onglau, arhosai lluniaeth ynddynt, ac a fagent ddrwg wlybyrau, fel na byddai ar ddyn byth ddiffyg crydau (*agues*), pa wlybyrau ydynt yn cael eu harloesi a'u difa, ac heb gael eu cuddio mewn unrhyw fath o onglau, trwy grynder y cylla.

G. Pa beth yw yr achos fod y cylla yn llawn o gieuynnau?—A. O herwydd y gellir eu lledu a'u heangu hwy; ac felly mae y cylla pan byddo'n llawn; ond pan fyddo'n wag y mae wedi eu gollwng ynghyd; a chan hyny y mae natur wedi darparu y gieuynau hyny.

G. Pa beth yw yr achos fod y cylla yn treulio bwyd?—A. O herwydd y gwres ag sydd ynddo, ac sydd yn dyfod o'r rhanau cyfagos, hyny yw, yr afu a'r galon. O herwydd megis ag yr ydym yn gweled mewn metteloedd, fod gwres y tân yn cymeryd ymaith y rhwd a'r sinidr (*drops*) o haiarn, yr arian o'r alcan, a'r aur o'r copr; felly hefyd trwy dreuliad, gwahanir y pur oddiwrth yr amhur.

G. Am ba achos y mae y cylla yn unedig â'r afu?—A. O herwydd fod yr afu yn dra phoeth, a chyda'i gwres y mae yn cynorthwyo treuliad, ac yn cynhyrfu chwant bwyd.

G, Pa ham yr ydym yn gyffredin yn oer ar ol ciniaw?—A. O herwydd fod y gwres yn myned i'r cylla i hyrwyddo treuliad, ac felly mae y rhanau eraill yn dyfod yn oer.

G. Pa ham y mae yn niweidiol myfyrio yn fuan ar ol ciniaw?—A. O herwydd pan mae y gwres yn llafurio i gynorthwyo y dychymyg neu'r amgyffred, y mae yn peidio a threulio y bwyd, yr hwn sydd yn aros heb ei dreulio; gan hyny dylai pobl gerdded ychydig ar ol prydiau bwyd.

G. Pa beth yw yr achos mai yn araf y mae y cylla yn treulio y bwyd?—A. O herwydd ei fod yn nofio yn y cylla. Yn awr, y treuliad goreu sydd yngwaelod y cylla, o herwydd nad yw y tew yn disgyn yno: mae y cyfryw ag ydynt yn bwyta bwyd bras yn dra chysglyd, o herwydd fod y treuliad yn cael ei attal.

G. Pa ham y mae yr holl gorph heb fod yn iawn pan y mae y cylla yn anesmwyth?—A. O herwydd fod y cylla yn gysylltiedig â'r ymenydd, y galon, a'r afu, y rhai ydynt y prif ranau mewn dyn; a chan hyny pan nad yw yn iach, mae y lleill yn glaf hefyd. Drachefn os attelir y treuliad cyntaf, rhwystrir y lleill hefyd; canys yn y treuliad cyntaf y mae dechreuad llesgedd yn y cylla.

G. Pa ham y mae gwyr ieuaingc yn newynog yn gynt na hen bobl?—A. Y mae gwyr ieuaingc yn treulio o herwydd tri pheth: 1. Er tyfiant: 2. Er adnewyddiad bywyd: Ac yn 3. Er cadwriaeth bywyd. Hefyd, y mae gwyr ieuaingc yn frwd a sych, gan hyny mae y gwres yn treulio mwy, ac o ganlyniad y maent yn chwennych mwy.

G. Pa ham y mae meddygon yn gorchymyn y dylai dynion fwyta pan fyddo awydd arnynt?—A. O herwydd y llenwa llawer o chwant bwyd a gwagter y cylla â gwlybyrau drwg pydredig, y rhai a dynir i mewn yn lle bwyd; o herwydd, os ymprydiwn dros y nos, bydd arnom chwant bwyd, ond dim yn y boreu; gan fod y cylla y pryd hyny wedi ei llenwi â gwlybyrau drygiog, ac yn enwedig ei safn, yr hyn nid yw wir lanwad, ond un tywyllodrus. A chan hyny, ar ol i ni fwyta ychydig, y mae ein chwant

bwyd yn dyfod i ni drachefn; canys mae y tamaid cyntaf, gan lanhau safn y cylla, yn cyffroi y chwant bwyd.

G. Pa ham y mae meddygon yn gorchymyn i ni beidio bwyta gormod ar unwaith, ond o fesur ychydig?—A. O herwydd fod y bwyd yn nofio yn y cylla pan y byddo yn llawn, yr hyn sydd beth peryglus. Achos arall yw, fod llawer o fwyd, (megis ag y gwna coed tra irion ddiffodd tân] yn mygu y gwres naturiol ac yn ei ddiffodd; a chan hyny y phisygwriaeth oreu yw arfer cymedroldeb mewn bwyta ac yfed.

G. Pa ham yr ydym yn chwennych newidiad bwydydd yn ol newidiad yr amserau; megis yn y gauaf, *bîf*, *porc*, *mytyn*; yn yr hâf, bwydydd ysgeifn, megis *fêl*, *lam*, &c.?—A. O herwydd fod ardymer y corph yn cael ei newid yn ol amser y flwyddyn. Y rheswm arall yw, fod hyn yn deillio o gyneddf y tymhor; o herwydd fod yr oerni yn y gauaf yn achos o dreuliad gwell.

G. Pa ham na ellai y bwyd ag ydym yn ei fwyta fod cyn boethed a sinsir neu buppyr?—A. O herwydd megis ag y mae bwyd poeth yn enyn y gwaed ac yn ei roddi i fynu i'r gwahanglwyf; felly, i'r gwrthwyneb, y mae bwyd rhy oer yn marweiddio ac yn cyd-geulo y gwaed. Ni ddylai ein bwyd fod yn rhy chwibl, o herwydd ei fod yn nychu yr ardymer; mae gormod o saws (*sauce*) yn llosgi y coluddion, ac yn tueddu at yfed mynych; y mae bwyd anaeddfed yn gwneuthur yr un peth; ac y mae bwydydd rhy felusion yn cyd-dyru ac yn gwneuthur i'r gwythienau lynu ynghyd.

G. Pa ham mai arferiad da yw bwyta caws

ar ol ciniaw, a gellyg ar ol pob bwyd?—A. O herwydd, o achos ei ddacarolrwydd a'i dewedd, ei fod yn tywys i lawr tua gwaelod y cylla, ac felly yn anfon y bwyd i lawr; a'r cyffelyb am ellyg. Noder, fod caws newydd yn well na hen gaws; a bod hen gaws meddal yn ddrwg iawn, ac yn achos o gur pen ac attaliadau yr afu; a pho henaf y bo gwaethaf oll. O herwydd pa ham y dywedir fod caws yn treulio pob peth ond ei hun.

G. Pa ham y mae cnau yn dda ar ol caws, fel y dywed y ddiareb, Ar ol pysgod cnau, ac ar ol cig caws?—A. O herwydd fod pysgod yn anhawdd eu treulio, ac yn braenu ac yn llygru yn hawdd, ac y mae cnau yn feddyginiaeth rhag gwenwyn.

G. Pa ham y mae yn afiachus i ddisgwyl yn hir am y naill ddysglaid ar ol y llall, a bwyta o amryw fathau o fwydydd?—A. O herwydd fod y cyntaf yn dechreu cael ei dreulio pan y mae yr olaf yn cael ei fwyta, ac felly nid yw y treuliad yn cael ei wneuthur yn gyfartal. Ond y mae y rheol hon i sylwi arni, sef y dylai dysglcidiau hawdd eu treulio, megis cywion mŷn, *fêl*, wyau meddalion, a'r cyffelyb, gael eu bwyta yn gyntaf; ond dylai bwydydd bras, megis hydd-gig, *bacon*, *bîf*, *porc* rhostiedig, wyau caledion a ffriedig, gael eu bwyta yn olaf: o herwydd, pe gweinyddid a phe bwyteid hwy yn gyntaf, ac iddynt gael eu treulio, hwy a rwystrent dreuliad pethau eraill; a'r bwydydd ysgeifn heb eu treulio, a lygrent yn y cylla, a chedwid hwy yno trwy drais, oddiwrth yr hyn y dilynai y bol-wst, bytheiriad, alariad, cur pen, a syched mawr. Y mae yn dra niweidiol

hefyd, ar yr un pryd bwyd, i yfed llaeth a gwin, o herwydd eu bod yn dwyn allan y gwahanglwyf.

G. Pa un ai bwyd ai diod sydd oreu i'r cylla? —A. Treulir diod yn gynt na bwyd, o herwydd fod bwyd o fwy sylwedd, ac yn fwy corphorol na diod, a chan hyny, bwyd yw yr anhawsaf ei dreulio.

G. Pa ham y mae yn dda yfed ar ol ciniaw?—A. O herwydd y gwna diod y bwyd yn barotach i dreulio. Mae y cylla yn gyffelyb i lestr a fyddo'n berwi bwyd, a chan hyny y mae meddygon yn cynghori yfed ar brydiau bwyd.

G. Pa ham y mae yn dda ymattal rhag swper hwyr?—A. O herwydd nad oes ond ychydig o symud neu gynwrf ar ol swper, ac felly nid yw y bwyd yn cael ei anfon i lawr i waelod y cylla, ond y mae yn aros heb ei dreulio, ac felly yn magu niweidiau; gan hyny swper ysgafn yw y goreu.

### *Am y Gwaed.*

G. Pa ham y mae yn angenrheidiol fod gan bob creadur byw sydd a gwaed ynddo, afu hefyd?—A. O herwydd fod y gwaed yn gyntaf yn cael ei wneuthur yn yr afu, ei anneddle, gan gael ei dynu o'r cylla trwy ryw brif wythienau, ac felly ei genhedlu.

G. Pa ham y mae y gwaed yn goch?—A. 1. Y mae fel y rhan yn yr hon y gwneir ef, sef yr afu, yr hwn sydd goch. 2. Y mae yr un modd yn felus, o herwydd ei fod wedi ei dreulio yn dda; ond os bydd ychydig o sylwedd daearol yn gynnwysedig âg ef, mae hyny yn ei wneuthur yn lled hallt.

G. Pa fodd y mae gwaed benywod yn deneuach nag eiddo dynion?—A. Mae eu hoerder yn tewychu, yn rhwymo, yn cyd-geulo, ac yn uno ynghyd.

G. Pa fodd y mae y gwaed yn dyfod i bob rhan o'r corph trwy yr afu, a thrwy ba foddion? —A. Trwy y prif wythienau, megis gwythienau y pen, yr afu, &c. i faethu yr holl gorph.

### *Am y Pision.*

G. Pa fodd y mae y pision yn dyfod i'r bledren, gan fod y bledren yn gauad?—A. Rhai a ddywedant mai trwy chwysiadau; eraill mai trwy groenyn bychan yn y bledren, yr hwn sydd yn agor ac yn gollwng y pision i mewn. Mae pision yn genad ddilys ac nid twyllodrus o iechyd dyn. Mae dynion yn gwneuthur pision gwyn yn y boreu, a chyn ciniaw coch, ond ar ol ciniaw gwelw, a'r un modd ar ol swpper.

G. Paham y mae yn niweidiol yfed llawer o ddwfr oer?—A. O herwydd fod un gwrthwynebydd yn attal ac yn bwrw allan arall; y mae dwfr yn dra oer, ac mae ei fod yn gorwedd felly yn y cylla yn attal treuliad.

G. Pa ham mai peth afiachus yw yfed gwin newydd?—A. 1. Ni ellir ei dreulio; gan hyny y mae yn peri i'r bol chwyddo, a math o ddylifiad gwaed. 2. Y mae yn attaliad i wneud dwr.

G. Paham y mae meddygon yn gwahardd i ni lafurio yn ddioed ar ol ciniaw?—A. 1. O herwydd fod ysgogiad yn attal rhinwedd a gallu treuliad. 2. O herwydd fod cyffroad yn ddioed ar ol ciniaw, yn achos i wahanol ranau y corph dynu y bwyd yn anaeddfed iddynt, yr hyn sydd

yn fynych yn magu afiechyd. 3. O herwydd fod ysgogiad yn gwneuthur i luniaeth ddisgyn cyn iddo gael ei dreulio. Ond ar ol swpper, da yw cerdded ychydig, fel y byddo i'r luniaeth fyned i waelod y cylla.

G. Pa ham y mae yn dda cerdded cyn ciniaw?—A. O herwydd ei fod yn gwneuthur dyn yn dymherus, ac yn cadarnhau a chryfhau y gwres naturiol, gan beri i'r gormodedd yn y cylla ddisgyn.

G. Pa ham y mae cyfogi yn iachus?—A. Y mae yn carthu y cylla oddiwrth bob gwlybyrau drygiog, gan eu bwrw allan, yr hyn a fagent dwymynau pe yr arhosent yno; ac y mae yn carthu y llygaid a'r pen, gan glirio yr ymenydd.

G. Pa fodd y mae cysgu yn cryfhau y cylla a chyneddf y treuliad?—A. O herwydd mewn cwsg fod y gwres yn tynu i mewn, ac yn helpio treuliad; ond pan ddeffrown y mae y gwres yn dychwelyd, a gwasgerir ef trwy y corph.

## *Am y Bustl a'r Ddueg.*

G. Pa fodd y mae gan greaduriaid byw fustl?—A. O herwydd y derbynir gwlybyrau geriog iddi, y rhai trwy eu surni ydynt yn helpio i'r coluddion fwrw allan orddigonedd, hefyd y mae yn cynnorthwyo treuliad.

G. Pa fodd y mae y cryd melyn yn deillio o'r bustl?—A. Y mae gwlybur y bustl yn lasawg a melyn, gan hyny pan gauir ei chwys-dyllau, ni all y gwlybyrau fyned i'w ffetan (*sack*), ond cymysgir hwy â'r gwaed, gan wibio trwy yr holl gorph, a gwenwyno y croen.

G. Pa fodd y mae y ddüeg yn ddu?—A.

Achlysurir ef gan sylwedd daearol priddlyd o liw du. Yn ol y meddygon, y ddüeg yw cronfa y prudd-glwyf, a du yw hóno.

G. Pa ham y mae yr hwn sydd ganddo ddüeg fawr yn deneu!—A. O herwydd fod y ddüeg yn tynu llawer o ddwfr iddi ei hun, yr hwn a dröai i dewder; gan hyny, y mae dynion ag sydd ganddynt ddüeg fechan yn dewion.

G. Pa ham y mae y ddüeg yn peri i ddynion chwerthin, fel y dywed *Issafodarus*: "Yr ydym yn chwerthin gyda'r ddüeg, yr ydym yn ddig gydâ'r bustl, yr ydym yn ddoeth gydâ'r galon, yr y'm yn caru â'r afu, yr ydym yn teimlo â'r ymenydd, ac yn siarad â'r ysgyfaint?—A. Yr achos yw, fod y ddüeg yn tynu llawer o brudd-naws iddi, gan mai yno mae ei anneddle priodol pa brudd-naws sydd yn deillio o dristwch, a threulir ef yno; ac fel y bo'r achos yn pallu, y y mae yr effaith yn gwneuthur felly yr un modd. Ac am yr un rheswm y mae y bustl yn peri digter; o herwydd y mae dynion geriog yn fynych yn ddig, am fod ganddynt lawer o fustl.

## *Am Ymrëad Cnawdol.*

G. Pa ham y mae creaduriaid byw yn arfer ymgydiad cnawdol?—A. O herwydd mai hyny sydd fwyaf naturiol ynddynt i gaffael eu cyffelyb.

G. Pa beth yw ymrëad cnawdol? — A. Gweithred o eiddo gwrryw a benyw o'r ddwy ochr yw, gydag offerynau a bennodwyd i'r dyben hwnw, er cenhedlu eu rhyw.

G. Pa ham y mae y weithred hon yn dda yn y rhai sydd yn ei harfer yn gyfreithlon a chymedrol?—A. O herwydd eu bod yn es-

mwythau ac yn ysgafnhau y corph, yn gloywi y meddwl, yn cysuro y pen a'r synhwyrau, ac yn bwrw allan brudd-naws.

G. Pa ham y mae ymrëad cnawdol anghymedrol yn niwcidiol?—A. O herwydd ei fod yn distrywio y golwg, yn sychu y corph, ac yn niweidio yr ymenydd; yn fynych yn achos o glefydau, ac yn byrhau bywyd hefyd.

G. Pa ham y mae ymread cnawdol yn niweidio dynion prudd-glwyfus neu geriog, yn enwedig dynion teneuon?—A. O herwydd ei fod yn sychu yr esgyrn yn fawr, y rhai ydynt yn naturiol felly. I'r gwrthwyneb y mae yn dda i'r llysnafeddawg a'r gwaedawg, neu wresog, o herwydd fod y sylwedd hwn yn helaethlawn ynddynt pa un a fwrir allan gan natur o angenrheidrwydd.

G. Pa ham na ddylid arfer y weithred pan fyddo'r corph yn llawn?—A. O herwydd ei fod yn attal treuliad; ac nid yw yn dda i fol newynog o herwydd ei fod yn gwanhau.

G. Pa ham nad yw yn dda yn fuan ar ol ymdrochfa?—A. O herwydd fod y chwys-dyllau y pryd hyny yn agored, a'r gwres wedi cael ei wasgaru trwy'r corph; o herwydd ar ol ymdrochi y mae yn oeri y corph yn ormodol.

G. Pa ham nad yw yn briodol ar ol cyfogi neu y dolur rhydd?—A. O herwydd ei bod yn beryglus carthu ddwy waith yn y dydd; canys yn y weithred hon carthir yr arrenau, a charthir y coluddion trwy y cyfogiad.

G. Pa ham y mae y fath hyfrydwch a phleser yn y weithred o gyd-gnawd?—A. O herwydd fod y weithred hon yn beth dirmygus ynddi ei hun, fel y gwnelai pob creadur yn naturiol ei

ffieiddio, pe na buasai pleser ynddi; a chan hyny y mae natur yn ei arfer gyda pharodrwydd, fel y byddai i bob rhywogaeth o bethau byw gael eu cynnal a'u cadw i fynu.

G. Pa ham y mae y rhai hyny ag ydynt yn ei harfer yn fynych yn cymeryd llai o bleser ynddi na'r rhai hyny ag nad ânt iddi ond anfynych?—A. 1. Mae mynedfeydd yr hâd yn dra mawr a llydain; a chan hyny nid yw yn aros dim yno, yr hyn a achlysurai y pleser. 2. Trwy waghâd mynych nid oes ond ychydig hâd wedi ei adael, a chan hyny dim pleser. 3. O herwydd fod y cyfrai, yn lle hâd, yn bwrw allan waed heb ei dreulio ac aeddfedu, neu ryw sylwedd dyfrllyd arall, yr hwn nad yw yn frwd, a chan hyny nid yw yn rhoddi dim pleser.

## *Am Hâd Dyn neu Anifeiliaid.*

G. Pa fodd, ac o ba beth, y mae hâd dyn yn dyfod?—Rhai philosophyddion a meddygon a ddywedant, mai gwlybur dros ben digon yw; eraill a ddywedant, mai gwaed pur yw yr hâd, yn dylifo o'r ymenydd, gan gael ei dreulio a'i wynu yn yr eirin neu y ceilliau; ond y mae chwys, pision, poer, llysnafedd, geri, a'r cyffelyb, a'r gwaed a wasgerir trwy yr holl gorph, yn benaf o'r galon, yr afu a'r ymenydd, o herwydd fod y rhanau hyny yn cael eu mawr wanhau trwy fwrw allan hâd: gan hyny, ymddengys nad yw ymread cnawdol mynych yn dda.

G. Pa ham y mae hâd mab yn wỳn ac eiddo merch yn goch?—A. Y mae yn wyn mewn meibion o achos y gwres mawr a'r treuliad buan, o herwydd ei fod yn cael ei deneuhau yn yr

eirin; ond y mae eiddo benyw yn goch, o herwydd fod y mis-lifiadau yn llygru y gwaed annhreulicdig, ac y mae ei liw arno.

G. Pa fodd y mae y dylifiadau misol ar fenywod?—A. O herwydd eu bod yn oer mewn golygiad ar ddynion, ac o herwydd na ellir troi eu holl faeth i waed, rhan fawr o ba un sydd yn troi yn ddylifiadau, pa rai a fwrir allan yn fisol.

G. Pa beth yw yr achos nad yw y mis-lifiadau yn dyfod i lawr mewn benywod cyn y drydedd-flwydd-ar-ddeg o'u hoedran?—A. O herwydd fod merched ieuaingc yn frwd, ac yn treulio eu holl faeth.

G. Pa beth yw yr achos eu bod yn ymadael â hwy oddeutu deg a deugain?—A. O herwydd fod natur y pryd hyny mor ddihyspyddedig fel na all eu bwrw allan o achos gwendid.

G. Pa ham nad yw y mis-lifiadau ar fenywod yn planta?—A. O herwydd eu bod y pryd hyny yn troi yn llaeth, ac er maeth i'r plentyn; o herwydd os byddant ar fenyw feichiog, y mae yn arwydd y bydd iddi erthylu.

G. Pa ham y gelwir hwy *menstrua*, oddiwrth y gair *mensis*, sef misol?—A. O herwydd mai yspaid o amser yw ag sydd yn mesur y lleuad, gan ei bod hi yn diweddu ei gyrfa mewn 29 diwrnod a 14 awr.

G. Pa ham y maent yn parhau yn hwy ar rai nag eraill, megis ar rai chwech neu saith niwrnod, ond yn gyffredin ar bawb dri?—A. Mae y rhai cyntaf yn oer, gan hyny hwy sydd yn ychwanegu mwyaf ynddynt, ac o ganlyniad hwy sydd hwyaf yn bwrw allan: merched eraill ydynt yn fwy brwd, a chan hyny y mae ganddynt lai, a bwrir hwy allan yn gynt.

G. Ai'r un yw y dylifiadau a fwrir allan, a'r rhai hyny y cenhedlir y plentyn o honynt?—A. Nage, o herwydd fod y naill yn aflan, ac yn anghymwys i'r dyben hwnw; ond y llall yn dra phur a glân, a chan hyny y cymhwysaf er cenhedlu.

G. Pa ham nad yw mis-lifiadau benywod arnynt yr un amser, ond rhai yn y lleuad newydd, rhai yn y llawn, a'r lleill yn ei lleihad?—A. Oddiwrth eu gwahanol ardymherau; ac er fod pob benyw (mewn golygiad ar ddynion) yn llysnafeddawg, etto mae rhai yn fwy gwresog nag eraill, a rhai yn fwy geriawg: a chan fod gan y lleuad ei gwersyllfeydd, felly mae gan fenywod eu hardymherau; y cyntaf yn waedog neu wresog, yr ail yn eriog.

G. Pa ham y mae benywod yn beichiogi yn rhwydd ar ol eu mis-lifiadau?—A. O herwydd gan fod y groth wedi ei glanhau, y maent wedi eu paratoi yn well er beichiogiad.

G. Pa ham y mae benywod yn edrych yn welw pan fyddo eu mis-lifiant arnynt?—A. O herwydd fod y gwres y pryd hyny yn myned o ranau allanol y corph i'r rhai tufewnol, i gynnorthwyo natur, ac i fwrw allan eu mis-lifiadau, yr hwn ymddifadiad o wres sydd yn achos o welwedd yn y wyneb. Neu, o herwydd fod dylifiad yn cael ei achlysuro oddi wrth wlybyrau anaeddfed, pa rai, pan y maent yn rhedeg, ydynt yn gwneuthur y wyneb yn ddi-liw.

G. Pa ham y maent yn casau eu bwyd y pryd hyny?—A O herwydd fod natur yn llafurio mwy i fwrw allan eu mis-lifiant nac i dreulio bwyd, a chan hyny, pe y bwytaent, arhosai eu lluniaeth yn annhraeledig yn eu cylla.

G. Pa ham y mae rhai benywod yn anffrwythlon, ac nad ydynt yn beichiogi?—A. 1. Mae yn deillio weithiau oddiwrth y dyn, yr hwn a all fod o natur oer, ac felly a'i hâd yn anghymwys er cenhedliad. 2. O herwydd ei fod yn ddyfrllyd, ac felly heb aros yn y groth. 3. O herwydd nad oes cyfartalwch cyffelyb yn hâd y ddau, megis os bydd y mab yn brudd-naws a'r fenyw yn waedog, neu y mab yn eriog a'r ferch yn llysnafeddawg.

G. Pa ham nad yw benywod tewion ond yn anfynych yn beichiogi?—A. O herwydd mai croth lithrig sydd ganddynt, ac ni wna yr hâd aros i mewn. Neu, o herwydd fod safn y bru yn dra chyfyng, ac na all yr hâd fyned i mewn, neu, os gwna, y mae mor araf fel y mae yn myned yn oer ac yn anghymwys er cenhedliad.

G. Pa ham nad yw y rhai hyny o ardymerau neu ansawdd corph brwd ond yn anfynych yn beichiogi?—A. O herwydd fod yr hâd ynddynt yn cael ei ddiffodd, neu ei roddi allan, megis dwfr a roddir yn y tân; oddi wrth yr hyn yr ydym yn cael allan, nad yw benywod ag ydynt yn awchus chwennychu y cnawd ond yn anfynych yn beichiogi.

G. Pa ham nad yw puteiniaid un amser yn beichiogi?—A. O achos amrywiol hâdau, y rhai ydynt yn llygru ac yn andwyo offerynau beichiogiad, canys y mae yn eu gwneuthur mor lithrig, fel na allant ddal hâd. Neu ynte, o herwydd fod hâd y naill ddyn yn distrywio y llall, fel nad yw yr un o honynt yn dda er cenhedliad.

G. Pa ham y bydd benywod yn beichiogi ar efeilliaid?—O herwydd fod yno saith gell neu

groufeydd yn y groth; oddiwrth yr hyn y gallant yn naturiol gael cymaint o blant ar unwaith ag a syrth o'r hâd i'r celloedd hyny.

G. Pa ham nad yw gefeilliaid ond haner dynion, ac heb fod gan gryfed ag eraill? A. Mae yr hâd yr hwn a ddylai fod i un yn cael ei wahanu i ddau, a chan hyny y maent yn wciniaid, ac anfynych y macut yn byw yn hir.

*Am Ddeurywiolion* (Hermaphrodites.)

G. Pa fodd y cenhedlir deurywiolion?—A. Mae natur bob amser yn tueddu i'r hyn sydd oreu, a phob amser yn bwriadu cenhedlu gwrryw ac nid benyw, o herwydd nad yw y fenyw ond er cydmar i'r gwrryw: gan hyny, cenhedlir y gwrryw weithiau yn ei holl brif ranau; ac etto trwy ddrwg dueddiad y groth a'r gwrthrych, ac anghyfartalwch yr hádau, pan na allo natur berffeithio gwrryw, y mae yn esgor ar y fenyw hefyd. A chan hyny, dywed athronwyr naturiol, fod un deurywiol yn anallnog neu ddirym yn rhanau dirgel dyn, fel yr ymddengys trwy brofiad.

G. A gyfrifir un deurywiol yn ddyn ynte dynes?—A. Y mae i'w ystyried ymha ryw y mae gymhwysaf i ymrëad; os yn eiddo y fenyw y bydd gymhwysaf, yna benyw yw; os yn eiddo y mab, yna mab yw.

G, A ddylid ei fedyddio yn enw mab ai ynte yn enw merch?—A. Yn enw mab, o herwydd mae enwau yn cael eu rhoddi *ad placitum*, a chan hyny dylid ei fedyddio yn ol yr enw teilyngaf, o herwydd fod pob gwneuthurwr yn deilyngach na'i oddefydd.

## *Am Anghenfilod.*

G. A yw natur yn gwneuthur unrhyw anghenfilod?—A. Ydyw: Pe na byddai, yna ymddifadid hi o'i dyben. Canys o bethau posibl, y mae hi bob amser yn amcanu dwyn allan yr hyn sydd fwyaf perffaith a goreu; ond yn y diwedd, trwy ddrwg dymer y sylwedd, heb fod yn allnog i ddwyn allan yr hyn a fwriadai, y mae yn ymddwyn ar yr hyn a all. Fel y digwyddodd yn amser *Albertus*, pan mewn rhyw bentref, yr ymddygodd buwch lo, a'i haner yn ddyn; pan y mynai pobl y wlad, gan ddrwg dybio y bugail, ei losgi ynghyd a'r fuwch; ond *Albertus*, gan ei fod yn fedrus mewn Astronomyddiaeth, a ddywedodd, ddarfod i hyn ddeillio oddiwrth ser-gynnull (*constellation*) pennodol, ac felly rhyddhaodd y bugail o'u dwylaw.

G. Ai un ynte dau ydynt?—A. I gael hyn allan, rhaid i chwi edrych i'r galon; ac os bydd yno ddwy galon, bydd dau ddyn.

## *Am Fabanod.*

G. Pa ham y mae rhai plant yn debyg i'w tad, rhai yn debyg i'w mam, rhai i'r naill a'r llall, a rhai heb fod i'r un o honynt?—A. Os bydd i hâd y tâd hollol orchfygu hâd y fam, mae y plentyn yn debyg i'r tâd; ond os eiddo y fam fydd yn meistroli, yna mae'n debyg i'r fam; ond oni bydd yn debyg i'r un o'r ddau, digwydd hyny weithiau trwy y pedair cynneddf, weithiau trwy ddylanwad rhyw ser-gynnull nefawl.

G. Pa ham y mae plant yn fynychach yn debyg i'r tad nag i'r fam?—A. Y mae yn deillio

oddi wrth ddychymyg y fam yn y weithred o ymrëad, fel yr ymddangosodd mewn brenhines, yr hon oedd a'i dychymig ar ddyn du; ac mewn brenhines Ethiopaidd (sef un ddu) yr hon a ymddug blentyn gwyn, o herwydd fod ei hamgyffred ar liw gwyn; megis ag y gwelir yn medr Jacob yn bwrw gwiail o amryw liwiau yn y dwfr pan aeth ei ddefaid i hyrddio.

G. Pa ham y mae plant a enir yn yr wythfed mis, am y rhan amlaf yn marw yn fuan; a pha ham y gelwir hwy plant y lleuad?—A. O herwydd mai planed oer yw y lleuad, yr hon sydd a llywodraeth tros y plentyn, a chan hyny y mae yn ei rwymo â'i hoerder, yr hyn yw achos ei farwolaeth.

G. Pa ham y mae plentyn yn crïo cyn gynted ag y genir ef?—A. O herwydd y newidiad disymwth o wres i oerni; yr hwn oerni sydd yn effeithio ar ei dynerwch. Achos arall yw, o herwydd fod corff meddal a thyner y plentyn yn cael ei wasgu a'i roddi ynghyd wrth ddyfod allan o fynedfa rydd a chaeth y bru, ac yn enwedig fod yr ymenydd yn llaith, a'r pen yn cael ei wasgu a'i gyrchu ynghyd, yw yr achos fod rhyw wlybyrau yn distillio trwy y llygaid, yr hyn sydd yn peri dagrau ac wylo.

G. Pa ham y mae plentyn yn rhoddi ei fys yn ei safn cyn gynted ag y del i'r byd?—A. O herwydd ei fod trwy ddyfod o'r groth, yn dyfod o fâdd brŵd, ac yn dyfod i'r oerni, mae yn rhoddi ei fysedd yn ei safn o eisiau gwres.

### *Am y Plentyn yn y Groth.*

G. Pa fodd y cenhedlir plentyn yn y groth

A. Am y chwe diwrnod cyntaf y mae lliw llaeth ar yr hâd; ond yn y chwe diwrnod dilynol lliw coch, yr hwn sydd agos yn ardymer cnawd; ac yna newidir ef i sylwedd tew o waed. Ond yn y deuddeg diwrnod canlynol, y mae y sylwedd hwn yn dyfod mor dew a chyfan, fel y mae yn alluog i dderbyn ffurf a dull.

G. A yw y plentyn yn y groth yn arllwys carthion neu ddwfr?—A. Nac ydyw; o herwydd na bydd y treuliad cyntaf arno, yr hwn sydd yn y cylla. Nid yw yn derbyn dim lluniaeth trwy y safn, ond trwy y bogail: gan hyny, nid yw yn piso, ond yn chwysu, yr hyn nid yw ond ychydig, a'r hwn a dderbynir mewn croen yn y bru, pa un yn yr esgoriad a fwrir allan.

*Am Erthyliad a Genedigaeth anamserol.*

G. Pa ham y mae benywod ag ydynt yn bwytta bwydydd afiachus yn erthylu yn hawdd?—A. O herwydd eu bod yn magu hâd pwdr, yr hwn y mae y meddwl, gan ei gasau, yn ei fwrw allan o'r groth, fel yn anghymwys i'r ffurf mwyaf ardderchog, yr hwn a addasir i dderbyn yr enaid.

G. Pa ham y mae ymdrech neu neidio yn achos o fwriad ymaith y plentyn, megis ag y gwna rhai benywod ystrywgar yn bwrpasol?—A. Mae yr ager yn llosgi, ac yn hawdd yn niweidio sylwedd tyner y plentyn, gan fyned i mewn drwy chwys-dyllau y bru.

G. Pa ham y mae mawr lawenydd yn achos i fenyw erthylu?—A. O herwydd yn amser llawenydd y mae benyw yn ymddifad o wres, ac felly y mae erthyliad yn dilyn.

G. Pa ham y mae benywod yn erthylu yn hawdd pan y maent gyntaf yn feichiog, sef yn y mis cyntaf, yr ail, neu y trydydd?—A. Megis ag y mae afalau a gellyg yn cwympo yn hawdd ar y cyntaf, o herwydd fod y cylymau yn wan, felly y mae gyda phlentyn yn y groth.

G. Pa ham y mae yn anhawdd erthylu yn y trydydd, y pedwerydd, y pumed neu y chweched mis?—A. O herwydd fod y rhwymynau y pryd hyny yn gedyrn ac wedi eu hamgaeru yn dda.

### *Am amrywiol Faterion.*

G. Pa ham nad oes i ddyn gynffon fel anifail? —A. O herwydd mai creadur ardderchog yw dyn, anian-duedd pa un yw eistedd; yr hyn ni all anifail a chanddo gynffon.

G. Pa ham y mae dwfr poeth yn rhewi yn gynt na dwfr oer?—A. O herwydd fod dwfr poeth yn deneuach, ac yn rhoddi gwell mynediad i mewn i'r rhew.

G. Pa ham y mae pob peth byw yn farwaidd ar ol ymrëad?—A. O achos fod y weithred yn ffiaidd ac aflan; ac felly y mae pob creadnr byw yn ei ffieiddio. Pan fyddo dynion yn meddwl neu fyfyrio am dani y maent yn cywilyddio ac yn athrist.

G. Paham na all meddwon farnu am flas yn gystal a dynion sobr?—A. O herwydd fod y tafod, gan ei fod yn llawn o dyllau, yn derbyn lleithder mawr iddo, a mwy mewn meddwon na dynion sobr; gan hyny, y mae y tafod, trwy fynych yfed, yn llawn o wlybyrau drwg, ac felly y mae y gynneddf o archwaethu yn cael ei

dwyn i annhrefn: hefyd, trwy dewhau yr archwaeth ei hun, ni theimlir y ddiod a gymerir gan feddwyn yn ddioed. Ac wrth hyn y gellir deall hefyd pa ham nad yw meddwyn yn berffaith yn ei leferydd.

G. Pa ham y mae gan anifeiliaid prudd-glwyfus glustiau hirion?—A. Mae y clustiau yn deillio o sylwedd oer a sych, a elwir madruddyn, yr hwn sydd dueddol i ddyfod yn asgwrn; ac o herwydd fod y math hwn o sylwedd yn helaethlawn mewn anifeiliaid prudd-glwyfus, y mae ganddynt glustiau hirion.

G. Pa ham y bydd ysgyfarnogod yn cysgu a'u llygaid yn agored?—A. 1. Y mae ganddynt eu llygaid yn sefyll allan, a'u hamrantau yn fyrion, gan hyny nid y'nt byth yn hollol gau. 2. Y maent yn ofnus, ac fel amddiffynfa iddynt eu hunain, cysgant a'u llygaid yn agored.

G. Pa ham nad yw brain yn porthi eu rhai ieuaingc hyd onid ydynt yn naw niwrnod oed? —A. O herwydd, gan eu bod yn eu gweled o liw arall, tybiantlen bod o rywogaeth arall.

G. Pa ham y mae defaid a cholomenod yn llariaidd?—A. Y maent mewn diffyg o fustl, yr achos o ddigter.

G Pa ham y mae gan adar eu harrenau yn dufewnol?—A. O herwydd pe buasent yn allanol rhwystrasent eu ehediad a'u hysgafnder.

G. Pa fodd y mae nad yw adar yn piso?—A. O herwydd fod y gorddigonedd hwnw a droisid yn bision, yn cael ei droi yn blyf.

G. Pa ham yrydym yn clywed yn well y nos na'r dydd?—A. O herwydd fod mwy o ddistawrwydd y nos na'r dydd, o herwydd nid yw yr haul yn mygdarthu yr ageriadau y nos, ond y

mae y dydd: gan hyny, y mae'r amcan (*mean*) yn gymhwysach nag yn y dydd; a'r amcan yn gymhwys, y mae yr ysgogiad yn cael ei dderbyn yn well, yr hwn a ddywedir ei fod yn cael ei achlysnro gan sŵn.

G. Am ba achos y mae dyn yn chwerthin yn gynt pan gyffyrddir ag ef o dan y ceseiliau nag mewn rhanau eraill o'r corph?—A. O herwydd fod yn y fan hono gyd-gyfarfod llawer o gïeuynau, ac y mae y cyfrwng ag ydym ni yn ei gyffwrdd, yr hwn yw y cnawd, yn deneuach nag mewn rhanau eraill, a chan hyny o deimlad manylach. Pan gyffyrddir â dyn yn gymedrol ac araf yno, y mae yr ysbrydoedd ag ydynt wedi eu gwasgaru yn rhedeg i'r wyneb, ac yn peri chwerthin.

G. Pa ham y mae rhai benywod yn caru dynion gwynion, ac eraill rai duon?—A. 1. Y mae gan rhai benywod olwg gwan, ac y mae'r cyfryw yn ymbleseru mewn du, o herwydd fod gwyn yn niweidio y golwg yn fwy na du. 2. O herwydd fod y cyffelyb yn ymbleseru yn y cyffelyb; ond y mae rhai benywod o natur frwd, ac y mae y cyfryw yn ymbleseru mewn du, o herwydd fod düwch yn dilyn gwres; ac eraill ydynt o natur oer, ac y mae y rhai hyn yn ymbleseru mewn gwyn, o herwydd fod oerni yn dwyn allan wyn.

G. Pa ham y mae dynion yn dueddol i gysgu ar ol llafur?—A. O herwydd fod y gwres, trwy symudiad parhaus, wedi ei wasgaru i ranau allanol y corph, yr hwn ar ol llafur, a gesglir ynghyd i'r rhanau tufewnol, i dreulio yno; ac o dreuliad y mae ageriadau yn cyfodi o'r galon i'r ymenydd, yr hyn sydd yn cau y mynedfeydd

trwy ba rai y dylai y gwres naturiol gael ei wasgaru i'r rhan allanol; ac yna, gan fod y rhanau allanol yn oer a thew, o achos oerder yr ymenydd, ceffir cysgu yn hawdd. Trwy hyn y mae yn ymddangos, fod y cyfryw ag ydynt yn bwyta ac yn yfed gormod yn cysgu llawer ac yn hir, o herwydd fod ystôr mawr o wlybyrau ac ageriadau wedi eu magu yn y fath bersonau, y rhai na ellir eu treulio a'u difa gan y gwres naturiol.

G. Pa ham y mae y rhai ag ydynt yn cysgu llawer o ddrwg-gyflead ac yn ddryg-liw?—A. O herwydd mewn gormod o gysgu fod y lleithder yn cael ei gasglu ynghyd, yr hwn na cllir ei dreulio, ac felly y mae yn chwennych myned allan trwy ran ansylweddol y corph, ac yn enwedig y mae'n cydymgasglu i'r wyneb, a chan hyny y mae yn achos o ddryg-liw, fel yr ymddengys yn y cyfryw ag ydynt lysnafeddawg, a pha rai ydynt yn chwennych mwy o gysgu nag eraill.

G. Pa ham y mae rhai yn dychymygu yn eu cwsg eu bod yn bwyta ac yn yfed pethau melusion?—A. O herwydd fod y llysnafedd a dynir i fynu gan yr esgyrn gên yn disdillio ac yn dyferu i'r corn gwddf; ac y mae y llysnafedd hwn yn felus ar ol chwys tost, a chan hyny y mae hwnw yn ymddangos felly iddynt hwy.

G. Pa ham y mae rhai yn breuddwydio yn eu cwsg eu bod mewn dwfr ac wedi boddi, a rhai eu bod mewn dwfr ac heb foddi; yn enwedig y cyfryw ag ydynt lysnafeddawg?—A. O herwydd pan fyddo y sylwedd llysnafeddawg yn troi i ranau uchel y corph, yna y maent yn tybied eu bod yn y dwfr ac wedi boddi; ond

pan fyddo y sylwedd hwnw yn tynu i'r rhanau tufewnol, yna tybiant eu bod yn diangc. Achos arall a all fod, yw gormodedd o orllawnedd a meddwdod; a chan hyny, pan fyddo dynion wedi eu llenwi yn ormodol â bwyd, mae y mygdarthiadau a'r agerddiadau yn esgyn ac yn ymgasglu ynghyd, ac y maent yn tybied eu bod wedi eu boddi a'u tagu; ond ni allant esgyn cyn uched, yna ymddangosant o fod yn cael diangc.

G. A all dyn gaffael breuddwyd trwy achos allanol?—A. Gellir ei wneuthur. Os bydd i ddyn siarad yn araf wrth glust arall, a pheidio a'i ddeffro, yna oddiwrth y cyffroad hwnw ar yr ysbrydoedd, y mae yno daranau a sisial yn y pen, y rhai ydynt yn peri breuddwydio.

G. Pa faint o wlybyrau sydd mewn corph dyn?—A. Pedwar; o ba rai y mae gan bob un ei le priodol. Y cyntaf yw geri, a elwir gan feddygon *stava bilis*, yr hwn sydd wedi ei osod yn yr afu. Yr ail sydd brudd-naws, a elwir *atra bilis*, aneddle pa un sydd yn y ddüeg. Y trydydd sydd lysnafedd, lle pa un sydd yn y pen. Y pedwerydd sydd waed, lle pa un sydd yn y galon.

G. Pa gyflwr a chynneddf sydd i ddyn o ardymer gwresog?—A. Y mae yn dêg a phrydferth; a chanddo ei wallt am y rhan amlaf yn llyfn; y mae yn ëofn: yn dal yr hyn a ddaeth i'w amgyffred; yn lednaws; yn hoff o beroriaeth, yn garwr y celfyddydau, yn haelionus, yn garuaidd, ac heb fod yn chwannog i ymddial.

G. Pa gyneddfau sydd yn dilyn y rhai hyny o ardymer llysnafeddawg?—A. Nid y'nt yn ffraeth; nid yw eu gwallt un amser yn crychu,

anfynych y maent yn dra sychedig, yn dra thueddol i gysgu, yn breuddwydio am bethau yn perthyn i'r dwfr, yn ofnus, yn gybyddlyd, yn ymroddawl i gasglu cyfoeth, ac yn wan yn y weithred o ymrëad.

G. Pa beth yw cynneddfau dyn gerïog?—A. Y mae yn digio yn fuan, yn ffyrnig a chynhenus, yn chwanog i ryfel, o liw gwelw, ac yn aflonydd, yn yfed llawer, yn cysgu ychydig, ac yn chwennych cyfeillach benywod yn fawr.

G. Pa beth yw cynneddfau dyn prudd-glwyfus?—A. Gwineu ei wedd yw, mae'n aflonydd, mae ei wythienau yn guddiedig, yn bwyta ychydig, ac yn treulio llai, mae yn breuddwydio am bethau tywyll a dyryslyd, mae'n athrist, yn ofnus, yn dra chybyddlyd, ac yn anniwair.

G. Pa freuddwydion ydynt yn dilyn yr ardymherau hyn?—A. Breuddwydion hyfryd llawen sydd yn dilyn y gwresog; breuddwydion ofnus y prudd-glwyfus; breuddwydion y geriog am blant, ymladd, a thân; a'r breuddwyd llysnafeddawg am ddwfr. Hyn yw yr achos pa ham y dywedir yr adwaenir ardymer dyn trwy ei freuddwydion.

G. Pa beth yw yr achos, os bydd i chwi orchuddio ŵy â halen, a'i adael i orwedd yno am ychydig ddyddiau, y bydd yr holl fwyd oddi fewn wedi ei ddifa?—A. Mae mawr sychder yr halen yn difa sylwedd yr ŵy.

G. Pa ham mai yr ardymer brudd-glwyfus yw y waethaf?—A. O herwydd ei bod yn deillio o waddod o waed, yn elyn i lawenydd, ac y mae yn dwyn ymlaen ymddangosiad oedranus a marwolaeth, gan mai oer a sych yw.

G. Pa beth yw yr achos fod rhai dynion yn

meirw yn llawen, a rhai mewn dirfawr dristwch?—A. Y mae gormodedd o lawenydd yn gwresogi gormod ar y rhanau tufewnol; ac y mae gormodedd o dristwch yn boddi a mogi y galon, yr hon yn pallu, mae dyn yn marw.

G. Pa ham y mae gan ddyn gymaint o wallt ar ei ben?—A. Mae gwallt y pen yn deillio oddi wrth ageriadau ag ydynt yn cyfodi o'r cylla, ac yn esgyn i'r pen, ac hefyd o'r gorddigonedd sydd yn yr ymenydd; a'r ddau hyn, gan bassio trwy chwys-dyllau y pen, a droir yn wallt, o achos gwres a sychder y pen. Ac o herwydd fod corph dyn yn llawn o wlybyrau, a chanddo fwy o ymenydd nag unrhyw greadur arall, ac hefyd mwy o orddigonedd yn yr ymenyddiau, yr hyn y mae yr ymenydd yn ei fwrw allan: oddiyma y mae yn canlyn fod ganddo fwy o wallt nag unrhyw greadur byw arall.

G. Ymha sawl ffordd y carthir yr ymenydd; a lleoedd cuddiedig eraill o eiddo y corph?—A. Mewn pedair; y mae y gwlybyrau dyfrllyd a gwydus yn cael eu carthu trwy y llygaid, pruddnaws trwy y clustiau, geriog trwy y trwyn a llysnafeddog trwy y gwallt.

G Pa beth yw yr achos fod y rhai ag ydynt dra thewion yn eu hieuengctyd mewn perygl o farw yn ddisymwth?—A. Y mae i'r cyfryw wythienau tra bychain a *chlòs*, o achos eu tewder, fel na all yr awyr a'r anadl braidd gael hynt rydd ynddynt; ac ar hyny, y mae y gwres naturiol, gan ei fod yn ddiffygiol o adnewyddiad yr awyr, yn cael ei ddiffodd, a'i roddi allan.

G. Pa ham y mae garlleg a wynwyn yn tyfu ar ol eu casglu?—A. Y mae yn deillio oddi wrth y lleithder mawr ag sydd ynddynt.

G. Pa ham y mae meibion yn teimlo anwyd yn gynt na merched?—A. O herwydd fod dynion, gan eu bod yn boethach na benywod, a'u chwys-dyllau yn fwy agored, a chan hyny y mae yn myned i mewn iddynt yn gynt na benywod.

G. Pa ham nad ydyw hên bobl mor ddarostyngedig i'r pla a gwyr ieuangc a phlant?—A. Y maent hwy yn oerion, ac nid yw eu chwys-dyllau mor agored ag mewn ieuengctyd; a chan hyny nid yw yr awyr heintus yn treiddio iddynt cyn gynted o achos eu hoerder.

G. Pa ham yr ydym yn bwrw dwfr i wyneb dyn pan fyddo mewn llewyg?—A. O herwydd fel trwy oerni y dwfr y gallo y gwres redeg i'r galon, ac felly rhoddi nerth.

G. Pa ham mai y dyfroedd hyny ag a fyddont yn rhedeg tua chodiad haul y'nt y rhai goreu a mwaf tyner?—A. O herwydd y tarewir hwy yn gynt â phelydrau yr haul, a'u bod yn cael eu gwneuthur yn bur a thenau, gan iddynt fod yn hir o dan yr haul, a thrwy hyn ei fod wedi cymeryd ymaith yr oerni a'r ageriadau gwydus y rhai a gasglant o'r ddaear y rhedant trwyddi.

G. Pa ham y mae gan fenywod y fath leisiau gweiniaid a meinion?—A. O herwydd fod offerynau eu llefariad, o achos eu hoerder, yn fychain a chulion; a chan hyny, heb fod yn derbyn ond ychydig o awyr, ac y maent yn peri i'r llais fod yn fain ac anŵraidd.

G. O ba le y mae yn deillio fod diffyg o gwsg yn gwanhau yr ymenydd a'r corph?—A. Y mae llawer o golli cysgu yn cenhedlu geri, yr hwn gan ei fod yn boeth sydd yn sychu i fynu ac yn lleihau y gwlybyrau ag ydynt yn gwasanaethu

yr ymenydd, y pen, a rhanau eraill o'r corph.

G. Pa ham y mae finegr yn attal rhediad y gwaed mor barodol?—A. Oddi wrth ei rinwedd oerol; canys y mae pob oerni yn naturiol yn rhwymo, a chan fod finegr yn oer, y mae iddo y cyffelyb gynneddf.

G. Pa ham y mae dwfr y môr yn halltach yn yr hâf nag yn y gauaf?—A. Oddi wrth wres yr haul, gan y gwelwn trwy brofiad fod peth hallt wedi ei wresogi yn dyfod yn halltach.

G. Pa ham y mae dynion yn byw yn hwy mewn parthau poethion na rhai oerion?—A. O herwydd y gallant fod yn sychach, a thrwy hyny cedwir y gwres naturiol ynddynt yn well nag mewn gwledydd oerion.

G. Pa ham nad yw dwfr ffynon ond yn anfynych neu un amser yn dda?—A. Y mae pob dwfr ag sydd yn sefyll yn llonydd yn y tarddiad, ac heb erioed gael ei wresogi gan belydrau yr haul, yn dra thrwm, ac ynddo lawer o sylwedd daearyddol; a chan hyny, a diffyg gwres yr haul arno, y mae yn ddrwg.

G. Pa ham y mae dynion yn cysgu yn well ac yn esmwythach ar yr ochr dde' na'r aswy?—A. O herwydd fod yr ysgyfaint pan fyddont yn gorwedd ar yr ochr aswy, yn gorwedd ar, ac yn gorchuddio y galon, yr hon sydd ar yr ochr hon dan y fron; yn awr, ni all y galon, gwreiddyn bywyd, gan ei bod yn cael ei meddianu a'i hattal fel hyn gan yr ysgyfaint, ymarferyd ei gweithrediad priodol ei hun, gan ei bod yn cael ei gwresogi yn ormodol trwy orweddiad yr ysgyfaint arni; a chan hyny, gan ei bod mewn diffyg o orddefnyddiad awyr ag y mae yr ysgyfaint yn ei roddi iddi, mal chwythiad megin, y mae yn

cael ei mogi a'i thagu. Ond trwy orwedd ar yr ochr ddehau, y mae'r anghyfleusterau hyn yn cael eu gochelyd.

G. Pa beth yw yr achos fod hên bobl yn tisian gydag anhawstra mawr?—A. O herwydd fod eu rhydweliau, trwy eu hoerder, yn dra chulion a *chlòs*, a chan hyny nid yw y gwres o rym digonol i fwrw allan yr oerder.

G, Pa ham y mae dyn meddw yn tybied fod pob peth o'i ddeutu yn troi o gwmpas?—A. O herwydd fod yr ysbrydoedd ag ydynt yn gwasanaethu y golwg wedi eu cymysgu ag ageriadau a myg-darthiadau ag ydynt yn cyfodi oddi wrth y ddioed y mae wedi yfed; y mae y gormodedd o wres yn achos i'r llygaid fod mewn ysgogiad parhaus; a chan mai crwn yw y llygad y mae yn achos i bob peth o'i gwmpas ymddangos o fod yn troi.

G, O ba le y deillia fod bara, yr hwn a halen ynddo, yn ysgafnach na'r hwn a wneir hebddo, ac ystyried fod halen yn dra thrwm o hono ei hun?—A. Er fod bara yn drwm o hono ei hun, etto y mae halen yn ei sychu, ac yn ei wneuthur yn ysgafn, o achos y gwres ag sydd ynddo, a pho mwyaf o wres a fyddo ynddo goreu i gyd yw y bara, ac o gymaint a hyny yn ysgafnach ac iachach i'r corph

G. Pa ham nad yw bara newydd yn dda i'r cylla?—A. O herwydd ei fod yn llawn o leithder, ac ageriadau tewion a brwd, y rhai ydynt yn llygru y gwaed; ac y mae bará brwd yn dduach na bara oer, o herwydd gwres yw mam düwch, ac o herwydd nad yw yr ageriadau wedi myned allan o hono.

G. Pa ham y mae golaeth (*lettuce*) yn gwneu-

thur i ddyn gysgu?—A. O herwydd eu bod yn magu ageriadau gwydus.

G. Pa ham y mae gwaddodion gwin ac olew yn myned i'r gwaelod a'r rhai hyny o eiddo mėl yn nofio yn uchaf?—A. O herwydd mai daearol yw gwaddodion gwin ac olew, a chan hyny y maent yn myned i'r gwaelod; ond y mêl sydd wlybwr ag sydd yn dyfod o gylla a bol y wenynen, a gwneir ef yno mewn rhyw fodd yn bur a threiddiol; ar ba gyfrif y mae y gwaddodion yn fwyaf ysgafn a brwd, a chan hyny y maent yn myned yn uchaf,

G. Pa ham y mae llygaid cathod a bleiddiad yn llewyrchu yn y nos, ac heb wneuthur y dydd?—A. Y mae llygaid yr anifeiliaid hyn wrth natur yn fwy grisialaidd na llygaid anifeiliaid eraill, a chan hyny y maent yn llewyrchu mewn tywyllwch; ond y mae disgleirdeb yr haul yn attaliad i'w gweled y dydd

G. Pa beth yw yr achos fod rhai dynion, pan welont eraill yn dawnsio, yn gwneuthur y cyffelyb â'u dwylaw a'u traed, neu trwy ryw ystumiau eraill o eiddo y corph?—A. O herwydd fod y golwg wedi cario a darlunio y weithred hon i'r meddwl, ac yn barnu yr unrhyw yn hyfryd, gan hyny y mae y dychymyg yn tynu ei lun mewn lled-dyb ac yn cyffroi y corph trwy yr ystumiau.

G. Pa ham y mae llawer o gwsg yn peri i rai fyned yn dewion a rhai yn denenon?—A. Y mae y rhai hyny ag ydynt o ardymer ddrwg, pan fyddont yn cysgu, yn difa ac yn treulio y gorddigonedd o'r hyn a fwytasant, a chan hyny y maent yn dyfod yn dewion. Ond y mae y rhai hyny ag ydynt o ardymer dda, pan fyddont yn

cysgu, yn llawer oerach, ac yn treulio llai.

G. Pa fodd, ac am ba achos, yr ydym yn goddef newyn yn well na syched?—A. Pan y byddo y cylla heb ddim yn amgen i'w dreulio, y mae yn treulio y llysnafedd a'r gwlybyrau yr hyn y mae yn eu cael barottaf, ac yn fwyaf wrth law; a chan hyny yr ydym yn dioddef newyn yn well na syched, o herwydd nad oes gan y gwres ddim i adfywio âg ef.

G. Pa ham y mae gwallt yn cwympo ar ol selni mawr?—A. Lle y mae y selni yn hir, megis mewn cryd, y mae gwlybyrau y pen yn cael eu sychu i fynu trwy ormodedd o wres, a chan hyny, o ddiffyg maeth, y mae y gwallt yn cwympo ymaith.

G. Pa ham y mae gwallt yr amrantau yn tyfu yn hir mewn hen bobl?—A. O herwydd fod esgyrn yr amrantau, trwy eu hoedran, yn deneuon o ddiffyg gwres, a chan hyny y mae y gwallt yn tyfu yno, o achos dyferwst y llygaid.

G. O ba le y deillia dylyfu gên?—A. Oddi wrth ageriadau anmhur, y rhai ydynt yn meddianu rhanau bywydol y pen, ac oddi wrth oerder y teimladau, gan beri cysgadrwydd.

G. Pa beth yw yr achos fod rhai blodau yn agor gyda chodiad haul, ac yn cau gyda'i fachludiad?—A. Y mae oerder yn cau, fel y dywedwyd, ond y mae gwres yr haul yn agor ac yn ehangu. Rhai a gymharant yr haul i enaid y corph; o herwydd, megis ag y mae yr enaid yn rhoddi bywyd, a phan y mae yn ymwahanu, y mae marwolaeth yn dilyn; felly y mae yr haul yn rhoddi bywyd, ac yn bywiogi pob peth; ond y mae oerni yn dwyn marwolaeth, gan wywo a dihoeni pob peth.

G. Pa ham y mae gofid yn peri i ddynion fyned yn hen a llwyd?—A. Nid yw oedran ddim amgen na sychder a diffyg gwlybyrau yn y corph; gan hyny y mae gofid yn peri newidiad, a gwres sychder; y mae oedran a llwydni yn dilyn yn ddioed.

G. Pa beth yw yr achos fod anifeiliaid dyspeiddedig yn wanach na'r cyfryw ag nad ydynt felly?—A. O herwydd fod llai o wres ynddynt, a thrwy hyny lai o rym a chryfder

---

# GORCHESTION

## MARCUS ANTONIUS ZIMARAS SANTI PERTIAS.

G. Pa ham y cyfrifid yn marn y mwyaf doeth, y peth anhawsaf i ddyn adnabod ei hun? —A. O herwydd na ellir gwybod dim ag sydd o gymaint pwys i ddyn, er iawn drefnu ei ymddygiad mewn bywyd. Heb y wybodaeth hon, mae dyn yr un fath a'r llong, yr hon sydd heb na chompawd na llyw idd ei harwain i'r porthladd, ac y mae yn cael ei daflu gan bob nwyd a rhagfarn i ba rai y mae ei ardymher naturiol yn ddarostynedig. I ddyn i adnabod ei ffurf a pherffeithrwydd ei hunan, yn ol y philosophyddion, sydd wers ry galed; ac nid yw dyn, medd Plato, yn ddim, neu os yw yn rhywbeth, nid yw ddim ond ei enaid. Neu, o herwydd na ellir ei wneuthur trwy weithred adfyfyriol; gan, er i ddyn adfyfyrio ac edrych iddo ei hun, y byddai mewn eisiau o gael ei wahanu oddiwrth ei

gorph; canys rhaid iddo ef yr hwn a fyn iawn adnabod ei hun fod yn rhydd oddiwrth serchiadau teimladwy; a pha mor annichonadwy yw hyn, ni raid i neb fod yn anwybodus. Neu, o herwydd fod dyn yn byw trwy ddeall; ond ni all deall dyn ddirnad ei hunan, ond yn ol deall y synhwyrau, yr hyn sydd dra anhawdd.

G. Pa ham y cyfrifid *Socrates* y dyn doethaf yn ngwlad Groeg gan *Apollo*, gan, yn marn *Aristotle*, mai efrydu mewn moesoldeb ac nid mewn natur yr oedd?—A. O herwydd y tybiwyd yn well i ddyn fyw yn dda na myfyrio; canys addefai hyn o hono ei hun, medd *Plato*, "Yr wyf yn gwybod un peth, sef nad wyf yn gwybod dim."

G. Pa ham y mae dynion yn ymdrechu ac yn ymryson yn bendifaddeu oddeutu pethau o ffraethineb?—A. O herwydd eu bod yn tybied fod pethau eraill yngallu arall, gan mai eiddo natur yw rhoddion y corph, ac y mae daoedd allanol a bydol yn ddarostyngedig i rëolaeth tynghedfen (*fortune*;) oddiwrth yr hyn y mae'n digwydd y gall pob dyn yn hawdd ymoddef i gael ei dreehu yn y fath fatterion, megis pethau ag nad ydynt yn digwydd trwy ei fai neu ei achos ef, ond tybiant fod ffraethineb yn eu gallu eu hunain. Neu, o herwydd eu bod yn tybied fod cynheddfau yn rhagori ar bob peth arall; a chan hyny, naturiol yw ymryson am yr hyn sydd fwyaf rhagorol.

G. Pa ham y dywed dynion fod philosophyddiaeth yn noeth?—A. O herwydd fod gwirionedd yn noeth; ac nid oes angen lliwio geiriau pan fyddom yn traethu matter o wirionedd; o herwydd i dwyll ddadleuwyr y perthyn

dadleu am ymadrodion, pan ymofynir am y gwir.

G. Paham y mae dynion yn dymuno bod mewn coffadwriaeth ar ol eu marwolaeth, a chan hyny rhai yn gwneuthur *pyramidiau*, cerf-ddelwau, ac amrywiol gofarwyddion ac argoel-ion eraill, y rhai a adeiladant ac a adawant o'u hôl?—A. O herwydd fod ymhawb o ddynolryw chwennychiad naturiol i rag-achub bytholrwydd a hanfodiad dwyfol cymaint ag a allont; a chan hyny, oni allant aros mewn natur a hanfodiad, etto ymdrechant o leiaf i barhau y'marnau a meddyliau dynion. Neu ynte, arferiad a'i dygodd i mewn felly, i gynhyrfu y cyfrywag ydynt yn dyfod ar ol hyny, i'r dyben fel na byddai iddynt ddirywio oddiwrth yr hyn ag oedd ganmoladwy yn eu rhieni.

G. Pa beth yw yr achos fod dymuniadau dynion i gaffael cyfoeth ac anrhydedd yn dyfod yn ddifesur?—A. O herwydd fod gan ddymuniadau ag ydynt naturiol derfyn, fel y dywed *Seneca*, ond nid oes i'r dymuniadau hyny ag ydynt yn deillio o dyb noeth un terfyn.

G. Pa ham y mae prydyddion bob amser yn trosi ac yn pennodi dynion doeth o fod yn gyfeillgar gyda thywysogion, megis ag y rhydd *Homer*, *Nestor* gyda *Agamemnon; Euripides*, *Teresias* gyda *Creon*; *Hesiodus*, *Prometheas* gyda *Jupiter*; a *Maro, Achates* gyda *Æneas*?—A. O herwydd fod, wrth gyfraith natur, doethineb a gallu yn cyfarwyddo (fel y dywed *Plato*) ein gweithredoedd i ryw ddyben, i ddwyn i ben yr un peth a'i garu a'i geisio.

G. Pa ham y mae dynion enwog mewn unrhyw gelfyddyd, pan y cyfeiliornant mewn un-

rhyw fatterion yn cyfeiliorni yn fwy peryglus na'r rhai hyny ag ydynt heb fod mor enwog? A. O herwydd fod y cyfryw, gan ymddiried yn ngwres eu ffraethineb eu hunain, yn cael eu tynu ymhell o'u synhwyrau eu hunain, a chan hyny rhaid eu bod yn cael eu twyllo. Gall *Avicen* wasanaethu i brofi hyn, pa un, er ei holl enwogrwydd mewn philosophyddiaeth, a ddywedodd y gellai dyn yn naturiol gael ei ddwyn allan o'r ddaear.

G. Pa ham mai dyn, er wedi ei gynysgaeddu â rheswm, yw y mwyaf anghyfiawn o bob creadur byw?—A. O herwydd mai dyn yn unig sydd yn chwennych anrhydedd, ac felly y mae yn digwydd fod pob dyn yn chwennych ymddangos yn dda, ac etto yn naturïol yn gochel llafur, er na chyraedd ddim rhinwedd trwy hyny; neu ynte, o herwydd mai natur twyllddadleuwr yw, yn hytrach i ymddangos yn dda, nag i fod heb ymddangos felly: ond ychydig iawn sydd yn cyrhaeddyd gwir rinwedd.

G. Pa ham y mae ymrëad anghymedrol yn gwneuthur mwy o niwaid na gwaedu anghymedrol?—A. O herwydd fod yr hâd yn llawnach o yspryd a maeth, ac yn fwy cyfleus, ac wedi ei barotoi yn well i natur y corph, na'r gwaed; canys dywed *Galen*, mai yr hâd yw yr achos o ranau sylweddol y corph, ac o hono ef y mae y corph yn tyfu ac yn cael ei faethu.

G. Pa beth yw yr achos na all y rhai hyny ag sydd ganddynt wïalenau tra hirion genhedlu plant?—A. O herwydd fod yr hâd, trwy fyned hir ffordd, yn colli yr yspryd, a chan hyny yn dyfod yn oer ac anghymwys er cenhedliad.

G. Beth yw yr achos nad yw y rhai hyny ag

ydynt gorphorol yn bwrw allan ond ychydig o hâd yn y weithred o ymrëad, a'u bod yn fynych yn anffrwythlon?—A. O herwydd fod hâd y cyfryw yn myned i faethu y corph. Am yr un rheswm y mae benywod corphol heb ond ychydig o fislifiadau.

G. Pa ham y mae benywod yn chwannog i gyd-gnawd (*venery*) yn yr haf, a dynion yn y ganaf?—A. O herwydd fod ceilliau y mab y pryd hyny yn crogi i lawr, ac eu bod yn wanach nag yn y gauaf; neu ynte o herwydd fod naturiaethau pocthion yn dyfod yn fwyaf bywiog ar dymer oer, canys y mae dyn yn frwd a sych, a benyw yn oer a llaith; a chan hyny yn yr hâf y mae cryfdcr dynion yn dihoeni, a hwnw o eiddo benywod yn ychwanegu, ac y maent yn dyfod yn fwy bywiog trwy leshad y gyneddf wrthwynebol.

G. Beth yw yr achos mai dyn yw y balchaf o bob creadur byw?—A. O herwydd ei wybodaeth fawr; neu, fel y dywed philosophyddion, gan fod dealltwriaeth gan bob bod deallgar, nid ocs dim yn aros ag sydd yn diangc rhag gwybodaeth dyn yn ncillduol: neu o herwydd fod ganddo rëolaeth dros bob creadur daearol, ac ymddengys pob peth o fod wedi cacl ei ddwyn dan ei lywodraeth: neu ynte y mae balchder dyn yn dallu oddiwrth nad yw yn ei adnabod ei hun; canys, yn ddiau, pe cofiai nad yw ond llwch a lludw, wedi dyfod yn noeth i'r byd, wedi ei eni i enill ei fara trwy chwys ei wyneb, ac wedi hyny i farw, efe a gasäai falchder.

G. Pa fodd y mae fod benywod yn chwennych ymgocthi yn dlws, a thrwsio eu hunain yn fwy na dynion?—A. O herwydd eu bod wrth

natur yn anmherffaith, gan hyny ymdrechant i ddiwallu eu hanmherffeithiadau trwy gelfyddyd; neu, a hwy mewn diffyg o brydferthwch y meddwl, y maent yn astudio i brydferthu eu cyrph.

G. Pa fodd y mae nad yw dyn tàl ond yn anfynych yn ddoeth?—A. O herwydd fod maint ei gorph yn deillio o ormodedd o wres a helaethder o wlybur.

G. Pa ham y mae gan anifeiliaid eu calonau ynghanol eu *brestiau*, ac eiddo dyn yn gogwyddo i'r ochr chwith?—A. I gymmedroli yr oerder ar yr ochr hono.

G. Pa ham y mae benyw yn caru y dyn ag sydd wedi cael ei morwyndod yn oreu?—A. O achos gwylder; o herwydd, fel y dywed *Plato*, fod gwylder yn dilyn cariad. Neu, o herwydd mai dechreuad pleser mawr yw, yr hwn sydd yn dwyn cyfnewidiad mawr ar yr holl gorph, trwy yr hyn y mae galluoedd y meddwl yn cael mawr hyfrydwch, ac y mae yn glynu ac yn gorphwys yn ddiysgog wrth yr unrhyw.

G. Pa fodd y mae fod y noswaith pan fyddo y lleuad yn llawn yn gynnes, pan, yn ol rhai cyfarwydd ynghelfyddyd rhif a mesur, fod y y lleuad yn oer y nos?—A. O herwydd (fel y barna *Peripatetics*) fod pob goleuni yn gwresogi yn gyfartal i'r adlewyrchiad arno.

G. Pa fodd y mae fod y nos yn y cynhauaf yn oerach nag yn y gwanwyn?—A. O herwydd fod yr awyr yn dra theneu, ac y mae cyrph ag ydynt wedi eu teneuhau yn dra chwannog i dderbyn gwres neu oerni, fel y gwelir yn hawdd mewn dwfr, canys y mae dwfr wedi ei dwymno yn rhewi yn gynt na dwfr oer, o herwydd ei fod wedi ei deneuo gan wres.

G. Pa fodd y niweidir cyrph pobl gan anwyd yn gynt yn y cynhauaf nag yn y gwanwyn?—A. O herwydd fod y cyrph ag ydynt wedi ymarfer âg oerfel yn y gwanwyn yn derbyn gwres, a chan hyny y mae y symudiad neu y newidiad yn naturiol, ac nid yn rhyfeddol. Ond yn y cynhauaf y maent yn brysio o wres i oerni, heb fod wedi ymgynefino âg ef, ac heb gyfrwng,

G. Pa fodd y mae dynion blewog neu wälltog yn fwy chwantus na neb eraill?--A. O herwydd y meddylir fod ganddynt ystôr fawr o garthion a hâd, fel yr hona philosophyddion.

G. Pa fodd y mae dynion sydd a phenau bychain ganddyut yn naturiol yn ddigofus ac yn anynad [gan fod yr ymenydd felly o ganlyniad] ni ellir cymmedroli gwres y galon trwy oerder yr ymenydd, fel y dylai fod; ac y mae digter yn deillio oddi wrth ferwad y gwaed oddeutu y galon trwy ryw flinder.

G. Pa fodd y mae eisteddfod dyn yn cau ar ol iddo wneud dŵr?—A. O herwydd fod yr awyr yn rhedeg yn ddioed i lenwi yr hyn sydd wag, ac felly newidir rhanau y corph trwy oerder yr awyr, yr hyn sydd yn peri cryndod.

G. Pa ham y bu i rai dynion farw trwy ofid, rhai trwy lawenydd, ond mwy trwy ddigter?—A. O herwydd fod llawenydd yn oeri y coluddion tufewnol; mae gofid neu dristwch yn mogi ac yn tagu y rhanau tufewnol, ac yn oeri y rhai allanol; ond y mae digter yn poethi y naill a'r llall, tra yr erys y gwres.

G. Beth yw yr achos fod y llais yn newid mewn pobl pan ddechreuant gael had?—A. O herwydd fod newidiad carthion o had yn cael

ei wneuthur yn rhan uchaf y corph, ac y mae y llais, gan mai uwchlaw y mae, yn ei wneuthur yn amlwg.

G. Pa fodd y mae pan fyddo llestr pridd yn llawn o wlyb berwedig yn brasiannu, fod y gwaelod yn oer?—A. O herwydd fod yr ageriadau poethion yn esgyn i fynu; a chan hyny, pan y mae y dwfr uchaf yn boeth, mae y gwaelod ar yr un amser yn oer, o achos oerni y dwfr cyfagos iddo.

G. Pa ham y mae y gronynau ŷd a gawn yn nhwll y morgrug, pa un a gesglir yn yr haf, wedi eu cnoi yn un pen?—A. O herwydd y dysgir hwy gan natur i gnoi a difa y pen hwnw yn mha un y mae rhinwedd hadol, yr hyn o ganlyniad sydd yn attal iddynt egino drachefn, a thrwy hyny y maent yn cadw eu hystôr o luniaeth rhag myned yn ddrwg.

G. Pa ham y mae plant yn gyffredin, yn caru eu mam yn fwy na'u tad?—A. O herwydd eu bod wedi cael eu hir faethu gan sylwedd eu mam; ac, o ganlyniad y mae serch mam at ei phlant yn gryfach na'r eiddo y tad.

G. Pa ham nad yw tad mor anwyl gan y mab ag yw y mab gan y tad?—A. Y doethion a ddywedant mai o herwydd nad yw cariad yn myned yn ol, ond bob amser y'mlaen, canys y mae cariad wedi ei blanu felly gan natur, fel ag i barhau y rhyw; oddiwrth yr hyn y digwydd fod ein dymuniad naturiol, gan esgeuluso pethau a aethant heibio, yn edrych at bethau i ddyfod. Neu, fel y dywed y philosophyddion, o herwydd fod peth o'r tad yn y mab, ond dim o'r mab yn y tad.

G. Pa fodd y mae fod cur pen, pylni y cof,

a drwg duedd dychymyg, yn dilyn hir ddaliad yr had?—A. O herwydd ei fod yn lluddias yr ymenydd, ac yn ei wneuthur yn drwm trwy ormodedd o had; neu o herwydd fod yr had wedi ei hir gadw, yn caffael rhyw gynneddf wenwynig, ager yr hon sydd yn niweidio y pen.

G. Pa fodd y mae fod coed pan gollant eu dail, anifeiliaid eu blew, ac ehediaid eu plu, yn eu derbyn draehefn; ond pan ddelo dyn yn foel, nid yw ei wallt yn tyfu mwyaeh?—A. O herwydd fod tymhorau y flwyddyn yn dyfod ar y cyrph hyny; ond am foelni, gan ei fod yn rhoddi un dychweliad i'r fath ddihoeniad.

G. Pa beth yw yr aehos os rhydd dyn ei ddwylaw mewn dwfr yn yr haf, ei fod yn oerach os cynhyrfir y dwfr na phe buasai yn llonydd?—A. O herwydd fod y rhan hono o'r dwfr ag sydd yn cyffwrdd ei ddwylaw yn dyfod yn gynes trwy wres ei ddwylaw; o herwydd y mae pob gorehwylydd, yr hwn sydd yn cyd-gyfranogi â'r goddefydd, neu y pethau ar yr hyn y gweithia, trwy wneuthur felly yn dioddef drachefn; a chan hyny, a'r dwfr yn cael ei symud, y mae yn angenrheidiol i'r rhanau teneuol o hono gael eu chwalu ar led, a rhai eraill oeraeh eu dilyn.

G. Pa beth yw yr achos, fel y dywed meddygon, fod mygiad y bru, yr hyn sydd yn digwydd i fenywod trwy gynnen ae ymryson, yn fwy peryglus na daliad yn ol y mis-lifiant?—A. O herwydd po fwyaf perffaith y byddo ysgarthiad, yn ei dymmer naturiol, gwaethaf oll ydyw wedi ei newidir o'r ardymmer hono, a'i dynu i'r gynneddf wrthwynebol; mal y gwelir mewn finegr, yr hwn pan wedi ei wneuthur o'r

gwin goreu, sydd fwyaf chwibl. Ac felly y mae yn digwydd mai po mwyaf y byddo dynion yn caru y naill y llall, mwyaf i gyd y maent yn casau pan syrthiont i anghydfod ac ymrafael.

G. Pa ham yr ymddengys y tir ag sydd yn sefyll yn llonydd, o fod yn symud, i'r cyfryw ag ydynt yn hwylio ar ddŵr?—A. O herwydd fod y synwyr o weled yn cael ei symud yn ddamweiniol pan symudir y llong, trwy yr hyn y mae cyffelybrwydd pethau yn cael eu canfod a'u derbyn gyda'r symmudiad.

G. Pa ham yr ydym yn caru ein golwg yn fwy nag unrhyw rai eraill o'n synhwyrau?—A. O herwydd ei fod yn dangos i ni wahaniaeth pethau; neu o herwydd fod ei wybodaeth yn cael ei dynu fwyaf o sylweddau corphorol; neu o herwydd fod grym dwyfol cariad wedi ei osod yn y synwyr hwnw.

G. Pa ham yr y'm yn tybied fod ffòn yn tòri pan wthir hi i'r dwfr, fel yr ymddengys i synwyr ein golwg?—A. O herwydd ein bod yn canfod trwy y synwyr o deimlad a chyffyrddiad fod y llygad yn cyfeiliorni; neu o herwydd nad ydym yn barnu gyda'r un gallu ag yr ydym yn dychymygu âg ef. Rheswm dros hyn yw, o herwydd nad ydyw yr haul yn ymddangos o fod ond troedfedd o gwmpas; a thrwy symmud y bys yn fuan a gwisgi, ymddengys un yn ddau.

G. Pa fodd y mae rhai pobl heb fedru canfod pethau ag ydynt yn bell oddiwrthynt?—A. Trwy wendid eu golygon; canys yn y cyfryw y mae y gallu o weled yn dra gwan.

G. Pa ham y mae y cyfryw ag a fynant saethu yn gywir yn lled gau un o'u llygaid?—A. O herwydd fod y golwg trwy hyny yn cael

ei uno a'i gryfhau yn well, ac felly yn gymhwysach i gyflawni y weithred hòno.

G. Pa ham y mae y cyfryw ag a fuant yn hir yn y tywyllwch, os yn ddisymwyth y deuant i'r goleuni, yn haner dall?—A. O herwydd na all natur oddef y newidiadau disymwth hyny; neu, o herwydd fod yspryd y golwg yn fychan a gwan, a chan hyny yn hoff o'r cyffelyb, ac felly y mae yn cael ei drallodi pan ddaw i'r goleuni.

G. Pa ham na all un peth fod yn achos o'i genhedliad neu ei feichiogiad ei hun?—A. O herwydd y rhaid i'r symudydd fod o flaen y peth a symudir, a'r cenhedlwr o flaen yr hyn a genhedlir; canys y mae yn a'mhosibl i unrhyw beth fod o'i flaen ei hun.

G. Pa fodd y mae cyrph benywod yn llacach, yn feddalach, ac yn llai nag eiddo dynion; a pha ham y maent mewn diffyg o flew?—A. O achos eu mis-lifiadau; canys gyda hwy mae eu gorddigonedd yn myned ymaith, yr hyn a ddygai allan wallt neu flew; a chan hyny y mae y cnawd wedi ei lenwi, o ganlyniad, y mae y gwythienau yn fwy cuddiedig mewn merched na meibion.

G. Pa beth yw yr achos pan ydym yn meddwl am ryw beth erchyll, ein bod yn cael ein taraw â dychryn?—A. O herwydd fod gan led-tyb neu ddychymyg am bethau rym a rhinwedd. Canys dywed *Plato* fod i ddychymyg am bethau ryw berthynas â'r pethau eu hunain; canys y mae cyffelybiaeth a darlnniad oerni a gwres yn gyfryw ag yw natur y pethau. Neu, o herwydd, pan ydym yn amgyffred unrhyw beth arswydus, fod y gwaed yn rhedeg i'r rhanau

tufewuol; a chan hyny y mae y rhanau allanol yn oer, ac yn ysgwyd gan ofn.

G. Pa ham y mae gwraidd *raddish* yn cynnorthwyo treuliad, ac etto ei hun yn aros yn annhreuliedig;—A. O herwydd fod y sylwedd yn gynnwysedig o amrywiol ranau; canys y mae yno rai rhanau teneuon ynddo, y rhai ydynt gymmwys i dreulio bwyd, gwedi y todder pa rai, y mae yn aros ryw sylwedd tew a *chlòs* ynddo, yr hwn na all y gwres ei dreulio.

G. Pa ham y mae y cyfryw ag ydynt yn hollti coed yn eu hollti yn hawsach ar eu hyd nag ar draws?—A. O herwydd mewn coed y mae llin, (*grain*) trwy yr hyn, os torir hwy ar eu hyd, yn y toriad y mae un rhan yn naturiol yn ymwahanu oddiwrth y llall,

G. Beth yw yr achos os bydd i waewffon gael ei tharaw ar un pen, fod y sŵn yn dyfod yn gynt at un a fyddo yn agos, nag at yr hwn a fyddo yn taro?—A. O herwydd, fel y dywedwyd, fod yno ryw lin hir mewn coed, yn uniongyrchol yn gyrn y'mlaen, wedi ei lenwi âg awyr, ond ar yr ochr nid oes dim, a chan hyny os tarewir trawst neu ysbêr ar y pen, y mae yr awyr ag sydd yn guddiedig yn derbyn sŵn yn y llin rhag-grybwylledig, yr hyn sydd yn gwasanaethu er ei fynedfa; a chan weled na all y sŵn fyned yn hawdd allan, carir ef idd ei glust ef yr hwn sydd gyferbyn; gan nad yw y mynedfeydd hyny yn myned o ochr i ochr ni ellir clywed sŵn yno yn eglur.

G. Pa ham y mae y cyfryw ag a fyddont ddig yn myned yn welw yn y dechreu, ac wedi hyny yn goch?—A. O herwydd y chwant i ymddial am yr hyn sydd yn blino, y mae y gwres

a'r gwaed yn cael eu galw i'r galon; a chan hyny y mae y rhanau allanol o angenrheidrwydd yn llwyd: pan fyddont yn penderfynu rhoddi yr hyn y maent yn ei chwennych mewn gweithrediad, y mae y gwres a'r gwaed yn rhedeg i'r rhanau allanol, a'r pryd hyny y maent i'w hofni yn fawr, ac i gymeryd gofal gyda hwy.

G. Pa ham y mae seirph heb wialenau ac arrenau?—A. O herwydd eu bod mewn diffyg o forddwydydd, ac o achos hyd eu cyrph.

G. Pa fodd y mae seirph yn medru troi eu penau yn ôl, a'r gweddill o'r corph yn sefyll yn llonydd?—A. O herwydd eu bod wedi eu gwneuthur, fel y creaduriaid hyny a elwir trych-bryfaid, o gyfansoddiad amdröawl, ac y mae eu hesgyrn yn ystwyth, ac wedi eu gwneuthur o fadrudd, fel y byddont alluog i ochelyd yr holl bethau hyny a'u niweidia; o herwydd a hwy heb draed, ac yn bod yn hir yn eu cyrph, hwy a allant yn hawdd droi eu hunain, tra yr ymblygent yn erbyn y pethau hyny ag ydynt o'u hol. Ni byddai o un dyben iddynt godi i fynu eu penau, pe nas gallent arfer digter.

G. Pa ham y mae morddwydydd a chrothau coesau dynion yn gigog, gan nad yw coesau anifeiliaid felly?—A. O herwydd mai dynion yn unig sydd yn myned yn syth; a chan hyny y mae natur wedi rhoddi tewder i'r rhanau isaf, a'i gymeryd ymaith o'r rhan uchaf; ac fel hyn y mae wedi gwneuthur y ffolenau, y morddwydydd, a'r crothau yn gigog.

G. Pa beth yw yr achos mai yn y galon y mae y gallnoedd teimladol; etto, os niweidir rhan ol yr ymenydd, y mae y cof yn dyoddef trwy hyny; os y rhan flaen yr amgyffred; os y

canol, y rhan feddylgar?—A. O herwydd mai yr ymenydd sydd wedi ei bennodi gan natur i oeri y galon; o ba le y mae ei bod, yn amrywiol o'i rhanau, yn gwasanaethu y galluoedd a'r offerynau â'u gwres, canys nid yw pob gweithred o eiddo y meddwl yn deillio o un mesur o wres.

---

## GORCHESTION

# ALEXANDER APHRODISEUS.

G. Pa fodd y mae yr haul yn gwneuthur dyn yn ddu, a baw yn wŷn; cwyr yn feddal, a baw yn galed?—A. O herwydd tuedd y sylwedd a fyddo'n goddef. Y mae pob gwlybwr, oddieithr llysnafedd, pan wedi eu gwresogi dros fesur, yn ymddangos yn ddu oddeutu y croen: ac y mae baw, gan ei fod yn llawn naill ai o halen y graig (*salt petre,*) neu wlyb hallt, pan fyddo'r haul wedi treulio ei waddod a'i amhuredd, yn dyfod yn wŷn drachefn; pan fyddo'r haul wedi tynu a chyffroi lleithder cŵyr, mae'n cael ei feddalhau; ond mewn baw y mae yr haul yn treulio y lleithder, yr hwn sydd lawer iawn, ac yn ei wneuthur yn galed.

G. Pa beth yw yr achos, pan y rhoddwn ein bys ar safn llestr dyfrio, na wna y dwfr redeg allan o'r gwaelod, ac os cymerwn y bys ymaith, ei fod yn rhedeg yn ddioed?—A. O herwydd, pan gymerwn ymaith y bys, fod yr awyr sydd

yn myned i mewn yn gwthio y dwfr i lawr, yr hwn o'i natur ei hun sydd yn myned tuag i lawr, ac felly y mae yn myned allan o'r gwaelod. A hyn yw yr achos o bob peirianau ac offerynau llaw-gelfyddol sydd wedi eu gwneuthur âg awyr a dwfr.

G. Pa ham y mae gwin a dwfr a roddir i un claf o'r cryd yn rhoddi drwg dymherusrwydd i'r ymenydd, gan fod y ddau beth hyn o gynneddfau neu ansoddau gwahanol; dwfr yn oer, a gwin yn boeth?—A. Mae gwin, gan ei fod yn dueddol i esgyn, yn llosgi yr ymenydd, ar yr un amser ag y mae yn cael ei flino a'i anhymmeru gan y cryd. Yr ydym yn gweled llaweroedd hefyd, y rhai ag ydynt iach, os arferant lawer o win, ag ychydig goll-synwyr, yn eu barnau. Ond dwfr sydd yn attal mynedfeydd y corph, trwy yr hyn y mae yr ysbrydoedd (pa rai ydynt offerynau y meddwl) yn cael eu dadmer, ac felly y mae yn peri iddynt ddyfod yn dew a gwydrus, ac yn fwy llygredig a braenllyd, yr hyn sydd yn magu y cryd. Ac yn fynych y mae dwfr, trwy gael ei orchfygu gan y cryd, yn dyfod yn faeth iddo; mal y gwelwn mewn gefail gof, ymha le, os teflir ond ychydig ar tân, y mae yn llosgi yn gyflymach.

G. Pa ham y mae gan fenywod, plant, a dynion dyspaddedig leisiau meinion ac uchel?—

A. O herwydd nad yw eu rhydweli, trwy helaethrwydd o leithder, wedi eu hestyn yn llydain; a chan hyny, megis ag y mae pîb, neu chwibanogl fechan yn rhoddi swn mein-dlws, felly y rhydweli yn y rhai hyny ag y mae'n gaeth a chul; o herwydd cynneddf gwres yw i ledu a llaccau, ond benywod a dyspeiddiaid ydynt yn oerion.

G. Pa ham y mae llynorod crynion yn anhawdd i'w meddyginiaethu?—A. O herwydd eu bod yn cael eu magu o eri (*choler*) sur, yr hwn sydd yn cnoi; ac o herwydd ei fod yn rhedeg, gan ddyferu a chnoi, y mae yn gwneuthur llynoryn crwn; am ba achos y mae yn gofyn cyffuriau sychol, fel yr hòna meddygon.

G. Pa ham y mae mêl yn felus i bob dyn oddieithr y rhai y mae y cryd melyn arnynt?—A. O herwydd fod llawer o eri chwerw dros eu holl gorph, yr hwn sydd yn y tafod yn helaethlawn; oddiwrth yr hyn y mae'n digwydd, pan y bwytânt fêl fod y gwlybyrau yn cael eu cyffroi, ac y mae y blâs ei hunan, trwy chwerwder geri, yn peri y dychymyg fod y mêl yn chwerw.

G. Pa ham y mae gan ddynion digofus lygaid tanllyd?—A. O herwydd fod y gwaed oddeutu y galon yn wresog, a'r ysprydoedd yn boeth, y rhai gan eu bod yn dra threiddiol a phur, ydynt yn cael eu cario i fynu, a thrwy y llygaid, pa rai ydynt lân, y maent yn disgleirio; ac y mae yr ageriadau gwaedlyd ag ydynt yn esgyn gyda hwy yn gwneuthur y wyneb yn goch.

G. Pa ham y mae dwfr, os bwrir ef ar seirph yn gwneuthur iddynt ffoi?—A. O herwydd eu bod yn sych ac oer wrth natur, a chanddynt ond ychydig o waed, a chan hyny y maent yn ffoi oddiwrth oerni anghymedrol.

G. Pa ham y mae ŵy yn tori os rhostir ef, ac heb wneud hyny wrth ei ferwi?—A. Pan ddeuir a lleithder yn agos i'r tân, poethir ef yn fawr iawn, ac felly y mae yn magu gwynt, yr hwn wedi ei gyfyngu mewn lle bychan, sydd yn gwneuthur ei ffordd allan trwy drais, ac yn tori y plisg: mae'r cyffelyb yn digwydd i drwppeuad,

(*tubs*) neu lestri pridd, pan roddir gwin newydd ynddynt: y mae gormod o lysnafedd yn tori plisg ŵy wrth rostio; y mae yr un fath gyda llestri priddion wedi eu poethi yn ormodol; oddi wrth yr hyn y bydd rhai pobl yn gwlychu ŵy pan fyddant yn bwriadu ei rostio. Mae dwfr poeth, trwy ei feddalwch, yn gwasgaru ei leithder o fesur ychydig, ac yn ei ddadmer trwy deneuder a mynedfeydd y plisg.

G. Pa ham y mae dynion yn amrantu (*wink*) yn y weithred o ymrcad, ac yn canfod y cyffelyb gyfnewidiad yn yr holl synwyrau craill?—A. O herwydd, gan gael eu gorchfygu gan effaith yr hyfrydwch hwnw, eu bod yn ei amgyffred yn well.

G. Pa ham nad yw natur yn rhoddi pledrenau neu gronfeydd pision, i adar?—A. O herwydd fod yn rhaid iddynt wrth lawer o leithder i roddi y sylwedd i blu i dyfu, ac o herwydd eu bod yn difa trwy yr ymarferiad o ehedeg; nid ydynt ychwaith yn piso un amser; a phan yfont, y maent yn arllwys llawer iawn o dom.

G. Pa ham y mae gan blant y graianwst (*gravel*) yn magu yn eu pledrenau, a hen bobl yn eu harrenau?—A. O herwydd fod gan blant fynedfeydd cyfyng yn eu harrenau; a gwthir gwlybwr daearol tew trwy drais gan y pision i'r bledren, yr hon sydd iddi ddyfrleoedd neu fynedfeydd llydain, ag ydynt yn rhoddi lle i'r pision a'r gwlybwr, o'r hyn y mae *gravel* yn cael ei fagu, yr hwn sydd yn myned yn dew, ac yn ymaneddu, yn ol fel y byddo ei ddull. Yn y gwrthwyneb, y mae mewn hen bobl, canys y mae iddynt hwy fynedfeydd llydain yn y llefnau, y cefn, a'r arrenau, fel y gallo y pision bassio

ymaith, a'r gwlybwr daearol gyd-dewychu a suddo i lawr; y mae lliw y *gravel* yn dangos y gwlybwr o'r hwn y mae y garreg yn dyfod.

G. Pa beth yw'r achos pan bydd y garreg yn cyd-dewychu ac yn myned yn galed trwy wres, nad ydym yn defnyddio pethau gwrthwynebol i'w thoddi trwy oerder, ond pethau ysgeifn, megis persli, ffenygl, a'r cyffelyb?—A. Tybir ei bod yn syrthio allan trwy wres gormodol deifiawl, trwy yr hyn y mae y cerrig yn briwsioni yn dywod; megis yn yr un dull ag y gwna llestri pridd, pa rai, pan y poethir neu eu rhostir yn ormodol, a dröant yn dywod. A thrwy y moddion hyn y digwydd fod cerrig mân yn cael eu harllwys, ynghyd a thywod wrth wneuthur dwfr. Weithiau gwna diod oer wthio allan y garreg, gan fod yr arrenau yn cael eu hestyn, ac yn ei bwrw allan trwy egni mawr, ac fel hyn yn esmwythau y bol o'i faich. Heblaw hyny, y mae yn fynych fod gwres anghymedrol yr arrenau neu lefnau y cefn (trwy yr hyn y mae y garreg yn tyfu) yn cael ei ddiffodd gan oerni.

G. Pa ham y mae gwellhau llynoryn neu eri yn yr arrenau neu y bledren yn dra anhawdd?—A. O herwydd fod y pision, gan ei fod yn sur, yn llynori (*ulcerate*) yr archoll. Y mae llynorod yn waeth i'w meddyginiaethu yn y bledren na'r arrenau, o herwydd fod pision yn aros yn y cyntaf, ond yn rhedeg i'r olaf.

G. Pa ham y mae y doluriau hyny ag ydynt yn magu yn nghanwyll y llygad yn ymddangos yn wỳn, pan fyddont heb dyfu ond ychydig, a phan y maent yn oerion; ac eraill heb ymddangos felly os byddant yn tyfu allan o'r ganwyll?—A. O herwydd mai trwy ganwyll y llygad y mae

y golwg yn deillio, yr hon sydd yn ddysglaer a chlir; gan hyny ynghanwyll y llygad, pan fo'r dolur yn gwneuthur y rhan hwnw o'r gorchudd yn dew (yr hwn sydd fel corn) ni all ysbryd y golwg darddu allan trwy y sylwedd a fydd wedi ei gasglu; oddiwrth yr hyn y mae yn canlyn, ei fod yn gwneuthur y dolur yn oleu a chlir, gan ymddangos yn wyn; ac, o herwydd na all ysbrydoedd y golwg fyned allan, y mae yn peri dallineb.

G. Pa ham y mae mân-us a gwellt yn cadw dwfr yn boeth, ond yn gwneuthur eira yn oer? —A. O herwydd fod natur mân-us mewn diffyg o gynneddf amlygol (*manifest*) yn gymaint gan hyny, y gellir, o'i natur ei hun ei gymysgu yn hawdd, a'i ddifa gan yr hyn y mae yn gysylltiedig âg ef, y mae yn cymeryd yr un natur yn rhwydd, ac wedi ei roddi mewn pethau poethion, y mae yn boeth yn hawdd, yn poethi drachefn, ac yn cadw yn boeth; ac i'r gwrthwyneb, wedi ei wneuthur yn oer gan yr eira, a gwneuthur yr eira yn oer, y mae yn ei gadw yn ei oerni.

G. Pa beth yw yr achos mai yn amser disglaer gauaf y mae ser y nef yn ymddangos egluraf?—A. O herwydd fod yr awyr, naill ai yr hon sydd yn ein cylchynu, neu yr hon sydd uchaf, wedi ei gwneuthur yn deneu, a'i charthu gan wyntoedd a chawodydd o wlaw, a thrwy hyny y mae ein golygon yn ymestyn yn mhellach ac yn eglurach.

G. Pa ham y mae arnom yn fynych boen wrth wneud dŵr?—A. O herwydd fod geri sur, gan darddu allan, a phigo pledren y pision, yn annog ac yn cyffroi yr holl gorph i esmwythau y rhan a niweidir, ac i fwrw allan y gwlybwr

yn gymedrol. Mae hyny yn digwydd i blant yn fwyaf o bawb; o herwydd fod ynddynt garthion llaith, o achos eu llenwad mynych.

G. Pa ham y mae geri du, gan ddyfod i'r bronau, neu'r coesau, yn peri ysiad, cnöad, neu ddifâad; ond yn y rhai hyny ydynt brudd-glwyfus nid yw yn gweithio yn yr un dull, ond y mae yn myned idd eu hymenyddiau?—A. O herwydd fod yno lawer o wythienau mawrion yn y bronau neu'r didenau, o achos magiad llaeth, a chan hyny y mae ystôr o'r gwlybwr hwnw yn rhedeg yno, a'r un modd i'r coesau, o herwydd ei fod yn myned i waered; ond yn yr ymenydd, o herwydd ei fod uwchlaw, ac hefyd o herwydd fod iddo wythienau tra bychain, ystôr bychan o geri sydd yn esgyn, ac i'r hwn nid oes ond yn unig allu a grym i bigo, ond nid i gnoi a bwyta. Y'mhellach, y mae yr ymenydd yn oer a llaith, trwy yr hyn y mae mewn rhyw ddull, yn wrthwyneb i dymmer geri du, yr hwn sydd yn ei fallu. Gan hyny, y mae yr hyn a elwir yn brïodol geri du, yn magu cangcr bwytäol a chnöawl yn y didenau, neu yn y coesau, cri neu archoll, anhawdd idd ei wellhau: yr hwn fwyta a elwir *nimades*; yn yr ymenydd y mae yn magu gwlybwr ffyrnig, pruddnaws, gan beri chwyddiad yn unig, yr hwn sydd gyffelyb i gangcr, ond nid yn cnoi a bwyta, ac y mae hefyd yn magu prudd-glwyf llonydd.

G. Pa fodd y mae plant yn cael eu taraw â phlaned yn yr hâf?—A. Y maent yn glaf o gryd gwan a nychlyd, ac y mae eu llygaid yn suddo yn geuol yn eu penau, y maent yn dyfod yn weiniaid ac yn eiddil, ac nid ydynt yn cysgu ond ychydig: ac ar rai o honynt y mae dylifiad,

o herwydd fod plant yn dyner, ac yn dyoddef yn hawdd, ac y mae ganddynt ystôr mawr o lysnafedd yn y pen; a chan hyny y mae y llysnafedd, gan gael ei wresogi yn ormodol a'i fraenu, yn enynu y cryd, trwy yr hyn y mae madrudd yr ymenydd yn cael eu dodi ar dân, a chan hyny nid ydynt yn cysgu nemawr; ac y mae y tân, gan ddisgyn trwy rydweliau y galon, a gosod yr ysprydoedd bywiol ar dân, yn enyn cryd heb falldod. Ac yn gymaint a bod llawer o eri yn cyfodi o gryd, yr hwn sydd yn cnoi ac yn bwyta y bol, y mae yn amlwg fod yr achos o'r newidiad hwn yn yr ymenydd; gan hyny y mae cyffuriau oerawl idd eu cymhwyso y pryd hyny at y pen, a'r cyfryw ag ydynt dda i ddiffodd y tân. Ac y mae rhai mewn oedran aeddfedrwydd yn glaf o'r un afiechyd, hyny yw, y cyfryw ag sydd ganddynt lysnafedd a geri wedi ymgasglu yn eu penau, yr hwn sydd yn braenu trwy anadliad noeth o hono, ac mewn dull trwy yr awyr danllyd, y mae yr ysprydoedd yn cael eu rhoddi ar dân.

G. Pa ham y mae i rai cyffuriau o'r un rhyw effeithiau gwahanol, fel y mae ymarferiad yn profi; canys y mae mastig yn bwrw allan, yn oddi, ac hefyd yn cylymu neu gysylltu; ac y mae finegr yn oeri ac yn poethi?—A. O herwydd fod rhyw gyrph bychain anorchfygadwy ynddynt, nid trwy annhrefn, ond trwy gyfryngiad; megis ag y gwna tywod wedi ei wlychu ymlyfethcirio ynghyd, ac ymddangos o fod yn un corph, er mewn gwirionedd fod yno lawer o gyrph bychain mewn tywod. Ac yn gymaint a bod hyn felly, nid yw yn afresymol fod cyneddfau a rhinweddau gwrthwyneb yn guddiedig

mewn mastig, a bod natur wedi rhoddi y rhinwedd hwnw i'r cyrph hyn.

G. Pa ham y mae mammaethod yn symud ac yn siglo eu plant pan fynant eu tynu i gysgu?—A. I'r dyben fel y gallo y gwlybyrau trwy gael eu chwalu trwy symudiad, symud yr ymenydd; ond ni all y rhai hyny o oedran mwy oddef hyn.

G. Pa ham y mae rhai meddwon yn gweled yn ddyblyg?—A. O herwydd fod y gewynau wedi cael eu llenwi fwy neu lai, a thrwy yr un moddion yn wan ac eiddil, yn tynu ac yn rhoddi un llygad i orphwys tuag i fynu, a'r llall tuag i wared, a thrwy hyny y mae y pelydr heb fod yn edrych yr un ffordd ar unwaith, ond tuag at amrywiol leoedd a chyrph; a chan hyny y mae pob un o'r llygaid, gan ddefnydd swydd a dyledswydd neillduol o weled, yn peri golwg dyblyg.

Pa ham y mae olew, os yfir ef, yn peri i un gyfogi, ac yn enwedig, eri melyn?—A. O herwydd, gan ei fod yn ysgafn, ac yn esgyn tuag i fynu, y mae yn cyffroi y lluniaeth yn y cylla, ac yn ei gyfodi i fynu, ac felly y mae y cylla, gan ei fod yn cael ei ofidio, yn gwysio y rhinwedd i fwrw allan i gyfogi, ac yn enwedig geri, o herwydd fod hwnw yn ysgafn, ac yn gynwysedig o ranau treiddiol, a chan hyny yn cael ei gario i fynu yn gynt; canys pan gymysgir ef gydag unrhyw beth llaith, y mae yn rhedeg i'r lle uchaf.

G. Pa ham na chymmysga olew gyda'r rhan fwyaf o bethau?—A. O herwydd, gan ei fod yn hyblyg, yn feddal, ac yn dew o hono ei hun, ni ellir ei wahanu yn rhanau, ac felly ni ellir ei gymmysgu; ychwaith pe y'i rhoddid ar y ddaear ni all fyned i mewn iddi.

G. Pa ham y mae dwfr ac olew yn rhew

ar dywydd oer, a gwin a finegr yn boeth ar dywydd oer?—A. O herwydd fod olew, gan ei fod heb gynneddf, ac yn gymmwys idd ei gymmysgu gydag unrhyw beth, yn oeri yn fuan, ac felly dros ben, fel y mae yn fwyaf oer. Mae dwfr, gan ei fod o natur oer, yn rhewi yn hawdd pan wneir ef yn oeraeh na'i natur ei hun. Nid yw gwin, gan ei fod yn boeth, ac o ranau treiddiol, yn goddef unrhyw rewiant.

G. Pa ham y mae pethau o gynneddf wrthwynebol yn dwyn allan yr un effaith?—A. Y mae yr hyn sydd laith yn cael ei galedu a'i rwymo yn gyffelyb gan wres ac oerni. Mae eira a gwlybwr yn rhewi gan oerni; y mae plastr, a *grafel* yn y bledren, yn cael eu gwneuthur yn sych gan wres. Y mae yr effaith yn wir yn un, ond trwy ddwy weithred wahanol; y mae y gwres yn difa ac yn bwyta yr helaethrwydd o leithder; ond y mae oerni, gan attal a chau gyda'i dewder gormodol, yn gwasgu allan y gwlybwr allan, yn gyffelyb ag y gwna ysbwng a wesgir â'r llaw fwrw allan y dwfr, yr hwn sydd ganddo yn y tyllau neu'r mynedfeydd bychain.

G. Pa ham y mae ysgydwad neu gryndod yn ymafaelyd ynom yn fynych pan ddigwydd rhyw helynt brawychus, megis sŵn mawr neu groch-drwst, cwymp disymwyth dwfr, neu gwymp coeden fawr?—A. O herwydd fod yr holl wres yn fynych, wedi i'r gwlybyrau gael eu treulio a'u difa gan amser, a'u gwneuthur yn deneu a gwan, yn danbaid, yn ddisymwth, ac yn awchus, yn rhedeg i ran dufewnol y corph, ac yn difa y gwlybyrau ag ydynt yn achos o'r afiechyd. Felly y mae yr effaith hwn gan driagl, a llawer

o'r cyffelyb fath, y rhai ydynt frwd a sych, pan y'i cymerir ar ol treuliad ymborth.

G. Pa ham y mae gwydrau dur yn llewyrchu mor oleu?—A. O herwydd eu bod wedi eu gwrthleinio o'r tu fewn â phlwm gwyn, natur pa un sydd lewyrchol, ac wedi ei roddi wrth wydr, yr hwn sydd ddysglaer a thryloyw, y mae yn llewyrchu llawer mwy; ac yn bwrw ei belydrau trwy y mynedfeydd, ac o'r tu allan i gorph y gwydr; a thrwy hyny mae y gwydr yn dra dysglaer a gloyw.

G. Pa fodd yr ydym yn gwled ein hunain mewn gwydrau, ac mewn dwfr clir?—A. O herwydd fod cynneddf y golwg, gan bassio i'r cyrph disglaer, trwy adlewyrchiad yn dychwel drachefn ar baladr y llygaid, fel ei ddelw ef yr hwn sydd yn edrych arno.

G. Pa ham y mae ffauau celyd, lleoedd ceuol ac uchel, yn dadseinio, ac yn anfon yn ol swn y llais?—A. O herwydd fod y cyfryw leoedd, trwy wrth-dafliad, yn dychwelyd delw y sŵn yn ol, canys y mae y llais yn curo yr awyr, a'r awyr y lle, yr hwn pa mwyaf a gurir arno, mwyaf y mae yn ei wrth-guro, ac fel hyn y mae yn achos o sŵn tanbaid y llais. Nid yw lleoedd lleithion, y rhai ydynt yn gildio i'r tarawiad, ac yn ei doddi, yn rhoddi dim sŵn drachefn; yn ol ansawdd a swm y tarawiad y rhoddir cynneddf a swm y llais, yr hwn a elwir adsain.

G. Pa beth yw yr achos, os bydd i chwi fwrw careg i ddwfr llonydd, yr hwn fyddo yn agos i wyneb y ddaear, ei fod yn achos o lawer o gylchoedd, ac heb fod felly os bydd y dwfr yn ddwfn yn y ddaear?—A. O herwydd fod y gareg, gan danbeidrwydd y tafliad, yn cynhyrfu y dwfr yn

mhob rhan o hono, hyd oni ddelo i'r gwaelod; ac os bydd tanbeidrwydd tra mawr yn y tafliad y mae y cylch yn fwy fyth, gan fod y gareg, wrth fyned i'r gwaelod, yn achos o lawer o gylchau. O herwydd, yn gyntaf oll, y mae yn gwahanu rhanau nesaf allan a mwyaf arwynebol y dwfr i lawer o ranau, ac felly bob amser, gan fyned i lawr i'r gwaelod, a thrachefn yn gwahanu y dwfr, y mae yn gwneuthur cylch arall, ac y mae hyn yn cael ei wneud yn ol-yn-ol hyd oni orphwyso y gareg; ac o herwydd fod mynediad y gareg yn arafu o hyd fel y mae yn myned i lawr, mae y cylch olaf, o angenrheidrwydd, yn llai na'r cyntaf, o herwydd trwy hyny, ac hefyd trwy ei rym, y mae y dwfr yn cael ei wahanu.

G. Pa ham y tybia rhai fod chwerthin yn deillio o'r ddueg, gan haeru nad yw yn debygol fod y rhai hyny ag ydynt a'u dueg wedi llygru yn chwerthin cymaint a'r rhai hyny sydd a'u dueg yn iach, ond dywedant fod y cyfryw yn dra phrudd?—A. Yr achos o chwerthin sydd yn ddamweiniol, ac nid yn briodol yn y ddueg, canys os bydd yn iach a pherffaith, y mae yn tynu gwlybyrau pruddglwyfus o'r afu, o ba le y mae yn deillio; yna mae y gwaed pur, heb unrhyw waddod, yn myned trwy yr holl gorph a'r ymenydd, gan ddiddanu y natur a'r meddwl, a gwneuthur dynion yn llawen fel gwin, a'u dwyn i lonyddwch a thawelwch, fel y mae chwerthin yn cael ei gynhyrfu.

G. Pa ham y mae y cyfryw ag ydynt fyddar wrth natur yn fud?—A. O herwydd na allant siarad a hyspysu yr hyn na chlywsant erioed. Dywed rhai meddygon, fod yno un gweuad ac uniad gïeuynau yn perthynu i'r cyffelyb ardym-

her. Ond y cyfryw ag ydynt fud trwy ddigwyddiad nid ydynt fyddar mewn un modd, o herwydd y pryd hyny y mae nwyd sefydlog yn cyfodi.

G. Beth yw yr achos nad yw moch yn llefain pan font yn cael eu cario a'u turs ar i fynu?—A. O herwydd eu bod hwy yn gogwyddo mwy tua'r ddaear nag un anifail arall, y maent yn ymhyfrydu mewn budreddi, ac yn chwilio am dano; a chan hyny yn newidiad disymwth eu hwynebau ymddangosant yn synedig wrth gymaint o oleu, ac y maent yn distewi. Rhai a ddywedant fod eu corn chwyth yn cau ynghyd o herwydd ei uniondeb.

G. Pa ham y mae moch yn ymhyfrydu mewn baw?—A. Ehangder eu duryn yw yr achos, o herwydd y mae ganddynt arogliad sydd yn toddi ei hun, ac y maent fel pe byddent yn ymhoffi mewn arogl drewllyd.

G. Pa ham y mae ysfa yn codi pan fyddo archoll yn myned yn iach, a llysnafedd yn peidio?—A. O herwydd fod y rhan sydd wedi ei hiachau a'i gwneuthur yn ddianaf yn dilyn y gweddill o'r gwlybyrau, y rhai a arosasant yno yn erbyn natur, a'r hyn ydoedd yr achos o'r geri, ac felly gan fyned allan trwy y croen, ac ymdoddi, y mae yn achos cynnwynol o'r ysfa.

G. Pa beth yw yr achos fod dyn yn tisian yn fynychach, ac yn danbeidiach nag anifail?—A. O herwydd ei fod yn arfer mwy o fwydydd a diodydd, ac o fathau mwy gwahanol, a hyny yn fwy nag sydd yn ofynol; yr hyn, pan na allo ei dreulio mal y gwnelai, y mae efe yn casglu ynghyd lawer o awyr ac yspryd, o achos llawer o leithder; a'r ysprydoedd y pryd hyny

yn dra threiddiol, gan esgyn i'r pen, y maent yn fynych yn gyru dyn trwy drais idd eu harllwys, ac felly y maent yn cyffroi tisian. Mae y sŵn a achlysurir trwy hyny yn deillio oddiwrth yspryd tanbaid, neu anadl yn passio trwy bibellau y ffroenau, megis ag y gwna bytheiriad trwy y cylla, neu rechain trwy yr eisteddfod, y llais trwy y corn gwddf, sŵn trwy y clustiau.

G. Pa beth ydyw yr achos fod ewinedd a gwallt pobl feirwon yn tyfu?—A. O herwydd, a'r cnawd yn pydru, yn gwywo, ac yn syrthio ymaith, y mae yr hyn ag oedd yn guddiedig oddeutu gwraidd y gwallt yn awr yn ymddangos fel pe bai yn tyfu. Rhai a ddywedant ei fod yn tyfu mewn gwirionedd, o herwydd fod cyrph meirw yn cael eu toddi i lawer o garthion a gorddigonedd trwy fraeniad. Mae y rhai hyn, gan fyned allan trwy rannau uchaf y corph trwy ryw fynedfeydd, yn ychwanegu tyfiant y gwallt

G. Pa ham nad yw gwallt neu flew y traed yn tyfu yn llwyd yn fuan?—A. Am yr achos hwn: o herwydd eu bod, trwy ysgogiad mawr, yn chwalu ac yn toddi y llysnafedd gorddigonol ag sydd yn magu llwydni. Mae gwallt y dirgeloedd yn tyfu yn dra diweddar, o herwydd gwres y lle hwnw, ac o herwydd ei fod yn toddi y llysnafedd hefyd mewn ymread cnawdol.

G. Pa ham y mae llawer o anifeiliaid yn ysgwyd eu cynffonau pan welont eu cyfeillion, a'r llew a'r tarw yn curo eu hochrau pan fyddont yn ddigofus?—A. O herwydd fod mêr eu cefnau yn cyrraedd idd eu cynffonau, yr hon sydd ganddi y grym o ysgogiad ynddi; y mae y dychymyg fel hyn yn cydnabod yr hyn sydd adnabyddus iddynt, (megis pe byddai â'r llaw

fel y digwydd i ddynion) yn eu gyru i symud y gynffon. Mae hyn yn dangos yn eglur fod rhyw rym dirgel oddi fewn iddynt, yr hyn sydd yn cydnabod yr hyn a ddylent. Yn nigofaint llewod a theirw y mae natur yn cyd-synio â'r meddwl, ac yn peri iddo gael ei symmud yn fawr, megis ag y mae dynion weithiau pan y maent yn ddig, gan guro eu dwylaw ar fanau eraill; pan na all y meddwl ymddial ar yr hwn sydd yn niweidio, y mae yn ddioed yn chwilio allan am ryw ddyddanwch arall, ac yn gwellhau y dolur â dyrnod neu ergyd.

G. Pa ham, os rhoddir barlys llosgedig poeth ar archoll ceffyl, nad yw y blew sydd yn tyfu ar yr archoll yn wyn, ond yr un fath a'r blew arall?—A. O herwydd fod y grym o fwrw allan ynddo, ac am ei fod yn gyru ymaith ac yn toddi y llysnafedd, yn gystal a phob sylwedd difudd arall a gesglir ynghyd trwy wendid y rhanau, neu lymrigrwydd yr archoll.

G. Pa beth yw yr achos nad yw gwallt byth yn tyfu ar archoll neu eri?—A. O herwydd fod gan ddyn groen teneu, fel y gwelir wrth dewder ei wallt; ac os bydd y graith yn dewach na'r croen ei hun, y mae yn attal y mynedfeydd o'r rhai y dylai y blew dyfu. Mae gan feirch groen teneuach fel y mae yn eglur wrth eu blew tewion; gan hyny nid yw pob mynedfa yn cael ei hattal yn eu clwyfau a'u harchollion, ac ar ol i'r carthion a gasglesid ynghyd dori mynedfa trwy y tyllau bychain hyny mae y gwallt yn tyfu.

G. Pa beth yw yr achos fod y rhai hyny a frathir gan neidr, os byddant yn sychedig, yn ei dori trwy yfed triagl, yr hwn sydd yn boeth a sych?—A, Nid yw yn tori syched trwy ei

gynneddf ei hun yn unig, ond trwy ryw gydymdeimlad a chydsyniad o'r ddau du, a rheswm naturiol. Math o wenwyn cyferbyniol yw, a rhag-feddyginiaethol hefyd, gan ei fod wedi ei gyfansoddi o amrywiol fathau o lysiau ag sydd ganddynt ryw fath o gyfattebiad gyda phob rhan o'r corph; megis ag y mae i *dictamum*, *dittanger*, neu sinsir, gadwriaeth cyfartal â'r galon, tansi neu lysiau'r afu â'r afu, bys-redyn neu lysiau y garreg â'r ddueg, persli â safn y bol, isop â'r ysgyfaint, marchalan â llefnau y cefn, rhuw â'r gwddf, chwerwlys â'r ymenydd, a *filer montanum* â'r bledren. Mae pob un o'r rhai hyn, wedi eu tynu fel pe baî gyda melusder mêl, yn tynu yr hyn sydd oreu er diogelwch. Yn mysg y rhai hyn oll y mae gwaed rhai gwiberod yn gymysgedig, yn yr hyn y mae rhyw anfoddlonedd pennodol, yr hyn a alwn ni *andidotum*, peth gwrthwynebol i bob eynneddfau naturiol yn erbyn pob anifail gwenwynig a chreadur llygredig. Y rhai hyn wedi eu cyfranu i bob rhan, nid y'nt yn goddef i ddim weithio yr effaith lwnw ag a fygwth lygriad; o herwydd y maent yn gwrthsefyll fel y rhai hyny ag ydynt wedi cymeryd arfau er amddiffyniad eu gwlad.

G. Pa ham y mae tynghedfen (*fortune*) yn cael ei phaentio â thalcen dyblyg ganddi, ac un ochr yn foel a'r llall yn walltog?—A. Mae y moelni yn arwyddo adfyd; a gwalltogrwydd llwyddiant, yr hwn yr ydym yn ei fwynhau pan welo hi yn dda.

G. Pa ham y darfu i rai ganmol gweniaeth?—A. O herwydd fod gweniaeth yn gosod allan o flaen ein llygaid yr hyn a ddylem fod, er nad yr hyn ydym.

G. Am ba achos y dylai rhinwedd gael ei phaentio yn wregysedig?—A. I arddangos na ddylai dynion rhinweddol fod yn ddiog, ond yn ddiwyd, a bod bob amser mewn gweithrediad.

G. Pa ham y dywedai yr hynafiaid ei bod yn well cwympo dan awdurdod eigfran na gwenieithiwr?—A. O herwydd nad yw eigfrain yn ein bwytta nes y byddom feirw, ond y mae gwenieithiwr yn ein gwangcio yn fyw.

G. Pa ham y mae gan ddynion gerïog farfau o flaen eraill?—A. O herwydd eu bod yn wresog, a'u chwysdyllau yn fawrion.

G. Pa fodd y mae fod y rhai y mae yr igian arnynt yn esmwythau eu hunain trwy ddal eu hanadl?—A. Y mae yr anadl a ddelir yn ol yn gwresogi rhanau tufewnol y corph, ac y mae yr igian yn deilliaw o oerni.

G. Pa fodd y mae hen bobl yn cofio yr hyn a welsant ac a wnaethant yn eu hieuengctyd yn dda, ac yn anghofio y cyfryw bethau ag a welant ac a wnant yn eu henaint?—A. Y mae y pethau a ddysgir yn ieuangc yn cymeryd gwraidd a greddf-duedd dwfn mewn dyn, ond y mae y rhai hyny a ddysgir mewn oedran yn cael eu hanghofio, o herwydd fod y synhwyrau y pryd hwnw wedi eu gwanhau.

G. Pa fath gybydd-dod yw'r goreu?—A. Y cybydd-dod hwnw o eiddo amser, pan fyddo yn cael ei roddi ar waith fel y dylai.

G. Pa ham y cydmerir ein bywyd i chwareu-lofft.—A. O herwydd fod yr anonest yn meddiannu lle y gonest a'r fath waethaf le y da.

G. Pa ham y mae mor-hwch (*dolphin*) pan ymddangoso uwchlaw y dwfr, yn dynodi ystorm neu dymhestl?—A. O herwydd fod yn cyfodi o

waelod y môr, ar ddechreuad tymhestl, ryw fath o darthiadau ac ageriadau poethion, y rhai ynt yn gwresogi y mor-hwch, gan beri iddo gyfodi i fynu i gael awyr oer.

G. Paham y galwai y Rhufeiniaid gynt *Fabius Maximus* yn darian y bobl, a *Marcellus* yn gleddyf?—A. O herwydd ddarfod i'r naill gymhwyso ei hun i wasanaeth y wladwriaeth, ac fod y llall yn dra awyddus i ddial niweidiau ei wlad; ac etto yn y senedd yr oeddynt yn unedig, o herwydd y byddai i ddwyster cymhedrol y naill gymedroli dewrder ac ëonder y llall.

G. Pa ham y mae disgleirdeb y lleuad yn niweidio y pen?—A. O herwydd eu bod yn symud gwlybyrau yr ymenydd, ac na all wedi hyny eu toddi.

G. Os nad yw dwfr yn maethu, pa ham y mae dynion yn ei yfed?—A. O herwydd fod dwfr yn peri i'r lluniaeth ymdaenu trwy'r corph.

G. Pa ham y mae tisian yn dda?—A. O herwydd ei fod yn carthu yr ymenydd, megis ag y carthir y llaeth gan y peswch.

G. Yn mha le y mae anneddle serchiadau yn y corph?—A. Mae llawenydd yn trigo yn y ddueg, digofaint yn y bustl, ofn yn y galon, ac anlladrwydd yn yr afu.

G. Pa beth yw yr achos fod dwfr poeth yn ysgafnach na dwfr oer?—A. O herwydd fod llai o agerfa (*ventosity*) mewn dwfr berwedig, ac y mae yn ysgafnach ac yn fwy treiddgar, gan fod y sylwedd daearyddol a thrwm wedi eu gwahanu o hono.

G. Pa fodd y mae dwfr llyniau a chorsydd yn yfod yn ddrwg?—A. O achos eu bod yn llysnafeddawg, ac yn llygru yn yr hâf; y mae pur-

der y dwfr yn troi yn ageriadau, ac y mae y daearolrwydd yn aros.

G. Pa ham y mae dynion myfyriol a dysgedig yn foel yn gynt nag eraill?—A. Y mae yn deillio oddiwrth wendid yr ysprydoedd, neu o herwydd fod poethder treuliad yn peri i lysnafedd fod yn helaeth ynddynt.

G. Pa ham y mae llawer o golli cysgu yn gwneuthur yr ymenydd yn eiddil?—A. O herwydd ei fod yn ychwanegu geri, yr hwn sydd yn sychu ac yn lleihau y corph.

G. Pa ham y mae gwydrau dur yn well i'r golygon nag un math arall?—A. O herwydd fod dur yn galed, ac y mae yn cyflwyno yr awyr ag sydd yn derbyn y goleuni i ni yn fwy sylweddol.

G. Pa fodd y mae cariad yn dangos ei rym mwyaf, trwy wneuthur i'r ffŵl ddyfod yn ddoeth, neu y doeth fyned yn ffŵl?—A. Trwy gyfrif doethineb iddo ef, yr hwn nad ydyw ganddo; canys anhawsach yw adeiladu na thynu i lawr; a chariad cyffredin a ffolineb nid ydynt ond newidiad y meddwl.

G. Pa fodd y mae llawer o lafur a lludded yn ddrwg i'r golwg?—A. O herwydd ei fod yn sychu y gwaed yn ormodol.

G. Pa ham y cyfrifir mai llaeth gafr yw y goreu i'r cylla?—A. O herwydd ei fod yn dew: ac heb fod yn lleidiog; ac y maent yn ymborthi ar greigiau a choed yn hytrach na gwelltglas.

G. Pa ham y mae gofid a blinder yn dwyn pen llwydni?—A. O herwydd eu bod yn sychu, yr hyn sydd yn dwyn allan lwydni.

G. Pa fodd mai hwynt-hwy y rhai y mae ganddynt y gwaed tewaf ydynt y rhai llawenaf?

—A. O herwydd fod y gwaed ag sydd fras a thew yn gwneuthur yr ysprydoedd yn gadarn a sefydlog, yn y rhai y mae grym pob creadur yn gynnwyscdig.

G. Pa un yw yr anhawsaf ai caffael cariad un, ynte ei gadw wedi ei gaffael?—A. Ei gadw yw yr anhawsaf, o achos anwadalwch dyn, yr hwn a ddigia yn fuan, ac wedi blino ar beth yn fuan, anhawdd idd ei enill a llithrig idd ci gadw.

G. Pa ham y mae seirph yn cilio rhag y llysieuyn rhuw?—A. O herwydd eu bod yn oer, sych, ac yn llawn o gïeuynau, ac y mae y llysieuyn hwnw o natur wrthwyneb.

G, Pa ham y mae capwllt yn well idd ei fwyta na cheiliog?—A. O herwydd nad yw capwllt yn colli ei leithder trwy sathru yr ieir.

G. Pa ham y mae ein harogliad yn llai yn y gauaf nag yn yr hâf?—A. O herwydd fod yr awyr yn dew, ac heb fod mor symudol.

G. Pa ham y mae y gwallt yn llosgi mor gyflym?—A. O herwydd ei fod yn sych ac yn oer.

G. Pa ham y cydmarir cariad i fach-drofa? (*labyrinth*)—A. O herwydd fod y dyfodiad i mewn yn hawdd, a'r mynediad allan braidd yn anmichonadwy, neu dra anhawdd.

# CYMMUN-RODD OLAF

# *ARISTOTLE:*

YN CYFLAWN EGLURO DIRGELION NATUR YN NGHENEDLIAD DYN.

## Y BEDWAREDD RAN.

### Yr Arweiniad i mewn.

WEDI i Ben-saer Hollalluog y byd ffurfio y nefoedd yn y dechreuad, a gosod sylfaen y ddaear, a chreu byd teg a harddwych allan o bentwr anghelfydd a chymysgedd didrefn, ac wedi iddo trwy ei air galluog ddwyn i fodoliaeth yr holl amrywiol rywiau o bethau tyfol, ac anifeiliaid, a rhoddi hyd yn nôd i blanhigion a llysiau hâd ynddynt eu hunain er dwyn allan eu hamrywiol rywiau neu ffurf; ac i anifeiliaid (pa rai a greodd efe yn wrryw ac yn fenyw) y gallu i genhedlu eu rhywiau, ac wedi iddo addurno y byd gyda'r holl addurniadau harddwych hyny ag y darfu idd ei ddoethineb perffeithiedig, a'i ddaioni eu tybied yn gymmwys ac yn ofynol i'r lletywr rhyfeddol a fwriadai efe ei ddwyn iddo, yn ddiweddaf efe a grëodd ddyn, mal byd bychan, neu y byd lleiaf i fod yn arglwydd y byd mwyaf hwn, nid gydâ gair noeth yn unig, fel y gwnaeth efe y gweddill o'i greaduriaid, ond, fel pe b'ai, efe a alwodd gyngor ei Drindod sanctaidd o'i ddeutu, gan ddywedyd, "Gwnawn ddyn ar ein delw ni, wrth ein llun ein hunain," &c.

fel yr hyspysa yr hanesydd dwyfol: fel ag y mae dyn, yn ei ddechreuad, yn belydryn o'r Duwdod, a gwir anadl yr Hollallnog; a chan hyny dywedir "Duw a anadlodd yn ei ffroenau, a'r dyn a aeth yn enaid byw." Wedi i ddyn fel hyn gael ei greu, a'i wneuthur yn arglwydd y byd, yr oedd ganddo ynddo ei hun, ar y cyntaf, y ddau ryw; canys y testyn a ddywed i mi, "Yn wrryw ac yn fenyw y creodd efe hwynt." &c. Ond eto, hyd oni wahanwyd Adda, yr oedd efe o hyd yn unig: er fod gan bob creadur byw arall gymar, nid oedd ganddo ef yr un, er mai efe oedd arglwydd y cwbl; fel yr oedd yn ymddangos yn annedwydd Ymharadwys ei hun, gan ei fod mewn diffyg o gynnorthwy neu ymgeledd cymhwys; a chan hyny ei Wneuthurwr haelionus, gan benderfynu ei wneuthur yn gyflawn ddedwydd, a'i gwahanodd ef oddiwrtho ei hun, fel trwy gysylltiad mwy cyfattebol y gellid ei uno â'i hunan drachefn; ac felly o ran o hono ei hun y ffurfiwyd Efa, yr hon, gan na welsid erioed mo honi gan Adda, a alwodd efe yn ddioed, trwy gydymdeimlad natur, yn "asgwrn o'i asgwrn, a chnawd o'i gnawd." Ac wedi i Adda fel hyn gael allan gymar cynnorthwyol wedi ei rhoddi iddo gan ei Greawdwr, daeth yn awr yn gyflawn ddedwydd; ac wedi ei fendithio gan yr Hollalluog, rhoddwyd ei gyfraith hefyd iddo i ffrwytho ac amlhau, gan ei fod ef wedi ei gynnysgaeddu â thueddiad naturiol i hyny, a'r fenyw a chanddi allu cenhedlyddol wedi ei roddi iddi gan natur er ffurfiad yr anelwig ddefnydd. Y tueddiad naturiol hwn o eiddo y rhywiau at y naill y llall, gyda gallu cenhedlyddol natur, nid yw ddim ond effaithiolaeth bendith a gor-

chymyn cyntaf yr Hollalluog, a pha un, hyd y dydd hwn, sydd yn dal i fynu y byd.

Dirgelwch cenhedliad y dernyn ardderchoccaf hwnw o'r greadigaeth, sef dyn, a dadblygiad y gallu cenhedlyddol yn ngweithrediadau dirgel cenhedliad, a ffurfiad had yn y groth ydoedd testyn y traethawd rhagflaenol; testyn mor angenrheidiol idd ei wybod gan y rhyw fenywaidd oll (gan mai beichiogiad ac ymddwyn ar blant yw yr hyn ag y mae natur wedi ei ordeinio yn swydd iddynt hwy) fel y mae llawer, o ddiffyg gwybodaeth o hyny, yn trengu, ynghyd â ffrwyth eu bru hefyd, pa rai, pe buasent ond yn deall cyfrinach cenhedliad, a osodir allan yn y llyfr hwnw, a allasent fod eto ar dir y byw.

Gan hyny i wasanaeth y cyfryw y cyfansoddwyd y traethawd hwn a'r rhai blaenorol; yn mha le y mae, nid yn unig ddirgelion cenhedliad yn cael ei egluro, a dirgelion anamlwg natur yn cael eu gwneuthur yn hyspys, ond y mae attaliadau a rhwystrau cenhedliad yn cael eu cyhoeddi, a meddyginiaethau priodol rhag pob diffygion perthynol i'r groth yn cael eu pennodi yn y modd llawnaf.

---

## Pen. 2.

Am Forwyndod, pa beth yw, ei Arwyddion a'i Nodau; a pha fodd y gall dyn wybod pa un ai yw efe yn priodi Gwyryf ai peidio.

MAE Gwneuthurwr mawr y bydysawd, yr hwn sydd yn rhoddi i bob creadur fywyd a bodoliaeth, a gallu ynddynt eu hunain i genhedlu eu rhyw, hyd yn nod hyd ddiwedd y byd, i'r

dyben hwnw wedi eu creu yn wrryw a benyw; a'r ddau hyn o naturiaethau a chynneddfau gwrthwynebol; eanys yn y pâr ardderchog hyn, sef mab a merch, mae y dyn yn frwd a syeh, y fenyw yn oer a llaith; ae y mae y cynneddfau gwahanol hyn, gan gael eu huno, wedi eu hordeinio gan natur er cenhedliad plant; hâd y mab yw yr aehos effeithiol, a chroth y fenyw yw maes cenhedliad, ymha un y mae yr hâd yn cael ei faethu, a'r anelwig ddefnydd feiehiogi arno a'i ffurfio, ae mewn amser dyledus ymddygir arno.

Yn gymaint ynte a bod gan fenyw gymaint rhan yn nghenedliad dyn ymdreehaf ddangos pa fodd y mae natur wedi ei chymhwyso iddo, ac o herwydd mai adnabyddiaeth o afiechyd (bydded ef y peth y b'o) yw haner y feddyginiaeth, yr wyf eisoes, mewn rhan flaenorol o'r gwaith hwn, wedi rhoddi desgrifiad llawn o'r amrywiol ranau neu aelodau cenhedliad; fel y galler, unrhyw amser, os bydd unrhyw ranau neu aelodau yn cael en blino neu yn anhwylus, ei gywiro yn gynt.

Ac yn gymmaint ag mai cyflwr cyntaf benyw yw morwyndod; wrth draethu am dano dangosaf yn gyntaf pa beth yw, ac yna gosodaf i lawr rai arwyddion a nodau o hono, trwy yr hyn y gellir ei adnabod.

Morwyndod yw ymffrost a balehder y rhywogaeth hawddgar, er eu bod yn gyffredin yn ei ganmol idd ei roddi ymaith, ac fel y gallont gael gwŷr da yn gynt, a thrwy hyny ei golli: a meddyliaf fi eu bod ar yr iawn yn hyny; o herwydd os cadwant ef yn rhy hir y mae yn myned yn ddifudd, neu o leiaf yn lleihau llawer

yn ei werth; gan yr edrychir ar hen wyryf (os oes rhai o'r cyfryw) fel hen *Almanac*, allan o amser. Morwyndod yw y penaf, y goreu, y rhagoraf o unrhyw beth, ac efe yn briodol yw onestrwydd dirgeloedd benyw, heb gael ei halogi gan ddyn, ac yn anadnabyddus iddo, gan mai perchenogaeth neu briodoldeb gwyryf yw bod heb adnabod dyn. Ond i ddyfod ychydig yn nes, y mae math o gyfansoddiad dibynaidd yngwddf crothau gwyryfon ieuaingc, a elwir yr *hymen*, yr hwn sydd fel blagur rhosyn wedi haner flodeno, a thorir hwn yn y weithred gyntaf o ymrëad gyda dyn, ac oddiwrth hyny y daeth y gair *defloro*, neu diforwyno, o herwydd fod cymmeryd ymaith forwyndod yn cael ei alw diforwyno gwyryf; o herwydd pan fyddo y rhôs-flagur hwn wedi ymledu, y mae morwyndod wedi hollol golli.

Sicr yw fod yno ryw beth, yn y weithred gyntaf o ymrëad, ag sydd yn achos o boen a gwaediad, yr hyn sydd arwydd eglur o forwyndod; ond pa beth yw, nid ydyw awdwyr yn cyduno: rhai a ddywedant mai pilionen gewynog yw, neu groen teneu, gyda gwythienau bychain, y rhai ydynt yn gwaedu ar dreiddiad cyntaf y wialen; eraill a ddywedant mai pedwar carbwncl yw, neu ddarnau o gig, neu ryw flagur bychain fel grawn myrtwydd, ac y mae y rhai hyn yn dew a llawn mewn gwyryfon, ond yn crgoi yn rhydd a llippa yn y rhai hyny ag ydynt wedi arfer ymrëad cnawdol, gan eu bod wedi eu gwasgu gan y wialen; sylwodd rhai fod cylch cigog o ddeutu y *nymphæ*, neu wddf y groth, gyd ag ychydig o wythienau aneglur, yr hyn sydd yn gwneuthur i'r bilionen, nid i fod yn ewynog, ond yn gigog.

Diamheuol yw nad ydyw y rhan hono sydd yn derbyn y wialen yr un fath mewn benywod ag a fuont yn gorwedd gyda dyn, ag ydyw mewn gwyryfon; ac etto nid yw yr un fath yn mhawb, yr hyn sydd wedi peri y gwahaniaeth barnau hyny ymysg awdwyr a difynwyr, canys ni cheir hyn yn mhob gwyryf. Gall gormodedd o chwant, neu ddymuniad am ddyn, mewn rhai, dori yr *hymen*, neu *claustrum virginale*. Weithiau, pan fyddo ysfa arno, y maent yn rhoddi eu bys i mewn, ac felly yn ei dorri; ac weithiau y mae y fyd-wraig yn ei dorri yn yr esgoriad. Weithiau gwneir hyny trwy attaliad y pision, peswch, trais, ymorchestu, neu disian; a chan hyny oni bydd yno waediad ar dreiddiad cyntaf y wïalen, nid yw bob amser yn arwydd o anniweirdeb; ond lle byddo gwaediad, prawf diamheuol yw o forwyndod.

Crybwylla *Leo Africanus* am arferiad o eiddo yr Affricaniaid yn eu priodasau, yr hwn ydoedd hyn; Ar ol eu priodi, cauid y priod-fab a'r briod-ferch i fynu mewn ystafell, tra byddai y ciniaw priodas yn cael ei baratoi; a safai hen wraig wrth ddrws yr ystafell, i dderbyn gan y priod-fab gynfas, ac arni nodau gwaedlyd morwyndod y wraig, yr hon a ddangosai hi yn fuddugoliaethus i'r holl osbion (*guests*,) ac yna gwleddent ynghyd gyda llawenydd; ond os na byddai dim gwaed idd ei weled, anfonid y briod-ferch adref at ei chyfeillion gyda gwarth, ac elai y gwahoddedigion siomedig adref yn athrist heb eu ciniaw. Ond, er yr arferiad Affricanaidd, hónaf, ddarfod i rai gwyryfon gonest golli eu morwyndod heb waedu; a chan hyny, nid ydynt idd eu beio, fel y gwna llawer

o ddynion anwybodus, y rhai, o ddiffyg y nôd hwn, ydynt yn achos idd eu gwragedd arwain bywyd anghysurus drwy eu holl ddyddiau; mae y coegyniaid hyny (er nad gwàn-wŷr neu gwcwalltiaid) yn dychymmygu fod ganddynt gyrn ar eu penau pan nad yw felly.

Rhai a gymerant gyfyngedd y dirgeloedd yn arwydd o forwyndod, ond nid yw hon yn rëol sicr; canys y mae llawer yn ymddibynu ar yr oedran, ansawdd corph, ac amgylchiadau eraill; er na ellir llai na chydnabod, nad yw benywod ag ydynt wedi arfer ymrëad cnawdol mor gyfyng a gwyryfon, etto ni all hyn fod yn rheswm dilys o forwyndod: canys ar ol gweithredoedd ail-wneuthurol o gyd-gnawd, gall y dirgeloedd gael eu gwneuthur mor gyfyng trwy arfer cyffuriau bolrwymol, fel y gellir cymeryd putain weithiau am wyryf; a chrybwylla *Culpepper* am fenyw ag oedd wedi priodi, yr hon, gan chwenych ymddangos yn wyryf, a arferodd fâdd o wreiddiau glesyn y coed, trwy yr hyn y twyllodd y rhai oedd ganddynt i ymwneud â hi.

Mae rhai a gymerant laeth yn y *brestiau* yn arwydd o fod morwyndod wedi ei golli, heb ystyried fod llaeth dyblyg, y naill o wyryfon, yr hwn sydd afiechyd gwrthwyneb i natur, y llall yn naturiol; y cyntaf a wneir o waed yr hwn na all fyned allan o'r groth, ac felly y mae yn myned i'r *brestiau*, yr hwn nid yw ddim ond maeth gorddigonol a droir yn llaeth trwy alluedd y *brestiau*, heb adnabyddiaeth o ddyn; y llall nid yw ond yn unig pan fyddo plentyn naill ai yn y groth neu wedi ei eni; etto y mae y llaeth yn gwahaniaethu yn fawr iawn yn mherthynas i'r gwaed a'r amrywiaeth gwythienau sydd yn dyfod

ag ef i'r *brestiau*; ac er fod y naill a'r llall yn wŷn, etto hwnw o eiddo gwyryfon yw y teneuaf, a'r lleiaf mewn swm; ychwaith nid yw mor felus. A chan hyny, os digwydd fod gan wyryfon laeth, nid ydynt o herwydd hyny idd eu cyfrif yn anniwair.

Ar y cyfan, pan brïodo dyn, ac y cenfydd yr arwyddion o forwyndod ar ei wraig ar orwedd gyda hi, y mae ganddo bob rheswm yn y byd i ymfoddloni ei fod wedi prïodi gwyryf; ond, os i'r gwrthwyneb, nad yw yn eu canfod, nid oes ganddo un achos i'w drwg-dybio o anniweirdeb, megis pe nad gwyryf yw, yn gymaint ag y gall yr *hymen*, neu *clastrum virginale* gael ei dorri felly lawer ffordd arall, ac etto i'r fenyw fod yn ddiwair a dihalog.

Tybiais fy hun yn rhwym i ddywedyd cymaint a hyn, yn y dechreu, ar y rhyw fenywaidd, y rhai yn fynych a ddrwg dybir, ac a gyhuddir o anonestrwydd, pan nad oes achos am hyny.

---

## Pen. 2.

Pa beth a ddylai Benyw ei wneuthur, mewn trefn i Feichiogi.

RHAID i fenywod ag ydynt yn chwennych cael plant, mewn trefn i hyny, roddi eu hunain i fynu i ymarferiad cymedrol; canys y mae segura a diffyg ymarferiad yn elynion mawr iawn i waith cenhedliad; a chenfydd y rhai hyny a sylwant arno, nad oes gan *feistressi* ein dinasoedd, y rhai ydynt yn byw yn uchel, ac

heb wneuthur dim, ond anfynych blant, neu os bydd ganddynt, anfynych y maent yn byw; ond am y benywod tylodion, y rhai ydynt yn ymarferyd â llafur, y mae ganddynt lawer o blant, a'r rhai hyny yn gorphol a heinif. Ac ni raid i ni ryfeddu wrth hyny, os ystyriwn y lles sydd yn dyfod oddiwrth ymarferiaid a llafur cymmedrol; o herwydd y mae agor y chwysdyllau yn bywiocâu yr ysprydoedd, yn cynhyrfu y gwres naturiol, yn cryfhau y corph, y synhwyrau, a'r ysprydoedd, yn dyddanu yr aelodau, ac yn cynnorthwyo natur yn ei hymarferiadau, o'r hyn nid cenhedliad plant ydyw y lleiaf.

Yn nesaf at ymarferiad cymmedrol rhaid iddi ochelyd pob dull o anfoddlonrwydd, a'r achos o hono; canys gelyn mawr i feichiogiad ydyw anfoddlonrwydd, ac y mae boddlonrwydd a llonyddwch meddwl yn gymmaint cyfeillion iddo; canys y mae boddlonrwydd yn lledu y galon a'r rhydweliau, trwy yr hyn y mae y gwaed bywydol neu yspryd yn cael ei gyfranu yn ddigonol trwy yr holl gorph; ac o hyny y mae yn cyfodi y cyfryw serchiadau ag ydynt yn boddhau, yn adfywio, ac yn diluddedu natur dyn, megis llawenydd, cariad, llonder, &c. Ac nid yn unig cysuro a chryfhau y corph y mae, ond hefyd y mae gweithrediadau a dychymygion y fam yn gweithio yn rymus feichiogiad y plentyn; a chan hyny dylai benywod fod yn dra gofalus am idd eu dychymmygion fod yn bur a glân, fel y byddo idd eu plant gael eu hiawn lunio.

Peth arall a ddylai benywod ei wneuthur, mewn trefn er beichiogiad, ydyw cadw y groth

mewn trefn dda; ac i'r dyben hwn, edrycher am fod y mis-lifiadau yn dyfod i lawr mal y dylent: os byddant yn ddrwg eu lliw, yna y maent allan o drefn, ond os bydd y gwaed yn dyfod i lawr yn bur, yna bydd benywod yn dra chwannog i feichiogi ar blentyn, yn enwedig os arferant ymread ddiwrnod neu ddau ar ol idd eu mis-lifiadau beidio.

Peth arall a ddylai benyw a fynai feichiogi sylwi arno, ydyw, na byddo iddi arferyd y weithred o ymread yn rhy fynych; canys y mae arddigonedd yn gorlenwi y groth, ac yn ei gwneuthur yn anghymwys i wneud ei swydd. Mae dau beth ag sydd yn profi hyn; un peth yw, nad oes gan butteiniaid cyffredin (y rhai ydynt yn arfer ymread yn fynych) ond yn anfynych blant; y peth arall ydyw, fod y benywod hyny, gwŷr y rhai a fuont yn absennol yn hir, yn beichiogi yn dra chyflym ar ol eu dychweliad.

Ac hefyd dylai amser ymread fod yn gyfleus, fel na all fod yno unrhyw ofn neu ddyfodiad disymwyth attynt, canys y mae ofn yn attal beichiogiad.

Ac yna bydded i amser ymread fod yn naturiol, ac nid cael ei gyffroi gan bethau cynhyrfiol; a deliwch sylw hefyd mai po fwyaf a fyddo chwant benyw i ymread, mwyaf darostyngedig ydyw i feichiogi.

Y mae'r ehedfaen a'i gario oddeutu benyw, yn peri nid yn unig feichiogiad, ond cydgordiad rhwng gŵr a gwraig.

## Pen. 3.

Pethau ag ydynt angenrheidiol i Fenywod i sylwi arnynt ar ol Beichiogiad.

MAE benywod yn dra darostyngedig i erthylu yn y ddau fis cyntaf ar ol beichiogiad, o herwydd fod y rhwymynau y pryd hyny yn wán, ac yn hawdd idd eu tori. I'r dyben o attal pa beth, bydded i'r fenyw yfed llwngc da o gwrw *saeds* bob bore, a gwna iddi helaethrwydd o ddaioni.

Ond os bydd arwyddion o anffyniant neu erthyliadau yn ymddangos, bydded iddi osod *tost* wedi ei drochi mewn goreth, oni ellir cael *muscadel,* wrth ei bogail, canys y mae hyn yn dda iawn; neu gymmered ychydig o dansi gardd, ac wedi ei ysigo, ei ysgentio â *muscadel,* a'i gymhwyso at y bogail; a hi a'i cenfydd yn llawer gwell. Hefyd y mae tansi wedi ei fwydo mewn cwrw, mal cwrw *saeds,* ac yfed llwngc o hono bob bore, yn dra rhagorol i'r cyfryw fenywod ag ydynt yn ddarostyugedig i erthylu; hefyd cymmerwch sudd tansi, gloywwch ef, a bydded i'r fenyw gymmeryd llwyaid neu ddwy o hono; yn y cyfryw amgylchiadau bydd yn rhag-feddyginiaeth rhagorol rhag erthyliadau.

Hefyd, bydded yr awyr yn dymherus, cwsg yn gymhedrol, gocheler colli cysgu, ac ymarferiad anghymedrol, ynghyd a nwydau cyffrous, dadwrdd uchel, a drwg arogliadau; a bydded iddi ymgadw oddiwrth bob peth ag a allant gyffroi naill ai y pision neu y mis-lifiadau, ac hefyd oddiwrth bob bwydydd surion a gwyntog; a chadwer at luniaeth cymmedrol.

Os bydd carthion y coluddion yn cael eu dal yn ol, lliniarwch y bol gyda chwistrell-feddyginiaethau wedi eu gwneuthur o ddyferwad hoccys, crinlys, gyda siwgr ag olew cyffredin; neu gwnewch gawl o dafod yr ŷch, *beets*, hoccys, a chymerwch ynddo ychydig fanna. Ond i'r gwrthwyneb, os bydd yn cael ei blino gan rydd-der y bol, na attalier ef heb farn meddyg; canys y mae cynneddf ddrygiog mewn hên ddylifiadau crothog, y rhai a raid eu harloesi a'u symud cyn i'r dylifiadau beidio.

---

## Pen. 4.

Am Hyfrydwch a Budd Priodas, yr anghyfaddasrwydd o Briodasau anghyfartal.

HYD yn hyn yr ydym wedi bod yn traethu am genhedliad dyn, yr hyn a effeithir gan fab a merch yn y weithred o ymread. Ond ni ellir gwneuthur hyn yn gyfreithlon ond gan y rhai hyny ag ydynt wedi eu huno ynghyd mewn priodas, yn ol sefydliad y Creawdwr Y'mharadwys, pan ddaeth mab a merch ynghyd gyntaf; yr hyn, gan ei fod felly, sydd o angenrheidrwydd yn ein harwain i draethu am hyfrydwch a budd bywyd dyweddiol.

Ac yn ddiau nid oes neb, ond iddynt adfyfyrio ar ei Hawdwr, ac ar amser a lle ei sefydliad, a amheuant bleser a budd bywyd dyweddiol. Nid oedd Awdwr a Sefydlwr priodas yn neb amgen nag Arglwydd mawr yr holl fydysawd, Creawdwr nef a daear, doethineb yr hwn sydd anfeidrol, a chan y gwyddai ef pa beth oedd oreu i ni,

a daioni yr hwn sydd gyfartal i'w ddoethineb, a chan hyny sefydlodd briodas, fel yr hyn ag ydoedd oreu i'r dyn yr oedd newydd ei greu, a'r hwn a edrychai efe arno fel yn fyr o'r dedwyddwch cyflawn hwnw y bwriedid ef ganddo iddo, tra yr oedd yn unig, ac heb gymar wedi ei darparu iddo.

Nid yw amser ei sefydliad yn llai nodedig; tra yr oedd ein rhieni wedi eu gwisgo â'r purdeb gwyryfol a'r diniweidrwydd hwnw yn yr hwn y crewyd hwynt y bu; bu mewn amser yn yr hwn ŷr oedd ganddynt gyfeillach a chydundeb bendigedig a dirwystr gydâ'u Creawdwr mawr, a phan oeddynt yn gyflawn yn holl berffeithiadau meddwl a chorph, gan mai ei ddelw fywiol Ef a'u creodd oedd ganddynt; bu mewn amser pan y gallent ardremio yn gywrain ar amrywiol degwch a pherffeithiadau y naill y llall pan heb bechod, a phan na wyddent pa beth oedd chwant: yn yr amser dedwydd hwn y darfu i'r Hollalluog wahanu Adda oddiwrtho ei hun, ac o asen gam gwnaeth gymar iddo; a thrwy sefydlu priodas, unodd ef ag ef ei hun drachefn yn rhwymynau santaidd priodas. A rhaid fod hyn yn llefaru yn dra uchel mewn canmoliaeth o fywyd priodasol.

Ond ni wnaethom yn gyntaf ond yn unig ystyried yr amser; yn awr ystyriwn yn nesaf pa le ydoedd yn yr hwn y rhwymwyd y cwlwm priodasol hwn gyntaf, a chawn allan mai Paradwys oedd; lle a luniwyd gan y Creawdwr mawr er difyrwch a phleser, ac yn ein priod-iaith ein hunain, pan fynem ddangos y boddlonrwydd mwyaf ydym yn ei gael, a rhoddi y ganmoliaeth fwyaf i le, ni allwn esgyn yn uwch na hóni ei

fod *fel Paradwys.* Y mae llawer o ddanteithion a phethau difyr cywraint i foddio y llygaid a swyno y glust yngerddi tywysogion a phendefigion, ond Paradwys yn sicr a ragorodd arnynt oll; rhodda yr Ysgrythyr Sanctaidd y clod uchel hwn iddi, "Yr oedd yn hyfryd fel gardd yr Arglwydd?" Ynghanol y Baradwys hon, pa fodd bynag, canolbarth hyfrydwch a happusrwydd, yr oedd Adda yn annedwydd tra mewn cyflwr unigol; a chan hyny priodol iawn y gellir galw priodas yn Baradwys Paradwys ei hun.

Dangosaf i chwi gariad gwraig dda at ei gŵr, mewn engraifft hynod o frenhines o'n cenedl ein hunain mewn amseroedd blaenorol.

Y Brenin Iorwerth y Cyntaf, pan aeth i *Palestina*, er enill yn ol y Tir Sanctaidd, yn mha hynt filwraidd yr oedd yn dra buddugoliaethus a llwyddiannus, a gymerodd ei frenhines gydag ef, yr hon yn ewyllysgar a gydymdeithiodd gyd âg ef trwy yr holl beryglon y gwnaeth ei hun yn agored iddynt. Digwyddodd, ar ol amryw fuddugoliaethau a enillwyd ganddo, yr hyn a wnaethiddo gael ei fawr garu a'i ofni, iddo gael ei glwyfo gan un o'r Tyrciaid gydâ saeth wenwynig, yr hwn y darfu i holl feddygon y brenin ei benderfynu yn farwol, oni wnelai rhyw greadur dynol sugno ymaith y gwaed gwenwynig allan o'r clwyf; ar yr un amser ardystiasant y byddai yn angau i'r neb a'i gwnelai. Ar hyn cynnygiwyd y peth i amryw o wyr y llys, ond hwy oll a adawsant heibio y dernyn peryglus hwn o ffyddlondeb brenhinol; yr hyn, pan ganfu y frenhines y byddai raid i'r brenin farw o ddiffyg y fath gynnorthwy caredig, hi, gyda dewrder teilwng o honi ei hun, a ardystiodd ei bod wedi

penderfynu cymeryd arni y gwellhad, ac i anturio ei bywyd ei hun i achub y brenin ei gŵr; ac felly yn ganlynol hi a sugnodd y sylwedd gwenwynig o'r clwyf, a thrwy hyny achubodd y brenin; a darfu i'r un Rhagluniaeth Ddwyfol ag a'i hysbrydolodd hi â'r bwriad haelionus, ei chadw rhag y perygl ymddangosiadol, mal gwobr am ei serch.

Ond yr hyn sydd yn gwneuthur priodas yn fath *formo* a'r fath hudwg i'n coegyniaid difeddar, yw y canlyniad annedwydd hyny ag ydynt yn rhy fynych yn gydfynedol â hi; canys nid oes ond ychydig ag ydynt yn gweled y ffaglau drwg-argoelus ag y mae *Hymen* yn eu goleuo ymhob priodas, pa ddwylaw anffodiog sydd yn cyd-fachu yn y fodrwy briodas, dim ond ofnau ac ymrafaelion, anffyddlondeb, a drwg-dybiadau; melldith mor greulon, neu ynte anffrwythlondeb, ydynt yr holl fendithion ag sydd yn coroni gwely priodas llawer. Ond nid priodas sydd i'w beio am hyn: nid yw y pethau hyn ond yn unig effeithiau priodasau dirgymelliadol ac anghyfartal. Pan gyd-ieua rhieni trachwantus, er mwyn cyfoeth, ferch ag na byddo o'r braidd yn ddwy-ar-bymtheg, â hen gybydd ag sydd uwchlaw triugain; a all rhyw un ddychmygu y gall y fath gysylltiad byth roddi boddlonrwydd, lle y mae tueddiadau mor wrthwynebol a misoedd Mehefin a Ionawr i'w gilydd. Mae hyn yn gwneuthur i'r fenyw (yr hon o hyd sydd ag eisiau gŵr arni, canys nid yw yr hen gybydd braidd yn gysgod o un) naill a'i i ddymuno, neu, fe allai, i drefnu a dyfeisio ei angau ef; â'r hwn y mae ei rhieni fel hyn, yn erbyn ei dymuniad, wedi ei hieuo; neu ynte, i foddhau ei thueddiadau naturiol, y

mae hi yn ymdaflu i freichiau cariad anghyfreithlon: y naill a'r llall o ba rai a allesid eu rhagflaenu, pe buasai y rhieni gwangcus anystyriol wedi darparu cymar cyfaddas iddi. Engraifft alarus o ba wirionedd yw yr hyn a ganlyn:

Yr oedd yn byw yn swydd *Warwick* ŵr bonheddig cyfoethog, yr hwn, gan ei fod yn heneiddio, ar farwolaeth ei wraig gyntaf, a feddyliodd briodi ei fab a'i etifedd, y pryd hyny yn ei oed, â merch i fonheddig cymydogol, o deulu anrhydeddus a chyfoethog, yr hwn a gymeradwyodd y cynnygiad, ac a gydunodd i roddi pum' mil o bunnau i'w ferch ar ei phriodas â'r bonheddig ieuangc. Cyn gynted ac y cafodd y tad olwg ar y foneddiges ieuangc, gan anghofio ei fab, efe a ddaeth yn ymgeisydd trosto ei hun; ac i'r dyben o'i chael, efe a gynnygiodd gymaint o arian am dani (heblaw sefydlu cynysgaeth dda iddi) ag a addawsai efe gyda hi i'w fab. Y cynnygiad haelionus hwn a weithiodd i'r fath raddau ar dad y ferch ieuangc, fel trwy ddarbwyllion a bygythion y dirgymellodd efe ei ferch (yr hon oedd anewyllysgar) i briodi yr hên ŵr bonheddig. Ond gan ei bod wedi cael ei dirgymell i'r cyd-ieuad anghyfartal hwn, ni bu byth yn byw yn foddlon gydag ef; canys a'i serchiadau yn crwydro ar ol dynion eraill, hi a roddodd dderbyniad i ŵr bonheddig ieuangc o 21 oed, yr hwn a hoffai hi yn llawer gwell na'i gŵr, gan ei fod yn fwy cyfaddas i'w hoedran. Yna daeth yn anamyneddgar am farwolaeth ei gŵr, ac yn awr tybiai bob dydd o fyw gydag ef yn oes, a chan hyny ceisiai gyfleustra i dorri yr edau fywyd hono pa un a farnai hi fod natur yn ei hestyn allan yn rhy hir; ac i'r dyben hwn,

wedi iddi wobrwyo a llygru ei llaw-forwyn, a'r march-was, hi a benderfynodd, trwy eu cynnorthwy hwy, a hwnw o eiddo ei chariad-ddyn, i'w lin-dagu yn ei wely; pa fwriad (er i'w chariad ballu, ac na ddaeth ar yr amser a hennododd hi iddo, gan encilio wrth feddwl am yr ameaniad erchyll o weithred mor ofnadwy) a gyflawnodd hi trwy ei gweinidogion; o herwydd, gan wylio hyd nes cysgodd ei gŵr, hi a ollyngodd y dirgel-lofruddion hyn i mewn, ac yna gan fwrw llaw-liain hir oddeutu ei wddf, hi a barodd i'r march-was orwedd arno fel na byddai iddo ymdrechu, tra y darfu iddi hi a'i morwyn, trwy ddirdroi y lliain attal ei anadl. Ac yn awr y peth nesaf oedd, pa fodd i ragflaenu yr amlygiad o'r weithred ysgeler hon; ac i'r dyben hwnw hwy a'i cariasant i ystafell arall, lle y gosodwyd ystôl ymgarth, ar ba un y dodasant ef; ac wedi i'r forwyn a'r gwas eu dau ymneillduo, a'r lle yn *glir*, hi a wnaeth y fath floedd echryslawn yn y tŷ, gan ddirdroi ei dwylaw, a thynu ei gwallt, a wylo mor ddirfawr, fel na ddarfu i neb ei drwg dybio; canys hi a wiriodd ddarfod iddi, gan ei bod wedi ei golli am ryw amser o'r gwely, fyned i edrych beth oedd yr achos ei fod yn aros cyhyd, a'i gael yn farw, yn eistedd ar yr ystol ymgarth; yr hyn, gan ei fod yn ymddangos yn dra golygus, a ragflaenodd bob drwg-dyb am ei farwolaeth. Ac wedi iddi fel hyn gael ei gŵr oddiar law, hi a osododd fwy o werth ar ei phrydferthwch, ac a hollol drodd ymaith ei chariad gynt, (am iddo, hwyrach, yn ddiholiad wrthod bod yn weithredydd yn erchyll-waith ei gŵr,) a chan fyned i Lundain hi a wnaeth y farchnad oreu a fedrai o'i thegwch. Ond trosedd yw llofruddiaeth ag nad yw ond anfynych yn

mynedd i'r bedd yn ddigosp; mewn dwy flynedd cyfiawnder a'i goddiweddodd hi, ac a ddaeth a'r weithred echryslon hon o eiddo'r tywyllwch i'r goleu. Y march-was (gan ei fod wedi ei ddal yn ol fel gwas gyda mab ac etifedd y gŵr bonheddig llofruddiedig, i'r hwn y bwriedid y foneddiges ar y cyntaf) yn myned ynghyd ag eraill gydag ef i *Coventry* i weini iddo, ei gydwybod euog (ac efe y pryd hyny mewn diod) a'i gyrodd ef ar ei liniau i ddeisyf maddeuant gan ei feistr am lofruddiaeth ei dad, a chan ei gymeryd ef o'r neilldu efe a'i gwnaeth yn gydnabyddus â'r amgylchiadau. Y gŵr bonheddig, er ei fod wedi ei daro âg arswyd a dychryn ar yr amlygiad o weithred mor ddiffaith, etto rhoddodd eiriau teg i'r gwas, ond gorchymynodd i'r gweision gadw golwg arno, fel na byddai iddo ddiangc pan y sobrai, ac yr ystyriai pa beth a fyddai canlyniad y cyfaddefiad a wnaethai; ac etto, er eu holl ofal, diangc a wnaeth; ac wedi myned o hono i lan y môr, efe yn ddedwydd a ddilynwyd (ar ol ymgeisio o hono fyned i'r môr dair-gwaith, ond yn cael ei droi yn ol o hyd trwy fod y gwynt yn wrthwynebol) ac a ddaliwyd gan ei feistr, a dygwyd ef yn ol yn garcharor i *Warwick*, a'r un modd yn fuan wedi hyny y foneddiges a'i llawforwyn hefyd, y rhai oll a ddihenyddiwyd yn gyfiawn am y llofruddiaeth arswydus hono; y foneddiges a losgwyd ar Rôs *Wolsey*, a'r ddau weinidog a ddioddefasant farwolaeth yn *Warwick*, gan adael i'r byd engraifft athrist o gariad cenwan a dotiol; ac o ieuo anghyfartal; canys pe na buasai y foneddiges hon wedi cael ei dirymell, trwy y chwant i elw yn ei rhieni, i briodi yr hên farchog, ond ei phriodi â'r mab, fel y bwriedid yn y dechreu, gallesid rhag-flaenu

angau anamserol yr hen ŵr bonheddig, a gall-
asai y foneddiges ieuangc fyw gyda diweirdeb
ac anrhydedd.

Ac er, mewn llawer o gyffelyb briodasau, nad
yw y drwg yn ehedeg mor uchel, fel ag i dorri
allan i odineb a llofruddiaeth, ond bod y fonedd-
iges oddiar egwyddor o ddiweirdeb ac ofn Duw,
yn ffrwyno ei holl dueddiadau naturiol, ac yn
foddlon i gyflawniad ei gŵr, (pa mor wàn bynag,
ac oer a marwaidd, y gall fod) ac yn cadw ei
diweirdeb mor bur a dihalog fel ag i beidio a
gadael i un meddwl gwibiog ei lygru; etto, hyd
yn nod yn yr amgylchiad hwn, mae y gŵr, gan
fod yn ymwybodol o leihâd ei egni ieuengaidd
a nwyf-lawn, a'i gyflawniadau gweiniaid a dirym
o'r defodau priodasol, yn drwg-dybio ei fonedd-
iges ddiwair, ac yn gwylio drosti gydâ llygaid
*Argus*, gan wneuthur ei hun a hithau yn anned-
wydd trwy ei ddrwg-dyb disynwyr; ac er y
gall ddigwydd gael plant o honi [yr hyn a all
fod yn hawdd, gan fod ganddo gystal tir i gyn-
nyddu arno] etto ni all braidd feddwl mai e
eiddo ef ei hun ydynt; mae ei gwsg yn cael e
aflonyddu â breuddwyddion am anwriaeth (*cuck-
old m*) a chyrn; ac ni feiddia efe gadw haid
fytheiaid, rhag ofn i dynged *Actæon* ei ddilyn
rhai hyn ydynt ychydig o effeithiau athris-
dotiad hen ddynion, a phriodasau anghyfartal

Ond gadewch i ni droi y daflen yn awr, a
edrych a fydd hi yn well o'r tu arall, pan
mae llengcyn hoyw o ddwy-ar-hugain yn prio
hen-fam o saith-deg (70) gyda gwyneb crych
edig. Mae hyn, yr wyf yn sicr, yn beth o
mwyaf annaturiol. Ni all fod y chwanegia
yma, oddieithr o aur, y rhai yn fynych y ma
yr hen wyd danes (*hag*) (canys pwy all ei gal

hi wrth well enw, yr hon sydd yn priodi bachgen i foddhau ei hysfa trythyll, pan y mae yn ymyl cwympo i'r bedd) yn eu trosglwyddo ymaith, cyn y briodas, idd ei pherthynasau ei hun, ac heb adael dim i'r coegyn disgwylgar, ond edifeirwch fel ei gynhysgaeth. Arian llogell hwyrach a ganiattâ hi iddo, ac am y cyflog gwael hwnw y mae yn rhwym i wneuthur y caled-waith mwyaf gwrthun a dirmygus. Ond os cyferfydd âg arian (yr hyn oedd yr unig gymhelliad i'r cyd-ieuad, gan mai ei haur oedd y *cordial* mwyaf yn y wledd briodasol) bydd yn debygol o'u gwasgaru yn afradus mewn afreolaeth y'mysg ei buteiniaid, gan obeithio, cyn hir, y bydd idd ei wraig heneiddiol ag sydd allan o arfer, gymmeryd mordaith i fyd arall, a'i adael at ei ryddid; tra y mae yr hen nain, gan ganfod ei harian yn cael eu gwastraffu, a hithau yn cael ei chasâu, wedi ei llenwi â'r digofaint hwnw ag y mae drwg-dyb, cynfigen, a chariad esgeulusedig yn ei ddwyn allan; gan ewyllysio a gobeithio bob dydd ei weled yn ei fedd, er fod ganddi braidd ei dau droed yn yr eiddo ei hun. Fel hyn, y maent bob dydd yn ewyllysio angau y naill y llall, yr hyn, oni ddaw yn gyflym, y maent yn fynych yn cynnorthwyo idd ei brysuro.

Ond hwrwgiadau [*excrescences*] priodas yw y rhai hyn fyth, ac amryfuseddau pobl yn priodi, ac nid bai priodas ei hun. Canys gadewch iddi ond bod yr hyn yr ordeiniodd Duw hi ar y cyntaf, priodas o ddwy galon yn gystal a dwylaw, y rhai y byddo oedran cyfartal, a chariad o'r ddwy ochr wedi eu huno yn gyntaf, cyn i'r offeiriad uno eu dwy law, a'r cyfryw a hyspysant i chwi, na all marwolion fwynhau mwy dedwyddwch tu yma i'r nef.

# COD-LYFRYN,

NEU

# Gydymaith Bydwragedd:

YN CYNNWYS

## CYFARWYDDIADAU NEILLDUOL I FYDWRAGEDD, MAMMAETHOD, &c.

DYLAI y rhai hyny ag ydynt yn cymmeryd arnynt y swydd o Fyd-wraig, gymmeryd gofal i gymhwyso eu hunain i'r gorchwyl hwnw trwy wybodaeth o'r pethau hyny ag ydynt angenrheidiol er cyflawniad dyledus o honi. A dylai y cyfryw bersonau fod o ganol oedran, nid yn rhy ieuaingc nac yn rhy hên; ac o ansawdd corph da, heb fod yn ddarostyngedig i afiechyd, ofnau, neu ddychryniadau disymwth. Ac nid y'nt y cymhwysderau a benodir i law-feddyg da yn amhriodol i fydwraig,—sef llaw boneddiges, llygad gwalch, a chalon llew, at yr hyn y gellir ychwanegu bywiogrwydd corph, a chryfder cyfleus, ynghyd a gocheliad a diwydrwydd; heb fod yn ddarostyngedig i gysgadrwydd a diamyneddgarwch. Dylai hefyd fod yn sobr, mwyn, carnaidd, a diwair, heb fod yn gybyddlyd, nac yn ddarostyngedig i nwydau, ond yn haelionus a thosturiol; ac uwchlaw y cwbl, dylai fod wedi ei haddasu fel y byd-wragedd Aiphtaidd gynt, hyny yw, bod ynddi ofn Duw, yr hyn yw y prif béth ymhob cyflwr a sefyllfa, a'r hyn

a'i cynnysgaeddu ar bob achos â doethineb a synwyr.

Pan fyddo amser esgoriad yn agoshau, a'r fenyw dda yn cael allan fod ei gwewyr yn dechreu dyfod arni, anfoned am ei byd-wraig yn brydlon, gwell gwneuthur hyny yn rhy fuan nag yn rhy ddiweddar, a cheisier y pethau hyny ag ydynt angenrheidiol ar y fath achosion yn barod. Pan ddelo y fyd-wraig, chwilied allan yn gyntaf, pa un ai yw gwir amser esgoriad wedi dyfod; canys trwy beidio a sylwi ar hyn yn briodol, mae llawer plentyn wedi cael ei ndwyo, a bywyd y fam wedi ei beryglu; neu leiaf rhoddi iddi ddwbl y boen a fuasai yn ngenrheidiol. Canys y mae byd-wragedd nfedrus, heb sylwi ar hyn, wedi rhoddi pethau ddirgymmell y plentyn i lawr, a thrwy hyny, lonyddu hynt ei llafur naturiol; gan mai yn hamser a'i ffordd ei hun y mae natur yn veithio oreu. Cyfaddefaf ei bod yn lled an-wdd adnabod gwir amser llafur rhai benywod, n eu bod yn cael eu blino â phoenau hir nser cyn idd eu gwir lafur ddyfod, rhai hyd nôd wythnosau cyn hyny; yr achos o'r hyn, ol fel yr wyf fi yn dirnad, yw gwres eu ynau; a gellir gwybod am hyn yn hawdd y chwyddiad eu coesau; a chan hyny, pan ifydd benywod beichiogion eu coesau yn vyddo yn fawr, gallant fod yn sicr fod eu nau yn rhy boeth. Er gwellâu yr hyn, lded iddynt oeri y lwynau cyn amser eu ur gyd âg olew papi, ac olew crinlys, neu r dwfr, trwy eneinio lwynau y cefn â hwy; ys yn gyffredin y mae ar y benywod hyny, nau pa rai ydynt yn rhy boeth, lafur caled.

Ond yn yr amgylchiad hwn, uwchlaw pob meddyginiaeth a wn i am dani, yr wyf yn rhoddi y flaenoriaeth idd eu dyferwad mewn dwfr; ac yna, wedi ei hidlo, a'i buro â gwyn ẃy, berwch ef nes b'o'n gyflaith gyda'i bwysau cyfartal o siwgr, a chedwch ef idd ei ddefnyddio.

Mae dau groen ag ydynt yn cylchynu y plentyn yn y groth, y naill yw yr *amnios*, yr hwn yw y croen nesaf i mewn; y llall yw yr *allantois*, a hwn yw y croen sydd yn dal pision y plentyn yn ystod yr amser y mae yn anneddu yn y groth. Mae y ddau groen hyn, trwy gyffroad tanbaid y plentyn yn agos i amser esgoriad, yn cael eu torri; ac yna y mae pision a chwys y plentyn a gynnwysant yn cwympo i lawr i wddf y groth: a hwn yw yr hyn a eilw y byd-wragedd, *y dyfroedd*, ac y mae yn arwydd anffaeledig fod yr esgoriad yn agos; o herwydd nid yw y plentyn yn fwy galluog i fyw yn y groth ar ol torri y crwyn hyny, na dyn noeth yn yr awyr oer. Mae y dyfroedd hyn, os bydd i'r plentyn ddyfod yn ddioed ar eu hol, yn rhwyddhau y llafur, trwy wneuthur y mynedfeydd yn llithrig; a chan hyny, rhaid i'r fydwraig ofalu na byddo iddi ddirgymmell y dyfroedd ymaith, canys y mae natur yn gwybod am wir amser yr esgoriad yn well na hi, ac yn gyffredin y mae yn dàl y dyfroedd hyd yr amser hwnw.

Cyfarwyddiadau Digymmysg

ER PERI

# RHYDDHAD BUAN.

YR Ehedfaen a'i ddal yn llaw y fenyw mewn llafur. Cymmerwch dansi gwyllt, ysigwch a chymhwyswch ef at ffroenau y fenyw. Hefyd cymmerwch gerrig *date* a melwch hwy yn fân, a chymmered ddram o honynt ar unwaith mewn gwin gwyn.

Cymmerwch bersli, ysigwch ef, a gwasgwch allan y sudd, a rhoddwch ef i fynu [gan ei ddyferu felly] i safn y groth, ac yn ddioed pâr i'r plentyn ddyfod ymaith, er iddo fod yn farw, a'r hemysgar hefyd: heblaw hyny, y mae yn glanhau y groth, o bob gwlybyrau gwydus.

Na fydded i un fyd-wraig un amser dynu plentyn ymaith trwy drais, oni bydd yn sicr ei fod yn farw. Bum i unwaith mewn lle yr oedd benyw mewn llafur, yr hwn gan ei fod yn dra chaled, ei byd-wraig a anfonodd am fyd-wraig arall, idd ei chynnorthwyo, yr hon fyd-wraig, gan anfon yn gyntaf i lawr, a chan fwriadu cael yr anrhydedd o ryddhau y wraig ei hun, a dynodd gorph y plentyn ymaith trwy drais, ac a adawodd y pen ar ol; o ba un y cafodd y fenyw wedi hyny ei dirgymmell i gael ei rhyddhau gan Golwynwr, (*Man-midwife.*)

Ar ol geni y plentyn, rhaid i'r fydwraig gymmeryd gofal mawr yn nhoriad llinyn y bogail, yr hyn, er na chyfrifir ef gan rai ond peth o ychydig bwys, etto nid medr lleiaf byd-

wraig y mae yn ei ofyn, a'i wneuthur gydâ'r iawn-ddeall a'r callineb hwnw ag sydd ofynol. Ac fel y galler ei wneuthur felly, rhaid ystyried, cyn gynted ag y rhyddheir y plentyn oddiwrth ei fam, pa un ai gwàn ai cryf yw; os gwàn a fydd, rhoddwch ran o'r gwaed bywydol a naturiol yn araf yn ei ol y'nghorph y plentyn trwy ei fogail, [canys y mae yr ysprydoedd bywydol a naturiol yn cael eu cyfranu gan y fam i'r plentyn trwy linyn ei fogail;] canys y mae hyny yn adgryfhau plentyn gwàn yn fawr; ond os bydd y plentyn yn gryf gellwch ei adael heibio.

Mewn perthynas i'r dull o dorri llinyn bogail y plentyn, bydded i'r rhwymyn fod yn dra chryf; a byddwch sicr o beidio ei dorri yn dra agos i'r rhwymiad, rhag i'r rhwymyn ddatod. Ni raid i chwi ofni rhwymo llinyn y bogail yn dra thyn, o herwydd ei fod yn amddifad o deimlad, ac y mae y rhan hwnw o linyn y bogail ag ydych yn ei adael arno yn syrthio o hono ei hun mewn ychydig ddyddiau; yn awr y mae holl hynt natur wedi newid yn y plentyn, gan mai ffordd arall sydd wedi ei phennodi idd ei faethu. Ni waeth gyda pha offeryn y torwch ef ymaith, ond iddo fod yn finiog, ac i chwithau ei wneuthur yn ddeheu. Byddwch sicr o gadw y dernyn o'r llinyn bogail a syrth ymaith rhag cyffwrdd â'r llawr; cofiwch beth a ddywedais i chwi o'r blaen mewn perthynas i hyn, ac os bydd i chwi ei gadw yn eich ymyl, gall fod o ddefnydd. Wedi torri llinyn y bogail fel hyn, rhoddwch ychydig o *gotton* neu *lint* wrth y lle, idd ei gadw yn gynnes, rhag i'r oerni fyned i mewn i gorph y plentyn, yr hyn a fydd yn

chwannog idd ei wneuthur os na bydd wedi ei rwymo i fynu yn ddigon tyn.

Y peth nesaf sydd idd ei wneuthur, yw tynu ymaith yr hemysgar, onide bydd yn dra pheryglus i'r fenyw. Ond rhaid gwneuthur hyn trwy foddion araf ac esmwyth, ac heb oedi, canys yn yr amgylchiad hwn yn enwedig y mae oediad yn beryglus; a pha beth bynag a roddais i lawr o'r blaen, fel yn dda i beri rhyddhâd buan, a thynu ymaith yr esgoriad, y mae yn dda hefyd i dynu ymaith yr hemysgar.

Ac wedi i'r esgoriad a'r hemysgar gael eu tynu ymaith, os bydd corph y fenyw yn dra gwàn, na chedwch hi yn rhy gynnes; canys y mae gormod o wres yn gwanhau natur, ac yn toddi y cryfder; ond pa un bynag ai gwan ai cryf a fydd, na adewch i ddim awyr oer ddyfod yn agos atti ar y cyntaf; canys y mae oerni yn elyn i'r rhanau hâdol. Os â oerni i'r groth, y mae yn ychwanegu yr ôl-boenau, yn peri chwyddiadau yn y groth, ac yn gwneuthur niwaid mawr i'r gewynau.

Os sylwir yn ofalus ar yr hyn a ysgrifenais gan fyd-wragedd, a'r cyfryw fammaethod ag ydynt yn edrych ar ol benywod yn eu gorweddiad i mewn, trwy fendith Duw gall y fenyw a fo'n gorwedd i mewn wneuthur yn burion, a'r fyd-wraig a'r fammaeth enill parch a chymeriad. Canys er y gall y cyfarwyddiadau hyn mewn rhai pethau groesi yr arferiad cyffredin, etto y maent wedi eu sylfaenu ar brofiad, ac attebant y dyben yn ddifeth.

Ond y mae amrywiol ddigwyddiadau ag y mae benywod yn gorwedd i mewn yn ddaros-

tyngedig iddynt, y rhai a raid darparu gogyfer â hwy: ac am y rhai hyn y traethaf nesaf.

Y cyntaf a grybwyllaf yw ôl-boenau, oddeutu yr achos o'r hyn y mae awdwyr yn gwahaniaethu yn fawr iawn; rhai a dybiant eu bod yn cael eu hachlysuro gan deneuder, rhai gan dewder, rhai gan leidiogrwydd, ac eraill gan surni y gwaed; ond fy marn i fy hun yw eu bod yn deillio oddi wrth oerni a dwfr. Ond beth bynag a ddichon fod yr achos, hyn a wn, os sylwir ar fy nghyfarwyddiadau blaenorol, lleiheir hwy yn fawr iawn, os na chymmerir hwy ymaith yn hollol. Ond os digwyddant, berwch ŵy, a thywelltwch allan ei felyn, gydâ pha un cymmysgwch lwyaid o ddwfr synamwn, a bydded iddi yfed o hono: ac os bydd i chwi ei gymmysgu gyda dau ronyn o ambyr, bydd yn well.

Yr ail ddigwyddiad ag y mae benywod yn gorwedd i mewn yn ddarostyngedig iddo, yw digroeniad neu biliad yn rhan isaf y groth. I gymhorth hyn, arferwch *oil of sweet almonds*, neu yn hytrach olew *St. John's wort*, i eneinio y rhan âg ef.

Digwyddiad arall yw fod y fenyw a fyddo yn gorwedd i mewn, weithiau, trwy lafur tra chaled, ac ymdrechiad mawr i ddwyn y plentyn i'r byd, yn dyfod i gael ei blino â chlwy y marchogion. I wellhau hyn, defnyddied *polypodium* wedi ei ysigo a'i ferwi, yn ei bwyd a'i diod.

Y pedwerydd peth ag sydd yn dilyn yn fynych yw, attaliad y mislifiadau; y mae hyn yn dra pheryglus, ac os na feddyginiaethir ef, y mae yn troi allan yn farwol. Ond i hyn, cymmered y cyfryw gyffuriau ag a gryf gyffroant y mis-lifiadau; ac o'r cyfryw y mae gwreiddiau blodau'r

brenin, *dittany*, grawn meryw, bustl y ddaear, *saeds*, *savory*, brymlys, llysiau'r fam, &c.

Y peth olaf a grybwyllaf yw, gorlifiad y mislifiadau. Nid yw hyn yn digwydd mor fynych a'r un blaenorol, ond etto y mae weithiau; ac yn y cyfryw amgylchiadau cymmerwch bwrs y bugail, naill ai wedi ei ferwi mewn unrhyw wlyb cyfleus, neu ei sychu a'i falu yn fân, a chewch ei fod yn dda iawn idd eu hattal.

Wedi diweddu o honwyf fel hyn fy Nghodlyfr i Fyd-wragedd, cyn terfynaf ychwanegaf rywbeth mewn perthynas i ddewisiad a chymmwysderau mammaeth dda; fel y gallo y rhai hyny ag sydd ganddynt achos am danynt wybod pa fodd i drefnu eu hunain, er daioni i'r plant a fyddont yn eu maethu.

Yn gyntaf, ynte, os mynwch ddewis mammaeth dda, dewiswch un o ardymer gwaedog, nid yn unig o herwydd mai yr ardymer hòno sydd yn cael ei chyfrif oreu, ond hefyd o herwydd fod pob plentyn yn ei febyd a'i ardymer yn goruwch-reoli. Ac fel y gellwch adnabod y cyfryw fenyw, cymmerwch y desgrifiad canlynol o honi:—

Ei maint sydd ganolig, ei chorph yn gigog, ond nid yn dew; ond o edrychiad llawen, diddan, a siriol; o liw gwrid-goch bywiog, a'i chroen mor dra gloyw fel y gellwch weled ei gwythienau trwyddo. Un yw hi ag sydd yn caru cymdeithas, ac nid yw un amser yn gofalu am fod yn unig; un amser yn chwannog i ddigofaint, ond yn dra thueddol i chwareu a chanu; a'r hyn sydd yn ei gwneuthur y person cymhwysaf i fod yn fammaeth, y mae hi yn ymhyfrydu yn fawr mewn plant. Trwy ddewis y cyfryw, ni

ellwch braidd wneuthur yn feius; yn unig gadewch i mi roddi y goeheliad hwn i chwi, os na ellwch gael un yn gymmwys o'r desgrifiad hwn (yr hyn a gewch yn dra anhawdd,) ceisiwch un mor agos atto ag y gellwch. A bydded i'r rheolau hyn ymhellach eich arwain yn eich dewisiad:—

1. Bydded ei hoedran rhwng 20 a 30, canys y pryd hyny y mae yn ei blodau.

2. Bydded iachus, canys y mae ei selni yn llygru ei llaeth, a'r llaeth y plentyn.

3. Bydded yn fenyw synhwyrol, canys y cyfryw un a ofala am y plentyn.

4. Na fydded yn dlawd; canys os bydd mewn eisiau, rhaid i'r plentyn fod mewn eisiau hefyd.

5. Bydded wedi cael dygiad da i fynu, neu yn hardd ei moesau, canys y mae mammaethod anfoesawg yn llygru natur dda.

6. Os bachgen fydd ef sydd i gael ei faethu, bydded y fammaeth y cyfryw un, plentyn olaf yr hon ydoedd fachgen, ac felly bydd yn fwy boddus; ond os geneth a fydd, bydded y fammaeth yn un ag y bu geneth ganddi ddiweddaf.

7. Os bydd gan y fammaeth ŵr, edrychwch am ei fod yn ddyn da, hardd, ac heb fod yn chwanog i wtresa; canys gall hyny effeithio ar y plentyn.

8. Yn y lle olaf, bydded y fammaeth yn ofalus nad yw yn feichiog ei hun; os felly, rhaid iddi o angenrheidrwydd naill ai andwyo ei heiddo ei hun, neu yr eiddoch chwi, neu ynte y ddau.

I fammaeth wedi ei chymhwyso fel hyn, gellwch roddi eich plentyn yn ddiberygl. A bydded i'r cyfryw fammaeth gymeryd y cyfarwydd-

iadau canlynol, er llywodraethu a threfnu ei hun yn well yn ei sefyllfa.

### *Cyfarwyddiadau Profedig i Famnaethod.*

1. Rhodded ymarferiad i'w chorph. Os bydd heb ddim arall i'w wneuthur, ymarfered ei hun trwy ddawnsio y plentyn; o herwydd y mae ymarferiad yn peri i'r bwyd iawn dreulio yn y cylla, a dilys genyf y rhaid i waed da wneuthur llaeth da, ac ni phalla llaeth da a gwneuthur i blentyn gynhyddu.

2 Bydded iddi fyw mewn awyr dda; nid oes dim o fwy pwys na hyn. Y diffyg o hyn sydd yn gwneuthur i gymaint o blant feirw yn Llundain; ac hyd y nod nid ydyw y rhai ag ydynt yn byw o'r ardymherau goreu, canys y mae awyr amhur a thew yn gwneuthur cyrph amrosgo, ac amgyffredion synwyr-bwl: ac na ryfedded neb wrth hyn; canys y mae gweithrediadau yr awyr yn gymaint i ddyn ag ydyw bwyd a diod, canys y mae yn cynnorthwyo i fagu ysprydoedd bywydol ac eneidiol; ac fel hyn y mae yn achos o selni ac iechyd, o fywyd a marwolaeth.

3 Bydded ofalus gyda'i lluniaeth, a gocheled bob bwydydd heillt, garlleg, cenin, a wynwyn, a mwstard, yfed gormodedd o win, diod gref, neu gwrw; canys y maent yn blino corph y plentyn â geri; caws newydd a hen sydd yn ei drallodi â'r pruddglwyf, a phob pysgod â llysnafedd.

4. Na fydded iddi un amser omedd iddi ei hun gwsg, pan y mae yn swrth neu yn yn gysglyd, canys trwy hyny bydd yn fwy effro pan y cria y plentyn,

5. Gocheled bob aflonyddwch meddwl, digofaint, tristwch, a thrymder, canys y pethau hyn ydynt yn mawr derfysgu benyw, a chan hyny rhaid eu bod yn niweidiol i'r llaeth.

6. Os digwydd i laeth benyw gael ei lygru trwy ddigwyddiad, fel y gall fod weithiau, gan fod naill ai yn rhy frwd neu rhy oer, yn y cyfryw amgylchiadau, bydded ei lluniaeth yn dda, a sylwed ar y rhybuddion a roddwyd iddi eisoes. Ac yna, os bydd ei llaeth yn rhy frwd, oered ef gydâg *endive*, ysgall y meirch, golaeth, suran, traed y gywen, a dail llyriaid; ac os rhy oer a fydd, arfered wirod, tafod yr ych, *mother of thyme*, a synamwn; a sylwed ar y rheol gyffredin hon; sef, pa beth bynag sydd yn cryfhau y plentyn yn y groth, fod yr unrhyw yn gweini i'r llaeth.

7. Os bydd y fammaeth mewn diffyg o laeth, peth rhagorol yw yr ysgallen, a elwir yn gyffredin ysgallen Fair, i beri iddi fagu llaeth, gan nad oes ond ychydig o bethau tyfol (os oes dim) ag sydd yn magu mwy a gwell llaeth na hwnw; hefyd y mae carnau traed blaen buwch, wedi eu sychu, a'u malu yn fân, a chymeryd dram o hono bob boreu mewn rhyw ddiod gyfleus, yn ychwanegu llaeth.

### *Meddyginiaethau Dewisol er ychwanegu Llaeth.*

O bydd mammaeth yn chwannog i lawer o anfoddlonrwydd, y mae yn ei gwneuthur yn deneu, ac yn attal y treuliad; ac nis gall fod ganddi byth ystôr o laeth, na'r hyn a fyddo ganddi yn dda. Bwydydd a diodydd drwg ydynt hefyd yn attal ychwanegiad y llaeth,

a chan hyny y dylent gael eu gadael heibio. Dylai benyw a fynai ychwanegu ei llaeth, fwyta y lluniaeth goreu, (hyny yw, os gall ei gael,) ac yfed llaeth, yn yr hwn y mwydwyd hâd ffenygl. Dyddaned y cylla hefyd gydâ chyffeithiad hadau anis, *carwa*, a chwmin. Boed iddi yfed dwfr barlys, tafod yr ŷch, a'r bigoglys; hefyd llaeth gafr, llaeth gwartheg, a chig oen wedi ei ferwi gyda surlyn (*verjuice*). Hefyd arferwch hadau anis, *carwa*, a chwmin, wedi eu berwi mewn dwfr. Cymerwch hefyd ddwfr barlys, a berwch ynddo ffenygl gleision, gwenynddail, melyswch ef â siwgr, ac yfwch ef fel y byddoch yn ewyllysio.

Mae twym-olchiadau yn agor y bronau, ac yn denu y gwaed, megis trwyth ffenygl, persli y gors, neu gymhwyso mintys wedi eu pwyo. Neu cymerwch ffenygl a phersli yn leision, dyrnaid o bob un, berwch a phwywch hwynt, a blawd haidd haner wns, hadau llysiau y bara, dram, *storax*, *calamint*, dwy ddram, olew lili, dwy wns, a gwnewch blastr.

Yn olaf, cymerwch haner wns o wêr ewig, yr un faint o wreiddiau persli, wns a haner o flawd haidd, tri dram o *storax* coch, a thair wns o *oil of sweet almonds*; berwch y gwreiddiau yn dda, a phwywch hwy nes elont yn uwd, yna cymysgwch y llall â hwy, a dodwch ef yn gynes wrth y didenau, yr hyn a achosa ychwanegiad y llaeth.

Ac fel hyn, ddarllenydd caruaidd, yr wyf o'r diwedd wedi gorphen yr hyn a fwriedais, a'r hyn a addewais; a gallaf yn ddiau wirio fod genyt yma y cyfarwyddiadau a'r meddyginiaethau hyny wedi eu rhoddi iti mewn perthynas i

fenywod yn planta, byd-wragedd, a mmamaethod, ag ydynt werth eu pwysau yn aur, ag a attebant y dyben yn sicr, (gyda bendïth Duw,) pa bryd bynag y bydd genyt achos idd eu defnyddio, gan nad pethau wedi eu cymeryd ar gred oddiwrth draddodiad, neu hanes o ben i ben ydynt; ond ffrwyth ac addysgiadau rheswm iachusol a hir brofiad.

*DIWEDD Y GYMUN-RODD OLAF.*

# Y DIWEDD-GLO.

DDARLLENYDD MWYN,

YN ngweithiau yr enwog a'r clodfawr philosophydd, ARISTOTLE, yr wyt wedi cael gosod o'th flaen Gasgliad o'r Nodiadau goreu ar Ddirgelion Natur ag a gafodd y byd erioed ei anrhegu â hwy ar y testyn. Gâd i mi yn awr erfyn arnat ti, yr hwn a ddarllenaist, a'r holl rai hyny ag a allant wneuthur felly rhagllaw, sylwi yn fanwl ar yr hyn sydd gynnwysedig ynddynt, a thrwy hyny i gyfarwyddo dy ymddygiad rhagllaw yr hyn a ganfyddi er dy les a'th fudd. Pa beth bynag a all personau ieuaingc, anystyriol, ei feddwl neu ei ddywedyd am yr hyn a gynnwysir yma; y mae yn hollol angenrheidiol idd ei wybod; a phan ddygir ef i ymarferiad, gall droi allan yn foddion dedwydd i ragflaenu llawer o ganlyniadau angeuol a galarus, yr hyn y mae anwybodaeth ac anystyriaeth yn eu dwyn allan. Bydd wych.

# EGLURHAD

## AR EIRIAU ANSATHREDIG A ARFERIR YN Y GWAITH.

ANNELWIG ddefnydd, *embryo*, milrhith
Arwedd, *carriage*, arweddu
Aruthredd, *amazement*, syndod
Adgyflenwl, *supply*, llenwi lle neu ddifîyg.
Aunbymig, *abortive*, anffodiog, ofer
Amrydyllog, *porous*, chwys-dyllog
Anhyffordd, *impassable*, anbylwybr
Arwynebau, *superfices*, wynebau
Arddigonedd, *redundance*. gormodedd
Ardymber, *constitution*, ansawdd corph
Amdreuledd, *corosion*, ysiad, ymgnoad
Anniwygus *cachetical*
Addoeri, *refrigerated*, oeri
Araf-lochi, *to fondle gently*
Augbenfilaidd, *monstrous* anferth, gwrthun
Anhyblyg, *stiff*, unmhlygadwy
Anhebgorau, *requisites*, angheurheidiau
Adwythig, *malignant*, drygianuus
Attaliedigol, *retentive*, uttalgar
Ager, *fume*, tarth, &c.
Athronwyr, *philasophers*, philosophyddion
Ardystio, *declare*, cyhoeddi
Ausoddau, *qualities*, rhywiau
Amrantu, *wink*, ysmicion
Byd-wraig, *midwife*, esgor-wraig
Bwyd-dreuliawl, *cancoctive*. treuliad bwyd yn y cylla
Briw-dwll, *arifice*, safn briw
Bol-rwymol, *astringent*, rhwymol
Byd-wreigiaeth, *midwifery*
Baddiadau, *baths*, ymolchfeydd
Blawr, *grey*, llwyd
Brasiannu, *seething*, poethiasu
Bedysawd, *universe*, y byd
Cymun-rodd, *legacy*, rhodd mewn 'Wyllys
Cyd-gyfranawl, *mutual*, o'r ddwy ochr
Carthiadau, *purgations*, cael rhyddhad
Chwantachrwydd. *venery*, cyd-gnawd
Capwiltiaid, *capons*, ceiliogod dyspaidd
Caul, *chyle*
Cyfarwyneb, *confronting*, cyfwyneb
Cloren. *rump*, gwar y gynffon
Cynnwynol, *inbred*. naturiol
Cyfluniad, *conformation*, cydymweddiad
Cyfebru, *concieve*, ymddwyn
Cyflog-serch, *mercenary love*
Cyffuriau, *medicines*, meddyginiaethau
Cyffaith, *syrup*
Cyffeithiad. *confection*
Chwistrelliad, *injection*, tafliad i mewn
Cul-berfeddyn. *strait gut*
Croes-droellawg, *cantorted*, croesdroedig
Chwyfiad, *motion*, ysgogiad
Cyfog-lyn, *vamit*
Carth feddyginiaeth, *purge*
Cywiro, *to carrect*
Cytnerthol, *corroborative*
Cyd-dew gymmysg, *electuary*
Ceuedd, *concavity*
Cyfrwymo, *fasten*, sicrhau
Cawl, *pottage*, *broth*
Crach-feddyg, *a quack*, gwag ymhonwr
Cynnyrchiad, *production*, dygiad allan
Cnawdol-foddus, *voluptuous*, glythig
Cronfa, *repository*, ystorfa
Canadlen, *curtain*
Cyfwng, *space*, gofod
Colwynwr, *man midwife*
Cronfach, *crotchet*, offeryn arferedig gan law feddygon
Cauydd, *closure*
Cnoaduo, *gripes*, bol-wst
Ceulfraen, *curd*
Cymmesur, *suitable*, cyfaddas
Chwibl, *sour*. sur
Cawrfil, *elephant*
Celfyddyd, *art*
Chwaren-lofft, *stage*, esgyn-lawr
Coegyniaid, *sparks*
Cariad-ddyn, *inamorato*, twymgarwr
Cod-lyfryn, *vade mecum*, cydymaith
Dryg-naws, *evil quality*, cynneddf ddrwg
Dadleithio, *dissolve*, toddi, dadlaith
Den-rywiol, *hermaphrodite*, cyd-ryw
Dirgeloedd, *secrets*
Difyniaeth, *anatomy*
Dylanwad, *influence*, effeithiolaeth
Dull-newidio, *transform*
Darbod, *provide*, darparu
Diheoro, *vindicate*
Dyferwad, *decoction*, trwythlad
Dibynaidd, *pendulous*
Dansoddion, *principles*
Duegaidd, *melancholic*
Dirgryniad, *convulsion*, *vulga confylsiwn*
Dyfrglwyf, *dropsy*
Dystyllio, *distill*
Dir-gymhell, *strain*
Dylofi. *to stroke*, *to alloy*
Dyferwst, yr afiechyd a elwir *Rheum*
Drwg-gylleud, *evil collocation*
Dymchwydd, *tumour*
Dyspeiddiedig, *gelded*, wedi eu cyweirio
Darbwyllion, *persuasions*
Dirdroi, *wringing*
Effeithydd, *efficient*, peth achosawl
Engreifftiau, *examples*, esiamplau
Efrydd, *lame*, un anafus
Erthwf, *excrescence*, gorthwf
Eithafoedd, *extreme parts*
Enynfa, *inflamation*
Ehedfaen, *loadstone*
Edfryd, *reduce*, trefnu, &c.
Eisteddfod, *fundament*
Efrydu, *studying*, myfyrio
Elwant. *lucre*, elw
Ffynell. *funnel*
Gwyddanes, *hay*

Gorchest-lyfr, *book of problems*
Gwahan-nodi, *to distinguish*
Gwaedogawl, *sanguificative*
Gor-llawn, *abounding*
Gwlyhyrau, *humours*
Galluedd, *faculty*, swydd-gyneddf
Galluogol, *potential*
Gorfodogl, *predominate*, yn meistroli
Gwyniau, *affections*
Gorwydus, *over vicious*
Gwydrau craffiniad, *cupping glasses*
Goreth, *pessary*
Gor-oesol, *surviving*, hyw ar ol, &c.
Gor-bell, *overfur*
Glydiog, *glutinous*, ysglawringaidd
Golchionllyd, *sloppy*
Geriaidd, *bilious*
Glud-gawl, *gelly*
Gweithrediad dwylaw, *manual operation*
Gwynio, *smart*
Glythig, *gluttonously*, rheibusol
Gor-ddefnyddiad, *refreshment*
Graianwst, *gravel*
Gwaedog, *sanguine*
Hemysgar, *secundine*
Hwyrdrwm, *heavy*, athrwm
Hydraidd, *pervious*, treiddiadwy
Hidl-ddeigriad y groth, *weeping of the womb*
Haint ddigwydd, *epilepsy*
Hun-glwyf, *lethargy*
Hoccedus, *deceitful*, twyllodrus
Hyrwyddo, *to further*
Halen y gralg, *salt petre*
Isgellladau, *infusions*
Irnaws, *humour*, gwlyhor
Llysnafeddawg, *phlegmatic*
Llynorod, *ulcers*
Llestri paratoawl, *preparing vessels*
Llestri gwahaniaethol a saethol, *difference and ejaculatory vessels*
Llamdreiglo, *tumbling*
Llymrig, *crudle*
Llawfeddyginlaethol, *chirurgical*
Lledewigwst y groth, *hæmorrhoids*
Lleidlogrwydd, *sliminess*
Llesmeir-glwyf, *epilepsy*
Lled-tyb, *conceit*, lled goelio
Llin, *grain*
Llaw-lialn, *towel*
Lliniaru; *to assuage*
Madruddyn, *gristle*
Meddlyn, *hydromel*, dwfr a mel
Mynedfeydd, *passages*
Meddyglyn, *cordial*
Mewnol, *internal*
Meddalhaol, *emollient*, a dynera
March-was, *stable groom*
Mis-lifiant, mistrych, *monthly courses*
Mwyeilch, *black birds*, adar duon
Nodd, *juice*, sudd
Nydd-droi, *to writhe*
Ol-drafael, *after-labour*
Osbion, *guests*, gwestewyr
Ocrwr, *usurer*
Per-lysiau, *spices*
Poeth-wyniawl, *heated, &c.*
Parlys mud, *apoplexy*
Pilionen, *a film*
Prudd-glwyfus, *melancholic*
Parlysaidd, *apoplectic*
Pang, *a fit*
Penddiged, *phlegmon*
Pelenau, *pills*
Poeth-rwblo, *chafe*, rhwbio i wres
Palf, *a paw*, crafangc
Pyg-liain, *searcloth*
Poeth dymheru, *hot-seasoned*
Prudd-naws, *melancholic humour*
Rhydweliau, *arteries*
Rhwysu, *to sway*
Rhefr chwistrelliad, *clyster*
Rhy-dwymiad, *overheated*
Rhag-rwymiad, *restrictive*
Rhathiadau, *frictions*
Rhefr-saug, *suppository*
Rhelyw, *overplus*, gweddill
Sugaethau, *cataplasms*, *pwltis*
Sarhau, *offend*
Saws, *sauce*
Ser-gynnull, *constellation*
Surlyn, *verjuice*
Saethiadau, *darts*
Tymheredd, *temperament*
Traws-eneidiad, *transmigration of souls*
Trachwantu, *to covet*, chwennychu
Tan-fygiad, *suffumigation*
Twym-olchiadau, *fomentations*
Trwyth, *infusion*
Torgest, *hernia*
Troeth-beiriol, *diuretical*
Twym-eneinio, *foment*
Tolchi, *clot*
Trem-ddrychol, *perspective*
Un sut, *similar*, tebyg
Ystlen, *sex*, rhyw
Ymgofleidiadau ymrewyddol, *veneral embraces*
Ymread, *colpulation*, cyd-gnawd
Ysbrydog, *spirituous*
Ymgystlwn, *to ally with each other*
Ysnoden, *ribband*
Ysgeintio, *sprinkle*
Ysgurth-ffos, *sink*
Ymgoethi, *to go fine*
Ymarferiad, *exercise*
Ystol ymgarth, *close stool*

# CYNNWYSIAD.

## Y RHAN GYNTAF.

TUDAL.


Yr Arweiniad i mewn .... 3

Am Briodas, ac ymha oedran y mae Gwyr ieuaingc a Gwyryfon yn addas iddi; a phaham y maent yn ei chwennych gymaint. Hefyd, pa mor hir y mae Meibion a Merched yn alluog i ddwyn Plant. 7

Pa fodd i gael Plentyn Gwrryw neu Fenyw: ac am y plentyn yn y groth cyn cael llun, (*embryo*) a Genedigaeth perffaith: a'r amser mwyaf addas i ymgyplu. .... .... .... 10

Y rheswm pa ham y mae Plant yn debyg i'w Rhieni, a bod dychmygion y Fam yn cyd-gyfranu a hyny: a pha un ai y Mab ai y Ferch yw yr achos o gael Plentyn Gwrryw neu Fenyw, 20

Nad yw Enaid dyn yn cael ei genhedlu gan y Rhieni, ond yn cael ei roddi gan ei Grewr: ac na all na marw na llygru —Ymha amser y mae yn cael ei roddi.—Am ei anfarwoldeb a sicrwydd ei adgyfodiad. .... .... .... .... 27

Am Anghenfilod, a genedigaethau Anghenfilaidd: a'r amrywiol resymau am byny, yn ôl tyb yr Hynafiaid. Hefyd, pa un ai ydyw Anghenfilod wedi eu cynnysgaeddu âg Eneidiau rhesymol: a pha un a all Diafliaid eppilio; a drinir yma ar fyr eiriau. 33

Am Gyflwr dedwydd Priodas, fel y mae yn cael ei happwyntio gan Dduw:—y gwir ddedwyddwch ag sydd yn dylifo trwyddi i'r ddau ryw:—ac i ba ddyben ei hordeiniwyd. .... .... 42

Am Amryfuseddau mewn Priodas.—Pa ham y maent.—A'r alwaid o honynt. 46

Tyb y Dysgedigion mewn perthynas i Blant wedi belchlogi arnynt a'u geni o fewn Saith Mis; gyda rhesymau ar y Testyn, i ragflaenu amheuaeth o aniweirdeb, ac ymrysonau chwerwon ar y cyfrif hwnw. At yr hyn yr ychwanegir Rheolau i adnabod ansawdd iechyd Corph Dyn wrth y rhanau Cenhedlawl. .... 50

Am y Glâs-glwyf, (*Green-sickness*) mewn Gwyryfon, gyda'i achosion, ei arwyddion, a'r feddyginiaeth o hono: ynghyd a'r prif achos o Anffrwythlondeb mewn Merched, a'r moddion i symud yr achos, a'u troi yn Ffrwythlon. .... .... 53

Morwyndod, pa beth yw, y'mha beth y mae yn gynnwysedig, a pha fodd y mae yn cael ei lygru; ynghyd a barn y Dysgedigion ynghylch newidiad y Rhyw yn y groth, yn ystod gweithrediad Natur yn llunio y Corph. .... .... .... 62

Cyfarwyddiadau a gocheliadau i Fydwragedd: ac yn gyntaf pa fodd y dylai Byd-wragedd fod wedi eu cyfaddasu. .... .. 67

Cyfarwyddiadau y'mhellach i Fydwragedd, yn eu dysgu pa beth a ddylent wneud, a pha beth i'w ochelyd. .... .... 69

Am Ranau cenhedlawl benywod, allanol a thufewnol, hyd at lestri y groth. 70

Desgrifiad o Adeil-waith y Fenyw, y Llestri paratöawl, a'r Eirin mewn Benywod. Yr un modd hefyd a'r Llestri Gwahaniaethol a Sacthol. .. .... .... .... .... 74

Desgrifiad o ddefnydd a gweithrediad amryw Ranau mewn Benywod, pennodedig er cenhedliad. .... .... .... 78

Am Offeryn Cenhedliad mewn Dyn, .... .... .... 81

Gair o gyngor i'r ddau Ryw, sef amryw Gyfarwyddiadau mewn perthynas i'r weithred o Ymread. .... .... .... 83

## YR AIL RAN.

Am y Groth yn gyffredinol. .... .... .... .... .... 86
Am Attaliad y Mis-lifiant. .... .... .... .... 89
Am Orlifiad y Mis-lifiant. .... .... .... 96
Am Hidl-ddeigriad, neu Wyfofain y groth. .... .... 102
Am y Mis-lifiadau Geuol, neu Gwynred. .... ... .... 104
Am Fygiad y Fam. .... .... .... .... .... .... 109
Am Ddisgyniad neu Syrthiad y Fam. .... .... .... 117
Am Enynfa y Groth. .... .... .... .... .... 120
Am y Chwareniad neu Galedrwydd y Groth. .... .... 123
Am Ddyfr-glwyf y Groth. .... .... .... .... 125
Am Bel y fammog (*mole*,) a Gau Feichiogiad. .... .... .... 128
Am Feichiogiad; a'r modd y gall Merched wybod pa un ai ar blentyn gwrryw ai benyw y byddant yn feichiog. .... .... 133
Am Enedigaeth anamserol. .... .... .... .... 137
Hyfforddiadau i Ferched yn planta. .... .... .... .... 139
Cyfarwyddiadau ag y dylid sylwi arnynt gan fenywod yn amser eu syrthiad i wewyr esgor, er eu rhyddhâd diogel, gyda chyfarwyddiadau i Fydwragedd. .... .... 144
Pa beth y dylid sylwi arno mewn achosion o enbydrwydd; yn enwedig i Fenywod, y rhai y mae yn eyd-fyned â hwyDdylifiad gwaed, Dirgryniadau, a Gloes-ion y meddwl, yn eu gwewyr. 148
Pa fodd y dylid ymddwyn at Ferched yn planta ar ol eu rhyddhâd 159
Pa fodd i fwrw allan y *Colic* o Fenywod mewn Esgoriad. 162
Y Physygwr Teuluaidd. —— —— —— —— 164
Nodiadau cyffredinol. —— —— —— —— 169
Y Fyd-wraig brofiadol.—Yr arweiniad i mewn, .. .... 170

---

## *ARWEINYDD I FENYWOD YN PLANTA.*

Am y Groth. .... .... .... .... .... 172
Am y gwahaniaeth rhwng hen Feddygon a'r rhai diweddar, mewn perthynas i'r Fenyw yn cyfranu hâd er ffurfiad y plentyn. .... .... ... .... .. 179
Am Feichiogiad; pa beth yw; pa fodd y mae Benywod i drefnu eu hunain ar ol beichiogiad. —— —— —— 182
Pa beth yw Beichiogiad, a'r cymmwysder gofynol i hyny. —— 182
Pa fodd y dylai Benyw drefnu ei hun ar ol beichiogiad. .. .. 185
Am y rhanau priodol i Blentyn yn y groth.—Pa fodd y ffurfir ef yno, a dull ei sefyllfa ynddi —— —— —— —— 197
Am y Rhanau priodol i blentyn yn y groth. .... .... 198
Am ffurfiad y plentyn yn y groth. .... .... .... 202
Am y dull y gorwedd y plentyn ynddo yn y groth. .... 204
Tywysydd i Fenywod mewn gwewyr esgor, yn dangos pa beth sydd idd ei wneuthur, pan y syrthiant mewn gwewyr, mewn trefn idd eu rhyddhâd. —— —— —— —— 207
Arwyddion gwir amser gwewyr Menyw. .... .... 208
Pa fodd y dylid llywodraethu Menyw pan fyddo amser ei gwewyr wedi dyfod. —— —— —— —— —— 212
Am Drafael naturiol; pa beth yw, a pha beth sydd i'r Fyd-wraig ei wneuthur yn y cyfryw Drafael. .... .... .... 220
Pa beth yw Trafael Naturiol. —— —— —— *ib.*
Am dorri Llinyn bogail y plentyn. .... .... .... 225
Pa fodd i gyrchu ymaith yr Henysgar, .. .. .. 229
Am drafael poenfawr ac anhawdd, a pha fodd y mae i'r Fyd-wraig fyned y'mlaen yn hyny. .... .... .... 232
Am Fenywod mewn Trafael gyda Phlentyn marw. .. .. 239

Am Drafael Annaturiol. ——— ——— ——— 243
Pa fodd i ryddhau Menyw o Blentyn marw trwy weithrediad dwylaw. ... .. .. .. .. .. .. 244
Pa fodd y rhaid rhyddhau Menyw, pan y mae traed y Plentyn yn dyfod yn gyntaf. ——— ——— ——— —— 247
Pa fodd i gyrchu ymaith Ben y Plentyn pan wedi ei wahanu oddiwrth y Corph, a'i adael ar ei ol yn y groth. .. .. 251
Pa fodd i rydddau Menyw pan fyddo Pen y Plentyn yn ymgyflwyno i'r Esgoriad. —— ——— ——— ——— ——— 254
Pa fodd i ryddhau Menyw pan yr ymgyflwyna y Plentyn law, neu ddwy law ynghyd a'r pen. .... .... .... 256
Pa fodd i ryddhau Menyw pan fyddo Dwylaw a Thraed y Baban yn dyfod ynghyd. — ——— ——— ——— —— *ib.*
Pa fodd i ryddhau Menyw a fo ganddi Efeilliaid, y rhai a fyddont yn dyfod mewn gwahanol ystumiau. .. .... 259
Cyfarwyddiadau i Fenywod yn Planta yn eu gorweddiad i mewn. .... .... .. .... .. .. — .. 263
Pa fodd y dylai Menyw newydd ei rhyddhau gael ei threfnu. 263
Pa fodd i Feddyginiaethu y Damweiniau hyny ag y mae Menyw yn gorwedd i mewn yn ddarostyngedig iddynt. —— 265
Cyfarwyddiadau i Fammaethod, yn mriniad plant newydd eni. 272
Am gnofeydd a phoenau yn Moliau Plant bychain, —— —— 276
Am wendid mewn Babanod newydd eni, .... .... 277
Am gauad i fynu yr eisteddfod (*fundament*) mewn Baban newydd eni ——— ——— ——— ——— 279
Am y Gân, (*Thrush*) neu Lynorod mewn safn baban. .. .. 281
Am boenau yn y Clustiau, Enyniad, Lleithder, &c. .. .. 283
Am Gochni ac Enyniad yn y Ffolenau, Coseiliau y Morddwydydd, a chluniau plentyn bychan. .... .... 284
Am gyfogiad mewn plant ieuaingc. .... .... .... 285
Am Fagiad dannedd mewn plant bach. .... .... 286
Am Ddylifiad y bôl, neu ddolur rhydd mewn babanod. .. .. 289
Am y Llesmeir-glwyf, a Dirgryniadau mewn plant. .... .... 291
Am anffrwythlondeb; ei amrywiol rywiogaethau; ynghyd a'r Meddyginiaethu priodol rhagddo; a'r arwyddion o annigonolrwydd mewn meibion a merched. .... .... .... .... 293
Am unffrwythlondeb yn gyffredinol. .... .... .... 294
Arwyddion ac achosion Annigonolrwydd mewn dynion. .... 297
Arwyddion ac achosion Annigonolrwydd, neu Anffrwythlondeb mewn Benywod. .... .... .... .... .... .... 299
Anhwylderau y Groth. ... .... .... ... 312
Am anhwylderau brwd y groth. .... .... .... .... 312
Am anhwylderau oer y groth. .... .... .... .... 314
Am Enyniad y groth. .... .... .... .... 315
Am Uniondeb neu Gyfyngder y groth. .... .... .... 317
Am Gwympiad y groth. .... ... .... .... 319
Am glefydau perthynol i ddylifiad misol benywod. .... .. 323
Am Ddylifiadau misol benywod yn gyffredinol. .... .... *ib.*
Am Fis-llfiadau yn dyfod yn ddidrefn, naill ai cyn, neu wedi yr amser arferedig. .... .. .. .. .. .. .. 324


## Y DRYDEDD RAN.


Am y Pen. .. .. .. .. .. .... .. .. .. 338
Am y Llygaid. .... .... .... .... .... 340
Am y Trwyn. .... .... .... .... .... 345
Am y Clustiau. .... .... .... .... .... 347
Am y Safn. .... .. .. .. .. .. .. 348
Am y Dannedd. .. .. .. .. : .. 349
Am y Tafod. .. .. .. .. .. .. 352
Am daflod y Safn. .... .... .... .. 354
Am y Gwddf. .... .... .... 358
Am yr ysgwyddau a'r Breichiau. .... .... .... 359
Am y Dwylaw. .... .... .... .... .. 360
Am yr Ewinedd. .... .... .... .... .. 361

Am y Didcnau a'r Tethau. .... .... .... .. 361
Am y Galon. .... ... .... .... .... 367
Y Cylla. .. .. .. .. .. .. .. .. 371
Am y Gwaed. .. .. .. .. .. .. .. 371
Am y pision. — — — — — — 376
Am Had dyn neu anifeiliaid. — — — — 377
Am Ddcurywiolion. — — — — — 381
Am Anghenfilod. — - — - — — 385
Am Fabanod. .. .. — — — — 386
Am y plentyn yn y groth. — — — — — *ib.*
Am Erthyliad a Genedigaethau ananiserol. — — — 387
Am amrywiol Faterion. — — — — — 388
Gorchestion Marcus Antonius Zimaras Antipertias. — — 389
Gorchestion Alecsander Aphrodiscus. — — — — 401

## Y BEDWAREDD RAN.

Yr Arweiniad i mewn. .. .. .... .. 434
Am Forwyndod; pa beth yw, ei arwyddion a'i nodau, a pha fodd y gall dyn wybod pa un ai yw efe wedi priodi Gwyryf ai peidio. 436
Pa beth a ddylai Benyw wneuthur, mewn trefn i Feichiogi. —— 441
Pethau ag ydynt angenrheidiol i Fenywod i sylwi arnynt ar ol Beichiogiad. —— —— —— —— 444
Am Hyfrydwch a Budd Priodas, yr anghyfaddasrwydd o Briodasau anghyfartal. —— —— —— 445
Cod-lyfryn neu Gydymaith Byd-wragedd: yn cynnwys Cyfarwyddiadau neillduol i Fyd-wragedd, Mammaethod, &c. —— 454
Rhai Cyfarwyddiadau Digymysg, er Rhyddhad buan. —— 457
Cyfarwyddiadau profedig i Fammaethod. —— —— 463
Meddyginiaethau dewisol er ychwanegu Llaeth. —— —— 464
Y Diwedd-glo. —— —— —— —— 466

LLANRWST; ARGRAFFWYD GAN J. JONES.